

Bangor University

DOETHUR MEWN ATHRONIAETH

Triniaeth y cyfryngau o ddramaû Saunders Lewis

Roberts, Nia

Award date:
1997

Awarding institution:
University of Wales, Bangor

[Link to publication](#)

General rights

Copyright and moral rights for the publications made accessible in the public portal are retained by the authors and/or other copyright owners and it is a condition of accessing publications that users recognise and abide by the legal requirements associated with these rights.

- Users may download and print one copy of any publication from the public portal for the purpose of private study or research.
- You may not further distribute the material or use it for any profit-making activity or commercial gain
- You may freely distribute the URL identifying the publication in the public portal ?

Take down policy

If you believe that this document breaches copyright please contact us providing details, and we will remove access to the work immediately and investigate your claim.


Download date: 02. Apr. 2025

NIA ROBERTS

Ph.D 1997

TRINIAETH Y CYFRYNGAU O DDRAMÂU
SAUNDERS LEWIS

UNIVERSITY Ranger Wahos



CYNNWYS

i	Cynnwys
iv	Rhagair
vi	Lluniau

PENNOD 1: YR AWDUR A'R DDAU GYFRWNG

1	Y Dyn
7	Technegau'r ddau gyfrwng
15	Addasrwydd dramâu Saunders Lewis i'w cyfryngau

PENNOD 2: THEATR, RADIO A THELEDU

23	Datblygiad y Theatr yng Nghymru
44	Datblygiad y Radio yng Nghymru
62	Datblygiad y Teledu yng Nghymru

PENNOD 3: O'R GENRE I'R CYFRWNG

90	Trasiedi
107	Comedi a Ffars
117	Addasu a Chyfieithu
128	Drama Radio
141	Drama Deledu

PENNOD 4: TRIAWD EWROP

- 155 Brad a 1938
193 Gymerwch Chi Sigaret?

PENNOD 5: PEDAIR ARGLWYDDES

- 213 Blodeuwedd
233 Siwan
248 Branwen
257 Esther

PENNOD 6: Y GYMRU GYFOES

- 272 Cymru Fydd
282 Problemau Prifysgol ac Excelsior

PENNOD 7: JOHN ELIAS A'I OES

- 294 Merch Gwern Hywel
299 Dwy Briodas Ann

PENNOD 8: DWY STORI FENTHYG

- 313 Amlyn ac Amig
321 Y Cynol Chabert

PENNOD 9: YR ABSWRD

- 334 Cell y Grog ac Yn y Trên

PENNOD 10: CASGLIAD

- 341 Casgliad

ATODIADAU

- 347 Darllediadau
350 Manylion Darlledu
360 Adolygiadau'r Wasg
366 Llyfryddiaeth Dramâu Saunders Lewis
367 Llyfryddiaeth Gyffredinol

RHAGAIR

Mae gwaith a chyfraniad Saunders Lewis i lenyddiaeth Gymraeg yn eang, ac amhosibl fyddai cwmpasu ei ddylanwad yn y traethawd hwn. Drwy fy astudiaeth, rwyf wedi canolbwyntio ar yr un nofel a'r dramâu hynny sydd wedi cael y sylw amlycaf ar y cyfryngau - nid wyf wedi ymdrîn â gweithiau eraill megis Eisteddfod Bodran a Gan Bwyll, nac ychwaith Buchedd Garmon. Er mai hon oedd y ddrama gyntaf o'i waith i'w darlledu ar y radio, nid oes copi ar gael o'r darllediad ac anodd fyddai ei chloriannu. Nid wyf ychwaith wedi dadansoddi y dramâu eu hunain - byddai hynny yn destun traethawd ynndo'i hun - yn hytrach, canolbwyntiais ar y dehongliad ohonynt.

Wrth roi'r cynhyrchiadau yng nghyd-destun eu cyfryngau o ran datblygiad ac arddull, ceisiais fod yn deg â'r awdur a'r cynhyrchwyr. Mae ychydig fanylion ar goll o'r traethawd megis enwau rhai actorion a rhai dyddiadau darlledu; hynny yn ganlyniad o fethiant cyhoeddiadau megis Y Cymro a'r Faner i roi sylw i raglenni unigol. Ar sawl achlysur, dim ond y dyddiad recordio yr oedd y B.B.C. yn ei gofnodi ar dâp sain neu fideo. Ceisiais wneud iawn am hyn drwy holi actorion, ond ysywaeth, nid oes modd yn achos y cynhyrchiadau cynnar wneud hyn.

Rhennais y gwaith yn ôl perthynas y dramâu â'i gilydd, ond ambell waith, rhoddais weithiau yn eu trefn amseryddol, fel yn achos y Llyfryddiaeth Adolygiadau.

Byddai fy ngwaith wedi bod yn amhosibl heb gymorth parod Adran y Gymraeg, yn arbennig Mr. Dafydd Glyn Jones, yr Athro Gwyn Thomas, Mr. William Lewis a Mrs. Gwyneth Williams. Dymunaf hefyd ddiolch i'r canlynol:

Dr. Cen Williams, Mrs. Eleri Jones, Menna Morgan a Dot Jones,

Canolfan Bedwyr, Prifysgol Bangor.

Siôn Milner, Iris Cobbe a Liz Veasey, Gwasanaethau Llyfrgell B.B.C.

Cymru, Caerdydd.

Aled P. Jones, Adran Ddrama B.B.C. Bangor.

Ann Harris, Adran Ddrama B.B.C. Caerdydd.

Mr. Tomos Roberts, Archifydd Prifysgol Bangor.

Gareth England, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth.

Ymddiriedolaeth Syr Huw Wheldon am eu nawdd hael.

John Ogwen

Dai Rees Jones, Gwasanaethau Gwybodaeth Prifysgol Bangor.

LLUNIAU

Drwy ganiatâd caredig y canlynol: B.B.C. Cymru a'r Radio Times, S4C a Sbec,
Y Cymro, Golwg, Barn a Gwasg y Brifysgol.

Rhif y dudalen olynol:

- 1 Saunders Lewis, (o bamffled Gŵyl Garthewin 2 Gorffennaf 1994)
- 28 R.O.F. Wynne a theatr Garthewin (ibid.)
- 173 Brad (o Theatr y Cyfryngau gol. Emyr Edwards)
- 178 Brad (o'r Radio Times, 22 Chwefror 1968)
- 187 Brad (o Sbec 26 Chwefror 1994)
- 199 Gymerwch Chi Sigaret? (o Radio Times 14 Hydref 1965)
- 207 Gymerwch Chi Sigaret? (o Barn Ionawr 1992)
- 218 Blodeuwedd (o Radio Times 25 Chwefror 1965)
- 227 Blodeuwedd (o Wales and Cinema David Berry)
- 239 Siwan (o Wales and Cinema David Berry)
- 242 Siwan (o Radio Times 27 Chwefror 1969)
- 244 Siwan (o Sbec 20 Rhagfyr 1986)
- 262 Esther (o BAC 20 Gorffennaf 1961)
- 264 Esther (o Radio Times 26 Chwefror 1970)
- 296 Merch Gwern Hywel (o Radio Times, d.d.)
- 304 Merch Gwern Hywel (o Barn Hydref 1985)

PENNOD 1

YR AWDUR A'R DDAU GYFRWNG



CYFLWYNIAD

Wrth wrando ar Saunders Lewis yn darlledu ar radio'r B.B.C., cyfansoddodd R. Williams Parry yr englynion hyn:

Wedi'i wrthod a'i dlodi - mae'i genedl
Am gynnig ei besgi.
Pa beth arall a all hi?
Fe rodd ei fara iddi.

Drwy awyr wedi rhewi - ei hadar
Ehedant i'w borthi.
Diolch i Dduw a Dewi
Am gigfrain i'w harwain hi!

Ni welsai Cymru ŵr fel hwn o'r blaen; bu ei gyfraniad i ddiwylliant, gwleidyddiaeth a llenyddiaeth ein gwlad yn helaeth ac unigryw.

Ganwyd ef yn Wallasey ym 1893, yn ail fab i'r gweinidog Methodist Calфинаidd Lodwig Lewis, a'i fagu yno gan ei fodryb, Ellen Thomas, wedi colli ei fam yn saith oed. Addysgwyd ef yn ysgol breifat Liscard, ble y cafodd y llysenw "Sandy", cyn mynd i Brifysgol Lerpwl; ond amharodd y Rhyfel Mawr ar ei radd gan y bu iddo fynd i'r Fyddin cyn dychwelyd i gwblhau ei addysg ac ennill gradd Dosbarth Cyntaf mewn Saesneg ym 1920.¹ Roedd yn falch o'i gyfnod yn y South Wales Borderers a daliai fod traddodiad y milwr yn un pwysig - syniad sy'n amlwg mewn nifer o'i ddramâu, megis Brad, 1938 ac Y Cyrnol Chabert ac yn elfen gref mewn eraill. Wedi graddio, roedd a'i fryd ar fod yn llenor Saesneg, a hyn a barodd iddo gyfansoddi ei ddrama gyntaf, The Eve of Saint John, yn Saesneg ym 1921. Mae'n amlwg nad oedd beirniad radio'r Observer yn ymwybodol o hyn gan iddo honni flynyddoedd yn ddiweddarach fod Lewis yn gwrthod ysgrifennu yn y Saesneg. Meddai yntau mewn ateb i'r papur:

Will you allow me to assure your radio critic that I do not "refuse to write in English"? I have published many articles of literary interpretation in English, and very many articles and pamphlets on Welsh economic

affairs. But I do not attempt verse or any creative imaginative work in English, not out of any perversity, but simply because Welsh is my mother tongue and the only language in which I can cope with creative work fairly well.²

Wedi graddio, aeth i Sir Forgannwg fel Cyfarwyddwr Llyfrgelloedd Gwledig am flwyddyn cyn ymuno â staff Adran Gymraeg Coleg Prifysgol Abertawe lle bu am bedair blynedd ar ddeg.³ Yn ystod yr un cyfnod, cychwynnodd ar ei weithgarwch fel un o feirniaid llenyddol pennaf Cymru, gan gyhoeddi deunydd chwyldroadol ar lenyddiaeth Gymraeg o'r chweched ganrif ymlaen, yn erthyglau a llyfrau, megis Williams Pantycelyn a Braslun o Hanes Llenyddiaeth Gymraeg.

Ni fynnaf fynd i fanylu am ei gredoau na gwaith ei fywyd, gan y byddai hynny yn ymchwil ar ei ben ei hun; dymunaf yn unig greu darlun bras o'r gŵr a gyfansoddodd rai o brif weithiau dramatig Cymraeg y ganrif hon. Geilw John Rowlands ef yn ei gyfrol Saunders y Beirniad yn "...artist o'i gorun i'w sawdl"⁴, gan bwysleisio undod ei weledigaeth yn hytrach na'i weithredoedd unigol; ond eto, dianc oddi wrth ei gynulleidfa y byddai wedi perfformiad o'i ddrama, "...stealing furtively away..." fel y sylwodd Cymro y Liverpool Daily Post wedi perfformiad Eisteddfod Glyn Ebwy o Brad.⁵

Daeth Lewis o'r fyddin yn awyddus i greu ymwybyddiaeth yn y Cymry o'u diwylliant a'u traddodiadau eu hunain, a dyna gychwyn ei daith tuag at genedlaetholdeb. Aeth gwleidyddiaeth â'i fryd; ef oedd un o sylfaenwyr Plaid Genedlaethol Cymru a'i llywydd rhwng 1926 a 1939, er ei fod yn sicr na fyddai pobl Cymru yn ei dderbyn fel arweinydd. Fe geisiodd ymddiswyddo o'r llywyddiaeth sawl gwaith yn ystod ei flynyddoedd olaf yn y swydd, yn rhannol oherwydd ei grefydd. Catholig oedd ei wraig, Margaret, ac ym 1932 bu i Lewis ymuno â hi yn Eglwys Rufain - dewis nad oedd yn hawdd i'r Ymneilltuwyr Cymraeg traddodiadol ei ddeall. Gwelwn Sarah, merch Gwern Hywel, fel ymgorfforiad ohono ef, yn dewis ei chredo er gwaethaf yr anawsterau.

Ym 1936, aeth Saunders Lewis, ynghyd â Lewis Valentine a D.J. Williams, i Benyberth, Llŷn, a llosgi safle'r Ysgol Fomio yno cyn mynd i

swyddfa'r heddlu ym Mhwillheli i gyfaddef eu trosedd - gweithred fawr i un nad oedd wedi byw yng Nghymru yn barhaol nes yr oedd yn 28 oed. Carcharwyd y tri am naw mis yn Wormwood Scrubs a cholodd Saunders Lewis ei swydd yn y Brifysgol o'r herwydd, er i Gymry amlwg lawer ymbil am ei ail benodi. Ni fu iddo wneud cyfraniad mor amlwg i wleidyddiaeth wedi hynny, er iddo ysgrifennu colofn Cwrs y Byd i'r Faner yn wythnosol o Ionawr 1939 hyd at 2 Gorffennaf 1951 ar faterion o bwys cymdeithasol - mae tua 560 o erthyglau yn y gyfres i gyd.

Er efallai yn rhwystr iddo yn wleidyddol, bu ei Gatholigiaeth yn hwb iddo yn greadigol. Tynnwyd ef at Wynniaid Garthewin, a'r capel bychan yn yr ystâd a oedd yn gymaint canolbwynt i'r teulu, a thrwy hynny, at y theatr fechan gerllaw. Cyfansoddodd nifer o'i ddramâu ar gyfer y llwyfan hwn, a chadw cysylltiad clos â Robert Wynne, a oedd wedi dysgu Cymraeg; ac fel Lewis ei hun, yn genedlaetholwr mawr, a'i wraig, Nina. Cyn darlledu ei ddarlith Tynged yr Iaith, gyrodd nodyn at Nina Wynne yn diolch am wahoddiad yno, ar gerdyn post. Eironig yw meddwl ei fod wedi traddodi darlith fwyaf ysgytwol yr ugeinfed ganrif i Gymru wedi ysgrifennu nodyn oriau ynghynt ar gefn cerdyn a darlun arno o'r Fadonna ac angel.⁶

Roedd gan Robert Wynne gysylltiadau â mudiadau treisgar, ac nid oedd yn petruso cyn lleisio ei farn, a oedd yn aml yn gref, yn gyhoeddus. Ysgrifennodd Saunders Lewis ato ar y deunawfed o Fedi 1968, wedi darlledu sgwrs rhwng Wynne a Touhy ar y rhaglen Twenty Four Hours yn ychydig ddyddiau ynghynt. Meddai:

Fy annwyl Robert,

I have no television set but many people I've met have much praised your courageous speech on the Twenty-four Hours programme, and in view of the Plaid Cymru officials' attitude towards you, I think you ought to know this. Plaid Cymru is all out for costless popularity; it is a grave deterioration.

Cofion gorau;

Saunders.

This needs no answer.⁷

Dengys y nodyn hwn agwedd Saunders Lewis tuag at y Blaid, er ei fod o hyd yn genedlaetholwr. Dadleuodd Lewis ei hun ar y teledu yn yr un flwyddyn o blaid y defnydd o drais; meddai:

Rydw i'n credu yn bersonol fod trais gofalus,
ystyriol, cyhoeddus, yn arf angenrheidiol yn
aml i fudiadau cenedlaethol...⁸

Gwnaethpwyd ef yn Llywydd Anrhydeddus Cymdeithas yr Iaith; ond ym 1976 bu iddo ymddiswyddo oherwydd gwrthwynebiad ar eu rhan fod y Goron yn Eisteddfod Genedlaethol Aberteifi yn cael ei noddi gan yr R.A.E. yn Aberporth.⁹

Yn ail hanner y ganrif, roedd Saunders Lewis yn amlycach oherwydd ei lenyddiaeth na'i syniadaeth, ond bu iddo gychwyn ar ei yrfa greadigol ymhell cyn hyn. Fel y crybwyllais, bu iddo gyhoeddi ei ddrama gyntaf ym 1921, a daeth ei ail, Gwaed yr Uchelwyr, flwyddyn yn ddiweddarach a Doctor ar ei Waethaf ym 1924. Ym 1930, cyhoeddwyd ei nofel gyntaf Monica, a oedd yn dra gwahanol i'r nofelau Cymraeg eraill ar y farchnad ar y pryd. Fel y sylwodd Kate Roberts yn y gyfrol Saunders Lewis: Ei Feddwl a'i Waith, un o'r rhesymau am hyn oedd ei bod wedi ei lleoli nid mewn cymdeithas Gymraeg, ond mewn maestref Seisnig, ac yn fwy llenyddol ei sgwrsio na nofelau eraill. Meddai am yr awdur:

Iddo ef, sŵn yr iaith lafar yw'r Gymraeg a glywodd ar ei aelwyd gartref, a hwnnw cyn debyced i iaith llyfr ag y gellid disgwyl iddo fod. I lenorion a faged yng Nghymru, sŵn yr iaith lafar yw tafodiaith eu bro enedigol, sy'n llawn o idiomau a chystrawennau nas ceir bob amser mewn llyfr, a'u gwaith hwy fu rhoi ffurfiau'r iaith lafar mewn gwisg lenyddol.....Credaf y byddai'n anodd i Saunders Lewis ysgrifennu stori ag iddi gefndir unrhyw sir Gymreig, a defnyddio nid yn unig dafodiaith y sir honno yn y siarad, eithr defnyddio ei phriod-ddulliau yn yr iaith lenyddol. Brysiau i ddywedyd nad yw llawer o awduron a faged yn ardaloedd Cymreig

Cymru yn medru gwneud hynny chwaith. Da felly y gosododd ei unig nofel ym maestref dinas boblog ddi-Gymraeg.¹⁰

Canmoliaeth a rydd Roberts hefyd i'w harddull a'i chynnwys, gan fentro datgan fod yn Saunders Lewis wneuthuriad nofelydd da. Bu iddo ysgrifennu nofel arall, Merch Gwern Hywel, yn cynnwys mwy o elfennau amlwg Gymreig megis ei thrafodaethau am Fethodistiaeth. Er iddi gael ei chyhoeddi ym 1964, gallasai fod wedi cael ei chyfansoddi hanner canrif ynghynt gan mor draddodiadol yw ei harddull.

Roedd Lewis yn fardd, a'i gerddi yn llwythog o "rym a chymhlethdod deallusol" yn ôl Branwen Jarvis, sy'n ei alw yn fardd "...o ddysg eithriadol...".¹¹ Nid yw swm ei gerddi yn sylweddol, ond gwnaeth 'Marwnad Syr John Edward Lloyd', 'Y Dilyw 1939', 'Mair Fadlen', 'Gweddi'r Terfyn' a 'Difiau Dyrchafael' ymysg eraill argraff ddofn ar ei gynulleidfa, yn ysbrydol yn ogystal ag yn llenyddol. Cred Jarvis mai ynddynt hwy y mae cyfraniad pennaf Saunders Lewis i'n llenyddiaeth, ond y farn boblogaidd yw mai ei ddramâu yw hwnnw.

Efallai fod peth dadlau ynglŷn â pha genre oedd cryfder Lewis; ond mae'n sicr mai ei ddramâu sydd fwyaf adnabyddus heddiw. Y maent oll yn tynnu ar brofiadau'r dramodydd - ceir ei achau yn Merch Gwern Hywel, ei gefndir milwrol yn nramâu Ewrop a'i ddiddordeb mewn llenyddiaeth yn Branwen, Blodeuwedd ac Amlyn ac Amig. Mae ei syniad o bwysigrwydd traddodiad a ffyddlondeb yn thema yn amryw o'i weithiau dramatig; a thebygol yw ei fod yn tynnu ar ei brofiadau yn y carchar wrth gyfansoddi Cell y Grog a Cymru Fydd. Wrth gyfansoddi ei gomedïau, dangos ei ddirmyg yr oedd Lewis at y gymdeithas lygredig o'i amgylch - tybed faint o staff Coleg Prifysgol Abertawe a welodd eu hunain ar set Problemau Prifysgol?

Beth bynnag fo eu cefndir, y maent oll yn ddramâu sydd yn gosod safon i ddramodwyr diweddar yn eu cynnwys, eu harddull a symledd eu cyflwyniad. Er fod Cymru Fydd, Excelsior a Problemau Prifysgol yn arwyddocaol i'r cyfnod y'u cyfansoddwyd, maent heddiw yn sefyll yn weithiau o lenyddiaeth ar wahân er eu tynnu o'r sefyllfa honno.

Bu llawer o feirniadu ar Saunders Lewis ei hun yn ystod ei fywyd ac wedi hynny, ond ychydig a fyddai'n gwadu ei ddylanwad, boed yn adeiladol neu'n negyddol, ar Gymru'r ugeinfed ganrif. Fe'i henwebwyd am wobr Nobel yn groes i'w ddymuniad, ac arhosodd yn driw i'r pethau hynny oedd agosaf at ei galon. Disgrifiodd John Rowlands ef fel hyn:

Er mor llegach a brau y gallasai Saunders Lewis ymddangos yn gorfforol, doedd dim angen gwrando arno'n llefaru am ychydig funudau cyn sylweddoli'i fod yn gadarn dŵr o ran ei adnoddau deallusol. Doedd ganddo affliw o ddim i'w ddweud wrth fân siarad corachod. Ac roedd gwrando arno'n darlithio'n gyhoeddus yn gadael argraff seriol ar ei gynulleidfa.¹²

Mae gennym fel cenedl yn John Saunders Lewis eilun i'n byd llenyddol - yr hyn a allodd hwn, ef a'i gwnaeth. Nid wyf yn yr astudiaeth hon o'i waith yn dymuno nac yn ceisio cynnig dadansoddiad o'i lenyddiaeth; nag ychwaith olrhain y dylanwadau y tu cefn iddynt na safbwynt personol eu hawdur. Rydwyf wedi ceisio edrych ar y dramâu a'r nofel fel gweithiau sy'n sylfaen i waith y cynhyrchwyr radio a theledu; eu gwaith hwy a'u dehongliad o waith Lewis sydd oddi tan fy chwyddwydr, nid y llenyddiaeth sy'n gymaint rhan o'n hetifeddiaeth gelfyddydol.

Technegau'r ddau Gyfrwng

Gan fod ei ddramâu yn meddu safle mor bwysig yn ein llên, mae'n anhepgor eu bod yn mynnu sylw ar y cyfryngau. Mae amryw ohonynt wedi eu cyfansoddi ar gyfer y radio, ac felly, nid oes angen addasu fawr ddim arnynt er mwyn cyflwyno rhaglen radio lwyddiannus. Mae'r un peth yn wir am Branwen, a gafodd ei chyfansoddi ar gyfer y teledu; ond yn achos y dramâu llwyfan, mae peth gwaith yn angenrheidiol arnynt i sicrhau llwyddiant ar y cyfrwng. Yn yr un modd, pan geisir cynhyrchu un o ddramâu radio Lewis ar y teledu, bydd gwaith addasu yn angenrheidiol.

Er mwyn addasu drama lwyfan ar gyfer un o'r ddau gyfrwng, mae'n rhaid edrych yn fanwl ar y sript wreiddiol - yn aml bydd rhyw ddigwydd oddi ar y llwyfan, megis boddi Rhagnell yn y gerwyn ddŵr yn Blodeuwedd, neu Iris yn garcharor yn Gymerwch Chi Sigaret? - golygfeydd y byddai'n amhosibl eu portreadu'n effeithiol ar y llwyfan ond sydd yn bosibl ar y sgrîn fach ac yn ychwanegu elfennau o gyffro i'r cynhyrchiad. Ni fydd yn rhaid cynnwys holl ddeialog y ddrama wreiddiol gan fod y camera yn gallu dangos yn fwy effeithiol gyda llun rywbeth sy'n rhan o ddeialog eglurhaol. Er mwyn cyflwyno'r un sript ar y radio, y mae'r gwrthwyneb yn wir. Mae'n rhaid ychwanegu elfennau i egluro set lwyfan a rhai o weithredoedd y cymeriadau - gellir defnyddio sain neu eiriau; fel y gwelwn yn Siwan - ni welwn y cadwynau sy'n clymu'r dywysoges wrth wely ei chell, felly gallai cynhyrchydd ddewis ychwanegu effaith sain i ni eu clywed, neu roi eglurhad yng ngenau Alis y forwyn.

Mae'r un anawsterau yn codi wrth gyflwyno un o ddramâu radio Lewis ar y teledu - bydd rhaid colli mwy o ddeialog eglurhaol o'r sript yma nag wrth roi drama lwyfan ar y teledu, ond bydd rhaid creu set, gwisgoedd a symudiadau i'r cymeriadau heb ganllaw'r cyfarwyddiadau llwyfan. Ar y llaw arall, mae rhwydd hnt yma i'r cynhyrchydd a'r cyfarwyddwr roi eu stamp eu hunain ar y ddrama.

Yn achos Branwen, mae'r gwrthwyneb yn wir wrth ei chyflwyno ar y radio. Mae i'r ddrama rai o elfennau drama deledu, megis yr olygfa o Branwen ac Efnisien yn y gwely yng nghychwyn yr act gyntaf. Ni fyddai'n bosibl creu'r

un syndod yn y gynulleidfa wrth egluro'r lleoliad ar y radio, a'r ergyd o weld brawd a chwaer yn cydwelya. Gan mai'r llogach hwn yw cymhelliad Efnisien yn nrama Saunders Lewis, byddai'r gwrandawr radio dan anfantais yn syth o fethu â gweld yr olygfa agoriadol.

Pan gynhyrchir drama ar y llwyfan, mae gennym fel cynulleidfa ein llygaid a'n clustiau i sylwi ar y digwydd. Ar y radio, rydym yn colli un o'r synhwyrâu hyn, ac fel yn achos un dall, cawn yr argraff fod y synnwyr sydd ar ôl rhywfaint yn gryfach. Caiff y cynhyrchydd radio ddewis o sawl techneg i egluro'r digwydd - effeithiau sain i ddynodi rhyw sŵn nad ydyw yn ddynol - gwynt, drws yn cau, car yn mynd heibio; effeithiau i ddangos lleoliad (sŵn traed, pellter yn y llais drwy gyfrwng eco) a cherddoriaeth i awgrymu nawws yr olygfa.

Mewn cynhyrchiad teledu, mae'r dechnoleg a ddefnyddir yn llawer ehangach. Y peiriant amlycaf mewn rhaglen deledu yw'r camera, ond nid dangos beth sy'n digwydd yn unig yw ei swyddogaeth. Gall ddangos i ni beth i ganolbwyntio arno, neu ddewis peidio â dangos rhywbeth arbennig; ond ei brif nodwedd yw'r saethiadau.

Mae beth a welir ar y sgrîn yn ddibynnol ar pa saethiad a ddefnyddir. Er mwyn dangos tirlun eang, defnyddir saethiad llydan, ond i ddangos un gwrthrych beth pellter i ffwrdd, mae gennym saethiad pell. Defnyddir saethiadau canolig ar gyfer golygfeydd eithaf agos; dyweder i ddangos criw o bobl o amgylch bwrdd bwyd, a saethiadau agos ar gyfer un cymeriad neu wrthrych yn unig. I bwysleisio manylyn, gellir closio'r camera at y gwrthrych mewn saethiad manwl, neu agos iawn. Er enghraifft, pe byddai angen dangos y llaswyr yn syrthio o'r blwch sigareti yn Gymerwch Chi Sigaret?, gellid canolbwyntio sylw'r gwylwyr drwy ddefnyddio saethiad manwl gyda defnydd o sain i awgrymu cyffro.

Nid pennu ffrâm y llun yw unig dric y camera - mae'r ffordd y'i delir hefyd yn bwysig. I gael llun llonydd, pendant o wrthrych, yn arddull y newyddion, rhoir y peiriant ar drybedd, ond os am greu cyffro neu'r argraff o symud neu redeg, gall y dyn camera ei roi ar yr ysgwydd. Gellir hefyd ffilmio o onglau gwahanol - i roi'r argraff o faint neu bwysigrwydd cymeriad, defnyddir ongl isel, sef gostwng lefel y camera er mwyn edrych i fyny arno; ac i'r gwrthwyneb - i fychanu cymeriad, defnyddir ongl uchel ble mae'r camera yn

edrych i lawr ato. Defnyddir y dechneg hon mewn cyfweiliadau a rhaglenni newyddion i roi safbwynt y cynhyrhydd i'r gwyliwr - ni fyddai cynghorydd sydd am godi trethi yn edrych mor bwysig petai ei gynulleidfa yn edrych i lawr arno.

Pan yw cymeriad yn symud ar draws y set, mae sawl ffordd y gall llygad y camera ei ddilyn. Gellir dilyn y cymeriad o'r unfan, neu grancio, sef symud y camera o'r chwith i'r dde; cledru (symud y camera yn ôl neu ymlaen i ddilyn y cymeriad); tremio (troi llygad y camera ar ei echel i gadw'r gwrthrych yn y llun - peth a elwir yn 'pan'); neu lacio a thynhau ffocws y camera i gynnwys mwy o'r cefndir. Pe byddai angen symudiad cyflymach neu bellach, gellid defnyddio'r dechneg o drolio, sef rhoi'r camera ar sylfaen a elwir yn ddoli a'i symud i ble bynnag bo'r angen. Defnyddir hyn gan amlaf mewn stiwdio - gall y llawr fod yn anwastad ar leoliad allanol ac achosi i'r llun ysgwyd wrth symud y ddoli.

Wrth gynhyrchu drama, mae'n bosibl y bydd angen defnyddio nifer o'r technegau hyn, ac y bydd yn rhaid cael sawl camera. Bydd ar y cynhyrhydd angen camera sefydlog, camera ar ysgwydd, neu hyd yn oed camera rostrwm wedi ei grogi o'r to er mwyn edrych i lawr ar y digwydd (defnyddir hyn yn aml wrth ffilmio golygfa garu yn y gwely, neu raglenni coginio ble mae angen gweld yn union beth sy'n cael ei wneud).

Wedi penderfynu ar y dechneg ffilmio, mae'n rhaid meddwl am gyfansoddiad y llun. Gwaith y cyfarwyddwr yw hyn, a thasg allweddol os am greu rhaglen ddiddorol. Mewn bwletin newyddion, mae lleoli'r darlennydd yn syml - un ai y tu ôl i ddesg yng nghanol y sgrîn neu i un ochr er mwyn gallu dangos lluniau o'r penawdau ar ochr arall y sgrîn. Mae plotio symudiadau a saethiadau drama yn fwy cymhleth - rhaid cadw sylw'r gynulleidfa drwy'r cynhyrchiad. Nid drwy roi'r cymeriad sy'n siarad yng nghanol y llun y mae gwneud hyn - er ei bod yn bosibl creu darlun pwerus wrth wneud hyn mewn rhai sefyllfaoedd - yn hytrach, drwy geisio rhoi mwy nag un elfen i ni ar unwaith. Mae tair rhan i'r sgrîn deledu, ac mae'n rhaid eu defnyddio'n ddoeth; gellir gwahanu'r llun ar draws neu am i lawr, a rhoi rhywbeth i'r gwyliwr ym mhob un. Er enghraifft, gellir rhoi cymeriad yn nhraean chwith y llun, ffôn yn y traean canol ac yn y cefndir ar y wal ar ochr dde'r llun, cloc. Byddai hyn yn syth yn

creu chwilfrydedd ym meddwl y gwyliwr - pwy sydd heb ffônio? Pe byddai angen dangos sgwrs rhwng dau gymeriad, byddai'n ddoethach eu rhoi yn nhraeanau ymylol y llun na gadael gwagle y tu cefn i un ohonynt. Wedi dweud hynny, mewn golygfa ddadlennol, gellir creu saethiad trawiadol ac artistig drwy dorri'r rheolau a synnu'r gynulleidfa.

Gellir gwneud llawer mwy na dangos un llun ar y tro ar sgrîn deledu - mae technoleg fideo wedi galluogi cynhyrchwyr a golygyddion i ddefnyddio sawl effaith, megis y sgrîn hollt, ble gwelir mwy nag un llun o ffynonellau gwahanol ar y sgrîn ar unwaith, neu'r *montage* sy'n lluchio atom nifer o wahanol luniau a sefyllfaoedd mewn amser byr. Mae rhoi lluniau ar bennau'i gilydd hefyd yn bosibl, gan ei gwneud yn hawdd cynhyrchu drama am efeilliaid gan ddefnyddio un actor yn y ddwy ran; ac er mwyn creu effaith o amser yn pasio yn araf neu'n gyflym, gellir amrywio cyflymdra'r tâp.

Ni ellir cychwyn defnyddio un o'r technegau hyn heb yn gyntaf feddwl am y goleuo. Yn y mwyafrif o achosion, nid yw goleuni naturiol yn ddigonol i ffilmio rhaglen deledu, felly mae'n rhaid meddwl am yr effaith y mae angen ei chreu. Yn y stiwdio, mae'n rhaid dewis y math o olau sy'n addas ar gyfer y rhaglen. Gellir defnyddio golau meddal i bortreadu lolfa glyd neu olau caled i ddynodi golau'r haul neu swyddfa â goleuadau sribyn. Mae'r nifer o lampau a ddefnyddir a'u cryfder yn mynd i ddylanwadu ar ansawdd y golau, a'u lleoliad yn pennu safle'r cysgodion. Tra'n ffilmio ar leoliad allanol, bydd angen ychydig o gymorth ar olau'r haul - er ei fod yn ddigon llachar, nid yw yn y lleoliad iawn i oleuo wynebaw cymeriadau, felly defnyddir byrddau adlewyrchu - darnau mawr o gerdyn gwyn neu arian sy'n cael eu dal yn isel a'u hanelu tuag at yr wyneb er mwyn creu ffynhonnell o olau o'r llawr.

Gellir defnyddio ffiltrau ar y lampau er mwyn creu effaith - gwnaeth Siôn Humphreys hyn yn Blodeuwedd drwy roi lliw gwahanol i bob golygfa i weddu â'r digwydd. Plastig lliw dros lygad y camera sy'n gyfrifol am y lliw hwn, ac mae ei effaith yn ddigon syml. Bydd melyn yn awgrymu dedwyddwch a choch yn dynodi tywallt gwaed; ond mae'n rhaid cofio na ddylid defnyddio techneg fel hon ar y cyd â gwaith camera cymhleth neu fframio anarferol. Mae'r dywediad

“less is more” yn wir yma - wrth lwytho rhaglen ag effeithiau bydd yn anwyliadwy.

Bydd cryfder y lampau ac ansawdd y golau yn pennu i raddau helaeth naws ac awyrgylch y cynhyrchiad. Er enghraifft, yn y cynhyrchiadau diweddaraf o Brad a Gymerwch Chi Sigaret? ni ddefnyddir cymaint o olau â'r disgwyl, gan greu ffilmau tywyll, difrif, sy'n adlewyrchu sefyllfa'r cymeriadau ar y pryd - Marc ac Iris yn byw dan lygad y comiwnyddion a'r Almaen dan ormes Hitler. Mae techneg goleuo rhaglenni ysgafn i'r gwrthwyneb - gwelwn fod canran helaeth o gomedïau sefyllfa a ffilmau doniol wedi eu goleuo'n helaeth. Yng ngwaith y cyfarwyddwr David Lynch, gwelwn ymgais fwriadol i synnu'r gynulleidfa drwy wyrdroi'r rheol hon - yn saethiad agoriadol ei ffilm Blue Velvet gwelwn drwy lygad camera uchel iawn awyr las a choed gwyrddion; arwydd o'r diwrnod perffaith yn y wlad, ond wrth i'r camera ostwng tuag at y llawr, yn nes at y borfa drwchus, yr ydym yn cael ein synnu wrth weld clust ddynol yn gorwedd ar y gwellt. Gallodd Lynch yma hudo'r gynulleidfa i feddwl eu bod yn gwyllo ffilm “neis” heb iddynt gael yr amser i'w paratoi eu hunain ar gyfer sioc - techneg boblogaidd ganddo fel y gwelwn yn Wild at Heart a'r gyfres ryfedd Twin Peaks.

Rhaid yw deall rheolau'r cyfrwng a'u meistroli cyn mentro eu torri fel y gwnaeth Pasolini gyda'i saethiadau agos iawn o gymeriadau a Lynch gyda'i oleuo camarweiniol. Agwedd arall y mae'n angenrheidiol cael dealltwriaeth fanwl ohoni yw'r sain. Nid mater o ddal meicroffon i gyfeiriad y digwydd yw recordio sain ar gyfer drama neu ffilm. Nid oes gan yr actorion feicroffonau personol fel darllenwyr newyddion, felly mae'n rhaid dilyn eu lleisiau wrth iddynt symud er mwyn dal y cyfan o'u deialog - y ffordd hawsaf o wneud hyn yw defnyddio genwair. Meicroffon yw hwn ar ffon hir sy'n galluogi'r technegydd sain i'w ddal uwchben y digwydd. Er mwyn recordio sain ar leoliad allanol, rhoddir gorchudd sy'n edrych yn debyg iawn i lygoden fawr ar y meic er mwyn lleihau sŵn cefndir megis gwynt a thraffig.

Weithiau, bydd gormod o sŵn cefndir i'w glywed nes ei fod yn amharu ar y ddeialog - bryd hynny bydd rhaid dybio'r sgwrs yn ôl yn y stiwdio. Gellir gwneud hyn drwy gyfrwng seiniau rhyddion - recordir traciau sain ar leoliad i

gael y synau cefndir, ac wedi dychwelyd i'r stiwdio, gostwng y sain i lefel dderbyniol cyn recordio'r ddeialog ar ei ben. Gellir defnyddio'r dechneg hon i ychwanegu sain i ffilm mewn lefelau, gan roi i'r cyfarwyddwr reolaeth gyfangwbl dros beth a glywir ar y rhaglen orffenedig.

Yn y stiwdio, nid oes yr un anawsterau. Gan fod lleoliad fel hwn yn debyg o fod wedi'i insiwleiddio rhag sŵn o'r tu allan, gellir ychwanegu beth bynnag synau a fo angen wedi'r ffilmio. Mewn rhai achosion, nid oes rhaid defnyddio genwair ychwaith, gan fod meicroffonau sy'n hongian o'r nenfwd yn codi pob smic, a gall y technegwyr benderfynu pa rai i'w defnyddio - mae hyn yn ddefnyddiol iawn wrth ffilmio rhaglen sgwrs ble mae'r gynulleidfa yn cymryd rhan, er enghraifft Question Time, Pawb a'i Farn neu Elinor.

Mewn drama deledu, bydd angen defnyddio cerddoriaeth i greu awyrgylch; a gellir gwneud hyn mewn nifer o wahanol ffyrdd. Mae cerddoriaeth yn cael ei derbyn fel cefndir ym myd y teledu - pe byddai cynulleidfa yn clywed melodi isel ar y piano mewn ffilm ramant, ni fyddent yn poeni nad oes neb i'w weld ar y sgrîn yn canu'r offeryn. Fel y math o olau a ddefnyddir, mae'r math o gerddoriaeth hefyd yn pennu naws cynhyrchiad. Rydym yn adnabod ffilm arswyd oddi wrth ei miwsig dramatig, a chomedi oddi wrth ei melodïau ysgafn, cyflym, a gellir creu yr un effaith mewn dramâu difrif drwy ddefnyddio'r un syniad mewn cymedroldeb. Dylai'r gerddoriaeth fod yn gefndir, nid yn ffactor amlwg yn y cynhyrchiad; ac fel rheol, os yw'r gwyliwr yn sylwi ar y gerddoriaeth, mae'n rhy gryf.

Mae'r defnydd o ganeuon rhywfaint yn wahanol - os oes geiriau, mae'n debyg eu bod yn ychwanegu at ystyr y ddrama neu'r olygfa. Defnyddir penillion gwerin yng nghynhyrchiad 1976 o Merch Gwern Hywel er mwyn dilyn hynt y pâr priod ar eu ffordd i Fôn; a'r rheini yn adrodd rhai o'u profiadau yn gefndir i *montage* o'r daith. Yn yr un modd, defnyddiodd Gareth Wynn Jones emyn dôn yn fath o thema i'w gynhyrchiad o Brad, gan ddangos Else a Hofacker yn ei chanu cyn methiant y cynllwyn, Else yn canu'r dôn ar y piano wrth hiraethu am ei chariad, ac i gloi'r cynhyrchiad yn drawiadol clywn Hofacker yn ei chanu wrth i'r Iarllles eistedd ar y grisïau wedi ei golli i'r Natsïaid.

Wedi sicrhau fod yr holl elfennau hyn yn cael eu defnyddio er mwyn cael yr effaith iawn, mae'n rhaid meddwl am gynnwys y llun ar y sgrîn. Mewn drama deledu, mae'n bwysig fod y set a ddefnyddir yn addas - gall fod yn realistig neu yn symbolaidd, ond mae'n rhaid iddi fod yn safonol. Mae dramâu Saunders Lewis yn rhai sydd wedi eu gosod y tu mewn yn hytrach nag yn yr awyr agored, ac felly mae'n bosibl adeiladu set yn arbennig ar eu cyfer neu ffilmio ar leoliad mewn adeilad addas. Yn achos cynhyrchiadau fel Amlyn ac Amig (1986), Brad (1994) a Gymerwch Chi Sigaret (1992) bu ffilmio ar leoliad yn llwyddiant ar y cyfan, gan roi naws hanesyddol i'r cynyrchiadau. Bu Blodeuwedd (1990) yn llwyddiant wedi ei ffilmio yn gyfangwbl yn yr awyr agored - gan ei bod yn dilyn hanes o'r Mabinogi, roedd defnyddio tirlun Cymru yn addas iawn. Ar y llaw arall, nid methiant yw defnyddio set; fel y gwelwyd yng nghynhyrchiad myfyrwyr Aberystwyth o Blodeuwedd (1980). Ni cheisiwyd dangos neuadd wych, yn hytrach cafwyd set symbolaidd heb gelfi ar wahân i'r crwyn anifeiliaid ar y llawr. Effeithiol hefyd oedd set Dwy Briodas Ann (1973) gyda'i blodau lliwgar; ond cefais siom gyda set Brad (1968) a'i diffyg celfi a'r olygfa ffug allan o'r ffenestr.

Mae'n deg dweud fod yr holl olygfeydd allanol a ddefnyddiwyd yn y telediadau o ddramâu Saunders Lewis yn addas tu hwnt, gyda sŵn gwynt yn unig yn amharu ar un neu ddwy ohonynt; ac yn gefndir buddiol i'r actorion. Yr actorion, wedi'r cyfan, yw canolbwynt unrhyw ddrama, ac mae'n rhaid eu trawsffurfio i lun y cymeriadau. Gellir eu coluro yn naturiol neu i effaith arbennig, megis Amig wahanglwyfus. Hyd yn oed wrth eu coluro'n naturiol, mae angen tipyn o waith ar wyneb actor cyn y ffilmio. Mae'r goleuadau cryf a ddefnyddir yn gwelw'r wyneb, felly rhaid rhoi lliw i'r croen, a phowdr wyneb rhag i wres y lampau doddi'r hylif sylfaen. Gall y camera hefyd wneud llygaid a cheg actor yn anweladwy, felly rhaid rhoi minlliw cryfach nag sydd ei angen, a lliw o amgylch y llygaid (yn aml, defnyddir pensil gwyn y tu fewn i'r llygaid i wneud iddynt edrych yn fwy). Mae eu gwisgoedd hefyd yn bwysig - mae'n rhaid peidio â defnyddio gormod o liwiau megis du, gwyn a glas - mae du yn mynd ar goll, gwyn yn tueddu i ddisgleirio a glas yn toddi i sawl cefndir. Rhaid peidio â defnyddio gormod o batrwm ychwaith, yn enwedig streipiau a smotiau mân.

Wedi ffilmio'r rhaglen, mae'n rhaid trosglwyddo'r ffilm i'r golygyddion, sy'n rhoi'r golygfeydd at ei gilydd yn gelfydd. Gellir creu pethau na fyddant yn bosibl eu ffilmio go iawn yn yr ystafell olygu, megis cymeriad yn disgyn o ben adeilad. Wedi ffilmio'r cymeriad yn disgyn pellter byr, ac yn glanio yn ddianaf, gellir ychwanegu saethiad hir o ddymi neu styntiwr yn disgyn cyn torri'n ôl i lun y cymeriad ar y llawr. Gellir rhoi cefndir gwahanol i olygfa drwy roi lluniau ar ben ei gilydd, a chreu effeithiau megis ysbryd yn pasio drwy gorff dynol.

Mae cynhyrchu ffilm felly yn fwy cymhleth nag yr ymddengys ar yr olwg gyntaf, a dylid canmol unrhyw gynhyrchydd sy'n llwyddo i gyflwyno un o ddramâu Saunders Lewis mewn modd synhwyrol a chreadigol. Yn fy nhrafodaethau o'r dramâu teledu, byddaf yn pigo ar wallau bychain iawn; efallai yn rhy feirniadol, ond drwy hyn, gobeithiaf fy mod yn cyflwyno astudiaeth gryno a chynhwysfawr o gynhyrchu drama deledu yng Nghymru yn y deugain mlynedd diwethaf.

Addasrwydd Dramâu Saunders Lewis i'w Cyfryngau.

Ystyrir Saunders Lewis yn un o'n hawduron blaenaf, yn fardd, nofelydd a beirniad yn ogystal â dramodydd. Oherwydd y prinder mewn awduron drama yn y Gymraeg, rhoddir mwy o fri i'w ddramâu nag i'r gweddill o'i waith, gan eu hystyried yn glasuron modern. Hawdd yw deall hyn, gan fod eu harddull a'u themâu mor wahanol i waith unrhyw ddramodydd arall o'i genhedlaeth.

Cyfansoddodd nifer o'i ddramâu ar gyfer y llwyfan, gan ffafrio Chwaraewyr Garthewin i'w perfformio. Ystyriai'r mwyafrif o gwmnïau drama Cymru yn anheilwng i berfformio ei waith - Chwaraewyr Garthewin dan arweiniad Morris Jones, yn ei farn ef, a oedd y cwmni agosaf at ei ddelwedd ef o Theatr Genedlaethol, wedi eu lleoli yn ystâd R.O.F. Wynne, bonheddwr o genedlaetholwr a oedd yn rhan o deulu pendefigaidd, wedi ei fagu drwy'r Saesneg, er ei fod wedi dysgu Cymraeg.

Ni fyddai Saunders Lewis wedi cyfansoddi nifer helaeth o'i ddramâu heblaw am y cwmni hwn, ac amhrisiadwy hefyd oedd dylanwad y B.B.C. arno. Hwyl oedd ei noddwyr, fel yr hen feirdd gynt a'u harglwyddi, yn comisiynu gwaith ganddo a'i swcro. Heb ddylanwad y B.B.C. yn arbennig, efallai mai dramodydd yn cyfansoddi yn unig ar gyfer y llwyfan fuasai Saunders Lewis, ag yntau mor wrthwynebol i'r teledu.

Cyfansoddwyd Blodeuwedd ar gyfer y theatr, yn enghraifft benigamp o ddrama lwyfan, ond heb ychydig o berswâd gan gwmni Garthewin, yn arbennig Morris Jones, ni fyddai'r awdur wedi ei chwblhau.

Cyflwynwyd hi i'r cwmni ym 1947, a bu'r perfformiad yn llwyddiant, er mai mewn hen sguor yr oedd pencadlys y cwmni, gan ei bod yn ddrama syml iawn, yn bendant ei hadeiladwaith a hawdd i'w dilyn. Nid yw'n gofyn am dechnegau cymhleth i egluro'r digwydd - yr unig effaith sydd ei angen yw cri tylluan, ond gan fod y trawsnewidiad yn digwydd oddi ar y llwyfan, nid oes angen cymhlethu'r digwydd ag effeithiau llwyfan megis peiriant mwg. Mae cymeriadau'r ddrama i gyd yn rhai gwahanol eu ffordd - Blodeuwedd yn gryf a digywilydd, Gronw yn ddewr a rhamantus, Llew yntau yn hunandosturiol ac yn

pwysu ar Gwydion am gefnogaeth ac arweiniad. Arwain hyn at ddrama a chynhyrchiad llwyfan lliwgar a diddorol, a sgrïpt hyfryd Saunders Lewis yn llwyddo yn y theatr yn union fel y'i cyfansoddwyd.

Drama arall a ysgrifenyddwyd ar gyfer y llwyfan yw Gymerwch Chi Sigaret?, ac y mae hithau yn llwyddiannus ar y cyfan, ond am un olygfa nad yw'n gweddu i'r theatr. Pan geisia Marc lofruddio tad bedydd ei wraig, y mae ei llaswyr hi'n syrthio o'r blwch sigareti sy'n cynnwys y gwn cudd. Mewn theatr, mae'r gynulleidfa yn aml yn bell oddi wrth yr actorion, ac o'r herwydd, yn methu manylion angenrheidiol o'r cynhyrchiad, yn yr achos hwn, y llaswyr yn syrthio (pe byddai'r cäs sigareti o faint arferol, hawdd fyddai i hanner cefn y gynulleidfa fetu â gweld y gwn na'r llaswyr). Byddai'r sioc ar wynebaw'r cymeriadau hefyd yn mynd yn angof gan mai emosiwn tawel ydyw - llawer gwell fyddai'r ddrama fel cynhyrchiad teledu - cyfrwng y manylion - gan wneud defnydd helaeth o saethiadau agos a cherddoriaeth i greu awyrgylch llawn tensiwn.

Ar gyfer y llwyfan y cyfansoddwyd Cymru Fydd hithau, ond mae hon yn wahanol i'r dramâu llwyfan eraill gan fod ynddi olygfa nad yw'n gredadwy ac effeithiol ar unrhyw gyfrwng. Yr olygfa dan sylw yw clo'r ddrama pan neidia Dewi oddi ar do'r cartref a lladd ei hun. Ar y llwyfan, byddai'r cynhyrchiad yn troi'n ffars wrth ddefnyddio corff ffug yn disgyn heibio i ffenestr yn y set, hebdo, byddai diwedd y cynhyrchiad yn fflat. Ar y radio, gellid defnyddio gwaedd ag effaith eco iddi, ac efallai sŵn y corff yn glanio; ac er fod y teledu yn gyfrwng mwy penagored, nid hawdd fyddai dangos hunanladdiad fel hwn heb y costau uchel a fyddai yn angenrheidiol i'r saethiadau edrych yn broffesiynol. Nid yw'n ymddangos felly i Saunders Lewis ystyried ffiniau cynhyrchu drama yn realistig wrth gyfansoddi Cymru Fydd.

Radio yw cyfrwng gwreiddiol Esther, er i'r perfformiad cyntaf ohoni fod ar y llwyfan. Darlledwyd hi ar y radio ym 1959, ac er fod y ddrama ei hun yn llwyddiant, mae un elfen ohoni yn ymddangos yn anaddas ar gyfer y cyfrwng, sef dyfodiad y frenhines Esther at ei gŵr. Ym Mhersia cyfnod y Beibl, lleoliad y ddrama, roedd deddf y wlad yn datgan fod unrhyw un a âi at y brenin heb ei wahodd i gael ei ladd onibai fod y brenin ei hun yn ymestyn ei deyrnwialen ato. Roedd hyn yn berthnasol i'r frenhines fel i bawb arall. Gwnaeth Esther hyn gan

roi ei heinioes yn nwylo ei phriod; a'r olygfa hon yw canolbwynt tensiwn y ddrama, y gynulleidfa yn aros i weld a wnaiff y brenin ei chydabod - hynny yw, a ydyw yn ei charu. Ni all cynulleidfa radio weld Esther yn cyrraedd, na gweld y milwyr yn ei bygwth â'u harfau a'r deyrnwialen yn cael ei hestyn tuag ati - eto, y radio oedd y cyfrwng a ddewisodd Saunders Lewis ar ei chyfer. Ni allwn weld ymateb y cymeriadau i'w gilydd yn effeithiol gan fod sgwrs eglurhaol yn dryllio tensiwn golygfa. Cyflwynwyd Esther ar y teledu ym 1970, a chredaf i'r cynhyrchiad hwnnw lwyddo, gyda miwsig a sŵn drymiau ynghyd â gwaith camera clos, i greu mwy o tensiwn na geiriau.

Pan feddyliodd Lewis am Siwan, drama lwyfan oedd hi i fod, ond tua'r un pryd, gofynnodd y B.B.C. iddo am ddrama radio - dyna'i hysgogiad. Credai Kate Roberts mai drama radio ydoedd, a buan y bu i'r dramodydd ei chywiro mewn llythyr ati. Os felly y bwriadodd Saunders Lewis ei pherfformio ar y radio, syniad rhyfedd oedd y porthor mudan. Gwyddom ei fod yno i atal Siwan rhag cael gwybod am grogi ei chariad, Gwilym Brewys, ond nid oes iddo rôl yn y digwydd - gellir gwneud hebdo yn hawdd fel y gwnaethpwyd yn y cynhyrchiad teledu Saesneg, A King's Daughter. Mae Alis yno yn cyfleu'r digwydd yn burion heb ei gymorth.

Un o ragoriaethau'r ddrama yw dyfnder y teimladau sy'n corddi y tu mewn i Siwan wrth glywed dienyddiad Gwilym, tra'n gaeth yn y tŵr. Mae hyn yn siomedig ar y radio gan na welwn ei hwyneb, ac nid ydym yn llawn sylweddoli bryntni ei charchariad heb weld ei chadwynau. Fel yn achos Gymerwch Chi Sigaret?, y teledu yw'r cyfrwng perffaith i'w chyflwyno, ble gall y cyfarwyddwr ddewis ei saethiadau, boed yn siot agos o wyneb poenus y frenhines neu'n llun o Alis yn ceisio disgrifio'r digwyddiadau ar y lawnt.

Cyflwynwyd Amlyn ac Amig fel drama radio ar ddydd Nadolig 1939, peth amser cyn dyfodiad y dechnoleg a'i gwnaeth yn bosibl creu effeithiau sain afreal ar y cyfrwng. Heddiw, byddai'n bosibl i'r cynhyrchydd roi naws arallfydol i lais actor i ddynodi'r angel, ond ymddengys mai cerddoriaeth yn unig a oedd gan y cynhyrchydd gwreiddiol i greu awyrgylch. Efallai y credai'r dramodydd y byddai'n haws a mwy credadwy cyflwyno angel ar y radio yn hytrach nag ar y llwyfan, ble byddai sefydlu'r gwahaniaeth gweledol rhwng

personau o gig a gwaed yn anodd heb i'r cynhyrchiad fynd i edrych fel drama'r geni mewn festri, a'r angel mewn carthen wen a thinsel yn gylch o amgylch ei ben.

Y teledu fyddai'r cyfrwng amlwg i ddarledu'r ddrama yn y cyfnod modern hwn - ni fyddai prinder o effeithiau celfydd i roi naws ac i gyflwyno'r afreal i'r gynulleidfa, fel y gwelsom yng nghynhyrchiad Prifysgol Cymru, Bangor o'r ddrama a ddarledwyd ym 1986. Pe byddai gan Saunders Lewis y dewis o'i chyfansoddi ar gyfer y teledu yn y tridegau, rwy'n siwr y byddai'n ailfeddwl.

Mae Cell y Grog yn wahanol i'r mwyafrif o ddramâu Lewis, gan ei bod yn tynnu'n gryf ar fudiad yr abswrdd fel ei chwaer-ddrama Yn y Trên. Drama radio fer ydyw, yn dilyn oriau olaf carcharor sy'n aros am ei ddiennyddiad, a'r swyddog sy'n ei warchod. Mae'r ddau yn chwarae gwyddbwyll, ac yn fuan iawn daw yn amlwg nad yw'r swyddog yn llawn llathen. Cred fod bywyd y carcharor yn fwy diddorol na'i fodolaeth ei hun, a mynn eu bod yn newid i ddillad ei gilydd. Dihanga'r carcharor yn lifrai'r swyddog gan adael y llall i wynebu carchar am oes.

Mae'r newid dillad yn weithred bwysig i rediad ac ystyr y ddrama, ond gweithred weledol ydyw. Bwriad Saunders Lewis oedd i gymeriad y swyddog newid wrth iddo dynnu ei ddillad, ond mewn cynhyrchiad o'r ddrama ar radio'r B.B.C. yn y saithdegau, nid yw hyn yn cael ei gyfleu i'r gynulleidfa. Ni allwn dderbyn effaith llawn y trawsnewidiad drwy ddefnyddio'r glust yn unig - pe byddai yn ddrama gyfres a'r cymeriadau wedi eu sefydlu ymlaen llaw, efallai y byddai hyn yn bosibl; ond mewn drama mor fyr sydd hefyd yn llwythog ag awgrymiadau ynglŷn â bywyd y swyddog a throedd y carcharor, mae sylwi ar newid yn nhôn llais un ohonynt yn dasg anodd.

Y teledu fyddai'r cyfrwng delfrydol i gyflwyno'r ddrama hon, ble y gallwn weld y newidiadau o flaen ein llygaid. Heb unwaith dorri ar rediad y sgwrs ac amseru'r ddrama gallem weld y swyddog yn colli ei safiad cadarn a'i awdurdod wrth ddiosg ei lifrai; yn pwyso ar y bwrdd â'i beneliniau yn lle eistedd yn syth, a'i lygaid yn tywyllu wrth feddiannu bywyd gŵr arall. I'r gwrthwyneb,

byddai'r carcharor yn edrych yn fwy sicr ohono'i hun; yn colli ei euogrwydd a cherdded yn unionsyth o amgylch y gell.

Elfen bwysig yn y ddrama yw fod y swyddog yn eistedd yng nghadair y carcharor cyn i'r dienyddiwr ddod i mewn - byddai cynhyrchiad teledu o'r ddrama yn fwy addas i greu'r tensiwn angenrheidiol. Byddai'r gynulleidfa o ganlyniad yn sylweddoli maint gorffwylltra'r dyn wrth weld ei wên wrth iddo chwennych y profiad o farw.

I'w chyflwyno i'w llawn botensial, byddai'n rhaid cyflwyno'r ddrama ar y sgrîn ar ffurf pennod yn y gyfres Tales of the Unexpected er mwyn cyfleu yn llawn i'w chynulleidfa afrealiaeth y ddrama.

Addasiad o stori fer Honoré de Balzac o'r un enw yw Y Cynol Chabert. Cyfansoddwyd hi ar gyfer y radio, ac mae i'r cyfrwng ei fanteision a'i anfanteision yng nghyswllt y ddrama hon.

Mae'r holl ddigwydd yn troi o amgylch y ffaith fod gwedd y cynol wedi newid ers y tro diwethaf i'w wraig ei weld cyn y rhyfel. Ni allwn ni fel cynulleidfa radio farnu trosom ein hunain yn y cyswllt hwn - gyda chynhyrchiad teledu, byddai'n bosibl defnyddio techneg yr ôl-fflach i ddangos ei edrychiad cynt a'i berthynas â'i wraig. Gwnaed hyn mewn cynhyrchiad ffilm Ffrengig o waith Balzac, a phrofodd y dechneg yn llwyddiant, gan i'r gynulleidfa allu uniaethu fwyfwy â'r cynol druan wedi gweld sut y bu i'w wraig droi cefn arno a'r berthynas gariadus gynt.

Yn ogystal â'r newid yn ei wedd, mae gan y cynol graith enfawr yn ymestyn ar draws ei ben lle y bu i arf y gelyn ei daro yn ei frwydr olaf. Gwisg wallt gosod i'w chuddio, a phan ddaw'r gwallt i ffwrdd yn swyddfa Derville, mae'r cyfreithiwr yn synnu ei gweld. Anodd yw dangos syndod yn effeithiol ar y radio, gan mai drwy ochneidio yn unig y gellir gwneud hyn heb ychwanegu gormod o frawddegau eglurhäol i'r ddeialog. Pe cyflwynid yr olygfa ar y teledu, byddai'r gynulleidfa oll yn rhannu ym mhrofiad Derville; a chan mai'r graith, yn ôl Balzac, a achosodd i wedd Chabert newid, byddai cael gweld hyn yn ychwanegu at ein dealltwriaeth o'r hanes.

Byddai'r radio, ar y llaw arall, yn fantais enfawr i leihau costau lleoli'r ddrama. Mae'r digwydd yn neidio rhwng plasty crand, swyddfa cyfreithiwr a

buarth drewllyd, a byddai cymaint o leoliadau yn gwneud telediad credadwy yn ddrud. Ar y radio, fodd bynnag, ni fyddai angen ond effeithiau sain i greu cynhyrchiad credadwy. Blin ar deledu hefyd fyddai disgrifiadau maith Chabert o'i helyntion - cyfrwng y monolog yw'r radio, a'r gynulleidfa yn disgwyl clywed llais yn hytrach na sŵn.

Gwnaeth Saunders Lewis y penderfyniad iawn wrth roi ei gyrnol ar y radio - ni fyddai cynhyrchiad llwyfan yn drawiadol o gwbl; ond gellid gwneud ffilm deledu dda ohoni pe byddai arian yn llifo.

Nofel yw Merch Gwern Hywel a gafodd ei haddasu ar gyfer y teledu gan yr awdur ei hun, felly ystyriaf hi fel drama deledu. Cadwodd y rhan fwyaf o'i ddeialog heb ei newid, gan wneud y cynhyrchiad teledu ohoni ym 1976 yn adlewyrchiad da o'r nofel fel darn o lenyddiaeth, ond cefais fy siomi gan un diffyg ynddi.

Canolbwynt y stori yw Sarah Jones, merch fferm Gwern Hywel, sy'n rhedeg i ffwrdd i briodi pregethwr Methodist yn erbyn ewyllys ei mam. Yn y nofel, daw cyffro i fywydau'r ddau gariad ifanc, crefyddol am un eiliad fechan pan neidia Sarah o ffenestr llofft ei modryb i freichiau William Roberts yn y stryd islaw. Credaf mai'r olygfa hon yw penllanw'r nofel gan i'r ddau, sydd fel arfer mor barchus a sidêt, anghofio parchusrwydd am un ennyd a gadael i'w cariad eu cymell.

Ni chynhwyswyd yr olygfa hon yn y ddrama deledu - ni wn p'un ai rhesymau creadigol ynteu technegol a oedd yn gyfrifol am hyn - ond yn ei habsenoldeb, credaf mai ar y radio y byddai'r sgript fwyaf cyfforddus. Mae yma draffodaethau meithion am fywyd a chrefydd, a blin yw saethiadau camera yn neidio o un wyneb i'r llall dro ar ôl tro yn ystod sgwrs hir. Ni fyddai'n rhaid poeni am ddiffyg cyffro mewn saethiadau ar y radio, gan adael y gynulleidfa yn rhydd i ganolbwyntio ar y ddeialog a myfyrio ar ei chynnwys.

Ar gyfer y teledu y cyfansoddwyd Branwen yn wreiddiol, a chredaf i Saunders Lewis greu drama gwbl addas ar gyfer y cyfrwng. Mae yma nifer o leoliadau yng Nghymru ac Iwerddon, ac elfennau gweledol cryf na fyddent yn gredadwy ar y radio na'r llwyfan, megis lluchio'r tywysog Gwern i'r tân a'r frwydr rhwng y Gwyddyl a'r Cymry. Mae'n rhaid llongyfarch Lewis am sgript

mor gredadwy; yn enwedig o gofio nad oedd yn berchen ar set deledu ei hun nac yn edmygydd mawr o'r cyfrwng.

Mae dramâu Saunders Lewis yn cael eu hystyried yn rhan bwysig o lenyddiaeth yr ugeinfed ganrif, ond nid yw'r cyfrwng yr ysgrifennwyd hwy ar ei gyfer yn addas bob tro. Gwelwn fod ei ddramâu llwyfan a theledu yn ddifai - byddai yn bosibl eu cyflwyno yn llwyddiannus yn y cyfrwng gwreiddiol heb fawr ddim newidiadau; ond nid yw ei ddramâu radio, ar y llaw arall, yn taro deuddeg bob tro. Mae ynddynt sefyllfaoedd anodd eu portreadu yn gredadwy ar y cyfrwng gan unrhyw gwmni o actorion.

Dramodydd gweledol felly oedd Lewis, er bod ei ddeialog gref yn gweddu i unrhyw gyfrwng - dyna'r rheswm dros gyflwyno nifer o'i ddramâu radio yn llwyddiannus ar y teledu dros y blynyddoedd.

NODIADAU

1. Geraint Gruffydd, “Golwg ar ei Fywyd” Saunders Lewis: Agweddau ar ei Fywyd a’i Waith, Ymddiriedolaeth Cronfa Goffa Saunders Lewis, Gomer 1991, t. 7
2. Saunders Lewis, “Mother Tongue”, llythyr i’r Observer, d.d.
3. op. cit. 1
4. John Rowlands, Saunders y Beirniad cyfres Llên y Llenor, Pantycelyn . 1990, t. 5
5. Cymro, “The Only Genius in Contemporary Drama” Liverpool Daily Post 15 Gorffennaf 1966
6. Saunders Lewis, cerdyn post i Nina Wynne, 13 Chwefror, 1962. Rhif 1093, Catalog Ychwanegol Garthewin, Archifdy Prifysgol Cymru, Bangor.
7. Saunders Lewis, llythyr at Robert Wynne, Garthewin, 18 Medi 1968. Rhif 905, Catalog Ychwanegol Garthewin, Archifdy Prifysgol Cymru, Bangor.
8. dienw, “Y Proffwyd Perffaith?” Golwg 13 Chwefror 1992, t. 7
9. *ibid.*
10. Kate Roberts, “Rhyddiaith Saunders Lewis” Saunders Lewis: Ei Feddwl a’i Waith gol. Pennar Davies, Gwasg Gee, 1950, t. 53
11. Branwen Jarvis, “Y Bardd” op. cit.1, t. 16-19
12. John Rowlands, “Yr Ysgolhaig a’r Beirniad” *ibid.* t. 20

PENNOD 2:

THEATR, RADIO A THELEDU

DATBLYGIAD Y THEATR YNG NGHYMRU

Nid oes i Gymru draddodiad theatrig hir. Peth gweddol ddiweddar ydyw drama Gymraeg, er fod elfennau dramatig i'w gweld yn ein llenyddiaeth - ystyriwn Ganu Llywarch Hen a Heledd, yr ymddiddanion a'r anterliwt. Bu i'r Methodistiaid wrthwynebu unrhyw fath o chwarae dramatig yn y ganrif ddiwethaf, ond wedi i'r capelwyr sylweddoli y byddai perfformiad o ddrama yn fodd o godi arian at eu hachosion da, tyfodd y ddrama yn ei phoblogrwydd a llaciwyd y rheolau caeth ynglŷn â'r ddrama. Wrth agosau at droad y ganrif, roedd mwy a mwy o gwmnïau drama yn cael eu ffurfio yn y gogledd - ym Mhwillheli, Caernarfon a Phenmaenmawr; ac yn Eisteddfod Bangor ym 1902, datganodd Mr. Lloyd George ei gefnogaeth i'r ddrama Gymraeg gan ddymuno:

...adgyfodiad buan i'r Ddrama Genedlaethol
yng Nghymru.¹

Ym 1904, cyhoeddwyd llyfryn gan Beriah Gwynfe Evans; The Welsh Historical Drama and How To Produce It, llawlyfr i gynhyrchwyr a oedd yn ystyried mynd i'r afael â chynhyrchu drama.² Cymerodd ei brofiad wrth lwyfannu Caradog gyda chwmmi Ysgol Sir Abergele yn sail i'w drafodaeth, a phan ffurfiwyd Cwmni'r Ddraig Goch yng Nghaernarfon, perfformiwyd dramâu Evans ganddynt yn Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon 1906. Hwy oedd y cwmni cyntaf i berfformio drama Gymraeg mewn theatr (cyn hyn, mewn neuaddau pentref, ac ysgoldai capel yr oedd y cwmnïau yn perfformio).

Ym 1905, penderfynodd tri chyn-fyfyriwr o Aberystwyth ysgrifennu drama un-act bob un ar gyfer aduniad y coleg. Y tri oedd J. O. Francis, D. T. Davies a John Edwards. Eglura Olive Ely Hart eu llwyddiant:

The plays were written and given before an enthusiastic audience. Heartened by this experience, the young men decided to repeat their attempts the next year. These annual college performances continued to be popular and the three men wrote and produced each

year until 1912-13. The plays were sometimes given first in London and then at Aberystwyth. Sometimes there were performances also at the annual Pan-Celtic Conference held successively in Brittany, Wales, Scotland and Ireland.³

Roedd nawdd ffurfiol yn brin ar gyfer y theatr, a bu un cyfraniad yn fendith i'r gelfyddyd, fel yr eglura John Ellis Williams:

Yn 1911, cynigiodd Yr Arglwydd Howard de Walden ganpunt o wobr am gyfansoddi drama Gymreig (Cymreig, sylwer, nid Cymraeg). Drama Saesneg am fywyd Cymreig a wobrwywyd, sef Change (J.O. Francis). Ond yn y flwyddyn ddilynol, rhanwyd y wobr rhwng R.G. Berry am Ar Y Groesffordd, a D.T. Davies am Ble ma' fa, Y Dieithryn, ac Ephraim Harris.⁴

Ym 1914, ffurfiodd de Walden ynghyd ag Owen Rhoscomyl gwmni teithiol o actorion i berfformio dramâu mewn Saesneg neu Gymraeg mewn trefi a dinasoedd o amgylch Cymru. Llu o gwmnïau bychain oedd yng Nghymru ar y pryd - un o'r amlycaf oedd Chwaraewyr Porthmadog a sefydlwyd gan ddau o raddedigion Rhydychen a drigai yn yr ardal, Richard Hughes ac Arthur Roberts. Roedd graen ar waith y cwmni, a bu iddynt gael cynnig sioeau prynhawn am ddim am wythnos yn Theatr y Lyric yn Llundain. Aethant yno am un diwrnod yn unig oherwydd diffyg cyllid - ychydig dros dair punt oedd yng nghoffrau'r cwmni ar y pryd, felly penderfynodd Hughes a Roberts beidio â mentro'r wythnos lawn. Yn ôl Hart:

When the day came, the house was packed long before the curtain rose. Probably it might have been filled for a week of performances. Lloyd George was in the audience, the Prince of Wales sent a letter, and the London Welsh seem to have rallied to the support of the venture in such a way as to leave no doubt of the interest outside of

Wales in the efforts of young Welshmen to launch a Welsh theatrical company.⁵

Nid oedd y perfformiad yn llwyddiant yn llygaid yr adolygwyr, gan nad oedd y gymhariaeth a wnaethpwyd rhwng y Cymry â chwaraewyr yr Abbey yn ffafriol.

Gwelwyd drama Gymraeg amatur yn tyfu mewn poblogrwydd, ond dan feirniadaeth lem John Saunders Lewis. Ym 1919, bu iddo ysgrifennu cyfres o erthyglau ac adolygiadau ar berfformiadau o ddramâu Cymraeg yn barnu eu plwyfoldeb. Mewn erthygl yn y Cambria Daily Leader, dywed:

Our Welsh drama, we are told, is peasant and village drama. And that is entirely good. Our dramatists' intention to describe only the life of the folk is quite justifiable. But I suspect that they fall short of their design and of the truth about peasant life. All the plays we have seen so far describe, and rather idyllically describe, village manners. But village life means more than 'manners'. It includes memories and traditions and song and even dance and mummery. Village and peasant drama, if it would tell the whole truth, must include romance, the Mabinogion, the monastery, witchcraft, fairyland and all the ancient playgrounds of men.⁶

Gallwn weld yma fflach o ysbrydoliaeth - math o gyflwyniad i'r holl ddramâu nad oedd ef eto wedi eu cyfansoddi, dramâu clasurol i gymryd lle'r rhai plwyfol hyn.

Credai Saunders Lewis mai sail wleidyddol oedd i broblem datblygiad y ddrama yng Nghymru. Meddai mewn erthygl yn Y Llwyfan ym 1928:

Pe cawsid ymreolaeth i Gymru, gellid wedyn gael cwmni drama o wŷr wrth grefft, lluniwr ac actorion wrth eu galwedigaeth. Bellach dyna'r unig fath o gwmni y credaf i ei bod yn werth i neb ysgrifennu iddo nac ymboeni ag ef. Ni welaf obaith am gelfyddyd gain oddiwrt h yd yn oed y goreuon o *amateurs* Cymraeg. Ni ellir disgyblu neb yng Nghymru

oddieithr crefftwyr yn dibynnu ar eu crefft am eu byw. I'r cwmnïau a welais i, rhyw sbri neu adloniant neu waith cenhadol oedd chwarae drama, nid crefft.⁷

Ar yr wyneb, ymddengys ei farn fel snobyddiaeth lenyddol, ond gwelwn erbyn hyn y byddai'r ddrama ar ei hennill pe bai Saunders Lewis wedi canolbwyntio ar y theatr yn hytrach na'i wleidyddiaeth; pe byddai wedi cefnogi syniad yr Arglwydd de Walden am Theatr Genedlaethol i'r carn, byddai'r ymgais wedi cael gwell siawns o lwyddiant. Bu cefnogaeth i gais de Walden am Theatr Genedlaethol - roedd Beriah Gwynfe Evans yn ei gefnogi ran egwyddor; meddai:

Every Welshman who has at heart the development and fostering of national talent will appreciate Lord Howard de Walden's patriotic efforts to encourage the natural genius of the Welsh people for dramatic representation,⁸

ond ni fu ymgais y noddwr yn llwyddiant yn ôl Evans gan nad oedd y Cymry plwyfol yn groesawgar iawn i broffesiynoldeb na dwyieithrwydd y "Company of Welsh Players". Nid oedd yr actorion amatur ychwaith yn gefnogol iawn, gan ddychmygu gweld eu gwaith yn cael ei danseilio gan ddieithriaid hyderus. Credai Evans mai sefydlu cant o gymdeithasau drama amatur yng Nghymru fyddai orau; ymgyrch a oedd yn llai uchelgeisiol ond yn fwy tebygol o lwyddo yn y tymor hir.

Ym 1933 wedi terfyn y Rhyfel Byd Cyntaf bu ail ymgais gan de Walden; sefydlodd y Welsh National Theatre, a'i fwriad ar gychwyn mudiad parhaol. Ni fu iddo gefnogaeth y tro hwn ychwaith gan actorion amatur Cymru, ac er i de Walden bwmpio rhagor o arian i'r fenter, methu fu'r hanes eto.

Bu distawrwydd am dros chwarter canrif wedi hyn, heb alwad o'r newydd am theatr i'r genedl, ond nid distaw fu byd y ddrama o bell ffordd.

Erbyn y tridegau, roedd y mudiad wedi datblygu yn aruthrol er gwaethaf methiannau de Walden, ac wrth gamu i'r pedwardegau, bu'r Eisteddfod Genedlaethol yn gymorth mawr i ddatblygiad y ddrama yng Nghymru.

Credai Saunders Lewis nad oedd cwmni amatur yn y wlad a oedd yn gymwys i berfformio ei ddramâu ef. Dwy eithriad oedd i'w reol - Theatr Garthewin a Theatr Fach Llangefni. Y rhain, ar y cyd â radio'r B.B.C., oedd canolbwynt cyfraniad Saunders Lewis i'r ddrama ar y pryd.

Mewn ardal mor Gymreig â Môn y pumdegau, eironig oedd mai Sais a ddysgodd Gymraeg a sefydlodd un o theatrau cymuned mwyaf poblogaidd Cymru, ac un agos iawn at galon Saunders Lewis.

Sefydlodd F.G. Fisher, dysgwr a oedd ei hun yn ddramodydd, gwmni Llangefni ym Medi 1949 gyda deunaw o aelodau. Criw digon dibrofiad oeddynt, heb wybodaeth am na theatr, llwyfan na chelfi o fath yn y byd. Fel y disgrifiodd Mr. Fisher mewn darlith a gyhoeddwyd yn y Saesneg ym 1957, yr oedd yn waith caled, ond bu llwyddiant er gwaethaf yr anawsterau.

Addaswyd ysgubor ac agorwyd y theatr ar ei newydd wedd fis Awst 1957, yn adeilad â lle i eistedd 110 o bobl, a rhif aelodau'r gymdeithas ymhell dros 650. Cafwyd nawdd gan y Cyngor Celfyddydau a changen Môn o Bwyllgor Cronfa'r Eglwys yng Nghymru i ddatblygu - arian yr oedd mawr angen amdano gan fod pwyslais Fisher a'i bwyllgor ar roi llwyfan i ddramâu Cymraeg.⁹ Yn ystod y ddwy flynedd a hanner cyn hyn cynhyrchwyd ugain o ddramâu yn y Theatr Fach a bu sawl cynhyrchiad o waith Saunders Lewis yno wedyn - Amlyn ac Amig ym 1957, Siwan a Brad yn yr un cyfnod, Blodeuwedd ym 1964, a dau gynhyrchiad arall o Siwan ym 1966 a 1973.¹⁰

Efallai fod llwyddiant Fisher a'i Theatr Fach yn ddibynnol ar ei athrawiaeth ynglŷn â'r theatr yng Nghymru; lleisiodd ei farn mewn araith a adroddwyd yn Y Faner ym 1958:

Priodas y celfyddydau yw drama, boed hi ar yr I.T.V. neu yn Theatr Fach Llangefni - priodas rhwng y gelfyddyd o sgrifennu, actio a'r cwbl sy'n gynnwysiedig yn hyn - cynhyrchu llais, meimio - celfyddydau cynllunio golygfeydd, goleuadau, gwisgoedd

a thechneg gwaith saer a thrydan, effeithiau, newid cyflym - y cwbl oll. Ac megis ym mhob priodas, os yw i gyrraedd urddas priodas, rhaid cael cynghanedd berffaith cyn geni'r plentyn. A disgyblaeth yn unig a grea'r gynghanedd, y ddisgyblaeth o gydweithio i gyrraedd yr un nod, o ddeall pa beth yw'r nod ac o gydymdeimlad cyn y cynhyrchiad ei hun. Wedi'r cwbl, y plentyn, sef y ddrama, yw'r peth pwysicaf, a heb ddrama ni cheir theatr. A dyna a geisiwn ei wneud yn yr ysgubor hon - creu y peth a elwir yn theatr, y peth nad yw'n bod yng Nghymru yn awr. Methwyd hyd yn hyn am na chafwyd y briodferch i'r briodas, sef adeilad i'r theatr a grŵp o bobl yn gweithio y tu mewn iddo.¹¹

Mae'r Theatr Fach yn elfen gref yn niwylliant yr ardal hyd heddiw wedi marwolaeth Fisher, wedi meithrin diddordeb sawl cenhedlaeth yn y ddrama Gymraeg.

Er ei fod yn Gymro o dras, yn ddi-Gymraeg y magwyd y gŵr a oedd yn gyfrifol am Theatr Garthewin; theatr ac iddi gefndir tra gwahanol i Theatr Llangefni. Nid arian o gronfeydd celfyddydol a fu'n gyfrifol am ei hariannu, yn hytrach, nawdd teulu o dirfeddianwyr o ardal Abergele.

Ganwyd Robert Oliver Francis i Richard Wynne a'i wraig Frances, neu Nanette fel y'i gelwid, ym 1907. Roedd ystâd Garthewin yn un helaeth, a'r teulu yno ers dechrau'r bedwaredd ganrif ar ddeg. Yn ogystal â'r plas a'r adeiladau fferm, bu yno gapel bychan a throwyd ysgubor yn theatr. Disgrifir hi fel hyn mewn llyfryn diweddar am yr ystâd:

The theatre, which forms part of the range of farm buildings, is approached through an archway beneath a clock tower over which is a cupola for the bell. On the keystone of the arch is the motto *Duw a Digon* (God is enough) and the date 1772. Above is an ancient one-handed clock which tells the hours only, and in the pediment is a coat-of-



*R.O.F. Wynne yn sefyll yn nruos y sgubor
lle'r oedd Chocorazdy Gartheuain*

arms carved in stone and painted, bearing the motto *Janua Pateat, Cor Magis* (let your door be open and still more your heart).¹²

Nid oes dim yn y disgrifiad manwl ond oeraidd hwn o'r adeilad i awgrymu'r gweithgaredd fu yno dan arweiniad R.O.F. Wynne.

Saesneg oedd iaith y teulu, a mam R.O.F. Wynne yn Wyddeles Gatholig a drodd gapel bychan yr ystâd i'r grefydd honno. Erbyn i Wynne gyfarfod Saunders Lewis am y tro cyntaf ym 1932, roedd yn dysgu'r iaith ac yn cymryd diddordeb yng ngwleidyddiaeth Cymru. Roedd y teulu oll yn gefnogol i'r Blaid Genedlaethol, ac eglura Hazel Walford Davies sut yr heuwyd had y ddrama yng Ngarthewin:

Ym marn yr Wynnaiid yr oedd y blaid hon yn cynrychioli hen werthoedd, a chadarnhawyd eu ffydd ynddi pan glywsant yn 1932 fod y Llywydd, sef Saunders Lewis, wedi troi at yr Eglwys Gatholig. Seliwyd y cyfeillgarwch ymhellach pan ddarganfu Robert Wynne fod Saunders yn fonheddwr o ran greddf ac yn gymaint o arbenigwr ar win a cognac ag ef ei hun.¹³

Ffynnodd cyfeillgarwch y ddau wedi i Wynne etifeddu'r plas flwyddyn yn ddiweddarach, y ddau yn edmygu ei gilydd yn bersonol ac yn wleidyddol. Credai'r ddau fod cael cartref i'r ddrama Gymraeg yn hanfodol, ac ym 1937, penderfynwyd mai Garthewin fyddai hwnnw. Ysbrydolwyd Robert Wynne gan berfformiad o Llwyfan y Byd J. Ellis Williams yn Theatr y Pafiliwn, Lodge Lane, Lerpwl, i ystyried addasu ysgubor Garthewin yn chwaraedy.¹⁴

Comisiynwyd Thomas Taig i wneud y gwaith cynllunio - roedd ef hefyd yn gyfarwyddwr drama, a daeth yn ffrind agos i Lewis a'i wraig. Gwyddai sut y bu i fudiad y "Little Theatre" yn yr Unol Daleithiau addasu adeiladau ar gyfer perfformio dramâu, a gwnaeth yntau yr un modd.¹⁵ Bu ei waith yn llwyddiant, er nad oedd y theatr yn un fawr na chrand. Roedd yno le i 160 eistedd, a chan fod yn rhaid dibynnu ar beiriant trydan o'r Plas, doedd y goleuo dim yn ddibynadwy iawn; ond yn ôl Nanette Wynne, roedd awyrgylch debyg i eglwys iddi, ac wedi

cwblhau'r addasiadau ar noswyl Nadolig 1937, y digwyddiad cyntaf ar lwyfan Theatr Garthewin oedd yr Offeren, defod arbennig iawn fel y disgrifiodd Nanette yn ei chyfrol The True Level:

....on the slightly raised stage at the furthest end, in an aura of light and framed by one of the great arches, stood a white altar, all ablaze and decked with lillies. And visible among the shadows at the other end of the building, the crib, a beautiful one, warmly aglow under its little roof of straw, and around it clustering dark, intense Welsh faces...¹⁶

Yr Ionawr canlynol, cafwyd y perfformiad cyntaf ar y llwyfan - The Story of Bethlehem a'r Gainc Olaf gan y Cwmni Cenedlaethol. Ym 1938, bu Kate Roberts yno yn cyfarwyddo anterliwt o waith Twm o'r Nant, ac ni bu prinder cynnyrch i'w gyflwyno ar lwyfan Garthewin. Chwaraewyd nifer o ddramâu Saunders Lewis yno - a chwmni Garthewin dan arweiniad Morris Jones a fu'n gyfrifol am berfformio rhai o'i weithiau am y tro cyntaf. Hwy fu'n gyfrifol am ysgogi'r dramodydd i ddychwelyd at ei ddrama Blodeuwedd, a chyflwynodd Lewis rai o'i ddramâu newydd iddynt i'w cynhyrchu am y tro cyntaf. Erbyn y pumdegau, cymaint oedd dyled Theatr Garthewin iddo fel y penderfynodd Wynne gynnal "Gŵyl Saunders Lewis" ym 1959 - syniad a oedd yn ddychryn i'r dramodydd; ac er rhyddhad iddo ef, methodd Wynne â chodi nawdd ar ei chyfer.

Yn eironig, nid Chwaraewyr Garthewin a gynhyrchodd y ddrama olaf o waith Saunders Lewis i'w chyflwyno ar lwyfan Garthewin. Rhoddwyd y ffrainc honno i gwmni Theatr Fach Llangefni a berfformiodd Siwan yng Ngŵyl Garthewin, 1966. Wedi hynny, colodd R.O.F. Wynne bob diddordeb yn y Theatr Fach, ac er i Morris Jones geisio dal ati, erbyn 1969 roedd Chwaraewyr Garthewin wedi penderfynu ffarwelio â'u cartref, a chynnal eu Gwyliau ym Mae Colwyn, ond ar ôl ystyried newid enw'r Wyl i Wyl Ddrama Gogledd Cymru, penderfynwyd cadw at yr hen enw, er fod y cwmni trydan erbyn hynny wedi cael gorchymyn i droi ymaith y pŵer yn theatr fach y plas.

Erbyn 1970, roedd Wynne a'i wraig Nina wedi penderfynu gwerthu ystâd Garthewin. Yr oedd ei iechyd ef wedi dirywio, ac nid oedd cysylltiad Saunders Lewis ag ef mor gryf wedi iddo droi ei sylw at gynllun y Theatr Genedlaethol.

Ym 1994, ceisiwyd ail-greu naws a mawredd y theatr a'i Gwyliau, gan gynnal Gŵyl Garthewin am y tro olaf ar Orffennaf yr ail. Perfformiwyd detholiad o waith Lewis gan John Ogwen a Maureen Rhys a chafwyd darlith gan Dr. Bruce Griffiths, yn ogystal â sgysiau ac arddangosfa yn olrhain hanes Cwmni Garthewin.

Ni fu i weithgareddau theatr y plas ddatblygu'n theatr genedlaethol, fel oedd y bwriad gwreiddiol, ond serch hynny, buont yn bennod liwgar a gwerthfawr yn hanes cyfraniad Saunders Lewis i'r ddrama Gymraeg. Erbyn hyn, ni allwn ond darllen am ei hawyrgylch unigryw - mae Garthewin bellach wedi ei werthu, a merch Robert, a'r olaf o'r Wynniaid i fyw yn y plas, Menna MacBain, wedi ffarwelio â'i chartref.

Ddechrau Hydref 1955, bu seiat yn Neuadd y Sir, Llangefni, ar y testun "Angen Pennaf y Ddrama Gymraeg", gydag Islwyn Ffowc Elis yn cadeirio. Bu anghytuno am y blaenoriaethau, ond galwodd y tri siaradwr am welliannau. "Actorion" oedd y prif angen meddai Nesta Harris, "Cynhyrchwyr" oedd y flaenoriaeth ebe John Gwilym Jones, a galwodd Gwilym R. Jones am fwy o ddramâu.

Ymddengys na fu fawr ddim gweithredu uniongyrchol ar syniadau'r cyfranwyr, ac yn lle hyfforddiant ym myd y theatr, cafwyd mwy a mwy o ddiddordeb yn y cyfrwng gweledol yng Nghymru. Eglurwyd dadl broffwydol Gwilym R. Jones ymhellach yn Y Faner:

Yr oedd teledu yn peri bod y cynulliadau mewn dramâu yn mynd yn llai ac yn llai. Pa nifer ohonynt a fuasai wedi dyfod o bell i Llangefni i weled drama newydd Saunders Lewis y noson flaenorol pe bai'r un ddrama wedi ei chyflwyno yr un noson drwy'r set deledu mewn lliwiau?...Ychydig iawn, iawn. Fe gollai pobl flas ar geisio creu rhywbeth

prydfarth ar lwyfan am fod adloniant rhad ar yr aelwyd.¹⁷

Teg yw casglu fod anadl einioes yn y ddrama Gymraeg o hyd, a chynnyrch newydd yn ymddangos yn rheolaidd, a chael eu hawr ar lwyfannau Cymru. Roedd gwaith Lewis yn flaenllaw ymysg y dramâu hyn; yn Eisteddfod 1956 perfformiwyd Gymerwch Chi Sigaret? am y tro cyntaf i ganmoliaeth frwd yr adolygwyr:

Y mae'r act gyntaf yn hir ac anodd i'w chynnal rhwng y ddau gymeriad ond gan mai i'r llwyfan y sgrifennwyd y ddrama hon, y mae ynddi ddeunydd iaith, ystum a symudiad naturiol eang....Buasai unrhyw actor da wrth ei fodd gyda'r farddoniaeth sydd yn y ddrama hon. Barddoniaeth fwyaf Saunders Lewis ydyw ar adegau, a theimlais o'r gair cyntaf hyd yr olaf mai dyma yw gwir iaith y theatr. Nid er ei fwyn ei hun y mae'r farddoniaeth yn y ddrama hon, ond er mwyn llenwi pob theatr gydag aura iaith ddramatig.¹⁸

Mae'n amlwg fod sefyllfa mudiad y theatr ar seiliau go gadarn, gan i'r ymgyrch am Theatr Genedlaethol godi'i phen unwaith yn rhagor wedi deugain mlynedd o dawelwch. Ym 1957 cychwynwyd ymgyrch i geisio achub Theatr y Prince of Wales yng Nghaerdydd, a bu Vivien Leigh a Meredith Edwards yn y Brifddinas i roi eu cefnogaeth i'r fenter ym mis Medi y flwyddyn honno. Addawodd tair mil o bobl gyfrannu arian ar gyfer y fenter, ond ni welodd Deheuwr yn Y Faner lawer o ddiben i'r fath gefnogaeth, fel yr ymhelaethodd adeg yr ymweliad:

....fel gyda llawer sefydliad arall yng Nghymru ofnaf fod gwerth y theatr hon wedi ei sylweddoli yn rhy hwyr. Cofiaf yn dda fynd yno yn y cyfnod cyn i'r chwaraedyd gau, pan oedd bron cymaint o ferched yn gwerthu hufen iâ a sigarets ag oedd o gynulleidfa. P'le roedd y tair mil yr adeg hynny, tybed?¹⁹

Cynhyrchwyd Brad yn Theatr Fach Llangefni fel rhan o Wyl Ddrama 1958, ar ôl ei pherfformio yn Eisteddfod Genedlaethol Glyn Ebwy yn gynharach gan gwmni a oedd dan nawdd y Cyngor Celfyddydau, ac yn sgîl y cynhyrchiad ym Môn, daeth bonllaf o brotest o Abertawe am na chawsant hwy y cyfle i brofi gwledd ddiweddaraf Saunders Lewis. Yn ôl adroddiad gan ohebydd arbennig Y Faner, roedd teimpladau yno yn boeth:

Gellir casglu fod cryn siom yn Abertawe oherwydd nad yw Cyngor y Celfyddydau yn darparu i gyflwyno yno o gwbl ddrama newydd Mr. Saunders Lewis, Brad....Y cwestiwn a ofynnir yw paham na drefnodd y Cyngor daith gan y cwmni hwn er mwyn rhoi cyfle i bobl ledled Cymru i weld y cyflwyniad nodedig a enillodd gymaint o glod yng Nglynebwy.²⁰

Disgrifiwyd y sefyllfa i'r dim gan ohebydd Y Faner:

Caiff llawer yng Nghymru weld Romeo and Juliet (Shakespeare) a Romanoff and Juliet [sic] (Ustinov). Popeth yn dda. Ond ymddengys mai Llangefni yn unig a gaiff weld Brad.²¹

Nid esgeulustod na diogi ar ran y Cyngor Celfyddydau a rwystrodd daith Brad o amgylch Cymru, fel yr eglurodd Miss Myra Owen, Cyfarwyddwr y Cyngor Celfyddydau yng Nghymru mewn ateb i'r honiadau. Nid oedd modd trefnu perfformiadau yn Abertawe, meddai:

...gan y byddai perfformiadau o'r fath yn torri ar draws gynlluniau a wnaed eisioes ar gyfer Theatr y Palas yn yr hydref.²²

Wrth i gyflwr y ddrama yng Nghymru wella yn sgîl gwyliau megis Gŵyl Ddrama Abertawe ym 1958, cafwyd ffrwd o ddiddordeb newydd ynddi, a bu galwad am y drydedd waith am theatr Genedlaethol. Os oedd mudiad y ddrama

yng Nghymru i ffynnu, hwn, fe ymddengys, oedd yr ateb amlycaf. Yn ôl Promethiws eto:

Daeth yr amser bellach i ymladd yn ddewr dros ein Theatr Genedlaethol. O bob rhan o Gymru y mae eisiau cymorth i wthio syniad neu rith os mynnir, yn ffaith o gerrig a mortar. 'Rydym yn agosach at ein Theatr Genedlaethol nag y buom erioed yn hanes ein cenedl.²³

Dyna'r farn gyffredinol ym Mehefin 1959, ar ôl cwrs arbennig ar "Bresennol a dyfodol y Theatr" yng Ngholeg y Fro, Morgannwg. Yn darlithio a rhoi awgrymiadau pendant ar gyfer datblygiad y Theatr yng Nghymru, roedd Raymond Edwards, Coleg y Castell, Caerdydd; Clifford Williams, cyfarwyddwr Theatr y Celfyddydau, Llundain; a John English, cyfarwyddwr Theatr yr Arena. Cyfeiriwyd at theatrau'r cyfandir a'r math o adeiladau y dylid eu hystyried ar gyfer theatr yn y dyfodol, a thrafodwyd gwelliannau mewn theatreg ac adeiladwaith.

Yn fuan wedyn, cyhoeddwyd pamffled gan Gyngor y Celfyddydau, Housing the Arts in Wales, cyhoeddiad gobeithiol ym marn cefnogwyr ymgyrch y Theatr Genedlaethol. Yn ôl ym Mai 1957, sefydlodd y Pwyllgor Cymreig gangen i ymchwilio i sefyllfa'r celfyddydau yng Nghymru; a ffrwyth eu llafur hwy oedd yr adroddiad hwn.

Cyhoeddwyd ef gan Bwyllgor Ymholi Cyngor Celfyddydau Prydain, ac roedd yr argymhellion a wnaethpwyd ynddo yn fanwl, gydag ystyriaeth ddofn yn cael ei rhoi i anghenion y gymdeithas yn ariannol yn ogystal ag yn gelfyddydol. Meddent wrth amlinellu termau'r adroddiad:

We suggest that the survey....should deal not only with the construction of buildings, but also with the running-costs,²⁴

- elfen bwysig iawn gan mor brin ydoedd arian cyhoeddus yng Nghymru ar gyfer y fath ddatblygiadau.

Golygir gan y term “y celfyddydau” gerddoriaeth, drama a’r celfyddydau gweledol, a cheisiwyd rhoi yn yr adroddiad ystyriaeth deg i bob agwedd, felly roedd goblygiadau’r datblygiad yn hollbwysig i groesdoriad eang o boblogaeth Cymru; nid yn unig mynychwyr y theatr. Eglurodd y Pwyllgor amcanion yr adroddiad fel hyn:

1. To consider the needs in relation to a survey of existing facilities for the housing of the Arts in Wales.
2. To list information concerning new projects for the housing of the Arts which have been approved by responsible authorities.
3. To list information concerning additional needs for the housing of the Arts in Wales.
4. To consider all information relating to the above and to conclude the Enquiry by making recommendations relating to National, Regional and Local needs for the housing of the Arts in Wales.²⁵

Yn ddi-os, y teledu a’r radio oedd y celfyddydau mwyaf poblogaidd yng Nghymru, ond gan nad oedd angen cartrefi iddynt hwy na’u cynulleidfaoedd, ni chawsant eu hystyried yn yr adroddiad. Nodwyd fod cael Theatr Genedlaethol yn hanfodol i ddatblygiad teledu Cymru fel i gefnogwyr y ddrama lwyfan, gan fod y ddau gyfrwng yn dibynnu i raddau helaeth ar actorion; a’r rheini wedi eu magu a’u hyfforddi ar lwyfannau Cymru.

Er fod y pwyllgor wedi pwysleisio pob celfyddyd, ni chelwyd y ffaith mai ystyriaeth y Theatr Genedlaethol oedd y bwysicaf. Gwyddent bwysigrwydd y pwnc i’r Cymry:

The idea of a National Theatre for Wales has been a topic of discussion for many years, with perhaps more emphasis on a theatre movement as distinct from a theatre building. This is only natural in a country where there is considerable enthusiasm for drama in all its aspects.²⁶

Wedi ymchwilio i angen y bobl yng Nghymru, daethpwyd at gasgliadau. Penderfynodd y Pwyllgor fod dirfawr angen am estyniad i'r Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd ac Amgueddfa Sain Ffagan; yn ogystal, fod pob cefnogaeth i'w roi i'r Eisteddfod Genedlaethol ac Eisteddfod Ryngwladol Llangollen. Ni chafwyd fod adeiladu Tŷ Opera Cenedlaethol yn opsiwn angenrheidiol, ond pasiwyd fod angen oriel ym Mangor a neuaddau cyngerdd yng Nghaerdydd a Chasnewydd. Cafwyd penderfyniad hefyd am y Theatr:

The Committee recommend that there should be a National Theatre for Wales located in Cardiff based on the theatre building of the College of Music and Drama...²⁷

ac adnoddau yno ar gyfer y Cwmni Opera Cenedlaethol.

Ar y cyfan, roedd awgrymiadau'r Pwyllgor yn agos iawn at yr hyn y gofynnwyd amdano, ond roedd gwireddu argymhellion yn fater gwahanol. Nid oedd Cymru eto'n gwbl sicr o'i theatr; ond roedd y sôn am gwmnïau amatur yn galonogol iawn i rai megis sylfaenydd Theatr Fach Llangefni. Meddai F. G. Fisher ym 1958:

Mentraf ddweud na welaf yr un gobaith i'r mudiad amatur yng Nghymru ddatblygu oni cheir theatrau bychain i'r cymdeithasau. Y mae'r gymdeithas ddigartref yn tueddu i droi yn ei unfan hebddi.....y mae gennym fwy o actorion ar y rhestr yn Theatr Fach Llangefni sy'n barod i dreio eu llaw nag sydd o gymeriadau yn y dramâu sydd ar y gweill ar hyn o bryd. Nid ein problem fwyaf yw cael actorion. A hynny am fod y theatr yn bod.²⁸

Doedd neb yn amau gwerth y theatrau bychain, ond roedd dyhead o hyd am Theatr Genedlaethol. Daethpwyd â'r achos eto i'r amlwg ym 1961 pan alwodd yr actor Clifford Evans amdani eto ar ôl darllen cynnwys Housing the Arts in Wales ddiwedd y pumdegau. Rhoddodd anerchiad i aelodau Cyngor Dinas Caerdydd yn Neuadd y Ddinas ar 20 Mawrth 1961, a chododd

ymwybyddiaeth yn y prosiect yn syth.²⁹ Er fod Ymddiriedolaeth Dewi Sant wedi ei ffurfio ers dwy flynedd, ni ddaeth ei gwaith i sylw cyhoeddus eang cyn hyn. Pwyllgor i geisio sefydlu theatr i Gymru ydoedd, gydag Arglwydd Aberdâr, Clifford Evans, Saunders Lewis, a'r Cynrol C.G. Traharne, Arglwydd Raglaw Morgannwg yn aelodau.³⁰ Roedd Saunders Lewis yn gefnogwr brwd.

Ym 1961 bu apêl ledled y byd am arian i dalu amdani - tasg nid ansylweddol. Trafodir yr argymhelliad yn Y Faner:

Sonnir yn awr am godi theatr a gyst £300,000 yng Nghaerdydd rhwng y castell ac Afon Tâf....Y mae cyngor Dinas Caerdydd eisioes wedi rhoi ei fendith ar yr egwyddor o gael Theatr Genedlaethol ac ar y cynllun o chwaraedy a baratowyd gan Ymddiriedolaeth Theatr Dewi Sant, a ffurfiwyd ym 1959.

Bydd lle i 900 eistedd yn y theatr a bydd yn adeilad hollol fodern ac yn cynnwys llyfrgell ac oriel ddarluniau a theatr i fyfyrwyr yn dal 200 o bobl.

Enw'r theatr fydd Theatr Dewi Sant.³¹

Yn sgîl y datganiad hwn, codwyd dau gwestiwn pwysig - ai Caerdydd oedd y lleoliad gorau i Theatr Genedlaethol, gan nad oedd modd codi digon o gynulleidfa i gadw Theatr y Prince of Wales ar agor; yn hytrach na dinasoedd Bangor neu Abertawe a oedd yn eiddgar amdani, neu lleoliad a fyddai'n hwylus i fwy o bobl Cymru yn y canolbarth, megis Aberystwyth a oedd yn meddu ar goleg Prifysgol a'r Llyfrgell Genedlaethol yn barod? Yn ail, pa mor briodol oedd yr enw Theatr Dewi Sant? Bu i ohebydd i'r Faner gyfiawnhau'r dewis;

.....teimlwn fod yr enw hwnnw'n fwy addas i Eglwys Gadeiriol nag i theatr, er i honno fod yn theatr genedlaethol. Ond Ymddiriedolaeth Dewi Sant sydd y tu ôl i'r mudiad a phrin bod gennym le i gwyno ar yr enw a ddewiswyd gan yr arloeswyr eu hunain.³²

Bu edrych ymlaen eiddgar at y cynllun, yn enwedig wedi i Gorfforaeth y Brifddinas gytuno i roi tir ar gyfer adeiladu'r theatr rhwng Castell Caerdydd ac

Afon Tâf; ac ar ôl dewis Mr.Eilir Davies, y pensaer a gynlluniodd Theatr y Mermaid yn Llundain, i baratoi cynllun o'r adeilad mawreddog arfaethedig.³³

Nid pawb oedd mor frwd â'i gilydd. Meddai Mr. Rol Davies, aelod o gwmmni Theatr Fach Llangefni a gefnogai, yn ddigon naturiol, theatrau bychain Cymru:

Tybed nad tipyn o snobyddiaeth ydi'r syniad o gael Theatr Genedlaethol yng Nghaerdydd? A oes 'na frwdfrydedd at y ddrama yn y brifddinas? Tipyn o 'white elephant' fuasa Theatr Genedlaethol yng Nghaerdydd, mae gen i ofn.³⁴

Erbyn y flwyddyn ganlynol, roedd Emyr Edwards, awdur "Llais o'r Llenni" yn Y Faner yn wythnosol, hyd yn oed yn dechrau amau'r cymhellion y tu cefn i syniad Theatr Dewi Sant. Pan gyhoeddwyd cynllun i gau'r Theatr Newydd yng Nghaerdydd yn niwedd 1961, bu'r ymateb ganddo yn ei golofn ar 18 Ionawr 1962 yn llai na chalonogol i gefnogwyr y Theatr Genedlaethol:

.....y broblem ydyw, na fedr y Brifddinas gynnal hyd yn oed y Theatr Newydd fel y mae. Y mae theatr genedlaethol yn llawer mwy nag adeilad crand, a syniad ymarferol, a simbol soffistig.³⁵

Gwnaeth Clifford Evans ei ddelfryd ohoni yn amlwg fis Awst 1962 pan ddatganodd:

...Rhaid iddi fod yn un o theatrau hardda'r byd. Bydd yn theatr annibynnol ac yn gorff elusennol heb geisio elw annibynnol.³⁶

Darlun uchelgeisiol; a bu'n rhaid aros tan 1964 am gynllun pendant yn lle'r breuddwydio ffôl. Cynhaliwyd seiat i ddramodwyr ar y testun "Y Ddrama Gymraeg" ar y chweched o Awst y flwyddyn honno dan lywyddiaeth Tom Richards, Abertawe, a chafwyd ynddi syniadau syml a gwerthfawr:

Yr hyn sydd ei angen ar ddrama yng Nghymru yw nid siaradwyr ond seiri,³⁷

ebe Raymond Edwards, pennaeth Coleg Cerdd a Drama Caerdydd, gan ganolbwyntio ei sylw ar yr angen am ddramâu da i'w perfformio yn hytrach nag adeilad crand. Roedd sylwadau Gwilym Jones a Gwilym T. Hughes i'r un perwyl, ond yn ôl at yr adeilad bondigrybwyll yr aeth y ddadl unwaith yn rhagor. Ym 1966, etholwyd pwyllgor o dri i geisio mynd "uwchben y broblem"³⁸, sef Arglwydd Aberdâr, yr Athro Gwyn Jones o Bwyllgor Cymreig Cyngor y Celfyddydau, a Syr Ben Bowen Thomas. Bu cyfarfod rhyngddynt fis Ebrill 1966, a chafwyd cyfaddawd. Eglurodd gohebydd Y Faner:

Penderfynwyd yn unfrydol yn y cyfarfod hwn yng Nghaerdydd o gynrychiolwyr awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus Cymru i gefnogi'r syniad o gael Theatr Genedlaethol cyhyd ag y bo'r syniad yn cael hefyd gefnogaeth y bobl drwy Gymru gyfan.³⁹

Gwrandawyd ar farn y cyhoedd, nid yn unig y swyddogion a feddyliai am ddelwedd y brifddinas. Ciliwyd hefyd oddi wrth y syniad gwreiddiol o ganolbwyntio'r datblygiad ar Gaerdydd yn unig. Adroddodd Y Faner:

Yn ôl a drefnir, yng Nghaerdydd y bydd y prif ganolfan, sef ei chartref sefydlog, swyddogol, a bydd ym Mangor ganolfan hefyd ar gyfer cynhyrchu dramâu Cymraeg, gan mwyaf. Sonnir hefyd am sefydlu canolfannau mewn pedair neu bum tref yn Neau Cymru.⁴⁰

Cynhaliwyd Gŵyl Ddrama Garthewin fis Gorffennaf 1966 megis i wawdio'r pwyllgora dibendraw yng Nghaerdydd. Rhoddwyd y rhan helaethaf o'r sylw i ddramâu Saunders Lewis, fel oedd yn ddisgwyliedig. Bu adolygiadau trwyadl o'r Wyl yn y papurau wythnosol, yn cynnwys barn fanwl Kate Roberts ar berfformiad o'r ddrama Amllyn ac Amig. Daeth brwdfrydedd y cwmni drama i'r

amlwg er nad oedd Miss Roberts yn cytuno â'r dehongliad ambell waith.⁴¹ Cafwyd adroddiad hefyd o ddarlith Mr. Dafydd Glyn Jones ar Saunders Lewis a'i waith.⁴² Dengys yr holl sylw a roddwyd i'r Wyl nad oedd perygl i ddatblygiad y celfyddydau yng Ngogledd Cymru, Theatr Genedlaethol neu beidio.

Er llwyddiant yr ymgyrchu am y Theatr, ni chafwyd ateb boddhaol. Daeth awgrym arall i'r amlwg ym 1967, a'r cynnig am Theatr Symudol oedd hwnnw. Nid oedd yn syniad newydd - galwyd am theatr o'r fath ym 1956 mewn adroddiad yn Y Faner gan Morris Jones, cynhyrchydd Chwaraewyr Garthewin, ond heb lwyddiant. Eglurodd bryd hynny:

....gellid cynllunio ac adeiladu theatr deithiol ar yr un llinellau ag a wnaed yn Lloegr; sef cael dwy neu dair men fawr, wedi eu cysylltu â'i gilydd, yn cario theatr gyfan yn cynnwys llwyfan ac "auditorium". Mae'n bosibl y byddai modd llogi theatr felly o Loegr i fynd yma a thraw ar hyd y wlad.⁴³

Bryd hynny, roedd yn amcangyfrif y byddai angen staff helaeth i deithio gyda'r theatr yn llawn amser, gyda chynhyrchydd ac ysgrifennydd rhan-amser. Cyfartaledd y cyflogau fyddai £5,400 yn ôl Mr. Jones, gyda chostau teithio, hysbysebu, prynu celfi a mân gyflogau yn cyrraedd £5,000. Y syniad gwreiddiol oedd ymweld â phob tref ar adeg benodol, er enghraifft Dolgellau ar Ddydd Iau cyntaf y mis, Harlech ddydd Gwener cyntaf y mis ac ati, gan geisio creu'r awydd i ddilyn perfformiadau'n gyson.

'Chlywyd dim am y syniad wedyn tan 1967. Cyhoeddwyd darlun yn Y Faner y Chwefror hwnnw o fodel o theatr deithiol a gynllunwyd i Gymru gan Sean Kenny. Ymddangosai yn theatr ddelfrydol ar gyfer y wlad, yn cymharu'n ffafriol â'r cynlluniau ar gyfer theatr barhaol yng Nghaerdydd:

Cyst y theatr deithio tua £125,000 a'r theatr barhaol yng Nghaerdydd tua £500,000, a'r ddadl ddiweddaraf yw - pa gynllun a gaiff y flaenoriaeth?⁴⁴

eglurodd Y Faner, a thybiasid bod mwy o fanteision iddi nag i godi adeilad newydd yn y brifddinas. Daliai Clifford Evans mai cael theatr yng Nghaerdydd oedd y flaenoriaeth, ac y dylid sefydlu honno cyn ystyried cynllun arall; a chredai Daniel Y Faner mai gwell fyddai addasu'r neuaddau pentref presennol - cynllun a fyddai'n costio tua £40,000 ac yn cymryd rhwng deg a phymtheng mlynedd i'w gwblhau. Barnai Wilbert Lloyd Roberts, cefnogwr pybyraf y theatr deithiol ar y llaw arall, fod llwyfannau bychain Cymru'n hollol anaddas i gynhyrchu dramâu o safon, ac y byddai theatr deithiol:

...yn swcro dramâu Cymraeg ac yn cyfarfod
â'r angen am theatr Gymraeg a Chymreig.⁴⁵

Byddai theatr o'r fath yn rhan o'r Theatr Genedlaethol, nid yn gystadleuaeth iddi, pwysleisiodd Mr. Roberts, a gallai fod yn barod i fynd ar daith ymhen y flwyddyn, heb yr anhawster o gydfynd â threfniadau neuaddau.

Gwelwyd o'r model a baratowyd y gellid rhoi 350 o bobl i eistedd ynndi, o flaen llwyfan a fesurai 40 troedfedd wrth 23 troedfedd, ac a ellid ei addasu yn ôl y galw, o lwyfan Groegaidd neu Shakespeareaidd i lwyfan canolog a'r gynulleidfa o'i amgylch.⁴⁶ Disgrifiad Daniel ohoni yn Y Faner oedd:

..anferth o dun sardins y bwriedir ei lusgo o
gwmpas Cymru fel syrca.⁴⁷

ond anghytunai Eleanor Dwyryd, gan honni mai

..dyma'r union gynllun i ateb angen Cymru
wledig heddiw,⁴⁸

a chymorth mawr i'r Eisteddfod Genedlaethol bob blwyddyn. Disgrifiad arall, tecach efallai, ohoni, oedd

cragen alwminiwm sy'n plygu fel consartina
yn daclus i'w gilydd.⁴⁹

Byddai'n gweithio ar yr un syniad â'r pafiliwn symudol yn yr Eisteddfod, ond yn fwy moethus, a byddai'r pum lori a gludai'r darnau yn gwbl addas i yrru ar hyd ffyrdd troellog Cymru.

Aeth y dadlau yn ei flaen, ac ymunodd mwy o bobl yn y frwydr - rhoddwyd £10,000 o rodd gan Richard Burton "i roi cychwyn ar bethau"⁵⁰, er nad oedd yn sicr pa ddatblygiad y byddai ei arian yn ei ariannu.

Cafodd pawb ei blesio mewn rhyw ffordd ar ddiwedd y dydd. Sefydlwyd Cwmni Theatr Genedlaethol Cymru ym 1965, ac amlinellwyd ei ddyletswyddau yn Llwyfan yr haf canlynol:

Ei brif waith yw datblygu'r cwmni proffesiynol dwyieithog a adwaenir fel *Cwmni Theatr Cymru*. I'r pwrpas hwn cyfloga actorion, cyfarwyddwyr, gweinyddwyr, crefftwyr. Dyry gomisiwn i awduron, a pherfformia led-led Cymru.⁵¹

Adeiladwyd Theatr Gwynedd ym Mangor fel atodiad i ddatblygiad Caerdydd a'i hagar fis Gorffennaf 1975 yn fenter ar y cyd rhwng y Brifysgol a chwmni Theatr Cymru, fel canolfan i'r ddrama yng Ngogledd Cymru, a gwelwyd theatrau eraill o safon ledled y wlad - Theatr Clwyd yn Yr Wyddgrug, Theatr Ardudwy, Harlech, Theatr y Mwldan, Aberteifi, Theatr y Sherman yng Nghaerdydd a Chanolfan y Celfyddydau yn Aberystwyth; yn ogystal â chwmnïau teithiol megis Theatr Bara Caws a chwmni Theatr mewn Addysg Y Fran Wen. Roedd pob canolfan yn cynnig arlwy helaeth o ddramâu yn y Gymraeg, a bu dramâu awduron megis Saunders Lewis a Gwenlyn Parry yn flaenllaw ynddynt yn ystod y saithdegau, a'r ddrama Gymraeg yn ffynnu.

Yn yr wythdegau cynnar, yr un oedd y darlun, ond gyda dyfodiad S4C a theledu lloeren, hawdd yw dychmygu sut y bu i theatrau Cymru golli poblogrwydd. Erbyn canol y nawdegau, roedd sawl canolfan wedi dechrau dibynnu ar yr elw a oedd yn cael ei wneud drwy ddangos ffilmiau Hollywood - math arall o sinema oedd y theatr erbyn hyn i lawer o'u cynulleidfa, er fod mynd i weld drama yn boblogaidd o hyd ymysg y Cymry diwylliedig.

Daeth datblygiad trist i'r bennod hon yn hanes y theatr yng Nghymru i'r amlwg ar Chwefror y cyntaf, 1996 yn y Liverpool Daily Post. Oherwydd problemau ariannol, datganodd rheolwyr Theatr Clwyd yn yr Wyddgrug fod y theatr am gau ymhen pedwar mis, gan ddiswyddo cant o bobl. Yn ei hugain mlynedd, ymddangosodd actorion bydenwog fel Rex Harrison a Julie Christie ar ei llwyfan, yn ogystal â Syr Anthony Hopkins a fu'n actio a chyfarwyddo August, fersiwn o Uncle Vanya gan Tsehof yno ym mis Tachwedd, 1994. Eglurodd rheolwr Theatr Clwyd, Patric Gilchrist, y sefyllfa yn y papur:

Clwyd county council which own, fund and operate the theatre, goes out of existence after March 31, but with just two months to go we do not know who will own or operate it from April 1.⁵²

Nid oedd cyngor sir newydd Y Fflint yn gallu rhoi i'r ganolfan y swm angenrheidiol o dros ddwy filiwn o bunnau i'w chadw ar agor fel y gallai'r hen Gyngor Clwyd. Gwnaed apêl gan y Daily Post ar ran y thatr, gan ofyn i'w darllenwyr ddangos eu hanfodlonrwydd â'r sefyllfa drwy yrru datganiad i'r Ysgrifennydd Gwladol, William Hague, a gofyn i'r Swyddfa Gymreig ddod i'r adwy. Roedd Hague yn barod i helpu, ac wythnos yn ddiweddarach, datgelodd gynllun gwerth 1.3 miliwn o bunnau a fyddai yn ehangu ar adnoddau presenol y theatr a gwella'r ddarpariaeth theatrig, ond a fyddai hefyd yn ddibynnol ar arian o gronfa'r Lotri Genedlaethol. Ysywaeth, nid oedd y cynllun yn ddigon i achub Theatr Clwyd yn ôl Gilchrist, er ei fod yn gam pwysig. Meddai:

It is a move forward in the sense that the Welsh Office now acknowledges that it is a shared problem.⁵³

Bron i dri mis yn ddiweddarach, cytunodd Hague a'r Swyddfa Gymreig i dalu dyledion y Theatr a'i hariannu ymhellach. Rhoddwyd cyfle arall iddi, ond gyda llai o staff, ac ar ôl brwydr hir bersonol, collodd Patric Gilchrist ei swydd fel rheolwr - ef oedd yr unig un o staff y theatr a oedd yn cael ei gyflogi ar gytundeb,

felly tra cynigiwyd swyddi eraill o fewn y cyngor lleol i'r gweithwyr parhaol, dewiswyd peidio ag adnewyddu cytundeb Gilchrist.

Yn oes teledu lloeren a digidol, ni allwn ddarogan dyfodol theatrau Cymru, ond gyda chynhyrchiad graenus Cwmni Theatr y Dyfodol o Siwan fis Medi 1997, mae'r rhagolwg yn ffafriol.

DATBLYGIAD RADIO YNG NGHYMRU

It all began on Tuesday, February 13, 1923 at five o'clock in the afternoon in a small room over a cinema at No. 19 Castle St., Cardiff. A voice - that of Frederick Roberts, the first Station Director - announced: "This is 5WA, the Cardiff station of the British Broadcasting Company calling" and for the next hour he introduced a programme of stories for children. It was transmitted from a 6 kilowatt Marconi transmitter sited at Eldon St. (now Ninian Park Road). The aerial had been so designed as to make transmissions audible to listeners in the mining valleys north of Cardiff.⁵⁴

Fel hyn y disgrifiwyd darllediad cyntaf y B.B.C. yng Nghymru gan Rowland Lucas yn The Voice of a Nation? - A Concise account of the B.B.C. in Wales 1923-1973. Roedd yr amgylchiadau a'r stiwdio yn gyntefig a dweud y lleiaf, yn ddim mwy na deunaw troedfedd sgwâr, ac fel y dywedodd y Parch. Gwilym Davies yn ddiweddarach:

with the walls covered with a felt cloth to prevent the reaction of sound.⁵⁵

Disgrifiad y gyfansoddwraig Grace Williams o'r stiwdio gyntaf honno oedd:

as drab as a warehouse full of clutter.⁵⁶

Doedd y stiwdio mewn gwirionedd ddim yn hollol barod ar gyfer darlledu tan ychydig cyn y rhaglen agoriadol. Yn ôl Mary Henderson, un o'r cyflwynwragedd cynnar:

Up to the last minute the engineers were hard at work with their part of the installations and

the contractors were fighting against time to finish padding the walls.⁵⁷

Saesneg oedd iaith 5WA, ond roedd yr elfen Gymreig yno ar ffurf y “Welsh Night” a ddechreuwyd ar 8 Rhagfyr 1923, a chyfres o’r enw “The Growth of Wales” a lansiwyd yn Awst y flwyddyn ganlynol - y rhain oedd y rhaglenni dwyieithog cyntaf.

Roedd galwad am raglenni Cymraeg ar y radio o’r cychwyn cyntaf gan gymdeithas o’r enw Cylch Dewi Sant a ffurfiwyd yng Nghaerdydd yn niwedd 1920. Mudiad i hybu’r iaith ydoedd i gychwyn, ac roeddynt yn cyhoeddi pamffledi i bwysleisio eu gofynion : Welsh Books for Children, Yr Aelwyd Gymraeg, Diwygiwr yr Ysgol Sul ac Y Gymraeg yn yr Ysgolion - oll yn bynciau pwysig yn y blynyddoedd a oedd i ddod. Pan lansiwyd 5WA yng Nghymru, roedd yn gyfle delfrydol i’r Cylch ymgychu am ddeunydd Cymraeg ar y cyfrwng newydd hwn. Bu trafodaethau rhyngddynt a Rheolwr yr Orsaf, a daethpwyd i gytundeb rhwng E.R. Appleton ac aelodau’r cylch, a gynwysai’r Dr. a Mrs Abel Jones (yn eu cartref hwy y cynhaliwyd llawer o’r cyfarfodydd), W.J. Gruffydd a’i wraig, Rh. Hopkin Morris, D.T. Davies a Saunders Lewis. Rhoddwyd y cyfle iddynt drefnu cyfres o raglenni - yn ôl Rowland Lucas:

They were to be of an hour’s duration but there should be no talks or plays in Welsh since, in the Director’s view, the majority of listeners would not want them. Songs, however, could be sung in Welsh. Cylch Dewi were paid twelve guineas for each programme out of which they paid the artists and all travelling expenses.⁵⁸

Darlledwyd yr “Awr Gymraeg” gyntaf ar 14 Ionawr 1925, yn cynnwys W. Morgan Evans yn canu penillion, D. Haydn Davies yn adrodd darn o “Ymadawiad Arthur”, a chaneuon Cymraeg a Saesneg gan Madame Rowland James. I ddathlu Dydd Gŵyl Ddewi y flwyddyn honno, cafwyd un rhaglen ddwyawr o hyd a ddarlledwyd ar Chwefror 28. Ni chytunodd Appleton yn syth â chais Cylch Dewi am wasanaethau crefyddol drwy gyfrwng y Gymraeg

oherwydd nid oedd yn siŵr sut dderbyniad fyddai i raglen o'r fath, ond wedi trafod gyda gweinidogion capeli ac eglwysi Cymraeg Caerdydd, darlledwyd y gwasanaeth Cymraeg cyntaf o Gapel y Tabernacl, Caerdydd, ar 31 Mai 1925 o dan ofal y Parchedig Charles Davies. Ychydig o gyswllt a fu wedyn rhwng Cylch Dewi a'r B.B.C., ond yn ddi-os, bu eu gweithgarwch cynnar yn sylfaen amhrisiadwy i ddarlledu drwy gyfrwng y Gymraeg.

5WA oedd gorsaf radio gyntaf Cymru, ond roedd y Cymry wedi cael blas ar y cyfrwng ryw faint ynghynt. Dechreuodd gorsaf 2ZY ddarlledu o Fanceinion ar 16 Mai 1922, a gellid clywed eu rhaglenni yn siroedd Flint a Dinbych pan oedd y tywydd yn ffafriol; yn yr un modd, roedd 5IT o Firmingham i'w glywed yn y canolbarth o fis Tachwedd 1922 ymlaen.

Roedd anniddigrwydd yn nhrefi'r deheubarth ynglŷn â dewis Caerdydd fel cartref i'r orsaf radio gyntaf yng Nghymru. Tan yn ddiwedd^{dar}, roedd poblogaeth Merthyr Tydfil ac Abertawe yn fwy sylweddol; a chredai swyddogion dinas Abertawe fod cefndir celfyddydol cryfach yno nag yng Nghaerdydd, ac felly'n haeddu yr un ystyriaeth. Mae'n rhaid cofio na chydabuwyd Caerdydd yn brifddinas Cymru tan 1955, felly roedd y protestiadau hyn yn ddigon teg; ond yng Nghaerdydd y lansiodd 5WA, ac erbyn 1926 roedd tipyn go lew o ddarlledu oddi yno: o 12.30 i 1.30, yn y prynhawn o 2.30 i 4.30 a gyda'r nos o bump o'r gloch yn aml tan unarddeg neu hanner nos.⁵⁹

Nid anwybyddwyd protestiadau dinas Abertawe yn gyfangwbl ychwaith. Pan gyhoeddwyd bwriad y B.B.C. i sefydlu gorsafoedd cyfnewid, gwnaethpwyd cais gan Gyngor Sir Forgannwg at bennaeth y cwmni am orsaf o'r fath, a deufis yn ddiweddarch ar 30 Ebrill 1924, cytunwyd â'r cais. Agorwyd yr orsaf ar 12 Rhagfyr 1924 yng nghanol miri mawr, er na fyddai rhaglenni'n cael eu cynhyrchu yn yr orsaf gyfnewid. Meddai'r Dirprwy Lynghesydd C.D. Carpendale, Rheolwr y B.B.C., wrth ddiolch i Faer Abertawe am agor yr orsaf:

Broadcasting has undoubtedly come to stay and has become a very real and live factor in the lives of the people. The Company is glad of the opportunity to extend these facilities by the erection of the relay station at Swansea. Our aim is to bring to as many homes as

possible entertainment and information and the Company is actuated by a clear policy, sound principles and high ideals.⁶⁰

Yn amlwg, roedd datblygiad radio yng Nghymru'n cael ei groesawu'n eiddgar yn y cyfnod; trist oedd sylwi nad oedd dim yn "Gymreig" iawn ynglŷn â'r rhaglen gyntaf ond am chwarae'r anthem Genedlaethol, ond roedd gwell i ddod. Ym 1925, darlledwyd nifer o wasanaethau crefyddol o'r stiwdio yng Nghaerdydd drwy gyfrwng y Gymraeg - y cyntaf ohonynt ar Chwefror 22:

..The first occasion that a Welsh service has been provided by a Welsh station although Cardiff has been operating for over two years. Every word of the address by the Rev. R.S. Rogers was heard distinctly,⁶¹

meddai'r Cambria Daily Leader amdano. Torrodd 5WA dir newydd - cychwynnodd gyfres o raglenni i ysgolion ar 15 Mai 1925 yn cynnwys rhaglenni ar gerddoriaeth, natur a sgysiau â phobl adnabyddus. Bedwar diwrnod yn ddiweddarach ar 19 Mai, cyhoeddwyd yn y Radio Times^{anw} yr opera gyntaf i'w darlledu yng Nghymru, Blodwen gan Dr. Joseph Parry. Ddydd Gwener, 26 Mehefin 1925, darlledwyd cyngerdd cyntaf Gŵyl Aberystwyth o Goleg y Brifysgol. Meddai'r Cambria Leader:

This will be a great event in the history of the Swansea station in that the concert will be provided by the Welsh Symphony Orchestra who will thus broadcast for the first time. The relay of the concert will be no small feat as the music will be carried by land-line from Aberystwyth to Swansea.⁶²

Roedd technoleg y radio'n datblygu'n gyflym, ac erbyn 1927, datganodd Gorsaf Gyfnewid Abertawe y byddai'n darlledu sylwebaeth ar gêm rygbi Cymru yn erbyn Ffrainc yn Sain Helen, a hynny ar hyd a lled Prydain. Cam ymlaen, ond heb fawr o obaith am wasanaeth gwell, fel yr eglurodd y Cambria Daily Leader:

Within its limits, and they are severely defined, the relay station has served Swansea excellently. We have nothing but praise for the work done by Mr. Parsons, the Swansea Director. But there are indications which even the outsider can read, that the ambitious programmes we had all thought would be worked from Swansea will never be realised until the station is treated at last upon an equality with Cardiff.⁶³

Teimlid ar y pryd mai eilradd ydoedd yr orsaf yn Abertawe o ran adnoddau a datblygiadau, yn ddigon dealladwy gan mai gorsaf gyfnewid yn unig ydoedd ar ddechrau ei hoes; ond y farn gyffredinol oedd mai hon oedd canolfan y “Gymru Gymraeg”.

Waeth o ble y daeth y rhaglenni cyntaf hyn yn y Gymraeg, daethant â gobaith newydd am y dyfodol i'r iaith Gymraeg; mor gynnar â 1925 bu galwad gan genedlaetholwyr am orsaf radio gwbl Gymraeg rywle yng Nghymru. Ym 1926, adroddodd y Western Mail:

The question of an all-Welsh broadcasting station is exercising the interest of the National Union of Welsh Societies. At their conference in Shrewsbury it was reported that the Government's Welsh Language Commission had asked Professor W.J. Gruffydd and Councillor Phillip Thomas to approach the B.B.C. on the suggested establishment of such a station and, if this is not feasible, to ask them to provide a bigger Welsh programme.⁶⁴

Roedd cefnogwyr yr iaith yn credu mai'r cyfrwng newydd hwn oedd gobaith y Gymraeg ar gyfer y dyfodol. Bu cwynion am sefyllfa'r Gymraeg, a chymharwyd Cymru â'r Alban yn y Western Mail, Gorffennaf 1929, gan gwyno bod yr Alban yn cael llawer mwy o gydymdeimlad gan y B.B.C.⁶⁵ Ar y llaw arall, roedd gofyn am donfedd radio ar wahân i Gymru, i gyd drwy gyfrwng y Gymraeg, yn syniad drwg yn ôl rhai - y Cambria Daily Leader yn un:

What will meet their case? Do they want a high-power station which will diffuse only Welsh speech and song? If they do, they are in a great minority in Wales. There is not enough Welsh music in existence to keep such a station going for a month and we would be tired of it even if there were. We want the world for Wales; and the radio can give us the world.⁶⁶

Yn eironig, yr un ddadl a ddefnyddiodd Radio Cymru ym 1995 pan y'i cyhuddwyd gan Gymdeithas yr Iaith Gymraeg o chwarae gormod o gerddoriaeth Saesneg ar ei rhaglenni newydd.

Roedd Prifysgol Cymru o blaid uno Cymru i'r pwrpas hwn:

...and that a high-power station should be established whose special function would be to serve Wales as a whole....⁶⁷

Cyflwynwyd adroddiadau i'r perwyl hwn i Lywodraethwyr y Brifysgol ddiwedd 1929. Doedd y B.B.C. ddim mor siŵr y byddai hyn yn bosibl, ond dadlenwyd cynllun i sefydlu gorsaf radio ym Mryste ym 1931 a fyddai o fantais i ddedwyrain Cymru a de-orllewin Lloegr, yr ardal a gâi ei hadnabod gan y B.B.C. fel y "West Region" (nid oedd y Gorfforaeth, hyd yn hyn, wedi adnabod Cymru fel ardal ar ei phen ei hun yn nhermau darlledu.)

Agorodd yr orsaf ar 28 Mai 1933, a pheidiwyd â defnyddio trosglwyddys ~~adion~~ Abertawe a Chaerdydd. Adroddodd y Radio Times am weddnewidiad yn stiwdios Caerdydd:

The Orchestral Studio is to have a magnificent Red Dragon as its chief decoration and the Red Dragon flag will be flown from the building on special occasions.⁶⁸

Roedd datblygiad newydd wedi cychwyn yn Park Place, Caerdydd - canolfan stiwdio i wasanaethu Cymru - ac roedd gwrandawyr mewn rhannau eraill o

Gymru yn gallu derbyn gwasanaeth o orsaf Daventry, yn cynnwys rhaglenni o bwys i Gymru, yn y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg; ond doedd hynny ddim digon i newid barn y cenedlaetholwyr am y "B.B.C." - talfyriad o "Bradwr Budr Cymru" ydoedd medden nhw.

Daeth Rhys Hopkin Morris i'r adwy ym 1932, gan ddweud y dylai Cymru fynnu cyfundrefn radio ar wahân, gyda phwyllgor annibynnol i'w rhedeg. O ganlyniad, sefydlwyd pwyllgor o'r fath; ymysg yr aelodau roedd David Lloyd George, yr Athro Emrys Evans a D. Brynmor Anthony; a chytunodd John Reith, pennaeth y B.B.C., i gyfarfod â hwy ddwywaith y flwyddyn. Ni fu llwyddiant, fel yr eglurodd y Daily Express ym 1934:

The formation of the committee was suggested by Sir John Reith himself. The first thing it did was to ask for a minimum of twelve hours a week of Welsh for the benefit of listeners who invariably use their mother tongue in their homes. The B.B.C. increased Welsh programmes to four hours a week. The argument against more Welsh was that West of England listeners did not want it.⁶⁹

Nid oedd y cenedlaetholwyr yn hapus, yn enwedig Saunders Lewis - cafwyd adroddiad amdano yn y Manchester Guardian:

Mr Lewis claims that it is now imperative that Wales, through its public bodies and its parliamentary representatives, should demand (a) a Government Commission to inquire into the administration of broadcasting; (b) a Welsh representative on the Commission; (c) rigorous examination in Parliament of the Postmaster General on the action of the Post Office in connection with the Bangor studio which was promised to serve North Wales listeners....he regards as disgraceful the recent increase from an average of four hours weekly in 1933 to five and a half or six in June 1934 and says that the consultative committee were definitely informed by the B.B.C. that the present average of Welsh

broadcasting was fairly near what the B.B.C. regarded as a satisfactory maximum....⁷⁰

Meddai Lewis:

...in my opinion the B.B.C. administers Wales as a conquered province and does not even keep faith. The Committee has acted as the representative of a nation and has voiced the demands of the Welsh nation. And the facts as shown reveal that this English Government Corporation flouts the Welsh nation and absolutely refuses to meet the most reasonable and moderate requirements.⁷¹

Doedd dim digon o Saesneg ar y radio yn ôl y Bristol Evening World:

...How long must the West remain at the most a radio dominion, or rather dependency, of the great nation of Wales?

Services from obscure Welsh chapels are regularly broadcast to the nation on Sunday evenings. This is a religious scandal and there is not the slightest justification for it...The truth is the West is weary of Wales. The West wants wireless home rule.⁷²

Da oedd deall fod rhywrai o'r tu allan i Gymru yn sylweddoli'r angen am donfedd Gymraeg, er eu cymhellion, ond roedd agwedd yr Evening World yn ormodol gas ar brydiau:

No other area of England is inflicted with broadcast radio programmes in a foreign language as is the West Region.⁷³

Cafodd trigolion Bryste anrheg gan y B.B.C. ar 18 Medi 1934, pan agorwyd stiwdio newydd yno. Ond dim unwaith eto i Gymru. Ym 1935, ysgrifennodd y Parchedig Gwilym Davies yn y Western Mail:

Today the B.B.C. in Wales is twelve years old....Today, Wales as a nation, is unique in Europe in that she has no wireless transmitter upon her soil. On a broadcast map of Europe Wales is blank.⁷⁴

Penderfynodd y Blaid Genedlaethol a Phwyllgor y Brifysgol bod angen gyrru dirprwyaeth at Syr John Reith i drafod sefyllfa druenus Cymru ym maes darlledu. Cynhaliwyd y cyfarfod ddydd Iau 11 Ebrill 1935, ac ar wahoddiad y Blaid roedd D.R. Grenfell, Will John, Dr. Morris-Jones, R.T. Evans, Charles Edwards a Miss Megan Lloyd George yn bresennol. Ar bwylgor y Brifysgol yr oedd yr Is-Ganghellor D. Emrys Evans, y Prifathro Ifor L. Evans, E.G. Bowen, yr Athro W.J. Gruffydd, Syr William Jenkins a'r Capten Ernest Evans. Hwn oedd un o'r pwyllgorau pwysicaf yn hanes datblygiad darlledu yng Nghymru. Cytunwyd i drafod dau fater yn unig - gwahanu Cymru oddi wrth Orllewin Lloegr a'i thrin fel uned ar wahân i bwrpas darlledu; yn ail; sefydlu gorsaf ddarlledu i wasanaethu Gogledd a chanolbarth Cymru.⁷⁵

Ar ôl y trafodaethau, cyhoeddwyd datganiad i'r wasg o gofnodion y Pwyllgor, yn cynnwys crynodeb o adroddiad Reith. Derbyniodd y Cymry ateb i'r ddwy alwad; fel y dywedodd Reith:

It now seems practicable for a wavelength to be provided for a West Regional transmitter in the neighbourhood of Plymouth, with which a relay transmitter might be associated to serve the Bristol area.

Although such a station could not serve the whole of the West and South West counties, it would serve a large proportion of the population concerned, and this would make it possible to allot the present West Regional transmitter at Washford Cross to the Welsh service. To cater for the North of Wales a relay station is to be established in the Bangor area. This, therefore, means that the Washford Cross Station will be able to radiate programmes for Welsh listeners; equally that the new West of England transmitter will radiate programmes specially designed for its own area. Such a course

would go a long way to removing the causes of complaint both in Wales and the West country but it could not be said that in either of these Regions a service could be guaranteed to every listener.⁷⁶

Byddai'r newid hwn yn weithredol mewn blwyddyn a hanner - byddai angen yr amser hwnnw i chwilio am leoliad i'r trosglwyddydd a'i adeiladu. Bu anghytuno ynglŷn â phwy oedd yn bennaf gyfrifol am y llwyddiant hwn. Yn ôl Saunders Lewis:

Clearly one must recognize that the University of Wales Consultative Committee has a large and meritorious claim for recognition and there is at least one man whose claim seems to be greater than of any one else. He is E.G. Bowen...It is common knowledge that E.G. Bowen guided this committee. Let there be honour where honour is due.⁷⁷

Credai'r Parch Gwilym Davies mai'r Athro Ernest Hughes, Abertawe, a oedd yn haeddu'r clod, tra roedd y Western Mail yn mynnu mai arall wedyn oedd yn gyfrifol.

Aed ati i lenwi swyddi newydd swyddogion y B.B.C. yng Nghymru, yng nghanol amheuon mai gweinidogion, athrawon a beirdd a oedd yn cael eu hystyried am y swyddi. Darganfuwyd llecyn delfrydol i'r stiwdio newydd ym Mangor, Bryn Meirion, tŷ mawr ym Mangor Uchaf o'r eiddo Major Bloom.

Ar y cychwyn, tri aelod o staff oedd ym Mryn Meirion - Sam Jones, cynrychiolydd y B.B.C. yn y Gogledd; ei ysgrifenyddes, Nan Davies; a Sydney Hett, y Prif Drydanwr, a fu'n gweithio yno nes iddo ymddeol ym 1961. Cyn i'r stiwdio gael ei chwblhau roedd galw amdani, a darlledwyd ohoni am y tro cyntaf cyn iddi gael ei gorffen, ar 8 Tachwedd 1935 - darllediad etholiadol gan David Lloyd George. Cafwyd disgrifiad o'r stiwdio newydd yn y North Wales Chronicle:

The room, which is heavily carpeted and has all the gadgets of a B.B.C. studio with the

warning red light, will accommodate a party of singers, but not a choir. If a choral performance is to be broadcast it must take place in a larger building.⁷⁸

Llofnod Mr. Lloyd George oedd y cyntaf yn y Llyfr Ymwelwyr ar ôl y noson honno, er na chafodd y stiwdio ei hagor yn swyddogol tan Dachwedd 30. Disgrifiodd E. Morgan Humphreys ym 1947 ei brofiadau ef wrth ddarlledu am y tro cyntaf o'r stiwdio newydd ym Mangor:

Ar yr wythfed ar hugain o Ragfyr mil naw cant tri deg a phump yr oeddwn yn darlledu am y tro cyntaf o'r ystafell yma. Yr oedd y Gorfforaeth Ddarlledu newydd ei sefydlu ym Mangor ac yr oedd pob peth yn newydd. Dydd y pethau bychain oedd hwnnw ar wahân i'r peirianwyr a'r comisionêr. Credaf mai dau oedd rhif aelodau'r staff. Newidiodd pethau yn o arw erbyn hyn...⁷⁹

Agorwyd yr orsaf drosglwyddo newydd ym Mhenmon, Ynys Môn ar Chwefror 1, 1937, ond ni chafwyd addewid y buasai'r orsaf hon yn gwasanaethu Gogledd Cymru i gyd, fel yr awgrymwyd gan Syr John Reith. Roedd agwedd haerllug Rheolwyr y B.B.C. yng Nghaerdydd tuag at y Cymry yn un a wylltiai Saunders Lewis, fel yr eglura John Davies:

...Cardiff producers felt that they were providing a service for people who lived somewhere else. There was some tendency to view these people as folksy peasants, an attitude which annoyed Saunders Lewis. Welsh, he argued, was one of the major literary languages of Europe and he demanded literary programmes in Welsh which surveyed the entire European literary scene.⁸⁰

Roedd hwn yn gais y gellid ei gyflawni yn sgîl yr orsaf drosglwyddo newydd ym Mhenmon, gyda diolch i ddewin dŵr o Fangor. Adroddodd y Sunday Referee yr hanes:

A water-diviner has saved the B.B.C. hundreds of pounds. The B.B.C. chose a site for a new broadcasting transmitter on the Isle of Anglesey but discovered that the nearest water supply was miles away. Just as a decision was being made to lay supply pipes at a cost of several hundred pounds an amateur water-diviner from Bangor arrived. 'I know that underneath this field is all the water you need,' he said. Mr. Tudsberry, B.B.C. Civic Engineer, took a twig offered by the diviner and stood on a spot indicated by him. 'The twig twitched in my hands. I was amazed and I could not believe this apparent magic,' Mr. Tudsberry told me. A well was sunk and now four hundred and fifty gallons is being pumped each day.⁸¹

Yn ôl y Prifathro Emrys Evans, roedd 1937 i ddod â datblygiadau mawr yn hanes darlledu yng Nghymru. Trechwyd y problemau technolegol a oedd yn peri bod sain radio Cymraeg yn anfoddfaol: meddai Mr. Evans:

The crack in the voice of Welsh radio has been repaired so that we in North Wales can hear a play from Cardiff or a choir from Swansea or an eisteddfod from Machynlleth as clearly as we hear an English voice from London or that of a Scot from Edinburgh or an Irishman from Dublin. That's a bit of a marvel for us Welsh. This is a miracle of 1937 - a clear united voice through the air.⁸²

Bu datblygiad creadigol hefyd ym 1937, fel yr eglura John Davies:

Undoubtedly the greatest contribution made to Welsh drama by the Corporation in the 1930's - and probably the most controversial decision made by Welsh broadcasters in that

decade - was the result of a commission by Owen Parry. In 1936, he invited Saunders Lewis to write a play for performance on St. David's day 1937. The invitation came after Lewis had been involved in the burning of the Bombing School in Penyberth, an act which led - after a Caernarfon jury had failed to agree on a verdict - to his being sentenced at the Old Bailey to a year's imprisonment.....Head Office was told that the Welsh Region's St. David's Day programme would include a play about St. Germanus of Auxerre.....The implications of the situation only became apparent when the Cardiff executive officer asked his counterpart in London how a playwright who was in prison should be paid.⁸³

Darlledwyd Buchedd Garmon ar Fawrth y cyntaf 1937 a chafwyd derbyniad da iddi gan gynulleidfa a oedd yn prysur dyfu. Erbyn Gorffennaf 1937, roedd gan 58 y cant o gartrefi Cymru drwydded i dderbyn darllediadau radio - prawf cadarnhaol fod y gwasanaeth newydd Cymraeg yn boblogaidd, ac roedd nifer cynyddol o ddramâu'n cael eu darlledu, gan awduron megis Emlyn Williams, T. Rowland Hughes a W.J. Gruffydd. Meddai Nest Jenkins, Swyddog Gwybodaeth y B.B.C. yng Nghymru, ym 1939:

There is plenty of creative energy in Wales
and we want to direct it into our channels.⁸⁴

Y brif gŵyn am y B.B.C. yn y tridegau oedd yr un ynglŷn â'r bwletinau newyddion. Roedd y Cymry eisiau clywed newyddion eu gwlad eu hunain, nid newyddion Lloegr wedi'i ail-dwymo. Cwtogwyd bwletinau dyddiol o bum munud i ddau fwletin o ddeng munud bob wythnos gan Owen Parry, Cyfarwyddwr Rhaglenni'r B.B.C. yng Nghymru ym 1936 a bu'n rhaid ymladd am welliant. Pan gychwynodd y Rhyfel ym 1939, bu bwletinau newyddion dyddiol yn y Gymraeg yn manylu ar sefyllfa'r wlad - nid yn unig yng Nghymru ond drwy Brydain oll, a chynhyrchwyd nifer sylweddol o raglenni eraill drwy gydol blynnyddoedd y rhyfel. Roedd Siarter y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig

yn dod i ben ym 1946, a'r bwriad oedd sicrhau ateb derbyniol ynglŷn â darlledu yng Nghymru cyn hynny. Dadl bennaf Gwynfor Evans oedd:

...Gellid yn fuan iawn Cymreigio'r radio yng Nghymru mor bell ag sy'n bosibl heb achosi aflonyddwch o gwbl. Canys er mor fawr yw ei ddylanwad, y mae ei gost a rhif ei swyddogion yn gymharol fychan, ac y mae eisioes dan reolaeth gyhoeddus. Am y rhesymau hyn y mae'n llawer haws Cymreigio'r radio yng Nghymru na'r sinema na'r papur dyddiol. Ac yma mae'n rhaid pwysleisio na olygir wrth sôn am Gymreigio'r radio y byddai'r rhaglenni oll yn Gymraeg. Yr hyn a olygir ydyw sicrhau'r radio yn eiddo'r genedl, a chan fod mwyafrif y genedl Gymreig yn deall Saesneg yn unig, byddai'n raid rhannu'r rhaglenni Cymreig rhwng y ddwy iaith.⁸⁵

Roedd y B.B.C. hyd yn hyn wedi gwrthod y cais am Gorfforaeth Radio Gymreig ar sail pedwar rheswm: anawsterau peirianyddl; y ffaith nad oedd tonfedd ar gael (er fod un ar gael i'r Alban ac Ulster, i ardaloedd a oedd â llai o boblogaeth na Chymru); honnai'r B.B.C. nad oedd digon o ddeunydd rhaglenni yng Nghymru; ac yn olaf, nad oedd digon o bobl yng Nghymru yn berchen ar drwydded i gyfiawnhau Corfforaeth Radio. Roedd ateb digon syml i bob un o'r 'problemau' hyn, a digon o le i gredu mai gwneud esgusodion yr oedd y B.B.C.

Bu'n rhaid aros tan 1937 cyn cael rhywbeth i'w ddathlu. Meddai John Davies:

The term 'Radio Cymru' - wholly unauthorized at the time - first appeared in the press on 7 December 1936 [yn Y Cymro]. Nevertheless, it could be argued that the region only truly came into existence on 4 July 1937, a date which marks the end of one chapter in the history of broadcasting in Wales and the beginning of another.⁸⁶

Lansiwyd tonfedd ar wahân i Gymru ar 4 Gorffennaf 1937 gan Syr John Reith, Noel Ashbridge a Cecil Graves. Meddai Reith:

Unless I have been hearing wrongly....Wales appears for a change to be pleased with the B.B.C.⁸⁷

Cymharodd Gwynfor Evans sefyllfa Cymru â nifer o wledydd bychain eraill, yn cynnwys Denmarc ac Iwerddon, a chasglu y byddai Radio yng Nghymru'n gallu gwneud cystal, os nad gwell, na hwy:

Dadleuwn dros fynd ymlaen i'r terfyn rhesymol, gan roddi pob awdurdod dros ddarledu Cymreig yn Gymraeg ac yn Saesneg, yn nwylo'r Cymry, gan wneud Corfforaeth Radio Cymru yn gefn, yn ddehonglydd ac yn ysbrydiaeth i fywyd y genedl hon.⁸⁸

Yng nghanol miri'r llwyddiant, roedd y rhaglenni eu hunain yn ffynnu, a drama radio'n tyfu o ran safon a phoblogrwydd. Darlledwyd pump o ddramâu Saunders Lewis rhwng 1947 a 1952 - yn eu plith Blodeuwedd gyda Huw Griffith, Lorraine Davies a Meredith Edwards - a chafwyd derbyniad da iddynt, er fod cwynion cyffredinol yn dod i law am y dramâu a ddarlledwyd, cwynion eu bod yn rhy sylweddol a thrwm, yn enwedig y cyfieithiadau clasurol.

Ym 1947, sefydlwyd Cyngor Ymgynghorol i Gymru ar ôl awgrymiadau gan Bwyllgor Ulswater, a chynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar 13 Chwefror 1947 - union bedair blynedd ar hugain wedi dechrau darlledu yng Nghymru - dan gadeiryddiaeth yr Athro T.H. Parry-Williams, gyda 23 o aelodau adnabyddus megis Kate Roberts, Gwynfor Evans a Syr Wynn Wheldon. Arweiniodd argymhellion y Cyngor hwn tuag at sefydlu Cyngor Darlledu Cenedlaethol Cymru. Yng ngeiriau Arglwydd Macdonald, Cadeirydd y pwyllgor newydd, ddiwedd 1952,

The new council is smaller in number but has more authority. The new council will control

the policy and content of the programmes of the Welsh Home Service, having full regard to the distinctive culture, interests and tastes of the people of Wales.⁸⁹

Cafwyd amrywiaeth ehangach o raglenni ar yr awyr, ac ail-agorwyd y stiwdio yn Abertawe, ond ni chyflawnwyd holl ofynion y Cymry. Dadleuodd Cyngor Gwledig Gwyrfai y dylai'r Cymry dalu hanner pris y drwydded radio, gan mai hanner gwasanaeth yn unig a dderbynient. Rhoddwyd rhestr i Swyddfa'r Post ym 1955 o gant o bobl a wrthodai dalu pris y drwydded. Meddai John Roberts Williams yn ofidus:

Os pery'r ymyrraeth am ddwy flynedd eto,
bydd pobl nid yn unig wedi peidio â cheisio
gwrando ar Radio Cymru, ond wedi anghofio
fod yna'r fath beth.⁹⁰

Sicrhawyd dyfodol radio drwy gyfrwng y Gymraeg gan adroddiad Annan, ac yn ddiweddarach ym Mai 1974, cyflwynwyd dogfen i Bwyllgor Crawford gan y Cyngor Darlledu i Gymru yn rhagweld sefydlu Radio Cymru a oedd i ddarlledu am gan awr yr wythnos, a Radio Wales am 80 awr. Byddai'r darllediadau yn addas i Gymru, a byddai angen staff ychwanegol i weithredu'r ddwy orsaf. Awgrymwyd y gallai Radio Wales ar y donfedd ganol gael ei lansio ym 1977, ond byddai angen mwy o amser ar Radio Cymru gan ei bod am ddarlledu ar donfedd uchel (VHF).

Ym 1978, penodwyd Golygyddion i'r gorsafoedd radio newydd: Meirion Edwards oedd i fod yn gyfrifol am Radio Cymru a Teleri Bevan yn rheoli Radio Wales. Roedd y ddwy'n cael eu hysbysebu fel gorsafoedd ar wahân yn y Radio Times o 1 Ionawr 1977, er mai plant Radio Pedwar oeddynt mewn gwirionedd.

Os rhywbeth, bu llwyddiant Radio Cymru'n fwy pan ail-lansiwyd hi yn Nhachwedd 1979; gyda rhaglenni'r bore'n boblogaidd iawn - yn enwedig "Helo Bobol" gyda Hywel Gwynfryn a ddarlledwyd gyntaf ym 1977. Bu canmoliaeth uchel i'r gwasanaeth gan nifer o enwogion - yn ôl Hafina Clwyd, roedd hi'n

werth dychwelyd i Gymru ddim ond i wrando ar Radio Cymru, a methai Alwyn Roberts gofio adeg pan nad ydoedd mewn bodolaeth.⁹¹

Roedd y Ganolfan Ddarlledu ym Mangor yn bwysig iawn, er mai yng Nghaerdydd yr oedd pencadlys Radio Cymru - ym 1979 darlledwyd 50 awr o Gymraeg yr wythnos - 30 o'r rheini o Fangor.

Ym 1995, penderfynwyd anelu at wrandawyr ieuengach er mwyn chwyddo nifer y gwrandawyr, a bu tipyn o gynnwrf ynglŷn â'r rhaglenni - roedd torri rhaglen Sulwyn Thomas yn adrannau bychain yn amhoblogaidd iawn ar ôl yr ail-lansio ar 2 Hydref 1995. Ond fel y dangosodd rhaglen Eifion Jones yn y prynhawniau, roedd pobl yn dod i arfer â'r drefn newydd. Wedi barnu llym y misoedd cyntaf, erbyn diwedd y flwyddyn roedd "Jonsi" wedi ennill calon y genedl. Fel yr eglurodd Gwilym Owen yn ei golofn gas yn Golwg:

Jônsi ydi seren newydd darlledu Cymraeg. A pham? Gwrandewch arno fo wrthi. Gwrandewch ar y bobol sy'n ei ffonio fo. Pobol ydyn nhw sy'n teimlo'n gyfforddus efo Jônsi. Fasan nhw byth yn siarad efo neb arall. Mae Jônsi fel y lager enwog hwnnw yn cyrraedd y manau nad oes neb arall yn eu cyrraedd. Dalied ati!⁹²

Mae gwasanaeth Radio Cymru wedi llwyddo i roi arlwy o Gymraeg i'w gwrandawyr, ond tonfedd ysgafn ydyw, heb wneud ei marc â rhaglenni difrif na chynnyrch dramatig - gorsaf i wrando arni yn y cefndir. Mae'n rhoi ei sylw i fewnbwn gan gynulleidfa ledled Cymru - gresyn na fyddai mwy o bwyslais ar lenyddiaeth, gan wneud Radio Cymru yn orsaf genedlaethol i ymfalchïo ynddi.

DATBLYGIAD TELEDU YNG NGHYMRU

Bu cryn dro ar fyd ers pan ysgrifennodd Shelley at ei gyfaill Hogg ym mis Rhagfyr 1812: 'The society in Wales is very stupid. They are all aristocrats and Christians'. Yr ydym, bawb, bellach yn broletariaid da a digwydd y rhan helaethaf o'n haddoli ger bron y set deledu. Ychydig, yn wir, yw'r lleiafrif bychan hwnnw o bendefigion, neu grach-bendefigion, y mae'r teledu'n ddifater ganddynt,⁹³

sylwodd Dr. Glyn Tegai Hughes ym 1982, a gwir ei eiriau. Fel sy'n wir am bob cenedl fodern erbyn hyn, mae'r teledu yn chwarae rôl flaenllaw yn ein diwylliant, yn rhoi i ni adloniant a gwybodaeth yng nghlydwch ein cartrefi; ond yn ei sgîl, mae sgwrs a chymdeithas yn mynd yn angof, a'r teledu yn ffactor bwysig yn nhrawsnewidiad y teulu estynedig i'r teulu niwclear modern.

Erbyn diwedd y pedwardegau, roedd teledu wedi'i sefydlu yn Lloegr, ac yn profi'n boblogaidd iawn, a doedd y Cymry ddim eisiau cael eu gadael ar ôl, fel yr eglura John Davies:

By 1949, there were increasing complaints that the B.B.C. was dragging its feet over the installation of a transmitter to serve Wales.⁹⁴

Roedd gan y Daily Post ei gwynion:

Wales [is] the neglected sister where television is [concerned]⁹⁵

a'r un oedd barn llawer yng Nghymru. Problemau technegol oedd ar fai am yr oedi hwn - ymddengys fod mynyddoedd Cymru'n rhy uchel ac aml i allu cael trosglwyddoedd i wasanaethu Cymru gyfan. Ateb y Gorfforaeth Ddarlledu i hyn oedd trosglwyddo teledu Lloegr i gartrefi'r wlad - nid oedd hyn yn ddigonol.

Er awydd cryf y wasg am raglenni teledu Cymraeg i Gymru, nid oedd pawb mor awyddus. Ar ôl darllen adroddiad Alistair Cooke am yr effaith erchyll a gafodd teledu ar fywyd teuluol a chymdeithasol yn yr Unol Daleithiau, datganodd Saunders Lewis ei wrthwynebiad i ddyfodiad y teledu i'n cartrefi. Ym 1951 protestiodd:

Y mae dod â'r cinema i'r tŷ...bob dydd o'r
wythnos yn berygl moesol.... Fe all lwyr
ddinistrio pob diwylliant.⁹⁶

Yr un oedd barn John Eilian, cyn-bennaeth Rhaglenni'r Rhanbarth Cymreig;
medd yn Y Llenor:

Braw i mi yw gweld Cyngor Cymreig y
B.B.C. ac eraill yn galw mor anghyfrifol am
orsafoedd telefisiwn i Gymru....[Dylai'r
Cymry] wrthwynebu datblygiad telefisiwn
neu weithio dros ei ohirio.⁹⁷

Ond ofer fu'r protestio, nid oedd modd gohirio'r fath ddatblygiad technegol.
Mor gynnar â 1943, roedd edrych ymlaen a darogan gwasanaeth teledu i Gymru;
meddai Gwynfor Evans yng Nghyfarfod Undeb Cymru Fydd yn Eisteddfod
Genedlaethol Llandybie 1944:

Datblygiad hynod o bwysig o fath gwahanol
y gallwn ei ddisgwyl wedi'r rhyfel yw'r
“television”. Sieryd yr arbenigwyr yn
hyderus am ei gael i'r cartrefi cyn pen llawer
o amser.⁹⁸

Roedd chwilfrydedd mawr yn amgylchynu dyfodiad y teledu. Dim ond mewn
neuadd a ddangosai ffilmiau sinematig yr oedd pobl wedi gweld llun symudol
cyn hyn - roedd yr ymateb i'r ffilm “talkie” Gymraeg gyntaf ym 1936 yn dangos
sut effaith a fyddai i'r cyfryngau gweledol. Disgrifiodd John Ellis Williams, a
ymddangosodd yn Y Chwarelwr, ymateb perthynas iddo pan ddangoswyd y ffilm
ym Mhenmachno:

Doedd hi erioed cyn hynny wedi gweld
darluniau byw, heb sôn am ddarluniau llafar.
Cafodd fraw enbyd pan welodd lun ysgol ar
ddechrau'r ffilm, y drws yn agor a minnau yn
dod allan drwyddo fo, a phan agorais i fy
ngenau a siarad mi syrthiodd yr hen wraig
oddi ar ei sedd mewn llewyg.⁹⁹

Tybiaf mai tebyg oedd ymateb llawer drwy Gymru ym 1952. Yn y flwyddyn honno, roedd gwasanaeth rhaglen Cymru'r B.B.C. yn cynnig 189 awr o gerddoriaeth ddifrif, 66 awr o gerddoriaeth ysgafn, 120 awr o ddrama a rhaglenni nodwedd, rhaglenni amrywiol am 60 awr, trafodaethau am 77 awr, 226 awr o newyddion, 199 awr o gynnyrch i ysgolion a rhaglenni plant, 129 awr o grefydd; roeddynt wedi darlledu o leoliadau allannol am 65 awr, a bu 83 awr o raglenni amrywiol eraill.¹⁰⁰ Ofnai darlledwyr radio y byddai'r bocs newydd yma'n dwyn eu cynulleidfa, ac o ystyried faint o arlwy clywadol oedd ar gael i'r Cymry ar y pryd, hawdd yw deall dadl Saunders Lewis a John Eilian.

Fel y disgwyliid, derbyniwyd rhaglenni teledu i Gymru, ac ym Mai 1952, roedd 10,548 o gartrefi Cymru yn berchen ar drwydded deledu a radio ar y cyd; dri mis cyn agor trosglwyddydd Gwenfô. Wedi dechrau darlledu, tyfodd y nifer i 38,236 ac erbyn 1953, roedd 82,324 trwydded yng Nghymru.¹⁰¹ Ar ddydd Gwyl Ddewi 1953, darlledwyd y rhaglen gyflawn Gymraeg gyntaf ar y teledu - gwasanaeth o gapel y Tabernacl, Caerdydd - a phum ïwernod yn diweddarach, gwelwyd y rhaglen ddogfen gyntaf yn yr iaith. Portread ydoedd o Bob Owen, Croesor, a filmiwyd yn yr Amgueddfa Genedlaethol; cychwynodd hon brotestiadau'r gwylwyr Seisnig ynglŷn â'r defnydd o'r iaith Gymraeg ar eu sgriniau.

Nid oedd teledu yng Nghymru yn broffesiynol iawn yr adeg honno, cludwyd offer teledu a oedd yn agos at ddiwedd ei oes i Gaerdydd o Lundain, a rhaid oedd cyfathrebu â'r pencadlys yn Lloegr drwy weindio teliffon rhyfel cyn siarad iddo.¹⁰² Meddai Alan Protheroe wrth gofio cynhyrchu'r rhaglenni newyddion cynharaf yng Nghymru:

Those were the days when the 16mm black and white film was processed by hand in a cocktail shaker in the back room of a shop in Cardiff, dried by being stretched over an expandable wooden clothes horse to allow the hot air from a hair-drier to harden the emulsions (and consolidate the finger-marks) before being edited on exceptionally basic amateur equipment.¹⁰³

Y B.B.C. oedd yn cynhyrchu'r holl arlwy Cymraeg ar y pryd, tan gyhoeddi Papur Gwyn 1953 a oedd yn argymhell sefydlu corff darlledu annibynnol i reoli sianeli ar donfedd arall. Teimlai rhai Cymry fod cystadleuaeth iach yn beth da i'r B.B.C., ond ar y llaw arall, gallai'r datblygiad dynnu sylw ac arian y Gorfforaeth oddi wrth raglenni Cymraeg. Nid oedd Swyddfa'r Post, a oedd yn rheoli'r tonfeddi teledu, yn fodlon gadael i'r sianeli ddarlledu drwy'r amser - dim ond rhwng naw y bore ac unarddeg yr hwyr yn ystod yr wythnos, a phymtheg awr ar benwythnosau. O'r amser hynny, roedd hawl gan y sianeli i ddarlledu cynnyrch Cymraeg rhwng chwech a chwarter i saith bob nos, ac am awr ar ddydd Sul o chwarter wedi chwech ymlaen. Bu datblygiadau ym myd y ddrama - dangoswyd Cap Wil Tomos ym mis Ionawr 1955 - y ddrama deledu Gymraeg gyntaf - cyn dangos y ddrama deledu Saesneg gyntaf yng Nghymru y flwyddyn ganlynol.

Erbyn 1959 roedd cyfres yn y Gymraeg wedi ei chynhyrchu ar gyfer ysgolion; a nifer y trwyddedau teledu a radio ar y cyd yn helaethach na thrwyddedau radio yn unig. Meddai Hywel Davies, Pennaeth Rhaglenni'r B.B.C. yng Nghymru ym 1962 am y teledu:

Of course it must be many things to many men. By all means let it entertain; but let it inform and educate as well. By all means let it be cozy and frivolous; but let it be challenging and serious too. Let it make men and women laugh and forget their troubles; but for heaven's sake, let it make them worry and cry, let it make them angry, let it make them think.¹⁰⁴

Roedd rhaglenni ysgafn yn rhan sylwedol o arlwy'r teledu yn y dyddiau cynnar hyn, a chynnyrch Americanaidd yn dangos ei drwyn erbyn diwedd y pumdegau. Ofni yr oedd Hywel Davies i'r rhaglenni hyn fynd â bryd y Cymry yn hytrach na'r rhaglenni wedi eu creu yn arbennig ar eu cyfer. Er cyn lleied o adnoddau oedd at eu galwad, roedd cynhyrchwyr y B.B.C. yng Nghymru yn aml yn gwneud gwrthiau, fel yn achos John Ormond, a adroddodd ar ffilm ym 1960 hanes dau Bwyliad a oedd wedi dianc o garchar rhyfel y Rwsiaid ac ymgartrefu mewn fferm ger Caerfyrddin. Dangosodd Borrowed Pasture unigrwydd ac undonedd bywydau Vlodek Bulaj ac Eugenius Okolowicz gyda pharch a sensitifrwydd a symbylodd y gynulleidfa i anfon arian i ddod â gwraig Bulaj ato o wlad Pwyl. Dangoswyd y ffilm yng Ngwyl Ffilmiau Caeredin, yn dystiolaeth i'r byd o allu darlledwyr Cymru a chyfoeth eu deunydd.¹⁰⁵

Erbyn hyn, roedd teledu'n cyrraedd dros 90% o boblogaeth Cymru drwy drosglwyddyddion Cymru a Lloegr. Yn y flwyddyn rhwng 1953 a 1954 cynhyrchwyd hanner cant o raglenni yng Nghymru ar wahân i fwletinau newyddion, tyfodd y cyfanswm hwnnw i 214 rhwng 1959 a 1960. Cafwyd uned ddarlledu allanol i Gymru ym 1955, a stiwdio yng Nghaerdydd y flwyddyn ganlynol. Cynhyrchodd y B.B.C. bedair drama ar ddeg ym 1957, tair ar ddeg ym 1958 a deg y flwyddyn ganlynol, yn cynnwys gwaith Richard Llywelyn, Islwyn Williams, a chyfieithiadau Saesneg o ddramâu John Gwilym Jones. Ym 1959 hefyd, cafodd Saunders Lewis, y gwrthwynebydd brwd, y cyfle i weld un o'i ddramâu ar y sgrin fach. Darlledwyd cyfieithiad Elwyn Jones o Brad, gyda Donald Houston, Siân Phillips a Clifford Evans.

Mynegodd Hywel Davies ei falchder ynglŷn â'r cynyrchiadau hyn ym 1962:

I think by this time, it's generally accepted that, outside London, Cardiff is the leading centre of television drama. It would be nonsense to pretend that we're not proud of having achieved this reputation and achieved it in the formative years of television. It's meant that we've challenged our own professionalism rewardingly, in the sense that our own playwrights and actors and producers

expect, as a matter of course, the uncompromising verdict of the largest audiences and the best professional critics. The National Theatre of Wales already exists on B.B.C. television and radio.¹⁰⁶

Nid dyma oedd delwedd Saunders Lewis o Theatr Genedlaethol, ac nid oedd holl gynhyrchiadau dramatig y B.B.C. ddim mor llwyddiannus ag a honnwyd gan Davies. Dangoswyd Excelsior Saunders Lewis ar ddydd Gwyl Ddewi 1962, yn enghraifft o gam-farn ar ran y Gorfforaeth a'r awdur. Disgwyliwyd yr un ganmoliaeth iddi ag a roddwyd i Siwan wyth mlynedd ynghynt, ond nid felly y bu. Yn ôl John Davies:

In 1961, Lewis offered the B.B.C. a play on a contemporary theme. Excelsior, broadcast on 1 March 1962, told the story of a young Nationalist whose political ambitions led him to marry the daughter of a Labour peer, a marriage which assisted him to gain a safe Labour seat. The story bore an uncanny resemblance to the career of Llywelyn Williams, the M.P. for Abertyleri and the son-in-law of Lord Macdonald. Threats of a libel action caused the Corporation to cancel the play's repeat broadcast, and when the B.B.C. deposited its scripts in the National Library, an embargo was placed on the script of Excelsior. "Welsh culture is remarkable," commented the Manchester Guardian; "there is still a lot of bite in it."¹⁰⁷

Aeth y B.B.C. serch hyn ymlaen i gynhyrchu mwy o ddramâu drwy gyfrwng y Gymraeg i gynulleidfaoedd Cymru - yn sgîl tipyn o gystadleuaeth iach.

Yn dechnegol, B.B.C. 2 oedd y drydedd sianel i'w sefydlu, ond aeth yr hyn yr ydym yn ei adnabod yn awr fel sianel 3 ar yr awyr yn y pumdegau hwyr. Cychwynwyd dangos rhaglenni Cymraeg ar Granada, sianel fasnachol a'i chanolfan ym Manceinion, ac ar 14 Ionawr 1958, lanswyd Television Wales and West i wasanaethu rhannau o Gymru. Rheolid y sianel gan yr I.T.A. yn unol ag awgrymiadau'r Papur Gwyn rai blynyddoedd ynghynt. Roedd 14 o ardaloedd

darlledu i gwmniau annibynnol, a'r olaf o'r rhain i gael ei lansio oedd Wales (West and North) neu Deledu Cymru, a oedd a throsglwyddyddion ym Mhreseli, Arfon a Moel-y-Parc. Roedd T.W.W. ar yr awyr, mae'n wir, ond heb bwyslais ar raglenni Cymraeg.¹⁰⁸ Erbyn y chwedegau, yr oedd teimlad cryf, yn enwedig ymhlith y Cymry Cymraeg, fod angen un cwmni i wasanaethu Cymru gyfan.

Lansiwyd Teledu Cymru; cwmni Cymreiciach o ran perchnogion a staff na'r un arall; ym mis Chwefror 1963 gyda llai o ffys nag a ddisgwyliwyd. Disgrifia Sganar y seremoni agoriadol yn Y Faner:

Croeso i raglenni Teledu Cymru i'n sgriniau. Tawel iawn oedd y cyflwyniad a gafwyd i ryw 60,000 o edrychwyr newydd - nifer y gellid ei chwyddo (Y mae poblogaeth y rhanbarth a wasanaethir gan drosglwyddydd Moel-y-Parc - siroedd Dinbych a'r Fflint - yn 334,000 o Gymry heb ystyried pobl Glannau Mersi a Sir Gaer). Cawsom air o gyfarchiad (ar record) gan Dr. Haydn Williams a gair siriol, fel arfer, gan T. Glynne Davies. Disgwyliai'r edrychwyr newydd am fwy o chwythu cyrn mae'n siwr.¹⁰⁹

Roedd gan y sianel newydd hon y potensial i ddyblu'r nifer o raglenni Cymraeg a gynigid i'r cyhoedd, rhywbeth a allai fod yn fendith i'r cyfrwng - yn awr, roedd gan deledu gyfle i ddad-wneud y niwed a wnaethpwyd i'r diwylliant Cymreig gan y sianeli Seisnig drwy godi ymwybyddiaeth yn y celfyddydau a'r ddrama. Meddai Gruffydd Parry, Botwnnog, yng Nghynhadledd Caredigion Taliesin 1964:

Nid babi i'w dandlwm a'i mwytho ydyw'r iaith Gymraeg. Mae hi wedi byw yn rhy hir i gael ei thrin felly, ac y mae gobaith ei dyfodol hi wedi ei seilio ar y defnydd a wneir ohoni bob dydd gan bobl a fydd yn ei defnyddio hi yn gyfrwng i fynegi ei syniadau a'u teimladau wrth fyw.¹¹⁰

Roedd nifer o Gymry Cymraeg amlwg yn teimlo'n gryf mai Teledu Cymru oedd yr unig ateb posibl i argyfwng darlledu yng Nghymru. Ym 1959, T.W.W. a Granada oedd yn darlledu i ran helaeth o Gymru, a'r llywodraeth Geidwadol yn eu cefnogi; ond nid oedd digon o Gymraeg ar eu rhaglenni yn ôl Gwynfor Evans, D. Haydn Williams a sylfaenwyr eraill Teledu Cymru. Erbyn adeg sefydlu'r cwmni newydd, cawsant addewid gan y llywodraeth y byddai ganddynt incwm o £750,000 y flwyddyn pe cynhyrchid deg awr o gynnyrch Cymraeg bob wythnos; ac am y cwta hanner blwyddyn rhwng 1962 a 1963 pan oedd y cwmni'n darlledu, cafwyd ganddynt raglenni safonol, gyda'r arlwy ar gyfer plant a'r newyddion yn rhagorol. Nid safon y rhaglenni felly a achosodd gwmp teledu Cymru, nac ychwaith ddiffyg profiad y staff; yn hytrach anallu canran helaeth o boblogaeth Cymru i dderbyn eu signal. Dim ond 60,000 o gynulleidfa oedd ganddynt, ac o ganlyniad, £240,000 oedd eu hincwm. Gan fod y cwmni'n gweithio ar gyllideb o £450,000, nid oedd yn syndod iddo fynd i'r gwellt a chael ei feddiannu gan T.W.W.. Ystyriwyd methiant y cwmni yn drychineb gan ei chynulleidfa, a'r farn gyffredinol yn eu plith oedd fod y gwmp wedi rhoi datblygiad teledu Cymraeg yn ôl gryn dipyn.

Daeth T.W.W. yn ôl i sgriniau Cymru, a'r her nesaf i wynebu teledu oedd dyfodiad y rhaglenni lliw. Adroddodd y Liverpool Daily Post ddarn o ddarlith pennaeth B.B.C. 2 ar yr ail ar bymtheg o fis Mawrth, 1966:

The prospect of colour television at the end of next year was an exciting one and placed B.B.C. 2 in the forefront of television development, Mr. David Attenborough, Controller of B.B.C. 2, said at a lunchtime lecture at Broadcasting House yesterday.

“We have been doing our sums with considerable excitement and optimism and a fair amount of guesswork. The final decision on the system to be used may be decided by the conference in Oslo in June.”¹¹¹

Breuddwyd bell ydoedd a ddaeth yn wirionedd fis Gorffennaf 1967, ar B.B.C. 2. (Bu'n rhaid i B.B.C. 1 ac I.T.V. aros tan Dachwedd 15, 1969 cyn troi cefn ar ddu

a gwyn, ac nid oedd y gwasanaeth ar gael i bawb bryd hynny ychwaith, dim ond i drigolion Llundain a'r ardaloedd cyfagos.)

Ni fu i'r datblygiad hwn wella safon arlwy teledu yn Nghymru, a chafwyd cwynion am raglenni T.W.W. gan orfodi awdurdodau'r drydedd sianel i ystyried dyfodol y cwmni yn eu swyddogaeth bresennol. Collodd y cwmni eu trwydded i Deledu Harlech (H.T.V.) ar 12 Mehefin 1967 . Eglurodd Graham Samuel y datblygiadau ar dudalen flaen y Western Mail ar 13 Mehefin:

Complaints about "trivia" in T.W.W. programmes are believed to have counted against the company when they lost their license to the Harlech Consortium. It is understood that the I.T.A. had unofficially passed on these complaints and others to T.W.W., but with little result....Last night the decision not to renew T.W.W.'s contract was received by some Welsh M.P.'s with a certain amount of satisfaction.

"It reflects the views and very strongly represented opinions held by the broadcasting and television panel of the Welsh Labour group about the trivia appearing on T.W.W.'s programmes", it was stated last night.¹¹²

Cwmni oedd hwn dan gadeiryddiaeth Arglwydd Harlech, ac yn ôl yr adroddiad, roedd eu cynnig yn llawer gwell nag un T.W.W., a'r rhaglenni yn ymddangos yn llawer mwy diddorol. Derbyniwyd cynnig Teledu Harlech ar 10 Mehefin, 1967. Meddai Mr. Samuel:

The I.T.A. view that the contract is strictly temporary and is awarded simply on the question of merit. Awarded for a specific period, the contract expires finally at the end of that time.

The temporary nature of the contract disposes, so I.T.A. maintain, of allegations of "confiscation", and is also regarded as the only safeguard against lethargy by contracting companies.¹¹³

Gwadu'r honiadau o du'r Blaid Lafur yr oedd penaethiaid T.W.W., a gwnaethant addewid i geisio gwyrddroi'r penderfyniad.

Achosodd y digwyddiadau gwmp difrifol ym mhrisiau cyfranddaliadau T.W.W. - collodd y cwmni 2.5 miliwn o bunnau o'i werth dros nos. Er hyn, bu'n rhaid aros i weld gwireddu addewidion Teledu Harlech - siom oedd yr ymateb i'w rhaglenni yn y blynyddoedd cynnar wedi'r disgwyliadau mawrion. Yn ôl Syr Ben Bowen Thomas wrth annerch Pwyllgor Cymreig yr I.T.A., roedd y cwmni wedi mentro tasg anodd :

....the challenge of uniting - through television - the Wales that is Welsh-speaking, non-Welsh speaking Wales and the English people who live in Wales.¹¹⁴

Fis Gorffennaf 1967, bu datblygiad a oedd wrth fodd holl gefnogwyr teledu Cymraeg. Dechreuodd trosglwyddydd V.H.F. newydd yr I.T.A. ar ei waith yn y Bala ar y chweched ar hugain o'r mis, i wasanaethu dros 4,250 o bobl yng Ngogledd Cymru, ac roedd cynlluniau ar y gweill i adeiladu gorsafoedd tebyg yn Y Fenni, Ffestiniog, Llandrindod a Llanymddyfri, i gyd i ddarparu gwasanaeth Harlech i Gymru.

Ymysg y datblygiadau technegol, roedd rhaglenni Cymraeg yn cael eu cynhyrchu o hyd, ond o dan sawl anfantais. Doedd cwmni newydd i redeg y drydedd sianel wedi gwella dim ar y diffyg arian ac adnoddau a oedd ar gael i gynhyrchwyr Cymru, a hynny yn arwain at raglenni o safon isel - yn fawr gwell, yn wir, na rhaglenni T.W.W. Yng ngeiriau Meic, adolygydd radio a theledu Y Cymro:

Y gwir yw fod cynhyrchwyr Cymru'n gwneud yn rhyfeddol o dda ar adegau, gydag adnoddau prin iawn...y mae'n sicr fod cryfder cymeriadau'r bobl a drafodir [mewn cyfresi Cymraeg] yn gyfraniad sylweddol iawn i lwyddiant y rhaglenni, ac yn gwneud i fyny am beth o'r prinder cynorthwyon ac adnoddau.¹¹⁵

Nid oedd ots pwy a oedd yn rheoli'r sianel cyn belled â bod cynnyrch o safon dderbyniol yn cael ei ddarlledu arni. Onid gwell fyddai i H.T.V. ymuno â'r B.B.C. i greu arlwy amrywiol, a chael y cyfan ar un sianel Gymraeg? Dyma farn Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, a gychwynnodd eu hymgyrch ym 1968 am sianel deledu Gymraeg. Er bod amryw o gynrychiadau dramatig da yn cael eu darlledu ar y B.B.C., nid da lle gellir gwell. Roedd gobeithion am welliant ar ôl i'r ddwy sianel arall ddilyn B.B.C. 2 i ddarlledu mewn lliw ym 1969, ond golygai diffyg arian fod pethau'n dynnach fyth ar y cwmnïau teledu. Roedd y dasg o newid o ddarlledu mewn du a gwyn yn un anoddach i I.T.V. nag i'r B.B.C. gan nad oedd ganddynt rwydwaith mor eang a chyflawn o drosglwyddyddion. Gan fod eu rhaglenni yn cael eu cynhyrchu mewn rhannau gwahanol o Brydain, roedd y dasg o gydsymud a chynnig yr un safon o liw drwy gydol yr amser yn anodd rhwng y rhaglenni.¹¹⁶

Roedd costau aruthrol i'r datblygiad hwn. Ar un llaw, roedd angen technoleg ac offer newydd ar y cwmnïau teledu, er enghraifft ystafelloedd rheoli lliw arbennig i wneud yn siwr fod rhaglenni o bob dinas yn cynnwys lluniau o'r un safon. Ar y llaw arall, roedd angen i'r gwylwyr archebu setiau teledu newydd a oedd yn gallu derbyn y lliwiau hyn - yn aml, nid oedd yr hen setiau wedi cyrraedd diwedd eu hoes, a'r rhai newydd yn llawer drwtach. Roedd nifer o Gymry'n dal i wyllo'r rhaglenni mewn du a gwyn ac o'r herwydd yn colli ysblander y ffilmiau Cymraeg cyntaf i'w darlledu mewn lliw.

Ffilm fer ar y Beibl Saesneg Newydd yn y rhaglen Heddiw oedd cynhyrchiad cyntaf B.B.C. Cymru mewn lliw, ond nid drama wreiddiol Gymraeg oedd y ddrama gyntaf i'w dangos mewn lliw. Cyfieithiad o ddrama Brecht, Praw Lucullus, gan J.M. Edwards oedd honno ym 1971, gyda Stewart Jones ymhlith yr actorion.

Roedd Saunders Lewis a Wilbert Lloyd Roberts yn boenus ynglŷn â'r arlwy Cymraeg, a dylanwad y teledu ar ein cartrefi a'n hiaith. Mewn sgwrs ag Arthur Williams o'r Daily Post yn Eisteddfod Genedlaethol 1970, dywedodd Roberts:

Television is a great power in our homes. We are a small nation and the proportion of Welsh language programmes is totally inadequate to counter English and American influences.

The tendency in the average home is to switch the set on, and to leave it on.

Therefore, Welsh people wishing to see a programme will be in the most cases glued to the screne [sic] for several hours.

Teachers have complained that the Welsh vocabulary of children is becoming more limited and television has become an unintentional force to link thousands of Welsh people with more Anglicising influences.¹¹⁷

Erbyn 1970, nid oedd y trosglwyddyddion teledu yn ddigon cryf i roi gwasanaeth derbyniol i Gymru, a bu oedi cyn adeiladu rhai yn eu lle. Crynhôdd Arthur Williams y sefyllfa fis Rhagfyr y flwyddyn honno:

It is a fact that in some Anglicised areas of Wales where Welsh language programmes can be seen, the majority of viewers are pressing for B.B.C. 2 as an alternative.

On the other hand, people living in Welsh-speaking areas would be delighted to receive programmes in Welsh, which are not now available to them.

What it amounts to is that television services in Wales at the moment - and this was equally true in the time of the Socialist Government - are a hotch-potch.¹¹⁸

Pwysleisiodd Mr. William Edwards, llefarydd yr Wrthblaid ar faterion Cymreig, ddifrifoldeb y sefyllfa yn ogystal, gan rybuddio y byddai gwylwyr yn gwrthod talu am eu trwyddedau teledu pe na byddai gwelliant yn y dyfodol agos. Dyna fu'r sefyllfa wedi i Gymdeithas yr Iaith Gymraeg, ymysg eraill, alw am sianel deledu uniaith Gymraeg i Gymru. Er nad oedd rhaglenni Cymraeg y B.B.C. a H.T.V. yn cael eu darlledu ar unwaith â'i gilydd, barn y Gymdeithas ynghyd â nifer o Gymry amlwg, oedd y byddai'r arlwy'n well pe rhoddid y cyfan o'r

rhaglenni ar un sianel a galw honno yn sianel Gymraeg. Byddai hyn yn tawelu'r Saeson hynny nad oeddynt yn deall yr iaith nac yn byw yng Nghymru, ond a oedd yn derbyn cynhyrchiadau Cymraeg - byddai ganddynt hwy wedyn dair sianel gyfangwbl Saesneg i'w mwynhau heb i'r Gymraeg ferwino eu clustiau.

Gwnaeth Islwyn Ffowc Elis ei farn yn hollol glir o flaen Ynadlys Wrecsam pan ymddangosodd yno wedi'i gyhuddo o wrthod talu am drwydded deledu. Meddai wrthynt:

Dyma'r ymosodiad terfynol ar yr iaith Gymraeg. Mae sgwrs ar yr aelwyd wedi dirywio, yn wir wedi dadfeilio'n llwyr mewn llawer cartre, oherwydd 'y bocs yn y gornel'. Mae'r bocs hwnnw yn llefaru am oriau bob dydd ar aelwydydd Cymraeg. Allwn ni ddim, a fynnen ni ddim, rhwystro'n plant rhag ei wyllo.

Ond gan fod y bocs yn y gornel yn siarad Saesneg lle gynt y byddai tad a mam, a thaid a nain, yn siarad Cymraeg, mae plant ardaloedd cyfain wedi colli'u gafael ar y Gymraeg yn frawychus o gyflym yn ystod y pymtheng mlynedd diwetha' ma.¹¹⁹

Roedd Elis wedi gwrthod talu am ei drwydded deledu fel protest ynghylch cael pedwaredd sianel deledu a fyddai yn gwbl Gymraeg. Yr un dadleuon oedd gan yr awdurdodau ag ym 1949 pan alwyd am deledu i Gymru yn y lle cyntaf - diffyg arian ac adnoddau. Ymhelaethodd:

Pan ydym yn gofyn am sianel deledu Gymraeg, mae'r awdurdodau'n gyson yn codi bwgan yr "anawsterau technegol" - ein mynyddoedd ni mae'n debyg, fel petae mynyddoedd Cymru y mynyddoedd uchaf yn y byd. Ond fe wyddwn ni nad yw'r Alpau ddim yn rhwystr i bron bob gwyliwr gael derbyniad teledu clir iawn yn ei ddyffryn cul yn Y Swisdir, dyffrynnoedd Yr Eidal ac Awstria, a'r darlun wedi'i drosglwyddo dros rai o fynyddoedd uchaf Ewrop...on d down yn nes adre. 'Dydy bwgan 'y gost' byth yn cael ei godi ynglŷn â rhaglenni Saesneg. Fe

ddywedodd David Attenborough, sy'n gyfrifol am B.B.C. 2 ei fod yn ystyried chwe chan mil yn gynulleidfa dda i un o'i raglenni - tua'r un nifer ag sy o Gymry Cymraeg yng Nghymru. Ond beth am gost B.B.C. 2 sy'n teledu am oriau bob dydd?¹²⁰

Nid oedd y Gorfforaeth ddarlledu o'r farn ym 1949 y gallasai trosglwyddyddion teledu oresgyn y trafferthion yr oedd tirlun Cymru yn ei gyflwyno, ond cafwyd ei hofnau'n ddisail. Yn goron ar y cyfan, gwrthodwyd gadael i achos Islwyn Ffowc Elis gael ei glywed yn y Gymraeg heb gymorth cyfieithydd; eto ni fu penderfyniad ynglŷn â sianel Gymraeg i Gymru.

Ym 1974, cyhoeddwyd na fyddai penderfyniad ynglŷn â'r sianel Gymraeg tan 1979, a chododd hyn wrychyn Mr. Cyril Hughes, Cyfarwyddwr Urdd Gobaith Cymru, a'i symbylu i ysgrifennu at yr Arglwydd Harris, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddarlledu, ynglŷn â'r mater. Meddai yn ei lythyr:

Delaying such an important decision for so long raises very grave problems for the Welsh language and its future in so far as it relates to unsatisfactory number and quality of programmes in Welsh for children and young people.¹²¹

Cyhoeddwyd y Papur Gwyn ar Ddarlledu gan y Llywodraeth y flwyddyn honno, ac yn galonogol, roeddynt o'r un farn ag Islwyn Ffowc Elis a Chymdeithas yr Iaith ynglŷn â dyfodol yr iaith. Yn ôl y Daily Post 22 Tachwedd, 1974:

The Welsh language is fighting a difficult battle for survival in the modern world, says a White Paper on broadcasting published yesterday.....The report says the fourth television channel in Wales should be allotted to a separate service, with priority to Welsh language programmes.¹²²

Yn ôl yr adroddiad, byddai angen dwy flynedd i lansio'r gwasanaeth, gyda chost sefydlu rhwng chwech a saith miliwn o bunnau a chostau rhedeg y sianel tua dwy

filiwn o bunnau yn flynyddol. Awgrymwyd y dylai cymhorthdal gan y Llywodraeth helpu i dalu'r costau hyn. Roedd y penderfyniad yn debyg iawn i'r adroddiad ynglŷn â theatr i Gymru, Housing the Arts in Wales, ddiwedd y pumdegau.

Barnai Cyngor yr Iaith Gymraeg ym 1975 y byddai'n beth drwg cyfyngu'r defnydd o'r iaith i un sianel yn unig:

Welsh should not disappear from the other channels. It should keep some points of contact with the majority of the viewing public: the two languages must be seen to lie side by side. Limited time should be given to Welsh programmes on other channels and some news and current affairs programmes might continue on channels where they are well established.¹²³

Ym mis Gorffennaf yr un flwyddyn, newidiodd y Llywodraeth ei barn a datganad oedd sianel i Gymru'n syniad da wedi'r cwbl. Roedd yr amcangyfrif o'r gost y penderfynwyd arni yn y Papur Gwyn ynghynt yn awr yn rhy isel, meddent, a'r 'problemau technegol' wedi'r cwbl yn rhy ddrud ac anodd i'w goresgyn. Ar ôl clywed hyn, datganodd Mr. Tom Ellis, Dafydd Wigley a Gwynfor Evans fod y sianel yn angenrheidiol, a galw am ei sefydlu ar fyrder, ond nid oedd eu barn yn adlewyrchu teimladau holl boblogaeth Cymru. Ysgrifennodd Brian Davies o Ddinbych yn y Daily Post:

About 95 per cent of the people around our district do not think they would watch an all-Welsh channel. It's rubbish now, never mind all the time.

So why spend millions of pounds a year just to keep a very small minority of Welsh extremists happy.¹²⁴

I gefnogi barn Mr. Davies ac eraill, gwnaeth Mrs. Mary B. Fitzpatrick o Lerpwl ei thrallod yn amlwg yn yr un papur mewn llythyr dan y pennawd "No More Welsh T.V. Please!":

The continuing correspondence from Welsh readers complaining about the paucity of Welsh television is extremely irritating to those of us on Merseyside who can only get Welsh television....Most Welsh viewers can understand English but no English viewer can understand Welsh and daily we have several hours of Welsh viewing.

Perhaps your Welsh readers will have a little sympathy with us and not agitate for further hours of Welsh programmes.¹²⁵

Roedd y penderfyniad i sefydlu ail sianel fasnachol i Loegr; Sianel Pedwar; wedi ei wneud eis oes, a gwelwyd mwy o gefnogaeth erbyn y saithdegau i ymgyrch Cymdeithas yr Iaith am sianel debyg i'r Gymraeg. Ar ôl datgan elw o 2.9 miliwn o bunnoedd yn y flwyddyn 1976-77, ceisiodd Arglwydd Harlech sicrhau'r bedwaredd sianel i'w gwmmi ei hun. Meddai Emyr Humphreys yn Bwrdd Datblygu Teledu Cymraeg:

Yn ôl y rhifyn cyfredol o'r Cymro (1-10-77) y mae'r Arglwydd Harlech yn hawlio'r bedwaredd sianel i'w gwmmi ef fel mater o frys. Ganddo ef a'i gwmmi, oherwydd eu llwyddiant mawr i greu elw, a ganfddynt hwy yn unig y mae'r adnoddau a'r arian i gynnal y sianel newydd.¹²⁶

Roedd H.T.V. yn cynhyrchu rhaglenni o safon, dyna sut yr enillwyd cytundeb y drydedd sianel oddi wrth T.W.W., ond roedd gwir angen cyfrwng teilwng iddynt hwy a rhaglenni Cymraeg y B.B.C., yn lle'u gwasgaru blith-draphlith rhwng y sianeli eraill.

Arweiniwyd yr ymgyrch gan Gymdeithas yr Iaith Gymraeg, a chyhoeddwyd nifer o daflenni a phamffledi ganddynt yn rhestru anghenion y wlad. Un o'r cyntaf oedd Darlledu yng Nghymru - Pam nad yw'r dyn yn siarad Cymraeg?, gyda chartŵn ar y clawr yn dangos Cymro ifanc yn boenus ynglŷn â iaith y cyflwynydd o'i flaen ar y sgrîn. Tynnodd y cyhoeddiad hwn sylw llawer at y frwydr - argraffwyd ugain mil o gopiau Saesneg ohono er budd y di-

Gymraeg, i geisio egluro i bobl fel Brian Davies a Mary B. Fitzpatrick pam fod rhaglenni mewn iaith a oedd yn estron iddynt hwy yn torri ar draws eu rhaglenni Saesneg, a phwysleisio na fyddai hyn yn digwydd pe sefydlid sianel Gymraeg. Codwyd nifer o bwyntiau dilys, yn cynnwys pwysleisio cyn lleied o raglenni oedd ar gael i Gymry di-Gymraeg, anallu rhai ardaloedd i dderbyn gwasanaeth teledu; y trethi radio a theledu a dderbyniwyd gan Gymry; a chymharwyd Cymru â gwledydd bychain eraill a'u profiadau hwy yn y maes. Pwysleisiwyd y niwed a achoswyd gan ormod o deledu Saesneg ar iaith plant, a'r niwed hefyd a oedd yn cael ei achosi i'w gwlad. Meddai'r Gymdeithas:

Mynnwn bolisi darlledu cyfrifol i Gymru, polisi a fydd yn cyfoethogi'n bywyd cenedlaethol, polisi a fydd yn rhoi cyfle i'n holl bobl ail-gydio yn eu hetifeddiaeth genedlaethol. Ni allwn ganiatau i'r fath broses o Seisnigio fynd yn ei flaen. Mae'r adurdodau darlledu wedi anwybyddu pob dull cyfansoddiadol i ennill hyn - deiseb, rali, gorymdaith ac ati. Awn ati felly i drefnu ymgyrch penderfynol o weithredu uniongyrchol, didrais i ennill y nod. Galwn yn awr am gefnogaeth ymarferol pob Cymro cydwybodol i'r ymgyrch.¹²⁷

Gofynnai'r Gymdeithas am sianel deledu Saesneg i Gymru yn ogystal ag un Gymraeg a ddylai ddarlledu o leiaf dair awr yn y Gymraeg bob gyda'r nos. Barnent hefyd fod angen tonfeddi radio Cymraeg a Saesneg i Gymru, yn ogystal â defnydd helaeth o'r iaith ar orsafoedd radio lleol. Roeddynt yn awgrymiadau teg, yn pwysleisio y dylid llenwi'r bylchau rhwng y rhaglenni Cymraeg â chynnyrch Saesneg.

Pamffled arall i'r un perwyl oedd Teledu Cymru i Bobl Cymru, eto'n rhestru anghenion Cymru ym myd darlledu. Pwysleisiwyd pa mor bwysig ydoedd gwneud defnydd teilwng o'r Gymraeg ar y teledu, ehangu gorwelion y gwylwyr ac adlewyrchu ysbryd a diwylliant Cymru fel cenedl. Meddai'r pamffled am y rhaglenni a oedd yn cael eu darlledu ar y pryd:

Dylai fod yn amlwg i bawb ar unwaith nad yw'r gwasanaeth darlledu a geir yng Nghymru ar hyn o bryd yn cyflawni'r amodau uchod. Gan fod y mwyafrif o'r rhagleni a ddarlledir yng Nghymru yn cael eu cynhyrchu yn Lloegr a'r Unol Daleithiau maent yn estron i bobl Cymru ac yn fodd felly i ddinistrio'n diwylliant cynhenid. Ac am i'r awdurdodau darlledu yng Nghymru weithredu fel atodiad i'r gwasanaeth Saesneg a Seisnig maent yn methu â gweithredu fel ag y dylent.¹²⁸

Galwyd hefyd am Awdurdod Darlledu Annibynnol i Gymru, ond gwrthododd Adroddiad Pwyllgor Annan *argymhell* hyn, gan egluro y byddai'r gost yn llawer gormod o ystyried nifer poblogaeth rhai rhannau o Gymru wledig.

Er eu bod wedi gwrthod argymell sefydlu Awdurdod Darlledu, mater gwahanol ganddynt oedd y Bedwaredd Sianel Gymraeg:

In our view it is urgent to provide Wales with a fourth television channel to carry Welsh language programmes.....The fourth television channel for the United Kingdom as a whole should not be set up until the country can afford not only the capital costs but the operating costs for the new kind of mixed service which we recommend and which we believe is essential to the development of good broadcasting.¹²⁹

a bu llawenydd mawr o ddeall y bwriedid sefydlu'r bedwaredd sianel yng Nghymru o flaen gweddill Prydain. Nid oedd Emyr Humphreys yn hapus, gan honni mai awdurdod darlledu oedd y flaenoriaeth:

Nid oes angen am y bedwaredd sianel cyn creu'r bwrdd,¹³⁰

meddai, a phwysodd am i'r Cymry gychwyn ar ymgyrch i'w sicrhau yn syth.

Hyd yn oed â diwedd y frwydr mor agos, roedd anghytuno o hyd am les y bedwaredd sianel i Gymru a'i phobl. Er cael sicrhâd fod y Sianel Gymraeg am

gael ei sefydlu, ni chafwyd arwydd fod yr awdurdodau am gadw at eu hadduned. Bu Cymdeithas yr Iaith yn weithgar gan drefnu protestiadau - dringo mastiau teledu, meddiannu stiwdios a chynnal raliâu o amgylch Cymru. Cafodd nifer o'i haelodau eu dirwyo a'u carcharu, ond daeth yr ymgyrch i'w phinael ym mis Medi 1979, pan ddatganodd William Whitelaw ei fod wedi newid ei feddwl ynglŷn â'r sianel arfaethedig, ac y dylai holl gynnyrch Cymraeg y teledu gael ei rannu rhwng dwy sianel - B.B.C. Cymru a H.T.V. fel oedd yn digwydd ar y pryd.

Roedd hwn yn newydd syfrdanol i'r Cymry a oedd wedi derbyn ei addewid blaenorol, ond bu i'r Swyddfa Gymreig dderbyn y cynnig newydd. Teimlai llywydd Plaid Cymru, Gwynfor Evans, ar y llaw arall, nad oedd y sefyllfa fel yr oedd hi yn dderbyniol, ac ym Mai 1980, datganodd ei fod am gychwyn ympryd hyd farwolaeth pe na bai'r addewid am Sianel Gymraeg yn cael ei adnewyddu cyn yr Hydref canlynol .

Ar ôl trin y bygythiad hwn yn ysgafn am fisoedd, cychwynnodd y Llywodraeth feddwl o ddifrif am fwriad Evans. Byddai'n cadw at ei air, ac yn credu nad cyflawni hunanladdiad y byddai; yn hytrach, cael ei ladd gan y Llywodraeth. Cafodd gryn sylw gan y wasg wrth i fis Hydref agosau, ac aeth ar daith ffarwel drwy Gymru i dynnu mwy fyth o sylw at ei ymgyrch.

Teimlai'r Arglwydd Cledwyn o Benrhos erbyn diwedd haf 1980 fod pethau wedi mynd yn ddigon pell, a chynigiodd ddihangfa i'r Llywodraeth mewn dirprwyaeth gydag Archesgob Cymru Dr. G.O. Williams a Syr Goronwy Daniel. Awgrymasant fod y bedwaredd sianel yn cael ei hystyried fel arbrawf yn hytrach nag ateb parhaol i broblem y Gymraeg ar yr awyr. Nid oedd y Prif Weinidog, Margaret Thatcher, wrth ei bodd â'r cynnig, ond wedi sylweddoli mai dyma'r unig ateb, bu iddi gytuno â'r ddirprwyaeth. Y sianel hon oedd syniad y chwedegau a ddatblygodd yn obaith y saithdegau a'i eni yn blentyn yr wythdegau i ganol llawenydd. Daeth y newyddion am ei dyfodiad yn gynnar yn y degawd, fel yr adroddodd Cymdeithas yr Iaith:

“Mae'r frwydr dros sianel deledu Gymraeg wedi'i hennill” - Roedd cynnwrf dieithr yn llais di-duedd cyflwynydd y newyddion

Radio am un o'r gloch y dydd Mercher
bythgofiadwy hwnnw, Medi 17, 1980.¹³¹

Nid oedd y canlyniad hwn wedi bod yn un hawdd i'w ennill, ac ni fu'r
frwydr yn un heddychlun, fel yr eglurwyd ym 1985 gan Gymdeithas yr Iaith:

....Bu protestiadau dyddiol a chynyddol i
bwyso ar yr awdurdodau: rhwygwyd ffeiliau
a llenyddiaeth yn swyddfeydd Whitelaw yn
Carlisle gan bedwar myfyriwr o Gymru;
meddianwyd cyntedd adeilad H.T.V.
Caerdydd gan nifer o famau a pheintwyd
sloganau Cymdeithas yr Iaith dros y waliau;
aeth criw o weinidogion anghydfurfiol hefyd
i feddiannu swyddfeydd yr I.B.A. yng
Nghaerdydd. A'r bore cyn y cyhoeddiad
arestiwyd dau aelod o'r Gymdeithas, Euros
Owen ac Arwyn Sambrook, yn Cheltenham,
wrth eu bod yn ymchwilio i weithredoedd
posibl ar fastiau darlledu. Arweiniodd hyn yn
ddiweddarach at yr achos o gynllwyn yn eu
herbyn nhw ynghyd â Wayne Williams, a
charchariadau i'r tri.¹³²

Y noson honno, roedd dathlu ar strydoedd Crymch ble roedd dros fil o bobl
wedi ymgasglu. Yno yr oedd Gwynfor Evans ar y pryd - llawenydd tawel oedd
ganddo ef:

“Dyma” medde fo oedd “buddugoliaeth
fwya'r ganrif i'r iaith Gymraeg”.¹³³

Lansiwyd S4C - Sianel Pedwar Cymru - ym 1982, yn rhedeg ochr yn
ochr â Sianel 4 Lloegr a dangos rhai o'r un rhaglenni Saesneg â hi; ac erbyn hyn
yn gwerthu'i rhaglenni Cymraeg i nifer eang o wledydd, o'r Alban ac Albania,
Kenya a Korea, i Zambia a Zimbabwe.¹³⁴ Mae'r B.B.C. a H.T.V. yn cynhyrchu
rhaglenni i'r sianel o hyd, yn ogystal â nifer helaeth o gwmnïau teledu
annibynnol, megis Ffilmiau'r Nant, sy'n gyfrifol am gyfran go dda o ddrama'r
sianel.¹³⁵ Medd Jean Lediard yn ei llyfr Investigating Welsh Media:

S4C feel that “maximising audiences is the fundamental objective of any broadcaster,”¹³⁶

- dyna oedd amcan bwrdd rheoli'r Sianel o'r cychwyn cyntaf. Nid yw'r sianel, yn wahanol i'r B.B.C., yn cynhyrchu rhaglenni ei hun, yn hytrach mae ei gwariant ar gomisiynau unigol gan gwmnïau annibynnol. Mae hyn wedi sicrhau ffyniant cynhyrchwyr rhaglenni yng ngogledd Cymru yn ogystal ag yng Nghaerdydd ble mae pencadlys y Sianel. Erbyn 1992/93, roedd gwariant rhaglenni S4C yn 45 miliwn o bunnau, a'r B.B.C. hithau yn gwario 60 miliwn yn yr un cyfnod, i'w gymharu â gwariant o dair miliwn ar y Gerddorfa Genedlaethol.¹³⁷ Roedd cynnyrch y sianel yn sylweddol erbyn hynny, yn cynnwys rhaglenni o bob math yn ogystal â gwasanaeth newyddion a phrosiectau ffilm.

Nid Sianel Pedwar Cymru yn unig sy'n cyflwyno i ni raglenni ag ongl Gymreig arnynt - mae B.B.C. Cymru o hyd yn flaenllaw gyda rhaglenni am Gymru i'r di-Gymraeg yn ogystal â'r siaradwyr rhugl - mae The Slate gydag Eddie Ladd yn boblogaidd ymhlith pobl ifanc, a Wales Playhouse yn gyfle i brofi arlwy dramatig Eingl-Gymreig.

Tra gwahanol fyddai ein hanes fel cenedl pe baem wedi bodloni ar ddatganiad yr I.B.A. fis Rhagfyr 1972:

A separate Welsh channel would not provide the best solution and the authority does not believe it would be in the best interests of the Welsh language itself to be cut off from the mainstream of broadcasting in this way with the consequent limitation both on audience size and on production of resources.....The authority on its part sees the solution rather in extending the possibilities for I.T.V. to provide a Welsh language service without deprivation for non-Welsh speakers.¹³⁸

Fel y bu i Lywodraeth Margaret Thatcher ddarganfod, bu i arbrawf y bedwaredd sianel yng Nghymru lwyddo a datblygu yn un o gyfryngau pwysicaf yr iaith Gymraeg.

NODIADAU

1. T.J. Williams, “Dechreuad y Ddrama Gymraeg” Hanes y Ddrama Gymraeg, Bangor, 1915, t. 2
2. Beriah Gwynfe Evans, The Welsh Historical Drama - How to Produce a Play, Caernarvon, 1904
3. Olive E. Hart, The Drama in Modern Wales Pennsylvania 1928, t. 19
4. John Elis Williams, Inc yn fy Ngwaed, t. 31
5. op. cit. 3, t. 65
6. Bruce Griffiths, Saunders Lewis o’r gyfres Writers of Wales, t.8, dyfyniad o’r Cambria Daily Leader, “Three Short Plays”, 22 Hydref 1919.
7. Saunders Lewis, “Rhai Amheuon” Y Llwyfan Cyfrol 1 Rhif 4, Mehefin / Gorffennaf 1928, tt. 49-50
8. Cymro, “A National Theatre at the Third Attempt?” Daily Post 17 Ionawr 1967
9. Mignedd, “Ledled Cymru - Hanes Theatr Fach”, Y Faner 16 Ionawr 1958, t.5
10. Dilys W. Shaw, Theatr Fach Llangefni 1955-83 (pamffled)
11. op. cit. 9
12. dienw, Guide to Garthewin, Conwy, d.d., t. 5
13. Hazel Walford Davies, Saunders Lewis a Theatr Garthewin, Gomer, Llandysul, 1995, t. 28
14. ibid. t. 33
15. ibid. t. 41
16. Frances Wynne, The True Level, Dublin, 1947, pp.27-31
17. “Beth yw Prif Angen ein Drama?”, Y Faner 8 Hydref 1955, t. 3
18. “Dramâu yr Eisteddfod”, Y Faner 22 Awst 1956, t.3
19. “Llith Deheuwr - Rhy hwyr i achub Theatr?” Y Faner 2 Medi 1957, t.8

20. Gohebydd Arbennig, "A Geir Drama Saunders Lewis yn Abertawe?" Y Faner 3 Medi 1958, t.1
21. ibid.
22. Gohebydd Arbennig, "Taith i Brad yn nes ymlaen - awgrym Miss. Myra Owen" Y Faner 18 Medi 1958, t.1
23. Promethiws, "Llais o'r Llenni - Cnewyllyn Theatr" Y Faner 25 Mehefin 1959
24. Pwyllgor Ymchwil Cyngor Celfyddydau Prydain, Housing the Arts in Wales, t. 11
25. ibid. t. 10
26. ibid. t. 17
27. ibid. t. 27
28. Promethiws, "F.G. Fisher a'i Theatr Fach" Y Faner 16 Hydref 1958 t.6
29. Dewi Llwyd Jones, "Dim i ymfalchïo ynddo gyda chelfyddyd y ddrama - ond diolch am freichiau tadol yr Eisteddfod" Y Faner 8 Awst 1956, t. 5
30. Dienw, "Theatr i Gymru o'r Diwedd?" Y Faner 6 Ebrill 1961, t.1
31. ibid.
32. Dienw, "Theatr i'r Genedl" Y Faner 13 Ebrill 1961, t.5
33. ibid.
34. Emyr Edwards, "Llais o'r Llenni - Theatr Fach Llangefni" Y Faner 9 Tachwedd 1961
35. idem. "Theatr i'r Genedl" Y Faner 18 Ionawr 1962
36. Dienw, "Theatr i Gymru" Y Faner 16 Awst 1962
37. Dienw, "Anghytuno ynghylch y Theatr Genedlaethol" Y Faner 13 Awst 1964
38. Dienw, "Yn nes at y Theatr Genedlaethol" Y Faner 28 Ebrill 1966, t.7
39. ibid.
40. ibid.
41. Kate Roberts, "Gŵyl Ddrama Garthewin" Y Faner 21 Gorffennaf 1966, t.1
42. Dienw, "Dramâu Saunders Lewis" Y Faner 11 Awst 1966, t.3

43. Morris Jones, "Anelu at y Theatr Genedlaethol" Y Faner 14 Tachwedd 1956, t.5
44. Gohebydd Arbennig, "Anghytuno yng nghylch y Theatr Genedlaethol" Y Faner 2 Chwefror 1967, t.1
45. *ibid.*
46. *ibid.*
47. Eleanor Dwyryd, "Y Theatr Deithio" Y Faner 2 Chwefror 1967, tt.1&5
48. *ibid.*
49. *ibid.*
50. Golygyddol,"Ymlaen am Theatr" Y Faner 14 Rhagfyr 1967, t.4
51. Wilbert Lloyd Roberts, golygyddol, Llwyfan 1, Haf 1968, t. 3
52. Patric Gilchrist, o Carl Butler, Liverpool Daily Post, 1 February 1996, p.3
53. idem, o Ian Lang and David Rose, Liverpool Daily Post, 9 February 1996, p. 7
54. Rowland Lucas, The Voice of a Nation? A concise Account of the B.B.C. in Wales 1923-1973 Gwasg Gomer 1981, t. 15
55. *ibid*
56. *ibid*
57. South Wales Echo 1 Chwefror 1955
58. *op. cit.* 54, t. 25
59. John Davies, Broadcasting and the B.B.C. in Wales Caerdydd 1994 t. 23
60. *op. cit.* 1 t. 32
61. Cambria Leader 24 Chwefror 1925
62. Cambria Leader 26 Mehefin 1925
63. Cambria Leader 29 Hydref 1926
64. Western Mail Mai 1926
65. *op. cit.* 1, t.43
66. Cambria Daily Leader 18 Hydref 1929
67. Adroddiad Cyngor y Brifysgol i Lywodraethwyr y Brifysgol 12 Rhagfyr 1929
68. Radio Times Ebrill/Mai (?) 1933
69. Daily Express Tachwedd 1934

70. Manchester Guardian d.d. (1934?)
71. *ibid.*
72. Bristol Evening World Ionawr 1931
73. Bristol Evening World Chwefror 1934
74. Western Mail 13 Chwefror 1935
75. *op. cit.* 54, tt. 55-6
76. *ibid.*, "Minutes of the Meeting" tt.56-7
77. Saunders Lewis, Welsh Nationalist, Mehefin 1935
78. North Wales Chronicle, d.d.
79. E. Morgan Humphreys, Radio Cymru - Detholiad o Raglenni Cymraeg y B.B.C 1954 - 1989 gol. Gwyn Erfyl, tt.68-9
80. *op. cit.* 59, t. 108
81. Sunday Referee 6 Medi 1936
82. *op. cit.* 54, tt. 82-3
83. *op. cit.* 59, t.t. 99-100
84. North Wales Chronicle 14 Ebrill 1939
85. Gwynfor Evans, Y Radio yng Nghymru Gwasg y Brython, Lerpwl, 1944, t.t.5-6
86. *ibid.* t. 22
87. *op. cit.* 59, t.81
88. Dyddiadur Reith 3 Gorffennaf 1937
89. Darllediad gan yr Arglwydd Macdonald o Waenysgor ar y Gwasanaeth Cartref Cymreig, 29 Rhagfyr 1952
90. Y Cymro 16 Rhagfyr 1954
91. *op. cit.* 59, t. 351
92. Gwilym Owen "Cadw Golwg", Golwg Cyfrol 8 Rhif 14, 7 Rhagfyr 1995, t. 8
93. Dr. Glyn Tegai Hughes, Teledu a'r Celfyddydau Aberystwyth 1982, t. 1
94. John Davies, Broadcasting and the B.B.C. in Wales, Gwasg Prifysgol Cymru, Caerdydd 1994, t. 172
95. *dienw*, Liverpool Daily Post 9 Awst, 1949
96. Saunders Lewis, Y Faner 14 Chwefror, 1951

97. John Eilian, "Y B.B.C. a chenedl y Cymry" Y Llenor XXX 1 (Gwanwyn 1950) tt. 44-5
98. Gwynfor Evans, Y Radio yng Nghymru - Anerchiad yng nghyfarfod Undeb Cymru Fydd, Eisteddfod Genedlaethol Llandybie 1944, t. 14
99. John Ellis Williams "Y Ffilm Gymraeg Gyntaf" Radio Cymru : Detholiad o Raglenni Cymraeg y B.B.C. 1934-1989 gol. Gwyn Erfyl
100. Rowland Lucas The Voice of a Nation Gomer 1981, tt. 180-1
101. op. cit 94, t. 199
102. John Ormond, "Beginnings" Wales in Vision, Gomer 1990, pp. 3-4
103. Alan Protheroe, "News on Wheels" *ibid.* p.12
104. op. cit. 100, t. 184
105. op. cit. 102, pp. 7-9
106. op. cit. 100, t. 187
107. op. cit. 94, tt. 271-2
108. Bernard Sendall, Independent Television in Britain - Volume 2 - Expansion and Change, 1958-68, Macmillan 1983, pp. 75-7
109. Sganar Radio a Theledu Y Faner 7 Chwefror 1963
110. dienw, "Cynhadledd Caredigion Taliesin - cyfle creadigol radio a theledu" Y Faner 23 Ebrill 1964
111. dienw "B.B.C. 2 to go all colour - some day" Liverpool Daily Post 17 March 1966, t. 6
112. Graham Samuel "T.W.W.'s fall blamed on trivial programmes" Western Mail 13 Mehefin 1967. t.1
113. *ibid*
114. dienw, "Harlech T.V. must try to unite Wales" Television Weekly Gorffennaf 1967
115. Meic, Gwylio a Gwrandu, Y Cymro, 30 Tachwedd 1967
116. Dienw, "T.V. Channels to go Colour in November" Liverpool Daily Post 16 May 1969, t. 11
117. Arthur Williams, "T.V.:the enemy of the Welsh Language" Liverpool Daily Post 5 Gorffennaf 1970

118. idem. "Bid for more Welsh on T.V. will grow" Liverpool Daily Post 17 December 1970
119. dienw, "Y Bocs yn y gongl yn lladd y Gymraeg" Y Faner 14 Gorffennaf 1972, t. 3
120. ibid.
121. Cyril Hughes; o Dienw, "Welsh T.V. Essential for future of the language" Liverpool Daily Post 3 August 1974
122. Dienw, "Welsh Fourth Channel a must if language is to survive" Liverpool Daily Post 22 November 1974, t. 3
123. Staff Reporter, "Welsh seek joint B.B.C.-H.T.V. channel" Western Mail 25 March 1975
124. Brian Davies, "Minority Viewing" Liverpool Daily Post 9 March 1976
125. Mary B. Fitzpatrick, "No more Welsh T.V. please!" Liverpool Daily Post 9 March 1976
126. Emyr Humphreys, Bwrdd Datblygu Teledu Cymraeg Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, Aberystwyth 1977
127. Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, Darlledu yng Nghymru - Pam nad yw'r dyn yn siarad Cymraeg? Aberystwyth, 197?
128. idem., Teledu Cymru i Bobl Cymru Aberystwyth, 1977/8, t. 6
129. Lord Annan, chairman, Report of the Committee on the Future of Broadcasting H.M.S.O., March 1977, t. 472, pwyntiau 30.6 a 30.7
130. op. cit. 126
131. Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, S4C - Pwy Dalodd Amdani? Aberystwyth, 1985, t. 5
132. ibid.
133. ibid., t. 7
134. S4C 1982-1987 - Teledu Yng Nghymru - Y Diwydiant Newydd Caerdydd 1987, t. 23
135. S4C, Adroddiad Blynyddol 1987-88
136. Jean Lediard, Investigating Welsh Media The Welsh Arts Council, 1993, t. 44

137. Geraint Talfan Davies, Darlledu a'r Celfyddydau yng Nghymru - Darlith Ben Bowen Thomas, Cymdeithas y Celfyddydau, 1994, t. 6
138. op. cit. 128

PENNOD 3:

O'R GENRE I'R CYFRWNG

TRASIEDI

Tragedy has never been more fully studied as a genre, as a way of presenting the world, than it has been during this century,¹

meddai Clifford Leech - ond nid y ganrif hon yw'r un a gysylltir yn bennaf â thrasiedi. Er pan gyfansoddodd Aristoteles ei Farddoneg tua'r flwyddyn 335 cyn Crist bu llawer o drafod a dadansoddi ar drasiedi fel math o theatr.

Yn ôl yr Oxford English Dictionary, trasiedi yw:

- (i) A play or other literary work of a serious or sorrowful character, with a fatal or disastrous conclusion: opp. to comedy.
- (ii) That branch of dramatic art which treats of sorrowful or terrible events, in a serious and dignified style.²

- diffiniad sy'n gweddu i'n defnydd ni o'r gair yn y ganrif hon. Dywedodd Aristoteles yn ei astudiaeth:

Efelychiad, felly, yw Trasiedi o ddigwydd aruchel a chyflawn, sy'n meddu ar faintioli; mewn iaith a felysir gan bob math o addurn, a'r mathau gwahanol mewn rhannau gwahanol o'r gwaith; mae'n efelychu dynion yn gweithredu, ac nid drwy adrodd eu hanes; a thrwy dosturi ac ofn y mae'n gweithio allan deimladau o'r fath.³

Credo'r canol oesoedd ydoedd:

.....“tragedy” was simply a story which ended unhappily, offering a warning that, if one were not careful, a final unhappiness would be one's own lot too.⁴

Yn ôl F.L. Lucas yn 1927 roedd y genre wedi dirywio o ddiffiniad manwl Aristoteles i:

...a drama with unhappy close (disastrous enough for us to feel it “tragic”)⁵

Yn ei Ars Poetica, dywed Horas mai Thespis oedd tad trasiedi, ond mae peth amheuaeth ai ffigwr mytholegol ydoedd ef ynteu dyn o gig a gwaed. Mae sôn amdano'n byw tua 535 cyn Crist, ac ef oedd y cyntaf i ychwanegu actor unigol at gorws, er nad oes gair o'i waith mewn bodolaeth erbyn hyn.

Ystyrir y trasiediau Groegaidd yn glasuron, yn rhannol oherwydd Barddoneg Aristoteles, a ddiffiniodd y genre cynnar ar gyfer y canrifoedd i ddod. Yr un patrwm oedd iddynt oll yn wreiddiol - math o ddefodau i glodfori'r duw Dionysus, a'r pryd hynny, nid oedd iddynt o anghenraid ddiwedd glo trist - gwelwn fod rhai o weithiau Euripides yn fwy o gomedïau nag o drasiedi yn ôl ein safonau ni heddiw.

Ni chychwynwyd cyfansoddi trasiediau yn Lloegr tan 1561 pan ysgrifennodd Thomas Sackville a Thomas Norton Gorboduc, drama a alwyd “the first English tragedy”⁶. Mewn gwirionedd, drama foes wleidyddol ydoedd; disgrifia Leech hi fel:

a didactic play on the need to govern a kingdom properly.⁷

Yn dynn ar ei sodlau, daeth gweithiau gan Marlowe a Shakespeare, nifer ohonynt yn ddramâu trasig sydd wedi goroesi hyd heddiw.⁸

Yn Ffrainc y G17 bu datblygiadau mawr, yn bennaf drwy waith Corneille a Racine; gweithiau sy'n cael eu hystyried yn glasuron trasig. Er fod Racine yn edmygydd o waith Corneille, roedd dramâu'r ddau yn dra gwahanol, fel yr eglura Barnwell yn The Tragic Drama of Corneille and Racine:

Corneille's plays were dramatically exciting, their episodes unpredictable, their outcome optimistic; Racine's developed inexorably

towards a foreknown and pessimistic end.
One was heroic, the other tragic; one was
active and dramatic, the other passive and
lyrical or poetic.⁸

Gwyddom fod theatr Ffrainc wedi bod yn ddylanwad cryf ar Saunders Lewis yn llenyddol; hawdd felly yw disgrifio ei weithiau difrif fel cymysgedd o arddull drasig y ddau ddramodydd - dramâu â chyffro ynddynt, ond yn arwain at ddiwedd glo sydd yn amlwg drasig. Mae Blodeuwedd yn enghraifft gymwys ynghyd â Brad, lle gwyddom o ffynonellau annibynnol am dynged yr “hudoles hanner-gwaed” ac Adolf Hitler (y drasiedi yma i Ewrop oedd fod y cais ar ei fywyd wedi methu). Disgrifir gwaith Racine fel “foreknown”, ond nid yw hyn o reidrwydd yn beth drwg. Gwyddai’r Groegwyr beth fyddai hynt y cymeriadau yn y dramâu yr oeddynt yn eu gwyllo oherwydd iddynt oll gael eu seilio ar fytholeg - meddyliwn am yr hanesion am Oedipws, a dramâu megis Antigone. Yn ei ddrama Athalie, seiliodd Racine y digwydd ar hanes Athaleia, Brenhines Jwda yn Ail lyfr y Brenhinoedd, fel y gwnaeth Saunders Lewis ag Esther y Beibl, a thebyg iawn i’r chwedlau Groegaidd i ni’r Cymry yw’r Mabinogion a gynnwys hynt Branwen a Blodeuwedd. Roedd y chwedlau hyn, fel yng Ngroeg, yn cael eu hadrodd i blant gan eu rhieni, oll yn rhan o’r traddodiad llafar sydd wedi sicrhau parhad dogn helaeth o’r hanesion.

Yn Lloegr yn niwedd y G17, roedd dramodwyr yn ceisio dygymod â’r syniad o gyfiawnder barddonol, pwnc y bu i Racine ymwneud ag ef yn ei gyflwyniad i Phèdre:

Mae’r beiau lleiaf yma yn cael eu cosbi’n hallt; a’r syniad o droseddu yn cael ei ystyried gyda’r un arswyd â’r drosedd ei hun; mae gwendidau cariad yn cael eu dangos yma yn wirioneddol fel gwendidau; mae’r nwydau yn cael eu cyflwyno i’r golwg yn unig i ddangos yr anhrefn llwyr y maent yn ei achosi; ac mae drygioni yma yn cael ei ddangos ym mhobman fel bod rhywun yn ei adnabod a chasau ei hanffurfiad.....⁹

Bu Rymer, Dryden ac Addison yn sôn am hyn; ond pwysicach yn natblygiad y genre oedd y theatr drasig yng ngogledd Ewrop - daeth Ibsen o Norwy a Strindberg o Sweden i'r amlwg gyda math newydd o ddrama:

....a new fantastic mode exemplified at its highest in The Ghost Sonata and A Dream Play....¹⁰

Dyma'r math newydd o drasiedi - dramâu ag ynddynt drallod arbennig, gweithiau na allent efallai gael eu rhoi yn yr un categori â dramâu clasurol blaenorol - yn wir, yn ei gyflwyniad i'w ddrama Miss Julie, dywed Strindberg;

Os yw fy nhrasiedi yn cael effaith ar y lliaws, yna arnynt hwy mae'r bai....Yn ddiweddar beirniadwyd fy nhrasiedi Y Tad am ei bod mor drasig - fel petai disgwyl i drasiediau fod yn llawen!¹¹

Erbyn hyn, roedd llawer o ddramodwyr yn ysgrifennu dramâu nad oeddent yn esiamplau traddodiadol o'r genre, ond roedd trasiedi Ewrop yn dal i ffynnu yn Iwerddon. Medd Leech:

For its best writing in this kind, we can see Dublin as the one place in the earliest years of this century where tragedy in the English language was boldly and simply essayed and firmly achieved.¹²

Roedd yr Abbey Theatre yn ganolbwynt i'r tyfiant, a chlasuron modern Synge ac O'Casey yn cael eu perfformio fel arwydd o gychwyn y mudiad trasiedi modern. Yn eu tro, daeth dramodwyr gweddill Ewrop i'r un bri: Anouilh, Sartre a Camus; gan feithrin y drasiedi fodern.

Er mwyn diffinio trasiedi yn ei ffurf glasurol, mae'n rhaid mynd yn ôl at ddramâu cynnar Groeg a'r feirniadaeth arnynt. Ysgrifennwyd y Peri Poetike tua 330 cyn Crist; gyda'r bwriad o egluro a diffinio celfyddyd barddoniaeth. Credir fod y gyfrol yn seiliedig ar nifer o nodiadau darlithoedd a glywodd yr awdur gan

Platon, ei athro galluog, gan nad yw'r pwyntiau a geir ynddo mewn unrhyw fath o drefn gronolegol. Yn wreiddiol, roedd ail gyfrol yn trafod comedi yn yr un modd â'r drasiedi, ond bu i honno ddiflannu cyn y seithfed ganrif O.C.

Roedd Aristoteles yn ddisgybl i Platon, ac yn aelod o'i academi am ugain mlynedd, felly mae ei ddylanwad yn amlwg ar y Farddoneg. Mae peth amheuaeth hyd heddiw ai gwaith Aristoteles ei hun ynteu nodiadau a gymerwyd o ddarlithoedd Platon yw'r testun a sail y gwaith, gan fod canmoliaeth i arddull lyfn a hawdd Aristoteles ym meirniadaeth Cicero ar weithiau o'i eiddo sydd bellach wedi eu colli. Ni ellir canmol y Farddoneg; sydd yn fratiog ac yn seiliedig ar bwyntiau yn hytrach na syniadau; yn yr un modd - a oes felly sail i'r amheuon? Â Lucas mor bell ag awgrymu na fu i Aristoteles ddatblygu oddi wrth ddylanwad Platon erioed.¹³

Beth bynnag a ddywedir am arddull y Farddoneg, ni ellir dadlau gwerth llenyddol y gyfrol. Dyma'r diffiniad cyntaf o drasiedi fel genre, a llinyn mesur i ddramodwyr a beirniaid fel ei gilydd drwy'r oesoedd tan yn ddiweddar, gyda dyfodiad y drasiedi fodern.

Ni cheisiaf fanylu ar yr holl ddyfeisiadau o fewn y genre; ond archwilio natur trasiedi yn ôl Aristoteles, a phennu ei dylanwad ar Saunders Lewis.

Prif fyrdwn Barddoneg ydyw fod pob math o gelfyddyd yn fath o efelychiad; o'r herwydd, efelychiad neu ddynwarediad o fywyd yw drama. Yn yr ail bennod, eglura mai gweithredoedd pobl sy'n cael eu hefelychu - a'r gwahaniaeth rhwng trasiedi a chomedi yw'r modd y maent yn cael eu hefelychu:

Gan fod y sawl sy'n efelychu yn efelychu dynion yn gweithredu a bod yn rhaid i'r gweithredwyr hyn fod yn aruchel neu yn wael (oherwydd y mae cymeriad yn ymateb bron yn wastad i'r disgrifiad hwn yn unig, am mai mewn drwg a da y bydd dynion oll yn gwahaniaethu eu cymeriad), yna y mae'n rhaid eu hefelychu naill ai yn well na'r rhelyw o ddynion neu yn waeth, neu yr un fath.¹⁴

Mae trasiedi yn ymdrin ag elfennau aruchel bywyd, ond efelychiad nid yn gymaint o'r cymeriadau, ond o ddigwyddiadau bywyd. Y plot sy'n bwysig, nid y cymeriadau; yn wahanol i gomedi:

....nod Trasiedi yw'r digwyddiadau a'r stori,
a'r nod yw'r peth pwysicaf oll. Heb
ddigwydd ni fyddai trasiedi yn bosibl;
byddai'n bosibl heb gymeriadau.¹⁵

Yn ôl Aristoteles, y mae pedwar math o drasiedi: yn gyntaf mae'r math cymhleth, sy'n cynnwys Darganfyddiad a Gwrthdro. Gwrthdro yw'r term am yr achosion hynny ble y mae beth sy'n digwydd yn hollol wahanol i'r hyn a ddisgwylir gan y gynulleidfa, a'r Darganfyddiad yw'r newid hwnnw o anwybodaeth i'r sylweddoliad.

Yr ail fath o drasiedi yw'r math pathetig sy'n dibynnu ar emosiynau a theimladau; trasiedi a'i sail mewn cymeriad, neu drasiedi foesol, yw'r trydydd math; a thrasiedi'r arddangosiad, math syml o'r genre, yw'r math olaf. Mae holl drasiedïau Groeg yn ffitio i'r categorïau hyn, a dyfynna Aristoteles enwau dramâu a oedd yn gyfoes iddo ef i brofi ei honiadau.

Datgan Aristoteles fod sawl rhan i bob trasiedi. Yn gyntaf cawn y Prolog, sy'n dod o flaen Parodos y Côr, wedyn:

....yr Episod yw'r cwbl o'r drasiedi a ddaw rhwng dwy gerdd gorawl gyflawn; yr Ecsodos yw'r cwbl o'r drasiedi na ddaw cerdd gorawl ar ei ôl. Yn y rhan Gorawl, y Parodos ydyw'r cyntaf o'r datganiadau cyfain a rydd y Côr. Y Stasimon yw'r gerdd gorawl sydd heb fudr anapaestig a throchaïg, a'r Commos yw'r alarnad sy'n gyffredin i'r Côr ac i'r rhai sydd ar y llwyfan.¹⁶

Y rhain yw'r adrannau y dylid rhannu'r drasiedi iddynt. Ond mae'n rhaid, wrth gwrs, cael testun i'w rannu, sef stori, a hwnnw, yn ôl Aristoteles, yw enaid y drasiedi: medd yr awdur:

Y stori ...yw dechreuad ac megis enaid
Trasiedi; ac yn ail y daw cymeriad.¹⁷

Mae Aristoteles yn gwneud tri phrif sylw ar y plot trasig. Yn gyntaf, mae'n rhaid iddo fod o faint addas - yn ddigon hir i gyfleu'r digwydd yn effeithiol, ond heb fod yn rhy faith. Mae'n rhaid cyfleu'r ddrama fel un bennod gyflawn, fel bod y gynulleidfa yn credu yn y stori. Ar lwyfannau cynnar Ewrop, roedd hyn yn golygu drama a oedd rhwng dwy a thair awr - erbyn hyn, mae perfformiadau rhywfaint yn fyrrach.

Ail sylw Aristoteles oedd fod yn rhaid cael adeiladwaith i'r ddrama; fod i'r gwaith ddechrau, canol a diwedd (sy'n cyferbynnu â theori ddiweddarach Tsecof na ddylai stori gael na dechrau na diwedd). Eglura Lucas fwriad y beirniad:

A "beginning" is a situation which has definite consequences, though not very obvious causes; a "middle" is a situation with both causes and consequences; and an "end" is the result of the "middle", but creates no further situation in its turn.¹⁸

Ni ddylai unrhyw beth direswm ddigwydd mewn trasiedi - nid cyfrwng yr annisgwyl ydyw (nid oedd plot y chwedlau Groegaidd yn ddieithr i neb o'r gynulleidfa adeg cyfansoddi'r trasiedïau cyntaf).

Mae trydydd sylw Aristoteles yn amwysach. Mae'n rhaid i blot trasiedi fod yn enaid i'r gwaith - sylw efallai yn tarddu o'r ffaith fod yr awdur wedi mwynhau arlwy ddramatig y cyfnod ac yn credu i'r dramodwyr gyflwyno yn llwyddiannus egni, neu enaid, y chwedlau gwreiddiol, a'u hatgyfodi yn y gymdeithas.

Roedd y trasiedïau Groegaidd yn amrywio o ran datblygiad - mae enghreifftiau o ddramâu sy'n agor gyda'r Côr; gyda deialog rhwng dau gymeriad neu hyd yn oed gyda phrolog fel a ddefnyddiwyd gan Euripides. Wedi egluro'r sefyllfa i'r gynulleidfa, rhaid yw symud i ganol, neu ddatblygiad y plot, ond

gwylio rhag datgelu gormod ohono ar unwaith rhag amharu ar y stori ganolog. Er fod y stori yn y cynhyrchiadau cynnar yn wybyddus i'r gynulleidfa, roedd cyffro yn elfen bwysig yn y plot trasig - cawn enghraifft dda o hyn yn hanes Oedipws pan wyddom ei fod yn mynd i ladd ei dad, ond nid ymhle na phryd. Gwelwn gynnwys eironi trasig, sydd yn gymorth i'r dramodydd gyflwyno ei blot i gynulleidfa sydd eisoes yn gyfarwydd â'r testun.

I gloi'r drasiedi, mae'n rhaid dangos effaith y plot ar yr arwr trasig a'r cymeriadau eraill. Priodol yw iddo sylweddoli y drwg y mae wedi ei brofi neu ei greu, a dangos iddo ddysgu o'r profiad (hynny yw, os yw'n fyw o hyd). Gwelwn Oedipws fel esiampl - gŵyr mai ef a'r dynged a oedd arno sydd wedi difa dinas Thebau a'i theulu brenhinol, a dengys hyn drwy ei ddallu ei hun fel cosb - yn eironig, meddai Lucas:

At its best, tragedy is a story of human blindness leading human effort to checkmate itself - a Tragedy of Error.....And the peculiar virtue of the Tragedy of Error is that it is convincing in its logic, neat in its form, poignant in its irony. It remains not the only kind of tragedy; but as Aristotle says, the best.¹⁹

Wedi astudio'r plot, gwelwn ei fod yn llwythog â dyfeisiadau sy'n gymorth i'r dramodydd trasig gyflwyno ei stori mewn dull mor grefftus â phosibl; gelwir yr elfennau hyn yn themâu trasig. Gwyddom fod y genre yn ymdrin â chymeriadau o haen uchaf cymdeithas, felly fe saif bywyd breintiedig y cymeriadau yn un o'r themâu. Sylwais ynghynt na fyddai trasiedi heb farwolaeth, neu lofruddiaeth; cytuna Eric Bentley:

Comedy is very often about theft, exactly as tragedy is about murder.²⁰

Gweithred a ddigwydd oddi ar y llwyfan yw hon, â'r Côr yn gyfrwng i roi'r manylion amdani i'r gynulleidfa. Gwelwn hyn yn nrama Soffocles, Antigone; ar ôl iddi ei lladd ei hun y mae corff Ismene yn cael ei gludo ar y llwyfan;

defnyddiodd Saunders Lewis yr un syniad yn Blodeuwedd ar ôl i'r forwyn Rhagnell ei boddi ei hun yng ngherwyn y geifr. Weithiau mae'r bygythiad, yn hytrach na'r weithred ei hun, yn ddigon i wneud y ddrama yn drasiedi.

Un arall o'r themâu clasurol yw cyfiawnder. Mae'n rhaid ei ddangos er mwyn rhoi synnwyr o gyfraith a threfn, yn ogystal â threfn foisol, i'r gynulleidfa. Nid adlewyrchiad o fywyd bob dydd, fel mewn drama gomedi, sydd i'w gael yma, felly mae'n rhaid atgoffa'r gynulleidfa fod daliadau eu cymdeithas hwy yn dal yn bwysig, ac nad anhrefn llwyr a bortreadir.

Mae arswyd hefyd yn elfen gref mewn trasiedi; medd Bentley:

....awe is a characteristic mode of fear in great tragedy. Awe is fear transfigured.²¹

Mewn stori drasig, mae marwolaeth yn debygol, a'r gynulleidfa yn ei ddisgwyl. Yn sgîl hyn, mae dychryn ac arswyd, hynny'n arwain at y stâd afiachus - un arall o themâu pwysig trasiedi.

Yn aml, nid yw'r genre yn ymdrin yn ormodol â materion fel gwylltineb a thosturi rhag colli'r teimladau o gyfiawnder sydd mor bwysig i'r gynulleidfa. Pe byddai'r arwr trasig yn denu tosturi'r gynulleidfa, ni fyddai cyfiawnder moesol yn niwedd y perfformiad, ac o'r herwydd, byddai'r drasiedi yn colli ei phwrpas. Mae'n rhaid i'r gynulleidfa weld mai hanfod drama yw mai un terfyn posibl sydd i'r ddrama drwy'r perfformiad. Medd Brereton:

The disaster is envisaged as final so far as [the characters] or events are concerned. That is, no recovery is contemplated, there is no prospect of a "happy ending".²²

Mae'r weithred drasig yn gysgod dros y digwydd drwy gydol y ddrama, a phan yw'r hanes yn un adnabyddus, mae angen pwysleisio hyn i'r eithaf. Un o'r themâu a ddefnyddiwyd yn wreiddiol yw eironi - mae'n angenrheidiol er mwyn rhoi i'r gynulleidfa'r fantais dros yr arwr o fod yn fwy gwybodus nag ef. Gan fod nifer helaeth o'r trasiedïau yn seiliedig ar chwedlau, roedd pawb yn

ymwybodol o'r diwedd glo - swyddogaeth eironi felly oedd atgoffa'r gynulleidfa am yr hyn a oedd i ddod yn ystod rhannau ysgafnaf y ddrama. ?

Elfen werthfawr mewn trasiedi glasurol yw dioddefaint - hebddo, ni fyddai plot trasig yn gwneud synnwyr, medd Brereton:

...the spectacle of suffering, as suffering, is the main point of tragedy. It is simply an inescapable accompaniment of a tragic situation,²³ ✓

I fynd yn ôl eto at Oedipws; mae'r ffaith ei fod newydd sylweddoli ei weithredoedd ac mewn gwewyr dwfn yn ennyn gennym gydymdeimlad, ac ofn am ei ddyfodol a ffawd y ddinas anffodus. Yn ei Farddoneg, dywed Aristoteles fod angen tosturi ac ofn fel rhan o'r plot, ac fel yn Oedipus Rex dylent darddu o'r saerniaeth fewnol yn hytrach na thrwy'r arddangosiad:

Dylid saernio'r stori ar wahân i'r hyn a welir, yn y fath fodd ag i beri bod y neb a glywo'r digwyddiadau yn dod i ben yn dychrynu ac yn tosturio oherwydd yr hanes. Dyma'r hyn a deimlai dyn wrth glywed stori Oedipws. Ond mae cynhyrchu'r effaith hon drwy'r arddangosiad yn llai artistig ac yn dibynnu ar gynorthwyon allanol.²⁴

Catharsis yw'r term a ddefnyddir am y weithred o ryddhau teimladau cudd y gynulleidfa er mwyn iddynt gael gwared o'u problemau. Mae Aristoteles yn sôn am y pleser o allu cael gwared o'r dagrau a'r emosiynau sydd yn tyfu yn yr enaid, a chael gwneud hynny drwy uniaethu neu drwy wylltio â phroblemau cymeriad yn y ddrama, elfen y mae Lucas yn ei galw yn

...the healthful relief of *catharsis*²⁵

Nid yw annog y catharsis hwn yn hawdd gan ei bod yn bwysig peidio â magu gormod o gydymdeimlad tuag at y cymeriadau - fel y crybwyllais eisoes, ni fyddai'r gynulleidfa wedyn yn credu yn eu gweithredoedd drwg; yn bwysicach,

peryglus yw annog rhy ychydig o'r emosiwn rhag ofn iddynt benderfynu fod y cymeriad yn haeddu popeth sy'n dod i'w ran (nid trasiedi fyddai clo'r ddrama felly, ond comedi, gan fod y gynulleidfa yn mynd o'r theatr yn fodlon).

Mae dadl gynnar yn cynnig nad dyfais i ryddhau tensiwn y gynulleidfa a ddylai trasiedi fod; yn hytrach, math o bregeth foesol yn troi'r gynulleidfa yn erbyn drygioni a cheisio eu gwthio i fyw bywyd da. Eglura Lucas:

In the eyes of Aristophanes, Hesiod taught men husbandry, Homer war, Æschylus courage to die for one's country; even to Johnson, Shakespeare remained, like Euripides, a treasury of political and moral philosophy.²⁶

10

Nid oedd y boddhad a geir gan y catharsis yn cael ei ystyried yma o gwbl.

Rhaid ystyried yr hyn sy'n amgylchynu'r holl emosiynau a'r elfennau trasig hyn; y weithred drasig. Yn aml, hwn yw'r prif ddigwyddiad, neu thema; yr angau angenrheidiol. Eglura Max Scheler rôl y weithred:

In every genuine tragedy we see more than just the tragic event. We see over and above it the permanent factors, associations, and powers which are in the very makeup of the world. It is these which make such a thing possible. In every tragic event we are directly confronted with a definite condition of the world's makeup without deliberation or any sort of "interpretation". This confronts us in the event itself; it does not result from what it does to the things which brought it about. It is only momentarily connected with the event and is independent of the elements that make it up. It is present in the form of slight presentiment.²⁷

Wrth leoli'r weithred drasig, rhaid astudio'r syniad fod mwy nag un darn iddi. Mae Eric Bentley yn The Life Of The Drama yn dyfynnu syniad E.M.W. Tillyard am y rhannau:

?

...there are, at bottom, three patterns of tragic action. The first is that of suffering and endurance; the second, destruction and renewal; the third, sacrifice and expiation.²⁸

Mae'r patrwm hwn yn amlwg ym myd y drasiedi, gan y cynhywysir ef yn y mwyafrif o drasiedïau modern yn ogystal â'r clasurol - â hyn a ni'n ôl at y sylw nad oes trasiedi heb ddiodefaint, a dim gwir ddiodefaint heb awgrym, o leiaf, o farwolaeth.

Mae'n rhaid cael cymeriadau i weithredu'r plot trasig; ac mae'n rhaid iddynt fod yn fath arbennig o gymeriadau. Wrth astudio comedi, gwelsom fod y defnydd o stereoteipiau yn angenrheidiol, ond beth am drasiedi?

Only where there is high and low, nobleman and peasant, is there anything like a tragic event,²⁹

medd Scheler, gan awgrymu fod i gymeriadau trasig dras uwch na chymeriadau comedi. Nid yw hyn yn sicrhau nad stereoteipiau ydynt - ni wyddom ddigon am y gymdeithas yng Ngroeg a Rhufain yn y cyfnod cyn Crist i brofi nad gwawdluniau creulon o ffigyrau amlwg dan fantell yr hen dduwiau oedd cymeriadau Soffocles ac Euripides. Maent yn greadigaethau mawreddog yn sicr, yn enwedig yr arwr, sydd, yn ôl Aristoteles, yn dda ei natur, ond nid yn berffaith. Mae'n rhaid i'r gynulleidfa fedru credu ynddo er mwyn i'r dramodydd fod yn sicr o ennyn ymateb - os nad ydyw'r gynulleidfa yn meddwl llawer o'r arwr, nid ydynt yn mynd i deimlo'n dosturiol tuag ato, ac felly, ni lwydda'r ddrama fel trasiedi. Ymhelaetha Brereton:

We have noticed that tragedy is not easily associated with trivial personalities. In the older kinds of drama the principle was reflected in the practice of making kings and queens, or their equivalents in worldly position, the protagonists of tragedy. This may appear an artificial convention, consecrated by the stage practice of various countries, but it is a very convenient device

which indicates *at once* the high standing of the characters and makes it unnecessary to establish the fact at length.³⁰

Y ffigwr delfrydol ar gyfer un sy'n dioddef yw brenin - un na fyddai disgwyl iddo fod dan ddiodefaint. Disgrifiad Aristoteles o'r cymeriadau yw eu bod yn:

...bersonau gwell na'r cyffredin,³¹

ond yn aml maent yn fwy o ffyliaid na gwawdluniau comedi. medd Brereton:

The characters in tragedy often act in ignorance of the nature of their deeds. Sometimes also...they are ignorant of the people with whom they are dealing.³²

Cymerwn Oidipws eto fel esiampl. Nid ydoedd yn gwybod ei fod wedi priodi ei fam - nid drwy ei fai ei hun y digwyddodd hynny. Ystyriwn Creon ar y llaw arall - ar ôl sawl rhybudd ynglŷn ag anwybyddu deddfau'r duwiau yn Antigone, 'wnaeth o ddim mentro gofyn iddo'i hun a ydoedd yn gwneud y peth iawn. Wrth wynebu'r un sefyllfa, a fyddai ffŵl mewn comedi wedi bod mor gibddall? Mae'r arwr trasig yn wynebu brwydr fewnol yn ystod y ddrama, ond mae yn gredadwy drwy fod yn dda, fel y gwelwn yn nisgrifiad Aristoteles o'i arwr delfrydol:

.....dyn sydd heb fod yn rhagori'n amlwg mewn rhinwedd a chyfiawnder, ond sy'n ymsymud i drueni nid oherwydd drwg neu bechadusrwydd, eithr oherwydd rhyw ddiffyg. Rhaid iddo fod yn un o'r rhai sy'n mwynhau enwogrwydd a dedwyddwch, megis Oidipws a Thestes a dynion amlwg o deuluoedd tebyg.³³

Yn aml iawn, nid yr arwr ei hun sy'n cael ei ladd; yn hytrach, daw ei gwmp drwy iddo sylweddoli poen eraill, yn aml, poen y mae ef ei hun wedi ei hachosi, neu wedi methu â'i rhwystro.

Dyn yw'r arwr trasig yn y mwyafrif o ddramâu Rhufain a Groeg, ac roedd Aristoteles yn ffafrio hyn. Nid oedd ganddo feddwl uchel iawn o'r rhyw deg ym myd y ddrama, gan gredu eu bod yn gwneud gwell cynulleidfa na chymeriadau, fel y nododd yn Hanes Anifeiliaid:

.....mae merch yn fwy cydymdeimladwy a hawdd ei hysgogi i ddagrau na dyn, ond hefyd yn fwy eiddigeddus a chwerylgar, yn barotach gyda thrais ac ergyd; ac eto, mae'r rhyw fenywaidd yn fwy anobeithiol a phryderus, mwy digywilydd, mwy celwyddog, a mwy twyllodrus.³⁴

Hyd yn oed yn y cyfnod presenol, prin yw'r dramâu hynny sydd â merched yn flaenllaw ynddynt - tybed ai'r syniad fod merched yn rhy dyner i gael eu portreadu fel arweinwyr cymdeithas sydd yn gyfrifol am hyn - roedd yn gasgliad teg, yn enwedig gan mai'r frenhiniaeth yn aml oedd testun trasiedi, a dyn yn naturiol yn ben arni.

Yn y drasiedi fodern; medd von Szeliski,

The modern hero *must* be a loser,³⁵

ac yn lle'r cymeriad da, cryf sydd wedi bod yn ganolbwynt i'r drasiedi ers amser Aristoteles, ganwyd y gwrth-arwr. Mae hwn i'w weld fel cymeriad gwan, ond dyna ei brif gryfder medd Palmer:

The character's lack of traditional heroic virtues may in itself be a virtue in a context in which heroism appears impossible or absurd.³⁶

Ymddengys yn gymeriad chwerthinllyd pan gawn ein cyflwyno iddo, ond fel mae'r plot yn datblygu, gwelwn fod iddo ei rinweddau fel yr arwr traddodiadol. Os mai "Superman" yw'r arwr, felly yn sicr, Clark Kent yw'r gwrth-arwr. Creadigaeth ydyw sy'n ffitio i batrwm y drasiedi fodern sydd wedi symud oddi wrth y cymeriadau aruchel traddodiadol.

Er fod rhai o elfennau angenrheidiol astudiaeth Aristoteles wedi goroesi, mae mwy na dyfodiad y gwrth-arwr wedi newid y genre. Crewyd hefyd yr an-arwr - cymeriad nad yw'n cyfrannu i'r digwydd, ac a ddisgrifir gan Palmer fel cymeriad:

....who fails to spark any positive response and produces apathy or contempt.³⁷

Gwelwn fod theori catharis wedi diflannu o'r genre erbyn hyn, a thrasiedi yn cael ei hystyried yn agwedd ar fywyd modern yn hytrach na dihangfa^o oddi wrtho. Medd Williams:

The real key, to the modern separation of tragedy from "mere suffering", is the separation of ethical control and, more critically, human agency, from our understanding of social and political life.³⁸

Nid oes adeiladwaith fel y cyfryw i'r drasiedi fodern - cyn belled â bod neges y gwaith yn amlwg ac yn cynhyrfu'r emosiwn cywir, "...any structure that stimulates that response will serve,"³⁹ fel y dywed Palmer. Ac meddai von Szeliski:

....producing a tragedy today which fits exact classic requirements such as the Aristotelian would really mean begetting an anachronism.⁴⁰

Ni olyga hyn fod trasiedi fodern yn ddiffygiol mewn unrhyw fodd. Ni allwn farnu na chymharu llenyddiaeth cyfnodau gwahanol, meddai, gan na wyddom yn iawn amgylchiadau eu cyfansoddi:

We ought to consider what it is like for the twentieth century playwright. Can he make any easy choice between disgust and affirmation in commenting on our situation? Perhaps he has no choice. We should also

remember that he has a much tougher audience to write for compared to the more insulated and sated audiences of any previous centuries.⁴¹

Ni ellir cymharu gwaith Arthur Miller a Soffocles â'i gilydd - rhaid parchu cefndir y gwaith yn ogystal â'r ddrama ei hun.

Roedd Saunders Lewis yn edmygydd mawr o waith Racine a Corneille, ond i ba raddau y mae ei waith ef yn gweddu â chasgliadau Aristoteles am drasiedi?

Er fod y mwyafrif o'i ddramâu yn rhai difrif, ychydig yn unig sy'n arddangos prif nodweddion trasiedi. Yn gyntaf ystyriwn Blodeuwedd, sydd, fel y trasiedïau gwreiddiol, yn seiliedig ar straeon a oedd yn wybyddus i'r gynulleidfa a'r cymeriadau yn chwedlonol. Yn wahanol i draddodiad y Groegwyr, rhoddodd Saunders Lewis ferch yn arwr, gan wneud ei godineb yn weithred drasig rhag ennyn gormod o gydymdeimlad â'i. Gwelwn eironi trasig yn ei sgwrs gyda'r Llew ei gŵr ynglŷn â chael aer iddo, a'i thaeru mai mab a geir. Daw barn arni wrth i Gwydion lwyddo i adfywio'i nai, a thrawsnewid Blodeuwedd yn dylluan, a'r fantell o hud a lledrith a ddefnyddir yn atgof o'r duwiau Groegaidd.

Enghraifft arall o drasiedi yng ngwaith Lewis yw ei ddrama deledu, Branwen. Eto, mae'r plot yn seiliedig ar chwedl o'r Mabinogi, a merch eto yn arwr ynddi. Fel yn Œdipus Rex, mae'r weithred drasig o losgach yn ymylu ar fod yn atgas i'r gynulleidfa, a hyn sy'n atal y gynulleidfa rhag tosturio'n ormodol wrth Branwen wrth iddi gael ei chamdrin yn Iwerddon. Mae'r ddrama yn frith o eironi, gydag Efnisien yn bygwth lladd mab ei chwaer-gariad; a Brân wrth giniawa yn cellwair am ferched Cymru yn pobi yng ngheginau palas y Gwyddel. Caiff y ddau gariad eu cyfiawnder, gyda Branwen yn dorcalonnus wedi colli ei hunig fab, ac Efnisien yntau o gael gwybod mai ei fab ef ei hun a laddodd.

Mae Cymru Fydd yn arddangos meistrolaeth Saunders Lewis ar y drasiedi fodern yn ogystal â'r glasurol, a Dewi yn wrth-arwr penigamp, wedi dwyn, dianc o garchar a niweidio teithiwr diniwed wrth redeg adref rhag yr heddlu. Gwna

hyn hi'n amhosibl i ni deimlo gormod o gydymdeimlad tuag ato, ac mae ei hunanladdiad, er yn drist o safbwynt cymeriadau eraill y ddrama, yn haeddiannol.

Mae i drasiedi nifer enfawr o weddau, o'r testunau hynny yr ysgrifennodd Aristoteles amdanynt i waith dramodwyr teledu a ffilm y cyfnod presennol, a'r genre yn boblogaidd hyd heddiw. Yn ddiweddar, cynhyrchwyd rhai o drasiedïau enwocaf Shakespeare gan gwmnïau o Hollywood, yn cynnwys Hamlet, Othello a Romeo and Juliet. Meddai Chaucer yn ei ragymadrodd i Stori'r Mynach gan gloriannu un o'r traddodiadau dramatig mwyaf cymhleth:

Tragedie is to seyn a certeyn storie,
As old bokes maken us memorie,
Of him that stood in great prosperitee
And is y-fallen out of heigh degree
Into miserie, and endeth wrecchedly.⁴²

COMEDI A FFARS

Medd Neil Schaeffer yn The Art of Laughter:

Laughter is, of all the expressions of mind and heart, the most enigmatic....But in laughter we experience an explosion of pleasure, a vocal and conspicuous display of delight that in effect incapacitates us, while it lasts, for any other business. This is an indulgence apparently granted no other creature.⁴³

Ond beth sy'n gwneud i ni fel cynulleidfa chwerthin am ben dramâu sydd yn aml yn dangos poen y cymeriadau?

Caiff comedi ei ddiffinio yng Ngeiriadur Prifysgol Cymru fel:

Drama ysgafn yn ymdrin â phersonau a phethau cyffredin a'i diwedd glo yn hapus; y gangen honno o'r ddrama sy'n ymdrin â bywyd pob dydd mewn dull ysgafn ac arddull sathredig,⁴⁴

mewn ffordd, y gwrthwyneb i drasiedi. Meddai Aristoteles yn ei drafodaeth yn y Farddoneg amdani:

Y mae comedi.....yn efelychiad o ddynion gwaelach [na thrasiedi], eithr nid ar linell y drwg yn gyfan gwbl, gan mai rhan yn unig o'r hagr yw'r chwerthinllyd. Rhyw ddiffyg neu anffurfiad yw'r elfen chwerthinllyd, ond un nad yw'n achosi poen na niwed.... Y mae'r cyfnewidiadau yr aeth Trasiedi drwyddynt, a'r gwŷr a'u parodd, yn adnabyddus, ond gan na thrinid Comedi yn ddifrifol o'r dechrau, anhysbys yw ei hanes.⁴⁵

Gwelwn nad syniad diweddar yw trin comedi fel chwaer ansylweddol trasiedi - roedd mwy o fri ar ddramâu difrif yn nyddiau cynnar y ddrama.

Ni all pob darn dramatig a elwir yn gomedi fod yn ddoniol i bawb, ac efallai fod rhai dramâu nad ydynt yn cael eu hystyried yn ddoniol yn apelio mwy at synnwyr comig rhai o'r gynulleidfa na chomedi draddodiadol. Gofyn Gerald Mast:

If comedy's aim is to reform individual transgressions of acceptable social behavior, then how is one to include Aristophanes or Chaplin, who ridicule the accepted social order and acceptable social behavior? If comedy's aim is moral improvement, a very sugar coated pill, then how does one include Twelfth Night or Terence? If comedy treats only of light, unimportant matters, then how does one include Ionesco, who depicts man's bestial drive either to destroy his fellows or to join the rest of the herd, or Doctor Strangelove, which depicts the cataclysmic end of the human race? If comedy excludes pathos and emotional empathy, then why are City Lights and The Merchant of Venice and Emma comic?⁴⁶

Gall elfennau gweledol neu glywedol wneud i bobl chwerthin: jôc gan ddigrifwr, neu fŵcedaid o ddŵr yn disgyn am ben cymeriad wrth iddo agor drws. Ond pe bai'r un jôc yn cael yr un ymateb gan bawb, byddai gwaith digrifwr yn hawdd. Yn yr un modd, byddai tric y bŵced ddŵr yn gweithio'n dda mewn syrcas, ond yn ymddangos yn od ar lwyfan, comedi neu beidio. Ond mewn gwirionedd, a yw chwerthin yn angenrheidiol er mwyn i gomedi fod yn llwyddiant? Cred Mast fod comedïau yn ddoniol, a bod hynny'n beth da, ond yn ôl Christopher Herbert:

...laughter forms no significant element in comedy, we are repeatedly admonished - or if it does it shouldn't, for laughter is 'erratic and unreliable,' ...⁴⁷

Ai camgymeriad felly yw dibrisio comedi nad yw'n gwneud i ni chwerthin yn uchel? Y diffiniad o Amlyn ac Amig ar flaen-dudalen y cyhoeddiad yw "comedi", ond nid ydym yn ei gweld hi'n fethiant fel drama am nad ydym wedi dangos ein gwerthfawrogiad ohoni drwy chwerthin. Comedi ddwyfol ydyw yn ystyr Dante, a'r cynllun dwyfol yn cael ei gyfiawnhau yn y diwedd.

Mae sawl math o gomedi i'w gael, oll yn wahanol iawn i'w gilydd mewn deunydd, ond yr effaith yr un fath - diddori'r gynulleidfa. Cawn ar y teledu erbyn hyn amrywiaeth eang o raglenni doniol - ffars, comedïau sefyllfa fel Teulu'r Mans a Fo a Fe, rhaglenni sgets megis Hapnod, comedi fyw Y Jocats neu Noson Lawen, rhaglenni cwis doniol megis They Think It's All Over a Have I Got News For You a chyfresi fel Y Cleciwr sy'n rhoi ongl greulon ond doniol ar bynciau cyfoes. Math arall yw'r ddrama gomedi. Medd Eric Bentley:

The comic dramatist's starting point is misery; the joy at his destination is a superb and thrilling transcendence. Given the misery of the human condition in general, what could be more welcome? Comedy is indirect, ironical. It says fun when it means misery. And when it lets the misery show, it is able to transcend in joy.⁴⁸

Y plot yw'r ffactor amlycaf mewn comedi ynghyd â'r cymeriadau canolog. Yn ôl Mast, mae pob comedi yn seiliedig ar un o wyth o blotiau gwahanol: yn gyntaf mae'r Gomedi Newydd sydd wedi ei chanoli o amgylch trafferthion caru gŵr ifanc - mae'n hoffi merch, ei hennill, ei cholli cyn ei hennill drachefn. Yn ail mae'r plot sydd yn barodi ar fath arall o ddrama, fel y parodïodd Shakespeare draddodiad y serch cwrtais yn Troilus and Cressida; yn drydydd mae'r plot sydd yn chwyddo rhyw fath o gamgymeriad neu arferiad dynol a'i wneud yn destun doniolwch, un o nodweddion ffars. Tebyg yw'r pedwerydd math o blot comig, sy'n cymharu un math o gymdeithas â'r llall, neu gymharu dosbarthiadau cymdeithasol, er enghraifft Keeping Up Appearances gyda'r prif gymeriad grand yn cywilyddio ei bod yn rhan o'r un teulu â'i chwaer gomon. Astudio un cymeriad canolog mae'r pumed math o blot a dilyn ei hynt wrth iddo fynd drwy

fywyd; mae Huckleberry Finn yn enghraifft dda o hyn. Dyma sydd hefyd yn digwydd yn ffilm tîm Monty Python, The Life Of Brian, ond yma defnyddiwyd nifer o ddyfeisiadau comig eraill i gwblhau'r ffilm, sydd erbyn hyn yn glasur modern. Gan na ellir defnyddio'r math hwn o blot ar y llwyfan am resymau amlwg megis y nifer o setiau y byddai eu hangen, gwelwn mai math cymharol ddiweddar o gomedi yw hwn. Y lleoliad yw canolbwynt y chweched plot comig, gyda'r doniolwch wedi'i ganoli o'i amgylch - rhywle megis traeth, llyn, cae ras neu syrcais - defnyddiwyd y ddyfais hon yn aml yn ffilmiau distaw Charlie Chaplin. Gellir ei ddisgrifio fel math chwareus o gomedi, gydag elfennau o ffars yn amlwg wrth i'r cymeriadau fynd dros ben llestri. Yn y seithfed math o blot comig, mae'r prif gymeriad yn cytuno i wneud tasg sy'n amhosibl neu'n beryglus, yn aml er mwyn ennill cariad merch (yn debyg i'r math cyntaf, ond ni chaiff ei wrthod gan destun ei serch); nid yw'r math olaf yn fawr gwahanol - mae'r prif gymeriad yn sylweddoli ei fod wedi bod yn ymddwyn yn amhriodol drwy gydol ei fywyd; ac yn gweld ei gamgymeriadau.⁴⁹

Comedi o'r math olaf yw Amlyn ac Amig ble mae Amlyn yn penderfynu iachau ei gyfaill am ei fod o dan lw. Comediau symlach yw Problemau Prifysgol ac Excelsior, yn esiamplau o'r trydydd math o blot comig sy'n pwysleisio namau haenau arbennig o'r gymdeithas.

Mae ysgrifennu drama gomedi dda yn ddawn werthfawr - rhaid cyfuno'r llawenydd a'r tristwch yn gelfydd, ond y mae un maes lle mae'n briodol gorwneud hyn, sef ffars. Cyfrwng i ddryllio delwedd y teulu a'r cartref ydyw, gan guddio'r boen o dan fantell o chwerthin. Ymhelaetha Bentley:

.....we savour the adventure of adultery,
ingeniously exaggerated in the highest
degree, and all without taking the
responsibility or suffering the guilt.⁵⁰

Mewn ffars, nid oes rhaid cuddio'r hyn sy'n digwydd, ac mae gwirioneddau mawr yn cuddio y tu ôl i'r digwyddiadau syml - er nad yn rhy bell o'r wyneb. Gall y ffars fod yn effeithiol ar ddwy lefel; gellir taro heb gael eich taro'n ôl. Gwelir hyn yn Problemau Prifysgol - mae Saunders Lewis yn hollol ddifrifol ar

un llaw wrth bortreadu ei ddarlithwyr a'i fyfyrwyr; wrth iddo ddefnyddio datganiad fel

Schizophrenia yw cyflwr normal pob Cymro
yn y Brifysgol,⁵¹

gwelwn farn y dramodydd ei hun, ond o'i gynnwys mewn drama sy'n llwythog â lladradau, godinebu a lol, cymerwn y cwbl fel rhan o ffars ddiniwed. O'r herwydd, mae gan y dramodydd gyfle i ddweud ei farn heb flewyn ar dafod, gan gysgodi dan blanced y ffars - rhywbeth a gymerodd Saunders Lewis yn ganiataol wrth gyfansoddi Excelsior fel drama gomisiwn i'r B.B.C. Yn anffodus, bu cyhuddiad o enllib yn ei erbyn - a oedd yr awdur wedi cadw'n rhy glos at y gwir?

Drama wedi ei chyfansoddi ar gyfer y teledu ydoedd Excelsior; cyfrwng ag iddo anfantais amlwg i ffars. Nid oes cynulleidfa fyw bellach mewn stiwdio deledu yn ystod y ffilmio, felly mae'n anodd penderfynu beth sy'n mynd i achosi'r rhan fwyaf o'r chwerthin. Flynyddoedd yn ôl, ffilmiwyd rhaglenni comedi, yn enwedig comedïau sefyllfa Americanaidd, o flaen cynulleidfa fyw; roedd hynny yn eu gwneud yn debycach i gynhyrchiadau llwyfan nag i raglenni teledu. Medd Gilbert Seldes:

.....broadcast humour is a highly formalized,
almost mechanized, product...⁵²

Gan mai cyfrwng unig yw'r teledu, mae chwerthin ffug yn ymgais i ddangos i'r gwyliwr beth sydd i fod yn ddoniol. Mae actorion y gyfres boblogaidd Last Of The Summer Wine yn gadael bylchau yn eu deialog ar ôl sylw sydd i fod yn ddoniol er mwyn rhoi lle i chwerthin y gynulleidfa a gaiff ei recordio yn ddiweddarach. Mae'r dechneg hon yn fwy llwyddiannus na defnyddio chwerthin ffug, ond mae chwerthin torf fyw yn fynych yn torri ar draws y ddeialog sy'n dilyn y jôc.

Mae'r un peth yn wir am ddrama ar y radio, sydd â hyd yn oed mwy o ffactorau yn ei herbyn na'r teledu. Eglura Andrew Crissell:

There are two factors which would appear to militate against comedy on the radio. The first is that comedy is often thought of as predominantly visual....The second factor is that listening to the radio is often a solitary activity, yet laughter is not the 'normal' response of a solitary person. It is mostly a collective, social activity, and as we saw in our discussion of radio drama the isolated listener cannot look to the rest of the audience for guidance in, or confirmation of, his responses.⁵³

Mae'n rhaid i'r ddeialog fod yn gryf gan nad oes modd defnyddio lleoliadau diddorol nac ystumiau od i ddenu gwên i wynebaw'r gynulleidfa (mae diffyg cynulleidfa fyw yn anfantais yma eto); yn ogystal mae'n rhaid gwahaniaethu'n glir rhwng y cymeriadau gyda'u lleisiau rhag colli'r hiwmor - gwelwn hyn yn y gyfres radio hynod lwyddiannus, C'Mon Midffild a'r gwahaniaeth rhwng lleisiau Wali Tomos y llumanwr a George Huws y pêl-droediwr. Bu'r gyfres yn llwyddiant ysgubol ar y teledu hefyd gan fod y cymeriadau a'r stori yn rhai mor hoffus a gwreiddiol.

Mae'n well gan bobl wyluo rhywbeth sy'n mynd i wneud iddyn nhw chwethin ar ôl diwrnod caled na rhaglen ddifrifol yn cloriannu poenau'r byd o'u hamgylch - medd Seldes:

Comedy is the axis on which television revolves, as radio did before it.⁵⁴

Mae comedi lwyfan yn gyfrwng gwell i ddifyrru - mae yno gynulleidfa fyw i ymateb i unrhyw beth sy'n digwydd o'u blaenau, boed yn weledol neu'n glywadwy. Gall yr actorion amseru'r sgript i ofynion y gynulleidfa ac mae eu chwethin yn fwy rhydd yng nghwmni eraill.

Mae'n bwysig fod y sgript yn cynnal y plot drwy roi munudau difrifol yn y cynhyrchiad i greu cydbwysedd. Os bwrir gormod o bethau doniol atom mewn cyfnod byr, mae'r rhaglen yn debygol o ymddangos yn ddwl yn hytrach nac yn ddoniol, a dim cymhariaeth rhyngddi â bywyd bob dydd. Medd Bentley:

If a laugh meter could measure the merit of a show, then the ideal show would be one that elicited a single uninterrupted peal of laughter which lasted from eight thirty until eleven o'clock. It would therefore consist of a play which not only could not proceed but could not begin. Actually, there is no ratio between enjoyment and the duration of audible laughter. But too little laughter is better than too much. If no comedy, however great, could make people laugh all the time, there could be a great comedy that never made them laugh at all.⁵⁵

Un o nodweddion amlycaf y ddrama ddoniol yw'r tempo. Gofyn Eric Bentley:

Why, for example, do directors of farce always call for tempo, tempo, tempo? It is a question of the speeding up of human behaviour so that it becomes less human.⁵⁶

Er mai adlewyrchiad o fywyd yw'r genre, mae'n rhaid anghofio weithiau am y munudau difrif sy'n gyffredin i ddigwyddiadau bob dydd er mwyn creu drama gomedi sy'n dal sylw a diddori cynulleidfa. Gallwn ddisgwyl doniolwch di-baid gan gymeriad megis Benny Hill, ond *montage* o sefyllfaoedd sydd ganddo ef - byddai'n anodd eistedd drwy awr a hanner ohono. Yn yr un modd gwelwn nad oedd ffilm Rowan Atkinson Bean - The Ultimate Disaster Movie mor llwyddiannus â'r gyfres deledu - ni all cynulleidfa ddygymod â chymeriad mor wirion am gyfnodau hir o amser. Gwell yn hyn o beth yw'r gyfres One Foot In The Grave sydd yn delio â sefyllfa gyffredin gŵr sydd wedi ymddeol gyda gormod o amser hamdden. Mewn gwirionedd, mae'r rhaglen yn debycach i drasiedi henaint yn y nawdegau, ond ar yr wyneb mae'r cymeriad Victor Meldrew, sy'n cael ei chwarae yn arbennig gan Richard Wilson, yn troi sefyllfaoedd sy'n arwynebol ddifrif yn gefndir i'w weithredoedd a'i agweddau comig. Ar y llaw arall, mae'n rhaid symud y digwyddiadau yn sydyn i

bwysleisio annaturiolrwydd y stori - pe bai'r rhaglen yn rhy debyg i fywyd bob dydd, ni fyddai'n ddoniol. Mae hyn, yn ogystal â'r digwydd, yn cyfrannu at arddull y gomedi a'r ffars.

Gellir gwneud pethau mewn ffars na ellir eu dychmygu fel arall - taro pobl, dwyn digywilydd, ac yn bennaf oll, godinebu. Elfen arall boblogaidd yw meddwdod ac ynfydrwydd ond mae hyn yn newid fwyfwy wrth i'n cymdeithas fynd yn "boliticaidd gywir".

Mae'r teulu hefyd yn chwarae rhan allweddol yn y genre; fel y gwelwn yn Excelsior a Problemau Prifysgol; a'r briodas yw'r cocyn hitio. Mae defnydd helaeth o odineb a dwyn - elfennau annerbyniol yn ein cymdeithas ein hunain.

In how many comic plots there is theft or the intention of theft! If men did not wish to break the tenth commandment, comic plotting, as we know it, could never have come into being,⁵⁷

medd Bentley, gan bwysleisio'r gwahaniaeth rhwng ffars a thrasiedi.

O eiliad gyntaf y perfformiad, mae'n rhaid i'r gynulleidfa sylwi, a derbyn, nad cymeriadau bob dydd yw'r bobl sydd ar y llwyfan - defnyddir ystrydebau a gwawdluniau. Mae sefydlu cymdeithas gredadwy o amgylch y cymeriadau hyn yn hanfodol:

Comedy employs characters from rustic, or low city life....Tragedy, on the other hand, employs kings and princes, whose affairs are those of the city, the fortress and the camp....⁵⁸

medd George Brandt, sefyllfa 'normal' ddigyffro fel cefndir trawiadol i ddigwyddiadau annormal y ddrama.

Mae'n rhaid edrych i'r plot am y cymeriadau - profwyd fod meddwdod yn arf effeithiol mewn ffars, felly mae'n debygol y bydd meddwyn yn ei chast - gwell fyth os yw'r meddwyn yn grefyddol neu mewn safle uchel yn y gymdeithas. Gwelwn enghraifft dda o wawdio yn Problemau Prifysgol; mae

Saunders Lewis wedi manteisio i'r eithaf ar y ddelwedd swnllyd, flodeuog sydd i'r Eidalwyr, a gwnaeth i Ffioretta chwifio ei dwylo i bwysleisio pob gair - mae hyn yn cael ei awgrymu yn ei deialog sy'n llwythog o ddywediadau Eidalaidd ac ailadrodd mynych - ond rhaid gwyllo rhag gor-wneud cymeriadau fel hyn; rhybuddia Seldes:

...if you avoid subtlety like the plague, if your characters are essentially figures in a sort of modern morality play - the miser, the intriguer, the simpleton - you have nothing to fear, your characters are ageless because they are always the same. Your great difficulty is to make sure they are not also lifeless.⁵⁹

Ni ellir cyhuddo Saunders Lewis o wneud Ffioretta yn ddifywyd, ond'waeth pa mor ddifyr ac ysgytwol yw'r stori, gall cymeriadau anghredadwy ddryllio holl ddelwedd y ffars.

Yn yr un modd ag y mae cymeriadau comedi a thrasiedi o safleoedd cymdeithadol gwahanol, y mae'r iaith a'r ddeialog yn newid hefyd. Diffinia Brandt arddull comedi:

The language is that of everyday life.⁶⁰

Geirfa syml ydyw (er fod chwarae ar eiriau yn un o arfau mwyaf gwerthfawr comedi a ffars); ond disgrifia ddeialog trasiedi fel hyn:

The language is grave, polished, removed from the colloquial,⁶¹

gwahaniaeth sy'n amlwg wrth gymharu gweithiau megis Branwen, Blodeuwedd ac Esther, â dramâu ysgafn Saunders Lewis.

Nid yw cyfansoddi deialog comedi yn hawdd, fel y cyfaddefa Busfield:

It is even possible that the playwright has to be more active or agile, intellectually, when he writes a comedy than when he writes a

more serious drama. Few people seem to realize the exhaustive drain writing dialogue for a comedy or farce makes upon one's inventive powers.⁶²

O gyfuno'r holl ffactorau sy'n unigryw i'r genre gallwn ddechrau dirnad yr anawsterau sy'n wynebu awduron comedi . Ystyria rhai pobl fod comedi yn haeddu statws is, neu lai o gymeradwyaeth, na dramâu difrif. Mae'n hen bryd dileu'r feddylfryd honno, a rhoi cymaint o fri i'r gomedi ag i'r drasiedi.

ADDASU A CHYFIEITHU

Mae mwy nag erioed o ddramâu yn cael eu cynhyrchu ar y radio a'r teledu heddiw, ond nid yw canran helaeth ohonynt yn ddramâu gwreiddiol. Wrth sylwi ar arlwy ein sianelau teledu, gwelwn fod gwaith Jane Austen yn boblogaidd tu hwnt, ynghyd ag awduron cyffro a ditectif megis Ruth Rendell. Ar S4C, mae cyfresi megis Dyddiadur Dyn Dwad, Cyw Haul a Cyw Dôl, Jabas a Tydi Bywyd yn Boen oll wedi eu seilio ar nofelau poblogaidd ac wedi bod yn llwyddiant fel comedïau. Ar nodyn mwy difrifol, addaswyd clasuron megis Madam Wen, William Jones, Traed mewn Cyffion a'r Wisg Sidan ar gyfer y sgrîn fach, ac mae addasiad o Te yn y Grug Kate Roberts wedi ei ffilmio dan yr enw Mynydd Grug. Mae addasu a chyfieithu cynnyrch wedi dod yn gelfyddyd fwyfwy poblogaidd. Medd George W. Brandt:

In these new conditions, drama written for the small screen may well become the principal form of playwriting in Britain - not only in terms of output but also of esteem.⁶³

Ymhelaetha Fay Weldon yn y Radio Times:

Television playwrights used to aspire to write for the stage, and stage playwrights used to despise television, by virtue of the dreadful, debilitating, class-based cultural snobbism. The barriers are now crumbling with remarkable speed, to the enrichment of both theatre and television.⁶⁴

1978 ydoedd hynny, a Weldon ei hun wrthi'n addasu nofel Jane Austen Pride and Prejudice ar ffurf cyfres i'r B.B.C.. Erbyn hyn, mae'r sylwadau wedi eu gwireddu, gyda chymaint o fri ar ddrama radio neu deledu ag ar ddrama lwyfan. Nid awgrymu 'rydwyf mai rhaglenni ail-law sydd yn cael eu cynhyrchu - mae llawer o addaswyr dros y blynyddoedd wedi troi at weithiau o lenyddiaeth a llwyddo i'w cynhyrchu gyda stamp personol, unigryw: mae addasiad diweddar

Harri Pritchard Jones o ddrama Saunders Lewis Gymerwch Chi Sigaret? yn un ohonynt. Cyflwynodd stori wreiddiol Lewis yn safonol iawn gan ychwanegu cymeriadau Müller a Krechlen ynghyd â golygfeydd teimladwy o Iris yn y ddalfa; dyfeisiadau a wnaeth i ni fel cynulleidfa edrych ar y ddrama o'r newydd.

Cyn mynd i drafod ymhellach addasiadau o waith Saunders Lewis, mae'n rhaid archwilio ffynhonnell ei ddramâu ef ei hun. Mewn ffordd, addasiadau ydyw llawer ohonynt, yn dwyn eu hysbrydoliaeth gan weithiau o lenyddiaeth mor bell yn ôl a'r Mabinogi. Yno mae gwreiddiau Branwen a Blodeuwedd, addasiadau ydynt er fod yr awdur wedi gosod ei stamp unigryw ar yr adeiladwaith, y cymeriadau a'r ddeialog. Gwnaeth Lewis gysgod o hanes yn bobl o gig a gwaed, ond nid oedd yn arloeswr yn hyn o beth, fel yr eglura Roger M. Busfield, Jr.:

Even the greatest playwrights borrowed their plots, usually to apply them to their own purposes. Shakespeare's Comedy of Errors is a retelling of Plautus's Roman play, The Menaechmi. The Hamlet legend was in existence prior to the Bard's version. The Faustus story was told by both Marlowe and Goethe.⁶⁵

Rhoddodd y Beibl i Lewis hanes Esther; a seiliwyd Amlyn ac Amig ar chwedl a gyfieithwyd o'r Lladin i'r Gymraeg yn y bymthegfed ganrif. Er nad oedd iddi gysylltiad â'r Nadolig fel yng ngwaith Saunders Lewis, mae gweddill yr hanes wedi goroesi dan ei law yn yr addasiad clos hwn. Un prif wahaniaeth sydd rhwng y ddwy fersiwn - Amig, nid Amlyn oedd canolbwynt y gwreiddiol, ond penderfynodd Lewis y byddai'n ddiddorol archwilio gwewyr meddwl y rhiant cyn iddo benderfynu aberthu ei blant.

Nid oedd yn rhaid pori mor bell yn ôl am ysbrydoliaeth Merch Gwern Hywel a Dwy Briodas Ann, nofel a drama yn ymdrin â'r un gymdeithas o bobl yn Sir Fôn ddechrau'r ganrif ddiwethaf. Seiliwyd y nofel yn bennaf ar gofiant i hen daid y dramodydd, William Roberts, arwr Merch Gwern Hywel, ac nid oes

tystiolaeth iddo chwilio unrhyw ffynhonell arall am ffeithiau gan fod bylchau yn ei wybodaeth am sawl cymeriad.

Addasiad llenyddol yn yr ystyr draddodiadol ydoedd Y Cynol Chabert, wedi ei seilio ar nofel fer Honoré de Balzac yn y Ffrangeg, Le Colonel Chabert. Meddai Busfield:

Originality is a relative term. In theory, an “original play” implies that the story, plot, characters, and theme have originated with the playwright. In fact, however, the term describes a work of dramatic art whose elements and their arrangement or presentation are sufficiently unlike any other work of fact or fancy for the playwright to assume full credit for what he has authored.⁶⁶

Gellir felly, yn dechnegol, ystyried pob drama a enwais yn wreiddiol ar wahân i'r Cynol Chabert, sydd yn addasiad; y cwbl yn rhy wahanol i'w hysbrydoliaeth i beidio â chael eu hystyried yn waith i Lewis.

Yn yr un modd, straeon gwir yw ysbrydoliaeth y dramodydd yn y dramâu Brad a Gymerwch Chi Sigaret?. Adnabyddus yw'r hanes am y cais ar fywyd Adolf Hitler ar 20 Gorffennaf 1944, er fod yn y ddrama ddigwyddiadau a chymeriadau sy'n ei gwneud yn ffuglen. Nid yw hanes Nikolai Kokhlov mor enwog er fod y stori amdano yn nifer o'r papurau dyddiol ar y pryd. Mae ei hanes ef a'i wraig Yana yn debyg iawn i sefyllfa Marc ac Iris - ond Rwsiad oedd ei darged ef.

Stori wir ydoedd Excelsior hefyd yn ôl yr aelod seneddol a honnodd ei fod yn cael ei enllibio ganddi, a phenderfynodd y B.B.C., a gomisiynodd y ddrama ar gyfer Gwyl Ddewi 1962, beidio â'i hail-ddarlledu fel y bwriadwyd, a thynnu'n ôl y wobr a gynigiwyd ganddynt ar gyfer cystadleuaeth yn Eisteddfod Genedlaethol Llanelli am adolygu'r cynhyrchiad.

Mae Saunders Lewis wedi delio â'i destunau mewn dull arbennig er fod nifer o'r plotiau yn wybyddus i ni cyn eu gweld. Dyna yn union oedd cryfderau dramâu cynnar Groeg a Rhufain - defnyddio straeon adnabyddus (yn eu cyfnod hwy, y chwedlau am y duwiau) er mwyn gwneud defnydd helaeth o eironi.

Gwelwn yr un peth yma - ni fyddai'r holl sôn am aer yn Blodeuwedd yn effeithiol pe na baem yn gwybod drwy'r Mabinogi fod Gronw am geisio dwyn ei frenhiniaeth oddi ar y Llew.

Mae'n wir dweud bod dramâu Saunders Lewis yn gampweithiau, gweithiau unigryw sy'n dystiolaeth o ddychymyg eu hawdur. O'r herwydd, mae cynhyrchwyr radio a theledu dros y blynyddoedd wedi mynd ati i'w cynhyrchu, ond cyn cychwyn ar y broses honno, roedd yn rhaid mynd ati i addasu'r testunau gwreiddiol ar gyfer y cyfryngau a gwneud newidiadau sylweddol i strwythurau'r dramâu. Mae gwaith Saunders Lewis yn fan cychwyn perffaith i'r grefft o addasu fel yr eglura Seldes:

The normal three-act play is a natural source of material. Here the adapter has no need to hunt for shades of character or for motives and emotions outside of the dialogue and action. He does not have to cut, but in many instances, in comedy and melodrama, the cutting may be an actual advantage. The tempo of stage production is leisurely, the theater audience is prepared to spend an entire evening, and many plays show signs of being slightly inflated in order to fill the time,⁶⁷

Nid yw'r grefft o addasu yn un syml - yn wir, mae'n rhaid yn gyntaf benderfynu p'un ai dramateiddiad ynteu addasiad sy'n addas. Er fod y gweithiau ar ffurf deialog yn y lle cyntaf, yn aml, nid ydyw'r dyfeisiau a ddefnyddir ar gyfer un cyfrwng yn aml yn addas ar gyfer un arall. Eglura Busfield unwaith yn rhagor:

Dramatization implies faithfulness to story and characters and the taking over of the thematic purposes of the original work. If the material lends itself to literal transference the playwright accepts the plot, characters, and theme 'in toto' and gives them dramatic life.

Adaptation implies that the purposes of the playwright may supersede those of the author. Since a story seldom lends itself to literal transference, an adaptation is

somewhat more faithful to the original material, but the playwright may take greater liberties with plot, character and theme in terms of dramatic feasibility.⁶⁸

Mae addasiad y dramodydd o'i waith ei hun wrth roi Merch Gwern Hywel ar y sgrîn yn syrthio i'r diffiniad cyntaf; roedd dramateiddiad yn ddisgwyledig mewn ffordd gan mai'r un ddelwedd oedd gan y dramodydd o'i waith wrth ei ailysgrifennu. Mae triniaeth Harri Pritchard Jones o Gymerwch Chi Sigaret? yn 1991 yn addasiad yn null ail gategori Busfield, gan iddo roi ei weledigaeth ei hun ynghlwm yn y gwreiddiol i ychwanegu cyffro a newydd-deb. Mae addaswyr eraill yn defnyddio'r addasiad a'r dramateiddiad wrth drin testun, rhai ohonynt yn cadw'n slafaid at ddeialog Lewis, eraill, yn enwedig mewn addasiadau radio mwy diweddar, yn gwneud defnydd o ddyfeisiadau megis naratif, a chymryd mantais o hyn i geisio newid pwyslais y dramâu i greu dehongliad newydd.

Wrth gychwyn ar y dasg o addasu, mae'n rhaid cofio bod tair ffordd o wneud hynny. Yn gyntaf, gellir dilyn y gwreiddiol yn gaeth; yn ail, gellir gweithio ar y golygfeydd pwysicaf ac ymhelaethu arnynt; yn drydydd, gwneud sgript deledu wreiddiol wedi ei seilio ar stori'r testun dan sylw. Mae gan addaswyr, yn ôl Willis a D'Arionzo, ddyletswydd wrth addasu, gan mai trwy eu dehongliad hwy yn aml mae'r gynulleidfa yn barnu'r gwaith gwreiddiol. Meddent:

....they should try to write their scripts just as the original writers would have written them had they been working in the new medium. That obligation is similar to the translator's, who must convey the ideas and feelings expressed in one language with as little change as possible. Some changes are necessary, however, to accommodate the material to the demands of the new medium.⁶⁹

Nid yw hon yn dasg hawdd pan wyneb yr addaswr â gwaith Shakespeare neu ddramâu mydryddol Saunders Lewis - mae'n ofynnol dewis rhwng arddull wreiddiol y darn neu ddiweddarau'r cwbl. Yn ei sgript o glasur Jane Austen,

Sense and Sensibility, llwyddodd Emma Thompson i gyflwyno'r sgwrs ddoniol mewn modd bywiog; ni fethodd ychwaith gyfleu yn gredadwy emosiynau newidiol y merched Dashwood tra yn egluro'r digwydd gyda chyfarwyddiadau penigamp - enghraifft o addasu ar gyfer y sgrîn fawr ar ei orau.

Mae addasu drama a ystyrir yn glasur yn dasg anodd oherwydd fod gan y mwyafrif o'r gynulleidfa eu syniadau eu hunain am y gwaith. Dywed Busfield am y gamp:

It is certainly possible in handling most novels to blend the dramatist's dialogue with that of the novelist. Though the playwright is writing for a distinctly different medium, the audience of both book and play should not be able to detect where the novelist's dialogue ends and the playwright's begins. If the playwright is skillful, it is possible for the two styles to be equal to each other simply because they are equal to the same thing; namely, the way actual people would have talked in their particular station or way of life and in the situations they would normally encounter.⁷⁰

Credaf fod yr un peth yn wir am ddramâu sydd yn cael eu haddasu; mae'r mwyafrif o weithiau Saunders Lewis wedi eu hysgrifennu mewn Cymraeg ffurfiol sy'n rhoi'r urddas disgwyledig i'r cymeriadau chwedlonol, a champ yr addaswr yw ychwanegu at y sgript yn yr un modd.

Yn ôl Dwight V. Swain, mae dilyn digwyddiadau'r testun yn gallu bod yn gymhleth, wrth geisio cofio am ddisgrifiadau o awyrgylch, cymeriadau ymylol, lleoliadau ac yn y blaen; ond wrth weithio o olygfeydd arbennig ceir mwy o ryddid - gellir hyd yn oed newid safbwynt y gwaith yn hollol. Cynigia Busfield fan cychwyn i'r broses:

A recommended procedure for adapting fiction and stage plays to television is to first write out the basic story using only these characters absolutely essential to its telling.

Next, through structural analysis, discover the scenes necessary to tell the basic story.⁷¹

Nid oedd yn rhaid gwneud i ffwrdd â chymeriadau Saunders Lewis yn gyffredinol - yn hytrach, cafwyd ychwanegiadau i addasiadau Gymerwch Chi Sigaret? (1992) a Brad (1994) - gan roddi cymeriadau megis yr offeiriad yn gwmni i Iris gan nad oes rhaid gyda chyfrwng y teledu ei chuddio o'r digwydd. Mae'n rhaid nodi nad iaith y llyfr yw iaith y sgrîn - dylai'r ddeialog a ddefnyddir fod yn gynnig gan roi mwy o sylw i'r emosiynau gweledol hynny sydd yn gweddu i'r sgrîn fach oherwydd ei natur bersonol. Gyda mwy a mwy o sgriptiau teledu yn cael eu cyhoeddi ar ffurf llyfrau, mae addasu a sgriptio ar gyfer y sgrîn fach yn ogystal â'r sinema wedi datblygu'n gelfyddyd ar ei phen ei hun.

Ychwanegu deunydd at sylfaen Lewis a wnaeth addaswyr ei waith - effeithiau gweledol yn bennaf i bwysleisio rhannau o'r ddrama. Gwahaniaethir, er enghraifft rhwng arweinwyr y Cymry a'r Gwyddyl yn y cynhyrchiad teledu o Branwen (1971) drwy eu gosod ar risiau yn wynebu'i gilydd, a lleoli'r bobl gyffredin ar lefel is rhwng y ddwy garfan. Fel hyn, nid oedd y gynulleidfa yn camgymryd un cymeriad am y llall, er fod y rhaglen mewn du a gwyn a gwisgoedd pawb mor debyg.

Gall addaswr ddangos nifer o wahanol ddyfeisiadau a chroniclo digwyddiadau amser hir mewn ychydig eiliadau wrth ddefnyddio techneg *montage*, fel y gwnaed yn y telediad o Merch Gwern Hywel lle dangoswyd siwrnai'r pâr ifanc i Fôn ar ôl priodi mewn ychydig luniau ohonynt ar y daith, a chaneuon gwerin yn gefndir i'r cwbl. Drwy wneud hyn, gellir gwneud i ffwrdd â llawer o ddeialog neu ddisgrifiadau eglurhaol sydd yn anaddas ar gyfer cyfrwng y teledu - dylai'r gorffennol, os yn berthnasol, ymddangos yn raddol gyda chymorth dychymyg y gwyliwr mewn addasiad da. Daw'r broses o ddyfalu a dychmygu'n haws fyth pan fyw'r ddrama wreiddiol yn seiliedig ar hen chwedl adnabyddus yn ogystal â gwaith gwreiddiol Saunders Lewis.

Mae anawsterau sylweddol i addasu clasur - gan fod y gwaith yn un poblogaidd, mae'n rhesymol casglu y bydd llawer o'r gynulleidfa yn siomedig â'r addasiad gan nad yw'n gweddu i'w darlun hwy o'r gwreiddiol. Mae'r hyn na

ddangosir yn aml yn amharu mwy ar fwynhad y gwyliwr na'r hyn a gyflwynir iddo - gwelwn hyn yn addasiad y dramodydd ei hun o'i nofel Merch Gwern Hywel ar gyfer y teledu. Credaf fod yr olygfa yn y nofel lle mae Sarah Jones yn neidio drwy ffenestr ei llofft i freichiau ei dyweddi yn un bwysig, gan ddangos mentrusrwydd prin ar ran y pâr Methodistiaidd. Ni chynhwyswyd yr olygfa yn y telediad, a oedd yn siom fawr i mi a sawl un arall rwy'n siwr - prawf efallai nad yr awdur yw'r dyn gorau i addasu ei waith ei hun.

Cafodd Margaret Kitchen yr un profiad wrth wyllo'r darllediad o addasiad diweddar y B.B.C. o nofel Jane Austen, Pride and Prejudice. Meddai ar y pryd yn y Liverpool Daily Post:

I feel utterly deprived of Alison Steadman's performance as Mrs Bennett discovering that Lizzie is to marry the dour, wealthy Mr Darcy.

In the book, when Elizabeth unexpectedly tells her, Mrs Bennett is finally struck dumb, able only after some time to stutter triumphantly: "£10,000 a year".

I do hope that those who rushed to buy the video will now buy the book which is so much funnier than the television series.⁷²

Gwelwn mai tasg ddi-ddiolch yw addasu - ar un llaw, os yw'r cynhyrchiad yn fethiant, ymateb y gynulleidfa yw "Rhag ei gywilydd o yn tynnu'r gwaith yn griau"; ond ar y llaw arall pe byddai'n llwyddiant, yr un lleisiau a fyddai'n canmol; "Tydi dramâu Saunders Lewis yn rhai da?"

Mae cyfieithu drama hefyd yn waith sylweddol - nid mater o chwarae'r ddrama mewn iaith arall yn unig ydyw. Gwyddom fod gramadeg pob iaith yn wahanol, a rheolau'r gystrawen yn hawlio meistrolaeth lawn. Bu Y Cynol Chabert yn llwyddiant gan Saunders Lewis, er mai addasiad yn fwy na chyfieithiad oedd y ddrama, mae naws y sgwrs Gymraeg yn adlewyrchu'r Ffrangeg gwreiddiol yn feistraidd. Llwyddiant hefyd fu nifer o gyfieithiadau o waith Saunders Lewis ar y cyfryngau - gwaith Emyr Humphreys ac Elwyn Jones wrth droi Siwan a Chymru Fydd i'r Saesneg ymhlith y goreuon. Ceisiodd

R.O.F. Wynne, Garthewin, gyfieithu nifer o’i ddramâu, yn cynnwys Blodeuwedd a ddarlledwyd gan y B.B.C. dan y teitl The Lion and The Owl ym 1951, ac Amlyn ac Amig (The Christmas Candle) flwyddyn yn ddiweddarach ond ni chadwyd y rhaglenni gan y Gorfforaeth; yn ôl llythyrau rhyngddo ef a Saunders Lewis, gwelwn nad oedd yr awdur yn fodlon iawn ar ei ymgeisiau.

Fel unrhyw fath arall o gyfieithu, mae’n rhaid cadw at nifer o reolau wrth drosi deialog. Yn bennaf, pwysig yw cadw at naws y gwreiddiol mewn cymeriadau a sefyllfaoedd - i wneud hynny yn gredadwy rhaid sylwi ar lefel gymdeithasol y sgwrs. Mae cymeriadau Saunders Lewis yn rhai o dras uchel yn gyffredinol, a’u sgwrs yn adlewyrchu hynny - mae Alis yn Siwan yn ymddangos yn wybodus er mai morwyn ydyw, yn trafod arferion cymdeithasol y Ffrancwyr, felly rhaid yw cadw at Saesneg ffurfiol wrth drosi.

Rhaid ystyried y cymeriadau eu hunain yn ogystal â’u safle cymdeithasol - maent yng ngwaith Lewis, yn enwedig y merched, yn unigolion cadarn, felly mae’n rhaid dod i’w hadnabod cyn ceisio rhoi iddynt iaith arall. Gall eironi neu ddyfais i ddangos hiwmor yn y Gymraeg fynd ar goll mewn deialog Saesneg os nad yw’n cael ei addasu ar gyfer y trosi - pe na byddai hyn yn cael ei wneud, gallai’r cynhyrchiad fod yn fethiant.

Dyfais ieithyddol a ddefnyddir ym mhob gwlad yw’r defnydd o idiomau. Nid oes modd creu deialog effeithiol heb ddywediadau fel hyn i gyfoethogi’r sgwrs, ac annerbyniol yw eu cyfieithu gan nad ydyw idiomau yn aml yn gwneud synnwyr mewn iaith arall - pe ceisid cyfieithu “cael Wil i’w wely” i’r Saesneg yn llythrennol, byddai cynulleidfa mewn penbleth; ond wrth drosi i “more than one way to skin a cat” dôl’r ysytyr yn glir. Gwelwn esiamplau penigamp o hyn yng nghyfieithiad Elwyn Jones o Cymru Fydd - drama wedi ei gosod yng nghymdeithas wledig y chwedegau yn llwythog o dywediadau Cymry cyffredin.

Wrth gyfieithu dogfen gyfreithiol neu adroddiad technegol, mae’n rhaid cadw at y gwreiddiol yn dynn, a chyfieithu pob gair yn ofalus, ond wrth ddelio â drama, y gwrthwyneb sy’n wir. Nid oes rhaid cynnwys pob gair o’r gwreiddiol, yn enwedig os yw’r sgwrs yn mynd yn llafurus, ac os mai ar gyfer y teledu mae’r addasiad, bydd yn rhaid cwtdogi mwy fyth gan mai cyfrwng y lluniau ydyw, a saethiadau agos yn gwneud llawer o sylwadau yn ddiangen. Bydd disgrifiad

mewn trosiad hefyd yn colli peth o'i effeithiolrwydd os oes ôl gormod o waith meddwl arno - cyfrwng bywyd bob dydd yw'r teledu, nid oes lle i sgwrsio ffurfiol; gall hyn fod yn nam ar gyfieithiad yn fwy nag ar y ddrama yn yr iaith wreiddiol.

Mae'n rhaid meddwl am y gynulleidfa wrth fynd ati i drosi drama - a ydynt yn mynd i ddeall enwau priod gwreiddiol y ddrama? Mae'n rhaid cadw at yr enwau hyn yn y mwyafrif o ddramâu Saunders Lewis gan eu bod yn gymeriadau a lleoliadau chwedlonol neu hanesyddol, ond nid yw hyn yn wir am weithiau eraill. Pe gellir gwarantu newid o'r fath, rhwydd hynt i'r cyfieithydd wneud hynny. Yn ddiweddar, cynhyrchoedd Syr Anthony Hopkins fersiwn o ddrama Chekov Uncle Vanya ond yn lle rhoi iddi ei chefnidir gwreiddiol, ffilmiwyd hi ym Mhen Llŷn, ac o'r herwydd, newidwyd enwau'r cymeriadau yn rhai Cymraeg a galwyd y cynhyrchiad yn August. Gwnaeth y penderfyniad hwn waith yr actorion yn llawer haws, ac er nad oedd yr enwau gwreiddiol yn annealladwy, roedd y gynulleidfa yn fwy abl i ddeall ac uniaethu â'r cymeriadau. O safbwynt y Gymraeg, mae rhai achosion lle mae newid enwau cymeriadau nid yn unig yn syniad da ond yn angenrheidiol i lwyddiant y cynhyrchiad - wrth gyfieithu drama gegin i'r Saesneg, byddai cymeriad o'r enw "Rheinallt Cadwaladr" yn anodd i actorion di-Gymraeg a'r gynulleidfa fel ei gilydd ddelio â hwy.

Gwelwn felly fod gwaith caled yn gwahanu'r testun gwreiddiol â'r cynhyrchiad teledu neu radio ohono, ond mae awduron yn parhau i addasu hen ddramâu yn hytrach na chyfansoddi rhai o'r newydd ar gyfer y teledu. Yn ôl T.C. Worsley ym 1969, nid oedd dramâu teledu o safon dderbyniol yn cael eu cyfansoddi, dramâu clasurol eu naws, hynny yw. Meddai wrth drafod cyfres Play of the Month y B.B.C.:

....perhaps there are not in existence three, or two, or even one play written specifically for the medium which is good enough?.....Presumably then it will be necessary, at one time or another, to draw on existing literature whether from the theatre or fiction, to fill up.⁷³

Mae mwy o awduron yn cyfansoddi yn arbennig ar gyfer y teledu erbyn hyn; Saunders Lewis yn un ohonynt gyda Branwen; ond mae addasiadau yn frith ar ein cyfryngau o hyd. Nid diffyg cynnyrch gwreiddiol sy'n gyfrifol am hyn, ond y bri a roddir ar lenyddiaeth ac awydd penaethiaid rhaglenni'r sianelau i roi i genhedlaeth y teledu brofiadau llenyddol pwysicaf pob cenedlaeth arall.

DRAMA RADIO

In these yet early days of the wireless, it is noticeable that efforts are being made to give the Radio an art of its own....If the wireless is to have an art peculiar to itself, it must be endowed with a form which gives results that no other art can give. Only by such complete separateness could wireless even be considered to have an art of its own.

Whether such an achievement even then could be known as an art, it is a matter of opinion, for it could be argued that at its best the new form would be but a branch of the art of the Drama.⁷⁴

Dyna ddywedodd Arthur Blanch, cynhyrhydd i'r B.B.C. yng Nghaerdydd, ym 1928 cyn i'r radio^{ei} sefydlu ei hun fel cyfrwng teilwng i gyflwyno drama i'r genedl. Cyn hyn, heb wneud ei marc yr oedd drama ar yr awyr.

Mae'r ddrama radio fel llenyddiaeth yn genre bur newydd - medd William Ash amdani:

The radio play can be defined quite simply as a story told in dramatic form by means of sound alone,⁷⁵

a chan fod y cyfrwng yn un newydd, roedd yn rhaid mynd ynglŷn â chyfansoddi ar ei gyfer mewn modd gwahanol i'r llwyfan. Cyfansoddwyd y ddrama radio gyntaf ym 1924 gan Richard Hughes: cynhyrchiad o'r enw Danger, wedi ei lleoli mewn pwll glo wedi i'r goleuadau ddiffodd yn ddirybudd; ymgais gan y dramodydd i wneud i'r gynulleidfa uniaethu â'r cymeriadau a oedd yn ddall fel hwythau. Erbyn 1931, roedd y B.B.C. yn darlledu tua hanner cant o ddramâu radio bob blwyddyn, ond nid gweithiau gwreiddiol oeddynt oll: roedd nifer o nofelau a dramâu llwyfan yn cael eu haddasu ar gyfer y cyfrwng.

Ar y pryd, roedd y B.B.C. wrthi'n dechrau cynllunio pencadlys newydd, ac ym 1932, symudodd y Gorfforaeth o Savoy Hill i adeilad newydd y Ganolfan Ddarlledu gyda stiwdios a oedd wedi eu cynllunio er mwyn gallu creu nifer o

effeithiau acwstig. Erbyn 1951, roedd tua 300 o ddramâu radio yn cael eu cynhyrchu bob blwyddyn, ond nid oedd y rhif i godi yn llawer uwch na hynny oherwydd dyfodiad y teledu ym 1955 a gipiodd gyfran helaeth o'r gynulleidfa. Rhaid cofio fod y gynulleidfa o hyd yn un sylweddol - o gymharu cynhyrchiad radio a ddenai gannoedd o filoedd o wrandawyr â chynhyrchiad theatr, byddai'n rhaid i'r ddrama lwyfan chwarae am flynyddoedd i theatr lawn i gyrraedd yr un nifer.

Nid oedd cymaint o gynnyrch gwreiddiol yn cael ei gyfansoddi ar gyfer y radio yng Nghymru ag yn Lloegr. Bu i Saunders Lewis ac eraill ysgrifennu ar gyfer y cyfrwng o ganlyniad i gomisiynau gan y Gorfforaeth Ddarlledu, ond prin oedd y rhain, a bu'n rhaid cychwyn addasu ar gyfer y cyfrwng. Roedd hon yn grefft ynnddi ei hun, fel yr eglura Arthur Blanch:

Speaking generally, any good stage play, if suitably adapted, should be able to prove its worth over the microphone, for if the essential drama is allowed to remain, the elements of success are there.⁷⁶

Cyfansoddodd Saunders Lewis nifer o'i ddramâu ar gyfer y radio, ond ar y cyfan, nid yw ei waith yn cydymffurfio â'r darlun poblogaidd o'r ddrama radio. Cytuna beirniaid megis Horstmann, Ash ac Evans mai cyfrwng y dychymyg ydyw, a'r sefyllfa yn tyfu ym mhen y gwrandawr unig gyda chymorth geiriau a synau. Medd Ash:

The radio play is one of the most economical of the arts. At its best nothing is superfluous, every word, every sound playing its part. A radio play is like a musical score in which everything the listener is to hear performed, down to a single micronote or instant rest, is part of the composer's overall design.⁷⁷

Nid yw ffiniau'r radio mor gaeth â chyfryngau eraill y ddrama - gall fynd â'r gwrandawr o'r Fflint o Fiji mewn eiliadau. Mae'r costau hefyd yn ffafriol i'w cymharu â'r theatr neu'r sgrîn.

Gwelwn fod y cyfrwng yn debyg yn ei strwythur i ddrama weledol, ond yn wahanol i'r teledu neu'r theatr, mae'n anodd cael y gynulleidfa i ganolbwyntio ar gyfrwng dall. Rhaid felly cael amrywiaeth, fel yr eglura Evans,:

A radio play is built up of scenes as a television play is of shots. It helps to hold the listener's attention if the scenes vary in length, in location....., in pace of the dialogue and in the number of characters included.⁷⁸

Yr un strwythur sydd i'r ddrama yma ag ym mhob cyfrwng arall - cyfres o olygfeydd i olrhain hynt a datblygiad y cymeriadau - ond y mae'n rhaid i'r dramodydd sicrhau ei fod yn cadw diddordeb y gynulleidfa drwy seilio pob golygfa ar ffurf y ddrama gyflawn. Mae'n rhaid i'r golygfeydd gychwyn yn araf i allu codi i uchafbwynt erbyn y clo; a therfyn pob golygfa damed bach yn uwch bob tro nes cyrraedd y diwedd glo. Medd Horstmann:

As the foothills [of a mountain] rise and fall, each one getting higher than the last until the summit is reached, so should each scene be a microcosm of the whole, with its own internal tension, climax and resolution.⁷⁹

Mae'n rhaid i gynhyrchwyr ac actorion radio gymryd hyn i ystyriaeth os am greu drama effeithiol a chredadwy. Rhaid yw sefydlu amseriad y cynhyrchiad yn ofalus, a sicrhau fod holl elfennau'r ddrama o ddefnydd i amgyffrediad y gwrandawr o'r sgript, yn enwedig os mai addasiad o ddrama lwyfan sy'n cael ei berfformio. Meddai Dafydd Gruffydd, cynhyrchydd radio, am ei grefft:

...fe allwch chi ychwanegu nodweddion y cyfrwng radio ar ôl derbyn y ddrama dda. Does dim setiau, does dim gweladwy felly, wrth gwrs. Rhaid i chi wybod lle'r ydych chi yn y ddrama, a lle'r ydych chi'n mynd trwy'r ffordd y mae'r awdur wedi ysgrifennu'r ddeialog yn y lle cyntaf.....Rhaid [i'r sgript] wneud ei phwynt efo'r glust yn unig. Rhaid i

chi ffurfio'r lleoliad yn llwyr drwy gyfrwng
sain.⁸⁰

Y gair yw arf pennaf y dramodydd radio - mae'n rhaid i bob sŵn fod yn iawn, yn realistig. Does dim diben lleoli drama radio mewn mart yng Nghaerfyrddin os nad yw'r dramodydd yn gyfarwydd â'r dafodiaith leol a'i hidiomau. Mae'n rhaid i rediad y geiriau daro deuddeg os yw'r ddrama am fod yn llwyddiant. Gellir defnyddio naratif i gyfleu'r digwydd rhag i'r ddeialog fynd yn llafurus, ond rhaid gwylio rhag dibynnu gormod ar ddyfeisiadau fel hyn.

Wrth gwrs, nid geiriau'n unig sy'n cael eu llefaru gan y cymeriadau - rhaid cyfleu emosiwn yn ogystal. Ar y radio, nid oes wyneb, felly mae'n angenrheidiol manteisio ar bob ochenaid. Ystyriwch gymeriad sy'n tynnu gwn o'i boced; byddai gwaedd o rybudd yn swnio'n od iawn heb i'r gynulleidfa glywed rhywun yn tynnu'i wynt ato mewn syndod ymlaen llaw. Rhaid bod yn ofalus â synau megis wylo - gall saethiad agos o ddeigryn ar sgrîn fod yn effeithiol y tu hwnt i eiriau, ond doniol yn fwy na dim yw clywed sŵn cymeriad yn rigian wylo ar ganol golygfa ddwys.

.....the spoken word is a relatively crude vehicle of communication. But in radio drama it has to carry extra freight, for as well as the dialogue itself it has to convey through narration, almost all of the other kinds of information that the theatregoer would be able to see for herself - that is, whatever the audience needs to know about setting, time of day, the stature, dress and actions of the characters, and physical objects they may make use of, and so on,⁸¹

medd Andrew Crissell. Rhaid darlunio popeth mewn drama weladwy, yn hytrach na'i egluro, a dyma'r prif rwystr sy'n wynebu dramodydd sydd wedi arfer cyfansoddi ar gyfer y teledu neu'r theatr - mae'n rhaid datblygu ffordd newydd o feddwl.

Wrth ysgrifennu drama'n arbennig ar gyfer y radio, mae'n rhaid cofio (terfynau'r cyfrwng. Rhaid meddwl am adnoddau a chost - does dim diben

mewn ysgrifennu drama sy'n cynnwys chwe effaith sain wahanol mewn cyfnod byr o amser os mai un peiriant chwarae tapiâu yn unig sydd ar gael yn y stiwdio. Yn yr un modd, ni all y dramodydd radio gyfansoddi ar gyfer nifer helaeth o gymeriadau o'r un rhyw, gan na all y gwrandawr wahaniaethu rhwng mwy na thri neu bedwar o leisiau ar unwaith, a rhaid cadw'r holl bersonau presennol yn y digwydd rhag drysu'r gynulleidfa.

Daeth datblygiad gwerthfawr i'r ddrama radio yn nhermau effeithiau sain yn sgîl darlledu mewn stereo, ac mewn egwyddor gellid gwahaniaethu rhwng cymeriadau yn ôl eu lleoliad, er fod y realiti yn dra gwahanol gan nad yw setiau radio cyffredin yn ddigon pwerus i gyfleu hyn i'w lawn botensial.

Problem arall sydd yn wynebu awduron radio yw digwyddiadau a chelfi sy'n ymddangos yn sydyn. Ystyriwn eto'r cymeriad sy'n tynnu gwn o'i boced - ni fuasai'r sioc gyntaf o weld yr arf yn berthnasol i'r gwrandawr; yn wahanol i gynulleidfa theatr a theledu. Mae'n rhaid defnyddio geiriau ychwanegol i gyfleu'r digwydd, er enghraifft, "Gwyliwch! Mae ganddo fo wn!" Gwelwn pa mor gyfyng yw'r genre, ond eto, mae manteision i hyn yn ogystal. Oherwydd mai cyfrwng un synnwyr ydyw, does dim i dynnu sylw'r gynulleidfa oddi wrth y ddeialog - dim set, symudiadau cymeriad arall na sŵn peswch o'r gynulleidfa.

Ni ellir ychwaith ddangos adwaith un cymeriad i'r llall heb iddo ymddangos yn llafurus mewn sawl sefyllfa. Byddai'n amhosibl defnyddio dau actor â lleisiau tebyg i'w gilydd; rhaid dibynnu ar acenion weithiau i wahaniaethu - fel y gwnaethpwyd yng nghynhyrchiad Radio Cymru o Branwen ym 1994. Portreadwyd y Cymry a'r Gwyddyl yn ôl tafodiaith - gogleddwyr oedd y Cymry tra defnyddiwyd deheuwr i actio rhannau'r estroniaid - dyfais effeithiol, hawdd i'r gynulleidfa ei dilyn.

Mae cyflwyno drama radio yn effeithiol yn ddawn werthfawr: sonia Rachel Hywel Thomas am wersi actio gan D. Haydn Davies a'i gyngor iddi:

Y mae meddu ar lais radio da yn anhepgor i gyfrwng y radio. Gall dyn wneud beth a fyn â hwnnw, a chreu cymeriad byw credadwy i'r gwrandawr, megis llais 'llygoden fach' mewn stori i ddiddori'r plant lleiaf, neu gymeriadau

mawr Shakespeare, a chymeriadau mawr
dramâu Saunders Lewis.⁸²

Gellir defnyddio unrhyw effaith sain mewn drama radio, o drwmpedu eliffant i dywallt cwpaned o de; gellir cyfleu'r argraff o fod allan yn yr awyr agored gyda'r defnydd o adar yn trydar a brigau coed yn siffrwd. Ond rhaid bod yn ofalus rhag mynd dros ben llestri, fel yr eglura McLeish:

...to achieve an unambiguous impact the sounds must be refined and simplified to those few which can really carry the message.⁸³

Mae'n angenrheidiol fod y synau hyn yn hawdd i'w diffinio - nid oes gan y gwrandawr amser yn ystod cynhyrchiad i feddwl beth oedd y sŵn diwethaf a glywodd yn ei gynrychioli. Ystyriwn ddrama Andrew Sachs, The Revenge (1987) a gynhwysai ddim ond effeithiau sain (diffinir effeithiau sain gan Andrew Crissell fel "non-verbal and non-musical noises of any kind"⁸⁴), cynhyrchiad a allai fynd yn ddiystyr, a'r gynulleidfa'n ceisio gormod o ystyr o bob smic. Er enghraifft, gellir camddeall sŵn tylluan fel awgrym o awyrgylch sinistr pan, mewn gwirionedd, y cwbl a awgrymir yw ei bod yn nos. Yn yr un modd mae sŵn torf yn aneglur heb ryw fath o sŵn arall i egluro'r lleoliad. Gellir camgym ryd tician cloc am fom hefyd mewn rhai sefyllfaoedd. Medd Crissell eto:

...even conventional, instantly recognizable, sounds are seldom very precise in their signification. Does birdsong, for instance, signify 'a garden' or 'the open countryside'? Does seawash and the cry of gulls mean 'the shore' or 'the open sea'?⁸⁵

Cofiw'n am y dywediad 'gormod o bwddin dagith gi' - mae perygl defnyddio gormod o effeithiau sain. Y rheol gyffredinol wrth gynhyrchu drama radio yw peidio â defnyddio effaith sain os nad yw'n hollol hanfodol - gan amlaf, nid oes angen sŵn traed na chlepiant drysau onibai bod swyddogaeth iddynt yn rhediad y

ddrama; er enghraifft, pe byddai'n rhaid portreu ystafell wag megis neuadd mewn castell neu gell carchar. Fel arall, mae'n well cadw'n glir, fel yr eglura Evans:

We do indeed instantly recognise the sound of a telephone bell, of doors opening and shutting, of birds. Most other effects, however, we can't identify until we are *told* what they are. For this state of things there are many reasons. Not only have we lost the countryman's hearing; even the finest electronic reproduction of sound is different, in quality and often in volume, from the real thing; and again, whereas in ordinary life our identification of sounds is assisted by a whole set of indicators ranging from smell to place and the time of day, these are not available to us when we listen to radio drama.⁸⁶

Wrth fod yn ofalus, ac yn realistig, gellir llwyddo i drosglwyddo cynulleidfa i unrhyw le y dymunwch fynd â hwy - dyfais rad i gynhyrchydd wrth ystyried cost ffilmio ar leoliad.

Gall cerddoriaeth chwarae rhan bwysig yn y ddrama radio hefyd, yn bennaf i sefydlu lleoliad ac amser. Pe chwaraeid waltz, er enghraifft, byddem yn teithio yn ôl i Awstria neu'r Almaen, tra byddai miwsig gitâr araf ac organ geg yn mynd â ni i'r Gorllewin Gwyllt at y cowbois. Byddai dawns ysgafn ar y delyn a'r ffliwt yn ein rhoi yn llys y Brenin Arthur ac un o ganeuon Dafydd Iwan yn ein cludo'n ôl i hanner olaf yr ugeinfed ganrif.

Un o'r defnyddiau amlycaf i gerddoriaeth ar y radio yw dangos treigl amser. Drwy chwarae nodyn neu ddau rhwng dwy act, yn enwedig os yw'r miwsig yn cynyddu a gwanhau, awgrymir fod yr olygfa nesaf mewn lle neu amser gwahanol i'r un flaenorol. Meddai Törnqvist:

Art and scene division in radio drama is usually less explicit than in other presentational forms. Changes of time and place, which may be indicated by musical

interludes, often occur rapidly and almost imperceptibly.⁸⁷

Awgrymir undonedd, unigrwydd neu hapusrwydd yn y gerddoriaeth, yn ogystal â sefydlu teimlad cyffredinol y ddrama, er enghraifft ofn (miwsig sinistr, oeraidd) neu hapusrwydd syml (tiwn ysgafn megis tòn gron neu gân werin). Gellir hefyd defnyddio miwsig i greu tyndra, tynerwch, ofn, llawer nydd; gellir newid awyrgylch golygfa yn llwyr. Mae'r waltz a ddefnyddir yng nghychwyn y ddrama Gymerwch Chi Sigaret? yn sefydlu'r lleoliad yn berffaith, yn ogystal â theimladau Iris tra'n disgwyl cael dweud ei newyddion da wrth Marc.

Heb gydweithrediad a dealltwriaeth pawb yn y tîm cynhyrchu, gall sgript radio dda droi'n ddrama radio wael, neu droi'n ffars (wrth gwrs, mae'n bosibl llunio comedi dda wrth wneud popeth o chwith, ond cyn gallu gwneud y camgymeriadau bwriadol hyn, mae'n rhaid bod yn feistr ar grefft y ddrama ddifrif).

Mewn ymgais i ddangos pa mor hawdd ydyw cyflwyno drama wael ar y radio, ysgrifennodd Timothy West ddrama fer o'r enw This Gun That I Have In My Right Hand Is Loaded; ac fel mae'r teitl yn awgrymu, mae'n llawn o'r camgymeriadau hynny sydd yn cael eu gwneud ar y cyfrwng. Prif bwrpas y darn yw pwysleisio nad oes angen llawer o egluro ac effeithiau sain; yn hytrach, gwell yw gadael i'r gynulleidfa wrando a dychmygu drostynt eu hunain, fel y gwelwn yn y darn isod:

LAURA: Let me get you a drink, Clive darling.

(LENGTHY POURING, CLINK)

CLIVE: Thank you, Laura, my dear.
(CLINK, SIP, GULP)

Aah! Amontillado, eh? Good stuff.

What are you having?

LAURA: I think I'll have a whisky, if it's all the same to you.

(CLINK, POURING, SYPHON)

CLIVE: Whisky, eh? That's a strange drink
for an attractive auburn-haired girl of
twenty nine. Is there...anything wrong?
LAURA: No, it's nothing, Clive, I -
CLIVE: Yes?
LAURA: No, really, I -
CLIVE: You're my wife, Laura. Whatever it
is, you can tell me. I'm your husband. Why,
we've been married - let me see - eight
years, isn't it?⁸⁸

Bydded hyn yn rybudd i bob dramodydd radio. Mae yma hefyd sgysiau
bwriadol aneglur ac enwau trefi megis "Obersturmbannfeurhershof". Mae'r
awdur hefyd yn awgrymu peidio â defnyddio termau technegol yn ormodol:

Luckily, he caught his foot on that bulkhead
coming; he must have struck his head on that
valve group between the depth gauge and the
watertight torpedo door.⁸⁹

Nid yw'r sylw yn gwneud mymryn mwy o synnwyr yn ei gyd-destun . Rhaid
cofio nad man cychwyn i ddarllledwyr â'u bryd ar deledu yw hwn, ond cyfrwng
ar wahân, un sydd yn mynnu dealltwriaeth a medrau arbennig.

Yn ôl Robert Mc Leish, mae'r radio yn gyfrwng diddorol, ond mae anfanteision
yn ogystal â manteision i'r cyfrwng. Meddai:

It is a blind medium but one which can
stimulate the imagination so that as soon as a
voice comes out of the loudspeaker, the
listener attempts to visualize what he hears
and to create in the mind's eye the owner of
the voice,⁹⁰

Mae'n anos dryllio darlun meddyliol o gymeriad pan nad yw ei wyneb i'w weld,
ac o ganlyniad, yn haws plesio'r mwyafrif o'r gynulleidfa. Mae'r radio yn syml

a rhad i gyflwyno drama, yn rhatach o lawer na theithio'r wlad gyda chwmini theatr, neu logi criw ffilmio. Ond ar y llaw arall, mae'n well gan lawer erbyn hyn wyllo drama deledu neu lwyfan.

We are all accustomed, in everyday phraseology, to going "to see" plays, as opposed to going "to hear" them. In consequence the mere juxtaposition of the words 'radio' and 'play' must imply for many people a contradiction in terms.⁹¹

Dyna oedd gan Gielgud i'w ddatgan ym 1957, ond mewn rhai ffyrdd, mae gan y cyfrwng sawl mantais dros y cyfryngau gweledol, y teledu a'r theatr. Yn bwysicaf, mae'r cyfrwng yn rhad i'r gwrandawr - does erbyn hyn hyd yn oed ddim angen am drwydded radio, yn wahanol i'r teledu. Mantais amlwg arall yn nyddiau cynnar y cyfrwng oedd y lleoliad - ar noson wyllt o aeaf gwell fyddai gan bobl wrando ar ddrama radio o flaen y tân na theithio trwy ddrycin i weld perfformiad mewn theatr. Ar y llaw arall, mater bach yw codi o'r gadair a thiwnio'r set radio i sianel arall - mae'n gyfrwng unig fel y teledu, heb gynulleidfa yno i gnoi cil ar y perfformiad.

O safbwynt yr actor, mae llawer o sgôp mewn drama radio - gellir delio yn effeithiol ag argyfwng meddwl cymeriad drwy ddefnyddio tonau gwahanol i'r llais, fel yr awgrymodd D. Haydn Davies. Yn anffodus, nifer fechan o actorion y gall y radio eu defnyddio, yn wahanol i'r teledu a'r llwyfan lle y gellir adnabod y cymeriadau oddi wrth eu hymddangosiad. Dibynna'r ddrama radio gryn dipyn ar ddychymyg y gwrandawr gan mai un synnwyr yn unig a ddefnyddir - rhaid bodloni ar y clyw; ac er bod rhaid egluro peth o'r digwydd, mae'r synnwyr hwnnw wedi ei ddyfnhau. Meddai Törnqvist:

....radio drama has sometimes been called the 'drama of the mind',⁹²

ac Evans yntau yn ei lyfr Theatr y Cyfryngau:

Dychymyg y gwrandawr, ac awgrymiadau'r dramodydd a'r cynhyrchydd yn lefain, sy'n llywio'r cefndir ac wynebaw'r cymeriadau.⁹³

Mae esiampl o hyn yn hanes cynnar cyfresi drama radio yn y Gymraeg megis Gari Tryfan. Byddai wedi bod yn amhosibl ar y pryd i gyflwyno cyfres o'r fath ar y sgrîn nac ar lwyfan, ond gyda dychymyg y gynulleidfa roedd stiwdio radio yn fynych yn troi'n gefndir i anturiaethau cyffrous a âi â'r ditectif a'i dîm o un rhan o'r wlad i'r llall mewn eiliadau. Yr enghraifft ddiweddar orau o hyn yw cyfres helyntion Ledi Belinda ar Radio Cymru dan ofal Aled P. Jones. Gellir portreadu unrhyw le yn y byd, ac ymhellach os bydd galw, gyda dyfeisiadau acwstig. Yn ôl Evans,

Acoustics can be as evocative as sound effects, if not more so.⁹⁴

Mae pedwar prif ddsbarth o ansawdd sŵn i ddynodi lleoliadau gwahanol. Golyga dim atsain fod y ddrama y tu allan yn yr awyr agored; ychydig atsain ond ei amseru'n hir yn dynodi llyfrgell neu ystafell debyg. Cyfleir awyrgylch blwch teleffon neu ystafell ymolchi gyda llawer o atsain mewn amser byr, tra ceir yr argraff o fod mewn neuadd enfawr neu ogof trwy ddefnyddio llawer o atseiniau a'u hamser yn hir.⁹⁵

Mae un fantais ddiddorol iawn i'r ddrama ar y radio - er fod yn rhaid i'r cymeriadau siarad, nid oes rhaid iddynt fod yn ddynol. Gellir defnyddio anifeiliaid, dodrefn, hyd yn oed rhannau o'r corff, fel y gwelwn yn nrama J.C.W. Brook, Giving Up. Mae rhannau o gorff y cymeriad sy'n ceisio rhoi'r gorau i ysmegu yn siarad â'i gilydd a thrafod yr anawsterau sy'n eu hwynebu yn ystod y dasg:

LEFT EAR:When I hear something I report it. Left Ear to Brain, Left Ear to Brain....
RIGHT EAR: (OVERLAPS) Right Ear to Brain, Right Ear to Brain.⁹⁶

Mae rhannau'r corff yn cyfathrebu â'i gilydd ar ffurf peilot yn siarad â'r maes awyr yn drawiadol ac effeithiol gan wneud i'r gwrandawr ddychmygu'r cymeriad fel peiriant yn hytrach na bod dynol. Pwysleisia hyn bwysigrwydd y dychymyg i'r cyfrwng. Esiampl arall o hyn yw'r Archangel yn nrama Saunders Lewis, Amlyn ac Amig - mae cyfrwng y radio yn galluogi dramodydd i gynnwys cymeriadau megis ysbrydion gyda defnydd o gerddoriaeth weddus.

Drwy ddefnyddio'r cyfrwng i'w lawn botensial, mae'r ddrama radio wedi bod yn werthfawr iawn i lenyddiaeth Gymraeg. Ni chynhyrchwyd drama gyntaf Saunders Lewis tan 1936, ac y mae datblygu cyson wedi bod ers hynny - drama radio adnabyddus Dylan Thomas, Under Milk Wood sydd wedi gwneud llenyddiaeth Eingl-Gymreig yn enwog drwy'r byd. Bu i'r B.B.C. hefyd chwarae rhan werthfawr yn y datblygiad; meddai Emyr Edwards:

Mae i Gymru le anrhydeddus yn hanes y ddrama radio. Am gyfnod maith buwyd yn darlledu o Gaerdydd, Bangor ac Abertawe lu o ddramâu a rhaglenni nodwedd, yn Gymraeg a Saesneg, ac awduron mor flaenllaw, ac mor wahanol i'w gilydd, â Saunders Lewis, Richard Hughes, John Ellis Williams, Dylan Thomas, Jack Jones a Kitchener Davies.....⁹⁷

Bu i lawer o ddramâu gael mwy o lwyddiant ar y radio nag ar unrhyw gyfrwng arall: yn enwedig gweithiau Saunders Lewis; nifer ohonynt wedi eu cyfansoddi yn arbennig ar gyfer y cyfrwng. Yn Y Cynol Chabert, mantais oedd methiant y gynulleidfa i weld wyneb y prif gymeriad; yn Blodeuwedd hefyd credaf fod sgrech tylluan ar y radio'n fwy effeithiol nag unrhyw beth y gellid ei ddangos ar lwyfan. Medd Crissell:

...radio can convey what we do not wish to see because as a matter of dramatic necessity we must remain uncertain about the exact status of its existence....⁹⁸

ac yn ddi-os, mae'r radio yn deilwng o ddramâu o safon. Crissell eto:

It seems most appropriate to locate radio
drama somewhere in between imaginative
literature and the conventional theatre,⁹⁹

Ydyw, y mae'n deg rhoi drama radio yn y cyd-destun hwn; yn wir, ni fyddai'r un
safon a bri i'r ddrama Gymraeg pe na bai am y cyfrwng cyfrwys hwn.

Y DDRAMA DELEDU

Mae'r ddrama deledu yn gyfrwng unigryw i gyflwyno stori ar ffurf weledol, ac yn cyflym ddatblygu'n gelfyddyd. Meddai Eric Paice ym 1981:

Television writing is scarcely thirty five years old. Too young to be considered an art form, too loose and ephemeral for a mature body of considered criticism to have been established.¹⁰⁰

ac ers hynny mae beirniadaeth teledu wedi dod yn boblogaidd tu hwnt, a'r teledu ei hun wedi dod yn ganolbwynt i fywyd pob dydd nifer o bobl. Yn ôl Robert Allen:

At times it seems that the entire culture revolves around the images and sounds that emanate from the television screen, that all talk is somehow television talk,¹⁰¹

Yn ôl y beirniad Ellen Seiter, er mwyn deall yn iawn gyfrwng y teledu, mae'n rhaid ei ddadansoddi megis math o iaith. Mae'n angenrheidiol torri'r rhaglen i'r unedau lleiaf posibl, ond wedyn, rhydd hynny i ni rywbeth annirnadwy. Mae pob eiliad o ffilm yn cynnwys 30 o fframiau ac nid tasg hawdd fyddai ceisio edrych ar un ffrâm ar wahân i'r gweddill. Yn hytrach na rhannu'r ffilm fel hyn, gellir gwahanu popeth a welwn; geiriau, sŵn, delweddau ac yn y blaen; yn ôl y wybodaeth a rydd i ni. Galwodd Charles S. Peirce a Ferdinand de Saussure hyn yn semioteg yn eu gwaith yn y maes, a diffiniodd Seiter y dechneg fel hyn:

Semiotics studies the way *signs* communicate and the rules that govern their use. As a tool for the study of culture, semiotics represents a radical break from traditional criticism, where the first order of business is interpretation of an aesthetic object or text in terms of its immanent meaning.¹⁰²

- mae iaith yn un arwydd, ac mewn rhaglen deledu; sain yn un arall, fel hyd y saethiad, y goleuo, yr awyrgylch a phopeth arall sy'n gysylltiedig â'r hyn sydd o'n blaen ar y sgrîn. Mae mewn rhaglen arwyddwyr, sef rhywbeth sy'n gwneud y dasg o ddangos, a phethau arwyddedig, y pethau hynny sy'n cael eu dangos. Wrth ddefnyddio'r gair "glaw" mewn rhagolwg tywydd, y gair ydyw'r arwyddwr, a'r dafnau gwlyb yw'r arwyddedig, ond wrth roi'r sefyllfa ar y teledu, arwyddwyr yw'r holl ffactorau technegol sy'n dod â'r llun i'n hystafelloedd byw; y ffactorau anweledig; ac mae gwaith yr actorion a chynllunwyr y setiau yn arwyddedig - mewn ffordd, popeth sy'n ymddangos o'n blaenau. Eglura Seiter theori Saussure:

The signifier is made up of many different components of the image and the soundtrack. The two-dimensional, luminous image is rectangular, with a fixed aspect ratio of 3:4. The focal length of the camera lens, lighting, angle, color and composition are characteristics of the signifier as well. The signified can be thought of as everything that this television image and soundtrack represent: the newscaster, his voice, speech pattern, dress, hair style, make-up, as well as the meaning of any words that may appear on the screen, such as the weather forecast. When watching television, we often forget about the signifier and treat television's signs as pure signified.¹⁰³

Swyddogaeth semioteg yw astudio'r cyfrwng fesul ffactor, neu arwydd, gan archwilio sut mae'r cwbl yn dod at ei gilydd i greu rhaglen dda. Pe byddai un o'r arwyddion hyn yn ddiffygiol - mae'r gwaith camera, y goleuo, y celfi a'r sain yn hanfodol wrth drafod drama deledu.

Y mae'n bwysig yn ogystal edrych ar y cynhyrchiad fel uned gyflawn, gan mai felly y cawn weld sut yn union mae'r arwyddion yn dod at ei gilydd yn llwyddiannus. Yn yr un modd â'r ddrama radio, mae i'r ddrama deledu ei rheolau a'i ffiniau ei hun. Nid drama lwyfan sy'n digwydd o flaen camera teledu

ydyw (byddai hynny'n gwneud rhaglen ddiflas iawn) ond creadigaeth hollol wahanol. Gan ei bod yn anodd rhoi bys ar beth sy'n gwneud drama deledu yn un dda, hawdd yw gwneud drama wael. Medd David Reid, cyn-bennaeth drama ATV:

The perplexing aspect for audience and practitioner alike is that by their very nature single plays cover the whole spectrum of content and style. There can be no rules, only guidelines. Television plays must be allowed to range from farce to tragedy and so we must take risks and, in consequence, sometimes we fail. The successes, however, are an investment for the future, since more often than not they force us to question what we are doing in all other areas of drama - and that prevents us from becoming complacent and losing touch with our audience.¹⁰⁴

Nid eglura hyn pam nad yw sgrïpt theatr yn gweddu i'r cyfrwng, na pham mai cymhlethu pethau'n ormodol yr ydym wrth geisio dadansoddi. Meddai J.R. Evans:

Clywn yn aml am nodweddion arbennig y ddrama deledu, ond gellir pwysleisio gormod ar hyn. Mae'r hanfodion pwysicaf yn gyffredin i bob drama dda, sef pwysigrwydd cymeriadau, addasrwydd deialog, a datblygiad stori.¹⁰⁵

Mae ffiniau caeth i beth a ellir ei gyfleu wrth ffilmio drama deledu - 'does dim diben ceisio cyfleu tirlun eang ar y sgrîn fach er fod y ddelwedd yn un wych yn y sinema. Roedd ffilm Kevin Costner, Dancing With Wolves yn wledd i'r llygaid ar y sgrîn fawr gyda'i golygfeydd panoramig o'r Amerig gwyllt, ond braidd yn siomedig ydoedd pan gafodd y cynhyrchiad ei ddangos ar y teledu oherwydd fod y cyfarwyddwr wedi canolbwyntio mwy ar awyrgylch nag ar y stori.

Cytuna Egil Törnqvist nad oes diffiniad pendant o ddrama deledu; yn hytrach gall fod yn gymysgedd o elfennau:

Of all the different presentational modes, the TV play is the most difficult to characterize - partly because it holds a somewhat unclear position between theatre and film, partly because the medium has developed so rapidly that the term "television play"....in fact covers four different types: (i) a pure documentation of a stage performance, (ii) a pseudo-cinematic adaptation of a play recorded in an electronic studio, (iii) a cinematic adaptation with interior and exterior scenes, and (iv) a purely non-realistic electronic production. Naturally, combinations of these four types may also occur.¹⁰⁶

Gwelwn mai'r trydydd diffiniad yw'r mwyaf poblogaidd gan ddramodwyr a chynhyrchwyr teledu. Ni ellir creu yr un awyrgylch gyda drama deledu ag a geir mewn sinema, ac o'r herwydd, mae cefnogwyr y sgrîn lydan yn tueddu i edrych i lawr eu trwynau ar y cyfrwng yn lle ei werthfawrogi fel celfyddyd wahanol.

Y gwahaniaeth pennaf rhwng drama deledu a chyflwyniad llwyfan neu ffilm yw'r defnydd o'r saethiad agos. Cyfrwng y manylion yw hwn, a gellir portreadu digwyddiadau bychain yn llawer mwy llwyddiannus. Byddai'n bosibl ar y teledu ddangos deigr yn yn disgyn yn araf i lawr boch cymeriad - âi'r weithred ar goll ar y llwyfan, ac nid yw cyfrwng y sinema'n weddus bob tro i ddangos saethiad mor agos. Eglura John Bussell:

The isolated close-up of some object, or subtlety of facial expression which would look overdone if magnified on a cinema screen, or would be lost in a welter of other detail if shown there in a more reasonable size, becomes perfectly natural on television.¹⁰⁷

Yn anffodus erbyn hyn, mae terfynau'r ddau gyfrwng wedi ymdoddi i'w gilydd gyda sianeli teledu Prydain yn ymladd am y ffilmiau gorau, mwyaf cyffrous. Daw'r gynulleidfa i arfer â'r math hwn o ddrama gyffrous, ac o ganlyniad mae gwaith y dramodwyr a'r cynhyrchwyr teledu yn mynd yn anos

gan na allent yn realistig gyfleu yr un sefyllfaoedd - cyfrwng y manylyn ydyw, nid y cyffrous.

Lleoliadau cyfyng yw'r mwyaf addas i'r teledu, ynghyd â'r saethiad canolog. Mae drama deledu i'w gweld yn ddatblygiad naturiol o ddramâu megis yr hen ddramâu cegin; ond yn wahanol iddynt hwy, gellir dileu'r angen am gymeriadau ymylol i egluro'r digwydd oddi ar y llwyfan; a dilyn stori o safbwynt dau gymeriad wedi'u lleoli filltiroedd ar wahân gan ddefnyddio dyfeisiadau megis cloc ar y wal mewn dwy ystafell yn dangos yr un amser, neu'r un rhaglen radio yn chwarae yn y cefndir, i egluro'r sefyllfa.

Ni fyddai'r teledu yn addas i ddangos digwyddiadau ar raddfa fawr: mae ffilmiau'r gyfres Star Wars ar gael i'w prynu ar fideo ond ni ellir cymharu'r profiad o'u gwyllo gartref â'r profiad sinematig lle gwelwyd llongau gofod yn gwibio heibio i'r gynulleidfa, a'r saethu i'w glywed mewn stereo.

Defnyddir uniad celfydd o dechnegau i greu rhaglen deledu sy'n semiotegol gywir; dyma sylfaen drama deledu. Mae ei chynnwys yn ddyledus i'w hawdur - meddai Margaret Mehring:

Film content is what the screenwriter wants to say and the structure within which it is said,¹⁰⁸

Boed yn waith gwreiddiol neu yn addasiad o waith arall, yr un yw'r anawsterau. I gychwyn, mae'n rhaid dweud stori, wedyn datblygu'r digwydd, yn ogystal â lleoli cymeriadau mewn lle ac amser arbennig. Mae'r modd y mae'r awdur yn cyfleu'r pethau hyn yn gwneud pob drama'n wahanol - gall ddewis disgrifio'r cymeriadau i ni neu adael i ni ddarganfod eu cryfderau a'u gwendidau trwy gyfrwng y stori. Gall y digwydd fod yn syml neu'n gymhleth; yn neidio o un lle i'r llall heb eglurhad penodol; ond mae'n rhaid i ddramodydd teledu greu ei gymysgedd unigryw ei hun o'r ffactorau hyn i greu ei ddrama. Dywed Reginald Collin yn y Journal of the Society of Film and Television Arts:

The volume of plays is enormous - the ideas are short on the ground,¹⁰⁹

- adlewyrchir hyn gan y nifer o addasiadau o ddramâu llwyfan sy'n cael eu cynhyrchu ar y teledu yn Gymraeg yn ogystal ag yn y Saesneg.

Yn wahanol i'r radio, gellir dangos yn ogystal â dweud, ac o'r herwydd, nid oes cymaint o bwyslais ar eiriau a deialog - mae'n bwysig bod yn gynnil ar y teledu gan ei fod yn gyfrwng mor fanwl. Er enghraifft, mewn drama sain, gall cymeriad sydd wedi dychwelyd i'w ardal enedigol ar ôl cyfnod ymaith, ddweud wrth gyfaill: "Ew, mae'r lle yma wedi dirywio i be' fydda' fo, tydi? Nes i ddim nabod y stryd fawr 'na, a'r holl siopau'n wag. Mae o'n 'y ngneud i'n drist wsti." Cymaint mwy effeithiol ar y teledu na'r sgwrs hon fyddai saethiad byr o'r cymeriad yn cyrraedd ymylon y dref mewn bws, a'i ddilyn yn cerdded drwy'r stryd fawr honno mewn syndod, a'r camera wrth ledaenu i saethiad llydan yn dangos arwyddion "Ar Werth", graffiti, sbwriel a ffenestri ag estyll arnynt. Byddai'n bosibl defnyddio cerddoriaeth drist neu ddistawrwydd, ac ambell i grawc brân wrth iddi gylchu uwchben. Nid oes rhaid i'r cymeriad yngan gair, ac eto, caiff y gynulleidfa well argraff o'r cefndir.

Wrth ysgrifennu ar gyfer y teledu, mae'n rhaid canolbwyntio ar y sain yn ogystal â'r llun. Mae'r un rheolau'n gymwys i awduron sy'n addasu dramâu ar gyfer y cyfrwng, a rhaid i'r cyfarwyddwr a'r actorion eu hidio hefyd - wrth gwtogi ar y geiriau a leferir, pwysleisir wynebau a symudiadau fwyfwy:

...rhaid cofio am y camera. Dyma offeryn sy'n gallu dangos wyneb, llygaid, dwylo ac ati, a'u chwyddo, fel bod pob adwaith o eiddo'r cymeriadau'n amlwg i'r gwyliwr. Nid rhaid i'r cymeriadau esbonio gormod ar eu teimpladau mewn araith neu ddeialog; mae'r camera'n llefaru drostynt,¹¹⁰

ebe J.R. Evans: dyna sy'n gwneud actio a chyfarwyddo ar gyfer y teledu mor wahanol i'r llwyfan - gwneir popeth o chwith. Mae'n rhaid amlygu gweithredoedd o deimlad ar y llwyfan er mwyn i'r gynulleidfa yng nghefn y theatr ddeall beth sy'n mynd ymlaen; byddai hyn yn cael ei gondemnio fel gor-actio ar y sgrîn, a throi golygfa deimladwy yn ffars. Eto, gall ^{Saethiad} agos o wyneb â

golwg fileinig arno bortreadu casineb a gwylltineb yn llawer mwy cynnil na geiriau cas.

Mae'n rhaid pwysleisio bod anfanteision yn ogystal â manteision i gyflwyno drama ar y sgrîn fach. Y fantais bennaf yw apêl eang y cyfrwng, a'r ffaith ei fod ar gael yn ymron bob cartref erbyn hyn. Fel yn achos y ddrama radio, nid oes rhaid mentro allan o'r tŷ i fwynhau ei adloniant, ond mae manteision ychwanegol i'r teledu, sef ei fod yn cyrraedd mwy o gynulleidfa, a honno'n un ehangach. Gyda dyfodiad y gwasanaeth Teletestun, gellir rhoi isdeitlau yn y Gymraeg neu'r Saesneg i gyd-fynd â'r ffilm - i ddenu pobl fyddar yn ogystal â'r di-Gymraeg i'r arlwy Gymraeg. Yn anffodus; nid yw'r un awyrgylech â'r theatr i'w gael, fel yr eglura J.R. Evans:

Pobl yn eistedd yn glos wrth ei gilydd ac adwaith emosiynol un yn help i greu tân yng nghalon ei gymydog, ac ar ben hyn mae'r berthynas rhwng yr actorion yn rhywbeth real a grymus. Maent yn ymdoddi i'w gilydd, ac yn cyd-ddioddef neu'n cydlawenhau fel un cwmni.¹¹¹

Adlewyrchir hyn i raddau yn y sinema, ond yn anaml iawn ar y teledu.

Anfantais arall i'r teledu yw ei fod yn gyfrwng diog - nid oes rhaid i'r gynulleidfa feddwl fawr ddim drostynt eu hunain, ac o'r herwydd, mae'n rhaid bod yn fanwl gywir wrth ddangos pob manylyn:

Because the TV screen is small and near, the TV viewer tends to scrutinise or inspect the picture....In TV, we can direct the attention to specific detail, and give close-up emphasis, that in the cinema would appear grotesquely over-magnified.¹¹²

Pa fantais sydd i'r ddrama Gymraeg o'r cyfrwng hwn? Meddai Harri Pritchard Jones:

Does gennym ddim traddodiad o grefft sgrifennu drama fel sy gennym ym myd

barddoniaeth gaeth ac nes y bydd gennym
Theatr Genedlaethol ac ysgol i awduron yn
rhan ohoni rhaid dibynnu ar y teledu a'r radio
am unrhyw hyfforddiant a ellir ei gynnig i
ddramodydd Cymraeg.¹¹³

Dibynnu ar y radio a'r teledu a fu'n rhaid, ac nid oedd hynny'n ddrwg i gyd.
Dysgodd rhai o awduron Cymru grefft y teledu; yn eu plith Saunders Lewis a
Gwenlyn Parry, a magwyd dramodwyr megis Michael Povey a Twm Miall dan ei
dylanwad.

Mae drama deledu yng Nghymru wedi bod yn gymorth i wneuthurwyr
ffilmiau “..gyfrannu at ddiwylliant y byd tu allan i Gymru”¹¹⁴ drwy gyfrwng
ffilmiau fel Joni Jones, Milwr Bychan, Elenya, ac yn bennaf Hedd Wyn; ffilmiau
sydd wedi'u gwerthu i sawl gwlad dramor, Hedd Wyn hefyd wedi ei henwebu
am wobwr y ffilm dramor orau yn seremoni'r “Oscars” yn yr Unol Daleithiau.

Bu'n fendith i lenyddiaeth Cymru gan gyflwyno i bobl ifanc Cymru rai o
weithiau llenyddiaeth mwyaf dylanwadol yr iaith. Mae cyfrwng y teledu yn
gyffredinol wedi croniclo hanes ein cenedl drwy'r rhan helaethaf o'r ugeinfed
ganrif, ac wedi bod yn gymorth i roi synnwyr o undod i'r Gymru Gymraeg.

NODIADAU

1. Clifford Leech, "Tragedy in Practice and in Theory" Tragedy - The Critical Idiom Methuen & Co. 1969, p. 32
2. The Oxford English Dictionary, Clarendon 1989
3. Aristoteles, Barddoneg, Cyf. J. Gwyn Griffiths, Gwasg Prifysgol Cymru, Caerdydd, 1978, t. 79
4. op. cit. 1, t. 15
5. F.L. Lucas, "The Definition of Tragedy" Tragedy - Serious Drama in Relation to Aristotle's Poetics, London, 1966 (first edition 1927) p. 25
6. op. cit. 1, p. 16
7. *ibid.*
8. H.T. Barnwell, The Tragic Drama of Corneille and Racine, Clarendon Press, Oxford 1982, p. XIII
9. Jean Racine, cyflwyniad i Phèdre cyf. Leech, op. cit. 1
10. op. cit. 1, p. 22
11. August Strindberg, Miss Julie, cyf. Glenda Carr a Michael Burns, Gwasg Prifysgol Cymru 1991, t. IX
12. op. cit. 1, p. 26
13. op. cit. 5
14. op. cit. 3, t.77
15. *ibid.* t. 80
16. *ibid.* t. 88
17. *ibid.* p. 81
18. op. cit. 5, p. 93
19. *ibid.*
20. Eric Bentley, The Life Of The Drama, Methuen & Co., London 1966, p. 305
21. *ibid.*

22. Geoffrey Brereton, Principles of Tragedy, Routledge and Keegan Paul, London 1968, p. 14
23. *ibid.* p. 46
24. *op. cit.* 3, t. 91
25. *op. cit.* 5
26. *ibid.* p. 59
27. Max Scheler, "On The Tragic" Tragedy: Modern Essays in Criticism Laurence Michael & Richard B. Sewall ed. Greenwood Press, Connecticut, 1963, p. 33
28. *op. cit.* 20, p. 188
29. *op. cit.* 27, p. 30
30. *op. cit.* 22, p. 17
31. *op. cit.* 3, t. 94
32. *op. cit.* 22, p. 261
33. *op. cit.* 3, t. 89
34. Raymond Williams, "Tragedy and Contemporary Ideas, Modern Tragedy, London 1966, pp. 48-9
35. John von Szeliski, Tragedy and Fear - Why Modern Tragic Drama Fails, The University of North Carolina Press, 1962 p. 97
36. Richard H. Palmer, "Scope of Tragedy" Tragedy and the Tragic Theory - An Analytical Guide, Greenwood Press, 1992, p. 143
37. *ibid.*
38. Raymond Williams "Tragedy and Contemporary Ideas", *op. cit.* 34 pp. 48-9
39. *op. cit.* 35, p. 12
40. *ibid.* p. 26
41. *ibid.*
42. Chaucer, "Prologue to the Monk's Tale" The Canterbury Tales trans. Neil Coghill, Penguin Books, Harmondsworth, Middleswx 1951
43. Neil Schaeffer, "Matter and Manner: Theories of Laughter" The Art Of Laughter Columbia University Press, New York, 1981, t. 3
44. Geiriadur Prifysgol Cymru, Cyfrol 1, Caerdydd 1951-67

45. Aristoteles, Barddoneg cyf. J. Gwyn Griffiths, Caerdydd, 1978, paragraff 5, tt. 77-8
46. Gerald Mast, "Comic Structures" The Comic Mind, The New English Library, 1973, p. 3
47. Christopher Herbert, "Comedy: the World of Pleasure", Genre vol. 18 no. 4, Winter 1984, p. 403
48. Eric Bentley, "Comedy" The Life Of The Drama, Methuen 1965, t. 302
49. op. cit. 46
50. The Oxford Companion To The Theatre, dyfynnir yn Bentley, op. cit. 48
51. Saunders Lewis, Problemau Prifysgol, Christopher Davies, 1968
52. Gilbert Seldes, "The Art Of Comedy" Writing for Television Greenwood Press, New York, 1968, t. 177
53. Andrew Crissell, "Comedy and Light Entertainment" Understanding Radio, Methuen London and New York, 1986, t. 157
54. op. cit. 52
55. op. cit. 48
56. ibid.
57. op. cit. 50
58. George Brandt, "Twentieth Century Comedy" Comic Drama ed. W.D. Howarth, Methuen & Co. Ltd. 1978
59. op. cit. 52
60. op. cit. 58
61. ibid.
62. Roger M. Busfield Jr., "Humorous Dialogue" The Playwright's Art Greenwood Press, 1958, t. 145
63. George W. Brandt, ed., British Television Drama Cambridge University Press, 1981, p. 34
64. Fay Weldon, "Preview" Radio Times (English Edition) 28 October 1978, p. 25
65. Roger M. Busfield, Jr., "Dramatization and Adaptation" The Playwright's Art, Greenwood Press, Westport, Connecticut, 1958, p. 199
66. ibid. p. 196

67. Gilbert Seldes, "The Conditions" Writing for Television New York 1968, pp. 144-5
68. op. cit. 65
69. Edgar E. Willis & Camille D'Arienzo, "Types of Drama" Writing Scripts for Television, Radio and Film (Third Edition) Harcourt Brace Jovanovich College, 1993, p. 299
70. op. cit. 65
71. ibid.
72. Margaret Kitchen, "Missing Scene Left Me Dumbstruck" Liverpool Daily Post 1 November 1995, p. 9
73. T.C. Worsley, "Adaptations" Television: the Ephemeral Art Alan Ross, London 1970, p. 94
74. Arthur Blanch, "The New Art of Radio Drama" Y Llwyfan 2, Cyfrol 1, Ionawr 1928, t. 15
75. William Ash, The Way to Write Radio Drama, London, 1985, p. 1
76. op. cit. 74
77. op. cit. 75, p. 11
78. Elwyn Evans, Radio - A Guide to Broadcasting Techniques, London 1977, p. 111
79. Rosemary Horstmann, "Drama on the Air", Writing For Radio (Second Edition) London 1991, p. 25
80. Dafydd Gruffydd, "Cyfarwyddo Drama Radio", Theatr y Cyfryngau, gol. Emyr Edwards, Christopher Davies, Abertawe 1979
81. Andrew Crissell, "Radio Drama" Understanding Radio Methuen 1986, pp. 135-57
82. Rachel Hywel Thomas, "Actio Drwy Gyfrwng y Radio", op. cit. 11 t.
83. Robert McLeish, "Drama - Some Principles" The Technique of Radio Production, Focal Press 1978 (2nd Edition 1988) pp. 194-207
84. op. cit. 81
85. ibid.
86. op. cit. 78, p. 113

87. Egil Törnqvist, "Radio Drama", Transposing Drama - Studies in Representation Macmillan, Basingstoke 1991, p. 14
88. Timothy West, This Gun That I Have in My Right Hand Is Loaded, Appendix III, Horstmann, op. cit.79, p. 104
89. ibid. p.110
90. McLeish, "Characteristics of the Medium", op. cit.83, p. 1-8
91. Gielgud, Crissell, op. cit. 85
92. op. cit. 81
93. Emyr Edwards, "Hanfodion Drama Radio" op. cit. 80
94. op. cit. 78
95. op. cit. 83
96. J.C.W. Brook, Giving Up, Horstmann, op. cit. 79, p. 27
97. op. cit. 93
98. op. cit. 81
99. ibid.
100. Eric Plaice, The Way To Write For Television, Elm Tree Books, London 1981, p. 1
101. Robert C. Allen, introduction, "Talking About Television", Channels of Disclosure ed. Robert C. Allen, London & New York 1987, p. 1
102. Ellen Seiter, "Semiotics" ibid. p. 17
103. ibid., pp. 18-9
104. David Reid, Television and Radio - The ITA Handbook 1980 o David Self, Television Drama - an Introduction, Macmillan 1984.
105. J.R. Evans, "Y Ddrama Deledu" op. cit 80
106. Egil Törnqvist, "Television Drama" op. cit. 87
107. John Bussell, The Art of Television Faber & Faber, London 1952, p. 105
108. Margaret Mehring, The Screenplay - A Blend Of Film Form And Content Focal Press, Boston 1990
109. Reginald Collin, "Summing Up", The Journal Of Film And Television Arts Vol.2 No. 8, 1973 pp. 13-4
110. op. cit. 105
111. ibid. p. 100-1

112. Gerald Millerson, Effective TV Production 2nd Edition, Focal Press, Oxford 1983, p. 172
113. Harri Pritchard Jones, “Yr Awdur Cymraeg A’r Anghenfil Traflyncus” TV Times d.d., p. 60
114. *ibid.*

PENNOD 4:

TRIAWD EWROP

BRAD a 1938

Mae'r hanesion am y ceisiadau ar fywyd Adolf Hitler yn y pedwardegau yn wybyddus i bawb sydd yn ymhel â hanes Ewrop yr ugeinfed ganrif. Ceisiwyd ei ladd ar 13 Mawrth 1943 gan swyddogion ym myddin yr Almaen, a nam technegol yn unig a oedd yn gyfrifol am fethiant y *putsch*. Gofynnodd dau o'r cynllwynwyr, Trescow a von Schlabrendorff i'r Cynol Brandt, un o wŷr Hitler a oedd yn teithio gyda'r unben mewn awyren y diwrnod hwnnw i Wâl y Blaidd, a fyddai'n fodlon cario parcel a gynhwysai ddwy botel o frandi *Cointreau* yn anrheg i Helmut Stieff ym mhencadlys y Fuerher. Cytunodd Brandt, a heb yn wybod iddo, cychwynⁿodd ei daith gyda bom yn ei feddiant.

Un o ffrwydron y Prydeinwyr ydoedd - roedd gan y swyddogion a oedd y tu cefn i'r cynllun ddigon o gyfle i gael gafael arnynt o'u storfeydd. Bomiau Prydeinig oedd yr unig rai nad oeddynt yn gwneud sŵn wrth i'r ffiws dreulio, ac yr oedd posibl eu gosod er mwyn gadael oriau rhwng tanio'r ffiws a'r ffrwydrad ei hun. Rhoddwyd dwy fom yn y parcel, a chan fod eu siâp yn ddigon tebyg i'r poteli gwirod, hawdd oedd cyfiawnhau eu presenoldeb ar fwrdd yr awyren. Nid oedd Trescow a von Schlabrendorff (a ysgrifennodd ei atgofion o'r hanes yn ei lyfr The Secret War Against Hitler) yn sicr ble y buasai Brandt yn eistedd yn yr awyren; roedd mwy nag un caban iddi; ac roedd rhaid bod yn siwr y byddai'r ffrwydrad yn ddigon cryf i chwythu'r holl awyren yn yfflon.

Roedd hwn yn gynllun da wedi ei drefnu'n ofalus gyda'r posibilrwydd y byddai'r awdurdodau yn derbyn mai problem dechnegol gyda pheiriant yr awyrbplan oedd yn gyfrifol am y ffrwydrad. Nid oedd y swyddogion y tu ôl i'r brad wedi bargeinio am broblem dechnegol - methodd y ffiws â chyrraedd y cemegolion a oedd i fod i achosi'r ffrwydrad. Achubwyd bywyd Hitler gan fethiant archwilwyr byddin Prydain Fawr i ddarganfod bom ddiffygiol. Ni ddaeth Hitler yn ymwybodol o'r brad gan i'r pecyn gael ei newid am ddwy botel frandi go iawn cyn ei ddanfôn i Stieff.

Bu ymgais arall ar fywyd y Fuehrer y mis Tachwedd canlynol, ond un mwy amatur. Y cynllun oedd cuddio ffrwydron ym mhocedi côt filwrol newydd,

ac wrth ddangos y dilledyn arbennig i Hitler, roedd y sawl a oedd yn ei gwisgo i'w daflu ei hun ar yr arweinydd wrth danio'r ffiws. Cafwyd milwr dewr a oedd yn barod i roi ei fywyd er mwyn dyfodol yr Almaen, Axel von dem Busche, i wneud y dasg, ond dro ar ôl tro, wedi trefnu i ddod i weld y gôt byddai Hitler yn gohirio'r daith. Fe ddaeth i'w gweld wedi peth amser, ond roedd rhagluniaeth o'i blaid unwaith yn rhagor gan i'r gôt gael ei dinistrio mewn cyrch awyr ychydig cyn yr archwiliad.

Aelodau o hen fyddin Prwsia oedd nifer o blith corps swyddogion y fyddin, wedi eu dysgu i ystyried traddodiad ac anrhydedd uwchben dim arall. Dyfodol a lles yr Almaen oedd eu prif ystyriaeth - yn bwysicach na'r llw o ufudd-dod a dyngodd pob un ohonynt i berson y Fuehrer, llw y'i gorfodwyd hwy i'w dyngu fel y dywed Witzleben yn 1938:

....yn dorf gyda'n gilydd heb gael pum munud
o rybudd.¹

Nid saliw y Fuehrer yr oedd y corps yn ei defnyddio, yn hytrach, saliw y fyddin - arwydd nad oeddynt yn llwyr gefnogi amcanion Hitler fel yr S.S. a'r Gestapo. Roedd Hitler erbyn hyn yn credu ei fod yn anorchfygol. Credai fod rhagluniaeth yn ei warchod, ac na ellid ei ladd ond â'i law ei hun - profwyd hynny yn wir pan gyflawnodd hunanladdiad ym 1945. Ni âi i unman heb fod aelodau o'r S.S. yn ei warchod, ac roedd meddyg a chogydd preifat ganddo i ofalu am y nifer helaeth o dabledi yr oedd yn eu llyncu bob dydd, a'i brydau arbennig o lysiau. Nid oedd yn fodlon gadael i neb gario arfau yn ei bresenoldeb, na gadael i unrhyw un a fyddai'n gwledda gydag ef ysmegu wedi'r pryd.

Nid er lles yr Almaen yr oedd Hitler yn ymladd, a dyna oedd wedi troi nifer o'r swyddogion yn ei erbyn. Nid oedd yn ystyried na fyddai'n llwyddiannus yn ei ymdrech i fod yn unben Ewrop, ac yn 1938 portreir ef ar ei fwyaf gorffwyll yn trefnu i gipio Tseco-Slofacia heb ddisgwyl gwrthwynebiad gweddill Ewrop. Er bod y ddrama wedi ei chyfansoddi ugain mlynedd ar ôl Brad, gallwn ei hystyried yn fath o brolog i helynt Gorffennaf 1944 - yn amseryddol yn ogystal ag yn ddyfais i wneud i'r gynulleidfa sylweddoli drygioni Hitler.

Hanes cais ar ran Beck, Halder, Schmidt ac eraill i atal yr ail ryfel byd sydd yn 1938. Dengys Saunders Lewis ymddiswyddiad Beck o'i swydd fel Pennaeth Staff Hitler wedi iddo geisio darbwylllo'r Fuehrer fod yr hyn yr oedd am ei wneud yn wallgof; a rhan Beck ei hun mewn cynllwyn ar ran rhai o aelodau'r Clwb Dydd Mercher i sicrhau cefnogaeth Prydain Fawr i godi yn erbyn byddin y Fuehrer petai'n parhau i fynnu gorchfygu Tseco-Slofacia trwy drais. Aeth Saunders Lewis ynglŷn â hyn drwy anfon Fraulein Hilda Kordt (mae drama heb ferch, yn ôl yr awdur, yn mynd yn llafurus i'r actorion a'r gynulleidfa), ysgrifennydd ar staff y Cynol Oster, i ymweld â'i chefnder, *chargé d'affaires* yn llysohadaeth yr Almaen yn Llundain. Roedd y ddau wedyn i weithio i sicrhau fod y Prif Weinidog Chamberlain yn derbyn trwy'r Gweinidog Tramor, Halifax, eu neges a oedd yn ymbil am gefnogaeth wedi i Hitler ddatgelu yn gyhoeddus ei gynlluniau ynglŷn â Tseco-Slofacia - awgrym o farn Lewis ynglŷn â diffyg ymyrraeth Lloegr a Ffrainc efallai? Yn siomedig i aelodau'r Clwb a gweddill Ewrop nid oedd Chamberlain o'r farn fod amcanion Hitler yn ddigon difrifol eu canlyniad i warantu ymyrraeth o'r fath. Ar 27 Medi 1938, datganodd Fuehrer yr Almaen ei fwriad i'w genedl, a threchwyd Tseco-Slofacia gan arwain yn anochel at yr ail ryfel byd.

1938 oedd drama olaf Saunders Lewis, a chynhyrchwyd hi am y tro cyntaf ar y teledu gan y B.B.C. fis Chwefror 1978, gyda chast profiadol ac adnabyddus. Mae'r ddrama ddwys hon yn bywiogi o'i pherfformio yn hytrach na'i darllen, ond drama i fyfyrion arni yn hytrach na'i mwynhau ydyw, a'i difrifoldeb dybryd yn sail berffaith i blot cyflymach Brad gyda chyffro'r *putsch* a charwriaeth yr Iarlles a Hofacker.

Mae rhai elfennau o'r cynhyrchiad hwn yn drawiadol ac effeithiol iawn, fel y setiau gweddus, proffesiynol yr olwg gyda'u dodrefn a'u celfi cain; a'r gwisgoedd manwl - yn enwedig lifrai llwyd y cadfridogion a siwtiau Fraulein Kordt. Roedd y goleuo yn weddus heb ogwyddo at y natur dywyll sydd i'w gweld mewn ambell gynhyrchiad sy'n ymwneud â thestun difrif. Nid oedd agweddau eraill o'r telediad mor foddhaol. Diflas oedd saethiadau'r camera heb na manylder nac amrywiaeth oddi wrth y saethiad canolig ac ambell drem o gwmpas swyddfa Hitler pan ydoedd yng nghanol un o'i ffitiau gwyllt. Mae'n

rhaid dweud i mi ddisgwyl gwell gan gyfarwyddwr mor brofiadol â George P. Owen.

Siomedig hefyd oedd y gerddoriaeth - nid o ran y miwsig ei hun, a oedd yn gymysgedd dderbyniol o walziau a cherddoriaeth filitaraidd i ddynodi gwylltineb y Fuehrer, ond o safbwynt y sain - teimlais wrth wylio'r rhaglen fod y melodi a oedd i fod yn gefndir i'r golygfeydd yn llawer rhy uchel. Efallai y dylid bod wedi ceisio awyrgylch ychydig mwy sinistr a thrist yn hytrach na phwysleisio cyffro mewn sefyllfa lle mae'r gynulleidfa yn ymwybodol o beth sy'n mynd i ddigwydd. Edrych yn ôl a sylweddoli camgymeriadau erchyll ein harweinwyr yw bwriad 1938 felly miwsig yn gefndir i fyfyrion'r gynulleidfa sydd ei angen.

Agwedd amlycaf unrhyw gynhyrchiad teledu yw'r actorion sy'n gyfrifol am gyflwyno geiriau'r dramodydd i'w wylwyr. Er nad oes gwahaniaethau rhwng sgript y cynhyrchiad hwn a'r un a gafodd ei chyhoeddi ym 1989, nid oedd yr actorion yn llwyddiannus yn y dasg o'i chyflwyno ar y teledu. Mae'n deg datgan mai David Lyn yn rhan Hitler a oedd yn gyfrifol am hynny o glod a oedd yn ddyledus i'r cynhyrchiad; â'i bortread o'r Fuehrer gyda'i strancio a'i weiddi yn llond y sgrîn. Llwyddodd i wneud i'w gymeriad ddod yn fyw gyda'i gerddediad crymog a'i wallt dros ei wyneb; ond yn ddi-os, prif gryfder y telediad oedd y fflach fileinig yn ei lygaid wrth gynllwynio, a'i chwerthiniad aflan - nid y tu ôl i'w law fel yr awgrymodd Saunders Lewis yn ei gyfarwyddiadau llwyfan, ond yn uchel a balch, a'i geg yn llydan agored. Meddai Charles Huws Y Faner am y portread grymus ac arswydus o'r Fuehrer:

.....perfformiad mor ddeinamig egniol fel yr ofnid am ei einioes petai raid iddo ei ailadrodd yn feunyddiol ar daith.....ym mhob osgo a thantrwm o'i eiddo llwyddodd i'n dychryn gan ffanatigrwydd y cymeriad ar yr ail a'n llonni drwom bod y fath bortread yn bosib.²

Ef sy'n cario'r ddrama ac yn rhoi ffocws i'r gwyliwr mewn cyferbyniad llwyr i weddill y swyddogion sy'n wan ac ansicr ar y sgrîn yn hytrach nag yn unigolion cryf sy'n barod i roi stop ar gynlluniau gwallgof y cnoiwr carpedi.

Roedd Beck yn enwedig yn wan - ni allwn gredu y byddai'r cadfridog marwaidd hwn (Charles Williams) yn barod i dderbyn awenau'r Almaen pe byddai'r *putsch* yn llwyddo. Digon di-asgwrn cefn yw Wizeben hefyd; y swyddog hwnnw y clywn yngan ei enw mewn sawl gwahanol ffordd drwy'r ddrama; yn rhannol oherwydd anallu Guto Roberts i'n hargyhoeddi o'i gadernid. Efallai fod y gyfres Fo a Fe wedi dryllio ei yrfa fel cymeriad difrif; a Phobl y Cwm hithau yn ffactor gref yn niffyg argyhoeddiad y gynulleidfa o'r cadfridogion yn gyffredinol; meddai Huws:

Buasai nifer o drigolion Bryn Awelon
hwythau wedi cael eu derbyn ar binsh i'r
'Home Guard' ond yma'r oeddynt mewn
uchelfannau gwleidyddol yn barod i drefnu
putsch i ddymchwel Hitler.³

Efallai y dylid plymio'n ddyfnach i'r pŵl o actorion Cymraeg cyn meddwl am deledu'r ddrama hon eto.

Mae'r cynhyrchiad yn agor gydag araith Hitler am ei fwriad i newid Ewrop, a'r cadfridogion yn eistedd o amgylch bwrdd cyfarfod yn gwrandao arno. Mae lliain a'r swastica arno wedi ei daenu dros y bwrdd; dyfais effeithiol i egluro cefndir ac amgylchiadau'r ddrama. Nid yw perfformiad yr actorion mor effeithiol - wedi clywed araith mor bwerus disgwyliem i'r swyddogion o amgylch y bwrdd ddangos ychydig ofn ac arswyd, a dangos eu poen ynglŷn â dyfodol eu Halmaen. Yn hytrach, maent oll yn edrych fel plant ysgol yn ystod gwers olaf y prynhawn. Mae Beck, ac yntau i fod y cryfaf ohonynt, mewn breuddwyd; ni welais yma ddim arwydd o benderfyniad i geisio gwrthwynebu'r cynlluniau ar gyfer Tseco-Slofacia. Nid yw Dic Hughes fel Schacht ychwaith yn trosglwyddo ei gadernid i'r gynulleidfa fel un sydd, y tu allan i'r byd milwrol, wedi anwybyddu'r perygl a sefyll ar ei draed yn erbyn Hitler.

Peth arall a oedd yn fy mhoeni drwy gydol y cynhyrchiad oedd acenion od yr actorion. Tybiaf fod y swastica ar gychwyn yr olygfa gyntaf ynghyd â'r lifrai milwrol yn ddigon i sefydlu lleoliad y ddrama heb orfod cymhlethu'r ddeialog ag acenion Almaenig. Roedd Islwyn Morris yn rhan Halder yn un o'r pennaf cyfrifol, a'i lais yn annioddefol erbyn act olaf y ddrama - gan fod enwau a themau Almaenig yn cael eu defnyddio yn y sgript, nid oes angen cymhlethu ymhellach ddealltwriaeth y gynulleidfa o beth sy'n cael ei ddweud.

Ar y cyfan, mae'r golygfeydd hynny yn 1938 lle nad ydyw Hitler yn bresennol yn llai diddorol na gweddill y cynhyrchiad, ond am ychydig eithriadau. Mae golygfa agoriadol yr ail act yn awgrymu safbwynt Hitleraidd y forwyn (Gillian Elisa Thomas) yn fywiog, a chyfleu fod y Fuehrer, yn wahanol i'r hyn a ddangosir yng ngweddill y ddrama, yn boblogaidd iawn gyda rhai carfannau o'r gymdeithas. Gallasai Saunders Lewis fod wedi gwneud defnydd gwell o'r ysbïwraig ifanc hon fel cyferbyniad i Hilda Kordt, yn enwedig gan i'r ddwy gael eu portreadu mor gelfydd gan Gillian Elisa Thomas a Christine Pritchard.

Mae ychwanegiadau Kordt hithau i'r digwydd yn fwy na defnydd Lewis o'r fenyw fel cyfrwng i ysgafnhau drama. Arni hi a'i neges i Loegr y mae llwyddiant y swyddogion yn dibynnu i raddau helaeth, a gallwn gredu yng ngallu Kordt i chwarae rhan flaenllaw yn y *putsch* - yn wahanol i nifer o'r cadfridogion.

Wedi dweud hyn, cawn fflach o ddeffroad gan Meredith Edwards yn niwedd y ddrama fel Brauchitsch, y gŵr sy'n gwrthod troi yn erbyn Hitler. Ebe Charles Huws amdano:

....perthynai i'w berfformiad awyrgylch o
gadernid ac awdurdod lle methodd eraill.⁴

ond trueni oedd gorfod gwranddo ar gymaint o sgwrsio dienaidd cyn i Edwards gyrraedd ei binacl. Meddai Jennie Eirian Davies am y cynhyrchiad yn Y Cymro:

Troes y siarad, siarad yn yr ystafell
gynadledda yn beth beichus. Gwir fod ambell
frawddeg fachog o athroniaeth bywyd yn
disgyn ar y glust yn achlysurol. Ond nid oedd

drama fel hon yn gwneud deunydd teledu
hawdd i na chynhyrhydd nac actor.⁵

Fel y crybwyllais ynghynt, nid oes llawer o wahaniaethau rhwng sgrïpt y telediad a'r ddrama gyhoeddedig, ond mae un neu ddwy o enghreifftiau amlwg. Yn yr act gyntaf, nid oes yr un pwyslais ar ddylanwad yr Americanaid ar Loegr - ni chynhwysir sylw Schmidt fod popeth nad oedd yn tarddu o'r Amerig yn "sgwâr" (fe all fod hyn yn fendith gan mai yn llawer diweddarach na chyfnod y ddrama y daeth y dywediad i eirfa Prydain). Ni chawn wybod ychwaith o'le na chan bwy y daeth y telegram yn datgan fod adnoddau'r Unol Daleithiau y tu cefn i Loegr.

Dewisodd y cynhyrhydd, George P. Owen, beidio â chynnwys y sylw fod Cymru yn rhan o Loegr - colled i'r cynhyrchiad gan fod sylw Halder yn werthfawr i atgoffa'r gynulleidfa pa mor bell oddi wrth eu cymdeithas hwy eu hunain yr oedd digwydd y ddrama.

Atodiad i'r ddrama a gawn gan Beck ym mharlwr Schacht, disgrifiad difrif o boen yr Iddewon a'u dioddefaint erchyll dan law'r Natsiaid. Dywed sut y bu i'r milwyr orfodi'r carcharorion i gerdded yn noeth ar hyd ffos o dar, a chwerrthin wrth eu gwyllo yn llosgi i farwolaeth - pwyslais difrif ar yr angen am gael gwared o Hitler a'i syniadau gwallgof am faw dynoliaeth.

Nid oes llawer o ddyfeisiadau technegol na chreadigol yn cael eu defnyddio yn y cynhyrchiad hwn o 1938. Mae dangos y map o Ewrop ar ddechrau'r ddrama yn effeithiol, a gwneir yr un math o beth wrth i Hitler anelu ei araith at y drych yn ei swyddfa wedi iddo fethu â chael derbyniad eiddgar gan y dorf y tu allan i'w ffenestr. Wrth i'r Fuehrer gael y gwyllt, mae darlun o dorf yn bonllef yn ymddangos yn y drych, gan gynrychioli yr hyn y mae Hitler yn ei gredu yw ei haeddiant. Defnyddir yr un dechneg yn niwedd yr ail act pan welwn y swyddogion yn codi eu gwyllo ac yfed llwnc destun i'w menter - yn gefndir iddynt clywn sŵn esgidiau milwyr yn martsio i gynrychioli milwyr Hitler yn meddiannu Tseco-Slofacia.

Mae clo'r cynhyrchiad yn gadael argraff ddofn ar y gynulleidfa, gan ddangos Hitler yn dawnsio o amgylch ei swyddfa mewn llawenydd ar gael

meddiannu mwy o Ewrop, a'i ddilynwyr yn chwertthin a galw *Heil* yn gefnogol. Am y tro cyntaf, mae diflastod y swyddogion yn effeithiol, gan i'r camera ddangos saethiadau agos o wynebau gwrth-natsiaidd Beck, Schacht a Hilda Kordt yn gwgu ar ei lwyddiant. Dangosir clipiau ffilm cine i wneud y gynulleidfa yn ymwybodol unwaith yn rhagor o erchyllterau'r rhyfel y bu i Hitler ei gychwyn - gwelwn awyrennau yn codi i'r awyr a Chamberlain yn siarad am heddwch yn Ewrop cyn i fap arall ymddangos, y tro hwn gyda Tseco-Slofacia yn diflannu oddi tan lif du yr Almaen. Dangosir byddinoedd yn martsio, carchardai rhyfel a chroesau pren mewn rhesi yn dynodi'r bywydau a gollwyd wrth ymladd. Mae hyn yn drawiadol iawn, a'r unig nam yw'r gerddoriaeth gefndirol sydd unwaith yn rhagor yn rhy gryf ac yn methu â chyfleu'r awyrgylch angenrheidiol o siom a chywilydd.

Credaf fod y cynhyrchiad hwn o 1938 yn addas, ond braidd yn ddi-fflach. Mae'r ddrama ei hun yn un ddiflas i'r llygaid, gan fod canran uchel o'r cymeriadau yn yr un lifrai ac mai tri lleoliad yn unig a ddefnyddir, ond mae'n ddrama ag iddi ddyfnder - gwell rysait ar gyfer drama lwyfan na chynhyrchiad teledu. Cyflea 1938 dristwch a thrueni'r rhyfel o dan Hitler yn effeithiol, a gad y gynulleidfa'n myfyrio ar y sefyllfa yn Ewrop pe na byddai'r *putsch* wedi methu - y ddelfryd sy'n ein disgwyl yn Brad.

Anaml y bydd dramodydd yn cyfansoddi drama am ddigwyddiad hanesyddol arbennig ac yn peidio â chynnwys fel cymeriad hwnnw a oedd yn gyfrifol amdano; er fod yr arfer i'w weld mewn dramâu mwy amwys megis Wrth Aros Godot, ac yn Blodeuwedd i raddau gydag absenoldeb hir y Llew; ond dyna a wnaeth Saunders Lewis yn achos Brad.

Claus von Stauffenberg a roddodd y cês yn cynnwys bom wrth draed Hitler, ond ambell gyfeiriad yn unig sydd ato yn y ddrama. Yn hytrach, dewisodd Lewis leoli ei ddigwydd yn Ffrainc; yn swyddfa Llywodraethwr Milwrol Ffrainc ym Mharis ac ym mhencadlys von Kluge yn Normandi. Nid

yw'n ddrama ffeithiol; ceisio ail greu'r tensiwn a'r emosiwn y tu cefn i'r realiti hanesyddol y mae Saunders Lewis yma; ac y mae'r gorffennol yn llawer pwysicach na'r presennol yn y digwydd. Nid Hitler ei hun yw hanfod y ddrama, ond traddodiad milwrol yr Almaen a chorps y swyddogion a'r modd yr oedd y Fuehrer yn sefyll yn erbyn eu holl egwyddorion.

Byddin Prwsia ydoedd yr *Offizierkorps* pan oedd Prwsia yn wladwriaeth; byddin gref a chadarn ac asgwrn cefn y wlad. Pendefigion oedd ei swyddogion, fel y mae'r 'von' yn enwau nifer o gymeriadau'r putsch yn ei awgrymu; a thraddodiad a syniad o 'esprit de corps' yn bwysig iddynt ers y cyfnod canoloesol.

Yn ddiweddarach, yn y G16-19, daeth llw o deilyngdod i'w harweinydd i fod yn bwysig i'r corfflu, ond wedi cyfnod y chwyldro Ffrengig, ystyriwyd ganddynt fod cenedlaetholdeb, ffyddlondeb i'r wlad yn hytrach na'i harweinydd, yn bwysicach. Dyna oedd y feddylfryd yn nechrau'r ganrif hon, a'r rheswm pam fod tyngu llw o ffyddlondeb personol i Hitler yn wrthun i nifer o'r swyddogion.⁶

Gan eu bod yn hannu o gefndir pendefigaidd, roedd corfflu'r swyddogion yn teimlo'n bersonol gyfrifol am yr hyn a oedd yn digwydd yn eu gwlad. Erbyn tridegau'r ganrif roeddynt yn cywilyddio'n ddirfawr oherwydd gweithredoedd Hitler - ei driniaeth o'r Iddewon yn arbennig - ac yn boenus ei fod yn dinistrio'r parch a roddwyd gynt i'r corps. Eglura G.M. Hughes:

....rhoes Hitler orchymyn i un o'i gynffonwyr, Feldmarschall Keitel, i drin dinasyddion Rwsia yn groes i gyfarwyddiadau Cytundeb Genefa. 'Roedd hyn yn hollol wrthun i wŷr fel von Kluge, von Bock, von Trescow a von Brauchitsch, rhai o swyddogion y Wehrmacht.⁷

Yn ogystal, gwnaeth Hitler frwydr Stalingrad ym 1942-43 yn drychineb pan wrthododd roi gorchymyn i'w fyddin encilio. Bu farw 323,000 o Almaenwyr yn ystod y frwydr, a daliai'r swyddogion y Fuehrer yn bersonol gyfrifol. Roedd hyn yn ddigon i wneud i nifer helaeth o aelodau corps y swyddogion gychwyn amau

ei amcanion ac ofni am dynged yr Almaen dan ei lywodraeth. Rhaid oedd ei ddisodli, tasg angenrheidiol, fel y dywedodd Tresckow wrth Stauffenberg:

Mae'n rhaid ceisio'r llofruddiaeth, ar bob cyfrif. Hyd yn oed pe byddai i hynny fethu, bydd yn rhaid ymgymryd â'r ymgais i gipio grym yn y brifddinas. Mae'n rhaid i ni brofi i'r byd ac i'r cenedlaethau i ddod fod gwŷr mudiad Gwrthwynebiad yr Almaen wedi meiddio cymryd y cam terfynol ac anturio eu bywydau arno. O'i gymharu â hyn, does dim arall o bwys.⁸

Doedd neb yn siwr a ellid ei gymryd yn fyw fel carcharor oherwydd cefnogaeth y Natsïaid a'r werin iddo, ond ar y llaw arall, amhosibl oedd ei saethu gan nad oedd neb yn cael dod yn agos ato gyda gwn. Roedd hefyd angen bod yn sicr y byddai digon o gefnogaeth i'r cynllwynwyr i'w galluogi i gipio'r grym angenrheidiol yn sydyn.

Cychwynnodd y cynllwynio, a gafodd yr enw *Valkyrie*, y tu allan i'r byd milwrol, gyda dau glerigwr - Bell o Loegr a Bonhoeffer o'r Almaen. Roeddynt yn siwr mai lladd Hitler fyddai yn rhyddhau'r Almaen ac yn arbed bywydau miloedd mewn rhyfel. Casglasant yn sydyn iawn gefnogaeth frwd:

Some were Communists, some Socialists, Christian or conservative Germans, people who held different and often conflicting ideologies; but all had in common a peculiar moral and intellectual toughness which had prevented them abandoning their principles in the face of the most frightful penalties.⁹

Ni wnaethpwyd y camgymeriad o geisio brysio'r trefniadau y tro hwn, ac o ganlyniad, digwyddiadau 20 Gorffennaf 1944 oedd agosaf at roi terfyn ar y Fuehrer.

Roedd Henning von Trescow yn un o'r pennaf gyfrifol am y cynllwyn ar fywyd Hitler - ef oedd yn gyfrifol am gynllwyn y bom ar yr awyren a fethodd â thanio, ond ni chafodd y cyfle i chwarae rôl mor flaenllaw y tro hwn. Wedi

arestio Bonhoeffer, Müller a Dohnanyi, ciliodd yn syth o'r rheng flaen a chael amser o'i waith oherwydd gwaeledd gan adael y swyddogion eraill i ddarganfod rhywun i weithredu yn ei le. Roedd un gŵr yn ddewis amlwg - Claus Cownt Schenk zu Stauffenberg. Roedd yn gefnder i Peter Yorck von Wartenburg, ac wedi gwneud ei deimladau tuag at Hitler yn blaen. Roedd yn filwr heb ei ail, ac yn bwysicach, roedd Hitler yn meddwl llawer ohono - ni fyddai mynediad i Wâl y Blaidd yn drafferth. Meddai Manvell a Fraenkel amdano:

He was an altogether exceptional man, another aristocrat, whose southern Swabian heritage included many men famous in German history. He was a Catholic and connected through his mother's family to Peter Yorck, who was his cousin. He was young, only thirty-five, unusually handsome, gay and gifted, a fine horseman who practised the *haute école*, and an outstanding student....¹⁰

Yr unig beth a oedd yn ei erbyn oedd yr anafiadau a ddiodeffodd yn Nhiwnisia ym 1943 pan saethwyd at ei gar gan awyren. Collodd hanner isaf ei fraich dde a dau fys oddi ar ei law chwith, a dallwyd ef yn ei lygad chwith. Cafodd niwed i'w glustiau a'i benglin yn ogystal. Er ei boen, dysgodd ei hun i ysgrifennu gyda gweddill ei law chwith. Bu'n ymarfer hefyd y dasg o dorri'r gwifrau a daniai'r ffiws gyda theclyn bychan. Roedd erbyn 1943 yn barod i wneud ei waith.

Trefnwyd i Stauffenberg gynrychioli Olbricht mewn cyfarfod yng Ngwâl y Blaidd ddiwrnod wedi'r Nadolig, 1943. Roedd popeth yn barod ar gyfer y ffrwydrad a'r putsch a oedd i ddilyn, ond gohiriodd Hitler y cyfarfod ar fyr rybudd - rhaid oedd aros hanner blwyddyn arall.

Roedd nifer helaeth o swyddogion yr oedd Hitler yn ymddiried ynddynt yn rhan o'r cynllwyn - Oster a oedd yn Bennaeth ei staff, Trescow, Olbricht, Moltke, Goerdeler, Stuelpnagel a oedd i arwain y putsch yn Ffrainc, Hofacker, Felgiebel, y gŵr a oedd i ffônio i ddweud am lwyddiant y plot, Witzleben oedd wedi ei benodi i gymryd lle Kluge a anafwyd ynghynt, Leber a Beck, y gŵr a oedd i arwain yr Almaen i heddwch wedi cael gwared o'r Fuehrer.

Ar 20 Gorffennaf 1944, aeth Claus Stauffenberg i gyfarfod ym mhencadlys Hitler a oedd i'w gynnal am un o'r gloch. Symudwyd y gynhadledd yng Ngwâl y Blaidd ymlaen hanner awr oherwydd fod Mussolini ar ei ffordd yno i gyfarfod Hitler, felly rhaid oedd i Stauffenberg frysio â'i drefniadau. Bu i'r lleoliad newid hefyd - yn lle cyfarfod mewn ystafell goncrit oddi tan y ddaear, penderfynwyd symud i gwt pren ac agorwyd y ffenestri oherwydd y gwres. Nid oedd hwn yn ddatblygiad ffafriol i'r swyddogion - byddai muriau gwan y cwt a'r ffenestri agored yn gymorth i daflu grym y bom i'r tu allan ac roedd Stauffenberg yn dechrau ofni na fyddai'r ffrwydradau yn ddigon cryf i ladd y Fuehrer. Roedd yn rhaid felly roi'r bag melyn a'r bom y tu mewn iddo mor agos â phosibl at Hitler.

Wedi cychwyn y cyfarfod, aeth popeth yn iawn, a Stauffenberg wedi cynnau'r ffiws cyn mynd i mewn. Rhoddodd y bag wrth draed Hitler oddi tan y bwrdd pren, cadarn, ac aeth Stauffenberg allan o'r ystafell gyda'r esgus ei fod yn aros galwad bwysig o Berlin. Wrth gilio, gwelodd Stauffenberg y ffrwydrad enfawr, ac wedi casglu na fyddai modd i neb ddianc yn fyw, neidiodd i'r car a oedd yn ei ddisgwyl gan adael Felgiebel i ffonio Berlin a rhoi gorchymyn y Valkyrie i gychwyn ar y putsch.

Roedd Stauffenberg a'r swyddogion a welodd y ffrwydrad yn grediniol fod Hitler yn farw, a dyna'r camgymeriad mwyaf. Cychwynwyd arestio'r Natsiaid, yr S.S. a'r Gestapo yn yr Almaen a Ffrainc cyn cael gwybod y gwir, a mater bach ydoedd i Hitler yn ddiweddarach ddarganfod pwy oedd â rhan yn y cynllwyn.

Yn ddiweddarach, darganfuwyd beth aeth o'i le. Wedi i Stauffenberg adael yr ystafell, teimlodd Brandt y cês yn mynd ar ffordd ei draed oddi tan y bwrdd, felly symudodd ef oddi wrth Hitler, ac i'r ochr arall i draed y bwrdd - bu'r pren trwchus felly megis tarian yn amddiffyn y Fuehrer. Eironig yw meddwl y byddai Hitler efallai wedi ei glwyfo'n ddifrifol heb ymyrraeth Brandt - yr un gŵr ag a gytunodd i gario bom Tresckow a von Schlabrendorff ar awyren Hitler flwyddyn ynghynt.

Mae nifer o lyfrau, yn gofiannau, hunangofiannau a chyfrolau hanes, yn rhoi digwyddiadau 20 Gorffennaf a'r dyddiau canlynol i ni o sawl safbwynt -

mae Saunders Lewis yn Brad wedi gwneud hynny wrth seilio ei digwyddiadau ar ffaith yn hytrach na cheisio creu drama hanesyddol. Nid disgrifio gweithredoedd y swyddogion y mae; yn hytrach, archwilio a cheisio deall teimladau a chymhellion y gwŷr hynny a fu yn ddigon cadarn eu credo i geisio gwared yr Almaen o Hitler.

Yn wahanol i'r mwyafrif o'i ddramâu, bu i Brad gael ei chyhoeddi cyn ei pherfformio ar lwyfan am y tro cyntaf. Drama gomisiwn Eisteddfod Genedlaethol Glynebwy 1958 ydoedd, drama a ysgogodd drafodaeth feirniadol a chanmoliaeth o du'r wasg. Rhydd Saunders Lewis y sefyllfa i ni drwy sgwrsio Stuelpnagel, Linstow a'r swyddogion eraill, ac mae eu ffyddlondeb i'r llw i Hitler yn cael ei archwilio yn fanwl. Pwysleisia'r dramodydd rôl un cadfridog yn arbennig - Caisar von Hofacker, gŵr a oedd yn bendant yn ei argyhoeddiad fod yn rhaid cael anrhydedd i'r Almaen unwaith yn rhagor; gŵr a oedd yn fawr ei barch gan ei gyd-gadfridogion a Lewis - meddai Branwen Jarvis:

Yn wir, yn hanes y cais i ladd Hitler cafodd
Saunders Lewis bwnc delfrydol, ac yn
Hofacker arwr delfrydol, ar gyfer ei fethod a'i
feddylfryd arbennig fel dramodydd.¹¹

Roedd yn Gristion cadarn ei ffydd, yn gwrthwynebu Hitler a'i syniadau ar sail cydwybod. Mae portread Saunders Lewis ohono yn un sy'n agos iawn at y gwir mewn sawl ffordd, er i'r dramodydd fynnu yn ei ragair:

Peidied neb â chwilio am gywirdeb ffeithiol
yn y ddrama hon,¹²

Pwysleisia rinweddau'r Hofacker hanesyddol a phwyso na fu iddo gael perthynas â neb ym Mharis gan ei fod yn briod a phump o blant ganddo. Gwelwn ei gariad a'i ofal am ei blant mewn llythyr a ysgrifennodd at ddau o'i blant, Eberhard ac Annele, ar adeg eu conffirmasiwn i'r Eglwys, yn egluro ei gymhellion ym Mharis:

Y mae hi'n bosib bod yn Gristion da ac yn Almaenwr da ar yr un pryd. Nid yw'r ddau beth yn wrthwyneb i'w gilydd, yn wir y maent yn cyfoethogi ac yn cynorthwyo ei gilydd. Cawn ni, Almaenwyr, fwy o barch gan genhedloedd eraill os na fydd ein gweithredoedd yn troseddu yn erbyn y deddfau Cristnogol hynny y maent hwythau hefyd yn eu parchu.¹³

Gwyddai y byddai ei deulu yn cael eu herlyn pe byddai'r cynllwyn yn fethiant, ac ymgais oedd hyn i ddangos i'w blant nad oedd yn fradwr i'w wlad, fel y byddai'n sicr o gael ei alw.

Ceisiodd Lewis fod yn deg â'r gweddill o gymeriadau Brad, a rhoi portread anrhydeddus ond gwyngalchog ohonynt oll gan seilio ei ddrama ar lyfrau Chester Wilmot, Wilhelm von Schramm a J.W. Wheeler-Bennett. Creodd gymeriad yr Iarles Else von Dietlof fel ysgrifennydd preifat i Stuelpnagel, a chariad i Hofacker; a dychmygol hefyd yw Karl Albrecht, y Natsi didrugaredd.

Yr Iarles Podewils oedd y gwir ysgrifennydd preifat, ond yn wahanol i Else, nid oedd hi yn ymwybodol o'r cynllwyn na rhan ei phennaeth ynddo. Brynhawn Iau, 20 Gorffennaf 1944 roedd gan y Gowntes Podewils ddannoedd, ac aeth at y deintydd am driniaeth, felly nid oedd yn y swyddfa yn disgwyl yr alwad. Dychmygol hefyd yw perthynas Else a Hofacker - fel y gwyddom, roedd ef yn meddwl y byd o'i deulu - dull yn unig ydoedd i ychwanegu cyffro a thensiwn i'r aros diddiwedd am yr alwad ffôn.

Mae Saunders Lewis yn ei ragair hefyd yn gyflym i dynnu ein sylw at y gwahaniaeth rhwng Albrecht a gwir arweinydd yr S.S. ym Mharis, Karl Albrecht Oberg. Roedd Oberg yn fwy o ŵr bonheddig nag Albrecht y ddrama, a theg yw cwestiwn y Parch Iorwerth Jones yn y Y Dysgedydd:

Pam y cadwyd mor glos at yr enw tybed?¹⁴

Cawn yn Albrecht y darlun poblogaidd o Natsi, yn mwynhau poen ei elynion diniwed, ac yn grediniol mai ffordd Hitler sy'n iawn.

Gwyddom fod yn rhaid i'r gynulleidfa gydymdeimlo â'r syniad o gael gwared o Hitler er mwyn cadw eu diddordeb yn y ddrama hyd y diwedd, ond gor-symleiddio fyddai cyflwyno Hofacker i ni fel y da ac Albrecht fel y drwg. Rhag i'r ddrama felly ymddangos yn rhy syml, ceisiodd Saunders Lewis ennyn dealltwriaeth yn y gynulleidfa o'r Natsi drwy roi i ni ei hanes yn fachgen tlawd, newynog, a rôl Hitler yn ei fywyd. Fel y gwelsom drwy gymeriad y forwyn yn 1938, arwr y werin oedd Hitler - rhoddodd waith i bawb a bywyd gwell i'r tlodion. Dyma'r cefndir y tu cefn i ffyddlondeb Albrecht i'r Fuehrer, a'r agwedd sy'n arbed Brad rhag mynd yn ddiflas a dibwrpas.

Mae'r swyddogion eraill a bortreadir gan Saunders Lewis yn ddigon credadwy, er nad ydyw'r ffeithiau amdanynt yn hanesyddol gywir i gyd - nid Linstow oedd cyfaill agos Stauffenberg, yn hytrach Hofacker; ond gan fod rôl arall iddo ef yn y ddrama, rhoddwyd Linstow yn gyswllt rhwng Paris a Gwâl y Blaidd.

Gwelwn themâu blaenllaw'r ddrama, traddodiad a ffyddlondeb, yng nghymeriad pob un o'r cymeriadau mewn ffyrdd gwahanol - y llw i Hitler sy'n bwysig i Albrecht; ffyddlondeb i'r Almaen a chorps y swyddogion yw cymhelliad y cynllwynwyr. Mae i Else hefyd y nodweddion hyn - er nad ydyw hi wedi tyngu llw milwrol, mae ei ffyddlondeb proffesiynol i Stuelpnagel a'i chariad tuag at Hofacker yr un mor bwysig iddi hi; a byddai'n fwy na bodlon aberthu popeth er mwyn ei chredo. Sylwodd Dafydd Glyn Jones yn Barn:

....mae Saunders Lewis yn darlunio grŵp o bobl ddigon tebyg iddo ef ei hun o ran eu syniadau: pobl sydd â thraddodiad ym mêr eu hesgyrn, pobl sy'n credu'n angerddol mewn confensiwn, mewn arferiad, yn credu y dylai gweithredoedd dynion ddilyn patrwm. A'r rhain, ar ôl cael eu gwthio i gornel, yn darganfod fod yr holl bethau allanol, yr holl bethau sefydlog yma, yn ddi-rym yn y pendraw, ac mai rhyw reidrwydd mewnol, rhyw fath o reidrwydd tuag ato ef ei hun, yw gwir gymhelliad pawb yn yr argyfyngau gwaethaf.¹⁵

Drama sydd yma yn sylfaenol am y natur ddynol, a'r penderfyniadau y mae'n rhaid i bawb eu gwneud drostynt eu hunain. Gwneir i'r gynulleidfa feddwl ac ystyried yn yr un modd â 1938 - fel yn nifer o'i ddramâu, nid yr hyn sy'n digwydd sy'n bwysig, ond cymhellion a gwewyr meddwl y cymeriadau. Mae gwneud y peth iawn yn bwysig i'r awdur, a thrwy hynny, i'w gymeriadau, fel yr eglura Bobi Jones:

Anturiaethau gydag egwyddoiron (sic) athrawiaethol yw dramâu Saunders Lewis, ac ef yw un o'r ychydig, efallai yr unig un o'n llenorion a chanddo syniadau diddorol yn ystod y ganrif hon; dyfnhawyd a chymhlethwyd y diddordeb am ei fod yn ddwfn gredu'r egwyddorion hyn, ac felly'n gorfod chwilio am gysondeb personol a chyfannol ynddynt.¹⁶

Gyda Phugas, Hitler, Beck, Hofacker, Gwilym Brewys a'r Cynol Chabert, daeth Saunders Lewis yn un o'r dramodwyr cyntaf i uno ein gwlad â gweddill Ewrop, a symud y ddrama oddi wrth y gegin draddodiadol. Nid oedd Lewis ei hun, er hynny, yn sicr o'i allu fel dramodydd, fel y cyfaddefodd wrth Kate Roberts ym 1958 wrth gywiro proflenni Brad:

Mae'n debyg mai'r ffaith yw fod yn ddiflas gennyf ddarllen fy nramâu, maen' nhw'n fy siomi i ac yn fy nadrithio i.....Wrth gwrs, fel pawb arall, yr wyf wrth fy modd yn cael clod, ond yn y gwaelod sad 'fedra'i ddim fy nghymryd fy hun o ddifri.¹⁷

Beth bynnag oedd gweledigaeth y dramodydd, gallwn ystyried Brad heddiw yn ddrama hanesyddol greadigol sy'n archwilio un o ddigwyddiadau pwysicaf a mwyaf trasig Almaen yr ail ryfel byd.

Cafwyd y perfformiad cyntaf o Brad yn Eisteddfod Genedlaethol Glynebwy 1958, yr un wythnos ag y bu galw am theatr i faes yr Eisteddfod. Yr oedd nifer

o'r gynulleidfa yn Eisteddfod Glynebwy yn gyfarwydd â'r ddrama cyn y perfformiad, ac yr oedd Saunders Lewis yn boenus am hyn. Ategwyd ei ofn gan Eic Davies wrth ei hadolygu:

'Rown i wedi darllen *Brad* Saunders Lewis cyn ei gweld ar lwyfan.....a bu hynny'n foddion i mi sylweddoli unwaith eto nad rhwng cloriau llyfr y mae unrhyw ddrama ar ei gorau.¹⁸

Mewn cyfarfod a gynhaliwyd yn y Babell Lân i drafod y ddrama, meddai John Gwilym Jones iddo newid ei farn am y ddrama wedi ei gweld ar lwyfan. Yn ôl adroddiad yn Y Cymro, meddai:

Y mae rhyw ail-ystyried yn dod i mi, ond nid ydym i ystyried y perfformio, fel y cyfryw. Eto, mae'n rhaid i mi ddweud mai dyma'r cyflwyniad mwyaf a welais i erioed yng Nghymru. Peth i'w berfformio yw drama, yn y pen draw, ac nid peth i'w darllen.¹⁹

Erbyn perfformio'r ddrama yn Llangefni yn yr Hydref, roedd Brad yn cael ei hystyried yn ddrama fawr, ac ar 13 Tachwedd 1958 cafwyd cynhyrchiad ohoni ar y radio. Roedd cryn edrych ymlaen at y rhaglen gan fod rhai o actorion mwyaf Cymru yn actio ynddi - Richard Burton, Sian Phillips, Meredith Edwards, Hugh David, Emlyn Williams, Gareth Jones a Clifford Evans. Emyr Humphreys oedd yng ngofal y cynhyrchu.

Er y dalent ynghlwm â hi, nid oedd y rhaglen yn llwyddiant ysgubol. Roedd cynulleidfa eang iddi, wrth gwrs, o bobl a oedd yn gwrando ar unrhywbeth ar y radio cyn belled â'i fod yn Gymraeg, ond siom a gafwyd yn ôl adolygydd Y Faner.

Wrth wrando ar y cynhyrchiad, teimlais ar sawl achlysur nad oeddwn yn gwrando ar waith Saunders Lewis, cymaint oedd y newid yn y sgript, a chredaf i'r gynulleidfa ar y pryd deimlo hynny hefyd gan eu bod wedi cael y cyfle i ddarllen y ddrama, a gyhoeddwyd beth amser cyn yr Eisteddfod. Wn i ddim ai

cwtogiadau i'r sgript ynteu blerwch yr actorion oedd yn gyfrifol, ond roedd geiriau a brawddegau ar goll o sawl darn o ddeialog. Gellir cyfiawnhau hyn ar ambell achlysur pan â'r ddeialog yn feichus, ond dro arall, nid oes rheswm dros gwtogi rhai o rannau pwysicaf y ddrama. Yn y cynhyrchiad hwn, collir tair tudalen gyntaf y ddrama, gan adael yr Iarlles â'r dasg o gyflwyno'r ymwelwyr i swyddfa Stuelpnagel fel ysgrifenyddes yn hytrach na rhan o'r cynllwyn. Ni chawn flas o'i chymeriad cryf a'i gofal dros ei phennaeth, nac ychwaith hoffter y Llywodraethwr Milwrol ohoni, ac oherwydd y diffyg yn yr wybodaeth a gaiff y gwrandawr, mae agwedd Stuelpnagel ati braidd yn gas. Gan na chawn wybod pam y bu iddi losgi papurau damniol, mae sylw Albrecht yn nherfyn y ddrama am y tân yn y stof yn ddibwrpas. Ni chawn ychwaith ei chlywed yn amddifyn ei phennaeth yn y drydedd act.

Nid enwir y rhai eraill yn y cynllwyn gan Stuelpnagel, ni cheir ychwaith y disgrifiad o gymeriad Kluge:

Mae arno ofn penderfynu, ofn dewis rhwng
da a drwg...²⁰

Mewn ffordd, hyn yw hanfod y digwyddiadau ym Mharis - pam nad aeth y *coup* yn ei flaen. Ni chynhwysir yma ychwaith yr holl gyfiawnhau ar ran Albrecht mai dilyn Hitler oedd y peth gorau er lles yr Almaen (ni chawn hyd yn oed ei glywed yn galw Hofacker yn "Fraulein" - collir arwydd pendant o'i ddirmyg).

Ni chredaf fod modd cyfiawnhau peidio â chynnwys yn y cynhyrchiad sgwrsio Hofacker a'r Iarlles, a syndod oedd darganfod fod rhai o eiriau pwysicaf Stuelpnagel wedi mynd yn angof:

Rhaid carthu ymaith ddreudod y Gestapo,²¹

y syniad hwn oedd y tu ôl i'r *putsch* yn y lle cyntaf. Yn yr un modd, ni chlywn Kluge yn dweud am Hitler:

Mae'n ffiائد gen i'r mochyn.²²



Emrys Humphreys, y cyhoelydd, yn trafod sgript radio 'Brad' (Saunders Lewis) gyda'i actorion. Dyma Jan cyhwyn dehongli'r awdur i'r Gweler Eiwyn Evans.

Mae'n anodd dirnad pam y penderfynwyd nad oedd y disgrifiad o Wâl y Blaidd a'r digwyddiadau yno yn ddigon pwysig i'w adael yn y cynhyrchiad radio pan gynhwysir trafod maith am Ffrederig Fawr ganrifoedd ynghynt, a phenderfyniad di-synnwyr oedd torri o'r sgript y sôn cyntaf am "fargen" Albrecht. Mae tudalen a hanner o'r ddeialog rhyngddo ef a'r Iarlles ar goll, yn cynnwys ei barn amdano:

'Rwy'n meddwl mai'r diafol ych chi.²³

a diawledigrwydd Albrecht wrth ddweud wrthi:

Mi wertha'i Hofacker i ti am hynny, Else von Dietlof.²⁴

Y sgript, neu'r hyn sy'n weddill o ddeialog Saunders Lewis, yw un o'r prif resymau am fethiant y cynhyrchiad hwn, gan fod portread y prif actorion o'u cymeriadau yn ganmoladwy iawn.

Cyfeirïaf at Siân Phillips a Richard Burton; y ddau wedi llwyddo i ddal enaid creadigaethau Lewis. Ceir gan Phillips yr un cryfder â'r swyddogion, a chredwn yn ei daliadau i'r eithaf poenus o orfod rhoi ei hun i'r Natsi creulon. Yn anffodus, collwyd y mwyafrif o'i chyfleon i gyflwyno ei chymeriad i'r eithaf oherwydd y cwtoigi, ond serch hynny, mae ei chyfraniad i'r cynhyrchiad yn amhrisiadwy.

Yn yr un modd, rhoddodd Richard Burton ei enaid i Hofacker, yn enwedig yn ei ymgeision i berswadio Kluge i newid ei feddwl a chefnogi'r *putsch*. Y mae ar adegau yn codi ei lais mewn gwylltineb; dro arall yn dangos ei ddirmyg at y Fuehrer ac Albrecht drwy sgyrnygu yn effeithiol dawel. Gallwn gredu yn ei argyhoeddiad mai bendith i'r Almaen fyddai cael gwared Hitler, ac ar brydiau yswn am weld Kluge yn ail-ystyried. Mae chwerwedd amlwg yn llais Burton pan ddarganfyddai beth mae ei gariad wedi ei wneud drosto, a chyflea anrhydedd a hunan barch Hofacker i'r dim.

Mae Hugh David a Gareth Jones yn llenwi rhannau Linstow a Blumentritt yn weddus, a David yn rhoi i ni y brwdfrydedd disgwylledig pan ddatgana fod Hitler yn farw a'r *coup* yn llwyddo. Clywn Jones yn awdurdodol a chadarn, a

defnyddia emosiwn yn effeithiol wrth glywed ei gyfaill Stauffenberg yn cael ei saethu ar ben arall y ffôn. Teimlaf fod Clifford Evans braidd yn rhy bwyllog ei sgwrs yn rhan von Kluge. Gwelwn hyn ar ei waethaf yn ei sgwrs â Blumentritt ddechrau'r ail act, lle yr ymddengys ei fod wedi ymlacio'n ormodol yn ei ran a'i lais ar brydiau mor ddwfn nes ei fod yn annealladwy - ai ymgais i roi awdurdod i'w gymeriad oedd hyn tybed?

Nid oeddwn yn hapus â pherfformiad Meredith Edwards fel Stuelpnagel ychwaith. Teimlais nad oedd ei barch at yr Iarllles yn amlwg - tybed nad bai'r actor yw hyn ond y cwtogi felltith unwaith yn rhagor yn rhwystro datblygiad y cymeriadau?

Nid y sgrïpt sy'n gyfrifol am bortread chwerthinllyd Emlyn Williams o Albrecht. Mae ei bortread o'r Natsi yn annigonol a dweud y lleiaf, gan amharu ar weddill yr actorion gyda'i lais undonog yn swnio'n debycach i un o ddalecs Dr. Who na chadfridog. Bu Williams yn ffactor cryf ym methiant y cynhyrchiad, ac yn fy methiant i i adnabod ynddo gymeriad Albrecht. Gwelodd Banerwr fai ar yr holl gast yn hyn o beth:

Er bod rhai o'r prif actorion Cymreig yn actio, ofnaf fod y cyflwyniad a gafwyd yn Eisteddfod Glynebwy yn loywach.....Yr argraff a gefais i oedd na chafwyd digon o ymarfer a'r ddrama rymus hon.²⁵

Mae defnydd da o effeithiau sain drwy'r ddrama, agor a chau drysau, car (ond er fod cyfeiriad ati yn y cyfarwyddiadau llwyfan ddechrau'r ail act, ni chlywn sŵn awyren) a chlychau ffôn a rhybudd. Efallai i'r cynhyrchiydd orwneud y sŵn traed a'r clepian drysau ambell waith gan eu bod yn amharu ar rediad y ddeialog erbyn diwedd y ddrama, ond ar y cyfan portreadwyd sefyllfaoedd y digwydd yn ddigonol. Mae'r un peth yn wir am y defnydd o gerddoriaeth - ceir miwsig cryf, cynhyrfus ei naws ar ddechrau'r ddrama a rhwng y golygfeydd, ond er addaswydd y felodi ei hun i'r testun cyffrous, yr oedd yn rhy uchel i allu magu tensiwn yn y digwyddiadau, ac yn stopio'n sydyn yn lle toddi i'r cefndir cyn i'r cymeriadau gychwyn ar eu deialog.

Ar y cyfan, cafwyd ymgais dda gan Emyr Humphreys i gyflwyno Brad, ond doedd dim sglein ar ei gynhyrchiad. Er i ddarluniau o'r cast a'r cynhyrchydd yn ei hymarfer gael eu cyhoeddi yn Y Cymro a'r Faner, credaf fod Banerwr yn llygad ei le drwy awgrymu mai darllen yn hytrach nag actio yr oedd rhai o'r actorion. Cafwyd cnewyllyn arbennig i'r ddrama yn Burton a Phillips, ond amharwyd ar eu dehongliad gan Williams - ni allwn gredu yn y frwydr rhwng da a'r drwg heb i Albrecht swinio'n gas o gwbl.

Cynhyrchwyd Brad mewn cyfieithiad dan y teitl Treason ar y radio ar 12 Ebrill 1959 a'r un oedd barn adolygydd yr Observer am y cynhyrchiad hwnnw ag un Banerwr fisoedd ynghynt. Roedd y cast yn cynnwys yr un actorion â'r cynhyrchiad Cymraeg, ac Emyr Humphreys eto wrth y llyw. Meddai Paul Ferris amdanynt:

Emyr Humphreys, the novelist who is the senior sound-drama producer in Wales, assembled a handsome all-Welsh cast, which always makes a change after the neutral accents of the London Home Service. Unfortunately these weren't officer-voices. There is a classlessness about Welsh actors which makes men like Richard Burton and Gareth Jones (who has died since the play was recorded) incapable of sounding like the "sneering snobs with Vons stuck in their names" they are supposed to be. Emlyn Williams gave a spry performance as the Gestapo chief who loathes and envies the officer-caste; but upper-class arrogance, it seems, is well outside Welsh actors' repertoire.²⁶

Cynhyrchwyd hi eilwaith yn y Saesneg, ar y teledu y tro hwn, ychydig yn ddiweddarach, mewn cyfieithiad gan Elwyn Jones. Nid oes yr un o'r cynhyrchiadau hyn ar gael, ond o astudio'r sgrïpt gyfieithiedig a gafodd ei chyhoeddi gyda charedigrwydd y B.B.C., mae modd llunio darlun bras o'r cynhyrchiad teledu.

Credaf fod Elwyn Jones wedi llunio ei gyfieithiad ar lun y cynhyrchiad radio Cymraeg o Brad ym 1958 gan fod rhai cwtogiadau yn debyg iawn. Cychwyn Treason gyda sgwrs yr Iarlles â Stuelpnagel, fel y gwnaeth cynhyrchiad Emyr Humphreys, gan anghofio am y sgwrs deliffon; ac yn bwysicach, ni chlywn fod Albrecht ar ei ffordd i Baris. Collir geiriau Stuelpnagel ddiwedd yr act gyntaf fel yn y sgript radio Gymraeg wrth iddo ddymuno “carthu ymaith ddrewdod y Gestapo” - cwtogiad yn fy marn i sy’n amhriodol.

Ar y llaw arall, cawn yma nifer o ychwanegiadau bychain i ddrama wreiddiol Saunders Lewis. Rhoddodd Jones sentri y tu allan i ddrws swyddfa Stuelpnagel, a bwysleisiodd i ni fod y cynllwynio yn gyfrinach a bod clustiau mawr gan foch bach - mae Hofacker yn siarsio Else i fod yn dawel wrth drafod y *putsch*, a rhydd hyn esgus i’r cymeriadau godi a symud i gau’r drws ar sawl achlysur.

Ychwanegodd y cyfieithydd hefyd gymeriad ychwanegol - dynes lanhau gyda mop a bwced. Caiff ei phresenoldeb ei egluro yn llawn drwy’r cyfarwyddiadau camera:

We see a mop flapping wetly on the stairs, wielded by an oldish woman. We see not her but her torn, patched man’s boots, gaping at the toe. Then Albrecht’s boots come into frame, bright and glistening. He goes smartly up the stairs. We see the old woman now and her surprise. We follow Albrecht through the Countess’s office....²⁷

Er fod y cyfarwyddyd camera yma yn eithaf manwl ac yn rhoi i ni syniad da o beth a welwyd ar y sgrîn, nid yw yn adlewyrchiad o weddill y sgript. Moel iawn ydyw yng nghyswllt plotio saethiadau’r camera, heblaw ambell gyfarwyddyd i’r actorion ynglŷn â sut a phryd i symud. Tybed a yw hyn yn arwydd o gynhyrchiad diflas, statig, gan mai drama araf i’r llygad ydyw Brad ar ei gorau, gydag undonedd y gwisgoedd milwrol.

Mae Elwyn Jones wedi cadw’n glos iawn at iaith ac arddull Saunders Lewis wrth gyfieithu. Ni ellir dweud ei fod yn gyfieithiad trawiadol gan nad oes

yn y ddrama ddywediadau, idiomau na llawer o gyfle i ddangos datblygiad cymeriadau - ond mae yn cyfleu naws y ddrama yn gymwys a chredadwy. Ceir yma, serch hynny, ambell gyffyrddiad da; geilw Hitler yn “the Devil’s own” wrth gyfieithu “nonsens y diawl” - rhydd hyn ddarlun i ni o’r Fuehrer fel plentyn Satan. Effeithiol hefyd yw trosi “Fechgyn, fechgyn,” yn “Well, gentlemen,” gan awgrymu mwy o awdurdod i’r cynllwynwyr. Yn lle “Beck oedd ein hangor ni”, defnyddia Jones yr ymadrodd “He was our inspiration”, gan awgrymu ei fod yn gefn i’w filwyr a dangos yn gliriach darddiad y *coup*.

Nid yw pob un o’i ymadroddion, serch hynny, yn taro deuddeg. Nid yw’n cadw at drosiadau Saunders Lewis am yr “angylion duon” - pan awgryma’r Iarlles pwy oedd ag allwedd i’r cwpwrdd, penderfynodd Jones enwi Albrecht yn lle cyfeirio at y Gestapo fel y rhai cyfrifol, ac yn lle’i alw yn “angel yr allwedd”, geilw’r Natsi yn “our little locksmith”. Collwn y gymhariaeth rhwng y da a’r drwg yma, er fod geiriau Llywodraethwr Ffrainc, “I’d like to lock him up”, yn awgrymu ei gas tuag at giwed Hitler yn briodol.

Yn ystod y sgwrs rhwng Albrecht, Stuelpnagel a Hofacker yn yr act gyntaf, defnyddia Saunders Lewis y gair “brad” dair gwaith mewn ychydig eiliadau. Gan nad oedd Albrecht yn ymwybodol o’r cynllwyn, mae hyn yn eironig ac effeithiol; ond yn lle defnyddio’r un cyfieithiad dair gwaith i greu’r un effaith; “loyalty”, “treachery” a “betrayal” sydd yn sgrïpt Elwyn Jones. Nid yw hyn yn cael yr un effaith o greu tensiwn, ac o ganlyniad collir ychydig o sbarc yr olygfa. Serch hynny, mae cymeriadau Saunders Lewis yn trosglwyddo dawn lenyddol Saunders Lewis i’r di-Gymraeg gydag urddas. Meddai Banerwr wrth adolygu:

Cafodd edrychwyr Saesneg syniad go dda am ddawn ein prif ddramawr nos Sul. Edmygwn ei afael ar feddwl swyddogion y fyddin Almaenaidd, a’i degwch wrth roi syniadau yn eu genau.²⁸

ond er ei fod yn canmol yr actorion yn eu perfformiadau, ni â i fanylder am y cynhyrchiad:

BRAD gan Saunders Lewis



Y Cyrnol Hofacker (Lindsay Evans), Y Cadfridog Albrecht (Philip Madoc),
a'r Cadfridog Blumentritt (Dillwyn Owen)

Cyflwynodd yr actorion waith da iawn - yn enwedig Kenneth Griffith, Donald Houston a Clifford Evans. Haedda Emyr Humphreys glod am y cynhyrchu.²⁹

Ni chrybwylla'r gwisgoedd, y gerddoriaeth, y gwaith camera na'r setiau, felly gallwn gasglu na wnaethant fawr o argraff.

Nid yw'n deg barnu'r cynhyrchiad ar sail ei sgript, ond credaf ei bod yn gymwys dweud wedi gweld y diffyg defnydd o saethiadau camera gwahanol yng nghyfarwyddiadau'r sgript, na wnaethpwyd cyfiawnder â gwaith Elwyn Jones na Saunders Lewis.

Bu'n rhaid aros tan 29 Chwefror 1968, cyn cael profi Brad ar y teledu yn y Gymraeg, pan y'i cyflwynwyd fel y cynhyrchiad Gŵyl Ddewi. I gyd-fynd â'r telediad, gosodwyd cystadleuaeth yn Eisteddfod Genedlaethol Y Barri y flwyddyn honno i adolygu'r rhaglen - prawf o boblogrwydd y ddrama (a oedd hefyd yn llyfr gosod yn y cwricwlwm Lefel 'A').³⁰

Roedd cryn awchu am gael gweld y cynhyrchiad hwn, gan i'r ffilmio greu cryn gynnwrf yn y brifddinas - fel yr eglurodd Cymro:

Visitors to Cardiff on a recent Sunday morning could be forgiven for thinking that they were in Germany, for the vicinity of the Civic Centre had swastikas fluttering in the breeze, a picture of Hitler hanging outside the rates department, S.S. guards posted outside the City Hall, and German roadsigns including **Parkieren Verboten**.³¹

- arwydd calonogol am ogyfeydd allanol proffesiynol yr olwg yn y telediad.

Yn anffodus, nid felly y bu hi. Siomedig yn fy marn i oedd y digwydd y tu allan i'r swyddfa, gan nad oedd goleuo digonol wedi ei ddefnyddio ar ei gyfer - camgymeriad oedd ffilmio mewn tywyllwch gan nad oes dim i'w weld ar y sgrîn ddu a gwyn ond moduron a chysgodion anhysbys.

Mae'n dda cael datgan nad yw'r golygfeydd hyn yn adlewyrchiad o weddill y cynhyrchiad. Addas yw'r setiau mewnol sy'n dangos swyddfa

Llywodraethwr Milwrol Ffrainc a'r *chateau* yn La Roche-Guyon, Normandi, gyda'r celfi yn addas fawreddog.

Roeddwn yn disgwyl cael blas ar y cyflwyniad hwn o sgrïpt Saunders Lewis. Unwaith eto cefais fy siomi â'r dehongliad, ac er fod George P. Owen wrth gynhyrchu wedi dewis cadw at y sgrïpt wreiddiol, ni ellais adnabod fawr ddim o ddeialog Lewis. Wrth adolygu'r ffilm ym 1985 pan gafodd ei hail-ddarlledu, sylwodd Meinir P. Jones fod:

....y sain yn anfoddhaol ar brydiau oherwydd
safle'r meiciau....³²

ond elfen fechan oedd hon o'i chymharu ag anallu rhai o'r perfformwyr i ddysgu eu rhannau. Methais â dilyn rhai o areithiau'r swyddogion oherwydd eu bod yn siarad yn rhy gyflym o'r hanner, a phe na byddwn yn gyfarwydd â'r testun, anodd fyddai dilyn rhediad y ddrama. Mewn un achos yn yr act gyntaf, gwelwn Brinley Jenkins yn rhan Stuelpnagel yn darllen ei linellau oddi ar ddarn o bapur o'i flaen tra'n siarad ar y ffôn - enghraifft o ddiogi a diffyg parch at y ddrama ar ei ran.

Fel y dywedodd Meinir P. Jones, nid oedd y microffonau yn symud gyda'r actorion i ddal y cyfan o'u sgwrs, a chredaf hefyd nad oedd digon ohonynt ar ddefnydd yn y cyflwyniad - ai camfarn ar ran y criw technegol ynteu ariannu annigonol oedd yn gyfrifol am hyn tybed? Pa reswm bynnag, ni ellir newid y ffaith i hyn gyfrannu'n hael at fethiant y cynhyrchiad i gyflwyno geiriau Saunders Lewis ar y sgrîn deledu. Ni hoffais ychwaith y cyfnodau meithion o ddistawrwydd diangen, yn enwedig yng nghychwyn y ddrama - byddai sŵn ceir, pobl yn sgwrsio ar y stryd neu filwyr yn martsio heibio wedi bod yn well cefndir i'r digwydd.

O safbwynt gweledol hefyd, siomedig yw'r cynhyrchiad hwn o Brad. Nid yw'n ddrama 'lle gellir ychwanegu llawer o ddigwydd, ond serch hyn, statig tu hwnt oedd y cynhyrchiad. Mae'n rhaid canmol gwŷr y camera am geisio defnyddio amrywiaeth o saethiadau, ond gan fod y cymeriadau yn eistedd neu yn sefyll yn eu hunfan drwy gydol y ddrama, y canlyniad yw rhaglen deledu statig a

diflas i'r llygad. Defnyddir ambell dechneg megis rhyngdorri i ddangos Albrecht yn dringo'r grisiau i ystafell y Llywodraethwr Milwrol tra mae Stuelpnagel a Hofacker yno yn cynllwynio, a moduron yn gwibio heibio rhwng golygfeydd, ond ni lwyddwyd i ysgafnhau'r naws yn ddigonol.

Teimlaf yng nghanol y diffygion technegol mai'r actorion sydd yn bennaf gyfrifol am hynny o lwyddiant a fu i'r telediad. Y mae Philip Madoc yn arbennig yn rhan Albrecht mewn ffordd annisgwyl - ni chawn awdurdod amlwg gan y Natsi; yn hytrach rhyw fath o gyfrwyster mileinig a â o dan groen y gwyliwr. Mae rhywbeth bron yn ferchetaidd ynddo ar brydiau, sydd yn ein hanesmwytho ymhellach; ond anghytuno a wna Jones:

Er cystal actor yw Philip Madoc.....dydi o ddim yn gartrefol yn llefaru yn Gymraeg ac yn fy marn i roedd o'n ormod o bishyn i gymryd rhan Albrecht, oedd yn fochyn fflaidd o ddyn.³³

- mewn ffordd, credaf mai ei anesmwythyd yn yr iaith a'i ffordd chwithig o siarad sy'n gyfrifol am wneud i mi gredu ynddo fel Natsi, ac o ganlyniad, ei neilltuo oddi wrth y gweddill o'r swyddogion a'u Cymraeg rhugl. Mae edrychiad Madoc hefyd yn allweddol - gan ei fod yn debycach i dedi bêr nag i swyddog o Natsi, a'i sbectol fach gron yn gwneud iddo edrych yn ieuengach na'i oed, mae'n ysgogi'r teimlad yn y gynulleidfa fod yn rhaid i'w bersonoliaeth fod gymaint â hynny'n ffeiddiach er mwyn cyfiawnhau yr enw drwg a roddwyd iddo.

Yn yr un modd, mae Lindsay Evans yn addas ei ymddangosiad i gymeriad Hofacker. Nid yw Evans yn ymddangos yn ŵr gwyllt na byrbwyll, ac mae ei bortread o'r swyddog penderfynol yn gadarn ac effeithiol. Gwelwn hyn yn arbennig wrth iddo geisio dwyn perswâd ar Kluge ei bod yn angenrheidiol mynd ymlaen â'r *coup* er fod Hitler yn fyw; ac yn ei gyfarfyddiadau ag Albrecht nid oes amheuaeth mai ef yw'r cryfaf ei gymeriad, ac y byddai wedi llwyddo yn ei fwriad pe byddai wedi cael cefnogaeth ei gyd-swyddogion yn erbyn y Führer.

Cymeriad arall a gafodd driniaeth addas yn y cynhyrchiad hwn yw Linstow. Wedi iddo chwarae rhan Halder yn 1938 gydag awdurdod chwerthinllyd, nid oeddwn yn disgwyl cystal perfformiad gan Islwyn Morris; ond roedd y bywiogrwydd a'r egni a roddodd i Linstow yn ganmoladwy iawn. Mae Linstow yn wahanol i'r gweddill o swyddogion y ddrama yn ei fyrbwylledd a'i barodrwydd i ddangos ei deimladau, ac mae dehongliad Morris o'r rhan yn ysgafnhau'r digwydd - wedi trafodaeth hir yr Iarlles a Hofacker am y digwyddiadau a'u perthynas yn niwedd yr act gyntaf, ac ymddangosiad Albrecht cyn hynny, mae Linstow yn ychwanegiad llawn cyffro, a Morris yn ei ran yn chwerthin a symud yn gyflymach nag unrhyw actor arall yn y cynhyrchiad ac am y tro cyntaf yn y rhaglen, yn rhoi ffocws pendant i lygad y gwylwr.

Ni allaf farnu gweddill y cast ond datgan eu bod yn gymwys iawn i'r rhannau. Ni chafwyd sbarc gan Brinley Jenkins, Dilwyn Owen na Conrad Evans - ond bu i mi gredu ynddynt fel swyddogion serch hynny. Bu i mi sylwi ambell waith yn ystod y cynhyrchiad fod yn y perfformwyr duedd ar brydiau i or-actio, megis codi o gadair yn rhy araf, fwriadol, a gwelwyd saethiadau agos o wynebaw yn llawn ffug-sylweddoliad, ond ni chredaf i hyn amharu ar fwynhad y gynulleidfa deledu o'r ddrama.

Dywed Saunders Lewis yn ei ragair i Brad fod drama heb ferch ynddi yn un ddiflas, ond credaf y byddai'r cynhyrchiad hwn heb Gwenyth Petty ynddo yn mawr ragori ar yr hyn a ddarlledwyd. Ni chawn ganddi yn rhan yr Iarlles ddim emosiwn credadwy yn ei deialogau â Hofacker, a phreinaidd tu hwnt yw'r gweddill o'i chyfraniad i'r telediad. Mae'n ceisio ymddwyn fel swyddog yn lle gwraig fonheddig, mae'n defnyddio symudiadau pendant, robotig a wna iddi ymddangos yn ddifater yn lle'n ffyrnig gefnogol i'r cais ar fywyd Hitler. Er iddi fod yn oeraidd tuag at ei chariad, gwelwn hi'n fflyrtio gydag Albrecht gan ddefnyddio ei chorff i adlewyrchu hyn. Pan ddaw'r Natsi i swyddfa Stuelpnagel i fargeinio am fywyd Hofacker, mae'r Iarlles yn gwenu arno (ni wenodd ar Hofacker) ac wrth iddo bwyso'i freichiau ar gadair o'i flaen, â hithau i eistedd yn y gadair honno, rhwng ei freichiau. Mae felly mwy neu lai yn ei rhoi ei hun iddo yn y fan a'r lle - tybed ai bwriad Petty yn y rhan hon oedd awgrymu mai Else a'i

rhoddodd ei hun o'i gwirfodd i Albrecht yn hytrach na'i fod ef yn gofyn am y pleser? Beth bynnag am hynny, taro'n ffals a wnaeth yr olygfa i mi.

Teimladau cymysg sydd gennyf am y cynhyrchiad hwn yn gyffredinol - roedd yn dechnegol wallus gan i'r diffyg sain ar brydiau amharu ar fy mwynhad o'r ddrama, ond ar y llaw arall, bu i mi fwynhau'r rhan helaethaf o'r actio. Roedd yn gyflwyniad teg o ddrama Saunders Lewis yng nghyfnod ei gynhyrchu; ac yn y telediad cyntaf hwn o Brad yn y Gymraeg, mae gwaith George P. Owen yn haeddu pob clod.

Nid oes amheuaeth fod y cynhyrchiad diweddaraf o Brad ymhlith y rhaglenni gorau i gael eu cynhyrchu ar ôl sefydlu S4C; er na ellir galw'r ffilm yn gyflwyniad o ddrama gyflawn Saunders Lewis. Yn hytrach, ceir ynddi ffrwyth ymchwil trylwyr Harri Pritchard Jones i'r cyfnod rhwng 1934 a 1944; hyn yn fframio golygfeydd allweddol 1938 a Brad yn gelfydd.

Ceisiodd yr addaswr lenwi'r bwlch rhwng y ddwy ddrama gan egluro'r cymhelliad y tu ôl i weithred Claus von Stauffenberg drwy ddangos Hitler a'r dinistr a achosodd wedi ymddiswyddiad Beck yn 1938. Meddai Ioan Williams yn Barn am waith Jones:

Penderfynodd drin y testun gwreiddiol yn eofn, ac eto gyda chryn barch tuag at feddwl yr awdur.....Ychwanegodd hefyd ddeunydd ffilm newyddion o'r cyfnod a deunydd dychmygus newydd yr oedd wedi ei ysgrifennu ar sail yr union lyfrau a ddefnyddiodd Saunders Lewis ei hun wrth ysgrifennu Brad, ac yn neilltuol Conspiracy of Generals, Wilhelm von Schramm.³⁴

Credaf i'w waith fod yn llwyddiant, yn troi drama adnabyddus yn groniel cynhwysfawr o hanes yr Almaen hanner can mlynedd ynghynt. Wrth gyfansoddi'r ddrama, creodd Saunders Lewis gymeriadau ychwanegol i wneud yr hanes yn fwy addas ar gyfer ei ddramateiddio; gwnaeth Harri Pritchard Jones yr un peth wrth ei haddasu. Ceir llawer mwy o swyddogion y *Corps* yma; yn bwysicach cawn weld y prif gynllwyniwr ei hun, Claus von Stauffenberg. Eglura Jones:

Ar lwyfan mi all cymeriad ddeud bod hwn-a-hwn wedi mynd i weld Hitler, neu bod rhywun arall wedi cael damwain.....ond mewn ffilm mae'n rhaid dangos y digwyddiadau hynny.³⁵

Gellir honni mai cymhlethu'r digwydd y mae'r ychwanegiadau, ac i un nad yw'n gyfarwydd â'r hanes na'r ddrama wreiddiol, mae'n debyg fod hyn yn wir; ond teimlais i fod galw am bopeth a gynhwyswyd er yr amharwyd ar ystwythder rhediad y rhaglen gan nad oedd digon o amser i lawn fyfyrto a manteisio ar yr holl fanylder.

O gofio mai ffilm yn seiliedig ar Brad yn hytrach nag addasiad ohoni yw hon, mae'n syndod clywed geiriau Saunders Lewis yn disgyn i'w lle mor daclus yng nghanol y ddeialog newydd. Llwyddodd Jones i efelychu arddull y dramodydd yn ddi-drafferth, a chyflwyno i ni sgript lyfn o'r briodas lenyddol.

Rhaid canmol rhan Gareth Wynn Jones yng nghynhyrchu'r ffilm; er nad oedd cymaint o sgôp iddo ef yn ôl Ioan Williams ag a welir fel arfer mewn cynhyrchiad o'r fath gan mor fanwl oedd yr addasiad. Eglura:

Ni ellid dweud nad oedd gweledigaeth y tu ôl i'r cyfan, chwaith, ond nid gweledigaeth cyfarwyddwr mohoni. Nid adawodd sgript Harri Pritchard Jones lawer o ryddid i'r cyfarwyddwr ddylanwadu ar rythm a chyflymdra'r perfformiad cyfan. Gallasai fod Gareth Wynn Jones yn rhydd i benderfynu ar y berthynas rhwng gwahanol elfennau y tu mewn i'r episodau, ond nid o du mewn i'r episodau hyn y daeth ystyr ac arwyddocâd y cyfan ond o'r berthynas rhyngddynt.³⁶

Yn y cyffyrddiadau bychain y gwelwn law Wynn Jones - amseru'r golygfeydd unigol, lleoliad y cymeriadau ar y set ac agweddau'r cymeriadau at ei gilydd - yr elfennau hynny sy'n gwneud y cynhyrchiad yn hawdd i'w wyllo.

Wrth wyllo'r ffilm, fy argraff gyntaf ohoni oedd ei phroffesiynoldeb. Yn union fel cynhyrchiadau dramatig y B.B.C. yn Saesneg, mae'r ystafelloedd yma

yn gredadwy, a'r celfi oll yn addas tu hwnt. Mae cyferbyniad llwyr yma â'r mwyafrif o'r cynhyrchiadau teledu o waith Saunders Lewis lle y defnyddir set a chelfi syml. Mae cynhyrchiad 1968 o Brad yn esiampl gymwys - ni welwn silffoedd llyfrau gorlawn na saethiadau hir o swyddfeydd y swyddogion, ac er mor gelfydd y peintiwyd yr olygfa drwy ffenestr y set, byddai'n well defnyddio lleoliad go iawn neu ddim o gwbl. Yma ar y llaw arall, mae moethusrwydd yr ystafelloedd oll yn drawiadol, gyda lliwiau coch yr addurniadau yn rhoi argraff i ni o gyfoeth yr Almaen o dan Hitler - argraff sy'n ein sobri heddiw ymysg sôn am aur yr Iddewon a ysbeiliwyd gan y Natsiaid yn ystod ei deyrnasiad.

Mae'r gerddoriaeth hefyd yn addas - mor addas fel bod yn rhaid craffu i'w chlywed weithiau gan mor dda y mae'n toddi i'r cefndir. Defnyddir llawer o ddiscordiau drwy'r cynhyrchiad sy'n arwydd effeithiol, ac arferol, o densiwn a gwrthdaro. Defnyddir emyn yn ganolbwynt i'r ffilm - yn cael ei chanu gan Cefin Roberts yn rhan Hofacker, gyda chyfeiliant ar y piano gan yr Iarlles. Erbyn clo'r ddrama, ystyriwn y melodi hyfryd a'r geiriau tyner fel symbol o gariad y ddau; a'u cariad tuag at yr Almaen - thema briodol i'r cynhyrchiad.

Yn yr un modd, mae gwisgodd milwrol y cymeriadau yn drawiadol - ni wn a yw'r manylion arnynt yn ffeithiol gywir; megis y medalau rhyfel ar frestiau'r swyddogion; ond bu iddynt roi'r argraff gywir i'r gwylwr. Cyn cwblhau'r ffilmio hyd yn oed, roedd cynnwrf yn eu cylch, fel yr eglurodd y cyfarwyddwr yn Sbec / TV Wales:

Ar strydoedd Lerpwl, lle saethwyd rhannau helaeth o'r ddrama, roedd gweld y *swastika* ar freichiau'r actorion ac ar draws y baneri yn ddigon i godi arswyd ar hen drigolion y ddinas. "Roedd yn rhaid ymddiheuro ac esbonio yn garedig," medd y cyfarwyddwr Gareth Wynn Jones, "ond roedd yn gwneud i ni werthfawrogi pa mor ddwfn oedd teimladau'r bobol yma, ac yn sgîl hynny yn gwneud i ni ystyried pa mor bwysig oedd hi i ddod â'r ddrama â'i phwnc at gynulleidfa newydd".³⁷

Gwelwyd yma foduron, arfau a thanciau real tu hwnt; a'r elfennau oll yn pwysleisio erchyllter y cyfnod a bregusrwydd sefyllfa Ewrop. I mi, mae hyn yn arwydd o safon y cynhyrchiad a medrusrwydd y cynllunio; ond i rai sy'n cofio'r rhyfel, mae'n debyg mai ias o arswyd a deimlir wrth gael eu hatgoffa.

Mae naws y cynhyrchiad hefyd yn real, a'r rheswm pennaf am hyn yw'r nifer fawr o actorion cefndir a ddefnyddir. Gwelwn fod golygfeydd torfol fel hyn ar goll o ormod o ddramâu teledu Cymraeg; a hyn sy'n eu gwahaniaethu oddi wrth gynnyrch dramatig Saesneg. Rhydd y rhain broffesiynoldeb i'r cynhyrchiad, gan wneud i'r gynulleidfa gredu fod y cymeriadau yn rhan o gymdeithas ehangach na phersonau'r ddrama.

Mae'r golygfeydd allanol a ddefnyddir yn gymorth i roi'r ddrama yn ei chyd-destun priodol. Yn ogystal â golygfeydd o strydoedd Berlin a Pharis, cawn weld cefn gwlad yn gefndir i beth o'r trais. Gwelwn ddarlun hyfryd o lan yr afon Seine yn dawel a digynnwrf, ond yn y cefndir, miwsig sydd ar un llaw yn ysgafn ond â discordiau fel arwydd nad yw popeth yn dda. Defnyddir yr un math o dirlun yn gefndir i gais Stuelpnagel ar ei fywyd ei hun, ac ymddengys y weithred yn fwy arswydus o'r herwydd. Pe byddai yn ei swyddfa ym Mharis, byddai'r gynulleidfa yn hanner disgwyl gweithred o'r fath - mae'r cynllwyn yn cael ei gysylltu â chyfarfodydd cudd yn ystafelloedd tywyll Paris a Berlin, a dyna sy'n gwneud i'r cynhyrchiad hwn wyro oddi wrth ffilmiau eraill o'r un natur. Ceir yr un hanes yn y cynhyrchiad Americanaidd A Plot To Kill Hitler, ond ni chawn y fath amrywiaeth golygfeydd, ac mae i'r ffilm honno naws dywyll, sinistr sy'n rhoi'r darlun arferol o beth a ddigwyddodd.

Cychwyn Brad gyda swyddogion y *Corps* yn tyngu eu llw i Hitler cyn digwyddiadau 1938. Mae digon o sôn yn y ddwy ddrama am y llw, a chredaf ei bod yn gymwys dechrau'r hanes yn y fan hon; mae gweld y swyddogion oll mewn rhes yn ddull penigamp o gyflwyno'r cymeriadau i'r gynulleidfa. Clywn sôn traed Hitler cyn ei weld yn gwylio'r swyddogion - dyfais effeithiol i ddangos ei fod yn fygythiad cudd.

Sefydli'r cefndir hanesyddol a threigl amser yn gymwys gyda ffilm newyddion du a gwyn rhwng y prif olygfeydd bob hyn a hyn drwy'r digwydd. Gwelwn sut y bu i'r gefnogaeth i Hitler dyfu, a datblygiad ei daith dreisiol drwy

Ewrop. Ceir enw'r lleoliad a'r dyddiad ar y sgrîn i gydfynd â holl sefyllfaoedd y cynhyrchiad, yn ogystal â phob un o'r clipiau hyn; mantais i'r gwyliwr a'r sawl nad ydynt yn gyfarwydd â'r dramâu, gan fod y cynhyrchiad yn delio â'r digwyddiadau yn y drefn amseryddol gywir - er enghraifft, cawn wyth o ddarnau du a gwyn rhwng 30 Medi 1938 a 31 Mehefin 1941 i ddangos beth sydd wedi digwydd rhwng yr olygfa flaenorol a'r un nesaf.

Credaf fod hyn yn rhoi dilyniant cryf i'r cynhyrchiad, ac er nad ydyw'r technegau yn rhoi fawr o le i ddychymyg y cyfarwyddwr, mae'n ganllaw effeithiol i'r gwyliwr. Nid dyma farn Ioan Williams wrth adolygu - cred y dylai'r gwyliwr gael rhyddid i archwilio'r ddrama ar ei liwt ei hun. Eglura:

.....caiff [y gwyliwr] ei lethu â manylion lu,
pob un yn berthnasol i'r rhai sydd wedi
darllen y ffynonellau i gyd, ond heb fod wedi
eu trefnu mewn modd sy'n ddealladwy yn
weledol.³⁸

Pe byddai'r cynhyrchiad yn gyflwyniad neu'n addasiad o Brad byddwn yn tueddu i gytuno ag ef, ond gan fod Harri Pritchard Jones wedi pwysleisio mai seiliedig yn unig ar y ddrama ydyw'r ffilm hon, mae'n rhaid ei hystyried fel dramateiddiad o'r digwyddiad hanesyddol. Yn hyn o beth, credaf fod Jones yn iawn i geisio dilyn llwybr hanes; felly'n cyfyngu'r gwyliwr i'r llwybr ffeithiol yn hytrach na'r un dychmygol.

Er fod 1938 wedi ei chyfansoddi ymhell ar ôl Brad, mae uno'r ddwy yn gam naturiol. Gwnaethpwyd hyn gyda chymorth golygfeydd ychwanegol megis priodas Else â'r milwr Frederick. Mewn ychydig eiliadau o ffilm, llwyddodd Jones i gyflwyno i ni'r Iarles, ei sefyllfa gymdeithasol a'i barn; yn ogystal ag edmygedd Stauffenberg a Hofacker ohoni; a dangos i ni darddiad syniad y *coup*. Ar yr ochr arall o'r geiniog, gwelwn Hitler yn dawnsio a chwerthin gydag Eva Braun, gan adael i ni brofi ei ddiawledigrwydd a sylweddoli angen y swyddogion am gael ei wared.

Un o'r rhesymau am i Kluge wrthod ymuno â Hofacker a Stuelpnagel i weithredu'r *coup* wedi darganfod fod y bom wedi methu oedd ei ddyled ariannol



Cynllwyn y cadfrigon

i'r Führrer. Tynnir sylw at hyn yn y cynhyrchiad drwy ddangos cynulliad yn ei gartref ar ddiwrnod ei benblwydd, pan dderbynia'r siec mewn cerdyn gan Hitler. Mae Frau Kluge yn sylwi na all feddwl am ymddeol o'r fyddin am beth amser bellach gan gymaint ei ddyled i'r unben; a dyma sefydlu'r swyddog yn llygaid y gynulleidfa fel un o ddilynwyr Hitler.

Mae Harri Pritchard Jones yn ei sgript yn canolbwyntio cryn dipyn ar berthynas Hofacker â'r Iarll. Cyffyrddiad medrus oedd dangos ei edmygedd tuag ati flynyddoedd cyn y cynllwyn, ac effeithiol hefyd yw'r golygfeydd tyner ohonynt yn yr ystafell wely. Gwelwn y cariad rhyngddynt, a llwyddwyd i awgrymu nad uniad corfforol yn unig yw eu perthynas - bod y ddau ohonynt wedi uno yn eu syniadau gwleidyddol a moesol. Yn gyferbyniad llwyr, ychwanegwyd golygfeydd o Albrecht yn ei buteindy arferol, yn ymddangos fel petai yn hen ffrindiau â'r fadam yno. Cawn ei weld yn y gwely ag Yvette; ei hedrychiad yn wrthwynebiad llwyr i'r Iarll; yn yfed siampaen. Mae'r gwahaniaeth rhwng y ddwy berthynas yn cael ei egluro mewn ychydig eiriau pan ofyn y ferch i Albrecht pwy oedd yr arwr yr oedd yn sôn amdano - y ddau yn rhannu gwely a hithau'n gwybod dim am ei ddaliadau a'i gredoau. Syniad da oedd peidio â dangos Else a Hofacker yn caru yn y gwely gan y byddai hyn wedi dibrisio eu serch.

Mewn rhaglen deledu, rhaid yw dangos popeth sy'n berthnasol i'r digwydd, felly cawn yma weld rhan Stauffenberg yn y cynllwyn. Dengys Pritchard Jones i ni sut y bu iddo golli ei lygad a'i law wrth ymladd, a chawn brofi ei gyfeillgarwch â Hofacker a Beck. Mae hyn yn fwy ffyddlon i'r hanes nag i'r ddrama - dywed Saunders Lewis mai cyfaill mynwesol i Linstow oedd Claus Stauffenberg, ond mewn gwirionedd, Hofacker oedd agosaf ato (gwnaeth Lewis y newid hwn i allu canolbwyntio sylw Hofacker y ddrama ar Else ac Albrecht). Rhoddir ychydig o gefndir a phersonoliaeth Stauffenberg i ni gan Pritchard Jones - gwelwn ef yn ymweld â'i offeiriad cyn gosod y bom i geisio maddeuant ymlaen llaw gan Dduw am ei weithred. Tybed a oedd disgrifiad Branwen Jarvis o'i gyfaill yn "Llythyr gan Caisar von Hofacker" (Taliesin 40) yn srydoliaeth i hyn? Gwyddom fod y ddau yn agos, tebyg yw eu bod ill dau yn meddwl am eu Duw yn yr un modd.

I greu ffilm gyffrous i'r gynulleidfa, roedd yn rhaid cynnwys y ffrwydriad yng Ngwâl y Blaidd, a'r cyfarfod o'i flaen. Gwnaed hyn yn grefftus, gyda Gareth Wynn Jones yn llwyddo i greu tensiwn wrth ddilyn symudiadau Stauffenberg gan ei wyllo yn cyrraedd y pencadlys, paratoi am y cyfarfod a chlywed am y newid yn yr amserlen, rhoi'r bom yn ei fag a thorri'r ffiws gyda'i law anghyflawn cyn ei roi wrth draed Hitler. Rydym yn ei ddilyn wrth iddo ei esgusodi ei hun o'r caban a gwyllo'r ffrwydrad cyn ffoi am Berlin.

Dangosir popeth yma yn hanesyddol gywir, ond mae'r ffrwydriad ei hun yn codi cwestiynau. Gwelwn fwg a fflamau yn tasgu o'r ffenestri agored, a hawdd yw credu na fyddai'n bosibl i neb ddianc yn fyw o'r ystafell. Ar y llaw arall, disgwyliwn weld dodrefn, papurau a darnau o'r waliau yn dod allan o'r ffenestri gyda'i rym, ond roedd y cwt yn sefyll. Oedd, roedd y ffrwydrad yn drawiadol iawn, ond tybed a oedd mewn gwirionedd mor ffantastig ag y portrewyd yma?

Wedi'r ffrwydriad, daw'r ffilm yn ôl at Brad Saunders Lewis; yr unig wahaniaeth yw cael gwared o'r teliffon fel canolbwynt i'r golygfeydd yn swyddfa Stuelpnagel i raddau helaeth a dangos i ni ddigwyddiadau Berlin. O ganlyniad i hyn, yr ydym yn fwy tosturiol tuag at y cymeriadau ym Mharis gan ein bod yn gwybod nad yw'r llwyddiant y maent yn gobeithio mor daer andano yn bosibl.

Credaf fod y golygfeydd ychwanegol hyn yn llwyddiant - er fod llawer o'r tensiwn a'r cyfle i'r gwyliwr ddefnyddio ei ddychymyg wedi ei golli, mae trueni sefyllfa'r swyddogion yn cael ei amlygu; a throir hanes y cais ar fywyd Hitler yn un o drasiedïau'r ugeinfed ganrif.

Mae cymeriadau Saunders Lewis yn rhai cryf, lliwgar, a chredaf i'r actorion yn y cynhyrchiad hwn wneud cyfiawnder â hwy. Gwelwn ym mhortread Cefin Roberts o Hofacker y cadernid tawel yr oeddem yn ei ddisgwyl. Mae ei gasineb at y Natsiaid yn amlwg yn yr edrychiadau dirmygus y mae'n eu hanelu at Albrecht, a'r ffordd y mae'n troi ei gorff oddi wrtho fel petai'n ceisio ei arbed ei hun rhag aflendid. Ar y llaw arall, mae'n amyneddgar a pharod i wrando ar resymau Kluge dros gefnogi Hitler, er ei fod yn ceisio ei gael i newid ei feddwl. Mae gwahaniaeth pendant rhwng ei ymddygiad gydag Else a'i agwedd

at ei waith - er fod y ddau mor agos, y mae ef yn gweithio i gadw rhyw bellter rhyngddynt, yn adlewyrchiad o'i gais fod Else i anghofio am eu cariad. Gwelwn yn Cefin Roberts frwydr fewnol Hofacker i wneud yr un modd, brwydr a fu'n fethiant gan i fargen yr Iarllles ag Albrecht ei frifo i'r fath raddau.

Ni chawn, yn rhyfedd ddigon, yr un tynerwch gan Mari Rowland Huws yn rhan Else, ond nid yw hyn yn anfantais yn ei phortread. Gwelwn hi fel gweddw sydd wedi caledu rhywfaint i'r syniad o gariad a byw'n gytun, ond sydd wedi meddalu tuag at Hofacker heb iddi ychwaith anghofio am ei diweddar ŵr. Nid oes arwydd i'w gael ganddi o'u perthynas pan yng nghwmni eraill, ond nid gwadu Hofacker y mae - dengys Huws fod Else'n ferch aeddfed a chref sy'n sylweddoli y byddai dod â'u perthynas i'r agored yn tanseilio enw da ei chariad yn y fyddin. Gwelwn hyn yn ei sgwrs ag Albrecht - pan yw hi'n darganfod fod y Natsi yn gwybod am y garwriaeth, mae'n edrych arno yn bowld a datgan ei bod yn caru Hofacker â'i holl enaid. Golygaf wrth ddiffyg tynerwch ar ei rhan bresenoldeb emosiwn amlwg - mae'r Else a gawn yma yn urddasol a chref yn nhraddodiad merched Saunders Lewis.

Nid oes dim urddasol yn Albrecht y cynhyrchiad - cymeriad gwirioneddol gas a gawn gan Robin Griffith yn ei ran. Mae ei edrychiad yn ffactor gref yn hyn - y pen moel a'r mwstas bychan, y llygaid bychain a'r gwefusau main - ymddengys fod yr actor hwn wedi ei eni i chwarae cymeriadau milain. Edrycha fel dyn a fyddai'n dreisiol mewn perthynas, boed yn rhywiol neu beidio, a dyma sy'n gwneud jôc Else am uffern ei wely yn frawychus o gredadwy. Rhaid rhoi'r ganmoliaeth uchaf i Griffith am greu cymeriad mor arswydus, ac fel Philip Madoc ym 1968, rhydd ddarlun creulon o Natsiaeth sydd, yn anffodus, yn adlewyrchiad teg o fyddin Hitler yng nghyfnod 1938 a Brad.

Mae Lindsay Evans yn rhan Stuelpnagel yn rhoi portread llawn cystal, mae ei berfformiad yn gymwys tu hwnt, gan roi i ni ddarlun o'r Llywodraethwr Milwrol nad yw'n siwr o'r ffordd iawn i droi. Mae'n gadael i Hofacker ei dywys ar brydiau, ac mae'r Iarllles yn feistres arno hefyd; ond mantais yw hyn i'r cynhyrchiad yn ei gyfanrwydd gan y byddai gormod o gymeriadau cryf yn taflu pwyslais y ddrama oddi wrth Hofacker, ei garwriaeth a'i bendantrwydd fod yn rhaid i Hitler farw.

Tawel ei natur yw Beck y cynhyrchiad, a gaiff ei chwarae gan Noel Williams. Gwelwn ef yn ymddiswyddo yn nechrau'r ffilm, ac erbyn cyffro'r *coup* gwelwn ef fel hen ddyn sydd wedi gwneud ei ran ac yn aros am gael ymddeol. Serch hyn, mae ei gadernid yn amlwg, ynghyd â'i awydd i fod o gymorth i'r to newydd. Dengys Williams ef fel rhywun sydd yn barod i gynnig cyngor a help llaw os bydd angen, ond a fyddai'n cadw'n glir pe na byddai neb ar ei ofyn.

Pengaled yw Kluge J.O.Roberts, yn driw i gymeriad Saunders Lewis; cawn berfformiad cadarn a phendant ganddo, fel sy'n wir am yr actorion eraill yn rhannau'r swyddogion llai amlwg. Ni ellir dweud i'r un cymeriad ymddangos yn fethiant ar y sgrîn, ond cefais fy siomi i raddau â pherfformiad Huw Tudor yn rhan Linstow. O ddarllen ei ran yn Brad, cefais yr argraff o ddyn byrbwyll, cryf, a oedd tua'r un oed â Stauffenberg, ond wedi methu â dringo i'r un safle ag ef oherwydd ei ddiffyg amynedd a'i awydd i ddweud ei farn yn blwmp ac yn blaen. Yma, gwelwn ŵr gwan, ychydig yn ferchetaidd, i'w weld yn dilyn y dorf yn ei awydd i weld Hitler yn farw. Dychmygwn fod Stauffenberg yn eilun iddo, ac ni ŵyr yn union beth i'w wneud ar ôl clywed am ei ddienyddiad. Hoffais yr olygfa yn y ddrama wreiddiol ble y daw i swyddfa Stuelpnagel wedi pasio'r gard ar y grisiau yn galw "Heil Hitler" - credaf ei fod yn ychwanegu dogyn angenrheidiol o hiwmor i'r digwydd - ond yma, ni chefais yr un adwaith. Nid oes digon o fynd yn y Linstow hwn, ac yn anffodus, amharodd ar fy mwynhâd o'r cynhyrchiad.

Ychwanegodd Harri Pritchard Jones gymeriadau eraill i'r digwydd, yn bennaf Stauffenberg, a chwaraeir gan Dafydd Emyr. Cawsom ganddo bortread gwefreiddiol o'r swyddog ifanc penderfynol, ac roedd ei ddewrder yn amlwg drwy gydol y ffilm; i'r diwedd pan y mae'n cael ei gipio i'w ladd gan y Gestapo. Nid yn unig y disgrifiad a gawn gan Lewis ohono yn Brad sydd yma, ond portread hanesyddol ffeithiol o'r swyddog galluog.

Yn yr un modd, mae Hitler ei hun yn gymeriad yma, ac mae Dyfan Roberts yntau yn cyflwyno perfformiad ag ôl ymchwil trwyadl arno. Bu i'r actor dawnus wyllo oriau o ffilm o'r teyrn mewn ymgais i'w ddynwared; meddai yn Sbec/TV Wales:

Roedd yn rhaid i mi drïo dangos pam oedd o'n cael ei gyflyru i wneud beth wnaeth o, dangos beth oedd yn y wên, neu yn fwya' arbennig beth oedd ddim yn y wên.....Fel yr oedd y wyneb yn datblygu [gyda cholur], fe yrrodd iâs oer i lawr fy nghefn. Yn ystod y saethu, roedd y teimlad yna yn aros gyda rhywun, fel rhyw ysbryd cas yn hongian o gwmpas.³⁹

Mae'n rhaid dweud i'r ymchwil dalu ar ei ganfed, gan fod ei bortread yn gwneud i ni fel gwylwyr yn y nawdegau sylweddoli yn union pam yr oedd *Corps* y Swyddogion mor benderfynol o gael gwared o'r teyrn. Mae'r golygfeydd lle y mae'n gwylltio gyda'i swyddogion yn drawiadol ac ysgytwol, fel y llun ohono'n mwytho ei gi tra'n tyngu y bydd i'r cynllwynwyr ddial am eu gweithred. Gallodd Roberts wneud i weithred seml fel mwytho anifail anwes ymddangos yn fygythiol, ac awgrymu ei fod yn ystyried y ci'n bwysicach na bywyd y swyddogion. Fel cyferbyniad, di-ddim oedd Yoland Williams yn rhan Rommel; ond mae'n rhaid cyfaddef mai yng nghwmni Hitler y'i gwelwn ar y sgrîn, a'i fod, fel y disgwyl, yn cowtowio i'w arweinydd rhag ei wylltio.

Gellir cymharu'r cynhyrchiad hwn â ffilm Americanaidd a gafodd ei chynhyrchu ym 1991 am yr un hanes: The Plot To Kill Hitler. Nid oedd yr un pwyslais i'r ddau gynhyrchiad gan fod Saunders Lewis wedi gosod y mwyafrif o'i olygfeydd ym Mharis, ond wedi dweud hyn, yr un yw'r digwyddiadau.

Claus von Stauffenberg yw canolbwynt y digwydd yma, ac ychydig yn gamarweiniol efallai, awgrymir mai ef yn unig oedd yn gyfrifol am y syniad o ladd Hitler. Mae rôl eraill yn y cynllwyn yn cael ei hanwybyddu gan wneud Stauffenberg yn fath o 'arwr y genedl'. Er fod y cynhyrchydd yn honni fod y digwydd yn seiliedig ar stori wir, ni chawn ddarlun teg o'r digwyddiadau cyn ac ar ôl 20 Gorffennaf 1944. Gwelwn yn y ffilm hon ei wraig a'i blant yn hiraethu amdano, a rhamanteiddir ei farwolaeth er mwyn ennyn cydymdeimlad y gynulleidfa. Dywedir yn niwedd y cynhyrchiad i strydoedd gael eu henwi ar ei ôl - a yw'r gynulleidfa Americanaidd i fod i ystyried Stauffenberg fel rhyw fath o wrth-Hitler, y gŵr a fyddai'n cymryd ei le petai'r cynllwyn wedi gweithio?

Nid yw cymeriadau eraill yr hanes yn cael eu cyflwyno yn ddigonol i'r gwylwyr. Gwyddom pa actor sy'n portre Beck, ond i un nad yw'n gyfarwydd â'r digwyddiadau a'r sefyllfa wreiddiol, mae gen i ofn mai gwael yw'r portread hanesyddol. Mae Hitler a Goebbels yn gyfleus yn llwyddo i newid meddwl y milwyr a oedd am arestio'r Natsiaid - pe byddai Hitler yno, ni chredaf y byddai'r milwyr wedi ceisio'u harestio yn y lle cyntaf.

Wedi dweud hyn, mae ochr dechnegol y ffilm yn safonol iawn - cawn waith camera graenus ac effeithiau arbennig, ond nid oes digon o sylwedd i'r cynhyrchiad o gofio fod yr hanes yn un a allai fod wedi newid dyfodol Ewrop gyfan. Ni wnaed cyfiawnder â'r gwir yma fel yng nghynhyrchiad Harri Pritchard Jones a Gareth Wynn Jones.

Gwnaethpwyd cyfiawnder â'r hanes, ond wrth wneud hynny, newidwyd ffocws y cynhyrchiad. Nid cyflwyniad o ddrama Saunders Lewis a gafwyd - yn hytrach, ffilm hanes gyda darn o lenyddiaeth yn gefndir iddo.

Ni ddymunaf farnu'r cynhyrchiad, gan ei fod yn weledol ddiddorol ac yn dechnegol raenus, ond credaf na ddylai enw Saunders Lewis fod yn gysylltiedig â'r ffilm. Mae Brad yn rhan o lenyddiaeth fodern Cymru, ynghyd â deialog goeth y dramodydd, strwythur y golygfeydd a'r tensiwn sy'n adeiladu drwyddi. Mae gan S4C ddyletswydd drwy ei hadran ddrama i gyflwyno i'r Cymry beth o'u traddodiad llenyddol, ac nid dyma a gafwyd gan Brad Ffilmiau'r Tŷ Gwyn. Un peth yw gosod drama mewn lleoliad gwahanol i'r hyn a awgrymir, neu ei chyflwyno mewn gwisg fodern, ond credaf y dylai'r strwythur aros os yw'r cynhyrchiad ohoni i'w ystyried fel dehongliad o ddarn o lenyddiaeth.

GYMERWCH CHI SIGARET?

Un o “driawd Ewrop” Saunders Lewis yw Gymerwch chi Sigaret?, ynghyd â Brad a 1938, ond yn wahanol i’r ddwy ddrama arall, nid hanes Hitler a gawn yma ond brwydr Catholigiaeth a Chomiwnyddiaeth yn Nwyrain Ewrop.

Merch Gatholig yw Iris, wedi ei magu yn gyfforddus yn Fienna cyn yr ail ryfel byd. A’r llywodraeth Gomiwnyddol yn anghymeradwyo’r Eglwys, nid yw hi’n barod i droi ei chefn ar ei chrefydd, er fod Marc, sy’n glerc i’r heddlu politicaidd a’i fryd ar gael esgyn i fod yn Gomisâr.

Ymunwn â’u hanes pan gaiff Marc gynnig dyrchafiad os llwydda i ddienyddio gŵr sy’n elyn i’r llywodraeth yn Fienna. Mae hwn yn dad bedydd i Iris, a thynga hi lw na wêl Marc hi na’r plentyn sydd yn ei chroth fyth eto os cyflawna’r dasg. Nid yw Marc na chomiwnydd na Christion felly ni wŷr pa ffordd i droi, ond gwneir y penderfyniad iddo yn fflat Phugas pan egyr ei flwch sigareti, a oedd hefyd yn bistol electronig, a syrthia llaswyr ei wraig allan ohono. Sylweddola Marc yr adeg honno na all ladd ei thad bedydd, ac ymuna â Phugas yn ei ymgyrch i atal offeiriaid yr hen wlad rhag cymryd llw o ffyddlondeb i’r llywodraeth, drwy hedfan awyrblan iddo.

Mae’r ddrama yn seiliedig ar stori wir a adroddwyd yn y papurau dyddiol ym 1953 a 1954. Cafodd Nikolai Khokhlov, a oedd yn gweithio i’r NKVD yn yr Undeb Sofietaidd, orchymyn gan ei benaethiaid i ddienyddio Georgi Sergeyeovich Okolovich, pennaeth mudiad gwrth-Gomiwnyddol yn Rwsia. Dull y dienyddio ydoedd pistol electronig ar siâp blwch sigareti. Roedd gwraig Khokhlov yn bryderus am ei gŵr, a cheisiodd ei gael i ail-feddwl, ac ar ôl astudio tipyn ar gefndir a gwaith Okolovich, darganfu Khokhlov drosto’i hun fod ei darged yn ddyn da, dyn nad oedd yn haeddu cael ei ddienyddio.

Gwelwn fod sefyllfa Marc ac Iris yn debyg iawn i bicil Khokhlov a’i wraig Yanina, neu Yana fel y’i gelwid. Adroddir yr hanes mewn dyfnder gan Ioan Williams yn ei gyflwyniad i’r ddrama yn ei gyfrol Dramâu Saunders Lewis - Y Casgliad Cyflawn I, a cheir y stori gyflawn yn hunangofiant Nikolai Khokhlov, In The Name of Conscience a gyhoeddwyd ym 1959. Ni chafodd

Lewis gyfle i ddarllen am safbwynt Khokhlov cyn cyfansoddi'i ddrama; syfrdanol felly yw'r tebygrwydd rhyngddi a'r gwreiddiol.

Safbwynt y gŵr a geir yn yr hunangofiant, ond yn y ddrama, ffydd Iris yw ffocws y sylw, ac oherwydd hyn, roedd rhaid newid ychydig ar gymeriad gwreiddiol Yana, fel yr eglura Ioan Williams:

Er mwyn cyflwyno stori Yana ar lwyfan rhaid oedd newid ei rôl a'i chymeriad, a'i gwneud yn fwy gweithredol a mwy hyderus, yn enwedig gan nad oedd amgylchiadau'r hanes yn caniatáu iddi fod ar y llwyfan drwy gydol y ddrama.⁴⁰

Awgrym yn unig, drwy Calista, sydd o Iris ar ôl act gyntaf y ddrama, ac felly roedd yn rhaid i'w chadernid gael ei deimlo yn hytrach na'i weld. Adeiladodd Saunders Lewis lawer o'i ddrama o amgylch y teliffon oherwydd hyn - bwriadodd i'r teclyn yn fflat Phugas gynrychioli Iris.

Diane fu hanes Nikolai; aeth, yn ôl awgrym Yana, at yr Americanaid i ofyn am loches, ac aeth yn ôl gyda hwy i'r Unol Daleithiau i weithio yn erbyn Comiwnyddiaeth, ond ni wyddom beth ddigwyddodd i'w wraig a'u mab, Alyushka. Adroddodd Khokhlov yr hanes yn ei hunangofiant - pan ofynnodd i swyddog Americanaidd amdanynt, dyma oedd yr ateb a gafodd:

“Nobody went to your family in Moscow,” he said very simply.
“What?” I almost screamed.
“Yes,” he answered, his face like stone.
“Nobody went. I don't know why. It looks like at the last moment they got cold feet.”
I never learned what actually took place in Moscow. One thing was clear - nobody went to my family.⁴¹

Ni chawn ychwaith wybod yn sicr beth fu ffawd Iris. Mae'r plentyn a oedd yn ei chroth yn arwydd o obaith am y dyfodol, fel yr oedd yr awgrym o feichiogrwydd Bet yn Cymru Fydd yn golygu nad oedd cenedl y Cymry am ddilyn Dewi yn ei hunanladdiad. Mae'r ffaith fod Marc yn ymuno â Phugas yn ei waith Cristnogol

yn arwydd gobeithiol hefyd, y bydd yn hedfan i achub ei wraig yn siŵr ei bod yn saff wedi clywed ei gwaedd “esgus” dros y ffôn.

Bu beirniadu ar y ddrama pan gafodd ei pherfformio gyntaf, yn bennaf yn y papurau enwadol, a oedd yn ei chondemnio fel propaganda Pabyddol. Gwadu hyn a wnaeth Saunders Lewis - meddai mewn erthygl a oedd yn hysbysebu cynhyrchiad radio ohoni yn y Radio Times:

Drama am gariad ydyw Gymerwch Chi Sigaret? ar Raglen Cymru heno. Ni fedraf wadu ei bod yn ddrama grefyddol. Ond nid am fod ynddi sôn am Dduw, sôn am weddi, sôn am arferion Catholig a llaswyr. Nid yw'r pethau hynny, na'r ddadl ynghylch Ffydd yn yr act olaf, yn ei gwneud hi'n ddrama grefyddol.⁴²

Dal yr ydoedd nad crefydd a barodd i Marc newid ei gredo yn act olaf y ddrama, ond y serch a oedd rhyngddo ef ac Iris. Nid sylweddoli a wnaeth fod ffordd yr Eglwys Gatholig yn well na ffordd Comiwnyddiaeth, ond yn hytrach, tyngu llw os byddai'n clywed llais Iris ar y teleffon, y byddai'n dechrau credu yn Nuw. Math o fet ydoedd mewn ffordd, yn debyg iawn i weithredoedd cymeriadau eraill yn nramâu Lewis - gadawodd Marc Iris yn ffyddiog y byddai'n saff, fel y lladdodd Amlyn ei ddau fab ifanc, yn ffyddiog y byddai ei gyfaill yn cael ei iacháu o'r gwahanglwyf. Aeth Esther heb ei gwahodd at y brenin gan obeithio na fyddai'n gorchymyn ei lladd a rhoddodd yr Iarlles ei hun yn nwylo dieflig y Cadfridog Albrecht am noson i sicrhau diogelwch Hofacker yn Brad. Medd Dafydd Glyn Jones:

Mae pob un ohonynt, yn ei ffordd, yn awgrymu na all yr arwr a'r sant fyth fod â dwylo hollol lân.⁴³

Geilw Pennar Davies Gymerwch Chi Sigaret? yn

...a ‘well made play’, wether we like it or not...⁴⁴

a chytuno â'r awdur nad propaganda gwrth-Gomiwnyddol sydd yma ond stori afaelgar, yn dal sylw cynulleidfa er rhai anawsterau sylfaenol. Lleoliad Iris yw'r pennaf ohonynt - hi yw cymeriad cryfaf y ddrama, ond eto, mae'n amhosibl iddi ymddangos ar y llwyfan ar ôl yr act gyntaf. Daw Saunders Lewis dros y rhwystr hwn drwy ddefnyddio Calista, chwaer Phugas, i egluro cymeriad Iris i'w gŵr, a'r teleffon fel llais Iris o'r 'hen wlad'.

Cyfansoddwyd y ddrama ar gais Pwyllgor Cymreig y Celfyddydau ar gyfer ei pherfformio gan eu Cwmni Drama Cymraeg yng Ngŵyl Ddrama Genedlaethol Llangefni ar 23 Medi 1955. Cynhyrchwyd hi gan Herbert Davies - y cyntaf o lawer o berfformiadau o Gymerwch Chi Sigaret?. Dim ond pedwar cynhyrchiad ohoni sydd wedi bod ar y cyfryngau - tri ar y radio ac un ar y teledu. Ychydig fisoedd ar ôl y perfformiad llwyfan cyntaf yn Llangefni y'i cynhyrchwyd ar y radio am y tro cyntaf, ar 23 Mawrth 1956. Nid oes copi o'r cynhyrchiad wedi'i gadw gan y B.B.C., ond roedd canmol iddo yn y wasg - yn ogystal â pheth beirniadu. Roedd adolygydd Y Cymro wedi'i blesio ag actio Siân Phillips a Gwenyth Petty yn rhannau Iris a Chalista, ond yn siomedig iawn â "darllen blêr" Meredith Edwards a Huw Griffith.⁴⁵

Cafodd y cynhyrchiad ei ail-ddarlledu ar 30 Ebrill 1963, a bu derbyniad da iddo yr ail waith:

Prawf llym ar unrhyw raglen ydyw ei hailberfformio ymhen saith mlynedd, ond dyna a ddigwyddodd i'r recordiad o ddrama Saunders Lewis....a daeth trwy'r prawf yn ddi-anaf.⁴⁶

ond nid oedd Y Beirniad yn Y Faner yr un mor hael ei ganmoliaeth, er iddo argymhell darlledu'r ddrama ar y teledu gyda'r un cwmni yn ei chynhyrchu:

Yn anffodus, oni bai fy mod wedi gweld y ddrama rymus hon ar lwyfan ni buaswn wedi deall ei hanner,⁴⁷

meddai, er iddo ganmol gwaith Emyr Humphreys wrth gynhyrchu.

Roedd y ddrama hon yn un arbennig oherwydd yr actorion a ymddangosodd ynndi, fel y disgrifiwyd yn y Radio Times ym 1963:

Hwn oedd y tro olaf i Hugh Griffith ddarlledu yn y Gymraeg cyn iddo ganolbwyntio ar y theatr yn Llundain ac yn Efrog Newydd. Dechrau gwneud enw iddi ei hun fel actores yr oedd Sian Phillips yr adeg y recordiwyd y ddrama. Dyna'r flwyddyn yr aeth hi i RADA lle yr enillodd Fedal Aur yr Academi.⁴⁸

Mae awgrym yn adolygiad gohebydd Y Cymro na lwyddodd y cynhyrchiad i ddelio'n effeithiol â'r rhwystrau technegol, megis cwmp y llaswyr, er cystal y cast a'r cynhyrchydd. Nid oes yn un o'r adolygiadau fawr o fanylion am effeithiau sain a cherddoriaeth y cynhyrchiad, felly teg yw casglu na wnaethant argraff ddofn ar yr adolygwyr.

Recordiwyd Gymerwch Chi Sigaret? ar gyfer y radio unwaith yn rhagor ym 1965. Darlledwyd y cynhyrchiad, a oedd dan ofal Herbert Davies, ddydd Llun, 18 Hydref am hanner awr wedi wyth ar wasanaeth Cymru o radio'r B.B.C., ac mae'r rhaglen wedi ei chadw gan y Gorfforaeth.

Mae'r ddrama, sy'n gynhyrchiad safonol, yn agor â sŵn cloch eglwys yn taro pedwar o'r gloch, yn sefydlu'r amser, a phwysigrwyd yr eglwys i'r ddrama. Clywn wedyn fiwsig y waltz, ac mae dawnsio, canu a chwerthin Iris a Marc yn eu fflat yn effeithiol a realistig iawn. Mae'r ddeialog yn gredadwy, ac ymadroddion ychwanegol i'r sgript wreiddiol megis "O! newydd braf" yn creu naturioldeb ac argraff fod y cwpl a chwaraeir gan Anest William a Ryan Davies yn gyfforddus iawn yng nghwmni ei gilydd.

Rwyf fi'n mynd i Fienna yfory,⁴⁹

meddai Marc yn ysgafn yn yr olygfa gyntaf, fel petai mynd a dod o'r ddinas yn beth cyffredin, a'r ysgafnder medrus hwn yn wrthgyferbyniad llwyr i ymateb Iris i'r geiriau. Cawn yr argraff gan Ryan Davies fod Marc yn gwybod yn iawn am

bwysigrwydd y newydd a'r effaith a gaiff ar ei wraig, ond fod yn well ganddo esgus byw mewn anwybodaeth am y tro.

Does dim llawer o gwtogi ar y sgript yn yr act gyntaf hon - yn wir, ni ellir cyfiawnhau cwtogi llawer ar y ddeialog gan mai yma yn unig y cawn y cyfle i glywed Iris, y cymeriad canolog. Mae popeth a ddigwydd yn y gweddill o'r ddrama'n gysylltiedig â hi - ni fyddai Marc wedi cael y dasg o ladd Phugas pe na bai'n wŷr i Iris - felly mae pob brawddeg ganddi yn werthfawr. Ar y llaw arall, cawn nifer o ychwanegiadau ar ffurf mân sylwadau sy'n atodiadau clyfar i'r sgript, fel sylw Marc ar ôl iddo ofyn i Iris am neges olaf ei thad i Phugas:

Jôc nodweddiadol o hiwmor Krechlen,⁵⁰

meddai, gan grynhoi natur greulon ei bennaeth mewn ychydig eiriau. Gellir cyfiawnhau ychwanegiadau fel hyn, ond anoddach yw cytuno â chwtogi fel sydd i'w weld ymhellach ymlaen yn yr act gyntaf; pan eglura Marc mai dienyddio bradwyr a wnaethant hwythau yn y fyddin gudd. Mae Marc yn ceisio'i amddiffyn ei hun rhag cyhuddiadau Iris, ac ar yr un pryd yn chwydu propaganda Krechlen a'i giwed wrth geisio cyfiawnhau ei weithred a'i dasg. Dywed:

Mae e'n apelio at anwybodaeth ddall yr offeiriaid gwledig a'r tyddynwyr i ddatod gwaith y Chwyldro Comiwnyddol. Dyna'r pam y mae ei saethu ef yn farw â blwch sigaret yn gyfiawnder.⁵¹

Gŵyr Iris yn iawn nad geiriau Marc yw'r rhain gan wneud iddi sylweddoli nad yw ei galon yn y blaid Gomiwnyddol. Mae'r foment hon yn allweddol, gan mai o ganlyniad i hyn y gwnaeth Iris ei llw - gwyddai y byddai'n anodd iawn i Marc ddienyddio ei thad bedydd ag yntau ddim yn grediniol ei fod yn haeddu cosb.

Credaf fod y sgwrs yn hanfodol i rediad y ddrama, ond caiff y ddeialog ei thorri o'r cynhyrchiad hwn. Mae gweddill yr act gyntaf yn argyhoeddiadol, yn enwedig llw Iris, a chlychau'r eglwys yn taro pump o'r gloch i gloi'r act - gresyn na chyflwynwyd y sgript yn ei chyfanrwydd.

CARIAD PUR



Egyr yr ail act â llais Glanffrwd James yn rhan Phugas yn adrodd barddoniaeth Dante cyn ateb y ffôn. Daw Calista i'r ystafell tra mae'n siarad, dywed Phugas wrth bwy bynnag sydd ar ochr arall y ffôn ei bod wedi cyrraedd - fel hyn, caiff y gwrndawyr eu cyflwyno iddi heb amharu gormod ar rediad y digwydd. Roedd hyn yn angenrheidiol gan fod Nesta Harris yn ei phortreadu yn benigamp fel dynes brysur, siaradus, yn trin ei brawd gydag ysgafnder a fyddai'n briodol i fam neu wraig.

Yn gynnar iawn yn yr olygfa, ceir cwtoigi ar y sgript - ni chawn glywed disgrifio ffawd posibl yr offeiriad ifanc wrth ei waith ac o'r herwydd, ni chaiff y gynulleidfa ddarlun o berygl gwaith Phugas a'i griw; manylion pwysig gan fod Marc yn niwedd y ddrama yn ymuno â'i waith.

Nid oes llawer o effeithiau sain i'w clywed, ond nid yw'r cynhyrchiad yn dioddef o'r herwydd gan fod y ddeialog yn ddigon cryf a manwl i egluro'r digwydd. Ni chlywn sŵn y drôr yn agor pan ddengys Phugas ei bistol i'w chwaer; yn hytrach dywed:

Mae gen i fy mhistol yn y drôr yma,⁵²

Ar y llaw arall, eglurir salwch yr hen lanc yn llwyddiannus drwy ei beswch a'i duchan - clywn fod symud llyfrau oddi ar ei ddesg yn rhywfaint o dreth arno, a bod siarad am hir yn amharu ar ei ysgyfaint.

Er gwaethaf gwaeledd ei gymeriad, mae Glanffrwd James yn Phugas pregethwrol iawn ar brydiau. Er hyn, clywn yr hiraeth yn ei lais wrth sôn am yr hen wlad, a phan â'r sgwrs yn ddadl wrth i'r gwir reswm am daith Marc ddod i'r amlwg, mae llais y gŵr ifanc yn wir "fel taran", yn unol ag awgrymiadau Saunders Lewis yn ei gyfarwyddiadau llwyfan.

Mae golygfa'r saethu yn un anodd i'w chyfleu yn effeithiol pa bynnag gyfrwng a ddefnyddir i gyflwyno'r ddrama, ond ar y radio, mae'r problemau cynhyrchu'n waeth na'r teledu a'r llwyfan. Dibynna'r digwydd yn yr olygfa hon ar y gweledol, fod y gynulleidfa'n gweld y llaswyr yn disgyn o'r blwch sigareti ac yn ymateb yn yr un modd â'r cymeriadau ar y llwyfan i'r digwyddiad.

Disgrifiodd Saunders Lewis y weithred fel a ganlyn yn ei gyfarwyddiadau llwyfan:

Y mae'n agor y blwch sigareti a'i estyn i PHUGAS a'i fawd ar y botwm. Y mae llaswyr Iris yn syrthio allan o'r blwch. Y mae PHUGAS yn codi'r llaswyr mewn syndod. Saif MARC fel delw a'i law dde gyda'r blwch yn syrthio'n llipa i'w ochr. Yna gyda chri o chwerthin sy'n husteria y mae'n syrthio i'r gadair, a'i law a'r blwch sigareti yn honian dros fraich y gadair.

Daw CALISTA i mewn o'r chwith.⁵³

Fel y gwelwn, mae pob symudiad heblaw am y chwerthin yn anaddas ar gyfer y radio. Yn lle gwneud y tro ag ochneidiau o sioc a siom, rhoddodd Herbert Davies eiriau i'r cymeriadau - pan ddigwydd y cais ar fywyd Phugas, clywn rywbeth yn disgyn, ac y mae Phugas yn ei godi gan ddweud;

Beth yw hyn? Llaswyr mewn blwch sigareti, llaswyr a delw'r grog? Marc, beth yw ystyr hyn?⁵⁴

Clywn Marc yn wylo yn y cefndir ac yn ailadrodd y gair 'na', yna'n sibrawd ag Iris fel petai yno gydag ef. Mae cyffro yma yn ddi-os, ond nid yw'n troi'n "husteria" fel yr awgrymwyd gan Saunders Lewis. Gall Marc ddangos ei wewyr a'i anghredinedd gyda symudiadau ar lwyfan, ond yn hytrach na gor-ymateb, gwell ar y radio yw ffrwyno ychydig ar yr angerdd.

Gan nad oes yma lawer o effeithiau sain, nid oes tystiolaeth fod Calista wedi dod yn ôl i'r ystafell, a dyna yn fy marn i unig nam yr olygfa. Mae clywed ei llais yn annisgwyl yng nghanol miri darganfod y llaswyr, ac yn taflu'r gynulleidfa oddi ar ei hechel am ychydig eiliadau - ond nam bychan yw hwn mewn act gref iawn.

Nid oes dim yn eithriadol yng ngweddill y cynhyrchiad, heblaw y miwsig a ddefnyddir i gloi cyffro yr ail act. Mae'r gerddoriaeth glasurol braidd yn rhy gyffrous ar brydiau, gan ei bod yn chwyddo i raddau symffonig erbyn y diwedd,

a'r tempo'n cyflymu, a sŵn symbalau'n taranu cyn iddi doddi'n ddim cyn dechrau'r drydedd act. Ni chredaf fod y fath fiwsig yn gweddu i gynhyrchiad o ddrama radio, ac o'r herwydd, mae'n rhoi awyrgylch sydd bron yn ddoniol i'r gweddill o'r digwydd.

Mae ychydig ychwanegiadau at y sript yn yr act olaf, a'r rheini fel yr arfer yn fuddiol ac effeithiol. Dywed Calista wrth yr anghrediniwr Marc:

Y blasus nid y diflas y bydd crefydd yn ei
gysegru,⁵⁵

sylw arbennig o ddefnyddiol i'r ddrama gan fod cwestiynu Marc am grefydd wedi'i gwtogi yma; fel ag y gwnaethpwyd â dogn helaeth o hanes y peilot druan a gafodd ei gipio. Atodiad arall argyhoeddiadol a chredadwy yw geiriau Marc am ei berthynas ag Iris, a'r cariad y maent yn ei rannu.

Yn wir, mae teimladau'r cymeriadau oll yn amlwg yn yr act olaf hon, ac mae'n rhaid canmol yr actorion - maent yn cefnogi perfformiadau ei gilydd, heb i un actor ddisgleirio mwy na'r lleill. Atgoffir ni o'r ddrama Wrth Aros Godot wrth wrando ar Marc a Chalista yn trafod yfed te - mater dibwys i'r stori, ond gwerthfawr i'n dirnadaeth ni o'r cyfnod.

Mae perfformiad Brinley Jenkins o'r Capten Christopher yn un cymwys, nid yw'n llithro i'r acen Americanaidd ond wrth siarad Saesneg, yn unol â disgrifiad Phugas ohono:

Mae e'n siarad ein hiaith ni heb arwydd o
lediaith, ond yn unig ei fod e'n siarad fel llyfr
ac yn rhy gywir i fod yn un ohonom.⁵⁶

Gwnaed cyfiawnder hefyd â llais Iris ar y teleffôn - clywn hi'n ddagreuol, ond sicr ei llais, wrth drosglwyddo i'w gŵr neges yr heddlu politicaidd, ac yn wyllt, obeithiol wrth weiddi mai esgus yw'r cyfan, cyn i ni glywed clic y ffôn i'w datgysylltu, a gadael tŵn deialu'r teclyn yn arwydd o ddylanwad Iris ar yr ystafell.

Mae'r cynhyrchiad yn gorffen yn swta, gyda Marc yn datgan ei fod wedi rhoi cusan i'r groes sydd ar y llaswyr.

Rhaid i ti gusanu'r hoelion hefyd,⁵⁷

yw ymateb Phugas, ac yma y mae'r cynhyrchiad yn darfod, heb egluro i'r ddau fynd ar eu taith gudd gyda phapur newydd y Catholigion. Credaf fod y ddrama, dan ofal Herbert Davies, yn syml ac effeithiol iawn, ac yn rhagori ar gynhyrchiad John Owen o Gymerwch Chi Sigaret? a ddarlledwyd ym 1994. Er hŷd ganddo gast profiadol a dawnus, yn cynnwys Dyfan Roberts a Myfanwy Talog fel Phugas a Chalista, siomedig yw'r rhaglen radio hon.

Egyr y ddrama â llais Americanaidd yn cyflwyno anerchiad am bwysigrwydd gweithio gyda'r Comiwnyddion i sicrhau heddwch. Drwy hyn, mae cerddoriaeth ysgafn, araf yn chwarae; miwsig trist ydyw, sydd yn adlewyrchu cyflwr Ewrop ym 1948. Todda yn effeithiol i fïwsig y waltz yn y fflat, ac Iris yn canu gydag ef wrth i ni glywed sŵn traed yn dringo'r grisiau.

Daw Marc i'r ystafell, ac mae llawenydd Iris yn amlwg; yma mae'r ddrama yn cychwyn dirywio. Mae llais Marc yn uchel iawn ei dŵn, yn ferchetaidd hyd yn oed, a chawn argraff o ddyn bychan, eiddil yn cael ei reoli gan ei wraig wrth wrando ar y llais sydd mor anaddas i'r rhan. Roedd acen ogleddol Dyfan Roberts, ar y llaw arall, yn effeithiol iawn yn rhan Phugas; yr acen wahanol yn pwysleisio'r pellter sydd rhyngddo ef, a ymfudodd i Fienna, ac Iris a Marc sydd yn byw yn yr hen wlad o hyd.

'Does dim cymaint o gwtogi ar y sgript hon ag ar gynhyrchiad 1965, ond nid yw hynny'n beth da. Mae'n hawdd colli rhediad y stori wrth wrando ar Iris a Marc 1994 yn siarad yn eu lleisiau gor-awyddus a hapus. Ceir yn yr act gyntaf ormod o lawer o chwerthin a'r cynhyrchydd yn ceisio'n rhy galed i greu awyrgylch bositif cyn y tristwch sydd yn amlwg yng ngweddill y ddrama. Efallai mai dyma pam y mae Iris, a chwaraeir gan Rhian Morgan, yn methu â'n hargyhoeddi ei bod o ddifrif wrth dyngu'r llw na wêl Marc hi na'i phlentyn yn fyw os bydd yn lladd Phugas.

Nid ydyw'n argyhoeddiadol ychwaith pan drewir hi gan Marc. Hyd yn oed wedi iddi gael ei tharo i'r llawr, nid yw Iris wedi'i synnu o gwbl, ac mae ei llais yr un mor hapus â chynt wrth iddi wafar acen Americanaidd wrth alw ei gŵr yn:

Shïc! Cosac! Brando! Valentino! Y Gwryw
mawr cryf!⁵⁸

Nid yw'r sefyllfa yn taro deuddeg - ni allwn gredu fod y Marc llywaeth hwn wedi mentro taro'i wraig i'r llawr, a hithau'n swnio mor sicr a chryf.

Clywn gerddoriaeth araf megis gorymdaith angladdol i gloi'r act, a saib effeithiol cyn agor ar fflat Phugas yn Fienna yn yr ail act. Mae hon yn olygfa dda iawn o'i chymharu â gweddill y cynhyrchiad, a Chalista'n ddoniol yn ei gofal am ei brawd. Mae Myfanwy Talog yn addas iawn i ran Calista, yn ymboeni'n naturiol gan greu darlun i'r gwrandawr ohoni'n twtio a symud yn gyflym fel llygoden o gwmpas yr ystafell. Mae'n defnyddio ymadroddion megis "cato pawb", sy'n pwysleisio ei bod hi, yn wahanol i Iris a Marc, yn cofio byw mewn cymdeithas ddi-ormes - does dim dywediadau nac idiomau yn eu sgwrs hwy.

Nid yw Phugas, ar y llaw arall, yn cael yr un driniaeth. Erystal actor yw Dyfan Roberts, caf yr argraff mai gwatwar Phugas y mae yn hytrach na'i bortreadu fel person o gig a gwaed; a 'tydi gadael barddoniaeth Dante allan o'r sgrïpt yn ddim cymorth iddo. Tuedda i swnio'n bregethwrol wrth geisio troi Marc at Gristnogaeth, ond nid yw'n benboeth fel y disgwyliid gan un sydd â'i ffydd mor gryf.

Cŵyn sydd gennyf am y Capten Christopher hefyd - daw'r acen Americanaidd i'r fei lle nad oes ei hangen, er ei fod yn siarad yn ffurfiol fel yr awgryma Phugas. Nid oes cyffro yma - fel capten yn y fyddin Americanaidd yn ceisio rhoi lloches i gomiwnydd, fe ddylai fod awgrym o frys a chadernid yn ei lais, ond cefais fy siomi gan gyffredinedd ei dôn.

Siom hefyd oedd prif olygfa'r ddrama - clywn laswyr Iris yn disgyn ar lawr, a Marc yn wylo fel dyn o'i gof. Yr unig eiriau a glywn fel eglurhad yw llais Phugas yn galw

....llaswyr Iris, Marc!⁵⁹

er, ni chawn wybod sut y mae'r tad bedydd, nad yw wedi gweld Iris ers pan oedd hi'n blentyn, mor siwr mai ei llaswyr hi ydyw, yn hytrach nag unrhyw laswyr arall.

Ni chlywn y drafodaeth am grefydd na hanes plentyn y peilot coll yn yr act olaf, ac nid oes tensiwn ychwaith, yn wahanol i'r cynhyrchiad cynharach. Ni chlywn yr un gobaith yn llais Phugas, na'r emosiwn wrth i Marc gusanu'r llaswyr, ond ceir tinc argyhoeddiadol yn llais Iris dros y teleffon. Mae'r diweddglo yn boenus o swta ar ôl cusanu'r gleiniau, ond er gwaethaf yr actio anysbyrdoledig, mae i'r ddrama naws effeithiol oherwydd y gerddoriaeth drist a chwaraeir rhwng golygfeydd - clywn boen y cymeriadau drwy hon yn hytrach na thrwy leisiau'r cast. Gresyn na fyddai mwy o sylw wedi ei roi i'r castio, neu ddarparu ychydig mwy o amser i'r actorion ddod i adnabod eu cymeriadau. Ail gwael i gynhyrchiad Herbert Davies o Gymerwch Chi Sigaret? yw hwn, ac yn ôl adolygiadau'r wasg, credaf fod cynhyrchiad 1956 yn rhagori arno hefyd.

Ychwanegodd y Dr. Harri Pritchard Jones ddychymyg a ffresni i'w addasiad, Sigaret?, a gynhyrchwyd gan Ffilmiau'r Tŷ Gwyn. Bu newid llawer ar y ddrama wreiddiol, o leoliadau i gymeriadau, a hyd yn oed cyn y ffilmio, bu barnu cryf ar y cynhyrchiad, a oedd i gynnwys, yn ôl yr addaswr:

....nifer o olygfeydd "James Bond-aidd" nad ydynt yn y ddrama wreiddiol.⁶⁰

Dangoswyd y ffilm am y tro cyntaf ym 1991 yng Ngŵyl Ffilm Genedlaethol Cymru (Gŵyl Ffilm Aberystwyth gynt)⁶¹ cyn ei dangos ar S4C ar 3 Mawrth y flwyddyn ganlynol fel y cynhyrchiad Gŵyl Ddewi, a chael cryn ganmoliaeth er gwaetha'r newidiadau a wnaethpwyd i waith Saunders Lewis.

Gan mor wahanol yw'r sgript hon i'r gwreiddiol, nid oes diben cymharu deialog y ddwy. Mae ambell ddarn o'r gwreiddiol wedi goroesi air am air, megis sgwrs Iris a Marc ar ôl iddo ddod adref o'i waith gyda'i gyfrinach; a geiriad dedfryd Llys y Werin ar Phugas. Mae nifer o fanylion wedi eu hychwanegu i roi

cig ar esgym drama Lewis - cafodd y cymeriadau gyfenwau gan Jones - Phugas Adi, Marc ac Iris Tamachi a Capten Christopher Berent. Cawsant hefyd gefndiroedd a phersonoliaethau ganddo.

Nid oes llawer o newid yng nghymeriad Iris gan ei bod eis oes yn ferch gref, ond caiff Marc emosiynau a theimladau cryfion gan Jones ar ôl gwrthod lladd Phugas. Wrth geisio deall ffydd Iris a'i thylwyth, gwelwn Marc yn wylo, cyn chwerwi, gwylltio a chwestiynu eu credoau. Cawn hyn i gyd gydag arddeliad gan Eryl Phillips mewn portread grymus a chredadwy o ddyn sy'n byped yn llaw dynion megis Krechlen.

Cafodd Krechlen yntau orffennol gan Jones - mae golygfa tua diwedd y cynhyrchiad lle gwelwn ef flynyddoedd ynghynt ar faes y gad gyda Phugas, y ddau ochr yn ochr, am y tro. Mae ganddo'r hawl felly i alw Phugas yn "ffŵl gwirion" - gwyddom fod y ddau yn adnabod ei gilydd ers talwm ac nad rhagfarn mo'i eiriau. Nid ydyw yma mor gas ag yn nrama Lewis ychwaith - ganddo ef mae'r syniadau creulon, mae'n wir, ond nid yw'n ddigon anwar i gyflawni'r gweithredoedd ei hun. Crewyd cymeriad Müller gan Jones i'r perwyl hwn; gallwn gredu mai ochr ddieflig meddwl Krechlen ydyw, yn gwneud yr hyn y byddai hwnnw yn hoffi ei wneud, ond yn methu. Portreir Müller mewn modd milain gan Robin Griffith, er nad oes iddo lawer o rôl yn y ddrama ond am ddiennyddio carcharor er mwyn dangos i Marc sut yr oedd y blwch sigareti yn saethu. Drwyddo ef cawn gipolwg ar ymennydd y pennaeth (a chwaraeir yn benigamp gan Wyn Bowen Harries).

Yn yr un modd, daeth Harri Pritchard Jones â chrefydd Iris yn nes at ganolbwynt y ddrama trwy greu'r offeiriad ifanc (Alun Elidir) fel ffrind a rhywun iddi ymddiried ynddo. Mae'n cymryd tipyn go lew o bwysau'r ddrama oddi ar Calista, gan nad oes angen iddi egluro cymaint am Iris i Marc. O'r herwydd, crewyd perthynas rhyngddi hi a'r Capten Christopher fel bod y ddau ohonynt yn cadw'n ganolog i'r stori (nid yw rôl y capten mor bwysig yn awr gan nad oes yn rhaid canolbwyntio'r digwydd o gwmpas y teleffon - rydym yn gwybod heb ei gymorth ef beth yw hynt Iris).

Rhoddodd Harri Pritchard Jones yn ogystal gartref i'r ddrama - fel "dinas yn Nwyrain Ewrob" y disgrifiodd Saunders Lewis y lleoliad i'r act gyntaf,

rhoddodd Jones y digwydd yn Bwdapest, Hwngari. Rhydd hyn ganolbwynt i'r ddrama, a syniad gwell i'r gwyliwr o'r sefyllfa. Ffilmiwyd y golygfeydd allanol i gyd yn y ddinas honno, ond i arbed costau, ffilmiwyd y gweddill yn Rheithordy Eglwys y Santes Fair, Llanfairpwll ac ym Mhlas y Faenol, ond heb golli dim o awyrgylch Bwdapest.⁶²

Yr unig broblem dechnegol a oedd yn wynebu Jones ydoedd yr arf a roddir i Marc i ladd Phugas - y cas sigareti sydd yn troi'n bistol. Meddai Jones:

Fe aethom i gysylltu â phobl ballistics oedd yn gweithio ar ffilm James Bond...a darganfod fod ffasiwn beth ddim yn bosibl. Felly ar y ffilm, cylllell sydd yn gudd yn y cas sigaret.⁶³

Yn Sigaret? gwelwn lafn yn dod allan o'r cas a gwenwyn arno, sydd yn lladd ymhen eiliadau o dorri drwy'r croen; mae'r gyllell yn edrych yn gredadwy iawn, ac yn gymwys i wneud y dasg a fwriadwyd iddi.

Mae naws y cynhyrchiad yn eithriadol o dda, yn cychwyn gyda'r golygfeydd yn Bwdapest a'r gerddoriaeth gefndirol. Ni sylwais ar y miwsig i gychwyn - arwydd ei fod yn effeithiol. Mae'r ddinas yn hamddenol, a chaiff ei phortreadu fel lle braf i fyw. Gwelwn Iris yn ymweld â'r meddyg a gwên ar ei hwyneb, a Marc ar ei awr ginio yn ymlacio drwy chwarae pêl-droed â bechgyn yn y parc bychan ger ei swyddfa. Nid oes arwydd nad gwlad rydd ydyw nes i'r milwr ddod i'w gyrchu yn ôl i'w waith; ac i Iris droi'r eicon ar y mur.

Wrth i Marc ac Iris betruso am eu dyfodol ym Mwdapest, cawn weld Phugas wrth ei waith yn Fienna, yn golygu ei bapur newydd Cristnogol, Croes Hwngari, a pharatoi i'w anfon i'r "hen wlad". Gwelwn ei fod yn berson real, nid dyn crefyddol yn unig, yn ysmegu, yfed a gamblo er ei fod yn wael a diwedd ei fywyd yn agosau.

Nid y fflat yw canolbwynt y digwydd yn Fienna, yn hytrach y caffi a ddefnyddid i gyfarfod, yfed coffi a thrafod. Mae casino yma hefyd, lle'r â Phugas i fetio. Yn hytrach na bod yn gaeth yn ei gartref gan ofn am ei fywyd, mae ganddo wŷr i'w warchod bob awr o'r dydd. Nid yw Christopher a Phugas



Morfudd Hughes

yn adnabod ei gilydd yn ôl Harri Pritchard Jones - mae Calista yn eu cyflwyno i'w gilydd yn y caffî, a gwna Phugas gryn hwyl am ben ei chwaer a'i 'chariad' newydd.

Cawn fwy o fanylion am y "ddedfryd" yn y cynhyrchiad hwn. Gwelwn Marc a Chalista yn llygadu'i gilydd gydag amheuaeth yn y caffî cyn i Marc fynd i fflat Phugas. Gwelwn ef wrth y drws yn cael archwiliad manwl, mae'r milwyr yn edrych drwy ei ddogfennau a'i feddiannau, ac â i fyny yn y lifft at ei darged. Wedi amau, mae Calista yn cyrraedd y fflat fel mae llaswyr Iris yn disgyn o'r cas sigareti. Yn wahanol i'r cynhyrchiadau radio, nid oedd yn rhaid yma ychwanegu geiriau eglurhaol, yn hytrach, mae'r olygfa yn un hollol ddistaw, gyda saethiadau agos o'r tri, a'r llaswyr yn hongian o'r cas arian. Ymhen ychydig eiliadau, mae Marc yn galw enw ei wraig yn dawel, a Phugas yn ei ailadrodd wedyn. Heb sgwrsio ymylol, gwyddom yn union beth a ddigwyddodd, ac mae'r tensiwn yma'n parhau gan wneud hon yn olygfa benigamp.

Yr unig beth sy'n achosi penbleth yn y cynhyrchiad yw'r llaswyr. Ym Mwdapest, y mae Iris yn eu rhoi ym mhasport ei gŵr, ond yn eu tynnu oddi yno wedyn. Wrth ddrws Phugas, gwelwn y milwr yn archwilio'r cas a'i gau yn glep, heb arwydd o'r llaswyr ynddo. Ai gwrth felly yw fod y mwclis yn syrthio o'r blwch sigareti, ynteu nerth ffydd Iris a'i lluchiodd yno? Meddai Marc:

Mae fel dewiniaeth, fŵdw neu rywbeth,⁶⁴

ond ateb Phugas yw

gweddi, Marc.⁶⁵

Mae'n wir fod llawer o'r sript wreiddiol wedi mynd yn angof, ond mae elfennau gwaith Saunders Lewis yma o hyd. Nid oedd Lisa Lewis yn Barn yn credu fod hyn yn fantais:

Llwyddodd y ffilm i ymwneud â thrafodaeth Saunders Lewis, ond ar brydiau cadwodd yn rhy agos at y ddrama. Er i'r ffilm ymdrin â sawl agwedd ar y testun a'u hamlygu i ni, nid

oed rhaid wrth debygrwydd er mwyn bod yn driw i destun.⁶⁶

Nid oedd Iwan Llwyd o'r un farn. Meddai yn Golwg wrth adolygu'r cynhyrchiad:

Roedd gosod y ddrama mewn cyd-destun hanesyddol, real yn cyfoethogi cryn dipyn ar y cymeriadau ac, er na ddatblygwyd digon efallai ar yr Americanwr, Christopher, roedd ei bresenoldeb yntau yn awgrym o ddylanwad cynyddol America ar wleidyddiaeth dwyrain Ewrop.⁶⁷

Cwyn Lewis ydoedd fod y ffilm yn defnyddio gormod o saethiadau agos, a'i bod yn ymddangos fel "un a berthynai i genre gyffro / ditectif o'r 40au,"⁶⁸ ac efallai fod hynny'n wir, gyda'r golygfeydd o Iris a'r offeiriad yn rhedeg rhag yr heddlu cudd yn ein hatgoffa yn fynych o Harry Lime yn y ffilm The Third Man yn rhedeg o flaen ei ffrind, Holly, y nofelydd cowboi. Roedd Saunders Lewis yn edmygydd o'r ffilm honno - cafodd y ddwy eu lleoli yn Fienna gan ddefnyddio'r un math o thema o gyfrinachau. Credaf fod y saethiadau agos yma'n dangos a phwysleisio'r cyffro yn y naill ffilm fel yn y llall - wedi'r cwbl, mae Gymerwch Chi Sigaret? yn ddrama gyffrous iawn yn ogystal â bod yn ddrama am 'gariad pur'.

Credaf i'r cynhyrchiad lwyddo ar bob lefel ond un. Nid yw Sigaret? yn cyflwyno gwaith Saunders Lewis fel y'i hysgrifenydd. Mae iaith ffurfiol y dramodydd ar goll, ac er nad yw'r golled yn un sylweddol ar yr wyneb, y mae'n ffactor pwysig yn y cynhyrchiad.

Dwi'n sicr y buasai Saunders Lewis eisiau newid rhai o'i eiriau ei hun erbyn hyn...a dwi'n credu ei fod wedi dweud unwaith y buasai wedi gwirioni cael gweithio mewn ffilm,⁶⁹

meddai Harri Pritchard Jones yn Sbec, ac efallai fod hynny'n wir - yn sicr y mae'n cyfiawnhau triniaeth yr addaswr o'i destun - ond credaf mai tawelwch, nid geiriau, yw cryfder y cynhyrchiad hwn, yn wahanol i'r ddrama. I'r mwyafrif o gynulleidfa lenyddol Cymru, mae disgwyl clywed geiriau'r awdur wrth wyluo un o'i ddramâu, ac nid yw hynny'n digwydd yma. Rhy debyg i'r ddrama wreiddiol yw'r cynhyrchiad yn ôl Lisa Lewis, ond ddim digon tebyg o ran sgript. Er hyn, yn ddi-os, mae Sigaret? yn llwyddiant fel cynhyrchiad annibynnol o'r ddrama.

NODIADAU

1. Saunders Lewis, Y Cynol Chabert a 1938, Gwasg Dwyfor, 1989, t. 56
2. Charles Huws, "Radio a Theledu" Y Faner 17 Mawrth 1978, t. 4
3. *ibid.*
4. *ibid.*
5. Jennie Eirian Davies, "Wythnos i'w Chofio - Radio a Theledu" Y Cymro, 7 Mawrth 1978, t. 4
6. Prys Morgan, "Cefndir Hanesyddol Brad" Ysgrifau Beirniadol V gol. J.E. Caerwyn Williams, Gwasg Gee, 1970, tt. 234 - 253
7. G.M. Hughes, "Prif Gymeriad y Brad" Y Faner 6 Gorffennaf 1984, t. 12
8. Roger Manvell and Heinrich Fraenknel, The July Plot, London 1964, p. 90
9. *dienw*, "The Germans Who Hated Hitler" Radio Times 11 July 1968
10. *op. cit.* 8, pp. 61-2
11. Branwen Jarvis, "Llythyr gan Caisar von Hofacker" Taliesin 40, Gorffennaf 1980 gol. D. Tecwyn Lloyd, t. 30
12. Saunders Lewis, Brad, Llyfrau'r Dryw, Llandybïe, 1958 t. 7
13. *op. cit.* 11, t. 34
14. Y Parchedig Iorwerth Jones, "Dyddlyfr y Dysgedydd" Y Dysgedydd Hydref 1958, t. 259
15. Dafydd Glyn Jones, "Brad Saunders Lewis" Barn Mehefin 1968, t. 221
16. Bobi Jones, "Dramâu Saunders Lewis" Barn, Tachwedd 1969, t. 11
17. Saunders Lewis, llythyr 173, 28 Mai 1958 Annwyl Kate, Annwyl Saunders gol. Dafydd Ifans, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth 1993, t. 187
18. Eic Davies, "Brad Saunders Lewis" Lleufer XV 1959, gol. David Thomas, t. 29
19. *Dienw*, "Newid barn am waith ei dramawr mwyaf" Y Cymro, 14 Awst 1958, t. 15

20. op. cit. 12, t. 19
21. ibid., t. 36
22. ibid., t. 41
23. ibid., t. 71
24. ibid.
25. Banerwr, "Radio a Theledu" Baner ac Amserau Cymru 20 Tachwedd, 1958, t. 4
26. Paul Ferris, "Cambrian Junkers" The Observer, d.d. (April 1959)
27. Elwyn Jones, Treason, translation of Brad by Saunders Lewis, 1959, t. 46
28. Banerwr, "Radio a Theledu" Baner ac Amserau Cymru 16 Ebrill, 1959
29. ibid.
30. Arfon, "Brad to be shown on Welsh TV" Western Mail, 20 Chwefror 1968
31. Cymro, "Germany in Cardiff" The Observer, d.d.
32. Meinir P. Jones, "Sianel 4 Cymru" Y Cymro, Hydref 9, 1985, t.2
33. ibid.
34. Ioan Williams, "Darlledu Saunders" Barn 376, Mai 1994, gol. Menna Baines. t. 24-6
35. Harri Pritchard Jones, o Ian Parry, "Brad ar y teli" Y Cymro 16 Chwefror 1994, t.13
36. op. cit. 34, t. 25
37. dienw, "Tyngu llw, tynged cenhedloedd" Sbec/TV Wales 26 Chwefror - 5 Mawrth, 1994, t. 12
38. op. cit. 34
39. Dyfan Roberts, op. cit. 37, t. 13
40. Ioan Williams, Dramâu Saunders Lewis - Y Casgliad Cyflawn cyfrol 1, Gwasg Prifysgol Cymru, 1996, t. 600
41. Nikolei Khokhlov, In The Name Of Conscience, cyf. E. Kingsbury, 1960, t.336
42. Saunders Lewis, "Cariad Pur" Radio Times 14 Hydref 1965
43. Dafydd Glyn Jones, "Agweddau ar Ethos y Dramâu" Saunders Lewis gol. D.T. Lloyd a G.R.Hughes, Christopher Davies, Abertawe 1975

44. Pennar Davies, Triskel Two ed. Sam Adams & Gwilym Rees Hughes, Llandybïe 1973, t. 29-30
45. dienw, Y Cymro 9 Mai 1963, t. 20
46. *ibid.*
47. Y Beirniad, Y Faner, d.d.
48. dienw, Radio Times 25 April 1963, t. 26
49. Saunders Lewis, Gymerwch Chi Sigaret? Llyfrau'r Dryw, Llandybïe 1956
50. cynh. Herbert Davies, Gymerwch Chi Sigaret? radio 1965
51. *op. cit.* 49
52. *op. cit.* 50
53. *op. cit.* 49, act II
54. *op. cit.* 50, act II
55. *ibid.* act III
56. *op. cit.* 49 act III
57. *op. cit.* 50, act III
58. *op. cit.* 49, act I
59. cynh. John Owen, Gymerwch Chi Sigaret? radio 1994
60. Harri Pritchard Jones, o "Ail sgwennu drama Saunders" Y Cymro 31 Rhagfyr 1986, t. 1
61. David Berry, Wales and Cinema University of Wales Press, Cardiff 1994, t. 433
62. Liz Davies, "Pan mae Caru a Chasau yn Agos" Sbec Chwefror / Mawrth 1992
63. *ibid.*
64. Harri Pritchard Jones, addas., Sigaret? Tŷ Gwyn 1991
65. *ibid.*
66. Lisa Lewis, "Rhy Debyg i'r Ddrama" Barn 348, Ionawr / Chwefror 1992, t. 78
67. Iwan Llwyd, "Y Mwg Cyn y Tân" Golwg, 12 Mawrth 1992, t. 27
68. *op. cit.* 66, t. 77
69. *op. cit.* 62

PENNOD 5:

PEDAIR ARGLWYDDES

BLODEUWEDD

Ystyrir Blodeuwedd yn un o'r goreuon ymhlith dramâu Saunders Lewis. Yn y Mabinogi y mae ei sylfaen; edrydd hanes Llew Llaw Gyffes a'r wraig a greodd y dewin Gwydion iddo i drechu tynged a roddodd Arianrhod, mam Llew, arno ar ei enedigaeth; ond nid yma y gorwedd ysbrydoliaeth Lewis.

Cafodd hwnnw wrth wylio Sybil Thorndike yn rhan Medea, Euripides: roedd y perfformiad a gafwyd yn y Repertory yn Lerpwl ym 1921 yn un ysgytwol; broliodd Saunders Lewis ef wrth Morris Jones flynyddoedd yn diweddarach. Gellir gweld y tebygrwydd rhwng Medea a Blodeuwedd - nid merched naturiol yw'r un o'r ddwy; un yn ddewines a'r llall yn greadigaeth dewin. Mae ynddynt ill dwy natur wyllt, a gallant weld nad ydynt yn cydymffurfio â'r darlun sydd gan eu cymdeithas o'r ferch - yn wir, cawn yr argraff mai chwarae rôl merch yn hytrach na byw eu bywydau fel merched y maent. Dinistriodd y ddwy frenhiniaeth oherwydd eu hunanoldeb, gwadu cyfrifoldeb am hynny, a thwylllo'u gwŷr er mwyn eu lladd - Medea yn ffugio maddeuant a Blodeuwedd yn esgus fod ganddi aer.

Mae diffyg cydwybod y ddwy yn amlwg; a'u hanallu i sylweddoli canlyniadau eu gweithredoedd. Nid bai Medea oedd ei natur ddinistriol yn ei barn hi, yn hytrach bai Jason am ei gadael hi a'u plant yn ddigartref. Yn yr un modd, nid bai Blodeuwedd ydoedd ei bod wedi bod yn anffyddlon i'w gwŷr, ond ei fai ef am ei gadael. Yn wir, ceisia gyfiawnhau ei thwyll drwy daflu'r bai ar Gwydion am ei chreu fel gwraig.

Ar ddiwedd Blodeuwedd a Medea, gwelwn y ddwy yn alltud o'u cartrefi ac yn unig yn y byd; ond heb ddeall yn iawn y rheswm dros hynny. Gwelodd Saunders Lewis gyfle i roi'r un enaid i Flodeuwedd y Mabinogi ag a roddodd Sybil Thorndike i arwres Euripides, a dyna eni'r ddrama.

Roedd Blodeuwedd yn agos iawn at galon yr awdur o'r cychwyn cyntaf - ysgrifennodd amdani mewn llythyr at ei wraig fis Chwefror 1922, ac roedd yn amlwg yn cael pleser mawr o'r broses greadigol. Meddai:

There's a glorious theme, taken from the Mabinogion, the faithlessness of Flowerform, the girl the magicians made of flowers. I take the advantage of her nature origin to make her a fey heroine, one who follows her instincts like all creatures of Earth, careless what disaster she may bring on others. Och, do you know, the finest fun I know is building up the characters in this way.¹

Cyfaddefodd y dramodydd fod rhan o gymeriad Racine, Hermione, ym Mlodeuwedd hefyd, a gellir gweld cymhariaeth â Phaedra yn ogystal.

Gwelwn Phaedra yn nhrasiedi Euripides Hippolytus (428 c.c.), gwraig y brenin Thesews, wedi ymserchu yn ei llysfab Hippolytos. Mae Hippolytos yn casáu merched, ond er hyn mae ei lysfam yn ceisio ei berswadio i gychwyn perthynas â hi. Llwydda i wahanu tad a mab gyda'i theimladau ar ôl iddi ei lladd ei hun, gan i Thesews ddarganfod nodyn yn ei llaw oer yn egluro'i bwriad. Ni lwyddodd nwydau Phaedra i chwalu bywydau'r dynion yn ei bywyd - fel na lwyddodd Blodeuwedd hithau i ddallu Gronw â'i serch a'i chwant. Ceisiodd Phaedra, fel merch y blodau, reoli teimladau eraill a methu - esgus Blodeuwedd am hyn oedd diffyg dealltwriaeth o'r hil ddynol; 'doedd gan Phaedra druan ddim eglurhad am ei gweithredoedd dinistriol ond hunanoldeb. Nid yw'r un o'r ddwy yn ystyried effaith yr hyn y maent yn ei wneud, dim ond eu boddhad nwydus hwy eu hunain. Nid oes iddynt ddyfodol y tu allan i'r berthynas berffaith y maent yn ceisio ei chreu, a hyn yn y bôn sy'n arwain at eu cwmp. Y dyddiau yma, byddai seiciatrydd yn galw eu hymddygiad yn obsesiynol, ond yn syml, 'doedd yr un ohonynt yn sylweddoli nad oedd ei hymddygiad yn arferol.

Er ei chychwyn yn Chwefror 1922 a chyhoeddi ei dwy act gyntaf yn Y Llenor rhwng 1923 a 1925, ni chwblhaodd Saunders Lewis Blodeuwedd yn ei ffurf bresennol tan 1947, ar ôl cais arbennig amdani gan Chwaraewyr Garthewin. Roedd ei frwdfrydedd at y ddrama wedi cilio cryn dipyn wedi ei rhoi i'r naill ochr am gyhyd. Nid ydoedd yn gwbl fodlon ei chynnig i Morris Jones a'i gwmni fel yr oedd, a gwnaethpwyd ychydig o newidiadau i'r ddwy act gyntaf gan Lewis cyn i'r ymarferion gychwyn yng ngwanwyn 1948.

Newidiwyd llawer o'r ymadroddion gor-lenyddol a oedd yn y drafft cyntaf - newid er gwell yn ôl J. Kitchener Davies yn y gyfrol Saunders Lewis - Ei Feddwl a'i Waith. Nid oedd angen gormodeddau, disgrifiadau a throsiadau cymhleth i gyfleu teimladau'r cymeriadau - gwell oedd gadael i'r mesur moel a gweithredoedd y cymeriadau egluro'u cymhellion gymaint â phosibl.

Cychwynnodd Saunders Lewis ar y ddrama gyda chymeriad Blodeuwedd yn unig mewn golwg, ei rhesymeg a'i diffyg dealltwriaeth o deulu dyn; ond buan iawn y datblygodd cymeriadau eraill y ddrama o fod yn frasluniau mewn chwedl hynafol.

Ni all enaid rhesymol garu fel ti,²

medd Llew wrth ei wraig, gan egluro ei chymeriad yn daclus. Creodd Gwydion hi fel gwraig, nid fel plentyn, yn declyn i garu'r Llew, ond heb brofiad y byd o'i hamgylch i ddatblygu ei chymeriad. Bwriadwyd hi fel anrheg o degan gan Gwydion i'w nai, heb i'r un ohonynt sylweddoli fod enaid wedi datblygu ynddi.

Gellir ystyried Blodeuwedd yn gymeriad syml neu gymhleth. Ar un llaw, mae ei symlwrwydd yn ysgytwol - mae'n byw ei bywyd heb fath o gefndir, atgofion na phrofiadau i'w phoeni; mae'n rhaid iddi ddeall a derbyn holl arferion yr hil ddynol heb nac eglurhad na greddf. Natur anifail sydd iddi, ac fel bwystfil sy'n hela mae'n erlid Gronw fel ysglyfaeth nes ei ddal. Ar y llaw arall, ni ellir dychmygu unrhyw beth mor gymhleth â merch wedi ei chreu gan ddewin.

Blodeuwedd yw canolbwyt y ddrama, ond nid hi sy'n gyfrifol am y digwyddiadau. Ymateb i'w hamgylchedd yn unig y mae hi yn ôl ei greddf naturiol - Gwydion a Llew sy'n gyfrifol am y gweddill.

Nid yw cymeriadau Llew a Gronw yn rhai cryf iawn - pypedau ydynt yn hytrach na chymeriadau cyflawn. Teclyn yn nwylo Gwydion yw Llew Llaw Gyffes, llipryn gwan wedi chwerwi oherwydd tynged ei fam arno; ac unwaith y daw Gronw Pebr i gysylltiad â Blodeuwedd, y mae'n colli ei synnwyr a'i urddas a throi ei gyfrifoldeb i'w deyrnas o'r neilltu er mwyn serch. Canlyniad hynny a geir yn Blodeuwedd, a'r cymeriadau yn cael eu sugno i'r fagl yn erbyn eu hewyllys bron. Roedd Llew yn gwrthod gwranddo ar ymbil ei wraig iddo beidio â

mynd a'i gadael, a'r diffyg ystyriaeth hwn ar ei ran ef a ysgogodd Blodeuwedd i chwantu Gronw. Nid oedd gan y gŵr o Benllyn ddewis ond derbyn ei serch, a chafodd ei ddallu ganddi am sbel. Daeth ato'i hun ar ôl i'r Llew ddychwelyd megis o farw'n fyw, a'r adeg honno'n unig y mae'n arddangos gwerthoedd a daliadau'r byd gwâr.

Nid llestr i aer y Llew yw Blodeuwedd, er mai felly y bwriadodd Gwydion hi. Agwedd ddyddiedig iawn sydd gan y dewin tuag ati, ni roddodd iddi gymorth i gynefino â phobl a'u harferion, na meddwl am roi iddi safle cyfartal â'i gwr. Nid oedd gan Blodeuwedd syniad am gonfensiynau dynion a merched mewn cymdeithas, ac o'r herwydd saif fel enghraifft gynnar o ffeministiaeth mewn llenyddiaeth Gymraeg.

Chwarae â natur ac ymyrryd â threfn naturiol pethau yw'r thema arall yn y ddrama - thema amserol iawn y dyddiau yma. Saif Blodeuwedd fel rhybudd i arbrofwyr yr ugeinfed ganrif o ganlyniadau erchyll chwarae hefo natur - gallwn weld elfen broffwydol yng ngeiriau Saunders Lewis o'r pedwardegau a ninnau yn dystion i ddatblygiadau fel trawsblannu calonnau mwncïod i gyrff dynol, clonio defaid, tyfu clust ddynol ar gefn llygoden a rhewi cyrff cyn iddynt farw gyda thechnoleg ddiweddaraf crytogeneg.

Gwelwyd Blodeuwedd ar lwyfan yn Lerpwl ym 1956 fel rhan o Wyl Ddrama'r ddinas, wedi'i chynhyrchu gan gwmni o Gymry'r ardal. Bu canmoliaeth i'r perfformiad, ac ymateb tebyg a gafwyd yn Nhreforus y flwyddyn ganlynol wrth i gwmni lleol, a chwmi Falmouth Road, Llundain ei pherfformio mewn ymateb i her gan Gwmni Drama Llangefni, a honnodd ei bod yn ddrama anodd i'w chwarae. Roedd y ddau berfformiad yn rhai graenus, a chystadlodd y cwmni o Lundain drachefn yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llangefni ddeufis yn ddiweddarach gan ennill cystadleuaeth perfformio drama hir yno.

Bu Blodeuwedd yn hynod boblogaidd ar y cyfryngau, gyda chwe chynhyrchiad ohoni - tri ar y radio a thri ar y teledu - er 1949. Cynhyrchwyd y ddrama am y tro cyntaf ar y radio ar 11 Mai 1949 gan Dafydd Gruffydd gyda chast rhagorol. Lorraine Davies oedd yn rhan Blodeuwedd, a chafodd gryn lwyddiant:

Ganddi hi yr oedd y gwaith trymaf ac anhawsaf, ac fe gawsom ganddi bob lliw yn ei chymeriad, a phob amrywiaeth yn y llais a'r pwyslais yr oedd angen amdano.³

meddai Y Gwrandawr, a chanmolodd Wyn Thomas fel Gronw hefyd, gan ddweud i'r actor ymddangos yn fwy cyfforddus yn ei ran erbyn diwedd y darllediad. Roedd canmol i'r perfformiadau eraill serch diffygion cyfrwng y radio; a Huw Griffith, Meredith Edwards, Olive Michael a Prysor Williams yn actio'n raenus iawn ym marn yr adolygydd.

Bu'n rhaid aros tan fis Rhagfyr 1961 am y dôs nesaf o Flodeuwedd dan oruchwyliaeth Emyr Humphreys. Gwnaeth Saunders Lewis ei hun rai newidiadau i'w ddrama ar gyfer cyfrwng y radio, a chyhoeddwyd yr addasiadau hyn gan Ioan Williams yn ei bennod ar y ddrama yn ei astudiaeth Dramâu Saunders Lewis - Y Casgliad Cyflawn Cyfrol 1 lle'ymddangosant mewn bachau petryal o fewn y testun. Siân Phillips oedd yn y brif ran, ond ni fu ei pherfformiad yn llwyddiant ym marn Sganar Y Faner, er fod naws ac awyrgylch y cynhyrchiad yn ddi-fai.

...Cyfres o ochneidiau melodramatig a dau neu dri gair hollol annealladwy,⁴

a gafwyd ganddi yn ôl y beirniad miniog ei dafod, gan ychwanegu mai "Mrs. O'Toole oedd yn actio".⁵ Ni fu'r holl gynhyrchiad yn ffradach er hyn: ychwanega Sganar;

...nid oedd holl duchan a wylofain Siân Phillips yn ddigon i ddileu'r awyrgylch llyfr gosod sy'n gwneud cymaint o lenyddiaeth Gymraeg yn fuddiol bob amser.⁶

Fel "Blodeuwedd mewn masgiau" y cyfeirir at gynhyrchiad teledu 1965 o'r ddrama, ac roedd cystadleuaeth i'w hadolygu yn Eisteddfod Genedlaethol y flwyddyn honno yn y Drenewydd. Darlledwyd hi ar ddydd Gŵyl Ddewi a'i hail-darlledu er mwyn i'r cystadleuwyr gael cyfle eto i'w beirniadu.

Incorporating *Waltz-Radio!* February 25, 1955. Vol. 166, No. 2155.

FEBRUARY 27—MARCH 5

Radio Times

SIXPENCE

WELSH EDITION

BBC

tv

Sound



BLODEUWEDD

This play in Welsh by
Saunders Lewis is one of
the special programmes for

ST. DAVID'S DAY

Meddai Emyr Humphreys, y cyfarwyddwr, am y cynhyrchiad yn y Radio

Times:

Y mae yn y chwedlau...enghreifftiau o gyfrif perthynas trwy'r fam ac nid drwy'r tad, ac yn fy marn i, adlais yw hyn o gyfnod pan oedd yr egwyddor fenywaidd yn rheoli crefydd a chymdeithas. Perthyn y cyfan i'r cynfyd hudolus sy'n aros o hyd yn y gwyll y tu allan i gyrraedd hanes.⁷

Gan ddangos taith yn ôl i orffennol Celtaidd pell pan oedd y duwiesau yr un mor bwerus, os nad yn fwy dylanwadol, na'r duwiau, eglura'r cyfarwyddwr fwriad ac ysbrydoliaeth ei gynhyrchiad:

Swydd y llun yn y ddrama farddonol hon yw tynnu sylw mwy manwl at y farddoniaeth ac at ystyr ddyfnaf y chwedl. Sail yr allanolion - setiau, y masgiau, y dillad a'r arfau - yw addasiad o hen gerfluniau Celtaidd o'r cyfnod La Tène, gyda benthyg hefyd o hen fyd coll yr Etrwsciaid. Yn yr un modd defnyddir ffilm i ddyfnhau'r cysylltiad â'r gorffennol pell ac i hoelio sylw ar fawredd thema'r ddrama.⁸

Bu gwreiddioldeb ac ymchwil y cynhyrchydd yn llwyddiant, gan i'r dyfeisiau hyn ysgogi adolygiadau canmoladwy iawn yn y wasg. Medd Meic Y Cymro:

Hyd y gwelaf i, y mae Mr. Emyr Humphreys yn sefyll allan yng Nghymru fel arloesydd unig wrth geisio defnyddio holl adnoddau'r cyfrwng newydd hwn.⁹

Ond erystal y syniadaeth, nid oedd y ddrama orffenedig mor llwyddiannus â'r ddelwedd ohoni. Roedd y setiau, y masgiau a'r defnydd o luniau llonydd yn drawiadol, a symudiadau'r actorion o amgylch y set yn cadw diddordeb y gwyliwr, ond yn anffodus, roedd hyn i gyd yn tynnu sylw oddi wrth y ddrama ei hun. Yn ôl Perspex yn y Caernarvon and Denbigh Herald:

For me, the transmission lost as much as it gained by these pictorial interpretations. It gained in variety and visual charm, it lost by distracting the viewer from the poet's words. Fine verse, rendered straight into the camera and microphone by a comely actor, can make its own potent way.¹⁰

Nid oedd technoleg y teledu yn ddigonol i wneud cyfiawnder â syniadau uchelgeisiol Emyr Humphreys, a'r masgiau hwythau yn anaddas yn ôl yr adolygydd:

In the performance they restrict the actor's range severely; an encumbrance which makes him a faceless mimer in a medium where the speaking head is paramount. Masks are most telling where the dramatist wishes to establish conventional theatrical types without delay, as in classical Chinese theatre; or where the actors perform far away from the audience, as in the Greek theatre. In Blodeuwedd [sic] the people are markedly individual.¹¹

Ni fu bwriad Humphreys o bwysleisio barddoniaeth hyfryd Saunders Lewis felly yn llwyddiant ysgubol, a rhwystr yn hytrach na chymorth oedd y masgiau.

Bu'n rhaid aros pymtheng mlynedd am gynhyrchiad arall o Blodeuwedd ar y teledu a chwmi amatur oedd yn gyfrifol am y rhaglen, a ddarlledwyd ar 9 Mawrth 1980 ar B.B.C. Cymru; sef Cwmni Adran Ddrama Coleg Prifysgol Cymru Aberystwyth. Bu awchu am weld y cynhyrchiad, yn rhannol gan mai Siwan Jones, wyres Saunders Lewis, a oedd yn cymryd y brif ran. Rhoddwyd llun o'r cynhyrchiad ar dudalen flaen Y Faner ar 7 Mawrth, ac roedd erthygl yn hysbysebu'r cynhyrchiad yn Y Cymro yr wythnos flaenorol.

Roedd yn gynhyrchiad tra gwahanol i'r un dim a welwyd ar sgriniau teledu Cymru o'r blaen. Fel y gellid ei ddisgwyl gan gynhyrchiad amatur, nid oedd ôl gwario arno - un set yn unig a ddefnyddiwyd gan y cwmni, a honno fel llwyfan theatr, yn awgrymu rhaglen deledu o berfformiad byw. Gallwn wneud

cymhariaeth yma â chynhyrchiad myfyrwyr Coleg Prifysgol Bangor o Amlyn ac Amig a ffilmwyd ar leoliad yng Nghochwillan gan roi iddo awyrgylch mwy credadwy a phroffesiynol. Rhaid pwysleisio, serch hynny, na fu i'r set amrwd amharu ar y cynhyrchiad hwn - gan fod yr actio mor wahanol i'r ddelwedd boblogaidd o'r ddrama, mae set foel yn sicrhau nad yw sylw'r gynulleidfa yn gwyro oddi wrth neges Blodeuwedd.

Llwyfan crwn sydd yma, gyda wal isel yn rhedeg o'i amgylch. Yn y cefn mae dau ddrws, a chrwyn anifeiliaid ar y llawr. Nid oes yr un celfcyn ac eithrio hambwrdd ag arno gwpan arian. Gan fod y cefndir mor syml, mae'r defnydd a wneir o oleuadau yn drawiadol - cawn olau clauer wyn i gychwyn y ddrama, yn tywyllu â dyfodiad Gronw Pebr - arwydd o burdeb y gaer yn cael ei ddirinrio. Pan symud y digwydd i'r awyr agored i gyfarfod Gronw a Blodeuwedd a lladd y Llew, daw gwawr werdd i'r lampau sydd ynghudd y tu ôl i'r mur isel, gan roi i ni'r argraff o wellt a pherthi isel. Pan fu i Llew ddisgyn oddi ar y gerwyn, gwelsom oleuadau gwyllt yn fflachio o amgylch Gronw a Blodeuwedd mewn coch a du, cyn boddi'r corff mewn golau glas. Bu i'r dyfeisiadau a'r set ddangos pwysigrwydd dychymyg yn hytrach nag arian wrth gynhyrchu drama deledu.

Roedd y gwisgoedd hefyd yn effeithiol a buddiol i'r cymeriadau - dillad tywyll gan Gronw, Rhagnell, Gwydion a'r Penteulu, tra gwisg Llew arfbais ar ei gry. Dewiswyd defnyddiau a fyddai'n ymestyn ar gyfer trowsusau'r dynion gan eu bod yn rowlio ar lawr ac roedd i'r ferch o flodau wisg hir wen hyd at ei thraed, a darnau o ddefnydd yn chwyrlïo o'i chylch megis petalau wrth iddi symud. O amgylch ei gwddf a gwasg y ffrog rhoddwyd darnau o blu mân gwyn - gwisg weddus i angel.

Nodwedd amlycaf y cynhyrchiad ydoedd yr actio corfforol - yn ôl John Rowlands, "byw eu rhannau" yn hytrach nag actio yr oedd y myfyrwyr mewn ymgais i hoelio sylw'r gynulleidfa. Gan fod yr actio mor fywiog, nid oedd angen am lawer o saethiadau ac onglau camera cymhleth, heblaw ambell lun agos o'r cymeriadau wrth iddynt siarad. Ar un achlysur, creodd Blodeuwedd effaith y saethiad agos drwy symud at lygad y camera - dyfais effeithiol a roddodd gyffro i'r llun heb gymorth technoleg y camera.

Ni ddefnyddiwyd llawer o gerddoriaeth yn y cynhyrchiad, ond yn ystod uchafbwyntiau'r digwydd a hefyd rhwng yr actau clywsom ddiscordiau yn cael eu chwarae ar y piano a phibau (pibau hefyd sy'n dynodi corn hela Gronw). Erbyn terfyn y ddrama, y cwbl a glywn yw rhywun yn taro nodau'r piano gyda'i gilydd i greu mwy o sŵn nag o gerddoriaeth.

Cadwyd at sgript wreiddiol y ddrama air am air, a oedd yn syndod gan i mi ddisgwyl fersiwn fodern o'r ddeialog gan y myfyrwyr. Cawn yr argraff fod y cwmni yn ceisio pwysleisio na fu i'r mydr eu dychryn wrth actio ac mae geiriau Saunders Lewis yn glir a dealladwy drwy'r ddrama (peth na ddylid ei gymryd yn ganiataol o ystyried rhai cynhyrchiadau proffesiynol fel Brad 1968). Pwysleisir y gwahaniaeth rhwng delwedd y dramodydd o'i Flodeuwedd a phortread ei wyres ohoni yn yr ymadrodd "...cawod drom fy ngwallt.." - nid oes blewyn o wallt Jones yn îs na'i chlustiau.

Unodd y geiriau a'r iaith goeth yn dda â'r symudiadau gwyllt ar y llwyfan - gwelais y cynhyrchiad yn ei gyfanrwydd fel arwydd nad oeddynt yn cytuno â'r ddelwedd boblogaidd fod cymeriadau Saunders Lewis yn rhai sych a pharchus, yn llonydd ar lwyfan fel y'u cyflwynwyd yn y gorffennol. Roedd canmol mawr i Siwan Jones yn y bif ran; rhoddodd berfformiad unigryw, fel yr eglurodd John Rowlands mewn adolygiad yn Y Faner:

Mae'n gyd-ddigwyddiad ffodus fod Siwan Jones, wyres Saunders Lewis, fel petai wedi'i geni i actio Blodeuwedd. Ond byddai'n gywirach dweud mai ymaflyd yn y rhan a'i gweddnewid a wnaeth. Gyda'i gwallt petalog edrychai'n ifanc a gwyllt, yn llawn diniweidrwydd bregus, ac eto wedi'i dirdynnu gan ing o'r dechrau. Yn ei hystwythder corfforol syrthiai ar ei chefn rhwng coesau Gronw ac ymglymu'n gorfforol ag ef ar y llawr o gwyn anifeiliaid.¹²

Wrth iddi ei thafu ei hun ar y llawr ac i freichiau'r dynion, gwelais Blodeuwedd fel symbol o rywioldeb y ferch dros y canrifoedd - wedi ei gloi ymaith am gyhyd

ac yn sydyn yn cael rhyddid; a'r ugeinfed ganrif a'i chydraddoldeb yn gae chwarae iddi. Nid yw Jones yn llonydd am eiliad, yn pwysleisio nad oes i Flodeuwedd wreiddiau. Mae elfen wyllt iddi, fel y bwriadodd y dramodydd, ond efallai fod Jones yn mynd dros ben llestri yn achlysurol gyda'i llais gwichlyd yn codi a gostwng yn rhy aml i ofynion y sgript, a bu i'w chwerthin dibaid fynd yn draul arnaf. Gwelwn hi fel anifail yn llarpio ei dynion (yn yr act gyntaf, mae'n cofleidio Gwydion gyda'r fath angerdd nes i mi deimlo elfen o losgach rhyngddynt) ac ar brydiau, mae'n ymddangos fel ei bod dan ddylanwad cemegolion anghyfreithlon - ai bod mewn carchar cnawd yw ei chyffur?

Mae'r actorion eraill oll yn gwneud eu gwaith yn gymwys iawn, yn enwedig Marion Williams yn rhan Rhagnell, a oedd fel mam dosturiol i Flodeuwedd gyda'i gwyleidd-dra a'i nerfusrwydd effeithiol. Nid oedd angen mwy o actio gan y dynion nag a gafwyd gan fod hwn yn gynhyrchiad bywiog beth bynnag, ac mae canmoliaeth yn ddyledus i'r cynhyrchydd am greu'r blerwch corfforol trefnus.

O leiaf roedd hwn yn gynhyrchiad hollol ffres
a gwahanol i ddim a welwyd o'r blaen,¹³

meddai Rowlands, barn wahanol iawn i un Charles Huws yn yr un rhifyn o'r Faner:

Cynhyrchiad ceiniog a dimai o
Blodeuwedd...¹⁴

Er yn ŵr ifanc, mae'n amlwg nad oedd ef yn gwerthfawrogi moderneiddio clasuron Cymraeg. Ymhelaethodd:

Pwy oedd y brif actores yma mewn gwirionedd? Wyres Saunders Lewis ynteu Jane Fonda? Yr oedd hi'n actio'n eithaf byth ag ystyried ei bod yn y ffasiwn awyrgylch am hyd gêm bêl-droed. Gwelir addurniadau tebyg yn y "boutique" a elwir "2001" yng ngh'anol y ddinas. Ai yno y pwrcasodd Blod

ei ffasiynol ŵn? Mae'n sicr mai yno y cafodd
ei mascara a'i lliwiwr-llygaid glas.¹⁵

Credaf ei bod yn angenrheidiol cyflwyno mwy o ddramâu yn y cywair cyfoes hwn, er mwyn ehangu ein gorwelion yn oes y teledu, a'n hysgogi i werthfawrogi cynhyrchiadau o'n clasuron yn hytrach na'u gwyllo'n ufudd bob dydd Gŵyl Dewi.

Ffilmiau Bryngwyn oedd y cwmni nesaf i fentro cynhyrchu'r ddrama ym 1990 - a Siôn, mab Emyr Humphreys, yn gyfrifol am y cyfarwyddo a'r cynhyrchu. Nid oedd hwn ychwaith yn gynhyrchiad arferol. Ffilmiwyd y ddrama yn Chwael y Fron yn Arfon, yng nghanol tipyn go lew o wynt, sy'n amharu dipyn ar ansawdd y sain mewn manau, a defnyddiwyd technegau ffilmio yma a oedd yn newydd i deledu Cymru. Gwyddai'r adolygwyr o flaen llaw y byddai Blodeuwedd Siôn Humphreys yn un bwysig, ffres a dylanwadol, ac felly ni fu fawr o wir feirniadu arni, dim ond canmol cyffredinol, megis yn erthygl Delyth George yn Barn:

Yn sicr chwythwyd anadl einioes i
gymeriadau cyfarwydd ac oesol eu hapêl gan
actorion dawnus.¹⁶

Tybed na ellid dewud hyn am unrhyw gynhyrchiad o unrhyw un o ddramâu Saunders Lewis? Meddai Elin Mair yn Y Faner:

Doedd dim brwdfrydedd; chwalwyd egni y
chwedl.¹⁷

Ond beth oedd arwyddocâd y chwedl wreiddiol i'r rhaglen? Cynhyrchiad o ddrama Saunders Lewis ydoedd, a gafodd ei seilio ar chwedl o'r Mabinogi; felly ai teg oedd i Elin Mair wneud y fath gymhariaeth?

Prif fyrdwn yr holl adolygiadau oedd y dyfeisiadau ffilmio a ddefnyddiwyd gan Humphreys yn ei ddehongliad. Roedd yn ceisio rhoi agwedd fwy ffeministaidd i'r ddrama, a chawn ein hatgoffa o waith y cynhyrchydd Eidalaid Pier Paolo Pasolini wrth wyllo Blodeuwedd; yn arbennig ei ffilm

Edipo Re (Oedipus Rex) 1967. Mae naws y ddwy yn eithriadol o debyg i'w gilydd; gyda Humphreys fel Pasolini yn defnyddio miwsig cyntefig drymiau a chyrn hela a'u rhythmau anifeilaidd i greu tensiwn; bob yn ail â hyn defnyddir tawelwch gan y ddau i ddyfnhau'r awyrgylch. Fel yn Blodeuwedd, mae yn Edipo Re nifer o olygfeydd trawiadol o dirwedd y wlad, ac er fod anialwch poeth yr Eidal yn dra gwahanol i gerrig oer Cymru, mae'r panio araf dros fynyddoedd y ddwy wlad yn od o debyg yn y ddwy ffilm.

Mae Siôn Humphreys yn gwneud defnydd helaeth o ffiltrau lliw ar lygaid ei gamerâu - mae gwawr las i'r act gyntaf i gyfleu oerni, a gwelwn yr ail act drwy wawr felen, sy'n symbol o wawr yr haul ar berthynas Gronw a Blodeuwedd. Mae'r drydedd act wedi ei lliwio â ffiltir goch i awgrymu'r tywallt gwaed sy'n ganlyniad i'r berthynas serchus, a'r act olaf wedi ei ffilmio yn normal heb yr un ffiltir - ai hwn felly yw'r presennol, a'r cymeriadau'n wynebu canlyniadau'r gorffennol lliwgar? Ni wna Pasolini ddefnydd o ffiltrau, ond mae'r lliwiau naturiol a ddangosir yn Edipo Re yr un mor drawiadol - gwelwn lesni'r awyr yn gefndir i'r tywod melyn, y creigiau cochion a gwerddonau'r anialwch - gellir gweld sut y gallai Humphreys fod wedi cymryd hyn yn ysbrydoliaeth.

Mae gwisgoedd y ddau gynhyrchiad yn debyg i'w gilydd, yn syml a thrawiadol, ond yr hyn sy'n taro'r llygad yw tebygrwydd yr helmedau a'r masgiau a ddefnyddiwyd yn y ffilmiau - helmedau arian ydynt, yn grwn am y pen gyda darnau'n dod i lawr dros y clustiau. Mae'r oracl yn Nelffi yng ngwaith Pasolini yn gwisgo masg sy'n debyg iawn i'r un a wisgir gan Gwydion mewn fflachiadau o olygfeydd drwy Blodeuwedd - masgiau ydynt wedi eu saernïo o glai ac yn cuddio darnau o'r wyneb yn unig.

Gwelwn debygrwydd trawiadol yn y ffordd y rhoddwyd y ddwy ffilm at ei gilydd. Ni welwn fawr ddim symudiadau camera, dim ond panio'r cefndir a dilyn cymeriadau wrth iddynt siarad - cedwir y saethiadau yn syml gan ganolbwyntio ar areithiau'r cymeriadau; defnyddir saethiad agos iawn yn fynych o gymeriad wrth iddo siarad - techneg sydd braidd yn ddiflas ac ailadroddus ar brydiau, ond yn ffordd ardderchog o gyfwyno drama glasurol i'r gynulleidfa (cymorth arall i hyn yw'r diffyg celfi - gan nad oes llawer o bethau ychwanegol

yn y golygfeydd i dynnu sylw'r gwyliwr, mae'n fwy tebygol o ganolbwyntio ar beth sy'n cael ei ddweud).

Defnyddir yr un technegau gan Pasolini yn ei ffilm Medea, gyda Maria Callas yn y brif ran. Gwelwn debygrwydd eto rhwng hon a Blodeuwedd Siôn Humphreys yn y saethiadau llydan o'r tirlun anial, prydfferth a'r gerddoriaeth amhersain sy'n rhoi iddi yr elfen afreal angenrheidiol i gefndir y ddwy brif gymeriad. Mae'r gwaith camera yn debyg eto - cawn saethiadau agos iawn o gymeriadau wrth iddynt siarad, ac mae'r camera yn tremio ar eu holau wrth iddynt symud. Cawn yma wahaniaethau hefyd - mae gwisgoedd Pasolini yn goeth a gemog tra gwisg Humphreys ei gymeriadau yn llawer symlach. Mae elfen wyllt Medea yn amlwg yn y cynhyrchiad Eidalaid, lle y'i gwelir yn rhedeg a sgrechian yn yr anialwch; yn ein hatgoffa o bortread Siwan Jones o Flodeuwedd ym 1980; ond mae Catherine Tregenna yn fwy sidet a rhwystredig. Ffurfiol yw deialog Humphreys, yn unol â sript Saunders Lewis, ond er mai cyflwyniad o ddrama hynafol yw Medea, gwelwn fwy o egni yn neialog y cymeriadau. Mae cefndir mytholegol y dramâu yn cael ei adlewyrchu yn y ddau gynhyrchiad, a'u naws arallfydol yn gymorth i'r gynulleidfa ddeall a sylweddoli unigrywedd y cymeriadau.

Mae'n rhaid ystyried y tebygrwydd rhwng hanesion Blodeuwedd ac Edipo Re - canolbwynt y ddwy ddrama yw tynged anorchfygol y duwiau. Roedd Arianrhod, mam Llew, yn dduwies yn ôl chwedlau'r Cymry, a rhoddodd dynged ar ei mab na fyddai'n cael enw, arfau, na gwraig o blith merched dynion, ac ymgais Gwydion i drechu hyn yw creu Blodeuwedd. Rhoddwyd tynged ar Oedipws hefyd; y byddai'n lladd ei dad a phriodi a magu teulu gyda'i fam ei hun. Ymgais ei rieni i drechu hyn oedd gadael y plentyn Oedipws ar ben mynydd i farw. Mabwysiadwyd ef gan frenin o dalaith gyfagos ar ôl i fugail ei ddarganfod yno, a dyna p. aham nad adnabu y llanc ei dad wrth ei gyfarfod, a'i ladd yn ddiymwybod. Aeth ymlaen i ladd y Sffincs a oedd yn bla ar ddinas Thebau, ac o ganlyniad, priododd y frenhines, ei fam naturiol. Ymhen blynnyddoedd, daeth pla arall ar y ddinas, ac Oedipws yn gyfrifol amdano gan i Thebau ddirywio oherwydd nad oedd llofrudd y brenin blaenorol wedi'i ddal a'i gosbi.

Gellir cymharu Oedipws â Gronw yn ogystal - mae'r ddau yn deithwyr unig sy'n dod â ffawd drwg gyda hwy - dinistriwyd Thebau a chaer Llew ganddynt. Lladd yw ffordd y ddau ohonynt o ennill grym a chodi yn eu safle mewn cymdeithas - nid aer naturiol oedd yr un ohonynt, er i Oedipws, yn ddiymwybod i bawb ond y gynulleidfa, gael ei eni'n dywysog.

Ar ôl astudio Edipo Re, cawn well syniad o'r hyn y mae Siôn Humphreys yn ceisio'i gyflawni. Ystyrir Pasolini yn un o gyfarwyddwyr blaenllaw Ewrop, yn ei amser yn cyflwyno gwaith newydd, ysgytwol gyda deunydd chwedlonol. Credaf mai hyn oedd bwriad Humphreys yn ogystal; disgrifir ei waith gan David Berry yn ei lyfr Wales and Cinema:

Siôn Humphreys....continued through S4C's first decade to provide an eclectic range of drama...and he revealed a strong feeling for text, landscape, metaphor and painstaking framing....Humphreys's work tends to be intense and reflective, with passion contained or repressed, and to rely on atmosphere, sometimes at the expense of narrative drive.¹⁸

Credaf mai'r rheswm y tu ôl i fethiant Blodeuwedd yn llygaid y gwylwyr oedd brwdfrydedd Humphreys a'i gariad tuag at ei waith. O safbwynt technegol roedd ei ffilm yn gampwaith, yn llawn awyrgylch, ac yn rhoi golwg newydd ar destun y ddrama, ond o safbwynt llenyddol, ni chyflwynwyd y ddeialog yn effeithiol o gwbl. Oherwydd sŵn y gwynt, roedd yn rhaid i'r actorion weiddi ar brydiau, ac oherwydd i Humphreys ddefnyddio saethiadau agos ar gyfer y rhan helaethaf o'r deialog, ni welwn unrhyw emosiwn rhwng yr actorion - yn wir, nid oes yr un ohonynt yn cyffwrdd â'i gilydd tan y drydedd act, pan rydd Llew ei law ar fraich ei wraig wrth ddeall fod ganddi aer iddo.

Defnyddiodd Humphreys nifer o ddelweddau yn ystod y ffilm - gwelwn dorch enfawr o wiail yn sefyll mewn llyn a fflam yn llosgi ar lawr mewn cylch o lechi, mae darnau o'r masg y mae Gwydion yn ei wisgo yn ymddangos yn ddirybudd, a cherrig gwynion wedi'u gosod mewn patrwm yn arwain y ffordd i'r gaer. Gallwn ddychmygu mai symbol o fenyweidd-dra yw'r dorch wiail, a'r



masg yn symboleiddio wynebaw gwahanol Gwydion - y dewin, yr ewythr, y crëwr a'r anifail. Mae'r fflam yn amlwg yn arwydd o groeso a dedwyddwch y gaer, canolbwynt y digwydd, ond gallwn hefyd ei gweld yn arwydd o Lew Llaw Gyffes - nid yw'r fflam yn diffodd drwy gydol y ddrama, yn pwysleisio'r ffaith na fu Llew, meistr y gaer, farw fel y tybiwyd.

Y mae'r cymeriadau oll fel petaent yn ymddanos o unman - pan ddaw Blodeuwedd i'r golwg am y tro cyntaf, gwelwn hi yn sefyll ar ei phen ei hun wrth y tân, ond ar ganol ei sgwrs â Llew a Gwydion, y mae'n ymddangos gyda hwy yr ochr arall i'r chwarel. Ychwanega'r neidio hwn elfen afreal i'r cynhyrchiad, fel yn Edipo Re pan welwn ferch fronnoeth yn ymddangos o flaen Oedipws ar ei daith tua Thebau. Ceisiodd Humphreys newid pwyslais y ddrama - rhoddodd hi mewn amgylchedd oer, llwm yn lle cydymffurfio â delweddu poblogaidd o'r chwedl mewn paradwys ar lun Eden. Ceisiodd bortreadu Blodeuwedd nid fel "hudoles" hunanol ond fel merch unig, ofnus na wyddai ddim am ffordd dynion, a heb haeddu'r bai am ei gweithredoedd.

Does fawr ddim addasu wedi bod ar y testun gwreiddiol - credaf mai yn yr elfennau allanol yr oedd y beiau. Roedd yn rhaid i'r actorion weiddi dros sŵn y gwynt mewn manau, ac roedd cyfarwyddyd Humphreys yn amlwg yn eu llonyddwch corfforol. Roedd y Flodeuwedd hon yn ennyn tosturi, a Gronw yn cael ei bortreadu fel un a syrthiodd mewn cariad, nid y dyn drwg a ddygodd wraig a chartref y Llew. Un llywaeth oedd arglwydd y gaer hefyd; ebe Delyth George yn Barn:

Nid creadur trist yn hawlio cydymdeimlad
hael mo Llew Llaw Gyffes, ond dyn
hunandosturiol a chwerwyd (yn ddigon
naturiol) gan ei orffennol anffodus a'i fam
wedi ei dynghedu i fyw heb yr elfennau
hynny a roddai iddo urddas gŵr.¹⁹

Oherwydd hyn, nid oedd yn hawdd gan y gynulleidfa gydymdeimlo nac uniaethu ag unrhyw un o'r cymeriadau. Cafwyd cwynion yn y wasg am yr actorion - llais cwynfanus Catherine Tregenna yn rhan Blodeuwedd, a'r ffaith fod Llion Williams fel Llew yn atgoffa Siân Gwenllïan o gymeriad George yn y gyfres

gomedï boblogaidd C'Mon Midffild. Siomwyd Ms. Gwenllïan gan gynnwys y ddrama hefyd; er ei bod yn gwerthfawrogi'r syniad o leoliad anghyffredin:

Roedd y cynhyrchiad yma fel petai'n gwneud
ati i fod yn uchel-ael,²⁰

meddai. Nid oedd yn nhabl "Sleifars y Sgrîn" Y Cymro am yr wythnos honno, a oedd yn rhestru deg rhaglen fwyaf poblogadd S4C o safbwynt nifer y gwylwyr. Ar frig y rhestr roedd rhifyn y nos Wener honno o Pobl y Cwm, gyda 121,00 o gynulleidfa. Roedd rhaglen Gwynfryn yn rhif deg gyda 86,000 o gynulleidfa. Trist yw casglu fod mwy o ddiddordeb mewn opera sebon ddyddiol nag yn un o ddramâu clasurol Saunders Lewis - *c'est la vie!*

Cwestiynu poblogrwydd technegau Siôn Humphreys yr oedd Iwan Llwyd yn Y Cymro:

Yr elfen reddfól, gyntefig yma oedd ar goll
yng nghynhyrchiad Siôn Humphreys dybiaf i.

Er cystal y lleoliad a lliw a chysgod y llechi, a holl driciau'r camera a gwaith caled yr actorion, roedd y cyfan yn rhy glinigol, ymenyddol - fel pe bai'r actorion a'r cynhyrchydd yn dal yn ôl rhag mynd i'r afael â rhai o themâu mwyaf brwnt a threisiol y chwedl, a'r ddrama.²¹

Gor-gynhyrchu wrth geisio bod yn syml oedd un o feiau Humphreys, ond yn dechnegol, mae'n ffilm sy'n llwyddo wrth ei rhoi ochr yn ochr â chynnyrch cyfarwyddwyr Ewrop. Pe cynhyrchid mwy o ddarnau fel hyn, byddai cynulleidfa deledu Cymru'n dod i ddeall y cyfrwng cyn ei feirniadu, ac ni fyddai cynhyrchiadau fel hyn wedyn yn cael eu hystyried yn "uchel-ael".

Er y feirniadaeth arni, roedd y ffilm yn llwyddiannus mewn nifer o'i hamcanion. Roedd Siôn Humphreys yn ceisio portreu Blodeuwedd fel person; ffigwr o ffeministaeth, a chredaf fod Catherine Tregenna wedi rhoi agwedd ffres tuag ati i sawl gwylwr gyda'i phortread. Roedd manylion bychain, megis bod ei gwallt yn rhydd dros ei hysgwyddau pan ydoedd gyda Gronw ac wedi'i glymu yn

ôl yn dynn pan yng nghwmni'r Llew, yn arwydd o bersonoliaeth, nid creadigaeth yn unig. Ceisiodd y cynhyrchydd hefyd ddangos peryglon ymyrryd â natur, gan bortreadu Gwydion yn ddewin creulonach na'r arfer, a pha well lle i ddangos hyn ond mewn chwarel, lle mae dyn wedi malurio'r tirwedd naturiol er ei fudd ei hun. Rwbwl a llanastr oedd canlyniad y cloddio, chwalu bywydau oedd canlyniad ymyrraeth y dewin.

Wrth greu Blodeuwedd, ni chredaf fod Humphreys wedi bod yn rhy uchelgeisiol; ond ystyriaf ei fod wedi cynhyrchu'r ffilm yn rhy gynnar. Wedi profi rhaglenni megis Twin Peaks a The X Files, credaf y byddai'r gynulleidfa yn fwy parod i dderbyn cynhyrchiad "gwahanol" yn ail hanner y nawdegau. Medd David Berry, gan bwysleisio'r anawsterau a wynebwyd gan y cynhyrchydd, y cast a'r criw:

The film, hampered by a short shooting schedule and low budget....seemed like a missed opportunity and was not well received by the public or the higher echelons of S4C.²²

Efallai nad oedd Blodeuwedd Siôn Humphreys yn llwyddiant ysgubol, ond roedd yn sicr yn ddehongliad trawiadol o ddrama a gafodd ei chynhyrchu sawl gwaith o'r blaen, ac yn esiampl wych o dechnegau cyffrous ffilm. Efallai na ellir ei chymharu â ffilmiau Hollywood; ond o fewn cae chwarae ffilm Ewrop, mae ei safon yn rhywbeth y gall Cymru fod yn falch ohono.

Cynhyrchwyd Blodeuwedd ar y radio ym 1994, yn rhan o gyfres o bump o ddramâu Saunders Lewis a gynhyrchwyd rhwng Nadolig a'r Pasg y flwyddyn honno - Branwen, Esther, Gymerwch chi Sigaret? a Cymru Fydd oedd y lleill.

Cafodd ei chynhyrchu gan Aled P. Jones, un o brif gynhyrchwyr drama Radio Cymru, o stiwdio Bangor. Roedd y cast, fel yng ngynhyrchiad teledu 1990, yn brofiadol a dawnus - yn wir, roedd dau ohonynt yn chwarae'r un

rhannau - Dafydd Emyr fel Gronw a Nia Williams fel Rhagnell. Cawsant fwy o gyfle y tro hwn i ddatblygu'u cymeriadau, ond mae gennyf ofn na chymerwyd mantais o'r cyfle.

Ni allaf ddweud fod y cynhyrchiad yn un gwael, gan nad oes un elfen unigol o'r rhaglen yn haeddu'r disgrifiad, ond ni allaf ei ganmol ychwaith gan nad unodd elfennau'r ddrama â'i gilydd i greu cyfanwaith artistig.

Gwnaed defnydd da o gerddoriaeth o'r cychwyn cyntaf, gyda discordiau seiloffon yn atsain yn gefndir i sgwrs agoriadol Llew a'i ewythr Gwydion. Llwyddodd hyn i greu awyrgylch o densiwn a chwilfrydedd, a chiliodd y miwsig cyn amharu ar y sgwrs. Mor gynnar â hyn, roedd y cymeriadau'n wan, ac o'r herwydd yn taflu'r ddrama oddi ar ei hechel. Ni ellir gweld bai o gwbl ar J.O. Roberts yn rhan Gwydion, er fod ei gymeriad wedi'i wanhau drwy dorri peth o'i ddeialog o'r sgript. Er mwyn i ni ddeall rhai o sylwadau Blodeuwedd yn niwedd y ddrama, rhaid i'r gynulleidfa gael gwybod am gefndir y dewin. Cawn y wybodaeth gan Saunders Lewis fel hyn:

mi gerais i wragedd a bwystfilod lawer..²³

Ni allaf ond amau mai golygu oherwydd diffyg amser, nid er mwyn ystyr, a wnaethpwyd wrth ddileu'r sylw hwn. Nid dyna'r nam pennaf ar yr act gyntaf - cymeriad Llew yw hwnnw. Chwaraeir ef gan Huw Garmon, ac ymddengys nad oedd wedi deall cymeriad mab Arianrhod. Cyflwynna rai o eiriau mwyaf teimladwy a sensitif Saunders Lewis:

Byth, anghofia'i fyth y bore gwyn
Y gwelais i Flodeuwedd gynta' erioed..²⁴

fel petai'n adrodd ar lwyfan eisteddfod, mewn llais llawen. Nid oes yma gysgod o'r gŵr "truan" a alltudiwyd gan ei fam, ac mae diffyg dealltwriaeth y cymeriad o'i wraig ar goll - ymddengys yn hapus ei fyd.

Er cyn lleied ohonynt sydd, y mae'r effeithiau sain yn cymryd eu lle yn iawn yn y cynhyrchiad. Clywn Blodeuwedd yn dod tuag at y ddau ŵr a'i llais yn

chwyddo wrth iddi agosáu; cwtogir llawer o'i llinellau gorau hithau. Collwn un o'r rhesymau pam fod Blodeuwedd mor gyndyn o adael i'w gŵr fynd ar ei daith:

'Fûm i ddim hebot ti erioed o'r blaen.
Mae arna'i ofn fy ngadael,²⁵

meddai wrtho yn y testun gwreiddiol - ni chlywn hyn yma. Gwelaf yr un bai ar Morfudd Hughes yn y brif ran ag a welais ar actio Huw Garmon - mae'r llefaru hefyd yn rhy ffurfiol galed. Oes, mae peth emosiwn yn llais Hughes, ond dim digon i ennyn cydymdeimlad y gynulleidfa. Bai cyffredinol ar ddramâu radio yw hyn - rhoi i ni yr ochneidio a'r emosiwn disgwylidig y maent, yn lle gadael i'r cymeriadau eu hamgylchynu a'u meddiannu, fel sy'n digwydd yn amlach ar y sgrîn. Ar ôl gwyllo portread pwerus, ffres Catherine Tregenna o Flodeuwedd, mae'n anodd iawn peidio â chymharu'n anffafriol. Un enghraifft o hyn yw wylo'r ferch ar ôl i'r gŵr ymadael â hi. Yn y cyfarwyddiadau llwyfan, roedd Saunders Lewis am ei gweld yn "ei thaflu ei hun ar lwth ac yn wylo", ond yn y cynhyrchiad hwn, dim ond ambell ochenaid dawel a glywn. Yn yr un olygfa, dywed Blodeuwedd iddi glywed corn hela, ond aeth yr effaith sain arbennig honno ar goll - a ydym i gredu fod i'r ferch a wnaed o flodau glyw arbennig? Nid eglurir i'r gynulleidfa ychwaith fynd a dod y cymeriadau i'r ystafell; gwna hyn hi'n anodd pennu pwy sydd yn bresennol yn y golygfeydd.

Credaf nad oedd yr actorion yma yn ddigon cyfarwydd â'r sgript, a hynny yn gyfrifol am y diffyg cymeriadu. Mae sawl enghraifft hefyd o gam-ynganu neu gam-ddarllen. Clywn "tân" yn lle "tan", "flynyddoedd" yn lle "ffyddlondeb" a "fyddaf" yn lle "fynnaf". Mae'r camgymeriadau hyn yn gwneud gwahaniaeth aruthrol i ystyr y brawddegau, ac yn rhoi naws amaturaid i'r cynhyrchiad.

Mae distawrwydd a seibiau yn arfau gwerthfawr ar y radio, ond ni wnaethpwyd defnydd da ohonynt yma. Mae'n wir fod y seibiau rhwng y golygfeydd yn effeithiol tu hwnt, ond yn ystod y ddeialog, nid ydynt yn taro deuddeg - mae'r emosiwn angenrheidiol ar goll.

Er hyn, ceir ambell berl yn y cynhyrchiad hwn o Blodeuwedd. Mae golygfa agoriadol Act IV yn un arbennig, a'r casineb rhwng Rhagnell a

Phenteulu Penllyn, a chwaraeir gan Dyfan Roberts, yn drawiadol. Yma, yn un o olygfeydd gorau Saunders Lewis, yn wahanol i weddill y cynhyrchiad, ceir seibiau effeithiol i greu amheuaeth am farwolaeth Llew Llaw Gyffes, ac ofn a phanig Rhagnell ar ran ei meistres.

Mae'r diwedd glo hefyd yn fflach yng nghanol cyffredinedd y cynhyrchiad. Drwy dechnegau sain, mae chwerthiniad Blodeuwedd, mewn eco oeraidd, yn troi'n sgrech tylluan. Llwyddodd Aled Jones i orffen ei waith ar nodyn uchel, ac o'r herwydd, mae'n haws maddau beiau gweddill y cynhyrchiad.

Ar y cyfan, credaf i Blodeuwedd gael sylw teg ar y cyfryngau dros y blynyddoedd, a hynny mewn modd gwreiddiol a diddorol iawn. Ni chredaf fod yr un o'r cynhyrchiadau yn rhy debyg i'w gilydd o ran cyflwyniad, golygu na delwedd; hyn yn brawf o hyblygrwydd sgript wreiddiol Saunders Lewis.

SIWAN

Ystyrir Siwan yn un o gampweithiau Saunders Lewis o ran cynnwys ac arddull. Hanes Siwan, gwraig Llywelyn Fawr a merch John, brenin Lloegr sydd yma, a'i charwriaeth â'r Ffrancwr ifanc, Gwilym Brewys, neu William de Breos; a oedd hefyd yn perthyn iddi drwy briodas - rhoddwyd Gwladys Ddu, merch deirblwydd Siwan a Llywelyn, yn ail wraig i dad Gwilym, ac roedd cynlluniau i rododi Isabella, merch Gwilym, yn briodferch i Ddafydd, eu mab a'u hetifedd. Daw Gwilym i lys Llywelyn yng Ngwynedd pan wŷr fod y tywysog oddi cartref, a'i fwriad ar dreulio'r noson gyda Siwan. Mae'r ddau yn datgan eu cariad tuag at ei gilydd yn yr ystafell wely yn yr act gyntaf pan glywant sŵn carnau ceffylau yn agosau at y gaer, a chynnwrf wrth y porth islaw. Llywelyn sydd yno, wedi dychwelyd yn gynnar oddi ar ei daith; mae'n debyg mai Hubert de Burgh, "prif weinidog" Lloegr a fradychodd y cariadon. Carcherir Siwan yn y tŵr a chadwynau yn ei dal wrth y gwely, tra clywir Gwilym yn cael ei grogi ar y lawnt islaw am ei drosedd. Cedwir y dywysoges ynghlo am flwyddyn; ac yn y drydedd act daw Llywelyn ati i'w rhyddhau a gofyn am ei maddeuant; dychwelir Siwan i'w lle priodol yn y llys a'i choroni unwaith yn rhagor gan ei gŵr i gloi'r ddrama.

Cyfansoddwyd Siwan yn y mesur penrhydd - datblygiad pwysig yng ngyrfa Saunders Lewis yn ôl John Rowlands:

Y gwir yw fod datblygiad Saunders Lewis fel dramodydd yn dangos fel y symudodd yn raddol oddi wrth iaith ac arddull farddonol at ryddiaith rythmig. Yn Siwan yr ydym tua hanner ffordd yn y datblygiad hwnnw: does yma ddim mesur fel y cyfryw....Ond eto nid rhyddiaith mohoni: gellir ymglywed yn hawdd iawn â'r rhythmiau bwriadus, a'r saefnio ymwybodol ar frawddeg a chymal.²⁶

Mae'r ddeialog yma'n llifo'n esmwyth gan ychwanegu urddas gweddus i'r cymeriadau brenhinol. Nid yw Saunders Lewis yn un am geisio portreadu bywyd bob dydd yn ei ddramâu, ac felly nid yw deialog fodern yn gweddu i'w

Ni bu gwraig arall yn nheulu Gwynedd mor
alluog, nac yn wleidydd fel hon. Yn
effeithiol, hi oedd ysgrifennydd tramor
Cymru dan lywodraeth Llywelyn ap
Iorwerth,²⁹

eglura Lewis, ac oherwydd hyn, gwelwn ei deallusrwydd, a deall sut y bu iddi
deimlo'n unig ac anfodlon ar ei bywyd tra'n credu nad oedd ei gŵr yn ei charu.

Priodi o ddyletswydd oedd y drefn i'r frenhiniaeth bryd hynny, a dyna fu
hanes Siwan pan y'i cyflwynwyd i Lywelyn yn ddeg oed. Y briodas hon yw
canolbwynt y stori - gallwn gymryd sylw Siwan am bwysau'r goron a wnaeth
ddawnsio'n amhosibl iddi fel pwysau annerbyniol cymdeithas ac arferion Cymru
arni, yn mygu ei phleser. Mae'r un peth un wir am y fodrwy sydd ar ei bys - y
fodrwy a dynnodd waed o wefus Alis. Symbol o'r briodas rhyngddi a Llywelyn
yw hon hefyd; a'r uniad, yn hytrach na'r fodrwy, a dynnodd waed - gwaed
Gwilym Brewys.

Calan Mai yw'r cefndir, gŵyl y cariadon, dechrau'r haf a thymor serch.
Canodd Dafydd ap Gwilym i'r mis gan bwysleisio ei nwyd:

Dofais ferch a'm anerchai,
Dyn gwiwryw mwyn dan gôr Mai.³⁰

a chanolbwynt y dawnsio a'r dathlu oedd y Fedwen. Pa ryfedd felly i Siwan
benderfynu chwilio am hapusrwydd gyda'r Ffrancwr ifanc, golygus a gaiff ei
gymharu gan Alis â Thrystan?

Drama am deimladau ac ymateb yw Siwan. Gwilym sy'n dod ati hi; a
Llywelyn sy'n ei charcharu a rhoi cosb lleidr cyffredin i'r gŵr a'i gwnaeth ef yn
gwcwallt; ef sydd hefyd yn rhyddhau Siwan a gofyn am ei maddeuant. O'i
chymharu ag arwresau eraill Saunders Lewis, cymeriad goddefol ydyw - er ei
bod yn mynnu i Gwilym ei dal yn ei freichiau er mwyn i Lywelyn eu gweld felly,
nid yw Siwan yn disgwyl cael ei dal. Gwnaeth y cymeriadau eraill safiadau
pendant - camymddwyn y tu ôl i gefn ei gwr wnaeth Siwan heb gynllwynio dim
arall.

Bu Saunders Lewis gryn amser yn cwblhau Siwan, gan i'w ddyletswyddau colegol fynd â'i amser. Meddai mewn llythyr at Kate Roberts fis Medi 1953:

Yr wyf fi ar ganol drama a addewais i'r B.B.C. ar Siwan, gwraig Llywelyn Fawr. Ysywaeth, bydd y coleg a'i ddarlithiau'n cychwyn mewn pythefnos arall, felly nid oes obaith am ei gorffen cyn y Calan. Ond gorffennais yr act gyntaf ddoe a dechrau ar yr ail act. Ceisiaf orffen honno cyn i'r darlithiau agor.³¹

Cwblhawyd hi erbyn ei darlledu ddydd Gŵyl Ddewi y flwyddyn ganlynol ar y radio, dan gyfarwyddyd Dafydd Gruffydd. Cyfansoddwyd y gerddoriaeth ar gyfer y perfformiad hwn, fel sawl un arall o ddramâu radio Saunders Lewis, gan Grace Williams, a'r actorion oedd Raymond Edwards (yn rhan Llywelyn, fe dybiaf), Gwenyth Petty (Siwan), Sheila Huw Jones yn rhan Alis a Wyn Thomas fel Gwilym. Nid oes llawer o fanylion am y cynhyrchiad hwn mewn adolygiadau; ni chawn wybod a oedd yn llwyddiant, ond datganodd Saunders Lewis ei anfodlonrwydd â'r llefaru mewn llythyr at Robert Wynne, Garthewin, cyn y perfformiad o'r ddrama yn y theatr yno. Meddai:

I hope, by the way, that the Siwan players will pronounce it with an S, not sh as Dafydd Gruffydd insisted on the radio.³²

Bu i Kate Roberts, mewn adolygiad o'r perfformiad llwyfan hwnnw yng Ngŵyl Garthewin ar nos Lun, 23 Awst, honni mai ar gyfer y radio yr ysgrifennwyd Siwan, gan mai ar y cyfrwng hwnnw y'i perfformiwyd gyntaf, ond cywirodd y dramodydd ei sylw mewn llythyr tuag ati:

Un pwynt bychan - nid fel drama radio y meddyliais i gynta' am Siwan ond ar gyfer llwyfan Garthewin. Wedyn daeth y B.B.C. a gofyn am ddrama Gwyl Ddewi, ac mi es ati wedyn yn syth.³³

Mae'r ddrama yn gweithio yn well ar y radio nag ar unrhyw gyfrwng arall - yn bennaf oherwydd y diffyg amrywiaeth mewn golygfeydd a symudiadau. Cawn wybod am y digwyddiadau pwysicaf gan Alis - y ddawns ar y lawnt, adeiladu'r crocbren, naid Gwilym Brewys a Siwan yn disgyn i'r llawr mewn llewyg. Mae ei geiriau wrth y mudan yn pwysleisio hyn:

Mae'r dywysoges wedi syrthio mewn llewyg,
Tyrd i'm heplu (sic) i'w chodi...³⁴

Byddai cynulleidfa lwyfan neu deledu yn gweld hyn drostynt eu hunain, hawdd felly yw cyfiawnhau syniad Kate Roberts wrth gwestiynu ei haddasrwydd ar gyfer cyfrwng gweledol.

Cyflwynwyd Siwan am yr ail waith ar y radio ar 16 Mai 1955, mewn cyfieithiad gan Emyr Humphreys - y cyntaf o nifer o gynhyrchiadau Saesneg o'r ddrama. Nid oes manylion ar ffurf adolygiadau o'r cynhyrchiad hwn ychwaith, ond gwyddom fod y cyfarwyddo yng ngofal y cyfieithydd; Sonia Dresdel ydoedd Siwan, a Deryk Guylar yn actio Llywelyn, mae'n debyg.

Bedair blynedd yn ddiweddarach, perfformiwyd Siwan yn y New Hampstead Theatre Club, Llundain, gan ddefnyddio'r un cyfieithiad, dan y teitl A King's Daughter. Meddai Alan Pryce Jones wrth adolygu:

...this play - written for and played by Siân Phillips in the title-role - fully justifies the reputation of Saunders Lewis as one of the most compelling dramatists now writing in any language...³⁵

Ychydig fisoedd yn ddiweddarach ar Fawrth y cyntaf 1960 gwelwyd Siân Phillips unwaith eto yn rhan y dywysoges; y tro hwn ar y teledu, eto mewn cyfieithiad Saesneg. Roedd Meic Y Cymro yn canmol y trosi, a galwodd y cynhyrchiad, eto dan ofal Emyr Humphreys, yn "berfformiad rhagorol". Un gŵyn oedd ganddo:

Ar ôl ei gweld, teimlwn na fyddai'n fawr o aberth i'r B.B.C. fod wedi ei theledu yn ei Chymraeg gwreiddiol fel cyfraniad i'r dathliad o Wyl Dewi.³⁶

Yn wir, nid yw'r cynhyrchiad hwn yn haeddu dim ond canmoliaeth. Peter O'Toole yw Gwilym, a Clifford Evans yn rhan Llywelyn: cast pendefigaidd heb amheuaeth.

Ceir cerddoriaeth frenhinol yn y cynhyrchiad, gan ddefnyddio trwmpedau i greu effaith y cynn gwlad, ac wrth gwrs, drymiau i greu tensiwn. Clywn gerddoriaeth fel hyn yn yr olygfa gyntaf, gydag Alis yn dawnsio o amgylch ystafell wely Siwan nes clywed ei meistres y tu allan i'r drws; yna rhuthro i'w chyfarfod.

Mae yma ychwanegiadau diddorol i'r ddrama wreiddiol - gwelwn Siwan yn rhoi gwin i'r milwyr oherwydd iddynt fethu mynd i'r ddawns, hwythau yn busnesa o amgylch yr ystafell gan chwarae â'r gitâr sydd yn gorwedd ar y gadair yng nghanol y llawr. Dengys hyn rôl pawb yn y llys, a'r berthynas rhyngddynt - gwelwn fod ar Alis ofn ei meistres, ond ar y llaw arall, mae'r milwyr yn brysio allan pan welant Alis yn ymddangos; hwythau yn is na hi ar raddfa'r gweision.

Mae'r cyfieithiad yn agos iawn i'r gwreiddiol, ond cefais fy siomi yn y diffyg cyfeiriadau at yr elfen Ffrengig yn y llys. Cyfeirir at Siwan fel "my lady" yn lle cadw'r "ma dame" gwreiddiol - ni ddefnyddir yr ymadrodd "touchée" yma ychwaith er ei fod yn dderbyniol mewn geirfa Saesneg. Wedi dweud hyn, mae'n rhaid canmol y dywediadau a'r idiomau a ddefnyddir gan Humphreys - dywed Siwan fod ei choron yn "a burden upon me", sy'n cyfleu ei theimladau am ei rôl ym mrenhiniaeth Cymru i'r dim.

Siwan dawel, ddifrif yw Siân Phillips, yn trin Alis gyda chasineb un munud, tosturi y nesaf. Gwelwn hi'n taro'r forwyn a'i thaflu i'r llawr yn hegar, ond ychydig o wylltineb a welwn - erys yn ei chragen tra mae'r forwyn yn canu am Drystan ac Eyllt, ond daw'r newid ynddi yn amlwg wrth iddi aros am i Gwilym gyrraedd. Un peth sydd yn amharu ar yr olygfa hon, sef bod yr egwyl rhwng diflaniad Alis a dyfodiad Gwilym yn rhy fyr. Os ydych chi drws clo sydd ar ben y grisiau, ac ystafell y morynion oddi tanodd fel a ddisgrifir yn y sgript, nid oes



unman cyfagos iddo guddio wrth aros i'r forwyn fynd ymaith. Pe byddai'r fath le yn bod, paham na fyddai Gwilym wedi cuddio yno wrth glywed Llywelyn yn agosau?

Yng ngŵydd ei chariad, mae Siwan yn sionc ac ifanc ei ffordd, er yn nerfus gan symud o amgylch yr ystafell heb lwyddo i ymlacio. Mae Peter O'Toole ar y llaw arall yn portreadu Gwilym Brewys fel petai'n fôr-leidr mewn ffilm Hollywood, mewn gwisg ddu, sinistr a'i ddwylo yn barhaus yn gorffwys ar ei gluniau. Mae hwn y math o gymeriad y gellir ei ddychmygu'n neidio trwy ffenestr yn cydio mewn bocs o siocledi, ac mewn ffordd ryfedd, mae hyn yn effeithiol. Byddai'n braf gweld ei geg yn symud weithiau wrth iddo siarad, ond eto, gellir gweld atyniad Siwan tuag at y gŵr hwn sydd mor wahanol i Lywelyn hynafol, farfog Clifford Evans.

Mae nwyd Gwilym yn amlwg yn ei symudiadau cyflym, sicr, ac wrth iddo gyffwrdd Siwan. Mae'n ei dilyn o amgylch yr ystafell gan afael yn ei gwallt; hithau'n osgoi ei law a'i olwg. Nid ydynt yn wynebu'i gilydd yn iawn am beth amser, ac mae saethiadau agos y camera yn creu tensiwn y sefyllfa, a'r cyffro rhwng y ddau gymeriad. Pan maent yn cusanu, maent yn symud yn sydyn, chwantus, ond di-nwyd iawn yw cyffyrddiad yr actorion, er eu bod yn gariadon yn eu bywyd personol. Prin iawn yw'r tensiwn hefyd wrth i Siwan a Gwilym ddychmygu eu bod yn clywed sŵn yn y cefndir - yr arwydd cyntaf o dyndra yw taro'r drwm wrth i Lywelyn ddod i mewn i'r ystafell, ac ar ôl hynny, mae pob dyfais yn llwyddiant. Mae Siwan yn diflannu'n dawel i gefn y set wrth i Gwilym neidio o'r tu cefn i'r llenni gan lanio ar ei bedwar fel anifail. Cwyd ar ei draed, a dangos ei ddirmyg tuag at y tywysog drwy sefyll yn gefnsyth a'i ddwylo ar ei gluniau unwaith yn rhagor, a chwerthin yn ddyfn. Cawn berfformid gweddus gan Clifford Evans, gan iddo ymddangos yn ddi-sigl a di-emosiwn yng ngwydd y llanc:

Cafodd Clifford Evans afael ar ei ran o'r
cychwyn...³⁷

medd Radled, ond credaf fod llwyddiant yr olygfa hon yn ddyledus i'r cyfarwyddo medrus. Mae'r cymeriadau'n cerdded o amgylch ei gilydd, gan bwysleisio awdurdod y naill a'r llall. Gwelwn oruchafiaeth Gwilym yn ei safiad penderfynol, ond daw arglwyddiaeth Llywelyn o'i gerddediad; gwelir hyn ar ei orau pan fargeinia Siwan am fywyd Gwilym, yntau yn y cefndir rhwng dau filwr a chadach yn ei geg. Yn araf bach, cerdda Llywelyn o amgylch ei wraig nes ei fod rhwng y ddau gariad wrth orchymyn y crogi - delwedd effeithiol a chynnil.

Yn anffodus, mae'r act gyntaf yn gorffen yn siomedig, gyda'r brenin yn taro Siwan. Ni welwn y slap, dim ond clywed clec, a disgyn y wraig i'r llawr yn rhy araf i ni gredu ei bod wedi ei chlwyfo gyda grym llaw ei gŵr.

Mae'r ail act yn cychwyn gyda tharo rhythmig drymiau'r llys, a Siwan yn flêr a llwm ei gwedd wedi'i chadwyno i bostyn gerfydd ei breichiau yn ogystal â'i thraed, bron fel petai ar grocbren. Yn araf bach, mae curo'r drymiau'n troi'n guro'r seiri ar y lawnt, ac effeithiol yw'r olwg euog ar wyneb Alis, a chwaraeir gan Doria Noar, wrth i'w meistres ofyn iddi am y gwaith.

Pe na bai Siân Phillips yn actores mor ddawnus gyda wyneb mynegiannol, byddai'r defnydd mynych o saethiadau agos yn boen i'r gwyliwr, ond gwelwn bob darn o emosiwn ar yr wyneb caeth, felly effeithiol ydynt, ynghyd â'r saethiadau o Alis nerfus wrth y ffenestr. Siomedig yw'r llewygu, ar y llaw arall; oherwydd na all Siwan symud o'r cadwyni, gollwng ei phen yn unig a wna, heb orfod galw am y porthor mudan i'w chodi. Mae Alis drwy'r olygfa yn chwarae â chadach sy'n ei dwylo fel petai'n nerfus - teclyn da i greu tensiwn er bod ei llais yn dawel.

Unwaith eto, defnyddir utgryn i greu'r tensiwn cyn y crogi - dyfais effeithiol, yn cydfynd â'r saethiadau a ddefnyddir - gwelwn Alis yn sefyll yn y ffenestr yn sylwebu y tu ôl i saethiad agos o wyneb poenus Siwan, yn y cefndir clywn sŵn y dorf a siantio'r litanïau cyn y dienyddio. Mae ychydig o fân newidiadau i'r sgrïpt - nid yw Siwan yn torri ar draws disgrifiad Alis o'r digwyddiadau ar y lawnt lawn cymaint ag yn sgrïpt wreiddiol Saunders Lewis. Mae llais Alis yn groch, mewn cyferbyniad i weddïo tawel y frenhines mewn gwewyr. Medd Radled Y Faner am bortread Siân Phillips:

...hyhi oedd enaid y chwarae a'i hwyneb yn
llefaru mor huawdl â'i llais - ac y mae ganddi
lais a miwsig ynddo.³⁸

Ar eiliad crogi Gwilym Brewys, roedd yr wyneb hwn yn isel, ond wrth glywed gwaedd ei chariad tra'n neidio, cwyd ei phen yn sydyn â gorfoledd yn ei llygaid wrth i'r dorf ebychu mewn syndod. Disgyn ei phen unwaith yn rhagor, ac mae distawrwydd o'r tu allan i'r tŵr cyn i Llywelyn ddod i mewn i garchar ei wraig. Mae saethiad agos iawn ohoni yn panio i fyny tuag at wyneb Llywelyn uwchben, dyfais ragorol i ddangos ei ragoriaeth drosti, ond Siwan yw'r cryfaf yma, a'i rheg yn dawel, llawn gwenwyn.

Egyr yr act olaf â cherddoriaeth brudd, a Llywelyn yn estyn ei gleddyf oddi ar y mur. Mae ei lais yn dawel, heb ddim o'r casineb blaenorol, ond mae ei safiad yr un mor gadarn wrth iddo holi'r forwyn ynglŷn â Siwan. Gwelir yma eto cystal yw'r cyfieithiad, "life is a frightening thing" sy'n cael ei ddefnyddio yn lle "rhodd enbyd yw bywyd i bawb", a disgrifir Hubert de Burgh yn "a fox", sy'n cyfateb i "un dwfn" Saunders Lewis; mae'r sgwrsio yn rhedeg yn esmwyth a synhwyrol er â llai o naws na'r gwreiddiol.

Mae sgwrs Llywelyn a Siwan yma yn un hynod effeithiol oherwydd y cyfarwyddo. Gwneir defnydd gwych o symudiadau i ddangos awdurdod, ac mae lefelau yn bwysig - â Llywelyn ar ei liniau i ofyn maddeuant ei wraig, gan ddangos mai ganddi hi y mae'r llaw uchaf. I'r gwrthwyneb, tra mae'r tywysog yn egluro tactegau ei reoli, mae Siwan yn eistedd wrth fwrdd - ganddo ef y mae'r dewis a ydyw'n mynd i wrando ar sylwadau ei wraig ai peidio. Mae'r ddau yn wynebu'i gilydd ar ddiwedd y sgwrs, y ddau ar yr un lefel fel petai, yn barod i gyfaddawdu a chyfamodi. Y mae bwrdd llydan pren rhyngddynt wrth sôn am farwolaeth Gwilym Brewys - fel petai'n cynrychioli ei arch - ond mae chwarter canrif o briodas yn goroesi eiliad wan o nwyd, gyda Siwan yn codi i sefyll y tu ôl i gadair y tywysog i'w gynghori - awgrym mai Siwan sydd y tu ôl i'r orsedd er mai Llywelyn sy'n eistedd arni. Daw'r act a'r ddrama i ben wrth i Siwan dderbyn cariad ei gŵr a chael ei choroni unwaith yn rhagor i sain utgryn buddugoliaethus; a'r arwydd cyntaf o'r uniad hwn oedd chwerthin affieithus y



Siwan

Gwenyth Petty a Cemad Evans yn siama canwag Saunders Lewis a deledir ar BBC Cymru hefyd. Yn y sdiama wynebfa Llywelyn Fawr a Siwan siatens tu prifodas.

ddau gyda'i gilydd. Cyffyrddiad effeithiol yw'r saethiad agos o Alis yn dal clustog y goron yn dynn i'w mynwes, yn falch fod Gwynedd eto'n un.

Pluen yn het y dramawr, yr actorion a'r cynhyrchydd,³⁹

oedd y cynhyrchiad yn ôl adolygydd Y Faner, a chytunaf â'i farn. Gresyn na wnaethpwyd yr un cynhyrchiad yn y Gymraeg, fel yr awgrymodd Meic Y Cymro.

Cafwyd cynhyrchiad Cymraeg o Siwan ar y teledu ar 4 Mawrth, 1969, a Dafydd Gruffydd, a gynhyrchodd y ddrama ar y radio am y tro cyntaf ym 1954, yn gwneud yr un gwaith unwaith yn rhagor. Gwenyth Petty a Clive Roberts oedd Siwan a Gwilym, ac o ystyried barn Sganar yn Y Faner, nid oedd y perfformiad yn llwyddiant:

Portread o wraig alluog, oeraidd a gafwyd gan Gwenyth Petty ym mhart Siwan...⁴⁰

meddai - nid yw Siwan Saunders Lewis yn oeraidd o gwbl, yn hytrach, gwraig nwydus ydyw nad yw'n cael sylw haeddiannol gan ei gŵr. Roedd canmoliaeth i'r ochr dechnegol serch hynny:

...gwnaeth y camera gryn gamp telynegol o rai lluniau, megis y llun o wyneb Siwan a chysgod y gadwyn ar ei draws...⁴¹

ond ni chawn fanylion am y set na'r gwisgoedd. Nid oes copi o'r cynhyrchiad wedi'i gadw, felly mae'n anodd dod i gasgliad teg am y rhaglen, a oedd â Myfanwy Talog fel Alis a Conrad Evans fel Llywelyn Fawr.

Gwelwyd y cynhyrchiad teledu nesaf o Siwan ym 1986 dan ofal Siôn Humphreys gyda Iola Gregory yn y brif ran - rhan a oedd fel petai wedi ei hysgrifennu ar ei chyfer. Disgrifiodd Angharad Tomos ei gwaith yn Sbec fel

..perfformiad credadwy fydd yn anodd rhagori arno...⁴²

a chanmol fu ar berfformiadau Mei Jones a Bryn Fôn fel Llywelyn a Gwilym, a Mari Rowland Hughes fel Alis “graenus, tawel”.


Bu i Siôn Humphreys gadw yn eithaf clos at eiriau Saunders Lewis, ond golygodd beth o’r sgwrs a llwyddo i gadw naws a rhediad y ddeialog i’r fath raddau na fyddai llawer o’r gynulleidfa yn sylwi ar y golygu.

Mae’n amlwg fod gofal wedi’i gymryd i sicrhau effeithiolrwydd gweledol gwisg a chefnidir - un o brif nodweddion y cynhyrchiad yw’r defnydd o liw. Mae gwisgoedd y cymeriadau yn wych mewn coch, porffor ac aur; ac felly hefyd y gaer - ymddengys yr adeilad yn fodern tu hwnt gyda’i furiau coch a’i ffenestri enfawr. Cawn ddisgrifiad cynhwysfawr o’r awyrgylch yn Y Faner:

Gosodwyd y ddrama yng Nghaer Llywelyn yn Eryri a phortreadwyd hynny yn y set gydag adeilad o ffenestri eang a muriau lliwgar yn wynebu lawntiau gwyrddion. Braidd yn ddieithr oedd y set ymddangosiadol fodern hon ar yr olwg gyntaf, ond wedi cynefino â hi hawdd wedyn ei derbyn fel arwydd o urddas a phendefigaeth Llywelyn.⁴³

Tybed a aeth Llywelyn i brynu drysau patio gan Everest ar ei ffordd o “Do-It-All”? O safbwynt gweledol y rhaglen deledu, nid yw hyn o bwys mawr gan fod lliw yn ennyn mwy o ddiddordeb na muriau carreg llwyd; ond yn hanesyddol, ni chredaf fod caer Llywelyn yn ymdebygu i’r darlun hwn. Mewn ffordd, mae’r holl fanylion cefndir yn gymorth i dynnu ein sylw oddi wrth lonyddwch bwriadol y cymeriadau a’r camera - gan nad oes llawer yn cael ei wneud ar y sgrîn sy’n gyffrous, cyfiawnheir newydd-deb y set.

Actio llonydd a gawn gan y prif gymeriadau - a thrwy hyn, rhoir mwy o bwyslais i’r geiriau a leferir. O’i gymharu â Siwan Siân Phillips a Peter O’Toole, diflas iawn yw y cynhyrchiad - ceir gan Phillips ing a phoen y dywysoges o dda⁹anfod Gwilym ond i’w golli drachefn ymhen munudau, ond mae Siwan Iola Gregory yn gadarnach yn ei ffordd ei hun. Ni chawn ganddi harddwch a phryder



Phillips, ond gwelwn foneddigrwydd a hunan barch merch sydd wedi rhoi'r cwbl o'i bywyd i'w gŵr a'i wlad. Cawn yr argraff ganddi ei bod wedi blino ar fywyd a hithau ond yn bymtheg ar hugain, a phan nad ydyw yn wylo a chrefu pan ddaw Llywelyn yn ôl a'u dal, gwelwn wraig gref a chadarn sydd yn barod i dderbyn cosb a thalu am ei chamwedd.

Mae'r Gwilym a gawn gan O'Toole yn enghraifft benigamp o'r marchog ifanc gwyllt; y merchetwr golygus sy'n gwibio i wely ei gariad ganol nos yn chwifio ei gleddyf yn falch. Ceir yr un balchder gan Bryn Fôn, ond gyda chynilder effeithiol. Er ei fod yn ifanc, gallwn gredu iddo fyw bywyd llawn a dysgu oddi wrth ei brofiadau - gwelwn hyn yn y modd y mae'n cadw'n ddigon pell oddi wrth Siwan nes gorffen trafod yr hyn sy'n mynd i ddigwydd rhyngddynt. Nid yw'n ceisio ymladd pan gaiff ei gipio gan filwyr Llywelyn, ond yn cadw ei hunan barch fel Siwan drwy ildio. Yn yr un modd mae Mei Jones yn rhan y Tywysog yn bwyllog dawl; yn dangos ei wrhydri drwy beidio â chodi ei lais.

Egyr y ddrama gyda golygfa o'r presennol - gwelwn eglwys Biwmares a bedd Siwan cyn i'r llun doddi a mynd â ni i'r llys canoloesol - saethiad a oedd yn "feistrolgar"⁴⁴ yn ôl Phil ap Iorwerth yn Y Cymro - hoffodd yr adolygydd hefyd y golygfeydd ychwanegol o Lywelyn ar ei farch; golygfeydd rhyngdorrol i greu cyffro a dangos y perygl sy'n wynebu'r cymeriadau. Nid oes gwaith camera celfydd na thriciau technegol eraill i liwio'r cynhyrchiad; bu hyn o fantais i gadw naws bwyllog, frenhinol y rhaglen.

Gwelwn Siwan wedyn yn rhoi cyffur yng nghwpanau gwin y milwyr y tu allan i'w hystafell, cyn cychwyn ar ei sgwrs â'r forwyn. Ychydig yn rhy bowld yn fy marn i yw Mari Rowland Hughes yn rhan Alis, ond serch hynny, gwnaeth ei gwaith yn burion gan ganu cân Marie de France yn swynol ac atgofus.

Fel y crybwyllais, nid oes fawr ddim newid i'r testun, a'r unig beth sy'n torri ar y golygfeydd llonydd yn y gaer yw'r rhyngdorri sydyn yn ystod y sgwrs. Pan yw Siwan yn sgwrsio â Gwilym, gwelwn bob hyn a hyn lun marchog yn carlamu yn wyllt ar ei farch - Llywelyn yn dychwelyd. Mae hyn yn effeithiol i greu tensiwn mewn drama sydd, mewn gwirionedd, yn ddiflas i'r llygad. Yn yr

un modd, wrth i Siwan a'i gŵr ymddidān, cawn ei gweld yn ferch ifanc bedair ar ddeg oed yn mentro yn ofnus i wely ei phriod am y tro cyntaf.

Mae awyrgylch y cynhyrchiad drwyddo draw yn ganmoladwy, ond i mi, pinacl y ddrama oedd y dywysoges yn ei chell yn gwrando ar ddienyddiad ei chariad. O gychwyn yr olygfa, clywn forthwyllo yn y cefndir, a'r unig sŵn arall yw'r gadwyn am ei choes. Mae'r gell yr un mor lliwgar â gweddill y gaer, gyda dillad lliw aur ar y gwely a chroes aur ar y mur uwch ei phen. Nid yw'n ystafell fechan ychwaith, gan ein bod yn gweld Alis yn bell yn y cefndir yn edrych drwy'r ffenestr wrth i'r camera ddangos wyneb dolurus Siwan (mae'r briw sydd ar ei thalcen wedi'i llewyg yn pwysleisio'n ddyfnach ei phoen). Gwelwn hefyd gipiau o Lywelyn yn edrych dros y lawnt, cyn i Gwilym neidio â'i waedd yn groch am ei gariad. Wedi'r crogi, dinistrir y tawelwch gan sgwrsio a thrafod y gynulleidfa islaw; nid mor effeithiol efallai'r lluniau o'r corff yn crogi fel y'i gwelwn mewn fflachiadau o gof Siwan. Medd Ann Ffrancon:

...man gwannaf y ffilm oedd y cipolwg yn ôl
ar grogi Gwilym Brewys. Onid oedd Gwilym
Brewys yn hongian yn llawer rhy gyfforddus
a dianaf?⁴⁵

Mae'r defnydd helaeth o ddistawrwydd yn ychwanegu at yr awyrgylch trymaidd, felly hefyd y canu tawel; emynau yn cael eu canu yn null y mynachod sy'n cysylltu â dymuniad Siwan i roi tir i'r Brodyr Llwydion wedi ei marwolaeth hi.

Pwyllog a thawel yw sgwrsio Llywelyn a Siwan yn yr act olaf, heb symudiadau dramatig na chodi llais. Mae'r Tywysog yn egluro yn sensitif a didwyll ei deimladau tuag at ei wraig; hithau'n gwrando yn llonydd â syndod amlwg ar ei hwyneb cyn dechrau ei ddwrddio fel petai'n blentyn wedi iddo ofyn iddi ddod yn ôl i'w wely. Mae eu sgwrs bwyllog yn llawer mwy effeithiol na gweiddi, a chan eu bod yn eu hunfan, mae'r cwpl hwn yn ymddangos yn llawer hŷn a challach na Siân Phillips a Clifford Evans yn yr un rhannau. Yr un gŵyn sydd gennyf am yr olygfa hon â phob un arall - y set fodern. Mae siambr y tywysog yn lliwgar eto, a dim arwydd o fur carreg yn unman. Gwyddom fod

tapestriau a defnyddiau drudfawr yn cael eu taenu ar hyd y waliau mewn neuaddau i atal y gwynt, ond roedd hwn yn edrych yn debycach i bapur wal anaddas na dim arall.

Dewisodd Siôn Humphreys gloi ei gynhyrchiad â chais Siwan am gael ei chladdu ym Môn, a'r tywysog yn cludo corff ei wraig mewn cwch bychan ar draws y Fenai a'i gosod ar elor goeth ar y lan. Cafwyd saethiad agos o'i hwyneb dan gadachau, a thorri'r llun yn gelfydd i ddangos y bedd ym Miwmares drachefn; i gloi'r rhaglen fel yr agorodd.

Mae hwn yn gynhyrchiad effeithiol tu hwnt o ddrama Saunders Lewis; yn wahanol i'r perfformiadau emosiynol a gafwyd yn y cynhyrchiadau eraill o Siwan.

Ail-wampio cynhyrchiad llwyfan a'i gyflwyno ar y radio a wnaethpwyd ym 1990, a'i ddarlledu ar ddydd Nadolig. Galwodd Siwan Jones hi yn Golwg yn

stori garu wleidyddol gyda thipyn o sbeis,⁴⁶

gan grynhoi plot Saunders Lewis. Ceri Sherlock oedd yn gyfrifol am y cynhyrchiad radio yn ogystal â'r fersiwn lwyfan, a defnyddiwyd yr un cast.

Beth bynnag a ddywedir am y cynhyrchiad, mae'r naws a gyfleir yn ardderchog, a'r defnydd o gerddoriaeth yn gweddu i'r cyfnod dan sylw - clywn dôn bruddglwyfus obo a cherddorfa ynghyd â chlychau eglwys priodol.

Mae'r ddrama'n agor gyda sŵn miwsig ysgafn fel tonnau'r môr yn sisial, a llais Alis (Judith Humphreys) yn llawn cyffro ar Galan Mai, un o nosweithau llawenaf y flwyddyn. Tyndra sydd i'w glywed yn llais Siwan, sy'n briodol yn troi'n wylltineb wrth iddi daro'i morwyn. Mae ymateb Alis yn siomedig - ni chawn waedd ganddi, ac nid yw'n ymddangos mor sensitif i deimladau ei meistres ag a ddisgwyliwn.

Fel yng nghynhyrchiad teledu 1960, ni chredaf fod digon o amser rhwng mynd Alis a dyfodiad Gwilym i'r ystafell, ac mae'n siom ychwanegol fod y carwr ifanc yn swnio mor ddi-hid. Mae Siwan eto'n nerfus, a'r chwerthin rhyngddynt yn gyffyrddiad da, ond credaf fod portread Iola Gregory yn rhy ddifrifol, a gormod o bwyslais ar bob brawddeg unigol yn mynd yn drwm ar y

glust - fel petai yn ceisio egluro'r sefyllfa nid i Gwilym, ond i blentyn sy'n gwrthod gwranddo. Meddai Siwan Jones:

Canolbwyntiodd y cynhyrchiad hwn ar ochr
wleidyddol galed Siwan. Mi wn fod Iola
Gregory wedi'i gwneud hi sawl gwaith erbyn
hyn, ond, o bosib, wrth geisio chwilio am
ddehongliad newydd, gwahanol, fe aeth
haenau eraill o'r cymeriad ar goll,⁴⁷

ac mae'n wir nad Siwan Saunders Lewis a geir yma. Mae honno yn ferch gref, benderfynol, ond eto, angen rhywun i'w charu a gwneud iddi deimlo'n ddiogel. Nid oes yma argraff o gariad na nwyd tuag at Gwilym, ac ni all hyn ond bod yn nam ar y cynhyrchiad.

Does dim newid i'r sgrïpt wreiddiol, ac felly, dim agweddau newydd. Mae'r actio yn raenus, ond nid oes yma sbarc arbennig er mor brofiadol y chwaraewyr. Y gŵyn bennaf yw llefain ac ochneidio Alis, sydd yn mynd yn sgrechian ar brydiau. Yn ystod crogi Gwilym, ymddengys fod y forwyn yn fwy gofidus na'i meistres, sydd yn amharu cryn dipyn ar yr olygfa.

Un agwedd o'r cynhyrchiad y mae'n rhaid ei chanmol yw'r effeithiau sain. Mae popeth yn ei le, gydag ambell ychwanegiad clyfar, megis yr adeiladu ar y lawnt. Mae'r gerddoriaeth ddwys, oeraidd yn gwneud defnydd o ddiscordiau, ac yn gynnil iawn, cyfunir y miwsig â churo'r pyst nes i'r gerddoriaeth ddiplannu. Ar ôl hynny, clywn sŵn curo a llifio drwy'r olygfa, sydd yn swnio fel cloc yn tician, yn cyfri'r eiliadau at grogi Gwilym.

Ceir cyffyrddiad effeithiol i gloi, gan i'r cynhyrchydd ddefnyddio'r un gerddoriaeth ysgafn, atgofus o'r môr ag a ddefnyddiodd i agor, yn gefndir i ddisgrifiad Siwan o sut yr hoffai gael ei chladdu. Ceir clychau eglwys a siantio mynachod i gloi'r ddrama, a'r clychau fel petaent yn arwydd o briodas newydd rhwng Llywelyn a Siwan - clo cryf i gynhyrchiad gwahanol i'r arfer.

Credaf fod y cyfryngau wedi gwneud cyfiawnder â Siwan ar y cyfan - gan ei bod yn ddrama gryno, nid oes fawr ddim y gellir ei wneud i drawsnewid cynhyrchiad ohoni. Mae'r driniaeth a roddwyd iddi wedi bod yn deg tu hwnt, ac arwres Saunders Lewis wedi cael cyfiawnder.

BRANWEN

Un o ddramâu olaf Saunders Lewis yw hon, yn ymdrin, fel tair arall o'i ddramâu, â thestun y Mabinogi.

Ceir yn y chwedl hanes Branwen, chwaer Bendigeidfran, brenin Ynys y Cedyrn a'i phriodas â Matholwch, brenin Iwerddon. Y drwg yn y caws yw Efnisien, hanner brawd iddynt sy'n gwylltio oherwydd na ofynnwyd am ei farn ef ynglŷn â'r briodas, ac yn dial ar Fatholwch a'i fyddin drwy ddifetha eu meirch - torri eu clustiau, eu hamrannau a'u cynffonau fel na ellid eu defnyddio mwyach. Er i Bendigeidfran dalu iawn am gam Efnisien, cosbwyd Branwen yn Iwerddon drwy ei gorfodi i bobî yng nghegin y llys. Pan ddarganfu ei theulu ei bod yn cael ei chamdrin yn y fath fodd, aethant yno i'w hachub. Lladdwyd nifer o filwyr y Gwyddyl ac wrth i Branwen gyflwyno Efnisien i'w mab, Gwern, lluchiodd ei ewythr ef i'r tân, gan ysgogi mwy o frwydro, a lladd byddin Iwerddon a'r mwyafrif o wŷr Ynys y Cedyrn. Dychwelodd y rhai a oedd yn weddill, yn cynnwys Branwen ac Efnisien, i'w gwlad a thorrodd Branwen ei chalon oherwydd yr holl alanas.

Y mae'r ddrama hon yn cwmpasu'r un hanes yn symlach, heb gyfeirio at hanes y Pair Dadeni na Llasar Llaes Gyfnewid a ddaeth ag ef i Gymru; nac ychwaith y ddrudwy a gludodd yr hanes am ddiodeffaint Branwen i'w brawd. Yn hytrach, mae Saunders Lewis yn ddadleuol yn gwyrô'r hanes gan greu perthynas o losgach rhwng Efnisien a'r dywysoges sy'n rhoi rheswm ychwanegol am ddifa'r meirch. Awgrymir hefyd mai ei fab ef, ac nid Matholwch, yw Gwern - o'r herwydd, dyfnheir tristwch Branwen o golli'r plentyn a oedd yn symbol o'u cariad anghyfreithlon.

Drama gomisiwn ar gyfer y teledu oedd Branwen. Aneirin Talfan Davies a'i comisiynodd tua'r un adeg ag y rhoddwyd enw Lewis ymlaen am Wobr Nobel. Meddai Davies;

Pan ofynais i Mr. Lewis am ddrama wedi'i sgrifennu'n arbennig ar gyfer y teledu, cydsyniodd ar unwaith...

Pan dderbyniais i'r llawysgrif gan Mr. Lewis, darllenas hi ar fyrder, a synnais pa mor sicr oedd ei law wrth drafod y cyfrwng newydd,⁴⁸

prawf ar fedrusrwydd Lewis wrth gyfansoddi ar gyfer cyfrwng y gwyddai ychydig iawn amdano.

Darllledwyd Branwen ar Fawrth y cyntaf 1971, ac fel yr arfer, roedd ymateb cymysg iddi yn y wasg. Gan na chyhoeddwyd hi mewn print tan 1975 yn y gyfrol Dramâu'r Parlwr, mae'r mwyafrif o adolygiadau teledu'r wasg yn ymdrin â'r ddrama ei hun yn hytrach na'r cynhyrchiad ohoni. Mae'r cynhyrchu yn nwylo medrus George P. Owen a chynlluniwyd hi gan Julian Williams.

Egyr y ddrama gyda delwedd gref - gwelwn faner yn chwifio a'r enw "Branwen" wedi'i ysgrifennu arni. Gwelwn fflam o flaen y faner i awgrymu perygl, ac ymhen ychydig eiliadau, llosgir y faner yn ulw - gallwn ddychmygu mai symbol o Efnisien yw'r tân hwn, yn dinistrio Branwen a'i mab ifanc. Ef a welwn gyntaf ar y sgrîn, yn y goedwig gyda'i filwyr - arwydd amlwg o'i natur wyllt - ac yn yr olygfa ddilynol, mae yn y gwely yn hanner noeth gyda Branwen.

Ceir portread grymus o'r carwr eiddigeddus gan Clive Roberts, yn cyfleu tymer gwynias y tywysog gyda'i lygaid gwyllt; a Lisabeth Miles hithau'n ardderchog fel Branwen. Meddai Aneirin Talfan Davies:

Ni welais i well perfformiad erioed gan Lisabeth Miles. Y mae ei hactio yn ennill mewn awdurdod o'r naill berfformiad i'r llall.⁴⁹

Cawn ganddi dywysoges gall, wybodus sy'n fodlon aberthu ei hapusrwydd er mwyn y cyfamod rhwng Ynys y Cedyrn ac Iwerddon. Edrycha a cherdda yn urddasol; mae'n sefyll yn dawel, hyd yn oed wrth dynnu'r goron oddi am ei phen yn Iwerddon yn ôl dymuniadau'r Gwyddyl.

Does yr un arall o'r cast profiadol yn disgleirio fel y ddau yma, er fod Stewart Jones a Brinley Jenkins yn effeithiol fel Bendigeidfran a Matholwch, y ddau'n gryf a chadarn, yn arweinwyr penderfynol.

Yng nghychwyn y ddrama, gwisg Branwen ffrog hir dywyll at ei thraed, fel gwisg galar. Mae Efnisien yntau'n noeth heblaw am gerpyn tebyg i wisg Tarzan, hynny'n egluro'u perthynas gorfforol. Wrth iddo luchio ei hanner chwaer ar y gwely a gorwedd drosti, gwelwn mai ef sy'n rheoli'r berthynas yn yr ystafell wely. Mae'r olygfa hon, yn ogystal ag egluro'r cymhellion, yn pwysleisio gorffennol y ddau - ni chawsant eu magu gyda'i gilydd, a dim ond yn ddiweddar y daeth Efnisien a'i frawd Nisien i lys Bendigeidfran (mae'n rhyfedd felly fod gan Nisien y cynhyrchiad hwn acen ddeheuol yn wahanol i dafodiaith ogleddol Efnisien).

Mae llaw Saunders Lewis yn amlwg mewn ymadroddion megis "ti ydi 'mhechod i" ac "Act wleidyddol ydi priodi", yn profi rhan o syniadaeth Branwen Jarvis mai patriarchydd ydyw Lewis, yn credu fod priodas yn angenrheidiol i barhad cymdeithas wâr; a dynion yn ben arni. Er mai merched yw rhai o'i gymeriadau cryfaf, mae'r cwbl ohonynt, fel Branwen, yn gymar i rywun pwysicach.⁵⁰ Mae hyn yn wir am Branwen i raddau helaethach na'r gweddill, megis Siwan neu Flodeuwedd, oherwydd mae hi ei hun yn cyfaddef mai bod yn fam i frenin fydd pinacl ei bywyd, nid bod yn frenhines. Hyd yn oed pan oedd hynny'n bosibl, a hithau'n llywodraethu ar ran Gwern, cipiwyd y cyfan oddi arni gan Efnisien wrth iddo luchio'r tywysog ifanc i'r tân. Gwelwn eironi Saunders Lewis wrth i'r creadur penboeth wneud yr hyn y bu'n bygwth ei wneud yn nechrau'r ddrama.

Er cystal actio'r prif gymeriadau, siomedig oedd awyrgylch y llysoedd; yn rhannol oherwydd fod y setiau mor gyfyng. Gan mai mewn du a gwyn y ffilmwyd y ddrama, mae llawer o fanylion y cefndir yn mynd ar goll y tu ôl i'r actorion, er enghraifft y darluniau cyntefig a gerfiwyd yn y muriau carreg. Ni phlesiwyd Eco, gohebydd Y Cymro, ganddynt:

...tybed na ellid bod wedi gwneud rhagorach ymdrech i wahaniaethu rhwng Llys Tara a Llys Gwŷr Ynys y Cedyrn, yn enwedig gan fod sawl golygfa yn y ddau lys yn dilyn ar ôl ei gilydd. Ac er mai bychan yn siwr ddigon oedd llysoedd "brenhinoedd" y cyfnod, prin fod ganddynt le ar y teledu i anadlu heb son

am siarad a symud gan mor gyfyng yr
ymddangosai'r set.⁵¹

Rhaid yw canmol gwaith Julian Williams fel cynllunydd wrth greu dehongliad credadwy o gyfnod cynnar fel hwn heb addurniadau crand. Cawn yr argraff fod y llysoedd braidd yn fudr, ac nid oes awyrgylch frenhinol i'r un ohonynt. Pan welwn Branwen yn dod i'r neuadd pan yn trefnu'r gynghrair, y mae'n gwau drwy'r milwyr tuag at ei brodyr - gallwn gymharu'r olygfa hon â phalas y brenin yng nghynhyrchiad 1970 o Esther - yno cawn ddefnyddiau cyfforddus ac addurniadau yn yr ystafelloedd, yn ogystal â gweision i ofalu am y teulu brenhinol. Mae Esther ei hun hefyd yn gwneud mwy o sioe o ddod i'r neuadd, gan ymddangos ar ben y grisiau a dringo i lawr yn araf fwriadol.

Cyntefig yw'r set yn wir, ond ni olyga hyn nad yw'n llwyddiant. Mae'r cynllunio wedi creu delweddau crefftus - yn enwedig yn llys Tara. Gwneir defnydd da o'r grisiau, y lefelau gwahanol yn pwysleisio, fel yn y cynhyrchiad Saesneg o Siwan ym 1960, ragoriaeth a phŵer rhai cymeriadau dros eraill. Gwelwn hyn ar ei orau wrth i Trostan a'r dorf uno i daflu'r frenhines Branwen oddi ar ei gorsedd - ar ddechrau'r olygfa mae'r Brenin Matholwch a hithau yn eistedd ar blatfform uwchben y dorf, gan ddangos mai hwy sy'n rheoli'r deyrnas. Wrth i ddadlau Trostan gyrraedd ei anterth, mae ef wedi dringo i blatfform tebyg ar yr ochr arall i'r ystafell. Mae'r dorf yn y canol rhyngddynt ill dau - cânt hwy ddewis pwy i'w barchu a'i ddilyn, ac wrth i Branwen gollu ei choron y mae'n cael ei llusgo i lawr i lefel y dorf; disgyn mewn safle cymdeithasol fel petai. Drwy'r olygfa, mae porthi'r dorf yn effeithiol, ond tuedda'r gweiddi i fod yn rhy uchel a brwdfrydig, a'r ddeialog yn mynd ar goll o'r herwydd.

Yr un gŵyn sy'n codi am y gerddoriaeth - mae'r sain yn llawer rhy uchel i fod yn effeithiol. Yn ogystal, credaf ei fod yn rhy bwerus, gan ddefnyddio cerddorfa gyfan ar ei chryfaf - bwriad hyn yn amlwg yw creu tensiwn a chyffro fel mewn ffilmiau cowboi cynnar, ond gwneir hyn ar draul yr awyrgylch. Gwell fyddai defnyddio cyfuniad syml o bibau a drwm - ni chaed yr un cyffro ond yn sicr byddai'r effaith yn nes ati.

Credaf fod hyn yn un o'r rhesymau am ddiffyg dramatig y cynhyrchiad yn gyffredinol. Byddai distawrwydd er mwyn i boen a dioddefaint Branwen gyffwrdd â'r gynulleidfa yn llawer mwy effeithiol, gellid hefyd fod wedi defnyddio'r camera mewn ffordd ychydig mwy creadigol. Ni chymerodd Bill Greenalgh, a oedd y tu ôl i lygaid y camera, fantais ddigonol o sgôp y ddrama - gellid dangos clwyfau Branwen ar ôl iddi fod yn y gegin mewn saethiadau agos iawn. Gwnaed hyn unwaith neu ddwy, â wyneb Efnisien (yn arbennig wrth iddo gael gwybod mai ei fab ef ei hun oedd Gwern) ond hoffwn fod wedi gweld mwy o sioncrwydd ac egni yn y ffilmio yn gyffredinol yn lle cadw at saethiadau hir o'r llysoedd ac ambell lun agos o gymeriad yn siarad. Mae'r diffyg yn amlwg wrth i Bendigeidfran, Nisien a Manawydan wrando ar gynnig Matholwch am gynghrair a phriodas. Eistedd y tri ohonynt wrth fwrdd mawr gyda milwyr y llys y tu cefn iddynt. Yn lle manteisio ar lonyddwch yr olygfa ac amrywio onglau'r camera, un saethiad yn unig a gawn, yn dangos hanner yr ystafell ac ambell saethiad agos o wynebau meddylgar y brenin a'i frodyr.

Un o'r gwendidau amlycaf i'r llygad yn y cynhyrchiad ydoedd y gwalltiau gosod dychrynlyd a roddwyd am bennau Nisien, Efnisien a Manawydan; yn edrych fel nythod adar blêr a oedd yn llawer rhy fawr i'w pennau. Gellir maddau i unrhyw un a chwaddodd am eu pennau. Roedd gweddill y gwisgoedd yn weddus, gan ychwanegu at y naws gyntefig gyda'r defnydd o grwyn anifeiliaid. Nid yw aelodau un o'r ddau lys yn edrych fawr crandach na'r milwyr a'r gweision, ar wahân wrth gwrs, i'r brenhinoedd a'u tlysau gemog bendigedig. Tybed a oedd lliwiau gwisgoedd y milwyr yn dywyll - brown neu lwyd, dyweder - tra gwisgai aelodau'r teulu brenhinol liwiau llachar? Gwyddom y byddai hyn yn driw i'r Mabinogion gan fod yno ddisgrifiadau o ddillad gwych, megis y fantell sidan goch a wisgir gan Olwen pan wêl Culhwch hi gyntaf.

Gan fod cynifer o'r actorion yn edrych yn debyg i'w gilydd ar y set fechan, a gweision, milwyr, Cymry a Gwyddyl ar draws ei gilydd, mae gwŷr Ynys y Cedryn - Bendigeidfran ac Efnisien - yn cael eu hactio gan actorion a chanddynt acenion gogleddol, tra gwelwn Brinley Jenkins a David Lyn o'r de yn

rhannau Matholwch a Throstan. Mae hyn yn effeithiol i bwysleisio'r gwahaniaeth rhwng y ddwy wlad.

Mae Branwen yn destun dramatig iawn, ac yn wahanol i nifer o ddramâu Saunders Lewis, mae digon o ddigwydd ynddi. Teg felly yw disgwyl cynhyrchiad cyffrous, anturus ei naws, ond fe'm siomwyd i raddau. Nid ffilm ddu a gwyn yw'r cyfrwng gorau i ddangos golygfeydd o ymladd a lladd, ond ar y llaw arall, mae yma sawl golygfa drawiadol tu hwnt - cloir y ddrama gydag angau'r ddau gariad ar ôl iddynt drywanu'u hunain â chylllell finiog. Mae'r darluniau o'r ddau'n gorwedd ar dywod Môn a'r gwaed yn llyfo'n araf o gonglau eu cegau yn pwysleisio trasiedi'r chwedl, a'r saethiad agos o goron Branwen wedi'i chladdu'n rhannol yn y tywod i gloi'r rhaglen yn symbol o'r hyn a gollwyd.

...Cafwyd cydweithio a chydchwarae deallus
o'r dechrau i'r diwedd yn ddychrynlyd o fyw
a dwys,⁵²

meddai Eco yn Y Cymro am yr actio; rhaid cyfaddef fod dyled y cynhyrchiad yn fawr i'w medrusrwydd.

Uchafbwynt y cynhyrchiad i mi, fodd bynnag, yw clo'r bumed act yn Llys Tara. Pwysleisiwyd yno bwysigrwydd y tân a'r crochan wrth eu lleoli yng nghanol y brif neuadd - bwrdd bwyd yw canolbwynt llys Bendigeidfran. Mae mwg yn tasgu o'r crochan enfawr - ni ddywedir mai hwn yw'r pair dadeni, felly nid oes gennym reswm i gredu y daw'r plentyn ohono'n fyw. Mae Branwen unwaith eto'n balch wisgo'i choron, yn cyflwyno Gwern i'w brodyr. Gwelwn Efnisien yn ymlacio yr ochr arall i'r crochan, yn gorwedd yn erbyn y mur â golwg o ddirmyg ar ei wyneb, a'r fam a'i phlentyn yn agosau ato. Ni chawn arwydd o fwriad Efnisien nes y gwelwn ef yn codi'r bachgen yn ei freichiau uwchben y mwg. Ni welwn y bachgen yn disgyn i'r tân, yn hytrach llanwyd y sgrîn â wyneb ei fam yn syn gan ofn ac anghrediniaeth; gwelwn wedyn Efnisien yn edrych arni â golwg o foddhad, fel cath a ddaeth ag aderyn marw i'r tŷ fel offrwm i'w feistres.

Geilw Eco'r cynhyrchiad hwn o Branwen yn "un o uchafbwyntiau teledu Cymraeg 1971", tra y disgrifia J.L.M. ef yn

enghraifft o'r epig hollywoodaidd ar ei fwyaf difyr,⁵³

ond mae un peth yn sicr - 'doedd hwn ddim yn gynhyrchiad diflas. Mae digon o gyffro ac antur yn chwedl Branwen Ferch Llŷr, a throsglwyddir canran helaeth ohono'n gelfydd i ddrama Saunders Lewis. Ni allaf ddweud fod yr holl olygfeydd wedi bod yn llwyddiant - teimlaf na chyflewyd yr arswyd o weld y cyrff gwaedlyd ar ôl y frwydr yn ddigonol - ond yn sicr, fel ffilm deledu roedd yna "rywbeth i bawb" chwedl yr adolygwyr Americanaidd.

Un cynhyrchiad arall o Branwen sydd wedi ei gyflwyno ar y cyfryngau - hwnnw ar y radio ym 1994 fel rhan o ddathliad canmlwyddiant geni'r dramodydd, ond yn eironig, dim ond rhan o'r cynhyrchiad sy'n waith iddo ef. Mae ei disgrifio fel cyflwyniad o'r chwedl wreiddiol mewn diweddariad, ac ambell olygfa wedi ei dramateiddio, yn nes ati.

Egyr y ddrama gyda sgwrs Efnisien a Branwen, ond ar ôl hynny, darllenir naratif o fath gan Trefor Selway - rhan o ddiweddariad Gwyn Thomas o'r Mabinogi. Cawn hanes Bendigeidfran, dyfodiad y tair llong ar ddeg o Iwerddon a neges Matholwch am y gynghrair a'r briodas. Ar ôl clywed hyn yn y fath fanylder, ni ddisgwyliais ail act Saunders Lewis, ond do, cafwyd hi air am air. Ceir naratif tebyg eto ar ôl yr ail act gan ddisgrifio sut y bu i Branwen roi anrhegion i westeion y llys, ac iddi fod yn Iwerddon flwyddyn cyn beichiogi.

Clywn Trefor Selway yn adrodd hanes cosbi Branwen a'i gyrru i'r gegin; clywn yr hanes eilwaith gan yr actorion. Cawn hefyd hanes y tŷ a adeiladwyd i Bendigeidfran yn Iwerddon a'r bagiau a grogai oddi wrth y pileri ynddo. Mae hanes y daith i'r ynys yma hefyd, a disgrifiad Branwen o'i brawd yn nesáu ar draws y môr. Nid yw hyn yn synhwyrol yng nghyd destun y ddrama, gan na wna Saunders Lewis gyfeiriad at honiad y chwedl mai cawr oedd Bendigeidfran ac mae'r ailadrodd yn feichus i'r gynulleidfa.

Marw o dorcalon y mae Branwen y cynhyrchiad hwn, a chael ei chladdu mewn bedd petryal fel yr adroddir yn y Mabinogi. Amherthnasol hefyd yw cludo pen Bendigeidfran i Lundain, ac ymweld â Harlech a Gwales, gan i drasiedi drama Saunders Lewis fynd yn angof.

Ni ellir dweud i'r cynhyrchiad hwn fod yn llwyddiant ysgubol, ac nid yr addasiad yn unig sydd ar fai am hyn. Yn wahanol i'r mwyafrif o gynhyrchiadau radio, caf y teimlad mai gormod o amser i'w lenwi a gafodd y cynhyrchydd, Aled P. Jones. Cawn seibiau hir rhwng golygfeydd ac yn ystod y ddeialog, a chyfnodau maith o gerddoriaeth i ddynodi treigl amser. Er fod y gerddoriaeth yn weddus ac yn creu'r naws cywir, y mae gormod ohoni - er cystal y gerddorfa a'r drwm yn y cefndir i ddynodi tician cloc, mae munud yn amser hir mewn drama radio.

Mae'r actorion oll yn brofiadol tu hwnt, ac mae Brân (John Ogwen), Manawydan (Grey Evans), Matholwch (Dafydd Hywel) a Throstan (Ifan Huw Dafydd) yn gwneud eu gwaith yn ardderchog - y cynhyrchydd yma fel yn y cynhyrchiad teledu wedi dewis dynodi'r Cymry'n ogleddwyr a'r Gwyddyl yn ddeheuwy'r. Siom oedd yr act gyntaf a pherfformiadau Nia Williams fel Branwen a Maldwyn John fel Efnisien - y ddau ohonynt yn rhy ysgafn eu tòn, yn chwerrthin a siarad yn dyner â'i gilydd. Mae hyn yn taro'r glust gan mai cywilydd a deimla Branwen am y berthynas, a cheisio dwyn y cwbl i ben y mae, nid datgan ei chariad yn rhydd tuag at ei brawd. Cawsom bortreadau gwych gan Clive Roberts a Lisabeth Miles ym 1971 - anodd iawn yw rhoi actorion eraill yn eu rhannau. 'Dyw gwylltineb a thymer Efnisien ddim i'w clywed gan Maldwyn John, er fod ei gyfrwystra yn dod i'r amlwg yn gynnar iawn.

Ar y cyfan, siomedig oedd y cynhyrchiad, er fod y darnau dramatig wedi'u cyflwyno'n grefftus gan yr actorion gan ddefnyddio sgript Saunders Lewis, a gyhoeddwyd ym 1975. Ni ddefnyddir effeithiau sain heblaw sŵn traed a charnau ceffylau, ac mae'r diffyg hiwmor wrth drafod y moch yn tynnu sylw. Nid oedd y chwarae ar eiriau; moch, meirch a merch; yn amlwg ychwaith, gan sicrhau na wnaethpwyd cyfiawnder â'r sgript.

Byddai'r cynhyrchiad yn llwyddiant fel addasiad o chwedl y Mabinogi pe na chynwyswyd deialog Branwen Saunders Lewis; ond fel cynhyrchiad o'r ddrama, bu'n siom.

Dangoswyd ffilm Ceri Sherlock, Branwen, yng Ngŵyl Ffilmiau Ryngwladol Cymru ym 1994, ac wedyn ar y teledu, ond nid addasiad o waith Lewis ydoedd hon. Cydweithiodd Gareth Meils, yr awdur, â'r cyfarwyddwr a'r cynhyrchydd (Angela Graham) i greu ffilm yn seiliedig ar ei ddrama lwyfan, Dyrnod Branwen - honno'n seiliedig ar y Mabinogi.⁵⁴ Nid oes yma gysylltiad â drama Lewis, yn hytrach, lleoliad cyfoes sydd iddi, gyda Branwen (Morfudd Hughes) yn priodi aelod o'r I.R.A. yn Iwerddon (Richard Lynch) ac yn delio â'r problemau y mae'n rhaid eu hwynebu. Mae brawd Branwen, Mathonwy, a chwaraeir gan Robert Gwyn Davin, yn aelod o'r llu arfog, ac yn gwrthwynebu uniad Branwen a Kevin o'r cychwyn. Mewn gwirionedd, cefnder i Branwen ydyw, wedi ei fabwysiadu gan y teulu pan yn ifanc, a gwelwn gysylltiad rhyngddo ag Efnisien y ddrama mewn un olygfa o'r ffilm. lle mae Branwen yn eistedd yn ei phais o flaen drych yn ei hystafell wely a daw Mathonwy y tu ôl iddi ac anwesu'i chroen noeth. Mae yn eiddigeddus o gariad Kevin tuag ati, a dyna sy'n peri i Fathonwy losgi'r cartref a Gwyn, mab Branwen a Kevin, yn ei grud yno'n cysgu. Mae dylanwad Saunders Lewis felly i'w weld ar waith Gareth Meils - tybed na ellid cymryd y syniad hwn o leoliad modern i wneud cynhyrchiad newydd o Branwen?

ESTHER

Drama am yr Iddewon ym Mhersia yn amser yr Hen Destament yw Esther, yn seiliedig ar lyfr Esther a'r Apocryffa, ond camgymeriad fyddai ei thrin ar y lefel honno yn unig.

Cyfansoddwyd hi yn ystod 1958-59 ar gyfer ei darlledu ar y radio gan y B.B.C., ond nid ar y cyfrwng hwnnw y'i perfformiwyd gyntaf. Rhoddodd Saunders Lewis ei waith diweddaraf i Gwmni Drama Môn i'w pherfformio yng Ngŵyl Ddrama Llangefni ym 1959, i'w chynhyrchu gan y Parchedig H. Pierce Jones. Cafwyd ymateb pur dda i'r cynhyrchiad fel cyfanwaith, a oedd yn cynnwys elfennau cyfoes yn ogystal â hanes o'r Beibl. Cadwodd Saunders Lewis yn agos iawn at ei destun, ond ei gamp ef oedd pwysleisio'r cymeriadau a thaflu goleuni newydd arnynt. Gwelwn hyn ym mhortread Lewis o Haman. Ef sy'n llywio'r digwydd, a'i ddatblygiad ef sy'n pennu diwedd glo'r ddrama.

Prif weinidog y brenin Ahasferus yw Haman, sydd yn casáu pob Iddew â'i holl enaid am i Samuel bum canrif yn flaenorol ladd brenin ei genedl ef, yr Agagiaid. Gwrthrych amlycaf ei gasineb yw Mordecai, un o borthorion y llys (ac yn ddiymwybod i Haman, cefnder i'r frenhines Esther). Mordecai a ddatguddiodd frad y prif weinidog yn erbyn y brenin, drwy atal ei lofruddiaeth a drefnwyd gan Haman drwy ddau was ystafell.

Egyr y ddrama gyda Harbona, swyddog yn y llys, yn darllen proclamasïwn yn enw'r brenin (ond yn llaw Haman) yn gorchymyn lladd pob Iddew yn nheyrnas Persia; gan gychwyn â Mordecai. O ddechrau'r ddrama, gwelwn fod Haman yn ymylu ar fod yn seicotig, a phwysleisir hyn gan Harbona:

Hawyr bach, syr, 'does neb yn dial cam pum
canrif yn ôl. 'Does neb yn cofio pum canrif
yn ôl. Pum canrif yn ôl 'doedd ymerodraeth
Persia ddim yn bod.⁵⁵

Ni wyddom fel cynulleidfa mai Mordecai a chwalodd gynllwyn Haman i ladd Ahasferus, felly nid ydym yn ymwybodol fod gan y prif weinidog unrhyw gŵyn yn erbyn y porthor heblaw am iddo wrthod ymgrymu o'i flaen.

Haman yw cymeriad cyfoethocaf y ddrama, ond nid ef yw'r cryfaf. Mae wedi codi'i hun i safle'r prif weinidog ac yntau'n estron i'r wlad, ond ei gamgymeriad mwyaf yw credu y bydd y brenin Ahasferus yn ei gefnogi doed a ddelo. Mae Haman y Beibl yn ddyn drwg, ond camp Saunders Lewis yw ei droi yn greulon a mileinig, ac wrth wneud hynny, dod â'r ddrama i gynnwys elfennau cyfoes.

Gellir cymharu Haman â'r brenin Herod - y ddau yn gadarn yn eu credo fod ganddynt yr hawl i ddinistrio unrhyw rai a oedd yn fygythiad iddynt - ond disgrifio Hitler y mae'r dramodydd yma, a Phersia amser y Beibl yw Ewrop hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif. Gwelwn hyn yn boenus o glir yn yr act gyntaf wrth i Haman egluro'i fwriad i Harbona - meddai:

Mi fedra'i ddychmygu y daw dydd r' ywbryd
y gall rhyw un dyn, prif weinidog neu
gadfridog, gymryd pelen o dân yn ei ddwylo
ac yna, o'i thaflu hi, ddifa'r ddynoliaeth i gyd,
rhoi'r byd ar dân.⁵⁶

Gallwn weld yma ddisgrifiad teg o'r ugeinfed ganrif; gyda dyfodiad arfau niwclear fe all un dyn bwysu botwm a gollwng pelen o dân a ddinistria bob adyn byw. Yr oedd gan yr Amerig a'r Undeb Sofietaidd ddigon o arfau o'r fath i chwythu'r ddaear yn grybion ar amrantiad, a'r cwbl yn dibynnu ar benderfyniad un dyn - dyn yn ceisio bod yn dduw.

Daw erchyllterau'r Almaen yn fyw i ni unwaith eto wrth glywed geiriau Haman:

Mae gobaith Abraham wedi diffodd. Mae'r cyfamod tragwyddol wedi ei ddileu. Mae'r Iddewon yn mynd gyda'i gilydd i wersyll-garchar y nos dragwyddol, y nos a benodais i iddyn nhw. Heddiw mae hanes Israel yn cau, trwy benderfyniad a gorchymyn un dyn, fel fi, Haman yr Agagiad, yr artist mewn gwleidyddiaeth.⁵⁷

Gwelwn Mordecai ar y llaw arall fel math o sant, heb fradychu Haman nac yn codi ei lais i'w gyhuddo o'r drwg y mae'n gwybod iddo ei wneud. Gwell ganddo ef, yn gadarn ddistaw, dderbyn gorchymyn ei frenin heb ddadl, gan barchu ei farn a'i benderfyniad. Gallwn ei gymharu â Samwel, neu Grist yn yr anialwch yn erbyn temtasiynau'r diafol. Ei brif rinwedd yw ei gadernid a'i ofal dros ei genedl - mae'n fodlon marw er eu mwyn, yn wahanol i'r prif weinidog llwfr sy'n ceisio ennill ffafr y frenhines Esther er mwyn ceisio osgoi ei angau.

Gŵr gwan yw'r brenin Ahasferus er ei fod ar ei orsedd ers deuddeng mlynedd a, yntau ond yn ddeg ar hugain oed. Cawn yr argraff ei fod yn gadael y rhan fwyaf o'r gwaith i Haman, gan fwydo hunan-ddelwedd y prif weinidog. Haman a ysgrifennodd y proclamasïwn er ei fod yn enw'r brenin; y cwbl a wnaeth Ahasferus oedd gofyn i Haman am adroddiad yn manylu ar gryfderau a gwendidau'r Iddewon cyn eu condemnio i farwolaeth. Gwyddai Haman na fyddai'r brenin yn cwestiynu'r adroddiad, felly roedd rhwydd hynt iddo ysgrifennu ei gelwydd.

Er mai'r frenhines Esther a rydd ei henw i'r ddrama, dinoethi Haman er lles ei gwlad a'i chenedl yw ei hunig rôl yn y digwydd - ond ni olyga hyn mai gwan ei chymeriad - i'r gwrthwyneb, hi sy'n gwneud yr aberth fwyaf yn y ddrama. Ar ôl siarad â'i chefnider Mordecai, gŵyr fod yn rhaid iddi fynd at ei gŵr a chyfaddef mai Iddewes ydyw, er lles ei chenedl. Mae ganddi benbleth go fawr: gall ddweud dim; wedi'r cwbl, onid yw'r brenin na Haman yn gwybod mai un o genedl Israel yw hi, ni chaiff ei lladd gyda'r gweddill. Ar y llaw arall mae gofyn iddi fod yn driw i'w magwraeth a mynd at Ahasferus i ofyn iddo ddileu'r proclamasïwn. Nid yw hyn mor syml ag yr ymddengys - caiff pwy bynnag a â at y brenin heb ei alw ei ladd yn syth onid yw'r brenin yn estyn ei deyrnwialen ato mewn heddwch. Rhydd Esther ei bywyd mewn perygl wrth gamblo fel hyn ar gariad a thosturi ei gŵr tuag ati, ond mae Ahasferus yn gwrando arni, yn achub ei cham a'i hedmygu fwyfwy oherwydd iddi roi ei bywyd mewn perygl er ei fwyn ef. Unwaith eto, merch sy'n cael cadernid cymeriadaeth Saunders Lewis, a'r argraff gryfaf a gawn yw y byddai'r gymdeithas ar chwâl pe gadewid i'r dynion reoli ar eu liwt eu hunain. Heb ymyrraeth Esther, byddai Mordecai yn farw, a'i genedl, fel yr ofnodd Haman, yn

dial ei gam. Saif Esther ar lefel gyfoes fel gwledydd y byd yn uno yn erbyn Hitler, a llwyddo i adnewyddu Ewrop er gwaethaf dileu'r miloedd Iddewon.

....camp yr awdur oedd medru adlewyrchu ein hoes ni mewn geiriau a oedd hefyd yn perthyn yn hanfodol i oes y cymeriadau a'r ddrama,⁵⁸

meddai Dewi Llwyd Jones am Esther - rhydd Lewis berspectif arall, un sy'n nes at adref, i'r ddrama hefyd yn ôl Pennar Davies:

Haman's wicked ambition has a double reference - to Hitler's 'final solution' of the Jewish problem and to the slower and slyer method of genocide used by the English state against the Welsh nation for, by this time, more than four centuries.⁵⁹

Esther felly fyddai'r Blaid Genedlaethol yn ceisio troi'r genedl Gymraeg (Ahasferus) yn erbyn dylanwad y Sais; ond tybed ai gwthio'r alegori wleidyddol yn rhy bell yw hyn?

Yn sicr, mae mwy o bosibiliadau i'r ddrama na'i symlrwydd arwynebol, ond sut y mae'r sgrïpt yn ei throsglwyddo ei hun i'r cyfryngau? Drama radio ydoedd yn wreiddiol, ond mae un anhawster amlwg i'r cyfrwng - sut yn y byd y gall cynulleidfa radio ddeall fod Esther y tu ôl i'r llenni, a'i gŵr yn estyn y deyrnwialen tuag ati? Nid yw'r cyffro disgwylidig yn bosibl - ond nid yw hyn wedi atal cynhyrchu'r ddrama ar y cyfrwng hwnnw dair gwaith, yn ogystal ag ar y teledu ddwywaith.

Cafwyd y perfformiad radio cyntaf o Esther fis Tachwedd 1959, lai na mis ar ôl ei chyflwyno ar y llwyfan yn Llangefni. Yn ôl ei ysgrif yn y Radio Times, credai'r awdur fod y perfformiad hwnnw wedi siomi'r gynulleidfa, ond meddai Meic yn Y Cymro:

Diolch i actio gwyh y ddau brif gymeriad, Esther a Haman....daeth y frwydr ffyrnig rhwng y frenhines o Iddewes a'r prifweinidog

cyfrwys a galluog yn fyw iawn o flaen
meddwl y gwrandawr.⁶⁰

Er ei fod yn beirniadu'r darnau hir o ddeialog a'r "trafodaethau meithion" nid yw Meic yn awgrymu methiant y brif olygfa i greu tensiwn a chwilfrydedd. Nid oes yr un o'r adolygiadau ychwaith yn sôn am gerddoriaeth ac effeithiau sain, felly gellir cymryd eu bod hwythau, os y'u defnyddiwyd, o safon eithaf (nid oes copi o'r cynhyrchiad wedi ei gadw gan y B.B.C.).

Flwyddyn union yn ddiweddarach, cynhyrchwyd Esther ar y radio yn Saesneg, mewn cyfieithiad o waith Elwyn Jones, perfformiad arall nas diogelwyd gan y Gorfforaeth. Emyr Humphreys oedd yn gyfrifol am y cynhyrchu, ond nid oes llawer mwy o fanylion am y cynhyrchiad hwn ar gael, ar wahân i ganmol gwaith yr actorion (nad ydynt yn cael eu henwi, ond tebygaf mai Cymry oeddynt) a safon gyffredinol y gwaith. Medd Meic:

Nid arbedwyd na thrafferth na chost gyda'r rhaglen hon, a sicrhawyd gwasanaeth chwech o'n actorion mwyaf profiadol a galluog i gyfleu'r chwe chymeriad pendant iawn a geir yn y ddrama hon.....a chefais yr argraff bod ambell un ohonynt yn fwy hyderus gyda'u sgrïpt Saesneg nag a fyddent gyda'r Gymraeg.⁶¹

Saesneg hefyd oedd iaith y telediad cyntaf o'r ddrama - credaf mai'r un cyfieithiad a ddefnyddiwyd, gwaith Elwyn Jones. Darlledwyd y ddrama ddechrau Gorffennaf 1961, a bu ymateb cymysg iddi. Rhoddodd gohebydd Y Fanner ei farn yn rhydd:

Wrth wyllo'r cynhyrchiad Saesneg o Esther....teimplais am y canfed tro, mae'n siwr, mai cyfrwng go oer i gyflwyno drama yw'r teledu.⁶²

Ni ellir creu awyrgylch awditoriwm ar y sgrîn fach, waeth pa mor galed y ceisir gwneud hynny - cyfrwng y manylion yw'r teledu, a chredaf fod Esther, sydd



Clifford Evans fel Mordecai a Margaret Whiting fel Esther yn y cyfieithiad Saesneg o "Esther," drama Saunders Lewis, a deledwyd gan y B.B.C. nos Lun.

wedi ei lleoli mewn palas brenin ac felly yn llawn o addurniadau hardd, yn gweddu'n benigamp i'r cyfrwng. Mae angen canolbwyntio sylw'r gynulleidfa ar fanylion sawl gwaith yn ystod y digwydd : llygaid Mordecai sy'n atal rhag gostwng yng ngŵydd y prif weinidog, wyneb Haman ar ei fwyaf milain, ac yn arbennig ymddangosiad Esther o'r tu cefn i'r llenni. Gall y camera teledu dywys cynulleidfa yn eu syniadau a'u teimladau - yn yr ystyr honno mae'n gyfrwng go amrwd, ond ar y llaw arall, mae'r manylion hyn oll yn angenrheidiol i rediad y plot, a hawdd fyddai i gynulleidfa theatr fethu â sylwi arnynt. Anodd hefyd fyddai cyfleu'r dyfodiad ar y radio, felly ymddengys y teledu'n gyfrwng perffaith i'r ddrama. Ategir hyn gan Meic yn ei adolygiad arni yn Y Cymro, wrth iddo fanylu ar y sgript:

Nid wyf yn siwr pa faint o gwtogi a fu yn y fersiwn a deledwyd nos Lun, ond sylwais nad oeddwn mor ymwybodol o'r dadlau gan fod "ail-ddeimensiwn" y llygad yn cynorthwyo'r actorion, ac yn arbennig oherwydd bod y defnydd cywrain a wnaed o'r camerâu yn ychwanegu at fy mwynhad.⁶³

Yr un oedd barn Hwntw yn Y Faner, gan ganmol yr actorion, Clifford Evans fel Mordecai, Margaret Whiting yn rhan Esther a William Devlin yn actio Haman. Meddai:

Rhoes cynhyrchu deallus, amgylchedd ac awyrgylch priodol, yn ogystal ag actio da, fywyd a gwefr mewn llawer ohoni. 'Roedd cydymdeimlad a chydweithrediad synhwyrus rhwng pawb a gymerai ran, yn y golwg ac o'r golwg, yn ei gwneud yn amgylchiad a droes yn brofiad cofiadwy.⁶⁴

Cyhoeddwyd llun o'r cynhyrchiad yn Y Faner ochr yn ochr â'r adolygiad hwn, a gwelwn o'r dystiolaeth hon fod canmoliaeth yn ddyledus hefyd i gynllunwyr y gwisgoedd - er fod y darlun mewn du a gwyn gallwn weld cywreinrwydd gwisg Esther, ffrog hynafol yr olwg a weddai i'r cyfnod Beiblaidd. Mae ei gwallt hefyd

yn hardd wedi ei blethu neu ei droelli'n gydynnau a'i addurno gyda gleiniau; y blaen wedi ei godi i'w chorun a'r gweddill yn syrthio dros ei hysgwyddau. Mae gwisg Mordecai hefyd yn wych - gallwn weld sglein y defnydd a cheinder y gwregys a'r coler, a'i farf yn gwneud iddo edrych yn ddoeth ac awdurdodol, ond er cystal y wisg, onid sachliain sydd gan Mordecai'r ddrama amdano, nid crandrwydd y palas?

Ni bu cynhyrchiad arall o Esther ar y cyfryngau tan 1970, ond yn y cyfamser bu canmoliaeth yn y wasg ym 1965 i gynhyrchiad llwyfan amatur myfyrwyr Coleg Hyfforddi Abertawe o'r ddrama. Perfformiwyd hi ar Fawrth 22 a 23, ac o dan law Mr. Degwel Owen, a'i cynhyrchodd, cafwyd perfformiadau da iawn gan yr actorion ifainc. O seilio fy marn ar yr adolygiad gloyw ohoni yn Y Cymro, credaf y byddai'r cynhyrchiad wedi llawn haeddu cael ei ffilmio mewn lliw - trueni nad ystyriwyd hynny ar y pryd.

Mewn du a gwyn, fodd bynnag, y cynhyrchwyd Esther yn y Gymraeg ar y teledu am y tro cyntaf ym 1970, gyda chast o actorion medrus: Lisabeth Miles (hon oedd un o'i ffilmiau cyntaf), Stewart Jones, David Lyn a Conrad Evans. Cynhyrchwyd y rhaglen gan George P. Owen, ond ni lwyddwyd yma i gynhyrchu rhaglen wir lwyddiannus - na phoblogaidd ychwaith o ystyried na roddwyd hi ymhlith dramâu gorau'r flwyddyn honno gan J.L.M yn Y Faner.⁶⁵

Mae sylfeini'r cynhyrchiad yn rhai da iawn, ond yn anffodus, nid yw hynny wedi sicrhau ffilm dda. Gwelwn o'r dechrau fod y rhaglen wedi ei chynllunio'n dda gan Allan Taylor, yn defnyddio set ddiddorol â llawer o ystafelloedd, coridorau a phileri ynddi - set ddelfrydol i gael amrywiaeth yn y golygfeydd, gan fod yr holl ddrama wedi ei lleoli mewn un adeilad. Mae naws Ddwyreiniol i'r adeilad yn y lluniau addurniadol ar y waliau ac yng nghynllun y ffenestri a'r colofnau ym mhorth y palas. Trawiadol hefyd yw'r celfi, gwelwn wyntyllau crand o blu, a cherfluniau hynafol yng nghanol ffynhonnau dŵr. Mae yma ddigon o ffrwythau a gwin, a'r dodrefn ym mhalas Esther wedi'u gorchuddio â defnyddiau drud.

Drud yr olwg yw'r gwisgoedd hefyd, ond nid mor grand eu gwedd â dillad cymeriadau cynhyrchiad Saesneg 1961. Mae Esther yn gwisgo ffrog dynn, dywyll, blaen, a'i choron a'r addurniadau sy'n ei chlustiau a'i gwallt yn fwy



Golygfa o Esther, drama Saunders Lewis : 9.10

trawiadol i'r llygad na'r wisg ei hun. Da oedd gweld Mordecai mewn carpiâu a golwg fudr arno, mewn cyferbyniad llwyr i Ahasferus, Haman a Harbona, ill tri â llond pen o gyrls du a barf yr un fath, a cholur du o amgylch y llygaid yn yr un dull â cholur Esther. Credaf i'r gynulleidfa fethu ag elwa ar y cwbl o'r manylion hyn oherwydd i'r ddrama gael ei ffilmio mewn du a gwyn - buaswn wedi hoffi gweld gwaith Judy Tarling a Joan Wakefield (a oedd yn gyfrifol am y colur a'r gwisgoedd) yn ei lawn ogoniant.

Fel y crybwyllais eisoes, roedd y gwaith camera yn ffres, gydag ôl dychymyg arno, ond credaf i'r criw fod braidd yn anturus gan fod y llun yn tueddu i ysgwyd wrth i'r camera symud o un lle i'r llall. Roedd ychydig o gryndod hefyd wrth i'r saethiad glosio at y cymeriadau, a rhoddodd y tremio naws amaturaidd i'r cynhyrchiad. Wedi dweud hyn, roedd amrywiaeth dda o saethiadau - o'r saethiad hir (pan glywn sŵn Esther y tu ôl i'r llen) i saethiadau canolig a thynn wrth i'r cymeriadau sgwrsio. Trawiadol oedd yr ymgais i bwysleisio casineb Haman tuag at Mordecai a'r Iddewon drwy ddefnyddio saethiadau agos iawn o'i wyneb yn gwgu, a'i lygaid gwyllt.

O ran cymeriadu, y llygaid gwylltion hyn oedd yr unig beth canmoladwy ym mhortread Conrad Evans o Haman. Ymgais ydoedd i drosglwyddo gorffwylledd y prif weinidog i'r gynulleidfa, ac er ein bod yn gweld ei gasineb, 'doedd yr ynfydrwydd ddim yma. Nid oedd Evans yn gwneud cyfiawnder â sgript Saunders Lewis wrth sgwrsio â Harbona yn yr act gyntaf (roedd Harbona, mewn gwirionedd, yn edrych yn fwy awdurdodol nag ef, a chafwyd portread effeithiol a chynnil gan Geraint Wyn Davies yn y rhan), 'roedd rhyw fath o wên ar ei wyneb wrth sôn am ladd pob Iddew a dinistrio'r ddaear - ond nid gwên gas ydoedd - yn hytrach, rhyw fath o wên eironig nad oedd yn argyhoeddiadol. Torrwyd llawer o frawddegau a ddangosai wir erchyllter Haman allan o'r sgript a bu hyn yn anfantais - byddai'n hawdd i'r gynulleidfa ddod i'r casgliad mai chwiw oedd y syniad o ladd yr Iddewon, nid canlyniad pum canrif o gasineb. Anffodus hefyd yw'r nam ar leferydd Conrad Evans - tanseilir awdurdod ei gymeriad wrth iddo lefaru "th" yn lle "s" bob tro a galw'r brenin yn "Ahathfferuth".

Esther oedd un o'r ffilmiau cyntaf i Lisabeth Miles gael rhan flaenllaw ynddi, ac mae'n rhaid dweud fod ei pherfformiad yn un canmoladwy iawn, er na chafodd fawr o gyfle i ddisgleirio. Nid oedd ei hymddangosiad cyntaf ar ben y grisiau yn yr act agoriadol yn un trawiadol - oherwydd toriadau yn y sgript wreiddiol, doedd chwilfrydedd y gynulleidfa yn hylch y frenhines odidog ddim wedi cael cyfle i gyrraedd ei binacl; ond yn y golygfeydd hynny o ddadlau â Haman roedd Miles yn argyhoeddiadol, a chafodd y "deigres" yn Esther ei rhyddhau.

Siomedig oedd prif olygfa'r ddrama, lle daw Esther i wydd ei gŵr ac aros iddo estyn ei deyrnwialen tuag ati. Credaf fod y gerddoriaeth a ddefnyddiwyd yn rhy uchel a dramatig heb greu'r tensiwn angenrheidiol. Cyfansoddwyd y gerddoriaeth i gyd yn arbennig ar gyfer y ddrama gan Grace Williams, ac ni ddaliodd naws y ddrama drwyddi draw, er fod golygfa'r wledd yn y drydedd act yn hynod effeithiol gyda miwsig yn cynnwys y discordiau a gysylltir â phibau'r Dwyrain - cefndir priodol i ddawnsio rhywiol merched y palas. Llwyddodd hyn i greu'r hyfrydwch angenrheidiol cyn i'r ddrycin daro ar ffurf cyfaddefiad Esther mai Iddewes ydyw.

Ar y cyfan, roedd perfformiadau Stewart Jones a David Lyn fel Mordecai ac Ahasferus yn ddifai, ond heb fawr ysbrydoliaeth. Siomwyd J.L.M. gan yr actio'n gyffredinol:

Cafwyd un olygfa gofiadwy, pan fentrodd Esther (Lisabeth Miles) i wydd y brenin heb gael ei gwahodd yno. Roedd ei diymadferthedd yn wych. Ond a siarad yn gyffredinol perfformiadau arwynebol digynnwrf a gafwyd, ac anodd iawn oedd canolbwyntio ar y telediad o'r dechrau i'r diwedd.⁶⁶

Ni ellir ond cytuno. Cafwyd yma ôl cyfarwyddo George P. Owen - sylwn ar ei waith yn enwedig yn yr act olaf wrth i'r cymeriadau wau drwy ei gilydd wrth siarad, a saethiadau'r camera'n ceisio adlewyrchu hyn. Yn yr actorion^{yr} oedd y diffyg - doedd eu heneidiau ddim yn y cymeriadau.

Ail-ddarlledwyd y cynhyrchiad hwn ym 1985 fel rhan o gyfres deyrnged i Saunders Lewis, ond cyn hynny, ym 1979, aed ag Esther ar daith theatrig o amgylch Cymru, gydag Ahasferus y cynhyrchiad blaenorol wrth y llyw, a dehongliad newydd ohoni: meddai Jennie Eirian Davies am y cynhyrchiad:

Hawdd yw gweld pam y dewisodd David
Lyn, y cyfarwyddwr, osod y ddrama ar
gefndir carchar-wersylloedd yr ail ryfel byd.
Ond gobeithio na bydd hynny yn ffrydio'r
ddrama heibio i'n cydwybod ni fel Cymry...⁶⁷

Pwysleisio un o is-themâu Saunders Lewis a wnaeth Lyn, yn hytrach na'i chynhyrchu mewn modd traddodiadol. Efallai mai dyma sy'n rhaid ei wneud i glasuron o ddramau erbyn hyn i sicrhau cynulleidfa, neu o leiaf, sicrhau ymateb.

Ni theimlodd Eleri Hopcyn angen am wneud hyn wrth gynhyrchu Esther ar gyfer Radio Cymru yng ngwanwyn 1994. Creodd awyrgylch clasurol ac aruchel iawn i'w chynhyrchiad gyda defnydd effeithiol o eco. Mae'r holl ddrama wedi'i recordio gyda sŵn gwag yn y cefndir - dyfais effeithiol i ddynodi hen balas carreg (ond tybed nad tywodfaen a ddefnyddid i adeiladu yn yr oes honno, meini na ddisgwylir iddynt greu eco?). Cawn yr argraff o adeilad gwag, moel, yn wahanol iawn i balas addurniedig George P. Owen ar y sgrîn. Ar gychwyn y ddrama, cyfleir sŵn y dorf sy'n gwranddo ar y proclamasiwn yn effeithiol, ond eu bod ar brydiau yn swnio fel gwleidyddion Tŷ'r Cyffredin yn porthi Harbona (camp oedd iddo yntau siarad mewn brawddegau meithion heb ond unwaith neu ddwy gymryd ei wynt). Dwyseir yr awyrgylch fwyfwy gyda'r dewis arbennig o gerddoriaeth - clywn gorn gwlad i gychwyn, cyn miwsig hudolus y clarinet, offeryn sydd â'r gallu i greu naws arswydus. Cawn yr un gerddoriaeth amhersain effeithiol rhwng y golygfeydd, gyda defnydd o'r obo a llinynnau, ond cyn yr act olaf, clywn fiwsig telyn sydd yn swnio'n fwy canol-oesol na Beiblaidd, er yn frenhinol ei naws.

Ni ddefnyddir llawer o effeithiau sain drwy gydol y cynhyrchiad, heblaw sŵn traed. Eithriad yw clywed sŵn Haman yn poeri i gyfeiriad Mordecai, yn uchel ond fodd bynnag, yn effeithiol. I'r gwrthwyneb, byddai'r ddrama wedi

gallu ymdopi'n burion heb wylo dychrynlyd Esther (Judith Humphreys) sy'n dryllio delwedd y gwrandawr o'r frenhines bendefigaidd.

Mewn gwirionedd, mae portread Humphreys yn ei gyfanrwydd yn annigonol. Nid oes urddas yn ei llais, ni chlywn y cariad diamod tuag at ei gwr, nac ychwaith ei dirmyg tuag at Haman. O'i chymharu â Lisabeth Miles yn yr un rhan, 'does dim modd gweld Humphreys yn rhagori mewn unrhyw fodd. Brenhines ddi-asgwrn cefn a glywn yma, yn enwedig yn ei hwylo hysterig. Gellir dweud yr un peth am Harbona - nid oes cyfrwyster a chwilfrydedd yn ei sgyrsiau â Haman, ac mae'n swnio'n ysgafn a chyfeillgar wrth ymddiddan â'r brenin. Nid oes arwydd o barch ganddo tuag at yr un o'r ddau - nid Huw Garmon yn rhan Harbona a geir yma; yn hytrach, Huw Garmon ei hun. Mae Dafydd Emyr yntau yn gwneud camgymeriad drwy geisio heneiddio'i lais yn rhan Haman, ac o'r herwydd, mae'n amhosibl gwranddo arno yn ddifrifol erystal ei actio (fel yn achos Conrad Evans). Collir ei rym o'r herwydd, a'i natur fileinig.

Ni ellir gweld bai ar actio Arwel Gruffydd yn rhan y brenin Ahasferus, cawn ganddo bortread synhwyrol o'r ymerawdr mewn penbleth; nac ychwaith Stewart Jones fel Mordecai. Wrth gwrs, cafodd ef brofiad o chwarae'r un rhan ar y teledu bron i chwarter canrif ynghynt, ac yr oedd ei brofiad a'i aeddfedrwydd yn un o gryfderau'r castio.

Ni newidiwyd fawr ddim ar sgrïpt wreiddiol Saunders Lewis ar gyfer y cynhyrchiad hwn, ac ni wn p'un ai da ynteu drwg yw hynny. Ar un llaw, mae'n bleser fod cynhyrchwyr y B.B.C. yn ystyried y ddrama yn un addas i gynulleidfa fodern, ac mae'n galonogol ein bod yn cael y cyfle i'w chlywed fel y'i bwriadwyd gan y dramodydd, ond ar y llaw arall, roedd gwranddo ar y cast hwn yn palu drwy ddrama a oedd yn mynd yn drech na hwy ar brydiau, yn faich ar y gynulleidfa. Er ei fod yn dechnegol yn gynhyrchiad da, roedd yr actio'n wan, a Dafydd Emyr a Huw Garmon ar brydiau yn ymdrechu'n rhy galed am lwyddiant nad oedd yn haeddiannol iddynt.

Bargeinio â bywydau dynion; ie, megis yr
oedd hi ym mywyd gwleidyddol Persia'r
dyddiau gynt felly y mae hi heddiw hefyd a

geiriau Reagan, “You can run but you can’t
hide” yn atsain yn ein clustiau fel canu cnul,⁶⁸

meddai Meinir Pierce Jones mewn adolygiad pan ail-ddarlledwyd cynhyrchiad
1970 o Esther ar y teledu; dros ddegawd yn ddiweddarach, yr un sy’n wir. Y tro
nesaf, beth am gymryd syniad llwyfan David Lyn a’i droi yn ffilm?

NODIADAU

1. Saunders Lewis, Letters to Margaret Gilcriest ed. Mair Saunders Jones, Cardiff 1993, t. 483
2. Saunders Lewis, Blodeuwedd Gwasg Gee, Dinbych 1965, Act IV
3. Y Gwrandawr, “Darllediad da o Flodeuwedd” Baner ac Amserau Cymru 18 Mai 1949, t. 5
4. Sganar, “Radio a Theledu” Baner ac Amserau Cymru 21 Rhagfyr 1961, t. 5
5. *ibid.*
6. *ibid.*
7. Emyr Humphreys, “Y ferch a Grewyd o Flodau” Radio Times 25 Chwefror 1965, t. 19
8. *ibid.*
9. Meic, “Gwyllo a Gwrandawr” Y Cymro 11 Mawrth 1965, t. 15
10. Perspex, Caernarvon and Denbigh Herald 1965, t. 8
11. *ibid.*
12. John Rowlands, “Siwan fel Blodeuwedd” Y Faner 21 Mawrth 1980, tt.18-9
13. *ibid.*
14. Charles Huws, “Radio a Theledu” Y Faner 21 Mawrth 1980, t. 18
15. *ibid.*
16. Delyth George, “Anadlu Einioes i Blodeuwedd” Barn Ebrill 1990, t. 48
17. Elin Mair, “Salwch Mawr y Geidwadaeth Ddiwylliannol” Y Faner 16 Mawrth 1990
18. David Berry, Wales and the Cinema University of Wales Press, Cardiff 1994, t. 337
19. *op. cit.* 16
20. Siân Gwenllïan, “Eileen nid Blodeuwedd” Golwg 8 Mawrth 1990
21. Iwan Llwyd, “Ein Natur Gyntefig” Y Cymro 14 Mawrth 1990

22. op. cit. 22, t. 338
23. op. cit.2, t. 9
24. ibid.
25. ibid. *t. 12*
26. John Rowlands, "Sylwadau ar Siwan" Ysgrifau Beirniadol VIII gol. J.E. Caerwyn Williams, Gwasg Gee, 1974, t. 281
27. Saunders Lewis, Siwan a Cherddi Eraill Llyfrau'r Dryw 1956, t. 35
28. ibid t. 37
29. Saunders Lewis "Cwrs y Byd" Y Faner - o Ioan Williams, Dramâu Saunders Lewis y Casgliad Cyflawn Cyf. 1, Caerdydd 1996, t. 522
30. Dafydd ap Gwilym, "Mis Mai" Blodeugerdd Rhydychen o Farddoniaeth Gymraeg gol. Thomas Parry, Oxford University Press 1962, t. 59
31. Saunders Lewis, Annwyl Kate, Annwyl Saunders llythyr 161, t. 177 gol. Dafydd Ifans, Aberystwyth 1993
32. Saunders Lewis, llythyr at Robert Wynne, Awst 1954, o Saunders Lewis a Theatr Garthwin Hazel Walford Davies, Gwasg Gomer 1995, t. 189
33. op. cit. 31, llythyr rhif 166, t. 181
34. op. cit. 27, t. 59
35. Alan Pryce Jones, "At the Theatre" The Observer 27 Medi 1959 (o droednodiadau Dafydd Ifans op. cit. 6, llythyr 176, t. 189)
36. Meic, "Gwyllo a Gwrando" Y Cymro 10 Mawrth 1960, t.3
37. Radled, "Radio a Theledu" Baner ac Amserau Cymru 10 Mawrth 1960, t.5
38. ibid.
39. ibid.
40. Sganar, "Radio a Theledu" Baner ac Amserau Cymru 13 Mawrth 1969
41. ibid.
42. Angharad Tomos, "Sylwedd Saunders" Sbec 20 Rhagfyr 1986 - 2 Ionawr 1987, t. 16
43. Ann Ffrancon, "Sbec ar Bedwar C" Y Faner 9 Ionawr 1987, t. 2op. cit. 18
44. Phil ap Iorwerth, "Gorbriso" Y Cymro 7 Ionawr 1987, t. 2
45. op. cit.63

46. Siwan Jones, "Siwan, Marged, Beti" Golwg 10 Ionawr 1991, t. 29
47. *ibid.*
48. Aneirin Talfan Davies, "Ar ymyl y Ddalen" Barn Ebrill 1971, t. 170
49. *ibid.*
50. Branwen Jarvis, "Saunders Lewis: Apostol Patriarchaeth" Ysgrifau Beirniadol VIII gol. J.E. Caerwyn Williams, Gwasg Gee, 1974, tt. 293-331
51. Eco, "Radio a Theledu" Y Cymro 10 Mawrth 1971, t. 4
52. *ibid.*
53. J.L.M., "Radio a Theledu" Baner ac Amserau Cymru 11 Mawrth 1971, t. 4
54. Robin Gwyn, "Ffilm '94" Golwg 3 Tachwedd 1994, t. 13
55. Saunders Lewis, Esther a Serch yw'r Doctor Llandybie 1960, t. 14
56. *ibid.* t. 19
57. *ibid.*
58. Dewi Llwyd Jones, "Gŵyl Ddrama Llangefni" Baner ac Amserau Cymru 1 Hydref 1959, t. 4.
59. Pennar Davies, Triskel Two ed. Sam Adams & Gwilym Rees Hughes, Llandybie 1973, tt.31-2
60. Meic, "Gwyllo a Gwrandu" Y Cymro 26 Tachwedd 1959, t. 4
61. *ibid.*, 20 Hydref 1960, t. 3
62. *dienw*, "Ledled Cymru" Baner ac Amserau Cymru 27 Gorffennaf 1961
63. Meic, "Gwyllo a Gwrandu" Y Cymro 20 Gorffennaf 1961, t. 3
64. *Hwntw*, "Radio a Theledu" Baner ac Amserau Cymru 27 Gorffennaf 1961, t. 4
65. J.L.M., "Radio a Theledu" Baner ac Amserau Cymru 7 Ionawr 1971
66. *ibid.* 12 Mawrth 1970, t. 5
67. Jennie Eirian Davies, Golygyddol, Y Faner 2 Mawrth 1979, t. 2
68. Meinir Pierce Jones, "Sianel 4 Cymru" Y Cymro 23 Hydref 1985 t. 2

PENNOD 6:

Y GYMRU GYFOES

CYMRU FYDD

Drama gomisiwn Eisteddfod Genedlaethol y Bala 1967 ydoedd Cymru Fydd, a chymysg fu'r derbyniad iddi.

Ni fwynheais i ddim ar y perfformiad cyntaf o ddrama Saunders Lewis Cymru Fydd pan berfformiwyd hi ar y llwyfan am y tro cyntaf....Methais â chredu yn nhebygolrwydd y sefyllfa na'r cymeriadau ynddi na dim,¹

meddai Meic, gohebydd radio a theledu'r Cymro, amdani, ond gan i dân gychwyn yn ystod ail act y perfformiad, annhebygol ydoedd bod yr actorion na'r gynulleidfa wedi cael cyfle teg i roi'r sylw haeddiannol i'r ddrama newydd hon. Aethpwyd â'r cynhyrchiad ar daith o gwmpas Cymru wedyn, a gwell fu'r ymateb bryd hynny:

I found it a reasonably engaging play in modern realistic vein. It opened excitingly and concluded quite acceptably with the theatrical cliché of the anti-hero's rooftop death fall,²

meddai gohebydd y Caernarvon and Denbigh Herald And North Wales Observer.

Drama wedi'i lleoli yng Nghymru gyfoes ydyw, a'r prif gymeriad yn wahanol iawn i arwyr traddodiadol llenyddiaeth Gymraeg. Mab y Mans oedd Dewi, yn sinigaidd am Gymru a'i fagwraeth. Nid yw'n grefyddol fel ei rieni, nac ychwaith yn malio am ddyletswydd na'r gwahaniaeth rhwng da a drwg.

Ac yntau yn y coleg, mae'n dechrau dwyn arian o siopau heb yn wybod i neb, hyd yn oed ei gariad, Bet (sy'n ferch i ficer yr un plwyf ag y mae tad Dewi yn weinidogynddo, mae hefyd yn y coleg gyda Dewi). Ymhen hir a hwyr mae'n cael ei ddal, a'i yrru i'r carchar - ni fu yno'n hir gan iddo ddianc yn y niwl a chychwyn am adref; gan niweidio modurwr a dwyn ei gar a'i arian er mwyn cyrraedd yno - yma mae y ddrama'n cychwyn.

Daw Dewi i'r tŷ drwy'r cefn fel y mae ei fam yn cychwyn i'r Seiat, ac mae hi'n cytuno i adael i'w mab guddio rhag yr heddlu yn y mans heb yn wybod i'w dad. Ymhen ychydig, daw plismon y pentref i chwilio amdano, a mynd oddi yno yn ddim callach; wedyn y daw'r Parch. John Rhys i wybod am leoliad ei fab.

Yr un noson, mae Dewi yn galw am Bet ar y teliffon, a daw ato i drafod eu gorffennol a'i chynlluniau hi ar gyfer dyfodol y ddau ohonynt. Mae'n cytuno i dreulio'r noson gyda Dewi ar yr amod ei fod yn ^{ei} rhoi ei hun yn nwylo'r heddlu y bore wedyn. Trannoeth, fodd bynnag, wedi i Bet ffônio am yr Inspector, y mae ei chariad yn troi arni a'i mellithio cyn mynd i'r llofft i wisgo amdano er mwyn mynd yn ôl i'r carchar gyda'r plismyn.

Nid oes ganddo unrhyw fwriad o ddychwelyd yno, a thra mae ei deulu yn aros amdano yn y parlwr, mae'r llanc yn ei daflu ei hun oddi ar y to a'i ladd ei hun. "Fi yw Cymru Fydd" meddai, ac mae gobaith ynghudd yng nghroth Bet am ddyfodol y genedl.

Cysgod Y Bala fu ar Cymru Fydd nes iddi gael ei theledu ar 16 Tachwedd yr un flwyddyn gan y B.B.C., a'r cynhyrchiad dan ofal Wilbert Lloyd Roberts. Bu'r rhaglen yn achos diwygio barn amryw, yn cynnwys Meic Y Cymro, ond nid oes copi ohoni wedi ei gadw gan y B.B.C.. Yr unig bwnc dadlau erbyn hyn ydoedd neges y ddrama, a'i dyfnder.

Bwriadwyd y ddrama hon fel sioc, sioc i ddeffro cynulleidfa o'r hyn a wêl Saunders Lewis fel cyflwr tralodus, diymadferth Cymru - os nad yw hi eisioes yn rhy ddiweddar i hynny. Byddai Saunders Lewis yn siomedig pe na theimlid y sioc,³

medd Edward Rees yn Y Cymro. Ar y llaw arall, credai Elis Gwyn Jones mai

...condemniad llwyr ar garchardai a chreulondeb cosb y gyfraith....⁴

oedd thema Lewis. Ni phlymiodd Meic mor ddwfn iddi; yr hyn a welodd ef oedd:

...stori am fachgen ifanc, hunanol, celwyddog
ond deallus hefyd, a chwiliai am ateb i'r
“argyfwng gwacter ystyr”.⁵

Y gred boblogaidd erbyn hyn ydyw mai darlun o'r Gymru newydd
ydoedd Dewi, yn troi cefn ar y ffordd draddodiadol o fyw - dyna a welodd
Perspex, gohebydd cyfryngol y Caernarvon and Denbigh Herald, ond serch
hynny, ni chafodd ei blesio:

As a sort of symbolic representation of the
Wales of the future, which he tended to be on
the stage, Dewi is surely unwarrantably
hopeless.⁶

Ystyriwyd y cynhyrchiad teledu hwn yn un da, er mai'r un cynhyrchydd a
chast â pherfformiad Y Bala oedd iddo. Ceir adolygiad manwl ohono yn Y
Cymro gan Meic, lle yr eglura'r gwahaniaeth rhwng y fersiynau teledu a llwyfan:

Un rheswm dros imi ei mwynhau'r eildro
oedd fod actio'r cast, ar ôl rhai wythnosau o'i
chyflwyno ar hyd y wlad, ac o rihysio ar
gyfer y perfformiad teledol, wedi gwella'n
fawr iawn.⁷

Canmolwyd y cast gan Sganar hefyd:

Cafwyd tim o actorion medrus i'w
chyflwyno, er nad hawdd fydd cael cwmni
Cymraeg sy'n deilwng o'r ddrama,⁸

cast a gynhwysai actorion blaenllaw megis Conrad Evans, ac yn eu plith, actores
ifanc, gymharol ddibrofiad o'r enw Lisabeth Miles. Gwelwyd hefyd *ddebut* John
Hughes, a gaiff ei adnabod erbyn hyn fel John Ogwen. Cwyn Sganar yn erbyn
Emily Davies yn rhan Mrs Rhys ydoedd distawrwydd ei llais, tra y disgrifiodd
Meic ei hactio fel

...dehongliad cryf a theimladol o'r cymeriad.⁹

Cafodd Conrad Evans hefyd yn "hynaws a digonol"¹⁰; Lisabeth Miles hithau yn cyflwyno

...actio deallus a disgybledig.¹¹

Yr oedd Sganar yn gweld y Mans yn edrych yn rhy debyg i "blasty bach"¹², ond ni wn ai set wreiddiol a ddefnyddiwyd, ynteu'r un a ddefnyddiwyd ar y llwyfan. Mae adolygiad Meic yn anwybyddu'r set; ond yn canolbwyntio ar y gwaith camera. Ymddengys fod yn y cynhyrchiad ddefnydd effeithiol o'r saethiad agos; hynny'n pwysleisio'r cymeriadau gan dynnu sylw'r gwylwyr at yr ymateb ar wynebau'r actorion; sefyllfaoedd megis dyfodiad y plismon i'r tŷ. Ymhelaetha:

Wrth wyllo drama ar lwyfan, bydd y gwylwiwr yn dewis beth i edrych arno. Gyda drama ar y sgrîn fach y mae'n rhaid iddo ymddiried yn newis y cynhyrchydd pa beth i'w ddangos.

Wrth wyllo nos Wener, ni theimlwn unwaith fy mod yn anghytuno â dewis Wilbert Lloyd Roberts y cynhyrchydd. Llwyddodd ef i ganoli sylw'r gynulleidfa ar y ddrama ei hun.¹³

Nid oedd Elis Gwyn Jones wedi'i blesio â'r telediad, ond bai'r cyfrwng oedd hynny, nid y cynhyrchiad. Gwell oedd ganddo awyrgylch y theatr na'r parlwr:

Nid dadlau yn erbyn "Meic" yr wyf a honni na allai'r telediad fod yn well na'r gwaith llwyfan, ond datgan fy llawenydd o gael bod yn aelod o gynulleidfa mewn neuadd yn gwir fwynhau drama fawr.¹⁴

Ar y cyfan felly, ffafriol ydoedd yr ymateb i'r cynhyrchiad hwn o Cymru Fydd; gresyn nad oes cofnod o'r unig delediad hwn o'r ddrama ar ffilm.

Y flwyddyn ganlynol, cyfieithwyd y ddrama i'r Saesneg gan Elwyn Jones a'i darlledu ar y radio dan y teitl The Inheritance; cynhyrchwyd hi drachefn gan John Owen ar yr un cyfrwng yn ei Chymraeg gwreiddiol ym 1994 - ni bu'r un cynhyrchiad arall hyd yn hyn.

Mae'r ddau gynhyrchiad yn debyg iawn i'w gilydd er fod chwarter canrif rhwng recordio'r ddwy. Cadw'n agos at y sgript wreiddiol a wnaeth y ddau gynhyrchydd, a theg yw canmol cyfieithiad Elwyn Jones o'r sgript wreiddiol ym 1968.

"Wales Today" yw'r ymadrodd a ddefnyddir ganddo am "Cymru Fydd" - cyfieithiad nad yw'n llythrennol, ond sy'n effeithiol i ddisgrifio teimladau Dewi yn ei wewyr. Gallasai "Wales of the Future" neu "Future of Wales" fod yn gywir, neu "Young Wales" fel y gelwid yr hen fudiad Cymru Fydd; ond mae natur gryno "I'm Wales Today" yn rhagori yn ddi-os.

Mae cywreinrwydd yr ymadrodd hwn yn gosod y safon i weddill y cyfieithiad. Y mae Elwyn Jones wedi cadw'n glos at y gwreiddiol heb fod yn slafaid, ac o'r herwydd, mae ei ddeialog yn llifo'n esmwyth fel yn nrama Saunders Lewis:

Ai i ddangos dy dduwioledeb y daethost ti i
mewn drwy'r ffenest?¹⁵

meddai Dora yng ngeiriau'r dramodydd.

Was it to show concern...¹⁶

a ddefnyddiodd Jones; nid yw'n cynnwys yr un cyfeiriad at grefydd; ond mae'r eironi nad yw Dewi wedi dangos mymryn o bryder am ei rieni yn ei weithredoedd yma o hyd.

Mae'r sgwrs yn gredadwy a synhwyrol yn The Inheritance ac mae hyn yn rhannol oherwydd defnydd rhagorol Jones o idiomau. Troswyd "cael Wil i'w wely" yn "more than one way of killing a cat", a defnyddiwyd "walls have ears" fel cyfieithiad o "clustiau'n gwranddo" - idiomau sy'n ffitio'n daclus i gorff y sgwrs: bron na ellir dweud eu bod yn rhagori ar y gwreiddiol mewn manau.

Cymeraf enghraifft o ddiwedd yr act gyntaf - ar ôl i Dewi ddisgrifio erchyllterau bywyd carchar, mae'n tyngu llw ar y Beibl nad â'n ôl i'r carchar "doed a ddelo"¹⁷. Geiriau Dewi yn The Inheritance yw "come hell or high water", sy'n rhoi argraff gryfach o deimladau'r cymeriad tuag at ei gell, a chytseiniaid caled y Saesneg yn fwy penderfynol na seiniau meddal y Gymraeg.

Dro arall, fodd bynnag, mae gwaith Lewis yn rhagori. 'Tydi "strangers at a party" rhywsut ddim yn cyrraedd safon "pobl mewn sosial" - mae'r cyfeiriadau at fywyd y gweinidog a'i wraig yn mynd ar goll yn y cyfieithiad. Mae "mochyn aflan" yn cyfleu llawer mwy o gasineb na "a real sod" - dywediad a ddefnyddir yn ysgafn yn Saesneg yn hytrach nag yn ddirmygus.

Gwendid pennaf y cyfieithiad safonol hwn yw'r defnydd o eiriau Americanaidd eu naws. Y mwyaf trawiadol o'r rhain yw geiriau Dewi: "sure, dad" mewn cyfieithiad i "ar bob cyfri". Er fod y bachgen wedi profi bywyd coleg a charchar, a fyddai'n defnyddio ymadrodd fel hwn? Caiff y gair "gwefr" hefyd ei drawsnewid - "I got a kick out of it" meddai'r Dewi Saesneg am y weithred; sy'n awgrymu mwynhad yn hytrach na gwefr. "Thrill" yw'r cyfieithiad yn niwedd yr ail act, gwell disgrifiad o'r profiad.

Amheus hefyd yw'r driniaeth o'r dywediad "argyfwng gwacter ystyr" - cyfieithir ef fel "a meaningful life" ac "a life empty of meaning" yn y cynhyrchiad; ond nid yw'r ymadroddion yn cyfleu yn ddigonol ddwyyster ac arwyddocâd y geiriau a'r dehongliadau ohonynt.

Llwyddiant felly fu addasiad Elwyn Jones o Cymru Fydd - sylfaen wych i gynhyrchiad Lorraine Davies o The Inheritance. Cadw at y gwreiddiol a wnaeth cynhyrchiad John Owen ym 1994 hefyd, heb fawr o newidiadau i'r sgrïpt ar wahân i ychydig foderneiddio yma ac acw. Ceir gwared ar eiriau megis "ysywaeth", a defnyddio "gwaetha'r modd" yn ei le.

I'r gegin â thi ar unwaith,

medd Bet yn nrama Saunders Lewis; "dos di i'r gegin" a geir yn yr addasiad. Teimlaf fod y newidiadau bychain hyn yn effeithiol mewn cyflwyniad modern o'r ddrama, yn enwedig gan fod tŷn y sgwrs yn parhau yn dra ffurfiol. Mae

newidiadau eraill, fodd bynnag, na ellir eu cyfiawnhau. Ni fuasai Dora Rhys yn dweud “ti’n gwybod” fel sydd i’w glywed yma; tybiaf y byddai hi fel gwraig y gweinidog yng nghefn gwlad Cymru yn parhau i ddweud “mi wyddost” fel yn y sgrïpt wreiddiol (neu o leiaf “wyddost ti”). Mae’r un peth yn wir am “o dy herwydd di” - swnia’n od, pan gofiwn mai “o’th blegid di” yw’r gwreiddiol, geiriau â naws Beiblaidd iawn iddynt. Os oedd yn rhaid diwygio, gellid bod wedi defnyddio “o d’achos di” sydd ychydig yn llai ffurfiol na’r gwreiddiol.

Amrywiaeth o newidiadau tafodieithol yw gweddill y diwygiadau; pethau digon rhesymol fel defnyddio “isht” yn lle “taw”, a “hegar” yn lle “tost” - ni ellir gweld bai ar addasiadau i weddu i dafodiaith yr actorion - nid ydynt yn amharu ar rediad y ddrama na mwynhad y gynulleidfa ohoni.

Er hyn i gyd, ffactor bychan iawn yn llwyddiant drama radio yw’r addasiad. Telir mwy o sylw yn aml i’r dull o gyflwyno’r sgrïpt na’i chynnwys. Os ydyw’r cyflwyniad yn un gwan, nid oes disgwyl i’r gwrandawr ganolbwyntio ar y testun (fel y gwelwyd yn Eisteddfod y Bala).

Yn ffodus, roedd cwmnïau 1968 a 1994 yn fedrus iawn, a llwyddiant fu’r ddau gynhyrchiad, er fod i’r cynhyrchiad diweddaraf ragoriaethau. Cipiwyd ein sylw yn syth gan lais unigryw Dafydd Iwan yn canu’r geiriau

ond mae’r llencyn yn y jêl...¹⁸

- yr unig ddefnydd a wneir o gerddoriaeth yn y cynhyrchiad, er nad yw’r gân yn briodol iawn gan mai am reswm cwbl wahanol yr oedd “llencyn” Dafydd Iwan yn gaeth. (Ni ddefnyddiwyd cerddoriaeth o gwbl yn The Inheritance.) Dilynwyd hyn gan lais Saunders Lewis yn darllen pwt o’i ddarlith “Tynged yr Iaith”:

Rhaid i mi ysgrifennu’r ddarlith hon cyn cyhoeddi ystadegau’r cyfrifiad a fu y llynedd ar y Cymry Cymraeg yng Nghymru. Mi ragdybiaf y bydd y ffigyrau a gyhoeddir cyn hir yn sioc ac yn siom i’r rheiny ohonom sy’n ystyried nad Cymru fydd Cymru heb y Gymraeg.¹⁹

Erbyn hyn, roedd sylw'r gwrandawr wedi ei hoelio.

Mae gwahaniaeth mawr yng nghastio'r ddau gynhyrchiad, gyda'r fersiwn Gymraeg yn rhagori ar y Saesneg. Lleisiau undonog, cyflym sydd gan yr actorion Saesneg, yn enwedig Rhoda Lewis yn rhan Dora Rhys a David Buck fel Dewi. Swnia Dewi a Bet (Meg Wyn Owen) yn hŷn na'r cymeriadau eraill oherwydd tŷn eu lleisiau, peth a allai fod yn gymysglyd i wrandawyr nad ydynt yn gyfarwydd â'r ddrama. Anfantais arall yw eu hacenion Saesneg dosbarth canol-uwch. Nid oes iddynt unrhyw arwydd o Gymreictod - mae ynganiad Rhoda Lewis o "Dewi" yn warthus: "Deewy" a glywir ganddi o hyd.

Ceir castio da, addas yng nghynhyrchiad John Owen, gan gynnwys Llion Williams, Manon Eames a Nia Williams. Yr unig syndod yw'r defnydd o actorion deheuol i bortreadu'r teulu Rhys - er nad oes tafodiaith amlwg yn nrama Saunders Lewis, mae'r awgrym yno mai yn y Gogledd y mae'r digwydd. Nid yw hyn yn amharu dim ar lwyddiant y ddrama; wedi'r cwbl, gweinidogion a'u teuluoedd oedd yn mudo amlaf yng Nghymru wrth gael galwadau o un eglwys i'r llall.

O ganlyniad i'r castio, mae deialog Cymru Fydd yn synhwyrol a chredadwy, yn naturiol a bywiog. Mae'r actorion profiadol yn sicrhau dehongliad boddhaol; ac yn wahanol i actorion The Inheritance, mae amrywiaeth yn nhŷn y lleisiau.

Di-emosiwn ar y cyfan yw'r actio yng nghynhyrchiad Lorraine Davies, yn enwedig yn niwedd act II rhwng Dewi a Bet - ni allwn gredu fod y ddau oeraidd yma ar fin treulio'r noson gyda'i gilydd. Ceir defnydd helaeth o seibiau i ychwanegu eironi, yn ogystal â phwyslais (gormodol weithiau) ar eiriau; ond heb lwyddo i guddio marweidd-dra lleisiau'r actorion.

Er cystal ei hactio, mae Manon Eames hefyd yn euog o ambell i orbwyslais, sy'n swnio'n ffug ar brydiau, ond nid amharodd ar weddill y cynhyrchiad. Drwyddi hi, yn ddi-os, y mae cyfran helaeth o gyffro'r ddrama'n cael ei gynhyrchu; drwy gyflymder ei llais tra'n poeni am ei mab, ei hanadlu dwfn a'i hochneidiau ysgafn. Nid yw hyn i'w glywed yn The Inheritance.

Er gwaethaf datblygiad technoleg, ychydig iawn o wahaniaeth sydd yn nifer a safon effeithiau sain y ddau gynhyrchiad. Nid yw'r sgript yn galw am

lawer ohonynt, ond mae'r effeithiau a gynhwysir yn angenrheidiol i rediad y stori: cloch y ffôn a sŵn beic modur. Maent i gyd yn The Inheritance, ynghyd â sŵn traed ac eco effeithiol wrth i'r cymeriadau symud yma a thraw. Clywir Dewi yn cerdded i fyny'r grisiau cefn, a beic y plismon yn y llefydd priodol.

Priodol hefyd yw'r portread o wefr olaf Dewi Rhys - wedi sefydlu fod y bachgen ar y to, clywn sŵn traed y cymeriadau eraill ar y cerrig mân y tu allan i'r tŷ. Mae merch, ni wn p'un ai Bet ynteu Dora ydyw, yn sgrechian, cyn i mi glywed rhywbeth trwm yn disgyn. Clywn sŵn rhedeg, cyn cloi'r ddeialog:

PLISMON: I'm sorry. Very sorry Mr. Rhys.

[Sŵn traed yn cerdded yn araf]

JOHN: Dora.

DORA: I know. He's had his last thrill.

Llinell glo go wantan a ffurfiol ydyw, yn amharu ar arwyddocâd a syndod y sefyllfa. Does dim annog ar Dewi i beidio â neidio, nac ychwaith gwaedd wrth iddo ddisgyn. Mae hon yn olygfa anodd ei chwarae ar unrhyw gyfrwng, yn enwedig cyfrwng dall y radio, ond credaf y byddai'n bosibl ei gwneud yn llai diffrwt.

Nid oes ychwaith lawer o effeithiau sain yn y cynhyrchiad Cymraeg, ond oherwydd bod lleisiau'r actorion yn amrywio mewn tŷn, nid yw hyn yn wendid. Ceir eto gloch y ffôn, curo ar y drws a chleician tân yn yr aelwyd, ond y mae beic modur y plismon yn rhy dawel i'w adnabod. Mae llai o sŵn cerdded yma nag yn The Inheritance, anfantais ar un llaw gan nad yw'r gwrandawr yn sicr pa gymeriadau sy'n bresennol yn y golygfeydd; ond ar y llaw arall yn creu symlrwydd effeithiol i'r cynhyrchiad.

Byddai'r rhaglen hon yn effeithiol pe na bai am waedd Dewi wrth ddisgyn. Clywn ef yn gweiddi "Gwefr!" yn hir ar ôl neidio, a'i fam wedyn yn galw'i enw. Mae technoleg wedi galluogi rhoi eco annaturiol i'w lleisiau nad yw'n taro deuddeg yn ei gyd-destun, ond cawn ar ôl y cwmp un o'r effeithiau sain gorau yn y cynhyrchiad - adar mân yn trydar. Dywed hyn fwy am gyflwr Cymru Saunders Lewis na'r ddrama ei hun - ar ôl holl helyntion Dewi, ar ôl poen ei rieni, aberth Bet er ei fwyn ac ar ôl ei farw, mae'r adar yn dal i ganu a'r byd yn

union fel y bu erioed; does dim wedi newid. Yr un Gymru ydyw er gwaethaf Dewi - un eiliad fach ydoedd ei fywyd yn hanes maith y byd.

Addas iawn yw'r ddau gyflwyniad o Cymru Fydd sydd wedi eu cadw, y ddau â'u cryfderau a'u dehongliadau gwahanol o'r gwreiddiol. Mae'r iaith yn wahanol a chwarter canrif o ddatblygiad yn eu gwahanu, ond yr un stori ydyw, a'r un neges.

Drama broffwydol yw hon²⁰

meddai Aneirin Talfan Davies yn Barn wrth wneud sylwadau ar y testun gwreiddiol ym 1968, a'r un yw ei neges heddiw - ni wyddom sut Gymru fydd yfory; felly roedd cynhyrchiad John Owen ym 1994 yr un mor berthnasol i gynulleidfa ar drothwy'r unfed ganrif ar hugain ag oedd The Inheritance i Gymry eiddgar 1968.

PROBLEMAU PRIFYSGOL ac EXCELSIOR

Ysgrifennwyd Problemau Prifysgol ym 1962, ond ni chyhoeddwyd hi tan fis Gorffennaf 1968; perfformiwyd hi yn Eisteddfod Genedlaethol Y Barri am y tro cyntaf fis yn ddiweddarach. Awgryma gohebydd y Western Mail reswm am yr oedi:

...one can only wonder whether its publication at that time [1962] might not have caused some acute distress in certain academic quarters,²¹

gan i Saunders Lewis gael ei drin yn enbyd gan sefydliad y Brifysgol yng Nghymru ar ôl iddo ar y cyd â Lewis Valentine a D.J. Williams losgi'r Ysgol Fomio ym Mhenyberth, Llŷn ar Fedi'r wythfed, 1936.

Helynt dawns y Gymdeithas Gymraeg a'r bore canlynol sydd yma, mewn coleg Prifysgol rhywle ym Mhowys; helynt sy'n eironi a ffars.

...None of the academic characters in this play are in the slightest concerned with the problems of the University of Wales to which they belong.²²

medd Bruce Griffiths, a mynd o ddrwg i waeth y mae enw da'r Brifysgol drwy'r ddrama.

Mae Prifathro'r coleg, Syr Gamaliel Prys, yn dod yn ôl i Gymru ar noson y ddawns ar ôl iddo fod am gyfnod go hir mewn ysbyty meddwl yn Llundain. Yr hyn a'i symbylodd i ddychwelyd oedd llythyr di-enw yn sôn am garwriaeth Paul Roger, yr Athro Cymraeg, â Ffioretta Davies, darlithwraig yn yr adran Eidaleg; a bwriad Syr Gamaliel yw achub enw da'r Adran a'r coleg.

Fodd bynnag, y mae gwraig Paul yn gwybod am y berthynas ac yn ei meithrin, yn sicr y daw ei gŵr yn ôl wedi iddo flino ar yr Eidales benchwiban. Yng nghanol y miri, daw Sam, mab Syr Gamaliel, i'r golwg ar ôl bod ymaith am naw mlynedd, yng ngharchar Wandsworth ymhlith llefydd eraill; a'i feddwl ar

flacmêl. Llwydda i gael canpunt y flwyddyn gan ei dad am gadw helyntion ei staff yn gyfrinach, a llwydda Sara i ddenu ei gŵr yn ôl a sicrhau iddo swydd is-brifathro'r coleg.

Cymhara Bruce Griffiths y ffars hon â gwaith P.G. Wodehouse ac Oscar Wilde; ond yn sicr, Problemau Prifysgol ydoedd y ddrama gyntaf o'i bath yn y Gymraeg.

Er iddo sarhau un o sefydliadau pwysicaf Cymru, roedd canmol ar ddrama newydd Saunders Lewis ar y pryd, a bu edrych ymlaen at delediad ohoni ar ôl perfformiad y flwyddyn cynt o Cymru Fydd, eto yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Meddai Gwilym R. Jones wrth adolygu'r ddrama mewn print:

Caiff Saunders Lewis hwyl ar godi cwr y caead ar ambell sgandal mewn cylchoedd gorbarchus, ac y mae ar ei orau efo'i finiawyd y tu mewn i furiau syber tref Brifysgol yn y gomedï hon.²³

Y cymeriadau yw canolbwynt Problemau Prifysgol, gwawdluniau o academyddion adnabyddus:

Hoelion i grogi hetiau pryfoclyd arnynt...;
teipiau ydynt, gwrthrychau coegni'r awdur,²⁴

yn ôl Gwilym R. Jones, Syr Gamaliel Prys yn bennaf oll: prifathro coleg wedi dychwelyd o'r seilam a pheintio pictiwr delfrydol ohono'i hun fel un o bileri'r gymdeithas. Dyna Paul Roger wedyn, heb fymryn o synnwyr yn ei ben, yn cael ei dynnu'r naill ffordd a'r llall gan y merched yn ei fywyd. Mae Ffioretta Davies hithau'n wawdlun o Eidales orwych gyda'i harferion gorliwiedig, yn troi i'w mamiaith wrth golli'i thymer. Sam yw'r mab afradlon yn dychwelyd adref, un o'r to ifanc, hunanol, yn meddwl am bopeth yn nhermau arian. Gwawdluniau ydynt oll, a dyna paham y caiff y ddrama ei derbyn fel comedi yn hytrach na sefyllfa real.

Comedi ysgafn a'i llond o feirniadaeth
gymdeithasol,²⁵

yw disgrifiad Gwilym R. Jones ohoni, ond er ysgafned ydyw, mae isleisiau dwys iddi; er enghraifft geiriau Gwen, Is-lywydd y Myfyrwyr; yn yr act gyntaf:

Dawnsio, os mynnwch chi, ond dawnasio gan
wybod fod y llongau Polaris dan y dŵr ac y
gall rhyw lanc go dwp wedi blino, neu wedi
cael dropyn gormod o fodca, wneud
camgymeriad.²⁶

Fel yn Esther a'r cymariaethau yno rhwng Haman a'i gynllun i ladd holl Iddewon Persia a gorffwylltra Hitler yn yr Almaen, mae Saunders Lewis yn poeni am ddyfodol ein cymdeithas yn sgîl datblygiadau yn nhechnoleg arfau niwclear. Meddai'r Prifathro yntau i gloi'r ddrama:

Ysgol feithrin yw'r Brifysgol yng Nghymru.²⁷

Gallwn dderbyn gosodiadau fel hyn a'u treulio'n haws drwy eu rhoi dan fantell comedi. Nid yw cynulleidfa yn mynd i theatr i gael darlith wleidyddol, yn hytrach, chwennych ychydig fwynhad y maent.

Fel Cymru Fydd ym 1967, cynhyrchwyd Problemau Prifysgol ar y teledu ar ôl ei dangos yn yr Eisteddfod, ond eto, ni chadwyd copi o'r tâp wedi ei darlledu ar 28 Hydref 1968. Cyflwyniad Cwmni Theatr Cymru ydoedd, yr un cwmni ag a'i hactiodd yn yr Eisteddfod, a chynhyrchwyd hi gan Wilbert Lloyd Roberts a Huw Davies.

Yn ôl yr adolygiad yn Y Cymro, yr oll a wnaethpwyd oedd ffilmio'r cynhyrchiad llwyfan, a methodd y ddrama o'r herwydd:

Yr oedd... yn ôl barn gyffredinol y rhai a'i gwelodd yn Y Barri, yn gyflwyniad rhy statig o lawer ar lwyfan. O roi yr un cyflwyniad, heb fawr o newid, ar y teledydd, mawrhawyd y diffyg hwn lawer gwaith drosodd.²⁸

Doedd dim defnydd, fe ymddengys, o dechnegau ffilmio, megis saethiadau amrywiol y camera, a bu i hyn ddifetha mwynhad y gwylwr o ddrama dda:

Y canlyniad oedd fod asbri a disgleirdeb deialog yr awdur, a llawer insiniad slei yn erbyn y “sefydliad” yn troi’n llafurus a thrymaidd.²⁹

Nid ychwanegwyd dim at y ddrama lwyfan i’w haddasu ar gyfer y cyfrwng newydd - galleid, yn ôl awgrym adolygydd Y Cymro, fod wedi dilyn hynt Paul a Ffioretta i’r ystafell wely - golygfa a fyddai’n ddi-os wedi ychwanegu sbarc ychwanegol i’r cynhyrchiad. Yn hytrach, cadwyd yn slafaidd at y sgript lwyfan, ac er cystal y sgript, nid yw’n gweddu i fanylder y sgrîn fach - mae’n rhaid i’r gynulleidfa gael gweld popeth sy’n mynd ymlaen mewn ffars.

Cawn yn adolygiad Sganar o’r perfformiad yn Y Faner ddelwedd o’r cymeriadu:

Da fuasai cael mwy o afiaith a sbonc yn yr actio, a’r cymeriadau a roes y boddhad mwyaf oedd Sara (Beryl Williams), Ffioretta (Gaynor Morgan Rees), Sam (Mably Owen) a Paul (Morien Phillips). Pypedau’n llefaru syniadau beirniadol a phryfoclyd Saunders Lewis oedd y perfformwyr a chrafog oedd y dychanu ar brydiau.³⁰

Ymddengys nad oedd cynhyrchiad Wilbert Lloyd Roberts a Huw Davies o Problemau Prifysgol ar deledu Harlech felly yn llwyddiant, er proffwydo Aled Vaughan yn y T.V. Times:

....nid ail-lwyfannu perfformiad y Barri fydd hwn. Fe fydd yn berfformiad newydd sbon ar gyfer y teledu. Ond wrth gwrs fe fydd profiad yr Eisteddfod wrth gefn y cwmni.³¹

Ni fu i’r cwmni elwa ar eu profiad yn yr Eisteddfod, a saif y cynhyrchiad statig hwn fel yr unig delediad o’r ddrama.

Ni wnaethpwyd ymgais arall i'w chynhyrchu tan 1995, pan glywsom hi ar Radio Cymru dan ofal Eleri Hopeyn. Mae'r cynhyrchiad hwn yn glynu'n dynn wrth y gwreiddiol hefyd, yr unig wahaniaeth rhwng y sgript hon a drama Saunders Lewis ydyw ychydig gwtogi yma ac acw.

Rhai o eiriau mwyaf adnabyddus a chofiadwy'r ddrama ydyw'r sylw am gyflwr schistoffrenig Cymry y Brifysgol, ond torrir hyn allan o'r cynhyrchiad radio, fel un arall o sylwadau crafog Lewis:

Falle fod ysgolheictod heddiw wedi disodli
pregethu fel y gwaith mwya parchus yng
Nghymru Gymraeg.³²

Ni chlywn ychwaith am safle Aberystwyth a Bangor fel pencadlysoedd "clecs" Cymru, na sylw awgrymog Syr Gamaliel wrth Sara:

'Fyddwch chi'n mynd i ddawns y
Gymdeithas Eidaleg, Mrs. Roger?³³

Nid yw'r Prifathro ychwaith yn ceisio arbed ei enw da drwy honni mai'r eryr fu arno, ac y mae llawer o'i sylwadau mwyaf miniog ef a Sara yn angof. Credaf mai ymgais a fu yma i symleiddio rhediad a stori'r ddrama i gynulleidfa fodern y nawdegau nad oeddynt yn gyfarwydd â chwerwedd yr awdur tuag at y sefydliad, ond cwtogi er gwaeth a wnaethpwyd. Byddai'n well golygu sgwrs helaeth Gwen Macduff a Harri, Llywydd y Gymdeithas Gymraeg, neu ddileu peth o weiddi Ffioretta am yr uwd.

Er y golygu annisgwyl, credaf fod y cynhyrchiad hwn wedi llwyddo ar y radio - a hynny'n ddyledus i'r actorion. Roedd eu perfformiadau yn synhwyrol a chaboledig - yn enwedig Gaynor Morgan Rees yn rhan Ffioretta. Hi oedd yn chwarae'r rhan hon ar y teledu dros chwarter canrif ynghynt, felly roedd mantais ganddi o fod yn adnabod ei chymeriad a'r sefyllfa. Portreadir y ddarlithwraig Eidaleg ganddi fel menyw chwit chwat, yn byw o emosiwn i emosiwn, heb lawer o synnwyr yn perthyn iddi, fel ei chariad. 'Doedd portread Gwyn Vaughan o'r Athro Cymraeg, ar y llaw arall, ddim mor effeithiol. Mae'n wir bod ymgais yma

at greu cymeriad stoc, ond tueddiad sydd yma i fynd dros ben llestri - mae'n rowlio'r llythyren "r" fel petai ganddo nam ar ei leferydd; byddai siawns i hyn fod yn effeithiol pe cofiai'r actor wneud hyn yn gyson drwy'r perfformiad.

Mae'r cymeriadau eraill yn ddigon di-nod ym mhortreadau'r actorion ohonynt - disgleiria Owen Garmon ryw fymryn fel y Prifathro, ond ni chyrhaedda ei lawn botensial oherwydd i'r mwyafrif o'i sylwadau bachog gael eu torri o'r sript.

Gan mai drama lwyfan ydyw Problemau Prifysgol nid oes braidd ddim effeithiau sain yn cael eu defnyddio ynnddi; felly hefyd y cynhyrchiad radio hwn. 'Does dim defnydd o gerddoriaeth yma ychwaith, heblaw am fiwsig y ddawns, ond gan mai deialog crafog ydyw corff y ddrama, nid oes angen creu unrhyw naws arbennig - na thensiwn nac ysgafnder.

Credaf fod Problemau Prifysgol yn fwy llwyddiannus ar y radio nag ar y teledu; wrth ystyried adolygiadau ar gynhyrchiad 1968; a'i bod yn enghraifft briodol o ffars Gymreig.

Ffars hefyd ydyw Excelsior, a gyfansoddwyd ym 1961, ond y mae'r hiwmor yn fwy gweladwy yma. Stori ydyw am Huw Huws, cyfreithiwr, aelod Seneddol ac un o Gymry Llundain; a'i deulu. Un noson, daw Dot, ei ferch, adre'n benboeth ar ôl clywed y Parchedig Crismas Jones yn areithio o blaid Plaid Ymreolaeth Cymru, daw yntau adref gyda hi a gofyn iddi ei briodi. Cytuna Dot, ond nid yw ei thad yn hapus. Drwy gyd-ddigwyddiad llwyr, cafodd Huw gynnig mynd i Dŷ'r Arglwyddi yr un diwrnod, a chred y byddai aelod Seneddol yn gwneud gwell gŵr i Dot na gweinidog, a gyda help ei gyfaill, ac Ysgrifennydd y Blaid Lafur, Dic Sarc, mae'n dyfeisio cynllun a wna Cris yn aelod Seneddol i gamu'n daclus i esgidiau ei ddarpar dad-yng-nghyfraith. Mae hwnnw'n cytuno, gan droi ei gefn ar y Weinidogaeth fel gyrfa a gwrthod galwad i fynd i Gymru i fugeilio, ond nid yw Magi, gwraig Huw, yr un mor gydweithredol. Wedi blino ar yr holl gynllwynio a'r anffyddlondeb, mae hi'n penderfynu gadael Llundain ar y trên hwyr a dychwelyd i Gymru at ei modryb yng Nghaerfyrddin; a gadael i'w theulu eu dinistrio eu hunain â'u trachwant.

Mae hiwmor Excelsior yn debyg iawn i'r hyn a geir yng nghomedïau Molière, ond nid oes diwedd hapus i'r ddrama hon, fel yr eglura Bruce Griffiths:

In Molière's comedies, there is a happy ending when the suitor is seen to fall in love with the "idée fixe" of the father, thus winning him over. There is one ironic difference - in Molière's comedies, the suitor only pretends to humour the father, who is thus the dupe. Here the positions are reversed.³⁴

Yn wahanol i Problemau Prifysgol, sy'n dibynnu'n helaeth ar y sgript, mae elfennau gweledol ddoniol yma - yn arbennig yng nghanol yr ail act 'lle gwelwn Huw Huws, yn ei wylltineb, yn ceisio rhoi clustan i Dot. Fel symudiad clown mewn syrcais y mae Dot yn symud i'r ochr a chaiff Cris yr ergyd ar gam - enghraifft arall o ddylanwad Molière.

Y mae yn y sgript hefyd hiwmor, ond nid yw'n uniongyrchol gysylltiedig â rhediad y stori. Doniol yw atal dweud Huw wrth geisio yngan enw ei ddarpar fab-yng-nghyfraith a'i olynnydd - "Ccccris", a chamgymeriad yr aelod Seneddol drwy feddwl mai gwneuthurwr peiriannau technegol ydoedd Gruntvig, yn hytrach na chenedlaetholwr o Ddenmarc.

Daw cyfran helaeth o hiwmor y ddrama o syniadau Huw a Dic Sarc am y byd gwleidyddol - mae eu trafodaeth am swydd y Gweinidog dros Gymru yn esiampl wych:

HUW: Minister of State! The Right Honouable Lord! Ie, reit dda.

DIC: Wrth gwrs, mae un anfantais. 'Rwyt ti'n Gymro Cymraeg. Fe all hynny godi twrw...

HUW: 'Y mhrofiad i yw nad oes dim rhagfarn^{o gwrs!} yn erbyn yr iaith Gymraeg ond inni beidio â'i gwthio hi ar y cynghorau sir a llywodraeth leol a bywyd gweinyddol. Wedyn mae rhyddid perffaith i'r iaith a phawb o'i phlaid.

DIC: I'r dim Huw, yr union agwedd sy'n rhaid wrthi yn y swydd.³⁵

Mae'r agwedd hon, pa mor wir bynnag ydoedd yn Nhŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi; yn siwr o godi gwên o anghrediniaeth ar wyneb cyfran helaeth o'r gynulleidfa.

Drama gomisiwn gan y B.B.C. ydoedd Excelsior, i'w dangos Ddydd Gŵyl Ddewi 1962 ac eilwaith fis yn ddiweddarach gan fod cystadleuaeth wedi'i gosod yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanelli y flwyddyn honno i'w hadolygu. Ond bu anhawster. Fel y dywed Syr Gamaliel Prys yn Problemau Prifysgol:

'Wyddoch chi fod gennym ni gyfraith athrod
ym Mhrydain Fawr? Y gallwn eich dwyn chi
o flaen llys barn? Eich tewi chi am byth a'ch
dinistrio chi?³⁶

Fel yr eglura Saunders Lewis yn y rhagair i Excelsior (nas cyhoeddwyd tan 1980 ar ôl ei haddasu ar gyfer Cwmni Theatr Cymru - cynhyrchiad a gafodd ei ohirio dan gyngor cyfreithiol), fe welodd gweinidog o'r enw Llywelyn Williams, a oedd hefyd yn aelod Seneddol dros Abertyleri, hanes gyrfa Crismas Jones yn y cynhyrchiad teledu yn rhy debyg i hanes ei fywyd ei hun, a bygythiodd fynd â'r awdur i gyfraith. Oherwydd hyn, dilewyd y cynlluniau am ail-ddarllediad, a rhoi ymddiheuriad:

Yr oedd yn wirioneddol ddrwg gan yr awdur
a'r Gorfforaeth hefyd os tybiwyd fod unrhyw
beth a gyhoeddasant yn cyfeirio at y gwr
bonheddig dan sylw.³⁷

Nid oedd penderfyniad y Gorfforaeth Ddarlledu i ddileu darllediad mis Ebrill o'r ddrama yn un poblogaidd - cafwyd ymateb brwd yn y wasg o blaid drama Saunders Lewis - Mrs. S.J. Hughes yn un yng ngholofn lythyrau'r Faner, "Llais y Wlad":

Mae'n rhaid derbyn y ffaith yn awr nad oes
dim dyfodol i'r ddrama Gymraeg honno sydd
yn ein cymdeithas. Ni ellir yn awr edrych
ymlaen gydag unrhyw frwdfrydedd at

berfformiad o ddrama Gymraeg, oherwydd mae'n eithaf posibl y dywedir wrthym ar yr unfed awr ar ddeg fod yn rhaid ein siomi oherwydd bod rhyw fonheddwr sensitif o rywle yn synhwyro bod tebygrwydd rhyngddo ef ei hun ag un o'r cymeriadau anffafriol yn y ddrama.³⁸

Bu'r hanes ar dudalen flaen Y Cymro heb enwi'r aelod seneddol a wnaeth y cyhuddiadau, a phenderfynwyd dileu'r gystadleuaeth i'w hadolygu ym Mhrifwyl Llanelli, a oedd i'w beirniadu gan John Ellis Williams.

Cymysg fu'r ymateb i'r cynhyrchiad teledu yn y wasg. Meddai Meic yn Y Cymro:

Nid cyflwyniad eil-dwym oedd ar lwyfan ond cynhyrchiad arbennig o stiwdio teledu,³⁹

ond yn ôl Eric Wynne Roberts, a ysgrifennodd ei feirniadaeth ar Excelsior ar gyfer cytadleuaeth yr Eisteddfod cyn darganfod iddi gael ei dileu:

Nid yw Excelsior yn fy nhyb i yn ddrama â nodweddion arbennig drama deledu iddi - drama lwyfan wedi ei pherfformio ar y sgrin fach ydyw....⁴⁰

Bu brolio ar rai o'r actorion, megis Glanffrwd James (Dic Sarc) a Nesta Harries (Magi Huws). Ni chafodd eraill yr un clod:

Awgrymwyd eisioes fod cymeriad Cris Jones yn wan, ac ni chafwyd dim ym mherfformiad Huw Tudor i ddileu dim ar y farn hon. Nid bachgen ysgol hefo'i fwstas cyntaf oedd eisiau yma, nid oedd corff na llais yr actor ifanc yn gweddu i'r cymeriad. Dyma ddewis heb ddethol heb os nac oni bai.⁴¹

Medd Roberts, gan anghytuno eto gyda Meic:

Credaf i'r ddwy ferch ymateb i'r cyfle yn neilltuol o lwyddiannus a rhoes y castio hapus gyfle i'r dynion hwythau ddehongli eu cymeriadau yn argyhoeddiadol iawn.⁴²

Nid yw Meic yn trin dehongliad y camera o'r ddrama, ond gweld triciau'r peiriant yn cael eu gor-ddefnyddio y mae Mr. Roberts; nid yw yr un o'r ddau yn crybwyll y gwaith sain na'r goleuo. Mae'r tîp o'r ddrama wedi ei ddinistrio gan y B.B.C., felly mae'n rhaid dibynnu ar yr adolygiadau hyn i feirniadu'r cynhyrchiad; ond teg yw nodi boddhad Meic â'r ddrama a'r telediad fel eu gilydd, waeth am y Parchedig Llywelyn Williams:

Er mai cyfryngau i gyflwyno testament dadrithiad gwleidyddol Mr. Saunders Lewis ydoedd y cymeriadau hyn i gyd, yr oedd pob un ohonynt fel y gwelsom hwy nos Iau, yn gwbl gredadwy a derbyniol. Yn wir yr oedd amryw drannoeth yn eu holi eu hunain ai creadigaethau dychmygol oedd y bobl hyn, ai ynte rhyw garicatiwr o bobl wirioneddol...rhaid i mi gofnodi i mi fwynhau'r rhaglen hon yn fwy na dim a welais ar y teledydd ers tro byd, a'm barn ei bod yn well o lawer na'r rhan fwyaf o'r dramau Saesneg a gawn yn gyson ar y teledydd.⁴³

Disgrifiodd Saunders Lewis ei ddrama yn ei ragair fel "comedi ddychan ysgafn", ac wedyn yn y Radio Times fel "math o drasiedi". I ba categori bynnag y perthyn Excelsior, gallwn farnu mai llwyddiant oedd y telediad ohoni ym 1962, a lleiafrif bychan yn ei beirniadu. Dywed Meic ei bod yn rhy "statig" ar gyfer y sgrîn oherwydd ei bod wedi'i lleoli mewn dwy ystafell yn unig - tybed ei bod bellach yn bryd profi cynhyrchiad radio ohoni?

NODIADAU

1. Meic, "Gwylio a Gwrandu" Y Cymro 16 Tachwedd 1967, t. 14
2. Perspex, "As I See It - Several Plays" Caernarvon and Denbigh Herald and North Wales Observer, 1967
3. Edward Rees, "Yr Allanolyn" Y Cymro 21 Medi 1967
4. Elis Gwyn Jones, "Coed a Drama" Y Cymro 30 Tachwedd 1967
5. op. cit. 1
6. op. cit. 2
7. op. cit. 1
8. Sganar, "Radio a Theledu" Baner ac Amserau Cymru 23 Tachwedd 1967, t. 5
9. op. cit. 1
10. *ibid.*
11. *ibid.*
12. op. cit. 8
13. op. cit. 1
14. op. cit. 4
15. Saunders Lewis, Cymru Fydd Abertawe 1967, t. 10
16. Elwyn Jones, The Inheritance Radio'r B.B.C. 1968
17. op. cit. 15, t. 32
18. John Owen cynh., Cymru Fydd Radio'r B.B.C. 1994
19. Saunders Lewis, Tynged yr Iaith, London and Cardiff: B.B.C. 1962
20. Aneirin Talfan Davies, "Ar Ymyl y Ddalen" Barn Ionawr 1968, t. 61
21. Dienw, "Lewis Rocks - and Laughs" Western Mail 8 Awst 1968
22. Bruce Griffiths, Writers of Wales - Saunders Lewis Gwasg Prifysgol Cymru 1979, t. 83
23. Gwilym R. Jones, "Byd Llên - Saunders Lewis yn Chwipio'r Brifysgol" Television Weekly 11 Gorffennaf 1968

24. ibid.
25. ibid.
26. Saunders Lewis, Problemau Prifysgol Llandybie 1968, t. 16
27. ibid. t. 66
28. dienw, Y Cymro 7 Tachwedd 1968, t. 16
29. ibid.
30. Sganar, "Radio a Theledu" Baner ac Amserau Cymru 7 Tachwedd 1968, t. 4
31. Aled Vaughan, "Siarad am ein rhaglenni Cymraeg...Gwynebau newydd - syniadau newydd" T.V.Times d.d. t. 72
32. op. cit. 26 t. 18
33. ibid. t. 25
34. op. cit. 22, t. 82-3
35. Saunders Lewis, Excelsior Christopher Davies 1980, t. 52
36. op. cit. 26, t. 21
37. dienw, "Y B.B.C. yn Ymddiheuro am Ddrama Saunders" Y Cymro Mawrth 1962 t. 1
38. S.J.Hughes, "Llais y Wlad - Atal Drama Deledu" Baner ac Amserau Cymru 19 Ebrill 1962, t. 3
39. Meic, "Gwylio a Gwranddo" Y Cymro 8 Mawrth 1962, t. 3
40. Eric Wynne Roberts, "Beirniadu Excelsior" Baner ac Amserau Cymru 26 Ebrill 1962, t. 5
41. ibid.
42. op. cit. 39
43. ibid.

PENNOD 7:

JOHN ELIAS A'I OES

MERCH GWERN HYWEL

Stori a adroddwyd mewn peth manylder gan y Parch. H. Jones, Amlwch yn ei gofiant i'r Parch. William Roberts ym 1919 yw sail y nofel hon. Ystyriai Saunders Lewis y cofiannwr yn un o'r teulu gan gymaint oedd ei barch i'r gŵr a ysgrifennodd foliant ei hen daid. Nid oes tystiolaeth i Lewis wneud unrhyw ymchwil pellach na'r cyhoeddiad hwn ar gyfer ei nofel; yn wir, caiff y darllenydd ei atgoffa'n fynych ohono wrth ddarllen Merch Gwern Hywel.

“Astudiodd fasnach, meddir, yn drwyadl. Yr oedd “Adam Smith’s Wealth of Nations” medd un a’i hadwaenai, ar flaenau ei fysedd,”¹

medd y Parch. H. Jones am ei destun; yn ail bennod nofel Mr. Lewis, dywed William Roberts wrth ei ddarpar frawd-yng-nghyfraith, y doctor:

“Wnes i ddim ond tynnu ar ran o'r drydedd bennod o lyfr Doctor Adam Smith ar “The Wealth of Nations” a’i aralleirio.”²

Mewn rhai manau, aralleirio gwaith y cofiannydd y mae'r nofelydd, fel y gwelwn wrth astudio hanes taith bregethu'r gweinidog ifanc drwy diroedd De Cymru. Cafodd ei drin yn sarhaus gan ei letŷwyr gan na sylweddolasant fod eu hymwelydd yn bregethwr mawr. Cyflwynir eu hymddiheuriad fel hyn gan Lewis:

“Mr. Roberts, gŵr Duw ŷch chi, syr. Maddeuwch inni am neithiwr. Mae'n enbyd o edifar gen i inni ymddwyn mor annheilwng tuag atoch,”³

atgof o eiriau'r cofiant :

“Yr ydym yn deall mai gŵr Duw ydych, ac yr ydym yn ofidus yn ein calonau oherwydd i

ni ymddwyn mor annheilwng tuag atoch; ac
yr ydym yn mawr ddymuno eich
maddeuant.”⁴

Yr oedd yn rhaid i Saunders Lewis ddiwygio ychydig ar eirfa a iaith y Parch H. Jones i weddu i gywair ei nofel, ond ⁿⁱ newidwyd prin ddim arall, ar wahân i’r drefn amseryddol. Gellir deall y rheidrwydd i wneud hyn gan mai nofel fer yw Merch Gwern Hywel, ac ychydig flynyddoedd yn unig a gynhwysir ynddi. Hanes William Roberts yn unig sydd yn y cofiant, ond Sarah Jones yw canolbwynt y nofel; rhaid felly oedd crynhoi: yn ôl ei gofiant, aeth William Roberts ar ei daith bregethu cyn dod i adnabod Sarah Jones, ac yr oedd wedi’ sefydlu’i hun fel masnachwr ers peth amser cyn priodi, pan ydoedd yn 33 oed ym 1817; nid ydoedd bellach felly yn wâs canhwylwr. Ni fyddai gan Mrs. Jones Gwern Hywel reswm i’w ddirmygu petai Saunders Lewis wedi cadw at yr hanes gwir, rhaid oedd diwygio er mwyn creu gwrthdaro. Pan ddrylliwyd y llong nwyddau *The Marchioness of Anglesea* ym 1818, nid cychwyn masnachu ydoedd, nac ychwaith newydd briodi. Suddodd y llong ar Ebrill 10^{fed}, cryn fis wedi i Sarah neidio allan o ffenestr tŷ ei modryb at ei darpar ŵr.

Bu tynged y *Marchioness* yn benbleth i Lewis; a cheir dwy fersiwn wahanol o’r hanes ganddo. Yn y nofel, dywed Mrs. Elias hanes y llong wrth y pâr ifanc:

“...Mi luchiwyd y *Marchioness* ar greigiau traeth Dulas. Fe achubwyd y criw. Ond rhad ar y cargo!”⁵

a thebyg yw’r disgrifiad a geir gan y Parch H. Jones :

“...rhwng y mor a mor-ladron, aeth meddiannau William Roberts, a masnachwyr eraill yng nghymdogaethau Amlwch, nes gwelsant byth ddim ohonynt.”⁶

Erbyn 1974-5 pan addasodd Saunders Lewis ei waith ar gyfer y teledu, cafwyd ganddo hanes helaethach; fod yno ddeuddeg o deithwyr a phump o griw ar fwrdd



Merch Gwern Hywel

y llong; boddwyd pawb ond tri a chollwyd y capten, Evan Hughes, a nifer o bobl leol. Mae'n ymddangos fod Bedwyr Lewis Jones ar ôl cyhoeddi'r hanes wedi anfon copi o'i waith at Lewis, a dyna a barodd iddo ddiwygio ei hanes.

“Nos Wener, Ebrill 10, a'r llong yn ymyl glannau Môn, daeth yn storm enbyd o'r dwyrain. Curwyd y *Marchioness* i'r lan yn Llysdulas, a boddodd pawb arni ond tri. Llwyddodd y rheiny, dau deithiwr a bachgen ifanc yn perthyn i'r llong, i ddal eu gafael yn y rigin ac achubwyd hwy'n gynnar y bore trannoeth...”⁷

meddai Lewis Jones am y drychineb, a cheir adroddiadau i gadarnhau hyn yn y North Wales Gazette, Ebrill 23, 1818:

“...about 10 o'clock on Friday night the 10th inst. the *Marchioness of Anglesey*, a vessel belonging to Amlwch, Evan Hughes, master, was stranded in Dulas bay, in that neighbourhood. She was on her return from Liverpool where she had landed her cargo of oatmeal, and when lost, was laden with bricks, coal, shop goods and other articles. There were on board the crew, consisting of five persons, and twelve passengers...”⁸

Y fersiwn hon a welwn yn y cynhyrchiad teledu o Merch Gwern Hywel ym 1975.

Credaf i Saunders Lewis fod yn or-ddibynnol ar gofiant ei hen daid wrth ysgrifennu ei nofel. Ymddengys brawd Sarah Jones, y doctor ifanc, yn y nofel yn berson o gig a gwaed, ond dim ond cyfeiriad at ei farwolaeth mewn llythyr at William Roberts gan John Roberts, Llangwm a geir yn y cofiant, ac ni enwir ef. Yn y telediad, geilw'r awdur ef yn “Dafydd”. Pe byddai wedi gwneud ymchwil pellach i'w achau, byddai Lewis wedi darganfod enw'r doctor ar ei garreg fedd ymysg beddau'r teulu; Peter Price Jones. Ysgrifennodd Mr. Dafydd Glyn Jones ato ym 1981 gyda'r wybodaeth hon, a chafodd nodyn o ateb gan yr awdur yn llaw ei wyres:

“...Bellach os daw siawns am ailargraffiad, mi ysgrifennaf atodiad i gynnwys llythyr Bedwyr a’ch llythyr chithau. Bydd yn ychwanegiad diddorol a diolch yn fawr i chi amdano...”⁹

Mae Saunders Lewis wedi saernïo ei stori yn rhagorol i ddangos mai nid priodas yn unig a bortreadir yma, yn hytrach yr anghydfod rhwng yr hen drefn a’r ffordd newydd o fyw yng Nghymru - y tirlfeddiannwyr yn erbyn y masnachwyr - ac hefyd anfodlonrwydd y tô hŷn ynglŷn â’r Fethodistiaeth ddiweddar a oedd yn sgubo’r wlad. Gwnaeth hyn yn rhannol drwy’r cymeriadu - pwysleisir y ffaith mai Eglwyswr ydyw brawd Sarah Jones, gan greu sefyllfa ddelfrydol i’r dadlau crefyddol rhwng y cymeriadau.

Galwodd Harri Gwyn y nofel yn “benigamp”¹⁰ yn Y Cymro, a dengys tystiolaeth mai cyffelyb oedd yr addasiad a ddarlledwyd ar Radio 4 ddechrau Mai 1968 dan gyfarwyddyd Lorraine Davies. Nid oes copi ohoni ar gael bellach, ond gan iddi ymddanos ar frig rhestr Y Faner o raglenni gorau y cyfryngau Cymraeg am y flwyddyn honno¹¹, gallwn dybio bod y cyflwyniad yn un o safon.

Adolygir y cynhyrchiad gan J.L.M. dan y pennawd “Romeo a Juliet y Gymdeithasfa”¹², a phrif fyrdwn yr erthygl yw rhagoriaeth yr addasiad ar y gwreiddiol trwy’r defnydd o leisiau:

Trwy ddefnyddio dau lefarydd, bob yn ail frawddeg bron, rhoddwyd bywyd newydd i eiriau’r llyfr. Dyna un o ddiffygion y nofel...¹³

Bu canmol hefyd ar yr actorion, yn enwedig Nesta Harris (Mrs. Jones), Charles Williams (John Roberts) ac Elisabeth Miles (Sarah Jones), a rhannwyd barn J.L.M. gan Meic yn Y Cymro:

Rhoes John Ogwen ac Elisabeth Miles ddehongliad teimladwy ac argyhoeddiadol o garwriaeth William Roberts a Sarah Jones ac yr oedd Nesta Harris yn ymgorfforiad grymus iawn o Mrs. Jones y fam a Iona Banks hithau’n cyflwyno darlun cynnes a hoffus o Mrs. John Elias.¹⁴

Cawn yr argraff fod y rhaglen yn broffesiynol ei gwneuthuriad, yn cynnwys dyfeisiadau effeithiol i gyfrwng y radio, megis y defnydd o gerddoriaeth. Dyfynnaf J.L.M. unwaith yn rhagor:

Anodd yw dweud i bwy yr ydym i ddiolch am lwyddiant y ddrama, hynny yw, ni wyddom faint o'r newidiadau a syniadau eraill a ddeilliodd oddi wrth y cynhyrhydd, Lorraine Davies, yn hytrach nag oddi wrth yr awdur ei hun. Un o'r syniadau hyn oedd defnyddio cerddoriaeth i rannu'r golygfeydd. Canwyd emyn a chaneuon serch swynol gan Olwen Jones, i gyfeiliant Morfudd Maesaleg.¹⁵

Tybiaf mai teg yw awgrymu mai cyfuniad o dalentau fu'n gyfrifol am lwyddiant y cynhyrchiad; o ddarllen yr adolygiadau, ymddengys mai'r un addasiad sydd yma ag yng nghynhyrchiad teledu 1975 o'r ddrama: fersiwn sydd ar gael gan y B.B.C. - fe'i hail-ddangoswyd ym 1985 fel teyrnged i'r awdur.

Cafodd Saunders Lewis gyfle wrth addasu i ddiwygio'i nofel, ond nid oes llawer o wahaniaeth o ran golygfeydd rhwng y gwreiddiol a'r addasiad. Ychydig iawn sy'n cael ei ychwanegu: gwelwn William Roberts yn marchogaeth a thrin ei geffyl ar ôl cyrraedd Gwern Hywel am y tro cyntaf, ond cymryd mantais ar ffiniau eang y teledu yw hyn yn hytrach na newid pendant o'r gwreiddiol. Diwygiad pendant ar y llaw arall ydyw absenoldeb Jane, chwaer Sarah Jones - cymerir ei lle yn yr addasiad gan was o'r enw Huw - gydag ef y mae Mrs. Jones yn trafod ei gofidiau am ei mab yn Nhreffynnon, ac ef hefyd sy'n torri'r newyddion am ei farwolaeth wrthi. Gallwn ddyfalu mai'r rheswm am hyn yw gwahaniaethu rhwng y lleisiau yn yr olygfa - yr oedd Mrs. Jones, Sarah a John Roberts yno, a byddai i Jane ddod â'r newydd felly yn golygu tri llais benywaidd a allai fod yn anodd i'w dilyn ar y radio - yr ateb amlycaf oedd cael gwared o Jane gan nad oes iddi rôl arall yn y digwydd, a rhoi Huw yn ei lle gan y byddai llais gwas fferm yn dra gwahanol i siarad y gweinidog.

Mae mwy o gwtogi nac ychwanegu mewn addasiad teledu yn fynych; ac mae Merch Gwern Hywel yn esiampl o hyn. Mae'r addasiad teledu yn cychwyn

â sgwrs y pregethwr a'r doctor ifanc, sgwrs sy'n digwydd yn ail bennod y nofel. Mae Saunders Lewis yn gelfydd wedi plethu sgwrs dwy bennod â'i gilydd i greu un olygfa. Ffiniau'r radio a'r teledu yw'r rheswm pennaf am ddileu'r golygfeydd coll; er enghraifft, y pryd yn y White Lion ar ôl i Sarah a William Roberts addunedu i'w gilydd. Amhosibl fyddai creu awyrgylch tafarn brysur ar y radio, a chostus fyddai'r un dasg ar y teledu. Anodd hefyd fyddai dilyn helyntion William Roberts ar ei daith bregethu i Sir Benfro; gwell gadael i'r gynulleidfa deimlo empathi â Sarah na wyddai ddim o'i hanes.

Weithiau, ysywaeth, mae'n rhaid colli golygfa berthnasol a gwerthfawr oherwydd rhesymau technegol, a chredaf mai dyna'r rheswm na welwn Sarah yn neidio drwy'r ffenestr i freichiau ei dyweddi. Byddai'r ddelwedd wedi bod yn un effeithiol - y ferch ifanc yn rhoi ei bywyd yn nwylo ei chariad; yn ymddiried ynddo yn gyfangwbl i beidio a'i gollwng, ond anodd fyddai darganfod stryd a edrychai'n union fel y gwnaeth yn nechrau'r ganrif ddiwethaf ar gyfer y ffilmio, a drud fyddai adeiladu'r fath set. Haws felly oedd peidio a dangos y naid.

Mae'r addasiad yn cloi yn siop Mrs Elias am yr un rheswm - diangen fyddai set o gartref y cwpl ifanc pan nad oedd ei angen ond am un olygfa.

Ar y cyfan, mae'r newidiadau hyn yn effeithiol, a'r addasiad yn llifo'n esmwyth drwyddynt, ond y newid mwyaf yn ddi-os yw cwtogi'r ddeialog. Un o nodweddion pennaf y nofel wreiddiol yw'r trafodaethau meithion, pwylllog am Fethodistiaeth yng Nghymru'r cyfnod. Dyna ydoedd sail cariad Sarah a William Roberts, a'r rheswm dros ymweliad y pregethwr ifanc â Gwern Hywel. Fel y sylwais ynghynt, crynhôdd Saunders Lewis ddwy bennod agoriadol ei nofel yn helaeth, daeth y cwtogi hwnnw o'r sgwrsio am Fethodistiaeth. Cŵyd J.L.M. gwestiwn teg yn ei adolygiad o'r cynhyrchiad radio (1968):

Mae un cwestiwn yn codi. Gan fod y ddrama wedi llwyddo heb y trafodaethau diwinyddol sy'n nodweddu rhannau helaeth o'r nofel, a allwn gasglu bod yr awdur ei hun yn ystyried iddo orlwytho'r nofel â thrafodaethau yn hytrach na digwyddiadau?¹⁶

Credaf mai negyddol a fyddai'r ateb i'r cwestiwn hwn pe gallai'r awdur roi ei farn - y mae pwrpas i'r dadleuon a'r dadansoddi crefyddol - cawn ein gwybodaeth am farn eglwyswyr ynglŷn â'r Fethodistiaeth newydd drwy enau'r doctor ifanc, ar y llaw arall egni'r capelwyr tuag at eu crefydd ddewisol drwy sgwrs William Roberts a'i ddyweddi. Credaf fod Daniel Y Faner yn nes ati wrth ddadansoddi'r nofel:

Techneg rhaglen radio yw sylfaen y llyfr hwn gyda'r rhan helaethaf o lawer o bob tudalen yn ddeialog. Ychydig iawn o ddisgrifio sydd rhwng y siarad, ond y mae'r paragraffau hynny sy'n gosod y golygfeydd, neu'n symud y stori ymlaen rhyw ychydig, yn darllen yn union fel y cyfarwyddiadau moel a roddir wrth ysgrifennu drama...¹⁷

Er gwaetha'r cwtogi, mae naws y stori'n aros, a brwdfrydedd y geiriau'n ein digolledu am sylwedd y sgwrs. Y mae'r cymeriadau'n disgleirio o hyd - gwelwn gyffro ac eiddgarwch Sarah Jones, penderfynoldeb cadarn Mrs. Jones ei mam, ffydd dawl William Roberts ac egni siriol Mrs. Elias yn yr addasiad fel yn y nofel, ac wrth gwrs, mae safon y ddeialog yr un yma ag yn nramâu Saunders Lewis:

Ydych chi'n credu y cewch chi oes hir?¹⁸

ebe John Elias wrth y doctor yng Ngwern Hywel, brawddeg lawn eironi trist i'r sawl sy'n gyfarwydd â'r hanes, ac arwydd o fedrusrwydd syml yr awdur. Er cwtogi'r geiriau, ni chollwyd mo'r ergyd, fel y gwelwn eto yn yr un sgwrs:

DR. JONES: Cadw bywyd rhag ei dorri'n fyr yma ydi 'ngwaith i, Mr. Elias.
JOHN ELIAS: Cadw enaid rhag ei dorri ymaith draw ydi 'ngwaith innau.¹⁹

Ceir llacio ychydig ar ffurfioldeb y ddeialog yn yr addasiad; newid sy'n pwysleisio'r cymeriadau a'r gwahaniaethau rhyngddynt: mae natur bengaled

Mrs. Jones yn amlycach drwy'r geiriau "o anffodd fy nannedd i" na'r gwreiddiol, "yn groes i'm hewyllys i"²⁰

Credaf fod yr addasiad yn rhagori ar y gwreiddiol yn yr achos hwn; fel y dywedodd Daniel am y nofel:

Yn fy myw, ni allaf lai na theimlo i Mr Lewis gollu cyfle gwych yn y fan hon, i ysgrifennu nofel wir fawr. Yn hytrach, bodlonodd ar droi pob un o'r cymeriadau gwirioneddol hyn yn ddim byd ond pypedau marw i draethu ei syniadau ef ei hun, yn union fel y gwnai gohebwy'r hen gylchgronau.²¹

yn amlwg, credai i Lewis wneud cam â'r cymeriadau, ond fel drama ysgafn ac fel adloniant ar y cyfryngau, ni chredaf fod cadw'n slafaidd at yr hanes yn bwysig - llenyddiaeth sydd yma, nid llyfr hanes.

Er cystal yr addasiad, siom i mi oedd cynhyrchiad teledu George P. Owen o Merch Gwern Hywel ym 1975. Nid oes bai o gwbl ar yr actorion; maent yn cymryd eu rhannau'n fedrus iawn, ond nid yw'r awyrgylch yn gafael rhywsut.

Wrth dynnu'r cynhyrchiad yn ddarnau, gwelwn elfennau llwyddiannus, ond yn anffodus, nid ydynt yn ieuo'n daclus. Mae'r setiau, er enghraifft, yn benigamp - y ffermdy y tu mewn a'r tu allan, siop fechan Mrs. Elias a'r eglwys yr un modd. Gwnaethpwyd defnydd da o leoliadau allanol, yn enwedig y goedwig ir y mae'r pâr priod yn gorffwyso ynddi ar eu taith tuag Amlwch. Nid oes bai ychwaith ar y gwisgoedd sy'n gweddu i'r cyfnod hanesyddol dan sylw.

Trueni am y gwynt cryf sy'n amharu ar sain y golygfeydd allanol, yn enwedig y tu allan i'r eglwys yn Rhuthun, mae'n debyg na ellid gwneud dim i'w atal - ni fyddai dybio'r sain mewn stiwdio yn rhoi'r un effaith i ni o ryferthwy'r storm a ddrylliodd y Marchioness, ond distaw braidd ydoedd y sgwrs o'r herwydd.

Ar y llaw arall, mae'r defnydd a wneir o gerddoriaeth yn y cyflwyniad yn effeithiol - ceir miwsig achlysurol gweddus yn ogystal â chaneuon traddodiadol i dorri rhwng golygfeydd, a phwysleisio teimladau a digwyddiadau. Alawon gwerin a genir yn bennaf gan Olwen Jones fel yn y cynhyrchiad radio - er

enghraifft, wrth i'r pâr deithio i Amlwch, clywn sawl cân yn gefndir i fontage o luniau ohonynt: "Mae gen i Ebol Melyn", "Lodes ei mam a lodes ei thad" a "Sarah Fach a Minne". Emyn a glywn ar ddiwedd y cynhyrchiad, wrth i Sarah a William Roberts gusanu: "Mi Wn fod fy Mhrynwr yn Fyw" - dewis effeithiol o ganeuon yn gweddu i naws y ddrama.

Disgleiriodd Merch Gwern Hywel drwyddi draw fel gem fach bur yng nghanol pâst ffuantus....cynhyrchiadau eraill,²²

meddai Sian Wyn Siencyn am y rhaglen, ond yn fy marn i, ni lwyddodd fel cynhyrchiad gweledol oherwydd diffyg dychymyg Peter Robbins a Ken Murray gyda'r gwaith camera.

Mewn drama â chyn lleied o ddigwydd ynddi, mae'r gynulleidfa'n sylwi fwyfwy ar fanylion. Deialog yw'r rhan helaethaf o'r cynhyrchiad, a buan y mae'r gwyliwr yn diflasu ar saethiadau diddiwedd o wynebau'r cymeriadau. Y saethiad dros ysgwydd sydd fwyaf poblogaidd yma - yr un saethiad ag a ddefnyddir gan gynhyrchwyr newyddion a rhaglenni sgwrsio i ddangos cyfweiliad. Yr oedd ambell i sbarc, megis y saethiad agos, awgrymog o William Roberts yn syllu'n gariadus ar Sarah wrth i'w brawd, y doctor, ddatgan:

...Rydw i'n gweld y Methodistiaid yma yn diffodd tanau ar aelwydydd Cymru...²³

ond credaf mai eironi'r sript a oedd yn gyfrifol am y llwyddiant hwn yn hytrach na'r gwaith camera.

Roedd yr awyrgylch yn effeithiol, mae'r saethiadau hynny heb bobl ynddynt yn rhai crefftus, ond yn anffodus nid oes llawer o'r rheiny yn y cynhyrchiad.

Barn hollol wahanol sydd gan ohebydd Barn:

Llywiodd George Owen ei gamerâu mor ddeheuig ag y bydd artist yn trin ei liwiau...²⁴

- rhaid cofio bod datblygiadau technolegol lu wedi digwydd ers adolygu'r ffilm ym 1985.

Credaf mai drama ar gyfer y radio y dylai Merch Gwern Hywel fod, gan nad oes dim y mae'n rhaid ei weld yn ymddanos ar y sgrîn - byddai'n bosibl deall rhediad y ddrama heb edrych arni.

Ym 1994, cynhyrchodd Eleri Hopcyn y ddrama ar gyfer y radio, gan seilio'i chynhyrchiad ar addasiad yr awdur o'i nofel ei hun, fel y cynhyrchiadau eraill. Yr un golygfeydd sydd yma, a'r un newidiadau bychain i'r sgrïpt - yn wir, gellir dweud mai'r un nodweddion sydd iddi â'r cynhyrchiad teledu blaenorol, ond fod yr actorion yn wahanol.

Y gwahaniaeth mwyaf rhwng y cynhyrchiad hwn a'r telediad yw'r nawws - ni lwyddwyd yma i ail-greu'r gymdeithas Fethodistaidd gynnar fel y gwnaeth George P. Owen; a'r prif reswm am hyn oedd y cymeriadau. Ar y sgrîn, gwelsom Lisabeth Miles a John Ogwen yn portreadu'r cwpl ifanc yn effeithiol barchus, ond er cystal oedd actio Nia Williams a Huw Garmon, ²chawson ni mo'r difrifoldeb gweddus ganddynt. Swniai William Roberts yn rhy eiddgar a llawen i fod mewn gwewyr meddwl ynglŷn â'i ddyweddi a gwaharddiad ei mam; a Sarah Jones hithau yn rhy hwyliog o gofio'i gwaeledd. Pwysleisir hyn pan lewyga ym mhorth yr eglwys - cymaint yw ei thuchan fel y gellir dychmygu ^didi fod wrthi'n caru'n awchus.

Gwan hefyd yw perfformiad Alun Elidir fel y doctor (gelwir ef yn Dafydd eto yn y cynhyrchiad hwn), a methais ganfod difrifoldeb gweinidogion ym mherfformiadau Dyfan Roberts fel John Elias a Noel Williams fel John Roberts. Methodd yr actorion eu huniaethu eu hunain â'r sefyllfa; actio gweinidogion Methodist yn gyffredinol yr oeddynt yn hytrach na chymeriadau'r nofel.

Yn driw i ddramâu Saunders Lewis, y merched oedd y cymeriadau cryfaf yn y cynhyrchiad hwn. Roedd y casineb yn llais Christine Pritchard yn rhagorol wrth iddi bortreadu gwraig Gwern Hywel - a'r dirmyg at y pregethwr ifanc yn gredadwy. Llais mamol sydd gan Bethan Dwyfor, ac agwedd ddi-nonsens at ei chymeriadau; bu hyn o werth mawr iddi yn rhan Mrs. Elias - gallwn gredu mai hi oedd meistres y cartref, ac er nad oes sôn yn y cynhyrchiad hwn unwaith eto am



'Morch Gwern Hywel'. William Roberts (John Ogwen), Sara (Lizabeth Miles).

y Broadheads, mae rhyw urddas yn perthyn i'w llais sydd yn gwneud i ni gredu ei bod o ddsbarth cymdeithasol uchel.

Digon di-nod ydoedd effeithiau sain y cynhyrchiad - roeddynt yn weddus i rediad y ddrama, ond ni wnaed dim newydd. 'Doedd dim i ddal sylw'r gwrandawr - dim ond tician cloc mawr Gwern Hywel, trydar adar yn y coed a charnau ceffylau'n carlamu. Ar y llaw arall, effeithiol oedd y defnydd o gerddoriaeth telyn rhwng golygfeydd, a llais soprano Delyth Medi yn canu ambell i hen bennill. Addas oedd y geiriau:

Afon Conwy'n llifo'n felyn
Mynd â choed y maes i'w chanlyn
Ar ei gwaelod mi rof drithro
Cyn y troffy nghariad heibio.²⁵

ar ôl i'r teulu glywed am farwolaeth y doctor ifanc yn Nhreffynnon. Cenir eto ar ôl i William Roberts ddarganfod mewn llythyr nad oedd Sarah Jones mewn iechyd:

...O f'anwylyd cladd fi'n rhywle
Nes do'th wyneb tirion adre...²⁶

Fel yng nghynhyrchiad George P. Owen, yr emyn a genir i gloi'r ddrama yw "Mi Wn Fod Fy Mhrynwr Yn Fyw" - a'r stori eto'n darfod yn Amlwch ar ôl clywed am y Marchioness.

Arwydd fod yr awdur wedi blino yw'r
crynodedb.....o ffeithiau ar ddiwedd y
bennod.²⁷

medd Kate Roberts mewn adolygiad o nofel Saunders Lewis, felly efallai mai gwell oedd gorffen y ddrama yma yn hytrach na llafurio â phennod ychwanegol sydd yn ddiangen i rediad y stori.

Er gwaethaf cyffredinedd y cynhyrchiad, roedd un elfen lwyddiannus iawn iddi, sef y naratif; yn enwedig yng nghychwyn y ddrama:

Choeliech chi byth gan oered y glaw, ond
Mehefin yw hi, Mehefin yr ail ar bymtheg,
mil wyth gant un ar bymtheg. Blwyddyn i
'fory bu brwydr Waterloo, heddiw mae
Napoleon yn alltud ar ei ynys, heddiw mae
Thomas Charles yn ei fedd. Mae canrif
newydd yn ymagor - canrif newydd i Ewrop, i
Gymru, canrif deffroad y cenhedloedd.²⁸

yw geiriau agoriadol y ddrama; yn gefndir iddynt clywn garlamu ceffylau'n agosau - cychwyn grymus i ddal sylw'r gynulleidfa. Ni chrybwyllir y lleoliad yn y cyflwyniad, ond mae amryw gyfeiriadau at enw'r fferm yn yr olygfa gyntaf yn gwneud iawn am hyn.

Ni allaf ddweud fod y cynhyrchiad hwn ychwaith yn un penigamp, nid oes agweddau ysgytwol iddo, na phortreadau anghyffredin o drawiadol, ond fel cynhyrchiad o nofel ar y radio, credaf fod yma gyflwyniad solet o hanes William Roberts a Sarah ei wraig.

Byddai cyflwyno Merch Gwern Hywel yn llwyddiannus ar y teledu'n bosibl gan ddefnyddio'r un sgript, ond byddai angen person camera medrus i droi golygfeydd diflas, difwyd yn gyffrous. Nes digwydd hynny, ystyriaf mai cynhyrchiad radio Eleri Hopcyn yw'r dehongliad gorau o nofel Saunders Lewis, Merch Gwern Hywel, er y diffyg dychymyg. Gwell yw defnyddio dyfeisiadau arferol y radio i gyfleu drama mor llwythog o ddeialog na cheisio rhoi llun i'r geiriau, a methu.

Dwy Briodas Ann

Fel Merch Gwern Hywel, stori wir yw sail y ddrama hon, yn dilyn hanes yr un gymdeithas o bobl yn yr un cyfnod, gyda'r Parchedig John Elias yn ddolen gyswllt rhyngddynt. Medd Bruce Griffiths amdani :

...Mr. Lewis returns to a theme hinted at in Merch Gwern Hywel, namely the emergence of a new class of leaders of Welsh life, a new aristocracy, to which the author's own forebears belonged - the patriarchs of Methodism.²⁹

Ann Thomas, morwyn yn ei blwyddyn gyntaf ym Mhlas Presaddfed, Môn, yw canolbwynt y stori (mae peth ansicrwydd ynglŷn â'i henw - fe gyfeirir ati fel Ann Williams weithiau ym Môn). Ar ôl sylwi arni am y tro cyntaf, mae Syr John Bulkeley, gŵr y tŷ, yn gofyn iddi ei briodi - cwestiwn annisgwyl, ond y mae Ann yn ei dderbyn. Maent yn trefnu i briodi yn gudd ymhen tair wythnos, ac yn y cyfamser, wrth i Syr John gychwyn ailfeddwl am y sefyllfa, geilw John Elias, y pregethwr Methodist adnabyddus, i ofyn am gyfraniad tuag at achos da, a thawelu ei feddwl ynglŷn â phriodi y tu allan i'w ddsbarth.

Er gwaethaf ofnau Ann, y mae pawb yn ei derbyn fel Ledi Bulkeley wedi iddi briodi, gydag un eithriad, ei chwaer-yng-nghyfraith o Bath, Mrs. King.

Ym 1829 ar ôl marwolaeth ei brawd, mae Mrs. King yn ôl ym Môn, ac nid ydyw yn hapus yn byw dan yr un to ag Ann. Daw gwestai o bregethwr i Bresaddfed - John Elias am yr eilwaith, er na wŷr Ann iddo gyfarfod â John Bulkeley. Ac yntau yn wŷr gweddw, mae'n syrthio mewn cariad ag Ann ar yr olwg gyntaf, a chytuna hithau i'w briodi a mynd i fyw i Langefni gydag ef.

Ysgrifennwyd Dwy Briodas Ann yn arbennig ar gyfer y teledu, ac o'r herwydd, ychydig iawn o newidiadau oedd yn rhaid eu gwneud er mwyn ei theledu. Drama hanner can munud ydyw, yn ôl yr awdur, a thybiaf mai'r unig reswm am y mân gwtogi i'r sgript oedd i'w gosod mewn slot dri chwarter awr.

Teledwyd y ddrama gan y B.B.C. ar 16 Hydref 1973, a chynhyrchwyd hi gan George P. Owen. Gan nad oes ynddi fawr o ddigwydd, fel yn Merch Gwern Hywel, mae llwyddiant y ddrama'n ddyledus i gymeriadau cadarn Saunders Lewis. Gwelwn bersonoliaethau gwahanol iawn yn adlewyrchu'r gwahanol fathau o bobl yng Nghymru'r cyfnod. Ann yw'r prif gymeriad, yn aeddfedu drwy gydol y ddrama - gwelwn hi yn ferch ifanc gydwybodol, braidd yn swil ond parod iawn i achub ei cham ei hun yn erbyn mwytho powld Richard Walter yn yr act gyntaf. Dengys y gall fod yn fanesol a bonheddig er mai morwyn fach ydyw, gall ddal sgwrs â Mrs. King a'i theip, ac erbyn y drydedd act, cymaint yw'r datblygiad yn ei chymeriad a'i haeddfedrwydd fel nad oes na gair na gweithred i fradychu'i chefnidir fel morwyn, yr unig grair sydd ganddi o'r amser hwnnw yw'r dillad y bu iddi fynd i'w phriodas ynddynt (diddorol yw sylwi yn y gyfrol John Elias a'i Oes mai dillad wedi'u benthyg gan un o'i morwynion sydd gan Ann amdani wrth wrando ar bregeth ei darpar wr, ac nid ei hen ddillad ei hun).

Mae holl elfennau cymeriad Ann i'w cael yn benigamp gan Myfanwy Talog yn y telediad. Bu i'r awdur ddilyn portread W. Pritchard, Pentraeth, o Ledi Buckley yn ei gofiant o John Elias:

...Yr oedd natur wedi gwneud i fyny am ei sefyllfa gyffredin trwy ei chynasgaeddu â graddau anghyffredin o harddwch corfforol a dymunoldeb pryd a gwedd. Yr oedd yn un o'r genethod harddaf yn yr holl ynys. Ac yn ychwanegol at hynny, yr oedd yn rhagori llawn cymaint mewn doethineb a thymher dda: nid y cyfrwysder isel, hunangeisiol a gamenwir yn gallineb; ond natur llawn o nwyfiant a sirioldeb o dan lywodraeth synnwyr cyffredin cryf.³⁰

Gwelwn ieuencid Ann yn yr act gyntaf, gyda'i symudiadau cyflym, swil; ac er na ddengys y telediad yr olwyn trol fel yr awgryma Saunders Lewis yn ei gyfarwyddiadau llwyfan, mae'r ferch yn troelli o gwmpas yr ystafell yn dangos ei dirmyg tuag at Richard Walter cyn disgyn wrth draed ei meistr mewn cywilydd. Ceir perfformiad rhagorol gan Talog wrth i Ann gyfarfod y staff am y tro cyntaf

fel meistres y plas, yn arbennig wrth iddi guddio y tu ol i'r llenni cyn i bawb ymgynnull yn y 'drawing room'.

Ann dra gwahanol a gawn gan Saunders a Talog yn y drydedd act; un sicr ac aeddfed; yn hollol gartrefol yn y plas gyda Mrs. King a'i sylwadau miniog. Y mae'n dal ei hun fel gwraig fonheddig heb ymddangos yn ffroenuchel; a'i phwffian chwerthin wrth wrando ar ddirmyg ei chwaer-yng-nghyfraith yn ein hatgoffa mai'r un Ann sydd yma. Dyma sy'n gwneud ailadrodd y geiriau a'r sefyllfa mor effeithiol - er ei bod bellach yn Ledi Bulkeley, mae Ann yn derbyn cynnig John Elias gyda'r un awydd ag a ddangosodd i'w gŵr cyntaf, a gyda'r un geiriau - "Tad annwyl, gwnaf!". Bu George P. Owen yn gyfrwys wrth osod John Elias yn yr un gadair ag y bu i Syr John o'i flaen ei defnyddio i ofyn yr un cwestiwn: hyn i gyd yn creu undod i gynhyrchiad a fyddai fel arall yn ddwy stori ar wahân.

Cymeriad go solet yw Syr John Bulkeley yn y ddrama; yn sicr â'i ddaliadau ei hun ond â'r gallu i wrando a chydymdeimlo â safbwyntiau eraill. Gwelir hyn yn ei sgwrs â John Elias - er nad yw Syr John yn Fethodist nac yn debygol o gael troedigaeth, y mae'n derbyn y pregethwr i'w gartref â chroeso. Y mae'n tyrchu trwy gragen Methodistiaeth i ddarganfod John Elias y dyn, yn hytrach na'r pregethwr, ac o'r herwydd yn cytuno i roi arian at ei apêl. Nid oedd fawr ddim y gallai Stewart Jones ei gynnig yn ychwanegol i'r rhan, ac o ganlyniad ni welsom ddim trawiadol yn ei berfformiad; cyflwynwyd portread effeithiol, cadarn yn ôl canllawiau'r awdur. Os oes rhaid gweld bai, yna diffyg emosiwn fyddai - does dim tystiolaeth yn ei actio fod y cymeriad wedi cymryd math o ffansi at y forwyn yn ôl tôn ei lais wrth siarad â hi, ac er ei fod yn edrych yn awdurdodol iawn a'i ddwylo yn ei wregys, ni welwn yr agosatrwydd ganddo a fyddai'n briodol i ŵr sydd wedi syrthio mewn cariad.

Mae'r un peth yn wir i raddau am gymeriad John Elias yn y ddrama, ond y gwahaniaeth yma yw fod y diffyg emosiwn i bwrpas, i gyd-fynd â disgrifiadau Lowri'r forwyn o Fethodistiaeth :

Mae'r wlad o gwmpas wedi mynd mor ddigalon a'r Methodistiaid yma'n lladd ar bob miri.³¹

Y mae J.O. Roberts yn y telediad fel John Elias yn poeni am bopeth, a phwysau Cymru ar ei ysgwyddau - ef oedd yn chwarae'r un rhan yng nghynhyrchiad teledu George P. Owen o Merch Gwern Hywel ym 1975. Mae sobrwydd pregethwr yn ei lais, a'i wedd dywyll yn ychwanegu at y ddelwedd. Y mae ymgais ganddo at ysgafnhau tua diwedd y cynhyrchiad, ond nid yw'n taro deuddeg wedi prudd-der enbyd y golygfeydd blaenorol.

Cymeriad snobyddlyd, crand yw Mrs. King y ddrama, yn grediniol nad yw Ann yn haeddu ei lle ym Mhresaddfed, ac yn sicr mai camgymeriad mwyaf ei brawd ydoedd priodi'n is na'i safle. Y mae'n dirmygu'r ffordd werinol Gymraeg o fyw ac arferion crefyddol y bobl, gan ddelfrydu cymdeithas Bath ar ôl ei gadael. Does dim a wna Ann yn ddigon da iddi - fel hyn y'i portreadir hefyd ar y teledu gan Dilys Davies. Mae ei gwisg lachar a'i gemau drud yn ei gosod ar wahân i'r cymeriadau eraill ar y sgrîn, yn enwedig Mrs. Edwards dduwiol, ostyngedig wrth ei hymyl; a chredaf fod y cyferbyniad hwn yn effeithiol ar lefel weledol a synhwyrol. Mae Dilys Davies yn meddu ar y ddawn leisiol i osod ei chymeriad ar wahân i'r lleill - mae ganddi ryw lediaith Seisnig grand sy'n gweddu i gefndir ei chymeriad, a rhoir pwyslais ganddi ar eiriau megis "Bath" a "Northanger Abbey" i ddangos anwybodaeth Ann a Methodistiaid Môn ynglŷn â bywyd ffasiynol y cyfnod. Dilyniir disgrifiad Saunders Lewis o'i chymeriad yma, ond mewn gwirionedd, nid oedd gan Mrs. King yr hawl i ymddwyn mor ffroenuchel tuag at Ann gan i'w gŵr farw'n drwm mewn dyled i Syr John, ei frawd-yng-nghyfraith.

Credaf fod y cymeriadau'n cael eu cyflwyno mewn modd gweddus iawn yn y telediad; yn rhannol oherwydd y gwaith camera. Fel ym Merch Gwern Hywel, mae potensial am ffilmio gwael iawn yma oherwydd y diffyg digwydd yn y ddrama. Does yma eto ond sgysiau yn y "drawing room", ond credaf fod y gwaith camera'n effeithiol ddigon. Cawn y cymysgedd disgwylidig o'r saethiad agos, y saethiad canolig a'r saethiad hir, a defnydd da o symud y camera gan ddilyn y cymeriadau o gwmpas yr ystafell. Roedd hon, ym 1973, yn un o'r dramâu cyntaf i'w cynhyrchu mewn lliw yn y Gymraeg, a chynhwyswyd llu o flodau ymysg y celfi cefndir. Mae eu lliwiau yn odidog, yn arbennig y rhosod

cochion a welir mewn sawl saethiad agos - ar ddiwedd golygfa, er enghraifft, i'w gorffen yn dwt.

O safbwynt y ffilmio, mae'r golygfeydd hirion o drafod bywyd a chrefydd yn ddiflas; saethiadau agos sydd yma a'r cymeriadau yn cael sylw yn eu tro wrth ddweud eu pwt, ond gan i lawer o'r sgysiau meithaf gael eu cwtdogi, nid yw hyn yn amharu'n ormodol ar y cynhyrchiad. Er diflastod y saethiadau agos, mae'n rhaid canmol yr olygfa glo, sef llun o wyneb hapus Ann a'i darpar ŵr, a wyneb syn Lowri'r forwyn wrth sylweddoli beth a ddigwyddodd rhyngddynt - emosiwn trawidol heb ddefnyddio geiriau. Ceir cerddoriaeth lawen i gloi, sydd yr un mor addas yn ei lle â phob darn arall o fiwsig a ddefnyddir drwy'r cynhyrchiad.

Barnaf fod y telediad hwn o Dwy Briodas Ann, yr unig gynhyrchiad teledu hyd yn hyn, yn un cymwys iawn, a haeddodd gael ei ail-ddarlledu ym 1985 fel teyrnged i'r dramodydd. Mae'n gyflwyniad teg a llwyddiannus o'r ddrama wreiddiol, a chan mai Saunders Lewis a'i haddasodd, nid oes dim yn drawiadol wahanol i'r gwreiddiol. Drama deledu ydoedd o'r cychwyn, ac y mae'r ffaith iddi drosglwyddo mor dda o'r llyfr i'r sgrîn yn deyrnged i allu'r awdur fel dramodydd cyfrwng a oedd mor ddieithr iddo. Cyflwynodd stori gyflawn o ddarnau o hanes - paragraff yn unig sydd yn hunangofiant John Elias am ei ail briodas:

...Chwefror 10, 1830, priodais Lady Bulkeley, gweddw'r diweddar Syr John Bulkeley, Presaddfed. Daethom i fyw i'r Fron, gerllaw Llangefni, lle'r ydym hyd heddiw, Ebrill 22, 1841. Trefnodd yr Arglwydd tirion i mi drachefn ymgeledd gymwys, gyfeilles siriol, mamaeth dyner, sy'n llawer o ddiddanwch i mi yn fy nyddiau blin, ac yn gymorth mawr i mi gyda gwaith yr Arglwydd.³²

Drwy law Saunders Lewis, blagurodd drama o'r esgryn sychion. Er mai ar gyfer y teledu y'i bwriadwyd, ni welaf unrhyw rwystr rhag llwyddiant y ddrama ar y radio.

Nodiadau

1. Cofiant y Parch W. Roberts, Amlwch, Y Parch H. Jones, Amlwch, Argraffwyd a chyhoeddwyd gan Lewis Jones, Llanerchymedd, 1919.
t.43
2. Merch Gwern Hywel, Saunders Lewis, Llyfrau'r Dryw, Llandybie, 1964.
t.32
3. *ibid.* t.46
4. *op. cit.* 1. t.39
5. *op. cit.*2. t.80
6. *op. cit.*1. t.52
7. Llongddrylliad y Marchioness of Anglesey 1818, Bedwyr Lewis Jones, Anglesey Antiquarian Society and Field Club, 1965. t.42
8. The North Wales Gazette, Ebrill 23, 1818. t. 3 col.2
9. Saunders Lewis (yn llaw Siwan Jones), llythyr at Mr. Dafydd Glyn Jones, Mai 22^{ain}, 1981.
10. Harri Gwynn "Nofel Benigamp am Briodi o Serch ac nid o Ddyletswydd"
Y Cymro, d.d.
11. J.L.M. "Radio a Theledu" Baner ac Amserau Cymru 26 Rhagfyr 1968, t.4
12. J.L.M. "Romeo a Juliet y Gymdeithasfa" Baner ac Amserau Cymru 23
Medi 1968, t. 4
13. *ibid.*
14. Meic "Gwyllo a Gwranddo" Y Cymro 16 Mai 1968, t. 14
15. *op.cit* 12
16. *ibid.*
17. Daniel "Siom" Baner ac Amserau Cymru 7 Mai 1964
18. Saunders Lewis, addasiad teledu Merch Gwern Hywel 1975
19. *ibid.*
20. Saunders Lewis Merch Gwern Hywel Llandybie 1964, t. 47
21. *op. cit.* 17

22. Sian Wyn Siencyn “Sbec ar Bedwar C” Y Faner 8 Tachwedd 1985, t. 21
23. op. cit. 18
24. dienw, “Safbwynt” Barn 274 Tachwedd 1985, t. 423
25. Eleri Hopcyn cyf. Merch Gwern Hywel, cynhyrchiad radio’r B.B.C. 1993
26. ibid.
27. Kate Roberts “Dengid i Briodi” Baner ac Amserau Cymru 25 Mehefin 1964
28. op. cit. 25
29. Bruce Griffiths, Saunders Lewis, o’r gyfres Writers of Wales, Gwasg Prifysgol Cymru, 1979. t.96
30. W. Pritchard, Pentraeth, John Elias a’i Oes, Llyfrfa’r Cyfundeb, Caernarfon,1911. t.256
31. Saunders Lewis, Dwy Briodas Ann, Dramau’r Parlwr, Gwasg Christopher Davies, Llandybie, 1975. t.51
32. Goronwy P. Owen, gol. Hunangofiant John Elias, Mudiad Efengylaidd Cymru, Pen-y-Bont ar Ogwr, 1974, tt.66-7.

PENNOD 8:

DWY STORI FENTHYG

AMLYN AC AMIG

Drama fydryddol yw Amllyn ac Amig, a ysgrifennwyd ar gyfer y B.B.C. ar gais T. Rowland Hughes; y bwriad ydoedd ei darlledu ar ddiwrnod Nadolig 1939, ond oherwydd y rhyfel, ni fu i'r awdur ei chwblhau tan 1940. Perfformiwyd hi ar y radio deirgwaith yn Iwerddon cyn ei darlledu yng Nghymru, wedi'i chyfieithu gan R.O.F. Wynne dan y teitl A Christmas Candle. Yng Ngarthewin hefyd y cyflwynwyd y ddrama ar y llwyfan yng Nghymru am y tro cyntaf ar 31 Ionawr a 1 Chwefror 1947.

Seiliwyd y ddrama ar hen chwedl am ddau gyfaill a oedd mor debyg i'w gilydd ag efeilliaid, a gyfieithwyd o'r Lladin i'r Gymraeg yn y bymthegfed ganrif, ac a gyhoeddwyd ym 1909 gan Dr. Gwenogvryn Evans. Bedyddiwyd y ddau yn Rhufain gan y Pab, a rhoddwyd cwpan hardd iddynt ill dau - yr unig ddau gwpan o'u bath. Tyngodd y cyfeillion lw i'w gilydd na fyddent yn gwrthod na chariad, cyngor na chymorth i'r llall tra byddent byw; a phan oedd Amllyn yn wynebu trafferth ar ôl i'w serch tuag at Belisent ddod i'r amlwg trwy frad, safodd Amig yn lle ei gyfaill a lladd y bradwr - gweithred a wnaeth i dad Belisent, yr Ymerawdwr, ei chynnig i Amllyn yn wraig.

Ymhen blynnyddoedd, aeth Amig, ag yntau wedi dal y gwahanglwyf, i lys ei gyfaill i gardota. Adnabu Amllyn ef wedi edrych dan ei garpiau, a chynnig llety iddo. Tra roeddynt yn cysgu, ymddangosodd yr angel Raffael i Amig, gyda'r neges mai'r unig ffordd y câi ei iechyd yn ôl oedd i Amllyn ladd ei ddau fab bychan a golchi ei gyfaill yn eu gwaed. Deffrodd Amllyn, a mynnu cael gwybod neges yr angel. Ar ôl dwys ystyried ac wylo dros ei feibion, lladdodd Amllyn hwy a gwneud yn ôl dymuniad Raffael.

Y bore trannoeth, ar ôl iachau Amig, ni allai Belisent ddweud p'un oedd ei gŵr. Mynnodd fynd i nôl y plant; heb wybod y rheswm dros iachâd sydyn Amig, ond pan â i'w cyrchu, mae'r ddau yn fyw, a chraith goch o amgylch eu gyddfau i ddangos lle bu cleddyf eu tad.

Amig yw canolbwynt y chwedl wreiddiol hon, ond Amllyn a'i wewyr meddwl sydd amlycaf yn fersiwn Saunders Lewis ohoni - nid oes i'r gwreiddiol

ychwaith unrhyw gysylltiad â'r Nadolig - dyddiad darlledu gwreiddiol y B.B.C. a roddodd y syniad hwnnw i'r dramodydd, ond ar wahân i hyn, ychydig o wro a geir o'r chwedl. Ni chynhwysir golygfa lladd y plant oherwydd rhesymau amlwg; cyfyngiadau cyfrwng y radio ac anhawster cyflwyno golygfa mor echrydus, boed ar y radio, y teledu neu'r llwyfan. Gwell yw sicrhau tensiwn y ddrama drwy adael i'r gynulleidfa ddyfalu a wnaethpwyd y weithred (mae digon o awgrymiadau o hyn yn y ddeialog).

Medd Pennar Davies am y ddrama:

....one of his finest plays and less classifiable than most....Lewis has taken his medieval material and given it a new focus and dimension....¹

Crefydd a bywyd yr enaid yw ei themâu - mae'r ddrama'n canolbwyntio ar Amlyn ac, er ei fod yn wŷr da, achubiaeth ei enaid. Caiff ei brofi gan orchymyn yr angel, a gwobrwyir ef am ei burdeb gyda bywydau ei blant. Mae'n gymeriad cadarn - yn gwrthod troi cefn ar y llw a wnaeth i'w gyfaill bum mlynedd ynghynt. Yn wir, y llw sy'n gwneud iddo ladd ei feibion, nid ei ffydd yn Nuw.

Nid oes prawf ar Amig - portreëdir ef yma fel math o sant. Y mae wedi derbyn mai ffawd oedd iddo gael y gwahanglwyf, gan mai oddi wrth Duw y daeth y clefyd;

Gwnaethost ti anwyliaid o angylion nef, ²

medd yr Archangel Raffael wrtho - nid oes iddo benbleth; cyfrwng achubiaeth ei gyfaill ydyw.

Cymeriad pur yw Belisent, yn ufudd i'w gŵr a thawel ei natur. Gellir ei chymaru â'r Forwyn Fair - mam ydoedd hithau mewn perygl o golli ei mab i Herod Frenin. Cysyllta amgylchiadau lladd y bechgyn i'r noson y ganwyd Crist; gellir cymharu'r ddrama gyfan ag aberth Calfari. Fel Amig, mae Belisent wedi derbyn mai dymuniad Duw ydyw marwolaeth ei phlant, meddai:

Cliriwch y byrddau, ferched.
Gwnewch yma ddwy elor.
Af i nôl y plant.³

- cryfder arferol merched Saunders Lewis.

Y mae ffydd Amig a Belisent yn Nuw a'u parodrwydd i dderbyn ei ewyllys yn pwysleisio poen Amlyn wrth iddo geisio dygymod â'r hyn y mae wedi ei wneud; ac yn ei amlygu fel cymeriad canolog y ddrama.

Y rhain yw cymeriadau blaenllaw'r stori, fel yr awgryma'r teitl, ac o'r herwydd, cymerodd Saunders Lewis fwy o ofal wrth eu creu na chyda'r cymeriadau eraill.

....Nid yw gweithgarwch dramataidd Amlyn ac Amig yn cyffwrdd â'r rhan fwyaf o'r cymeriadau ymylol. Cymeriadau llanw yw'r bardd, y ffŵl, y morynion a'r porthor. Maent yn gweithredu fel y Côr yn nramâu hynafol Groeg yn hytrach na fel cymeriadau,⁴

eglura Ioan M. Williams yn ei gyflwyniad i'r ddrama; pwysleisir ei farn gan natur hynafol y ddrama - mae neges foesol ynddi, megis yn nramâu Soffocles.

Gwahanol oedd barn R.O.F. Wynne:

The lesser characters in the play are depicted with the same careful fidelity [as the main]. All are living persons and not mere accessories to the plot.⁵

Mae'n wir fod i'r bardd sylwgarwch a'r ffŵl ffraethineb a hiwmor, ond nid yw hynny'n cyfrif fel portreadu cyflawn. Cyfryngau ydynt i dynnu sylw'r gynulleidfa at elfennau'r stori - disgrifia'r bardd y cymeriadau wrth ganu amdanynt; y cwpan aur yn yr un modd, ac ystyria'r ffŵl ddigwyddiadau'r stori - dywed wrthym fod Amig wedi ei wella o'r gwahanglwyf yn yr eglwys, a'i fod ynghynt wedi rhoi Belisent yn wraig i'w gyfaill ar ôl ei hennill - dyfais effeithiol gan i'r wybodaeth gael ei chyflwyno i'r gynulleidfa gyda safbwynt niwtral. Credaf mai math o gôr sydd yma, fel y sylwodd Williams, nid cymeriadau

annibynnol; tynnu sylw am ennyd oddi wrth ddifrifoldeb y sefyllfa y maent, heb gynnig dim i'r stori ei hunan. Anghytunaf â Wynne a chynnig eu disgrifio fel brasluniau atodol i'r prif ddiwydd, nid cymeriadau cyflawn.

Drama fydryddol ydyw Amllyn ac Amig, cyfrwng gweddus i gyfleu stori o'i bath, ond er yn ffurfiol, gellir sylwi ar wahaniaeth pendant rhwng geiriau'r Ffŵl a sgwrs y prif gymeriadau. Mae Lewis wedi cyfleu'r safleoedd cymdeithasol gwahanol heb wyro o'i arddull gaeth.

Yr hyn yr anelaf ato yw cadw trefn naturiol y frawddeg lafar a gwneud barddoniaeth yn ymddiddan ystwyth dan bwys cyffro ac angerdd...⁶

eglura yn rhagair y ddrama - tasg nid ansylweddol.

Nid oes un o'r cynhyrchiadau cynnar o Amllyn ac Amig wedi goroesi, ond mae cofnod o adolygiad Sganar o gynhyrchiad teledu 1965 yn ganmoladwy iawn:

....Un o wleddoedd gorau'r Gwyliu oedd y cyflwyniad o Amllyn ac Amig (Saunders Lewis) ar y teledu y nos cyn y Nadolig gan y B.B.C. Y cyfarwyddwr oedd Dafydd Gruffydd a gwych y cyflawnodd ei waith...⁷

ebe Sganar; casglwn o'r adolygiad mai cynhyrchiad stiwdio ydoedd, gan fod yma sôn am "setiau" yn hytrach na lleoliadau allanol. Nid yw'n canmol y gwisgoedd felly credaf eu bod yn addas i'r cyfnod dan sylw ac o safon weddus. Casglwn hefyd fod y gwaith camera yn deilwng gan fod canmoliaeth i'r cyfarwyddwr.

Gwan ydoedd perfformiad Beryl Williams yn rhan Belisent yn ôl yr adolygydd; felly hefyd y merched eraill yn y telediad; ond cafodd ei blesio gan y dynion:

....gorchest y perfformiad oedd actio grymus Meredith Edwards fel Amllyn, a Dillwyn Owen fel Amig.....Dylid cynhyrchu'r ddrama hon bob Nadolig.⁸

Y mae Sganar yn hael ei ganmoliaeth i'r gerddoriaeth yn y telediad, a gyfansoddwyd bron ugain mlynedd ynghynt gan Arwel Hughes. Pan berfformiwyd y ddrama yng Ngarthewin ym 1947, cyfansoddodd y gerddoriaeth yn arbennig ar ei chyfer - yn unol â chyfarwyddiadau llwyfan Saunders Lewis, a'r un trefniant a ddefnyddiwyd, fe dybiaf, yma wedi'i berfformio gan Gerddorfa Gwynedd.

Rhoddwyd pwyslais tebyg *ar*fiwsig yn y cynhyrchiad teledu arall o Amlyn ac Amig, a ddarlledwyd ar noswyl Nadolig 1986. Cyflwyniad ydoedd gan Gymdeithas Ddrama Gymraeg ac Adran Gymraeg Coleg Prifysgol Cymru, Bangor, wedi'i gyfarwydo gan Wil Aaron a'i gynhyrchu gan William R. Lewis. Cyfansoddwyd y gerddoriaeth yn arbennig i'r cynhyrchiad gan Gareth Glyn, Owen P. Lloyd Evans ac Einion Dafydd; i weddu i naws y ddrama, gan greu awyrgylch effeithiol tu hwnt. Defnyddir hen offerynnau i greu sŵn canoloesol, ac mae tempo'r gerddoriaeth a'r melodi'n adlewyrchu'r digwydd; clywn ddarn yn llawn discordiau wrth i'r gwahanglaf ddynesu, ac fel cyferbyniad, distawrwydd llethol eiliadau yn ddiweddarach wrth i Amlyn adnabod ei gyfaill o dan y rhwymau am ei wyneb. Medd Ann Ffrancon wrth adolygu:

Nid y lleiaf ymhlith rhagoriaethau'r rhaglen
oedd y gerddoriaeth a'r canu swynol,⁹

clod haeddiannol i gwmni amatur.

Cyflwynwyd y ddrama heb fawr ddim golygu ar y sript wreiddiol, ond ambell i air yma ac acw; penderfyniad doeth gan nad tasg hawdd fyddai golygu drama fydryddol, ond yn ôl Phil ap Iorwerth, profodd hyn yn nam ar ei fwynhâd o'r telediad:

Yn anffodus mae'n amhosibl ynganu llinellau
tebyg i "Atolwg, fy macwy, wele y mae
cardotyn yn ymbil ger y porth!" gydag
unrhyw arddeliad.¹⁰

Nid geiriau Saunders Lewis mo'r rhain, a gallwn ddiystyru sylwadau ap Iorwerth fel rhagfarn wrth-Saundersaidd yn hytrach na beirniadaeth ddilys ar y cynhyrchiad ei hun. Ymhelaetha:

Roedd hon yn ddrama rodresgar a di-awen a di-angerdd, ac i mi, o leiaf, 'roedd yn wastraff adnoddau ei chynhyrchu....¹¹

Gwelwn nad oes sylw ar y perfformiad ei hun yma:

....onibai ei bod wedi ei goroleuo ar draul awyrgylch.¹²

Efallai i'r adolygydd anwybyddu'r cynnwys oherwydd yr awdur. Ffilmiwyd y cynhyrchiad yn neuadd Cochwillan, anodd felly oedd goleuo cynhyrchiad teledu yn effeithiol - â'r muriau carreg yn adlewyrchu pelydrau'r lampau. Ni wnaeth Phil ap Iorwerth sylw ychwaith am y golau coch a ddefnyddiwyd yn yr ystafell wely lle roedd Amlyn ac Amig yn cysgu pan ddaeth yr angel atynt - techneg effeithiol a oedd yn symbol trawiadol o dywallt gwaed. Byddai wedi bod yn llawer haws goleuo'r digwydd mewn stiwdio deledu, ond o ystyried awyrgylch arbennig y neuadd, gellir esgusodi ychydig o or-oleuo nawr ac yn y man.

Mae'n rhaid hefyd canmol gwaith camera Ken Wensley - manteisiodd yn llawn ar y lleoliad i greu golygfeydd safonol. Gwneir defnydd o adnoddau'r neuadd - er na ffilmiwyd y golygfeydd (lle dangosir y ffenestri lliw godidog a'r grisiau troellog yn y plas. Mae Wil Aaron wrth gyfarwyddo wedi sicrhau digon o symud yn y golygfeydd, gan ddefnyddio'r Ffŵl a'i gampau i dywys y camera at gymeriadau eraill. Gwelwn hyn yn arbennig wrth iddo ddadlau â'r Bardd. Aiff y llun oddi wrth awdur y gerdd ddifrifol at y Ffŵl sydd i'r chwith ym mlaen y sgrîn, wrthi'n tynnu stumiau a gwatwar y Bardd. Mae'r Ffŵl yntau'n dweud ei bwt ac yn dawnsio at Amlyn - ffordd glyfar ac effeithiol o gyflwyno sgwrs rhwng tri; nid yw'r camera, mwy na'r Ffŵl, ddim munud llonydd, dyfais sy'n cyfleu cyffro a sioncrwydd yn y cyflwyniad. Esiampl arall o safon y ffilmio yw'r defnydd o saethiadau agos a phell, a'r ffocws niwlog wrth i Amlyn gofio'n ôl i'r

adeg pan dyngodd ei lw i Amig. Hawdd fyddai drysu'r gynulleidfa â golygfa o'r fath, ond drwy gadw ffrâm y sgrîn yn y presennol a chyflwyno'r atgof mewn cwmwl yn y canol, gorchfygwyd yr anhawster.

O ystyried mai cynhyrchiad amatur ydyw, teimlaf fod yr actio'n rhagorol, a'r gwisgoedd gan Iorwen James yn weddus i'r cyfnod. Arbennig ydoedd gwisgo'r bechgyn mewn gwyn o'u corun i'w sawdl - arwydd o burdeb, yn cysylltu â'r ŵyn bychain o gwmpas preseb y baban Iesu; a dwyn i gof y dywediad "fel ŵyn i'r lladdfa". Yr oedd carpiâu Amig yn dlodaidd weddus, a'r rhwymau am ei wyneb yn cuddio'r gwahanglwyf ac arbed yr angen am golur. Fel cyferbyniad iddo, roedd gwisg Belisent yn wych a lliwgar.

Bu i berfformiadau Nia Wyn Roberts a Dafydd Emyr gyrraedd safon llawer uwch na'r disgwyl, gan gofio mai amatur oeddynt. Bellach mae'r ddau ohonynt wedi gwneud eu marc ym myd y teledu, ac Emyr yn gyfarwydd â phortreadu cymeriadau Saunders Lewis.

Llwyddodd y myfyrwyr i greu awyrgylch
cwbl unigryw oedd yn cyffwrdd calon
rhywun,¹³

meddai Ann Ffrancon; canmoliaeth haeddiannol o sylwi ar dagrau'r ddau ohonynt yn niwedd y ddrama. Trawiadol felly yw'r olygfa lle gwelwn Belisent yn dringo'r grisiau i gyrchu cyrff ei phlant, ei gruddiau'n wlyb, yn cydio mewn rhuban coch i'w thywys i fyny, y coch eto'n arwydd o dywallt gwaed.

Roedd Dafydd Emyr yn wrol a solet fel yr Iarll Amlyn, gyda chadernid na ddisgwylid gan un mor ifanc. Cyfleodd boen meddwl ei gymeriad yn effeithiol, a'i daldra'n gyferbyniad perffaith i Arwel Gruffydd yn rhan y Ffŵl; ymddangosai hwnnw fel ci bach yn cyfarth wrth draed ei feistr. Rhaid canmol Gruffydd hefyd a roddodd ei gyfran bersonol o hiwmor i'r telediad, yn ddoniol yn ei sidan amryliw, ac er na chafwyd swigen mochyn iawn i'w rhoi ar y ffon, trawyd y nodyn iawn gan ddefnyddio balŵn .

Ni ellir dweud llawer am bortread Ion D. Thomas o'r Bardd - yr oedd yn gymwys a deallus yn ei ran, ond heb sbarc y gweddill o'r cast (mae'n siwr na wnaeth cwmp ei wallt gosod lawer o les iddo, druan) - nid actio gwael ydoedd,

ond yn hytrach actio gor-baratoëdig; ni chafwyd ganddo'r un naturioldeb â'r gweddill.

Teimlais fod nodweddion y cynhyrchiad wedi eu cymysgu'n fedrus gan Wil Aaron a William R. Lewis i greu rhaglen amatur o'r radd flaenaf - cynhyrchiad sy'n rhagori ar waith rhai cwmnïau proffesiynol. Roedd y lleoliad yn gefndir perffaith i'r actio medrus a'r gwisgoedd lliwgar, y gwaith camera yn sicrhau nad oedd undonedd i'r lluniau, a'r gerddoriaeth yn plethu popeth yn gelfydd gyda'r offerynnau a'r canu persain.

Ffafirol oedd yr ymateb i'r rhaglen ar wahân i ragfarn Phil ap Iorwerth. Nid "eilradd" a olygir felly gan "amatur", fel y cytuna Ann Ffrancon:

Heb unrhyw amheuaeth, fy anrheg Nadolig i
gan y cyfryngau eleni oedd y cynhyrchiad
hwn....¹⁴

Y CYRNOL CHABERT

Mae sawl un wedi addasu gwaith Saunders Lewis er mwyn ei ddarlledu. Nid ystyrir Saunders ei hun yn addaswr ond gwaith arall yw ffynhonnell y ddrama hon.

Ffrangeg oedd iaith wreiddiol Le Colonel Chabert, stori fer hir Honoré de Balzac, am swyddog o fyddin Napoleon sy'n codi megis o farw'n fyw ar ôl brwydr Eylau yn erbyn y Rwsiaid ym Mhrwsia. Mae briw ar ei ben wedi newid ei wedd yn gyfangwbl, ac o'r herwydd mae'n rhaid i Chabert frwydro am ei enw a'i ffortiwn yn erbyn llid ei wraig sydd wedi ail-briodi â chownt uchelgeisiol.

Ysgrifennodd Balzac hi fel rhan o'i waith maith La Comédie Humaine - enw sydd braidd yn gamarweiniol fel yr eglura Mr. Dafydd Glyn Jones yn Llwyfan:

Nid yw'r gair *comédie*, o angenrheidrwydd, yn golygu drama ddoniol, ac yn sicr nid comedi yn ein hystyr ni o'r gair yw Y Cynrol Chabert. Llai fyth felly'r stori y seiliwyd y ddrama arni....¹⁵

Bu i Balzac gwblhau naw-deg-un o nofelau a straeon byr hir mewn ugain mlynedd cyn ei farwolaeth; i gyd yn yn rhoi portread o'r gwahanol gymeriadau a geir mewn cymdeithas. Y cymeriadau hyn yw prif ffocws y gwaith; ceir tua dwy fil o bortreadau i gyd megis Vautrin y troseddwr, Rastignac y meddyg, y tad Goriot, Bianchon y myfyriwr meddygol ac wrth gwrs, Derville y cyfreithiwr. Ymddangosodd y gyfrol gyntaf o ddwy ar bymtheg ym 1842, i gyd yn dystiolaeth o chwilfrydedd Balzac am y byd o'i amgylch. Medd Wallace Fowle am ei waith:

Society was not for Balzac the duality of the sexes but rather the triple reality of men, women and things (*hommes, femmes, choses*). By "things," he meant furniture, houses, cities - all those things created by man that help form his temperament.¹⁶

Mae stori wreiddiol Le Colonel Chabert yn un hir a manwl, yn llwythog â thermâu'r gyfraith a pharagraffau disgrifiadol hir; arddull anodd i'w chyfleu'n llwyddiannus ar ffurf drama; ond wedi ei symleiddio, gwelwn fod addasiad Lewis ohoni yn un synhwyrol a chynhwysfawr.

Mewn llenyddiaeth, mae'r sefyllfa yn un boblogaidd: gwelwyd yn ddiweddar gynhyrchiad Americanaidd ohoni ar ffurf ffilm, Sommersby, addasiad o'r stori Ffrangeg Le Retour de Martin Guerre. Tebyg yw'r sefyllfa i un y cynrol - daw gŵr yn ôl i'w bentref gwledig lle y cred pawb iddo gael ei ladd yn y rhyfel, ac mae'n rhaid iddo brofi i'w wraig ymysg pentrefwyr eraill, mai ef yn wir ydyw.

Ym 1994, addasodd Jean Cosmos stori Balzac ar gyfer y sinema yn Ffrainc, cafodd ei chynhyrchu gan gwmni T.F.1 ar y cyd â Le Canal Plus dan gyfarwyddyd Yves Angelo. Gerard Depardieu sydd yn rhan Chabert yn y cynhyrchiad a fu'n llwyddiant ym Mhrydain a'r Unol Daleithiau yn ogystal â Ffrainc.

Er mai addasiadau o'r un testun ydynt, mae gwahaniaethau mawr rhwng fersiynau Cosmos a Lewis. Ystyriwn gychwyn stori Balzac, yng nghanol prysurdeb swyddfa'r cyfreithiwr Derville. Canolbwynt y miri yw Simonnin, llanc ifanc o glerc yn y swyddfa sy'n edrych drwy'r ffenestr ar Chabert yn dyfod tuag ato, tra'n lluchio darnau o bapur at bobl yn y stryd a bod yn niwsans llwyr i'r clercod o'i amgylch. Yng nghanol y stŵr, mae cyfreithwyr a chwsmeriaid yn ceisio setlo'u busnes, pawb yn siarad ar draws ei gilydd.

Tra'n adrodd hyn oll, mae Balzac hefyd yn llwyddo i ddisgrifio'r swyddfa aflêr a'i hawyrgylch yn benigamp, sy'n gwneud tasg yr addaswr yn anoddach fyth, yn enwedig cychwyn yr hanes a dewis o'r myrdd manylion a roddwyd iddynt.

Cyfansoddodd Lewis ei ddrama ar gyfer y radio, i'w darlledu ar 5 Mawrth 1970. Yn unol â gofynion y radio, ychydig o gymeriadau a ddefnyddiodd, a dewis peidio ail-greu prysurdeb swyddfa'r gyfraith yn ystod y dydd; yn hytrach, dewis Lewis oedd cychwyn ei ddrama yn ystod oriau'r nos ar ôl i Simonnin ddiereidus a'r lleill fynd adref. Gallodd Cosmos ar y llaw arall gynnwys y rhialtwch hwn yn ei addasiad ffilm, ac mae'r cynhyrchiad gorffenedig yn rhoi mwy o gyffro a bwrlwm i'r swyddfa nag a welwn yn y stori wreiddiol.

Nid hon yw golygfa agoriadol y ffilm. Dengys honno frwydr Eylau - credaf ei bod yn un o'r golygfeydd rhyfel mwyaf trawiadol i'w ffilmio erioed. Gwelwn faes y gad yn llonydd dan gynfas o eira, heb smic o sŵn ond cerddoriaeth glasurol, araf. Mae ysbeilwyr yn dadwisgo cyrff y milwyr gan rwygo oddi arnynt bopeth o werth yn cynnwys eu modrwyau priodas. Torrir i olygfa dawel arall o'r maes cyn y dinistr, heb gerddoriaeth y tro hwn. Gwelwn un marchog yn carlamu o flaen gweddill y milwyr cyn i'r byddinoedd gychwyn y frwydr wrth farchogaeth yn wyllt at ei gilydd cyn cyfarfod, ymosod, lladd. Yr unig sŵn yw rhythmau ysgafn carnau'r ceffylau ar yr eira, a thincial cleddyf yn erbyn cleddyf. Ni wyddom yn sicr mai Chabert oedd y milwr unig, ond yn y distawrwydd hwn y bu "farw" - golygfa a fyddai'n sicr wrth fodd Balzac; mae tawelwch y lladd yn gyferbyniad perffaith â dwndwr y swyddfa, a'r cyfan oll yn gwau yn ddechreuad cryf i Le Colonel Chabert.

Ychydig o wyro o'r gwreiddiol sydd yn y ddau addasiad - maent ill dau yn canolbwyntio ar fanylion gwahanol o'r stori; Cosmos yn ychwanegu at waith Balzac tra mae Saunders yn crynhoi, yn unol â chyfyngiadau eu cyfrwng dewisol.

Un gwahaniaeth cynnar, amlwg a phwysig rhyngddynt ydyw eu triniaeth o graith Chabert. Yn y testun gwreiddol, daw'r graith sydd ganddo ar ei ben, y graith honno a fu'n ffactor cryf yn ei weddnewidiad, i'r golwg wrth iddo godi'i het i Derville, digwydd hyn yn ffyddlon yn addasiad Lewis. Dewisodd Cosmos beidio â'i dangos - gan geisio cadw chwilfrydedd y gynulleidfa, a phwysleisio dirgelwch y gŵr a'i galwai ei hun yn Chabert. Ysywaeth, nid yw hyn yn taro deuddeg: gwyddom o stori Balzac fod gwedd y milwr wedi newid rhyw gymaint ers brwydr Eylau a dyna'r rheswm pam nad yw ei wraig, y Gowntes Ferraud, yn ei adnabod. Byddai dangos y graith yn arwydd o'r gwahaniaeth sydd ynddo; oherwydd yng nghyflwyniad Cosmos ac Angelo o'r stori, gwelwn fflachiadau o'r gorffennol wrth i Chabert hiraethu am ei fywyd braf gynt. Gwelwn ef a'i wraig yn eu cartref wedi'u hamgylchynu â'u meddianau, a gwelwn hwy'n caru. Yn y golygfeydd hyn, mae wyneb Chabert yn amlwg - yr union yr un wyneb ag a welwn yng ngweddill y ffilm. Nid oes gwahaniaeth yn ei ymddangosiad, felly sut nad ydyw'r Gowntes yn ei adnabod? Nid yw'r myfyrio hwn yn gymorth i sefydlu gweddnewidiad y Cymrol, ond cawn argraff o'i gyfoeth cyn y rhyfel.

Nid oes modd ar y radio i ni weld Chabert na'i graith, felly rhwydd hynt i'r addaswr radio greu'r olygfa yn glos i'r gwreiddiol - dyna a wna Lewis.

O'ch corun i'ch clust! Welais i rioed ddim tebyg. Fe ddaru 'nychryn i....¹⁷

yw disgrifiad Derville ohoni yn y ddrama radio; ond cawn well syniad o natur y briw yng ngwaith gwreiddiol Balzac:

...craith ardraws a gychwynnai ar y gwegil a gorffen ar y llygad dde, yn ffurfio drwy ei hyd sêm ddyrchafedig fawr.¹⁸

Ysgoga'r geiriau ffurfiol ddarlun echrydus o'r graith - ac er bod yr addasiad radio'n gweithio'n dda, ni chawn ergyd ddelweddol gref heb i'r gynulleidfa weld y briw.

Manyl yn arall sy'n amrywio yn y ddwy fersiwn yw cyfarfyddiad y Cynol â Boutin, ei hen gyfaill o'r fyddin. Dywed Cosmos iddynt ill dau ddianc o garchar yn Strasbourg, ond yn ôl Lewis, cyfarfuasant ar ôl i'r Cynol gael ei ryddhau o seilam yn Stuttgart. Mae gwirionedd yn y ddwy fersiwn - bu Chabert, yn ôl Balzac, yn y carchar yn Strasbourg ac yn y seilam yn Stuttgart; ar ôl hyn oll y cyfarfu â'i gyfaill. Mae penbleth ynglŷn â tŷnged Boutin hefyd: dywed Lewis, fel yr awdur gwreiddiol, iddo gael ei ladd yn Waterloo, ond yn ôl Cosmos y mae'n fyw o hyd ac ar ffo rhag y fyddin.

Y gwahaniaeth pennaf rhwng addasiad Saunders Lewis a'r gwreiddiol yw'r dôn a'r arddull. Ysgrifennodd Balzac yn arddull ffurfiol ei gyfnod, ond y mae deialog Lewis yn llawer mwy anffurfiol; yn sgwrsiol hyd yn oed. Gwelwn hyn yng ngeiriau Mme Ferraud:

Rydw i'n cyfaddef i chi'n awr mod i'n ei garu e. Mi gredais o'r cychwyn fod gen i hawl foesol i'w garu e. Does dim rhaid i mi wrido wrth gyfaddef hyn i chi?¹⁹

Er nad yw'n edrych ar bapur yn anffurfiol, byddai'n bosibl defnyddio'r un darn mewn drama fodern. Ond wrth ddarllen geiriau Balzac:

....'doedd gen i ddim hawl i ffurfio cysylltiadau eraill? Yn y sefyllfa unig hon, mae llais dirgel yn dweud wrthyf am roi gobaith yn eich daioni, y gwn i mor dda amdano. A fûm yn anghywir yn eich cymryd fel unig ddyfarnwr fy nhynged?²⁰

Gwyddom bod y sgwrs yn perthyn i gymeriadau o ddsbarth cymdeithasol uchel. Mae Jean Cosmos wrth addasu, yn wahanol i Lewis, wedi cadw'r un awyrgylch arbennig.

Yn yr un modd, mae'r cymeriadau wedi newid drwy'r addasu; sydd yn ei dro yn newid pwyslais y stori. Mae Mme Ferraud Balzac yn fenyw gall a chref, yn glyfar a phwyllog. Mae hi wedi cyrraedd ei safle presennol drwy fanteisio ar bob cyfle; cynyddodd ei ffortiwn drwy fuddsoddi'n ddoeth, heb unwaith fradychu ei gwreiddiau amheus. Disgrifia Balzac y daith i Groslay yng nghwmni Chabert:

Gwyddai'r gowntes sut i roi swyn ysgafn ar yr atgofion hyn, a thryledu dros y sgwrs yr arlliw o bruddglwyf a oedd yn angenrheidiol i gynnal ei difrifwch. Llwyddodd i ail-gynnau cariad heb danio unrhyw nwyd, a gadawodd i'w gŵr cyntaf ganfod yr holl lwyddiannau meddyliol a gafodd, tra'n ymdrechu i'w gynefino â'r syniad o gyfyngu ei hapusrwydd yn unig i'r mwyniannau hynny y mae tad yn eu profi yng nghwmni merch annwyl. Roedd y cynol wedi adnabod iarllles yr Ymerodraeth, gwelai yn awr iarllles yr Adferiad.²¹

Yr un gowntes sydd gan Cosmos - ac mae'r golygfeydd a gawn gan Angelo yn ei ffilm yn pwysleisio hyn. Mae'r Cownt Ferraud yn gofyn iddi am fenthyg arian i brynu darn o dir ac mae ei hymateb yn bendant - nid yw'n cael y swm y mae'n gofyn amdano, caiff yn hytrach tua chwarter hynny yn gildwrn

bychan i'w gadw'n dawel. Ymdebyga'r olygfa i blentyn yn gofyn i'w fam am beth da yn hytrach nag ymddiddan rhwng gŵr a gwraig gan bwysleisio nad yw'n cymysgu ei bywyd personol â'i busnes.

Cowntes hollol wahanol ydyw un Saunders Lewis, un fwy plentynnaidd. Mae'n swcro mwnci dof a bwydo coffi iddo, tra'n ei alw'n "cariad" - ymddengys ei chymeriad yn wamal. Meddai wrth Derville:

Mr. Derville, peidiwch ag edrych mor ddifrifol. Mae'r haul yn gwenu. Mae stociau'r *bourse* yn codi. Mae'r mwnci bach del yma wedi mwynhau ei goffi....Does gen i ddim busnes preifat o bwys yn y byd.²²

Ai'r un fenyw sy'n cael ei phortreu? Er ei bod wedi sôn am y farchnad stoc, ni allwn ddirnad fod hon yn fenyw fusnes, yn hytrach ledi'r tŷ sy'n mwynhau siopa a phleserau bywyd. Er bod mwnci gan y Gowntes Ferraud yn stori Balzac, dim ond

Dydd da, *Monsieur* Derville,²³

a geir ganddi yno, nid man-siarad dibwys. Efallai mai bai'r arddull a'r cyfrwng yw hyn; oherwydd mae gan y Chabert gwreiddiol hefyd fwy o urddas na chyrnol Saunders Lewis. Roedd cymeriad Balzac yn un o'r teipiau o bobl ymylol hynny yn *La Comédie Humaine* oedd wedi dwyn sylw'r awdur - hen swyddog o'r fyddin a ymddygai fel petai o yno o hyd. Gŵr balch ydyw, gyda chadernid tawel, byddai'n well ganddo gadw'i hunan-barch a setlo am lai na'i haeddiant na gorfodi eraill i wneud unrhywbeth a fyddai'n boendod iddynt. Wrth ddarllen *Le Colonel Chabert*, dychmygwn fod ei bresenoldeb yn llenwi ystafell, gan annog y cyfreithiwr i gynnig ei helpu.

Nid yw cymeriad Derville ychwaith yng ngwaith Saunders Lewis yn adlewyrchu nodweddion cyfreithiwr Balzac. Pwysleisir ei brysurdeb yn y gwreiddiol, a disgrifir ef fel gŵr llwyddiannus a medrus, ond byr ei amynedd gyda chwsmeriaid; er hyn, disgrifir ei ddiddordeb yn y cyn-filwr yn llwyddiannus, a chawn ddeall pa mor anarferol ydyw iddo roi ei ffydd fel hyn

mewn dieithryn. Gwelwn ei fod yn gwneud rhywbeth sy'n hollol groes i'w natur wrth gynnig ei wasanaeth am ddim i'r gŵr dieithr, ond ni welwn unrhyw dystiolaeth o'r haelioni hwn yn yr addasiad Cymraeg. Ni chyfleir yma'r ysgogiad ar ran Derville i dderbyn y truan yn gleient a rhoi benthyc arian iddo, fel y ceir yng ngwaith Balzac - mae'n amlwg fod y cyfreithiwr yno wedi'i swyno gan Chabert. 'Dyw'r un sbarc ddim yn Derville Lewis; credwn ei bod yn arferol iddo roi ei ffydd mewn achosion afresymol a rhoi benthyc arian i gardotwyr y stryd, gan nad oes yma yr un mymryn o dystiolaeth i wrthbrofi hyn.

Un arall o ddiffygion drama Lewis yw fod y cyfrwng yn rhy gyfyng a byr i ddilyn y stori yn ei manylder - efallai mai dyma'r rheswm am y diffygion portreadu. Ni chawn wybod fod y Gowntes wedi ysbeilio cyfran go dda o eiddo ei gŵr cyntaf a'i guddio yn ei thŷ gwledig yn Groslay cyn rhannu'r cwbl yn ôl yr ewyllys. Ni wyddom fod ynnddi'r fath allu i dwyllo drwy ddarllen addasiad Saunders Lewis o'r stori, ac felly mae'n anos i'w gynulleidfa ddirnad gwir ddyfnder llid Chabert at ei wraig, y rheswm y mae'n ei dinoethi o flaen y cyfreithwyr. Esgyrn moelion sydd gan Lewis lle mae Cosmos wedi magu cnawd.

Er na ellir yn hollol deg gymharu fersiwn ffilm Yves Angelo â chynhyrchiad sain o'r Cyrnol Chabert oherwydd ffiniau caeth y radio; mae'n rhaid rhoi sylw pellach i ddelweddau'r cynhyrchiad Ffrangeg. Disgrifiais eis oes olygfa wych y frwydr; mae yma yn ogystal gymharu delweddol cryf a llwyddiannus.

Tra yng Ngroslay, gwelwn Chabert yn cerdded yn hamddenol, ond dan boen meddwl, drwy'r gerddi gwych wedi cael cipolwg ar blant ei gyn-wraig. Gwêl grëyr glas yn hedfan oddi ar ei nyth; â'r cynrol yn nes. Y mae tri wŷ yno, mae'n eu codi a'u rhoi yn ei law. Gwelwn ef yn troelli'r wyau rhwng ei fysedd a'u cuddio dan ei het. Dychwela'r aderyn, ond mae'n gwrthod dod yn ôl at y nyth wedi i'r dieithryn amharu ag ef. Y Cownt Ferraud yw'r crëyr glas - meddylia Chabert - a fydd yn ffoi ar ôl gweld olion un dieithr yn ei gartref. 'Does yr un gair yn cael ei yngan, a'r olygfa'n llwyddiant o'r herwydd.

Cadw at ddiwedd glo Balzac y mae Saunders Lewis, tra mae Jean Cosmos yn dilyn hynt a helynt y teulu Ferraud - ar ôl ei holl ymdrechion, colli ei gŵr fu

hanes Rosine, yntau'n ail-briodi i linach anrhydeddus - ei chosb, efallai, am wadu Chabert?

Credaf bod y ddau addasiad yn gryf, ill dau'n pwysleisio agweddau a manylion gwahanol o'r gwreiddiol. Efallai y byddai Lewis wedi gallu rhoi ychydig mwy o urddas i'w ddrama, gan mai dyna'r rheswm dros ragoriaeth addasiad Cosmos, ond gan fod angen i ddramâu radio fod yn llawer mwy syml y dyddiau yma i weddu i'r cyfnod "cyfleus" yr ydym yn byw ynddo, credaf mai ysgrifennu i'w gynulleidfa a wnaeth Saunders Lewis.

Dau gynhyrchiad yn unig o'r Cyrnol Chabert a fu ar radio'r B.B.C. - un ym 1968 a'r llall ar Ddydd Gŵyl Ddewi 1990 - yn ogystal â'r darlleniad a gafwyd gan yr awdur ohoni yn Ysgol Breswyl Lenyddol Gregynog ym Medi 1968. Yn anffodus, nid oes cofnod o'r darlleniad hwnnw ar dâp, er bod y ddau gynhyrchiad arall ar gael gan y B.B.C.

Drama seml ydyw, yn gweddu'n dda i gyfrwng y radio oherwydd nad oes llawer o ddigwydd ynddi, dim ond adrodd stori. Mae angen ychydig o effeithiau sain; rhai digon sylfaenol yw'r rheini - drysau'n agor a chau, sŵn traed, plant yn chwarae ac yn y blaen; felly nid tasg anodd fyddai cyflwyno cynhyrchiad graenus.

W.H. Roberts ydoedd Chabert 1968, Lindsay Evans y cyfreithiwr Derville. Cymerwyd rhan cyn-wraig y Cyrnol gan Gwenyth Petty, a Lorraine Davies oedd yn cyfarwyddo. Cychwyn y ddrama yw cyfarfod yn swyddfa'r cyfreithiwr Derville, ond yn lle plymio'n syth i'r digwydd, mae'r cynhyrchiad hwn yn dechrau gyda sŵn curo cyflym drymiau milwrol; dyfais i bwysleisio pwysigrwydd y rhyfel i'r ddrama. Cawn wedyn naratif byr i egluro lleoliad y digwydd:

Y flwyddyn 1817. Mae Napoleon ar ei ynys yn garcharor, ond Paris, nid Elba, yw lleoliad ein drama, a'r man cychwyn, swyddfa un o gyfreithwyr mwyaf blaenllaw y brifddinas.²⁴

Mae'r cyflwyniad yn datblygu'n weddus, gyda defnydd da o effeithiau sain, lle bônt yn briodol, clywn sŵn papur yn siffrwd yn swyddfa Derville, arwydd o brysurdeb y cyfreithiwr. Defnyddir cerddoriaeth yn ymylol rhwng y golygfeydd; dyfais ddefnyddiol i bwysleisio treigl amser neu newid mewn lleoliad.

Cedwir yn agos at sgript wreiddiol Saunders Lewis yn y cynhyrchiad hwn - braidd yn rhy glos mewn manau, gan fod W. H. Roberts, yng nghymeriad Chabert, yn frodor o'r gogledd, ac ymadrodd megis "fe fynnodd e" felly'n swnio'n chwithig ganddo. Pwysleisiodd Saunders Lewis yn rhageiriau Doctor ar ei Waethaf a Problemau Prifysgol bwysigrwydd y defnydd o Gymraeg safonol mewn llenyddiaeth, iaith nad yw'n ddeheuol nac yn ogleddol, ac yn y Gymraeg hon y mae'r mwyafrif o'i ddramâu wedi eu cyfansoddi. Er hyn, credaf y byddai'r awdur yn fodlon i actorion a chyfarwyddwyr addasu ychydig ar eiriau a dywediadau i weddu i dafodiaith yr actor. Ni wnaed hyn yma, ac yn anffodus, mae ymadroddion bychain yn taro ar glust y gwrandawr a thynnu ei sylw oddi wrth y ddrama.

Ar wahân i hyn, mae'r cymeriadau'n raenus ar y cyfan. Wrth gwrs, mae yma ychydig o feiau, fel ym mhob cynhyrchiad; ambell enghraifft o gam-ynganu ("maes y gwaed" yn hytrach na "maes y gad") ond tueddaf i feio hynny ar arferiad y B.B.C. o recordio drama gyflawn mewn un sesiwn fel oedd yn gyffredin yn y chwedegau a chynt oherwydd cost stiwdio a thâp. Mae Gwenyth Petty'n ardderchog yn rhan Madame Ferraud, yn ysgafn ei llais a llawen un funud, yn ofnus a thwyllodrus y nesaf. Ymddengys y Cyrnol yn ddiflas o'i gymharu â hi, ond rhaid ystyried y gwahaniaeth yn eu cymeriadau, sy'n sylweddol heblaw am yr olygfa yng Ngrosley pan yw'n colli ei dymer a tharo Delbecq (yn drawiadol iawn gyda defnydd penigamp o effeithiau sain i ddynodi taflu'r dodrefn).

Un peth y gellir ei farnu yma yw'r diffyg seibiau rhwng golygfeydd. Gan fod wythnosau a misoedd yn mynd heibio rhwng rhai o'r golygfeydd, dylid ceisio cyfleu hyn yn effeithiol, gan nad ydyw bob tro'n glir yn y ddeialog. Er gwaethaf hyn, mae hwn yn gynhyrchiad o safon, yn cyflwyno addasiad Lewis o stori Balzac yn synhwyrol a chynnil.

Trueni na bai hyn yn wir am gynhyrchiad 1990 o Y Cynol Chabert. Blêr yw'r unig air a ellir ei ddefnyddio'n weddus i ddisgrifio'r fersiwn hon, ar wahân i bortread grymus John Ogwen o'r Cynol yn ei wendid.

Cychwynna'r ddrama â chnoc ar y drws, a dyna'r unig effaith sain a glywn fwy neu lai drwy'r act gyntaf, ac os prin yr effeithiau, prinnach fyth yr emosiwn. Nid yw Derville yn synnu dim pan wêl y graith afiach ar ben y cwsmer od, ac mae ei agwedd dawel, ddi-gynnwrf yn bell iawn oddi wrth gyfreithiwr Balzac, sy'n wastad yn brysur, yn siarad yn unig pan fo rhaid, a'r hyn a ddywed yn gryno mewn tôn swyddogol. Nid oes mymryn o awdurdod yn perthyn iddo ym mhortread Tom Richmond¹; mae'n swnio'n debycach i seiciatrydd yn gofyn i gleient ddadlwytho ei broblemau nag i dwrnai. Ystyriaf yr olygfa lle mae'r dyn llefrith o hen Eifftiwr, Vergniaud (Eric Wyn) yn siarad ag ef am haelioni'r cynol: er fod y tlotyn yn ei alw'n "Syr", nid oes gwahaniaeth yn eu lleisiau, na math o awdurdod yn llais y cyfreithiwr.

Nid yw mwnci Madame Ferraud i'w glywed yn yr addasiad hwn ond mae digon o dystiolaeth o ffolineb y Gowntes yma hebdo. Nid oes dim yn gynnwyl ynghylch portread Maureen Rhys; ni chawn unrhyw dystiolaeth i'r actores ddeall ei chymeriad a'i chymhellion. Rhwir halen yn y briw wrth iddi gam-ynganu enwau'r cymeriadau eraill: "Derfil" yn lle "*Derville*" a "*Haiasunth*" yn lle'r ynganiad Ffrangeg cywir "*Iasânt*". Petai hyn ddim yn ddigon, mae Rhys yn ceisio gwneud peth nad yw'r un o'r actorion eraill yn ei geisio - creu awyrgylch Ffrengig drwy rowlio ambell i "r" yma ac acw.

Elfen arall chwerthinllyd i'r cynhyrchiad hwn yw'r gwffas rhwng Chabert a Delbecq yng Ngrosly. Soniais ynghynt am y diffyg effeithiau sain, gwelir hyn yn amlycach fyth yma. Nid cwffas, fel a gawn yng nghynhyrchiad Lorraine Davies, sydd yma, yn hytrach dwy slap fechan; yn gyffelyb i sŵn clapio dwylo ysgafn, a dim lluchio dodrefn. Mae gwaedd Delbecq fel gwaedd plentyn, er fod ymgais wan ganddo i swnio'n ofnus. O ystyried yr adnoddau technegol a oedd ar gael gan y B.B.C. ym 1990 mae'r annigonolrwydd hwn yn warthus.

I fod yn deg, mae John Ogwen yn ddi-fai yn y cynhyrchiad truenus; clywn ei deimladau drwy'r ffars yn gynnwyl ond effeithiol; ef sy'n arbed y

¹Ers y cynhyrchiad hwn, mae Tom Richmond wedi newid ei enw proffesiynol i Dafydd Dafis.

cynhyrchiad rhag tynnu enw Saunders Lewis i'r baw. Mae'n cynnig i'r gynulleidfa holl nodweddion Chabert Balzac - yr urddas a'r balchder yn cuddio haen o drueni a chywilydd oherwydd ei sefyllfa bresennol. Cyfleir anrhydedd yn wych gan Ogwen wrth i Chabert sylweddoli bwriad ei gyn-wraig tuag ato, ond yn anffodus cuddir llawer o hyn gan ddiffygion y perfformiad yn gyffredinol, ac ni fydd yn sioc imi farnu cynhyrchiad 1968 o Y Cynol Chabert fel yr un gorau.

Credaf y gellir cyrraedd y nod trwy wyro ychydig ar hanes ac ail-recordio'r ddrama gyda chast ac effeithiau 1968, ond â John Ogwen yn y brif ran yn lle W. H. Roberts. Byddai cynol Saunders Lewis felly'n cael y driniaeth sy'n haeddiannol iddo.

NODIADAU

1. Pennar Davies, "Saunders Lewis, Morality Playwright", o Triskel Two - Essays on Welsh and Anglo Welsh Literature gol. Sam Adams a Gwilym Rhys Hughes, Gwasg Christopher Davies, Llandybie, 1973, t. 26
2. Saunders Lewis, Amlyn ac Amig, Gwasg Gomer, Llandysul 1940
3. *ibid.* t. 196
4. *ibid.* t.153
5. R.O.F. Wynne, "Amlyn and Amig - an Appreciation" Dock Leaves Winter 1954, tt. 41-4
6. *op. cit.* 2, rhagair, t. 165
7. Sganar, "Radio a Theledu" Baner ac Amserau Cymru 6 Ionawr 1966
8. *ibid.*
9. Ann Ffrancon, "Sbec ar Bedwar C" Y Faner 9 Ionawr 1987, t. 2
10. Phil ap Iorwerth, "Sianel 4 Cymru - Gorbriso" Y Cymro 7 Ionawr 1987, t. 2
11. *ibid.*
12. *ibid.*
13. *op. cit.* 9
14. *ibid.*
15. Dafydd Glyn Jones, "Atgyfodi [sic, = Atgyfodiad] y Cyrnol", Llwyfan 4, gol. Wilbert Lloyd Roberts, (Cyngor Celfyddydau Cymru, Haf 1970) t.6
16. Wallace Fowlie, "Honoré de Balzac", French Literature - its History and its Meaning (Prentice-Hall Inc., 1973) t.154
17. Saunders Lewis, Y Cyrnol Chabert a 1938 (Gwasg Dwyfor, 1989) t.9
18. Honoré de Balzac, "Le Colonel Chabert", Livre de Poche 1964
19. *op. cit.* 17, t.35
20. *op. cit.* 18, t.207
21. *ibid.* t.208-9
22. *op. cit.* 17, t.21

23. op. cit.18, t.192
24. Y Cyrnol Chabert, sgript B.B.C. Radio Cymru, darll. 19 Rhagfyr 1968,
cynh. Lorraine Davies.

PENNOD 9:

YR ABSWRD

CELL Y GROG ac YN Y TRÊN

Credai Saunders Lewis wrth gyfansoddi'r ddrama radio hon mewn gwely ysbyty ym 1973 mai dyma fyddai ei ddrama olaf. Drama fer yw Cell y Grog, yn ffitio'n daclus i slot hanner awr ar y radio - perfformiwyd hi ar y cyfrwng hwnnw ar yr ail o Fawrth 1974, ychydig wythnosau'n unig ar ôl ei chwblhau, ond ni chyhoeddwyd hi tan 1975 pan ymddangosodd yn rhifyn mis Rhagfyr o Taliesin.

Mae'n ddrama bur wahanol i'r mwyafrif o'i weithiau eraill - gellir ei gosod yn yr un categori ag Yn y Tren (1965) - y ddwy ohonynt yn dangos dylanwad mudiad Theatr yr Abswrdd. Disgrifia Bruce Griffiths hi fel

...a black-comic sketch...¹

nid yn annhebyg i ddrama Beckett En Attendant Godot, drama y bu i Saunders Lewis ei chyfieithu i'r Gymraeg a'i chyhoeddi ym 1970 dan y teitl Wrth Aros Godot.

Un olygfa sydd i Cell y Grog, a honno mewn cell lle delir carcharor wrth iddo aros am amser ei grogi. Mae swyddog gydag ef i'w wylio, ac mae'r ddau yn chwarae gwyddbwyll ar ddechrau'r ddrama pan ymunwn â'r digwydd; y carcharor newydd golli'i frenhines. Eglura eu sgwrs drosedd y carcharor (ladd ei gariad) a'i gosb (crogi), ond y swyddog sy'n dal ein chwilfrydedd wrth iddo ymddwyn yn rhyfeddach a rhyfeddach wrth i'r ddrama ddatblygu - myn fod y ddau ohonynt yn ffeirio dillad a gwneud dawns y gloesen yn y gell. Yng ngwisg y carcharor, eistedd y swyddog yng nghadair y condemniedig, ac yno y mae pan ddaw rheolwr y carchar a'i staff i weithredu'r gosb. Maent yn mynd â'r swyddog at y crocbren ond cyn ei ladd, daw negesydd ar frys i ddatgan fod iddo bardwn gan y brenin. Llusgir ef, ar lun y carcharor, i gell y gwallgof wrth iddo geisio crogi'i hun tra â'r carcharor ymaith adref yn nillad y swyddog. Darganfyddwn mai hen lanc oedd y swyddog yn wahanol i'r hyn a honnodd, ac wrth i'r ddrama dynnu at ei therfyn, clywn ef yn ymbil am farwolaeth yn hytrach na charchar am oes.

Mae'r ddau gymeriad yn rhai od, ond o ddewis rhyngddynt, y llofrudd sydd fwyaf "normal". Er nad yw'n credu iddo haeddu ei gosb, y mae'n ymwybodol ei fod wedi gwneud rhywbeth o'i le; medd am ei achos llys -

Chredais i ddim am funud mai mwrdrad
fyddai'r cyhuddiad.²

gan awgrymu ei fod yn disgwyl cosb ysgafnach. Mae ei gasineb at ferched yn cael ei awgrymu yng ngeiriau cyntaf y ddrama;

..Pa ots os colla i'r frenhines....Fydd dim ond
dynion wedyn ar y bwrdd. Gwell byd o
lawer... I ddiawl a'r frenhines.³

a chrybwyllir y ffaith ei fod yn gyfangwbl o dan awdurdod ei gariad, a oedd yn ei gamdrin yn feddyliol. Gwelwn fod iddo dymer wyllt, ond nid oes tystiolaeth ei fod yn wallgof - deall yn iawn y gwahanieth rhwng da a drwg ac mae'n sylweddoli na ddylai fod yn gwisgo dillad y swyddog. Gwelwn arwydd o normalrwydd yn ei gymeriad wrth sylwi ar yr ofn sydd ganddo o'r crogi:

Ie...Crogi...Mae'r Ec-Er yna a'r O-eganodd eu
cael dros y daint...⁴

Nid oes gan y swyddog ar y llaw arall fymryn o ofn - mae'n edrych ymlaen yn sinistr at gael derbyn cosb y llall. Twylla'r carcharor er mwyn cael mynd at y crocbren; gan eistedd yng nghadair y condemniedig - gwallgofrwydd pur, a phortread Saunders Lewis ohono yn gynnil a chlyfar. Awgryma geiriau'r swyddog fesul ychydig fod rhywbeth o'i le arno, ond nid oes arwydd o ddifrifoldeb ei salwch tan ddiwedd y ddrama wedi i'r tensiwn adeiladu i'w anterth; ac o'r herwydd mae effaith cryfach ar y gynulleidfa na phetai'r gyfrinach wedi'i bradychu ynghynt.

Mae Cell y Grog wedi'i hysgrifennu yn yr un cywair ag En Attendant Godot - dau gymeriad yn siarad wrth aros am rywun nad yw'n cyrraedd. Dau gymeriad sydd yma hefyd, ond nid ydynt yn aros yn ofer. Cawn gip hefyd ar

thema Sartre yn Huis Clos, mai pobl eraill yw uffern - mae'r swyddog eisiau marw i gael terfyn ar ei fywyd unig; ond yn lle crogi, newidir y gosb i garchar am oes gan ei orfodi i fyw bywyd gwag mewn cell.

...pobl eraill yn y bôn, yw'r peth pwysicaf sydd gennym ni ynom ni ein hunain i ddod i'n hadnabod ein hunain.....Rydym ni'n ein barnu ein hunain gyda'r cyfryngau sydd gan bobl eraill, a'r cyfryngau y maen nhw wedi eu rhoi inni i'n barnu ein hunain.⁵

medd Jean Paul Sartre yn ei ragair i'w ddrama; gan nad oedd i'r swyddog wraig na chyfeillion, gwelai pobl eraill ef fel dyn tawel, unig. Dyna ymhen amser ydoedd ei ddelwedd ef ohono'i hun, a'r rheswm dros ei awydd i farw. Barn pobl eraill, felly, a'i symbylodd, a chreu iddo uffern ar y daear. Yn ôl Garcin, un o gymeriadau Sartre, ei gosb yw "bywyd di-dor"⁶ - mae'r un peth yn wir am y swyddog;

Nid pardwn ond artaith ydy'r newid,⁷

meddai; a chymeriad y swyddog yn rhagflaenu Garcin; ond bod un yng ngharchar y byw, y llall yng ngharchar y meirw.

Mae elfen ryfedd yn yr awydd i newid dillad - cred y swyddog y bydd yn etifeddu cymeriad y gwisgwr gyda'i ddillad:

...mae'r dillad a'r einioes yn un,⁸

meddai, ac yn ôl geiriau'r carcharor, gwnaeth ei orau i weddu i'r siwt:

...Ble'r aeth yr holl awdurdod, y sicrwydd?...Rhaid mai'r dillad ydy'r dyn...⁹

Mae'r newid dillad bron yn obsesiwn, fel yn Les Bonnes Jean Genet, lle gwelwn y morynion, Claire a Solange, yn gwisgo i fyny; Claire yn nillad y feistres a Solange hithau fel Claire. Ar ddechrau'r drama, ni wyddom yn sicr p'un yw

p'un, ac wrth dynnu at y diwedd glo (a'r chwirydd wedi methu ^â lladd eu meistres wrth ei gwenwyno) ni allant ddioddef gorfod bod yn hwy eu hunain felly mae'n rhaid marw. Mae Solange, fel cymeriad Claire, yn gweini'r te wedi'i wenwyno i'r feistres (Claire) a hithau'n marw felly. Ym meddwl Claire, y feistres fydd farw, nid hi'i hun, a chaiff hithau fyw ym mhen ei chwaer.

Marw fel rhywun arall, neu yn lle rhywun arall, yw bwriad y swyddog hefyd, yntau'n credu, fel y morynion, fod bywyd rhywun arall yn fwy diddorol na'i fywyd ef ei hun - math o hunan-gasineb ydyw ar ran Claire, Solange a'r Swyddog.

Mae'r ddrama Cell y Grog yn un hynod effeithiol a chrefftus. Darlledwyd hi am y tro cyntaf, yn wir, yr unig dro hyd yn hyn, ar Radio 4 Cymru, 2 Mawrth 1974 dan ofal Lorraine Davies. Gan ei bod yn ddrama mor syml, does dim llawer y gellir ei wneud â hi, a chredaf i Ms. Davies wneud cyfiawnder â'r sgript. Nid oes gormodedd o effeithiau sain, dim ond beth a nodir yng nghyfarwyddiadau'r awdur; hyn yn beth da, gan mai prif arf Saunders Lewis yn y ddrama yw'r defnydd o ddistawrwydd. Gellir dweud cymaint â saib ag mewn paragraff cyfan o ddeialog neu fonolog gydag amseru ac actio da; crewyd natur sinistr y swyddog fel hyn, a phortreir y carcharor hefyd gyda'r un cyfrwystra. Y mwya'n y byd o eiriau a ddefnyddir mewn drama a thensiwn ynddi fel hon, y lleia'n y byd o ystyr sydd iddynt - chwyddir eu heffaith o'u hamgylchynu â distawrwydd.

Arf arall dylanwadol yma yw pwyslais, yn enwedig gan John Ogwen yn rhan y carcharor. Wrth sôn am y cariad a laddodd, mae'r pwyslais chwerw a rydd ar y gair "hi" yn cyfleu'r holl gasineb a feithrinodd tuag ati yn ystod eu perthynas; ar y llaw arall, mae'r ysgafnder a geir yn ei lais wrth sôn am ei drosedd yr un mor effeithiol - chwyddir difrifoldeb y mwrdrad gan eglurhad ysgafn y carcharor o rwyddineb y dasg.

'Does fawr ddim newid ar y sgript wreiddiol yn y cynhyrchiad, heblaw ambell i air yma ac acw. Ni chynhwysir cyfaddefiad y swyddog fod ganddo wraig, felly mae ei glywed yn dweud "Ebrill" ar ôl oedi ychydig yn fwy effeithiol gan nad oedd wedi cadarnhau ei bodolaeth.

Mae lleisiau'r actorion yn chwarae rhan bwysig yn y ddrama, ond gydag un cam gwag. Nid ydym, fel cynulleidfa, yn ymwybodol o newid yn y swyddog ar ôl newid y dillad. Mae'n wir ein bod yn cael gwybod hyn gan y carcharor, ond os yw'r swyddog yn wir wedi cymryd mai ef yw'r llofrudd, efallai y byddai'n syniad iddo siarad dipyn yn llai ffurfiol - nid awgrymu'r ydwyf fod llofruddion yn dod o ddsbarth cymdeithasol isel, ond yn hytrach awgrymu ffordd o dangos y gwahaniaeth rhwng y swyddog go iawn a'r sawl yr hoffai fod.

Sylwais ynghynt nad oes yma lawer o effeithiau sain; oherwydd hyn disgwylir i'r effeithiau hynny a defnyddir fod o'r safon flaenaf, ond yn anffodus, difethir ychydig ar glo'r ddrama oherwydd diffyg ynddynt. Cynhwysir sŵn traed y carcharor yn cerdded o amgylch y gell wrth i amser y crogi agosáu, ond eto, nid ydyw'r newid a ddisgwylir ym mhellter y llais oddi wrth y meicroffon i'w glywed. Braidd yn ffug hefyd yw sŵn yr ymladd wrth i'r swyddog geisio rhoi'r rhaff am ei wddf ei hun; gwanheir awyrgylch sinistr gweddill yr olygfa, a gadewir y gynulleidfa yn fflat ar ddiwedd y cynhyrchiad, yn hytrach nag mewn sioc wedi sylweddoli twyll y swyddog.

Ar y cyfan, credaf fod hwn yn gynhyrchiad effeithiol a digon derbyniol o Cell y Grog - drama dda i'w darllen, ond nad yw yn llwyr daro deuddeg ar y radio. Ni fyddai'n gweithio fel stori fer ychwaith, gan y byddai angen disgrifiadau, ond fel drama fer deledu, yn yr un cywair â'r gyfres Saesneg Tales of the Unexpected, credaf y byddai'n llwyddiant.

Chwaer fach Cell y Grog yw'r ddrama fer Yn y Trên, ond ni olyga hynny ei bod hi'n syml. Hanes taith trên a gawn, taith rhwng Caerfyrddin ac Aberystwyth, ac wrth i'r teithiwr a'r gard siarad, daw yn amlwg nad yw'r un ohonynt yn siwr iawn pryd nac ymhle y mae'r daith yn dod i ben. Mae'r sgwrs rhwng y ddau yn od a dweud y lleiaf, gyda'r gard yn ceisio darganfod pa fath o docyn y mae'r teithiwr ei angen. Gwelwn fod y gard o'r farn fod y teithiwr yn ei lawn bwyll, ond annog Saunders Lewis ni yn Barn i ystyried y posibilrwydd fod y teithiwr yn gall a'r gard yn orffwyll. Nid ydym yn sicr beth i'w gredu, ac mae'r sgrïpt yn ein

tywys o amgylch rhai o gwestiynau mwyaf dyrys yr hil ddynol heb gynnig ateb; o'r herwydd mae Yn y Trên yn llwyddo fel rhan o genre'r Abswrdd.

Gallwn gymharu'r gwaith hwn eto ag Wrth Aros Godot; mae'r prif ddyllanwad ar y digwydd yn un cudd, ac ni wŷyr neb pryd y cyrhaedda'r cerbyd ben ei daith nac ychwaith a yw am aros mewn unrhyw orsaf. Taith gan Saunders Lewis ydyw i'r fan honno i'fle nad oes dim yn rhesymegol, i'r un tarddiad â drama Beckett y bu i Lewis ei chyfieithu ym 1970.

Darllledwyd Yn y Trên ar y radio ar 18 Mai 1965. Chwaraewyd rhan y teithiwr gan Dewi Williams a'r gard gan Wyn Thomas. Olive Michael oedd y Cyhoeddwr. Nid oes copi o'r cynhyrchiad wedi ei gadw gan y B.B.C., ond yn ôl tystiolaeth y sgript radio, ni fu ond ychydig wahaniaethau rhwng yr hyn a ddarllledwyd a'r hyn a gyhoeddwyd yn Barn ychydig fisoedd yn ddiweddarach. Cafwyd ychydig linellau ychwanegol yn y darllediad radio, megis wrth sôn am stesion Tregaron:

Teithiwr - Yr un fath ag yng Nghynwyl
Elfed?
Gard - Stesion fwy. Mae Tregaron yn dre
farchnad.

Newidwyd "ta waeth" y sgript radio yn "waeth befo" wrth gyhoeddi'r ddrama hefyd - tybed ai'r dramodydd a dybiodd fod yr amrywiadau hyn yn angenrheidiol wedi clywed ei waith ar yr awyr?

Ni wnaethpwyd unrhyw newidiadau mawr i'r ddrama gyda'r ychwanegiadau hyn, ac nid oes cofnod i'r cynhyrchydd ddefnyddio mwy na llai o effeithiau sain nag a nodwyd gan y dramodydd. Gresyn fod Yn y Trên yn ddrama mor fer - efallai y byddai mwy o gynhyrchu arni pe byddai iddi fwy o sylwedd.

NODIADAU

1. Saunders Lewis, Bruce Griffiths, Gwasg Prifysgol Cymru, Caerdydd
1989. t.67
2. Saunders Lewis, Cell y Grog, Taliesin 31, Rhagfyr 1975. tt.8-20(t.10)
3. *ibid.* t.8
4. *ibid.* t.9
5. Jean-Paul Sartre, Caeëdig Ddor, rhagair yr awdur, cyf. Richard T. Jones,
Cyfres Dramau'r Byd gol. Gwyn Thomas, Gwasg Prifysgol Cymru 1979
6. *ibid.* t.5
7. *op. cit.* 2. t.19
8. *ibid.* t.17
9. *ibid.* t.14

PENNOD 10:

CASGLIAD

CASGLIAD

O 1937 ymlaen, cawsom brofi dros drigain o gynhyrchiadau o waith Saunders Lewis ar y cyfryngau yng Nghymru, yn y Saesneg yn ogystal â'r Gymraeg. Cafodd ei ddramâu eu cyfieithu a'u darlledu mewn gwledydd eraill - mae tystiolaeth i Robert Wynne, Garthewin fod yn gyfrifol am drosi a darlledu rhai o'i ddramâu cynnar ar radio Iwerddon.

Ym mlynnyddoedd cynnar y gwasanaeth radio Cymraeg, anfynych y clywid drama wreiddiol ganddo ar y cyfrwng. Wedi'r cynhyrchiad cyntaf o waith Saunders Lewis, Buchedd Garmon ym 1937, bu'n rhaid aros deuddeg mlynedd am y nesaf, Blodeuwedd ar 11 Mai 1949, ond yn ail hanner y ganrif, ni bu bwlch mwy na phum mlynedd rhwng cynhyrchiadau o'i waith ar y radio neu'r teledu. Ystyriaf hyn yn gynrychiolaeth dda o bwysigrwydd ei waith i'n llenyddiaeth; ond nid yn adlewyrchiad o safon y cynyrchiadau.

Rhannaf y dramâu radio i ddau gategori amseryddol: cyn ac ar ôl 1982; rhaniad sy'n dynodi sefydlu S4C. Cyn hyn, cafwyd 27 cynhyrchiad ar y cyfrwng yn rhychwantu 35 mlynedd, oll yn unigryw yn null eu cyflwyno a'u hactio. Mae'r rhain yn ddramâu radio da, yn diwallu angen y cyfrwng am symrlrwydd. Gwelwn nad oedd y cynhyrchwyr yn gyffredinol yn defnyddio llu o effeithiau sain uchelgeisiol a dianghenraid, a'r actorion yn portreadu cymeriadau cryfion Saunders Lewis heb geisio rhoi rhyw wedd newydd arnynt. Yr unig fai ar y rhaglenni yw'r duedd ar ran y cynhyrchwyr i ddynodi dyfodiad ac *exit* pob cymeriad gyda sŵn traed a drws yn agor a chau - byddai defnyddio un o'r ddwy dechneg wedi bod yn ddigonol - ond roedd eu cymhelliad yn un teilwng; yr awydd i roi cymaint o wybodaeth ag oedd yn bosibl i'r gynulleidfa am y ddrama a'r cymeriadau. Mae defnydd y cynhyrchwyr cynnar o gerddoriaeth hefyd yn drawiadol, gyda cherddoriaeth glasurol yn boblogaidd yn hytrach nag ymgais y cynhyrchwyr diweddar i ychwanegu mwy o arwyddocâd i'r ddrama drwy ddefnyddio seiniau amhersain. Roedd sgript Saunders Lewis yn cael ei chyflwyno yn ei chyfanrwydd yn nyddiau cynnar drama radio Gymraeg, heb ymgais i symleiddio na gramadeg nac ystyr; a'r ddrama yn cael ei hystyried yn

ddarn o lenyddiaeth yn hytrach na chyfle i gyflwyno creadigrwydd y cynhyrchydd.

Un yn unig o'r dramâu a recordiwyd ar gyfer y radio rhwng 1969 a 1990. Rhwng dau gynhyrchiad o'r Cyrnol Chabert, clywyd yr unig ddarllediad o Cell y Grog yn y saithdegau, dwy ddrama na chawsant gymaint o sylw ar y cyfryngau â'r gweddill. Ystyriaf mai dylanwad S4C oedd yn gyfrifol am hyn - wedi cael addewid am sianel Gymraeg, roedd yn rhaid mynd ati i ddangos fod digon o gynnyrch yn yr iaith ar y teledu i gyfiawnhau'r fath benderfyniad. Yn yr un cyfnod, dangoswyd pedwar cynhyrchiad ar ddeg o waith Lewis ar y sgrîn fach; hynny yn cynnwys y dramâu a ail-ddarlledwyd mewn teyrnged iddo ym 1985. Ai am ei fod yn cael ei ystyried erbyn hynny yn un o'n dramodwyr mwyaf yr oedd ei gynnyrch yn cael ei glustnodi ar gyfer y cyfrwng gweledol?

Wedi sefydlu S4C ym 1982, bu newyn o safbwynt gwaith Lewis tan 1990; a hyd yn oed wedi hynny, roedd yn rhaid cael achlysur arbennig i gyfiawnhau darlledu un o'r dramâu ar y radio. Cawsom Y Cyrnol Chabert fel dathliad Gŵyl Ddewi a Siwan fel anrheg Nadolig yn y flwyddyn honno, a rhwng y Nadolig a'r Pasg ym 1993-4 cawsom wledd o bum cynhyrchiad i ddathlu canmlwyddiant geni'r dramodydd. Ar y cyfan, teimlaf na roddwyd digon o sylw wrth eu haddasu ar gyfer y cyfrwng i'r dramâu eu hunain fel llenyddiaeth, gan greu'r argraff eu bod wedi eu symleiddio yn ogystal â'u cwtogi. Mae hyn i'w weld yn Branwen (1994) lle y defnyddir naratif i egluro i ni destun Branwen y Mabinogi gan gymhlethu'r digwydd yn y rhannau hynny o'r ddrama sydd yn gwyro o'r chwedl wreiddiol. Mae'r cyflwyniadau hyn o'i ddramâu yn synhwyrol a'r cynhyrchwyr yn amlwg wedi defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf i'w rhoi i ni, ond anfantais yw'r datblygiadau hyn mewn gwirionedd. Mae'r peiriannau a ddefnyddir i ganoli lefel y sain ar y radio yn effeithiol wrth ddelio â rhaglenni sy'n cynnwys cerddoriaeth, gan atal y cyflwynydd rhag chwarae ei ddisgiau yn rhy uchel, a sefydlogi lleisiau; ond wrth gyflwyno drama radio, mae'n rhwystro cynhyrchydd rhag defnyddio effeithiau sain i'w llawn botensial.

Mae dramâu Saunders Lewis erbyn hyn yn adnabyddus i'r mwyafrif o'r bobl a fyddai yn gwrandao ar gyflwyniad ohonynt; ac er fod rhoi gweddnewidiad i'r testunau ar gyfer y nawdegau yn ymddangos yn syniad da, bydd y gynulleidfa

honno yn disgwyl cyflwyniad mwy traddodiadol. Gwell fyddai gadael yr arbrofi i gyfrwng gweledol y teledu.

Bu'r frwydr am sianel deledu Gymraeg yn un galed a maith, ac wedi'r penderfyniad, ni bu taw ar y dadlau. Honnodd y Mudiad Rhyddid Iaith ym 1981 y byddai S4C yn gwneud mwy o ddrwg nag o les i'r gymdeithas. Yn ôl adroddiad yn y Western Mail:

The movement's spokesman, Dr. Michael Hughes, a lecturer at the University College of Wales, Aberystwyth, said that a Welsh channel would encourage polarisation. "The very existence of the channel is a symbol of separation," he said.¹

Sefydlwyd S4C er gwaethaf agweddau negyddol fel hyn, a rhoddodd adroddiadau blynyddol y sianel ddarlun gloyw ohoni o'r cychwyn. Yn ôl ffigyrau yn y llyfryn S4C 1982 - 1987 - Teledu yng Nghymru, roedd Cymry Cymraeg yn defnyddio 14% o'r oriau yr oeddynt yn eu treulio o flaen y teledu i wyllo'r sianel yn nechrau 1985, ac arhosodd y nifer hwnnw yn sefydlog rhwng 10 a 12% hyd at 1987. Ar ddiwedd 1984, roedd 90% o'r gynulleidfa Gymraeg bosibl yn gwyllo S4C tra nad oedd ond hanner nifer posibl y gwylwyr di-Gymraeg yn ei gwyllo.² Roedd y penaethiaid felly wedi llwyddo i ddenu eu cynulleidfa, ond pa fath o raglenni oedd yn cael eu cynnig iddynt?

Dywed Adroddiad Blynyddol y sianel fod cyllid o 40 miliwn o bunnau yn angenrheidiol am y flwyddyn 1987-88, ond roedd cost y rhaglenni a ddarlledwyd gan y sianel 4 miliwn yn is (aeth 89.4% o gyfanswm y cyllid ar raglenni). Roedd y rhain yn cael eu cynhyrchu gan nifer o wahanol gwmnïau, yn cynnwys y B.B.C. a H.T.V., ac yn cynnwys pob categori o raglen. Darlledwyd dros 220 awr o gynnyrch hamdden yn y flwyddyn honno, ond llai na chan awr o ddrama, ychydig yn fwy o amser nag a roddwyd gan y sianel i ddigwyddiadau arbennig.³

Gwariwyd £39,921,000 ar raglenni y flwyddyn ganlynol, ond allan o 5,977 o oriau darlledu, dim ond 506 awr a 50 munud o gynnyrch Cymraeg a welwyd. Roedd cyfartaledd o'r munudau o S4C a wylwyd bob wythnos gan Gymry Cymraeg dros 150 yn ystod gaeaf 1988-89, gyda bron i ddwywaith cymaint o raglenni chwaraeon ar y sianel na drama.⁴

Yn Adroddiad Blynyddol 1989-90, dangoswyd cynnydd o 80 awr yng nghynnyrch newydd Cymraeg S4C, hynny yw heb fod yn ail ddarllediad, a'r ffigurau ar gyfer drama yn ymddangos yn uchel (148.35 awr y flwyddyn) o'u cymharu â rhaglenni addysg (10.55).

Credaf fod y ffigurau hyn yn gamarweiniol wrth ystyried drama ddifrif. Ychydig iawn o'r oriau a ddyfynnir sydd yn ffitio i'r categori hwn, gyda chyfresi drama ysgafn ac operâu sebon yn hawlio blaenoriaeth ers lansio'r sianel. Ni chawn bellach gynhyrchiadau o lenyddiaeth glasurol Cymru fel dramâu cyfain - rhoddir mwy o flaenoriaeth i ddramâu cyfres a chomisiynau newydd. Nid yw hyn yn beth drwg o gwbl, ond y canlyniad yw nad yw cynhyrchu dramâu fel rhai Saunders Lewis yn broffidiol. Y B.B.C. oedd i raddau helaeth yn gyfrifol am gynhyrchu ei weithiau cyn dyfodiad y sianel, ac roedd mantais ganddynt nad oedd yn rhaid meddwl am lwyddiant masnachol rhaglenni.

Roedd cyflwyniad teledu B.B.C. Cymru o ddramâu Saunders Lewis yn ddifai - dangoswyd 16 cynhyrchiad o'i waith ganddynt rhwng 1960 a 1978 a'r rheini o safon dderbyniol o ystyried cyfnod eu ffilmio, y dechnoleg a oedd ar gael a'r ffaith eu bod yn gorfod gwneud y tro â llawer llai o arian cyllid na sianelau B.B.C. Lloegr.

Yn ystod blynyddoedd cynnar S4C, ni chynhyrchwyd yr un o ddramâu Saunders Lewis; cafwyd cyfres o bedair drama ar achlysur ei farwolaeth, ond ail-ddarlledu cynnyrch y B.B.C. a wnaethpwyd. Dangoswyd Amllyn ac Amig ym 1986, ac er cystal y perfformiad, ni ellir gwadu mai rhaglen gymharol rad i'r sianel oedd hon gan mai cynhyrchiad coleg ydoedd. Cawsom Siwan wedi'r Nadolig yr un flwyddyn, yr unig gynhyrchiad o ddrama Lewis gan S4C nad oedd wedi ei hanelu a'r farchnad y ffilm yn hytrach na chynulleidfa deledu. Meddai John Hefin, cyfarwyddwr Cyngor Ffilm Cymru ym 1995:

Mae iaith ffilm yn wahanol iawn i ddrama deledu a phan maen nhw mewn sinema, mae'r gynulleidfa'n wahanol i'r bobl sy'n gwyllo'r teledu gartre'.....Mae'n mynd mewn i'r pen a'r galon ac mae mwy o obaith i'r peth lwyddo.⁶

Gwelwn yn arddull Blodeuwedd (1990) duedd tuag at y sinema gyda'r saethiadau llydan a'r munudau o ddistawrwydd, ac mae'r un peth yn wir am ddramâu hir eraill y cyfnod. Cafwyd mwy o lwyddiant ar y sgrîn fach gyda Sigaret? a Brad, ond er hyn, credaf mai siomedig fu cyfraniad S4C i'r gwaith o ddehongli dramâu Saunders Lewis.

Erbyn hyn, mae ein Gŵyl Ffilm Genedlaethol wedi cipio prif awduron a chyfarwyddwyr Cymru, a gadael S4C i chwarae â'r gweddillion. Er yn hwb i'n heconomi, mae'r diddordeb diweddar y mae gwneuthurwyr ffilmiau'r Amerig wedi ei ddangos yn nhirlun ein gwlad wedi gwneud mwy o ddrwg i'r ddrama deledu Gymraeg na dim arall. Mae'n wir fod ffilmiau megis August a Twin Town yn rhoi Cymru ar y map; oni byddai'n well petai S4C yn cynhyrchu dramâu cystal â hwy ar gyfer y teledu yn hytrach na chynilo i'w prynu?

Gwnaeth cyfryngau Cymru gyfiawnder â gwaith Saunders Lewis hyd at 1982, gan gyflwyno ei ddramâu â'r bri sy'n haeddiannol iddynt. Ni fu cymaint o gynulleidfa wedi hynny i gynnyrch o'r fath, a dyletswydd Radio Cymru ac S4C yw diwallu anghenion eu cynulleidfa. Mae oes aur Saunders Lewis ar y cyfryngau wedi mynd - ni all bellach gynnig dramâu comisiwn i'r B.B.C. nac ychwaith syfrdanu cynulleidfaedd â'i newydd-deb.

Mae'r rhaglenni sydd wedi eu cadw yn gronicl addas o driniaeth y cyfryngau o waith Saunders Lewis - triniaeth deg, onid cyson.

NODIADAU

1. dienw, “Welsh TV channel ‘could be misused’” Western Mail 18 Chwefror 1981
2. S4C, 1982 - 1987 - Teledu yng Nghymru - Y Diwydiant Newydd, Caerdydd 1987
3. Adroddiad Blynyddol S4C, 1987 - 1988, t. 15 - 25
4. ibid. 1988 - 1989, t, 10, 29
5. ibid. 1989 - 1990, t. 27
6. Robyn Tomos, “Ble mae’r ffilm Gymraeg?” Golwg 2 Tachwedd 1995, tt. 13-5

ATODIAD

DARLLEDIADAU

Allwedd: R - Radio
T - Teledu
S - Darllediad Saesneg
A/dd - Ail-ddarllediad
D/G - Darllediad du a gwyn
D/R - Dyddiad Recordio ar gael yn unig
CPA / CPB - Coleg Prifysgol Aberystwyth / Bangor

1.	1 Mawrth 1937	<u>Buchedd Garmon</u>	R
2.	11 Mai 1949	<u>Blodeuwedd</u>	R
3.	14 Ebrill 1950	<u>Doctor ar ei Waethaf</u>	R
4.	15 Rhagfyr 1950	<u>The Christmas Candle</u>	R (S)
5.	17 Ionawr 1951	<u>Eisteddfod Bodran</u>	R d/r
6.	21 Medi 1951	<u>The Lion And The Owl</u>	R (S)
7.	24 Rhagfyr 1952	<u>The Christmas Candle</u>	R (S)
8.	1 Mawrth 1954	<u>Siwan</u>	R
9.	16 Mai 1955	<u>Siwan</u>	R (S)
10.	19 Hydref 1955	<u>The Eve of St. John</u>	R (S)
11.	24 Rhagfyr 1955	<u>Amlyn ac Amig</u>	R
12.	23 Mawrth 1956	<u>Gymerwch Chi Sigaret?</u>	R
13.	10 Ionawr 1957	<u>Serch Yw'r Doctor</u>	R
14.	1 Mawrth 1957	<u>Buchedd Garmon</u>	R
15.	1 Mai 1958	<u>Buchedd Garmon</u>	R
16.	13 Tachwedd 1958	<u>Brad</u>	R
17.	12 Ebrill 1959	<u>Treason</u>	R (S)
18.	18 Tachwedd 1959	<u>Esther</u>	R
19.	1 Mawrth 1960	<u>Love's the Doctor</u>	R (S)
20.	1 Mawrth 1960	<u>Siwan</u>	T d/g (S)

21.	Hydref 1960	<u>Esther</u>	T
22.	1 Hydref 1960	<u>Siwan</u>	R (S)
23.	27 Gorffennaf 1961	<u>Esther</u>	T d/g (S)
24.	12 Rhagfyr 1961	<u>Blodeuwedd</u>	R
25.	8 Mawrth 1962	<u>Excelsior</u>	T d/g
26.	2 Ebrill 1962	dilewyd ail-ddarllediad o <u>Excelsior</u>	T d/g
27.	30 Ebrill 1963	<u>Gymerwch Chi Sigaret?</u>	R a/dd 1956
28.	1 Mawrth 1965	<u>Blodeuwedd</u>	T
29.	18 Mai 1965	<u>Yn Y Trên</u>	R
30.	11 Hydref 1965	<u>Gymerwch Chi Sigaret?</u>	R
31.	24 Rhagfyr 1965	<u>Amllyn ac Amig</u>	T
32.	16 Tachwedd 1967	<u>Cymru Fydd</u>	T
33.	29 Chwefror 1968	<u>Brad</u>	T
34.	4 Mawrth 1968	<u>The Inheritance</u>	R (S)
35.	23 Mai 1968	<u>Merch Gwern Hywel</u>	R
36.	28 Hydref 1968	<u>Problemau Prifysgol</u>	T
37.	19 Rhagfyr 1968	<u>Y Cyrnol Chabert</u>	R
38.	4 Mawrth 1969	<u>Siwan</u>	T
39.	2 Mawrth 1970	<u>Esther</u>	T d/g
40.	1 Mawrth 1971	<u>Branwen (comisiwn)</u>	T
41.	16 Hydref 1973	<u>Dwy Briodas Ann</u>	T
42.	2 Mawrth 1974	<u>Cell y Grog</u>	R
43.	26 Mawrth 1976	<u>Merch Gwern Hywel</u>	T
44.	17 Mawrth 1978	<u>1938</u>	T
45.	9 Mawrth 1980	<u>Blodeuwedd (CPA)</u>	T
46.	1 Hydref 1985	<u>Brad</u>	T d/g a/dd 68
47.	8 Hydref 1985	<u>Dwy Briodas Ann</u>	T a/dd 73
48.	15 Hydref 1985	<u>Esther</u>	T d/g a/dd 70
49.	22 Hydref 1985	<u>Merch Gwern Hywel</u>	T a/dd 76
50.	24 Rhagfyr 1986	<u>Amllyn ac Amig(CPB)</u>	T
51.	28 Rhagfyr 1986	<u>Siwan</u>	T
52.	7 Mai 1989	<u>Branwen</u>	R d/r

53.	1 Mawrth 1990	<u>Blodeuwedd</u>	T
54.	1 Mawrth 1990	<u>Y Cynol Chabert</u>	R
55.	25 Rhagfyr 1990	<u>Siwan</u>	R
56.	1 Mawrth 1992	<u>Sigaret?</u>	T
57.	2 Tachwedd 1993	<u>Gymerwch Chi Sigaret?</u>	R d/r
58.	5 Rhagfyr 1993	<u>Esther</u>	R d/r
59.	18 Rhagfyr 1993	<u>Blodeuwedd</u>	R d/r
60.	23 Ionawr 1994	<u>Cymru Fydd</u>	R
61.	26 Mawrth 1994	<u>Merch Gwern Hywel</u>	R d/r
62.	22 Mawrth 1994	<u>Branwen</u>	R
63.	1 Mawrth 1994	<u>Brad / 1938</u>	T
64.	31 Rhagfyr 1994	<u>Branwen</u> (addasiad Gareth Meils)	T
65.	21 Chwefror 1995	<u>Problemau Prifysgol</u>	R

MANYLION Y DARLLEDIADAU

Blodeuwedd

Radio'r B.B.C., 11 Mai 1949

Cyfarwyddwr - Dafydd Gruffydd

Blodeuwedd - Lorraine Davies

Llew - Huw Griffith

Penteulu - Prysor Williams

Gwydion - Meredith Edwards

Gronw Pebr - Wyn Thomas

Rhagnell - Olive Michael

Radio'r B.B.C., 12 Rhagfyr 1961

Cynhyrhydd - Emyr Humphreys

Blodeuwedd - Siân Phillips

Llew - Emyr Jones

Penteulu - Noel Owen Williams

Gwydion - Glanffrwd James

Gronw - Gwyn Thomas

Rhagnell - Olive Michael

Teledu'r B.B.C., *1 Mawrth 1965

Cyfarwyddwr - Emyr Humphreys

Blodeuwedd - Nerys Hughes

Llew - Ray Smith

Penteulu - Stewart Jones

Gwydion - Dillwyn Owen

Gronw - Philip Madoc

Rhagnell - Josephine Price

Teledu B.B.C. Cymru, 9 Mawrth 1980

Cynhyrhydd - John Hefin

Blodeuwedd - Siwan Jones

Llew - Alun Edwards

Penteulu - Emyr Davies

Gwydion - Guto Eirian

Gronw - Gari Owen

Rhagnell - Marion Williams

Ffilmiau Bryngwyn ar gyfer S4C, 1 Mawrth 1990

Cynhyrchydd / Cyfarwyddwr - Siôn Humphreys

Blodeuwedd - Catherine Tregenna Gwydion - Guto Roberts

Llew - Llion Williams Gronw - Dafydd Emyr

Penteulu - Maldwyn John Rhagnell - Nia Williams

Radio Cymru, 15 Rhagfyr 1993 (dyddiad recordio).

Cynhyrchydd - Aled P. Jones

Blodeuwedd - Morfudd Hughes Gwydion - J.O. Roberts

Llew - Huw Garmon Gronw - Dafydd Emyr

Penteulu - Dyfan Roberts Rhagnell - Nia Williams

Siwan

(A King's Daughter) Teledu'r B.B.C., d/g 1 Mawrth 1960

Cyfieithydd / Cynhyrchydd - Emyr Humphreys

Siwan - Siân Phillips Gwilym - Peter O'Toole

Llywelyn - Clifford Evans Alis - Diana Noar

Teledu'r B.B.C., 4 Mawrth 1969

Cynllunydd - Julian Williams

Cynhyrchydd - Dafydd Gruffydd

Siwan - Gwenyth Petty Gwilym - Clive Roberts

Llywelyn - Conrad Evans Alis - Myfanwy Talog

Teledu S4C, 28 Rhagfyr 1986

Cynhyrchydd / Cyfarwyddwr - Siôn Humphreys

Siwan - Iola Gregory Gwilym - Bryn Fôn

Llywelyn - Mei Jones Alis - Mari Rowland Hughes

Radio'r B.B.C., 25 Rhagfyr 1990

Cyfarwyddo / Addasiad - Ceri Sherlock

Siwan - Iola Gregory

Gwilym - Bryn Fôn

Llywelyn - Mei Jones

Alis - Mari Rowland Hughes

Esther

Radio'r B.B.C., 18 Tachwedd 1959

Cynhyrhydd - Emyr Humphreys

Esther - Siân Phillips

Haman - Clifford Evans

Ahasferus - Wyn Thomas

Mordecai - Meredith Edwards

Teledu'r B.B.C., 27 Gorffennaf 1961 (Saesneg)

Cyfieithydd - Elwyn Jones

Esther - Margaret Whiting

Haman - William Devlin

Mordecai - Clifford Evans

Teledu'r B.B.C., 12 Mawrth 1970 d/g

Cynhyrhydd - George P. Owen

Esther - Lisabeth Miles

Haman - Conrad Evans

Mordecai - Stewart Jones

Ahasferus - David Lyn

Harbona - Geraint Wyn Davies

Radio Cymru, 5 Rhagfyr 1993 (dyddiad recordio)

Cynhyrhydd - Lyn Jones / Eleri Hopcyn

Esther - Judith Humphreys

Haman - Dafydd Emyr

Mordecai - Stewart Jones

Harbona - Huw Garmon

Branwen

Teledu'r B.B.C., 1 Mawrth 1971 d/g

Cynllunydd - Julian Williams

Cynhyrchydd - George P. Owen

Branwen - Lisabeth Miles

Bran - Stewart Jones

Manawydan - Dillwyn Owen

Nisien - Frank Lincoln

Efnisien - Clive Roberts

Matholwch - Brinley Jenkins

Trostan - David Lyn

Mar - Dic Hughes

Cormac - Geraint Wyn Davies

Gwern - Ceri Townsend

Radio Cymru, 22 Mawrth 1994

Cynhyrchydd - Aled P. Jones

Branwen - Nia Williams

Efnisien - Maldwyn John

Nisien - Grey Evans

Matholwch - Dafydd Hywel

Trostan - Ifan Huw Dafydd

Bran - John Ogwen

Gymerwch Chi Sigaret?

Radio'r B.B.C., 23 Mawrth 1956

Cynhyrchydd - Emyr Humphreys

Iris - Siân Phillips

Phugas - Hugh Griffith

Christopher - Wyn Thomas

Marc - Meredith Edwards

Calista - Gwenyth Petty

Radio'r B.B.C., 18 Hydref 1965

Cyfarwyddwr - Herbert Davies

Iris - Annet William

Phugas - Glanffrwd James

Christopher - Brinley Jenkins

Marc - Ryan Davies

Calista - Nesta Harris

Teledu, Ffilmiau'r Tŷ Gwyn, 1 Mawrth 1992

Addasiad - Harri Pritchard Jones

Cyfarwyddwr - Gareth Wynn Jones

Iris - Morfudd Hughes

Phugas - John Ogwen

Marc - Eryl Phillips

Calista - Marged Esli

Christopher - Dewi Rhys
Müller - Robin Griffith

Krechlen - Wyn Bowen Harries
Offeiriad - Alun Elidir

Radio Cymru, 2 Tachwedd 1993

Cynhyrhydd - John Owen

Iris - Rhian Morgan

Marc - Daniel Evans

Phugas - Dyfan Roberts

Calista - Myfanwy Talog

Christopher - Seiriol Tomos

Brad

Radio'r B.B.C., 13 Tachwedd 1958

Addasydd / Cynhyrhydd - Emyr Humphreys

Else - Siân Phillips

Hofacker - Richard Burton

Stuelpnagel - Meredith Edwards

Albrecht - Emlyn Williams

Linstow - Huw David

Blumentritt - Gareth Jones

(Treason) Teledu'r B.B.C. 12 Ebrill 1959 d/g

Cyfieithydd - Elwyn Jones

Cynhyrhydd - Emyr Humphreys

Else - Siân Phillips

Albrecht - Kenneth Griffith

Stuelpnagel - Bernard Archard

Hofacker - Donald Houston

Linstow - Alex Scott

von Kluge - Clifford Evans

Teledu'r B.B.C. 29 Chwefror 1968 d/g

Cynllunydd - Pauline Harrison

Cynhyrhydd - George P. Owen

Else - Gwenyth Petty

Hofacker - Lindsay Evans

Albrecht - Philip Madoc

Stuelpnagel - Brinley Jenkins

Kluge - Conrad Evans

Blumentritt - Dillwyn Owen

Linstow - Islwyn Morris

Teledu'r Tŷ Gwyn, 1 Mawrth 1994

Sgript - Harri Pritchard Jones

Golygydd y Ffilm - Huw Griffiths

Cerddoriaeth - Richard Elfyn Jones

Cynhyrchydd / Cyfarwyddwr - Gareth Wynn Jones

Else - Mari Rowland Hughes

Hofacker - Cefin Roberts

Albrecht - Robin Griffith

Hitler - Dyfan Roberts

Kluge - J.O. Roberts

Stuelpnagel - Lindsay Evans

Stauffenberg - Dafydd Emyr

Linstow - Huw Tudor

Beck - Noel Williams

Fromm - Griff Williams

Blumentritt - Ifan Huw Dafydd

Keitel - Grey Evans

Boineberg - Trefor Selway

Olbricht - Clarence Jones

Rommel - Yoland Williams

Manstein - Gwyn Jones

Amlyn ac Amig

Teledu'r B.B.C., 24 Rhagfyr 1965

Cyfarwyddwr - Dafydd Gruffydd

Miwsig - Arwel Hughes

Amlyn - Meredith Edwards

Amig - Dillwyn Owen

Belisent - Beryl Williams

Bardd - Dic Hughes

Ffŵl - Huw Tudor

Archangel - Wyn Thomas

Teledu, Ffilmiau'r Nant, 24 Rhagfyr 1986

Cynhyrchiad Cymdeithas y Ddrama Gymraeg ac Adran Ddrama Coleg Prifysgol

Cymru, Bangor.

Cyfarwyddwr - Wil Aaron

Cynhyrchydd - William R. Lewis

Amlyn - Dafydd Emyr

Amig - Bleddyn Huws

Belisent - Nia Roberts

Bardd - Ion D. Thomas

Ffŵl - Arwel Gruffydd

Archangel - Llinos Edwards

Dwy Briodas Ann

Teledu'r B.B.C., 16 Hydref 1973

Cynhyrhydd - George P. Owen

Ann - Myfanwy Talog

Syr John Bulkeley - Stewart Jones

Richard Walter - Dic Hughes

Lowri - Beryl Williams

Henry Griffith - Charles Williams

John Elias - J.O. Roberts

Mrs. King - Dilys Davies

Mrs Edwards - Rachel Thomas

Merch Gwern Hywel

Radio 4, 23 Mai 1968

Cynhyrhydd - Lorraine Davies

Mrs. Jones - Nesta Harris

John Roberts - Charles Williams

Sarah Jones - Lisabeth Miles

Mrs. Elias - Iona Banks

William Roberts - John Ogwen

Teledu'r B.B.C., 26 Mawrth 1976

Cynhyrhydd - George P. Owen

William Roberts - John Ogwen

Sarah Jones - Lisabeth Miles

John Roberts - Guto Roberts

John Elias - J.O. Roberts

Mrs. Elias - Myfanwy Talog

Mrs. Jones - Elen Roger Jones

Cadwaladr Williams - Robin Griffith Dr. Jones - Gareth Lewis

Thomas Jones - W.H. Roberts

Henry Rees - Huw Tudor

Radio Cymru, 26 Mawrth 1994 (dyddiad recordio)

Cynhyrhydd - Eleri Hopcyn

Sarah Jones - Nia Williams

John Elias - Dyfan Roberts

William Roberts - Huw Garmon

Mrs. Elias - Bethan Dwyfor

Mrs. Jones - Christine Pritchard

John Roberts - Noel Williams

Dr. Jones - Alun Elidir

Cadwaladr Williams - John Glyn Owen

Y Cynrol Chabert

Radio'r B.B.C., 19 Rhagfyr 1968

Cynhyrchydd - Lorraine Davies

Chabert - W.H. Roberts

Mme. Ferraud - Gwenyth Petty

Boucard - Emyr Jones

Derville - Lindsay Evans

Delbecq - Cynddylan Williams

Verginiaud - Huw Ceredig Jones

Radio Cymru, 1 Mawrth 1990

Cynhyrchydd - Aled P. Jones

Chabert - John Ogwen

Mme. Ferraud - Maureen Rhys

Boucard - Yoland Williams

Derville - Tom Richmond

Delbecq - Edwin Williams

Verginiaud - Eric Wyn

Problemau Prifysgol

Teledu Harlech, 28 Hydref 1968

Cynhyrchiad Cwmni Theatr Cymru

Cynhyrchu - Wilbert Lloyd Roberts a Huw Davies

Sara - Beryl Williams

Ffioretta - Gaynor Morgan Rees

Paul - Morien Phillips

Sam - Mably Owen

Radio Cymru, 21 Chwefror 1995

Cynhyrchydd - Lyn Jones

Gwen - Carys Gwilym

Harri - Rhys Bleddyn

Sara - Eluned Jones

Sam - Iwan Tudor

Syr Gamaliel - Owen Garmon

Ffioretta - Gaynor Morgan Rees

Paul - Gwyn Vaughan

Buchedd Garmon

Radio'r B.B.C., 2 Mawrth 1937

Cynhyrchydd -

Garmon - W.H. Roberts

Lupus - Islwyn Thomas

Paulinus - Stephen J. Williams

Padrig - D. Haydn Davies

Illtud - Gwilym Williams

Porthor - D. Moses Jones

Adroddwr - Dilys Griffiths Davies

Excelsior

Teledu'r B.B.C. 1 Mawrth 1962 d/g

Cynhyrchydd - D.J. Thomas

Dot Huws - Annest William

Magi Huws - Nesta Harris

Huw Huws - Ieuan Rhys William

Cris Jones - Huw Tudor

Dic Sarc - Glanffrwd James

Cymru Fydd

Teledu, 16 Tachwedd 1967

Cynhyrchydd - Wilbert Lloyd Roberts

Dewi - John Hughes

John Rhys - Conrad Evans

Mrs. Rhys - Emily Davies

Bet - Lisabeth Miles

(The Inheritance) Radio'r B.B.C., 4 Mawrth 1968

Cyfieithiad - Elwyn Jones

Cynhyrchydd - Lorraine Davies

John Rhys - Maurice Denham

Dora - Rhoda Lewis

Bet - Meg Wyn Owen

Dewi - David Buck

Cwnstabl Jones - Ray Handy

Inspector - Michael David

Radio Cymru, 23 Ionawr 1994

Cynhyrchydd - John Owen

Dewi - Richard Lynch

Bet - Nia Williams

John Rhys - Geraint Eckley

Dora - Manon Eames

Evans yr Inspector - Gwyn Vaughan

1938

Teledu'r B.B.C., 17 Mawrth 1978

Cynhyrchydd - George P. Owen

Cynllunydd - Alan Taylor

Hitler - David Lyn

Beck - Charles Williams

Oster - Stewart Jones

Hilda - Christine Pritchard

Brauchitsch - Meredith Edwards

Halder - Islwyn Morris

Witzleben - Guto Roberts

Schacht - Dic Hughes

Yn y Trên

Radio'r B.B.C., 18 Mai 1965

Cynhyrchu - Emyr Humphreys / Meirion Edwards

Cyhoeddwr - Olive Michael

Gard - Wyn Thomas

Teithiwr - Dewi Williams

Cell y Grog

Radio, 22 Ionawr 1974 (dyddiad recordio)

Cynhyrchu - Lorraine Davies

Carcharor - John Ogwen

Gard - Frank Lincoln

LLYFRYDDIAETH ADOLYGIADAU'R WASG O
DDARLLEDIADAU RADIO A THELEDU O
WAITH SAUNDERS LEWIS

1. Gwrandawr, "Darllediad da o Flodeuwedd" Baner ac Amserau Cymru 18 Mai 1949, t. 5
2. Y Beirniad, "Nodion Radio" BAC, 4 Ebrill 1956, t. 5 (Gymerwch Chi Sigaret?)
3. Saunders Lewis, "Drama ar gyfer Gŵyl Ddewi" Radio Times 22 February 1957 (Buchedd Garmon)
4. Dienw, "Ystrydebau o Lundain" BAC 7 Mawrth 1957, t. 4 (Buchedd Garmon)
5. Gohebydd Arbennig, "Recordiau o Farddoniaeth a Dramâu Cymraeg" BAC 30 Ionawr 1958, t. 3
6. Dienw, "Actorion amlwg yn Brad" BAC 13 Tachwedd 1958, t. 4
7. Banerwr, "Radio a Theledu" BAC 20 Tachwedd 1958, t. 4 (Brad)
8. ibid., 16 Ebrill 1959 (Treason)
9. Paul Ferris, "Cambrian Junkers" The Observer 15 March 1959 (Brad)
10. Meic, "Gwyllo a Gwrandu" Y Cymro 26 Tachwedd 1959, t. 4 (Esther)
11. Banerwr, "Radio a Theledu" BAC 26 Tachwedd 1959, t. 5 (Esther)
12. Darlun clwr BAC 25 Chwefror 1960 (Siwan)
13. Meic, "Gwyllo a Gwrandu" Y Cymro 10 Mawrth 1960, t. 3 (Siwan)
14. Radled, "Radio a Theledu" BAC 10 Mawrth 1960, t. 5 (Siwan)
15. Meic, "Gwyllo a Gwrandu" Y Cymro 20 Hydref 1960, t. 3 (Esther Saes.)
16. ibid., 20 Gorffennaf 1961, t. 3 (Esther)
17. Hwntw, "Radio a Theledu" BAC 20 Gorffennaf 1961 t. 4 (Esther)
18. ibid., 27 Gorffennaf 1961, t. 4 (Esther)
19. Dienw, "Theatr Dewi Sant" BAC 27 Gorffennaf 1961
20. Darlun clwr BAC 14 Rhagfyr 1961 (Blodeuwedd)
21. Sganar, "Radio a Theledu" BAC 21 Rhagfyr 1961, t. 5 (Blodeuwedd)

22. ibid., 8 Mawrth 1962, t. 4 (Excelsior)
23. Meic, “Gwyllo a Gwrando” Y Cymro 8 Mawrth 1962, t. 3 (Excelsior)
24. Mrs. S.J. Hughes, “Atal Drama Deledu” BAC 19 Ebrill 1962 (Excelsior)
25. Eric Wynne Roberts, “Beirniadu Excelsior” BAC 26 Ebrill 1962, t. 5
26. dienw, “Y BBC yn ymddiheuro am ddrama Saunders” Y Cymro d.d. (1962) (Excelsior)
27. dienw, “Gymerwch Chi Sigaret?” Radio Times 25 April 1963, t. 26
28. ibid., t. 32
29. dienw, adolygiad radio o Gymerwch Chi Sigaret? Y Cymro 9 Mai 1963, t. 20
30. Daniel, “Siom” BAC 7 Mai 1964 (Merch Gwern Hywel)
31. Darlun clawr, Radio Times 25 February 1965 (Blodeuwedd)
32. Emyr Humphreys, “Y Ferch a Grewyd o Flodau” ibid. t. 19
33. Meic, “Gwyllo a Gwrando” Y Cymro 25 Chwefror 1965, t. 19 (Blodeuwedd)
34. ibid., 11 Mawrth 1965, t. 15
35. Clywel, “Radio a Theledu” BAC 4 Mawrth 1965 (Blodeuwedd)
36. dienw, “People in Masks” Caernarvon and Denbigh Herald March 1965, t. 8 (Blodeuwedd)
37. dienw, “Dewis y Terminws” Radio Times 13 May 1965, t. 35 (Yn y Tren)
38. Clywel, “Radio a Theledu” BAC 27 Mai 1965, t. 4 (Yn y Tren)
39. Saunders Lewis, “Cariad Pur” Radio Times 14 October 1965 (Gymerwch Chi Sigaret?)
40. Dafydd Gruffydd, “Amlyn ac Amig” Radio Times 16 December 1965, t. 48
41. Sganar, “Radio a Theledu” BAC 6 Ionawr 1966 (Amlyn ac Amig)
42. Perspex, “Several Plays” Caernarvon and Denbigh Herald and North Wales Observer November 1967 (Cymru Fydd)
43. Edward Rees, “Yr Allanolyn” Y Cymro 21 Medi 1967 (Cymru Fydd)
44. Meic, “Gwyllo a Gwrando” Y Cymro 16 Tachwedd 1967, t. 14 (Cymru Fydd)
45. Sganar, “Radio a Theledu” BAC 23 Tachwedd 1967, t. 5 (Cymru Fydd)

46. Arfon, "Brad to be shown on Welsh T.V. Western Mail 20 February 1968
47. dienw, "Brad gan Saunders Lewis Radio Times 22 February 1968, t. 50
48. Cymro, "Germany in Cardiff" Liverpool Daily Post February 1968
49. Aneirin Talfan Davies, "The Inheritance" Radio Times 29 February 1968
50. Rhestr cast a darlun, The Inheritance, Radio Times February 1968
51. dienw, "Merch Gwern Hywel" Radio Times 9 May 1968
52. Meic, "Gwyllo a Gwranddo" Y Cymro 16 Mai 1968, t. 14 (Merch Gwern Hywel)
53. J.L.M. "Radio a Theledu" BAC 23 Mai 1968, t. 4 (Merch Gwern Hywel)
54. Gwilym R. Jones, "Saunders Lewis yn chwipio'r Brifysgol" Television Weekly 11 July 1968 (Problemau Prifysgol)
55. dienw, adolygiad teledu o Problemau Prifysgol Y Cymro 7 Tachwedd 1968, t.16
56. Sganar, "Radio a Theledu" BAC 7 Tachwedd 1968, t. 4 (Problemau Prifysgol)
57. cartŵn a rhestr cast Y Cyrnol Chabert Radio Times Rhagfyr 1968
58. dienw, "Siwan gan Saunders Lewis" Radio Times 27 February 1969
59. sganar, "Radio a Theledu" BAC 13 Mawrth 1969 (Siwan)
60. dienw, "Merch Gwern Hywel" Radio Times 5 June 1969
61. dienw, rhestr cast a llun Esther Radio Times 26 February 1970, t. 25
62. Eco, "Troeon yr Yrfa" Y Cymro 11 Mawrth 1970, t. 22 (Esther)
63. J.L.M. "Radio a Theledu" BAC 12 Mawrth 1970, t. 5 (Esther)
64. dienw, "Branwen Ferch Llŷr" Radio Times 25 February 1971
65. Eco, "Branwen - uchafbwynt teledu" Y Cymro 10 Mawrth 1971, t. 4
66. J.L.M. "Radio a Theledu" BAC 11 Mawrth 1971, t. 4 (Branwen)
67. Aneirin Talfan Davies, "Ar ymyl y Ddalen - Gwobr Nobel i Gymro?" Barn Ebrill 1971, tt. 169-70
68. Orthicon, "Radio a Theledu: Croesawu'r Llewod" Y Cymro 25 Awst 1971, t. 4
69. Orthicon, "Radio a Theledu: Oll yn eu gynau duon" Y Cymro 22 Rhagfyr 1971, t. 4
70. Charles Huws, "Radio a Theledu" BAC 15 Mawrth 1973, t. 2 (Branwen)

71. *ibid.*, 6 Gorffennaf 1973 (Siwan)
72. *dienw*, rhestr cast a llun Dwy Briodas Ann Radio Times 11 October 1973, t. 50
73. Islwyn Ffowc Elis, “Fflat, fflat a fflat!” Y Cymro 25 Hydref 1973, t. 4 (Dwy Briodas Ann)
74. Charles Huws, “Radio a Theledu” BAC 26 Mawrth 1976, t.1 (Merch Gwern Hywel)
75. Rhestr cast a llun 1938 Radio Times 27 February 1978, t. 43
76. Jennie Eirian Davies, “Radio a Theledu: Wythnos i’w Chofio” Y Cymro 7 Mawrth 1978, t. 4 (1938)
77. Charles Huws, “Radio a Theledu” Y Faner 17 Mawrth 1978, t. 4 (1938)
78. Jennie Eirian Davies, Golygyddol, Y Faner 2 Mawrth 1979, t. 2 (Esther)
79. T. James Jones, “Garmon Garmon” Y Faner 19 Hydref 1979, t. 19
80. *dienw*, disgrifiad o gynhyrchiad o Blodeuwedd Y Cymro 4 Mawrth 1980
81. Darlun clawr o Blodeuwedd Y Faner 7 Mawrth 1980
82. John Rowlands, “Siwan fel Blodeuwedd” Y Faner 21 Mawrth 1980, tt. 18-9
83. *dienw*, “Y Deyrnged Fwyaf” Y Cymro 25 Medi 1985, t. 2 (Cyfres goffa)
84. Cynwil Williams, “Soffocles, Silfanus, Saunders” Barn Hydref 1985
85. *dienw*, “Myfanwy yn Ann” Y Cymro 2 Hydref 1985, t. 2
86. Meinir Pierce Jones, “Sianel 4 Cymru” Y Cymro 9 Hydref 1985, t. 2 (Brad)
87. *dienw*, “Ar radio a Theledu” Y Cymro 9 Hydref 1985, t. 2 (Esther)
88. *op. cit.* 86, 16 Hydref 1985, t. 2 (Dwy Briodas Ann)
89. Einir Davies, “Sbec ar Bedwar C” Y Faner 18 Hydref 1985, t. 21 (Dwy Briodas Ann)
90. *op. cit.* 86, 23 Hydref 1985, t. 2 (Esther)
91. *dienw*, “Safbwynt” Barn Tachwedd 1985, T. 423 (Merch Gwern Hywel)
92. Shân Wyn Siencyn, adolygiad o Esther a Merch Gwern Hywel ar y teledu, Y Faner 8 Tachwedd 1985, t. 21
93. *dienw*, “Sylwedd Saunders” Sbec 20 Rhagfyr 1986 t. 17 (Amllyn ac Amig / Siwan)

94. dienw, "Ail sgwennu drama Saunders" Y Cymro 31 Rhagfyr 1986, t. 1
(Gymerwch Chi Sigaret?)
95. Phil ap Iorwerth, "Gorbrasio" Y Cymro 7 Ionawr 1987, t. 2 (Amlyn ac Amig / Siwan)
96. Ann Ffrancon, "Sbec ar Bedwar C" Y Faner 9 Ionawr 1987, t. 2 (Amlyn ac Amig / Siwan)
97. dienw, "Cynrol Saunders ar y radio" Y Cymro 28 Chwefror 1990, t. 8
98. dienw, "Cynhyrchiad Trawiadol Blodyn" Y Cymro 28 Chwefror 1990, t. 8
99. dienw, "Y Ferch a Wnaed yn Ffilm - rhoi Blodeuwedd Saunders Lewis ar y teledu" Golwg 1 Mawrth 1990
100. dienw, "Delwedd Merch y Maes" Sbec 1 Mawrth 1990 (Blodeuwedd)
101. Sian Gwenllian, "Eileen nid Blodeuwedd" Golwg 8 Mawrth 1990
102. Meg Elis, "Llifogydd a Gwledd" Golwg 8 Mawrth 1990 (Y Cynrol Chabert)
103. Iwan Llwyd, "Ein Natur Gyntefig" Y Cymro 14 Mawrth 1990, t. 6
(Blodeuwedd)
104. Elin Mair, "Salwch Mawr y Geidwadaeth Ddiwylliannol" Y Faner 16 Mawrth 1990 (Blodeuwedd)
105. Delyth George, "Anadlu Einioes i Blodeuwedd" Barn Ebrill 1990 t. 48
106. Siwan Jones, "Siwan, Marged, Beti" Golwg 10 Ionawr 1991, t. 29
107. Lisa Lewis, "Rhy Debyg i'r Ddrama" Barn Ionawr/Chwefror 1992, tt. 77-8 (Sigaret?)
108. Liz Davies, "Pan mae Caru a Chasau yn Agos" Sbec 29 Chwefror 1992
(Sigaret?)
109. Iwan Llwyd, "Y Mwg Cyn y Tân" Golwg 12 Mawrth 1992, t. 27
(Sigaret?)
110. dienw, "Edrych Ymlaen at Frad" Y Cymro 30 Mehefin 1993, t. 6
111. Ian Parry, "Brad ar y teli / Gwisgo'r Almaenwyr" Y Cymro 16 Chwefror 1994, t. 13
112. Len Jones, "Brad ar ben Brad" Golwg 24 Chwefror 1994, t. 30

113. dienw, "Tyngu llw, tynged cenhedloedd" Sbec/TV Wales 26 Chwefror 1994, tt. 12-3 (Brad / 1938)
114. dienw, "Pigion yr Wythnos" Y Cymro 13 Ebrill 1994, t. 8 (Merch Gwern Hywel)
115. Ioan Williams, "Darlledu Saunders" Barn Mai 1994, tt. 24-6 (Brad / 1938)
116. David Berry, Wales and Cinema - the First Hundred Years University of Wales Press, 1994, tt. 337-8 (sylwadau ar gynhyrchiad teledu Blodeuwedd 1990)

LLYFRYDDIAETH DRAMÂU SAUNDERS LEWIS

1. Dwy Gomedï, Gwasg Gee, Dinbych 1952
2. Siwan a Cherddi Eraill, Llyfrau'r Dryw, Llandybïe 1955
3. Gymerwch Chi Sigaret?, Llyfrau'r Dryw, Llandybïe 1956
4. Brad, Llyfrau'r Dryw, Llandybïe 1958
5. Esther a Serch yw'r Doctor, Llyfrau'r Dryw, Llandybïe 1960
6. Merch Gwern Hywel, Llyfrau'r Dryw, Llandybïe 1964
7. Blodeuwedd, Gwasg Gee, ail argraffiad, Mehefin 1965
8. Yn y Tren, Barn, Awst 1965, tt. 274-6
9. Problemau Prifysgol, Llyfrau'r Dryw, Llandybïe 1968
10. Dramâu'r Parlwr, Gwasg Christopher Davies, Llandybïe 1975
11. Cell y Grog, Taliesin 31, Rhagfyr 1975, tt. 8-20
12. Amlyn ac Amig, Gwasg Gomer, trydydd argraffiad, Ionawr 1976
13. Excelsior, Gwasg Christopher Davies, Abertawe 1980
14. Cyrnol Chabert a 1938, Gwasg Dwyfor 1989

LLYFRYDDIAETH GYFFREDINOL

1. Abraham, Claude, Jean Racine, Twayne Publishers, a division of G.K. Hall & Co., Boston 1977
2. Allen, Robert C. (Ed.), Channels of Disclosure, Routledge, London & New York 1987
3. Ash, William, The Way to Write Radio Drama, Elm Tree Books / Hamish Hamilton Ltd. 1985
4. Bain, A.D., The Growth of Television Ownership in the United Kingdom Since the War, Cambridge University Press 1964
5. Balzac, Honoré de, trans. George B. Ives, Honorine, pp.129-228, Caxton, London 1897
6. Barnwell, H.T., The Tragic Drama of Corneille and Racine, Clarendon Press, Oxford 1982
7. Belson, William A., The Impact of Television - Methods and Findings in Program Research, Crosby Lockwood & Son Ltd., London 1967
8. Bentley, Eric, The Life of the Drama, Methuen & Co., London 1964
9. Berbiers, John D., "Two Schools of Thought Recall the Plot Against Hitler" Liverpool Daily Post, 29 August 1963
10. Berry, David, Wales and Cinema - The First Hundred Years, University of Wales Press 1994
11. Bragg, Melvyn, "The Glory of Speaking in Tongues" The Guardian, 11 June 1992
12. Brandt, George W. (Ed.), British Television Drama, Cambridge University Press, Cambridge etc. 1981
13. Brenton, Geoffrey, Principles of Tragedy - A Rational Examination of the Tragic Concept in Life and Literature, Routledge & Keegan Paul, London 1968

14. Brooks, Cleanth, Tragic Themes in Western Literature, Yale University Press, New Haven and London 1955
15. Brown, Ivor, adolygiad ar Brad mewn cyfieithiad Saesneg, The Listener, 16 April 1959
16. Bryant, Steve, The Television Heritage (The Broadcasting Debate Series No. 4), The British Film Institute 1989
17. Busfield Jr., Roger M., The Playwright's Art: Stage Radio Television, Motion Pictures, Greenwood Press Publishers, Westport, Connecticut 1958
18. Cassell's New German Dictionary, Cassell 1957
19. Clark, Lawrence Gordon, "The Germans Who Hated Hitler" Radio Times, 11 July 1968
20. Commission of the Social Morality Council, The Future of Broadcasting - A Report Presented to the Social Morality Council, Eyre Methuen, London 1973
21. Corrigan, Robert W. (Ed.), Comedy: Meaning and Form, New York University, Chandler Publishing Company 1965
22. Crissell, Andrew, Understanding Radio, Methuen London and New York 1986
23. Crossman, R.H.S., "The Plot To Kill The Fuehrer" The Observer Weekend Review, 19 July 195?
24. Crow, Brian, Studying Drama, Longman, Essex 1983
25. Cumberbatch, Guy & Howitt, Dennis, A Measure of Uncertainty: The Effects of the Mass Media, John Libbey, London, Paris 1989
26. Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, S4C - Pwy Dalodd Amdani?, Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, Aberystwyth 1985
27. idem., Teledu Cymru i Bobl Cymru, Aberystwyth, 1977(?)
28. idem., Darlledu Yng Nghymru: Pam nad yw'r Dyn yn Siarad Cymraeg? Aberystwyth, 197?
29. Cymro, "Drama at the National Eisteddfod" Liverpool Daily Post, 18 June 1968
30. idem., "College Drama at Carmarthen" *ibid.*, d.d.

31. idem., "The Only Genius in Contemporary Drama" *ibid.*, 15 July 1966
32. idem., "Reading Before Seeing" *ibid.*, d.d.
33. idem., "A National Theatre at the Third Attempt?" *ibid.*, 17 January 1967
34. Cyngor Celfyddydau Cymru, Adroddiad Blynyddol am y Flwyddyn hyd at 31 o Fawrth 1970,
35. *ibid.*, 1972
36. *ibid.*, 1978
37. Davies, Aneirin Talfan, "Ar Ymyl y Ddalen, Cymru Fydd" Barn, Ionawr 1968
38. idem., "Noddi'r Celfyddydau" *ibid.*, d.d.
39. Davies, Geraint T., "Lewis Shows Harsh Facts of Wales" Western Mail, August 1967
40. Davies, Geraint Talfan, Darlledu a'r Celfyddydau yng Nghymru Broadcasting and the Arts in Wales, Cymdeithas Celfyddydau Gogledd Cymru 1994
41. Davies, Hazel Walford, Saunders Lewis a Theatr Garthwin, Gwasg Gomer, Llandysul Gorffennaf 1995
42. idem., "Saunders Lewis a Theatr Garthwin" Ysgrifau Beirniadol XXI, gol. J.E. Caerwyn Williams, Gwasg Gee 1996
43. Davies, Jennie Eirian, "Ymlaen am Theatr" Baner ac Amserau Cymru, 14 Rhagfyr 1967, t. 4
44. Davies, John, Broadcasting and the B.B.C. in Wales, University of Wales Press, Cardiff / B.B.C. 1994
45. Davies, Pennar, Saunders Lewis: Ei Feddwl a'i Waith, Gwasg Gee, Dinbych, Awst 1950
46. idem., "Saunders Lewis: Morality Playwright" Triskel Two, Sam Adams & Gwilym Rees Hughes (eds.) No. 19, Llandybie 1973, tt. 26-41
47. dienw, "Dramâu yr Eisteddfod" Baner ac Amserau Cymru, 22 Awst 1956, t. 3
48. dienw, "Nodion o Lerpwl" *ibid.* 7 Tachwedd 1956
49. dienw, "Gŵyl Ddrama Pwllheli - Y Cwch a Ddaeth i'r Lan" *ibid.*, 25 Ebrill 1957, t. 6

50. dienw, "Blodeuwedd yn Nhreforus" *ibid.* 27 Mehefin 1957, t. 8
51. dienw, "Rhy Hwyr i Achub Theatr" *ibid.*, 12 Medi 1957, t. 8
52. dienw, "Saunders Lewis a'r Blaid yn anghytun ar gwestiwn Bara neu Harddwch" Y Cymro, 14 Awst 1958
53. dienw, "Gŵyl Ddrama Genedlaethol" *ibid.*, 13 Awst 1959
54. dienw, "Theatr i Gymru o'r Diwedd?" *ibid.*, 6 Ebrill 1961, t. 1
55. dienw, "Theatr i'r Genedl" *ibid.*, 13 Ebrill 1961, t. 5
56. dienw, "Y B.B.C. yn Ymddiheuro am Ddrama Saunders" Y Cymro, Mawrth 1962, t. 1
57. dienw, "Gymerwch Chi Sigaret?" Radio Times, 25 April 1963, t. 26
58. dienw, "Cynhadledd Caredigion Taliesin: Cyfle creadigol i Radio a Theledu" Baner ac Amserau Cymru, 23 Ebrill 1964
59. dienw, "Anghytuno Ynghylch y Theatr Genedlaethol" *ibid.*, 13 Awst 1964, t. 8
60. dienw, "Cystadleuaeth Adolygu Drama Blodeuwedd" *ibid.*, Mawrth 1965
61. dienw, "Esther yn Abertawe" Baner ac Amserau Cymru, 11 Mawrth 1965, t. 1
62. dienw, "Newydion o T.W.W." Baner ac Amserau Cymru, 21 Hydref 1965
63. dienw, "B.B.C. 2 to go all colour - some day" Liverpool Daily Post, 17 March 1966
64. dienw, "Yn Nes at Theatr Genedlaethol" Baner ac Amserau Cymru, 28 Ebrill 1966, t. 7
65. dienw, "4,250 more can now get Welsh I.T.V." Television Weekly, 26 July 1967
66. dienw, "Harlech T.V. 'must try to unite Wales'" Television Weekly, d.d.
67. dienw, "Gŵyl Ddrama Genedlaethol Cymru" Baner ac Amserau Cymru, 5 Hydref 1967, t. 7
68. dienw, "The Inheritance" *ibid.*, 1968
69. dienw, "The Germans Who Hated Hitler" *ibid.*, 11 July 1968
70. dienw, "T.V. Channels to go colour in November" Liverpool Daily Post, 16 May 1969, t. 11

71. dienw, “Y bocs yn y gornel yn lladd y Gymraeg”, Baner ac Amserau Cymru, 14 Gorffennaf 1972, t. 3
72. dienw, Llun a cast Dwy Briodas Ann, Radio Times, 11 October 1973, p. 50
73. dienw, “Welsh T.V. essential for future of the language” Liverpool Daily Post, 3 August 1974
74. dienw, “Welsh fourth channel a must if language is to survive” *ibid.*, 22 November 1974, t. 3
75. dienw, “Centre for Welsh language theatre” *ibid.*, 7 July 1975, t. 11
76. dienw, “Welsh T.V. channel may be axed” *ibid.*, 18 July 1975
77. dienw, “Welsh T.V. Channel could be misused” Western Mail, 18 February 1981
78. dienw, “A Necessary Figure” T.V.Times, Medi 1985
79. dienw, “Teyrnged i Saunders Lewis” *ibid.*, Medi 1985, t. 64
80. dienw, “Y Proffwyd Perfffaith” *ibid.*, 13 Chwefror 1992
81. dienw, “Welsh T.V. Continues” Western Mail, 1 Tachwedd 1995
82. dienw, “Scotland’s Debt to the Welsh” *ibid.*
83. Drakakis, John (Ed.), British Radio Drama, Cambridge University Press 1981
84. Drummond, Phillip, Patterson, Richard, Willis, Janet (Eds.), National Identity and Europe - The Television Revolution, British Film Institute 1993
85. Edwards, Emyr, “Dramâu Eisteddfod Llangefni” Baner ac Amserau Cymru, 22 Awst 1957, t. 8
86. idem., “Saunders Lewis the Dramatist” Wales, October 1958, t. 39-42
87. idem., “Llais o’r Llenni: Theatr Fach Llangefni” Baner ac Amserau Cymru, 9 Tachwedd 1961, t. 6
88. idem., “Lle i Gael Dramâu Cymraeg” *ibid.*, d.d.
89. idem., “Theatr i’r Genedl” *ibid.*, 18 Ionawr 1962
90. idem., “Siwan gan Saunders Lewis” Barn, Mai 1966
91. *ibid.*, (parhad) Mehefin 1966
92. idem., Llawlyfr Actio, Gwasg Gomer, 1970

93. idem., “Y Ddrama Radio” Baner ac Amserau Cymru, 22 Mehefin 1979, t. 19
94. idem. (Gol), Theatr y Cyfryngau, Gwasg Christopher Davies, Abertawe, 1979
95. idem., “Y Ddrama - Cyfraniad y Radio” Baner ac Amserau Cymru, 5 Hydref 1979, t. 18
96. Edwards, H.W.J., “The Meaning of Treason” Liverpool Daily Post, 26 March 1967
97. Egri, Lajos, The Art of Dramatic Writing, Simon and Schuster Inc. 1946, 1960
98. Eisenstein, Sergei M., The Film Sense, Trans. Jay Leyda, Faber & Faber, London and Boston 1943, Reprinted 1977
99. Elis, Meg, “Anadl ac Awel Iach” Golwg, 11 Mai 1989, t. 27
100. Erfyl, Gwyn (Gol), Radio Cymru: Detholiad o Raglenni Cymraeg y B.B.C. 1934 - 1989, Gwasg Gomer 1989
101. Esslin, Martin, The Field of the Drama - How the Signs of Drama create Meaning on Stage and Screen, Methuen Drama, London etc. 1987
102. Evans, Beriah Gwynfe, The Welsh Historical Drama and How to Produce It, Caernarvon 1904
103. Evans, Elsbeth, Y Ddrama yng Nghymru, Cyfres Pobun XIII gol. E. Tegla Davies, Gwasg y Brython, Lerpwl 1947
104. Evans, Elwyn, Radio: A Guide to Broadcasting Techniques, Barrie & Jenkins 1977
105. Evans, Gwynfor, Y Radio yng Nghymru, Gwasg y Brython, Lerpwl 1944
106. idem. & J.E. Jones, HTV in Wales - Television in Wales, Plaid Cymru, Cardiff 196?
107. Feder, Lillian, The Handbook of Classical Literature, Arthur Baker Ltd. 1964
108. Fishlock, Trevor, “The man who lit the torch that set the whole of Wales alight” The Times, 4 September 1976, p. 12
109. Fitzpatrick, Mary B., “No More Welsh TV Please!” Liverpool Daily Post, 9 March 1976

110. *ibid.*, 9 Ionawr 1987, t. 2
111. G.D., “Lewis rocks - and Laughs” Western Mail, 8 August 1968
112. *idem.*, “A geir drama Saunders Lewis yn Abertawe?” *ibid.*, 3 Medi 1958, t. 1
113. *idem.*, “Taith i Brad yn nes ymlaen - Awgrym Miss Myra Owen” *ibid.*, 18 Medi 1958, t. 1
114. *idem.*, “Anghytuno ynghylch y Theatr Genedlaethol” *ibid.*, 2 Chwefror 1967, t. 2
115. Gray, Ann, Video Playtime - The Gendering of a Leisure Technology, Routledge, London & New York 1992
116. Griffiths, Bruce, “His Theatre” Presenting Saunders Lewis, Alun R. Jones & Gwyn Thomas (Eds), Caerdydd 1973, tt. 79 - 92
117. *idem.*, Saunders Lewis, Cardiff University of Wales Press 1989
118. Griffiths, J. Gwyn, “Saunders Lewis” Gwŷr Llên, Aneirin Talfan Davies (Gol), Llundain 1948, t. 121 - 41
119. *idem.*, Barddoneg Aristoteles, Gwasg Prifysgol Cymru, Caerdydd 1978
120. Grisham, John, A Time To Kill, Arrow, London etc. 1989
121. Gwynn, Harri, “Peri i gynhyrhydd ac actor ddefnyddio termau Cymraeg” Y Cymro, d.d.
122. *idem.*, “Y ffilm neu’r teledu yw’r cyfrwng gorau i’r ddrama hon” *ibid.*, d.d.
123. *idem.*, “Nofel benignamp am briodi o serch ac nid o ddyletswydd” *ibid.*, d.d.
124. Hannan, Patrick (Ed), Wales in Vision - The People and Politics of Television, Gwasg Gomer / B.B.C. Cymru 1990
125. Harries, Wyn Bowen, “Gymerwch Chi Unicum?” Golwg, 20 Chwefror 1992, tt. 22-4
126. Hart, Olive Ely, The Drama in Modern Wales, University of Pennsylvania, Philadelphia 1928
127. Higgins, A.P., Talking About Television, The British Film Institute, Education Department, London 1966

128. Hood, Stuart (Ed), Behind the Screens - the Structure of British Television in the Nineties, London 1994
129. Horstmann, Rosemary, Writing for Radio (Second Edition), A&C Black, London 1991
130. Horton, Andrew S. & Magretta, Joan, Modern European Filmmakers and the Art of Adaptation, Frederick Ungar Publishing Co., New York, 1981
131. Howarth, W.D.(Ed), Comic Drama - The European Heritage, Methuen & Co. Ltd. 1978
132. H.T.V. Wales, The Fourth Channel in Wales - a Statement by H.T.V. Wales, Gwasg Gomer, Llandysul 1979(?)
133. Hughes, G.M., “Prif gymeriad y ‘Brad’ - 40 mlynedd wedi’r ymdrech i ladd Hitler” Y Faner, 6 Gorffennaf 1986, tt. 12-3
134. Hughes, Glyn Tegai, Teledu a’r Celfyddydau / Television and the Arts, North Wales Arts Association, Aberystwyth 1982
135. Hughes, S.J., “Atal Drama Deledu” Baner ac Amserau Cymru, 19 Ebrill 1962
136. Humphreys, Emyr, Bwrdd Datblygu Teledu Cymraeg, Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, Hydref 1977
137. *ibid.*, 26 Hydref 1973, t. 2
138. Ifans, Dafydd (Gol.), Annwyl Kate, Annwyl Saunders, Gohebiaeth 1923 - 1983, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth 1993.
139. Jarvis, Branwen, “Saunders Lewis, Apostol Patriarchaeth” Ysgrifau Beirniadol VIII, gol. J.E. Caerwyn Williams, Gwasg Gee 1974
140. Jones, Angharad Lloyd, “Dramâu Saunders Lewis” Barn 285, Hydref 1986, tt. 362-3
141. *idem.*, “Y Dewisiadau yng Ngwaith Saunders Lewis” Barn 286, Tachwedd 1986, t. 407
142. Jones, Bedwyr Lewis, Llongddrylliad y ‘Marchioness of Anglesea’ 1818, Anglesey Antiquarian Society and Field Club (Reprinted from Transactions 1965)
143. Jones, Bobi, “Dramâu Saunders Lewis”, Barn, 85, Tachwedd 1969, tt. 10-11

144. idem., "Tair Gwraig Saunders Lewis" *ibid.*, 86, Rhagfyr 1969, tt. 41-3
145. idem., "ABC Ewrop", *ibid.*, 87, Ionawr 1970, tt. 66-7
146. idem., "Triawd y Gymru Gyfoes" *ibid.*, 88, Chwefror 1970, tt. 98-9
147. Jones, Dafydd Glyn, "Agweddau ar Ethos y Dramâu" Saunders Lewis, gol.D.Tecwyn Lloyd & Gwilym Rees Hughes, Christopher Davies, Abertawe 1975, tt. 178-195
148. idem., "Pedair Drama Boliticaidd" Ffenics, Gwanwyn 1962, tt. 16- 28
149. idem., "Brad Saunders Lewis" Barn, Mehefin 1968, tt. 219-22
150. idem., "Theatr Drama a Llenyddiaeth" Baner ac Amserau Cymru, Awst / Medi 1968
151. idem., "Atgyfodi y Cyrnol" Llwyfan 4, Haf 1970, tt. 6-9
152. idem., "Saunders Lewis a Thraddodiad y Ddrama Gymraeg" *ibid.*, Gaeaf 1973, tt. 1-12
153. idem., "Agwedd ar Thema Blodeuwedd", Ysgrifau Beirniadol VII, gol. J.E. Caerwyn Williams, Gwasg Gee, Dinbych 1972/3, tt. 209-34
154. idem., "Y Ddrama Ryddiaith" Y Traddodiad Rhyddiaith yn yr Ugeinfed Ganrif, Gwasg Gomer, Llandysul, 1976
155. idem., "Golygu Dramâu Saunders Lewis" Taliesin 96, Gaeaf 1996
156. Jones, Dewi Llwyd, "Dim i ymfalchïo ynddo gyda chelfyddyd y ddrama - ond diolch am freichiau tadol yr Eisteddfod" Baner ac Amserau Cymru, 8 Awst 1956, t. 5
157. idem., "Anghytuno yngylch Dramâu" *ibid.*, 16 Hydref 1958, t. 7
158. idem., "Gŵyl Ddrama Llangefni" *ibid.*, 1 Hydref 1959, t. 4
159. Jones, Eifion Lloyd, Byd y Teledu, Gwasg Gomer 1989
160. Jones, Elis Gwyn, "Coed a Drama" Y Cymro, 30 Tachwedd 1967
161. Jones, Gareth William, "Gymerwch Chi Sigaret?" Barn 291, Ebrill 1987, tt. 140-1
162. Jones, Gwilym R., "Beth yw Prif Angen ein Drama?" Baner ac Amserau Cymru, 5 Hydref 1955, t. 3
163. idem., "Gwisg well i lyfrau Cymraeg?" Television Weekly, 6 July 1967, t. 16

164. Jones, Parchedig H., Cofiant y Parch. W. Roberts, Amlwch, Lewis Jones, Llanerchymedd 1919
165. Jones, Harri Pritchard, "Yr Awdur Cymraeg a'r Anghenfil Traflyncus" T.V. Times, d.d., t. 60
166. idem., Y Meddwl Modern: Freud, Gwasg Gee, Dinbych 1982
167. idem., "Saunders Lewis o Safbwynt cyd-Babydd" Barn 273, Hydref 1985, t. 379
168. Jones, J.R., "Cymru Fydd" Barn, Ionawr 1969
169. Jones, Morris, "Anelu at Theatr Genedlaethol" Baner ac Amserau Cymru, 14 Tachwedd 1956, t. 5
170. Jones, R. Gerallt, "Rhaglenni Mewn Dyfnder" ibid., 5 Ionawr 1979, t. 21
171. Jones, T. James, "Y Ddrama ar y Radio" Baner ac Amserau Cymru, 17 Awst 1979, t. 17
172. Katz, John Stewart (Ed.), Perspectives on the Study of Film, Boston 1971
173. Kitchen, Margaret, "Missing Scene Left Me Dumbstruck" Liverpool Daily Post, 1 November 1995
174. Krook, Dorothea, Elements of Tragedy, Yale University Press, New Haven & London 1969
175. Lediard, Jean, Investigating Welsh Media, Welsh Arts Council & Jean Lediard 1993
176. Leech, Clifford, Tragedy - The Critical Idiom, Methuen & Co. Ltd. 1969
177. Lewis, Gwyn, "Gymerwch Chi Sigaret?" Y Faner, 20 Mawrth 1987, t. 4
178. idem., "Mother Tongue" The Observer, d.d.
179. idem. & Valentine, Lewis, Paham y Llosgasom yr Ysgol Fomio, (Araith yn Llys yr Assize, Caernarfon, 13 Hydref 1936) Plaid Cymru, Caernarfon 194?
180. Lloyd, D. Tecwyn & Hughes, Gwilym Rees, Saunders Lewis, Gwasg Christopher Davies 1975
181. Lucas, F.L., Tragedy - Serious Drama in relation to Aristotle's Poetics, Hogarth Press, London 1966
182. Lucas, Rowland, The Voice of a Nation? A Concise Account of the B.B.C. in Wales 1923 - 1973, Gwasg Gomer 1981

183. Macdonald, Syr Gordon, Atgofion Seneddol, W. Griffiths a'i Frodyr, London 1949
184. Mansfield, John, Music and Sound Effects - Sound for Television, B.B.C. Television Training 1992
185. Manvell, Roger, "The July Plot" Radio Times, 3 December 1964, p. 39
186. idem., & Fraenkel, Heinrich, The July Plot: The Attempt in 1944 on Hitler's Life and the Men Behind it, The Bodley Head, London 1964
187. Martin, Peter J., Sounds and Society - Themes in the Sociology of Music, Manchester University Press 1995
188. Mast, Gerald, The Comic Mind - Comedy and the Movies, New English Library 1973
189. Mau, H. & Krausnick, H., German History 1933-45, Oswald Wolff Ltd., London 1959 (Reprinted 1978)
190. Mehring, Margaret, The Screenplay - A Blend of Form and Content, Focal Press, Boston 1990
191. Michel, Laurence & Sewall, Richard, Tragedy: Modern Essays in Criticism, Greenwood Press Publishers, Westport, Connecticut 1963
192. Mignedd, "Hanes Theatr Fach" Baner ac Amserau Cymru, 16 Ionawr 1958, t. 5
193. Miles, Gareth, "Sylwadau ar Cymru Fydd Saunders Lewis" Barn 230, Mawrth 1982, tt. 102-3
194. idem., "Gymerwch Chi Sigaret?" Y Faner, 29 Mai 1987, tt. 10-11
195. Millerson, Gerald, Effective T.V. Production (Second Edition), Focal Press, Oxford, London, Boston etc. 1991
196. ibid., third edition 1993
197. idem., The Technique of Television Production (Twelfth Edition), Focal Press 1990
198. Moore, B.J., "What is this thing called Welsh culture?" Western Mail, d.d.
199. Morgan, Prys, "Cefndir Hanesyddol Brad" Ysgrifau Beirniadol V, gol. J.E. Caerwyn Williams, Gwasg Gee, 1970

200. Neale, Steve & Krutnik, Frank, Popular Film and Television Comedy, Routledge, London & New York 1990
201. Oakley, Robin, "How Hitler Happened", The Observer, 19 March 1969
202. Owain, O. Llew, Hanes y Ddrama yng Nghymru 1850 - 1943, Gwasg y Brython, Lerpwl 1948
203. Paice, Eric, The Way to Write for Television (Revised Edition), Elm Tree Books, London 1987
204. Palmer, Richard H., Tragedy and Tragic Theory: An Analytical Guide, Greenwood Press, Westport, Connecticut & London 1992
205. P.D., "Cynhyrchiad Cyffrous o Esther yn Abertawe" *ibid.*, d.d.
206. Pfister, Manfred, The Theory and Analysis of Drama, Cambridge University Press, Cambridge, New York etc. 1988
207. Pike, Frank (Ed.), Ah! Mischief - The Writer and Television, Faber & Faber, London 1982
208. Prendergast, Roy M., Film Music - A Neglected Art (Second Edition), W.W. Norton & Co., New York, London 1992
209. Price, Cecil, The English Theatre in Wales in the Eighteenth and Early Nineteenth Century, Cardiff University Press 1948
210. Promethiws, "Drama Gomisiwn Môn" Baner ac Amserau Cymru, 8 Awst 1957
211. *idem.*, "Tymor Newydd y Theatr" *ibid.*, 25 Medi 1958
212. *idem.*, "F.G. Fisher a'i Theatr Fach" *ibid.*, 6 Hydref 1958, t. 6
213. *idem.*, "Cnewyllyn Theatr" *ibid.*, 25 Mehefin 1959
214. *idem.*, "Dramâu yr Eisteddfod" *ibid.*, 20 Awst 1959
215. Purdie, Susan, Comedy - The Mastery of Discourse, Harvester Wheatsheaf, New York, London etc. 1993
216. Racine, Jean, Athalie, Clarendon French Series, ed. W.D. Howarth, Oxford University Press 1966
217. Richardson, Maurice, "Television" The Observer, d.d.
218. Roberts, Gomer M., "Merch Gwern Hywel" Barn, Medi 1966
219. Roberts, Iorwerth, "Presenting Saunders Lewis..." Liverpool Daily Post, 26 March 1973

220. idem., "Movie Man on the Move" Liverpool Daily Post, 28 October 1995
221. Roberts, Kate, "Dengid i Briodi" Baner ac Amserau Cymru, 25 Mehefin 1964
222. idem., "Gŵyl Ddrama Garthewin" *ibid.*, 21 Gorffennaf 1966, t. 1
223. Roberts, Wyn, "Teledu yng Nghymru" Y Chwedegau - cyfres o ddarlithoedd a draddodwyd ar deledu Harlech Ionawr - Chwefror 1970, Avalon Books, Cardiff 1970
224. Rothman, William, The 'I' of the Camera - Essays in Film Criticism, History and Aesthetics, Cambridge University Press, Cambridge, New York etc. 1988
225. Rowlands, John, "Nofelau Saunders Lewis" Ysgrifau Beirniadol V, gol. J.E. Caerwyn Williams, Gwasg Gee 1970
226. idem., "Sylwadau ar Siwan", Ysgrifau Beirniadol VIII, gol. J.E. Caerwyn Williams, Gwasg Gee 1974
227. idem., Saunders y Beirniad, cyfres Llên y Llenor, gol. J.E. Caerwyn Williams, Pantycelyn 1990
228. idem., "Saunders Lewis a Cherddoriaeth" Barn 329, Mehefin 1990
229. Russolo, Luigi, trans. Barclay Brown, The Art of Noises, Monographs in Musicology No. 6, Pendragon Press, New York 1986
230. Samuel, Graham, "T.W.W.'s fall blamed on trivial programmes", Western Mail, 13 June 1967, t. 1
231. Schaeffer, Neil, The Art of Laughter, Columbia University Press, New York 1981
232. Seldes, Gilbert, Writing for Television, Greenwood Press, New York 1968
233. Self, David, Television Drama, An Introduction, Houndmills, Basingstoke, Hampshire; Macmillan 1984
234. Sendall, Bernard, Independent Television in Britain: Volume 2 - Expansion and Change, 1958-68, Macmillan Press, London 1983
235. Sganar, "Radio a Theledu" Baner ac Amserau Cymru, 21 Rhagfyr 1961
236. *ibid.*, 8 Mawrth 1962
237. *ibid.*, 7 Chwefror 1963

238. *ibid.*, 23 Tachwedd 1967
239. Shaw, Dilys W., Theatr Fach Llangedfni 1955-83 (pamffled)
240. Society of Film and Television Arts, The Journal of the Society of Film and Television Arts, Spring / Summer 1971
241. *ibid.*, November 1975
242. *ibid.*, Vol. 2 No. 8, 1973
243. S4C, Adroddiad Blynyddol, 1987-88
244. *ibid.*, 1988-89
245. *ibid.*, 1989-90
246. S4C, 1982-87 Teledu yng Nghymru - Y Diwydiant Newydd, Caerdydd 1987
247. Steiner, George, The Death of Tragedy, Faber & Faber, London 1961
248. Stephens, Elan Closs, "Drama", The Arts in Wales 1950-75, ed. Meic Stephens, Welsh Arts Council 1979
249. Stephens, Meic (Gol.), Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru, Gwasg Prifysgol Cymru 1986 (Diwygiedig 1990)
250. Strindberg, August, cyf. Glenda Carr a Michael Burns, Miss Julie, Gwasg Prifysgol Cymru 1991
251. Swain, Dwight V., Scripting for Video and Audiovisual Media, Focal Press, London and Boston 1981
252. *idem.*, "Adaptation and its Problems", Film Scriptwriting - A Practical Manual, ed. L. Herman, World 1963
253. Tomos, Robyn, "Ble Mae'r Ffilm Gymreig?" Golwg, 2 Tachwedd 1995, tt. 13-5
254. Törnqvist, Egil, Transposing Drama - Studies in Representation, Macmillan Education Ltd. 1991
255. Tudur, Gwilym, Wyt Ti'n Cofio? Chwarter Canrif o Frwydr yr Iaith, Y Lolfa 1989
256. Tulloch, John, Television Drama - Agency, Audience and Myth, Routledge, London & New York 1990
257. Vaughan, Aled, "Siarad am ein Rhaglenni Cymraeg", T.V. Times, d.d.

258. von Schlabrendorff, Fabian, trans. Hilda Simon, The Secret War Against Hitler, Westvian Press 1994
259. von Szeliski, John, Tragedy and Fear: Why Modern Tragic Drama Fails, University of North Carolina Press, Chappel Hill 1962, 1971
260. Wheldon, Fay, "Preview", Radio Times (England Edition), 28 October 1978, p. 25
261. Welch, Jeffrey Egan, Literature and Film: An Annotated Bibliography, 1909 - 1977, Garland Publishing Inc., New York & London 1981
262. Wertheim, Arthur Frank, Radio Comedy, Oxford University Press, New York, Oxford 1979
263. Wheeler, David, "The State of the Jews" Radio Times, d.d.
264. Wiggin, Maurice, adolygiad o Brad mewn cyfieithiad, The Sunday Times, 19 April 1959
265. Williams, Arthur, "Welsh not good at comedy, says Saunders Lewis" Liverpool Daily Post, 21 June 1968
266. idem., "Welsh Training for Actors" ibid., 18 November 1968
267. idem., "Drama of Ancient Wales, ibid., 6 June 1969
268. idem., "One actor's sacrifice for Welsh theatre" ibid., 29 June 1970
269. idem., "T.V.: The Enemy of the Welsh Language" ibid., 5 July 1970
270. idem., "Big boost to Welsh drama collection" ibid., 9 July 1970
271. idem., "Welsh Theatre Facilities under Fire" ibid., 6 August 1970
272. idem., "Bid for more Welsh on T.V. will grow" ibid., 17 December 1970
273. Williams, Gwyn, Writers of Wales: An Introduction to Welsh Literature, University of Wales Press 1978
274. * , Dramâu Saunders Lewis - Y Casgliad Cyflawn Cyfrol 1, Gwasg Prifysgol Cymru, Caerdydd 1996 * Williams, Ioan
275. Williams, John Ellis, "Saunders Lewis" Tri Dramaydd Cyfoes, Dinbych 1961, tt. 9-57
276. idem., Inc yn fy Ngwaed, Llyfrau'r Dryw, Llandybïe 1963
277. Williams, Raymond, Modern Tragedy, Chatto & Windus, London 1966
278. Williams, T.J., Hanes y Ddrama Gymreig, Bangor 1915

279. Willis, Edgar E & D'Arienzo, C.(Eds.), Writing Scripts for Television, Radio and Film (Third Edition), Harcourt, Brace Jovanovich College Publishers, Fort Worth, Philadelphia etc. 1993
280. Worsley, T.C., Television: The Ephemeral Art, Alan Ross, London 1970
281. Wynne, R.O.F., "Amlyn and Amig - An Appreciation" Dock Leaves, Winter 1954, pp. 41-4
282. Ymddiriedolaeth Cronfa Goffa Saunders Lewis, Saunders Lewis: Agweddau ar ei Fywyd a'i Waith, Gomer 1991
283. Young, Kenneth, adolygiad ar gynhyrchiad teledu o Brad mewn cyfieithiad, The Daily Telegraph, 14 April 1959